# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

25 Ebrill 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo- gynadledda Dydd Mawrth, 2 Mai 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Materion Personol**

3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 3 - 6)**

5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
   **ER GWYBODAETH (Tudalennau 7 - 10)**
   a) **Gwrthwynebiad i'r bwriad i osod terfyn cyflymder 20mya yn Stags Head Rhif 69.1 – cyffordd B4578 & B4343**

6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 11 - 28)**

9. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 29 - 200)**

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Polisi Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACaRh) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 201 - 228)**

11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 229 - 296)**

12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 297 - 352)**

13. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 353 – 494)**

14. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 495 - 526)**

15. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Hysbysiad o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 4 Ebrill 2023**

Cyhoeddir yr Hysbysiad hwn am 5.00pm Dydd Iau, 6 Ebrill 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Llun, 17 Ebrill 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Eryl Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Maldwyn Lewis a Gareth Lloyd.

(10.00am- 10.57am)

**182 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Eifion Evans, Prif Weithredwr, Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**183 Materion Personol**

i. Estynnnwyd llongyfarchiadau i Sioned Harries ar ennill cap rygbi rhyngwladol rhif 71 yn erbyn yr Alban yn ddiweddar ym Mhencampwriaeth Chwe Gwlad y Merched.
ii. Estynnnwyd llongyfarchiadau i Emlyn Lewis a Lee Jenkins ar gael eu cynnwys yng ngharfan bêl-droed Cymru C ar gyfer y Gêm Her Ryngwladol yn erbyn Lloegr C yn ddiweddar.
iii. Dymunwyd yn dda i Elgan Jones, Gweithiwr Cynnal a Chadw Tiroedd, ar ei ymddeoliad ar ôl 46 o flynyddoedd o wasanaeth i Gyngor Sir Dyfed ac yna Gyngor Sir Ceredigion.
iv. Estynnnwyd llongyfarchiadau i Gareth Ward, Bwyty Ynyshir, ar lwyddo i gadw dwy seren Michelin yn y *Michelin Guide* ar gyfer Prydain ac Iwerddon 2023.
v. Hefyd estynnnwyd llongyfarchiadau i Chris a Rachel Welch, Yr Hen Printworks, ar ennill gwobr y *Bib Gourmand* yn y *Michelin Guide* ar gyfer Prydain ac Iwerddon 2023.
vi. Estynnnwyd llongyfarchiadau i Wasanaeth Cerdd Ceredigion ar y gyngerdd fawreddog a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

**184 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 192 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

**185** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**186** **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd: Lleihau terfyn cyflymder i 40mya yn Tynreithyn, Tregaron**

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

**187** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**188** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**189** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel Aelod Statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion mae angen i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cytundeb terfynol i gyhoeddi'r Cynllun.

**190** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch fersiynau diwygiedig y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant, a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

a) Cymeradwyo'r diwygiadau i:
    1. Y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol (**Atodiad 2**);
    2. Y Ffurflen Datgan Buddiant (**Atodiad 3**); a
    3. Y Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion (**Atodiad 4**)
b) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Gwneud yn siŵr bod y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion yn cael eu diweddaru ac yn rhoi eglurder a thryloywder i Swyddogion.

**191** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn **Atodiad 1**.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn gyfredol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.

**192** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal - Ffioedd y Sector Annibynnol a'r Awdurdod Lleol**

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r ffioedd a delir i Gartrefi Gofal yng Ngheredigion ar gyfer 2023/24 ar y lefelau wythnosol a ganlyn, gan ddod i rym ar 10/04/2023:

| | |
|---|---|
| Preswyl | £827.00 |
| Preswyl EMI | £884.00 |
| Nyrsio | £961.00 |
| Nyrsio EMI | £961.00 |

2. Cymeradwyo'r ffioedd a godir am Gartrefi Gofal Preswyl yng Ngheredigion ar gyfer 2023/24 ar y lefelau wythnosol a ganlyn, gan ddod i rym ar 10/04/2023:

| | |
|---|---|
| Preswyl | £827.00 |
| Preswyl EMI | £884.00 |

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn cytuno ar ffioedd i bobl hŷn ar gyfer 2023/24.

**193** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion**
Nodwyd yr adroddiad.

**194** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Mai 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **2 Mai 2023**

**Teitl:** **Deisebau a ddaeth i law**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Hysbysu'r Cabinet am unrhyw ddeisebau a ddaeth i law**

**Er gwybodaeth**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** **Amherthnasol**

Mae'r Cyngor wedi derbyn y ddeiseb canlynol:

| Teitl y ddeiseb | Nifer y llofnodwyr | Aelod Cabinet | Aelod Lleol (os ydyw'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebiad i'r bwriad i osod terfyn cyflymder 20mya yn Stags Head Rhif 69.1 – cyffordd B4578 & B4343 | 19 | Cyng Keith Henson | Cyng Rhodri Evans |

Bydd y gwasanaeth perthnasol yn awr yn ystyried cynnwys y ddeiseb.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** Amherthnasol – pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ynghylch unrhyw ddeisebau sydd wedi dod i law

***Crynodeb:***

**Hirdymor:** Amherthnasol
**Cydweithio:** Amherthnasol
**Cynnwys:** Amherthnasol
**Atal:** Amherthnasol
**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhelliad:** **Dylai'r Cabinet nodi'r ddeiseb canlynol a ddaeth i law - Gwrthwynebiad i'r bwriad i osod terfyn cyflymder 20mya yn Stags Head Rhif 69.1 – cyffordd B4578 & B4343**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** **Er mwyn hysbysu'r Cabinet am y ddeiseb / deisebau a ddaeth i law a gofyn i'r gwasanaeth / gwasanaethau perthnasol eu hystyried ymhellach.**

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Y Cyfansoddiad a'r Protocol Deisebau |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd |
| **Swyddog Adrodd:** | Lowri Edwards |
| **Dyddiad:** | 24 Ebrill 2023 |

**Objection to the Proposed Imposition of 20mph Speed Limit at Stags Head, No.69.1 - B4578 & B4342 intersection**

We, the undersigned, object to the above proposal on the following grounds:

A. The proposed 20mph limit is not necessary because:

1) The roads involved have a very low accident rate.
2) The roads involved have a low volume of traffic.

B. The proposed 20mph limit is not desirable because:

1) It will increase noise and air pollution as the vehicles will be in a low gear, especially ascending the three gradients to Stags Head crossroads.
2) Drivers will pay more attention to the finer detail of their speedometers at the expense of paying attention to the road ahead.
3) The very slow pace of vehicles could actually encourage children to play in the road.

C. The 20mph limit proposals across the county are a gross waste of public money which should be spent maintaining the road surfaces properly, keeping road drains clear and clearing debris from the sides of the highway. All of these are essential to primary road safety but are deliberately ignored by Ceredigion Council Highways Department in their ongoing negligence.

[redacted]

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 8

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2.5.23 |
| **Teitl:** | Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA) |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Derbyn cynnwys y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |

Yn unol ag adran 84 o'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 disgwylir i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun a luniwyd yn cydymffurfio gyda rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019 ac wedi ei fabwysiadu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan Gabinet Cyngor Ceredigion ar 22ain Chwefror 2022. Cymeradwy-wyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru ar yr 20 o Orffennaf 2022.
Cynlluniwyd yn strategol ar gyfer y meysydd a ganlyn er mwyn datblygu a chryfhau'r Gymraeg:

**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
**Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 5**: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgol
**Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
**Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Yn dilyn ei gymeradwyo, o dan adran 85(7) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CSGA a pharatoi cynllun gweithredu, a fydd yn cael ei fonitro yn flynyddol ar ffurf adroddiad adolygu.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi ble mae'r Awdurdod Lleol arni yn 2022 yn y meysydd hyn, ac yn egluro beth yw'r nod mewn 5 mlynedd a sut mae cyrraedd

hynny. Yn ogystal, nodir y nodau ar ddiwedd oes y Cynllun ymhen degawd. Mae'r Cynllun Gweithredu a gyflwynir yn nodi trosolwg 5 mlynedd o'r gweithdrefnau, a cheir cynllun manylach gweithredol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn nodi cyfrifoldebau staff penodol i wireddu'r camau gweithredu angenrheidiol.

Cyflwynwyd y cynllun gweithredu drafft i'r Llywodraeth ar y 23 o Ragfyr 2022. Derbyniwyd cadarnhad ar y 28 o Chwefror 2023 yn nodi bod y camau gweithredu a'r amserlen yn glir a phwrpasol. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu a gyflwynir. Ystyria Llywodraeth Cymru'r cynllun gweithredu yn ddogfen byw, hyblyg y bydd angen eu diwygio ar hyd y ffordd yn ôl anghenion a datblygiadau lleol. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n dymhorol gan Fforwm y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac is bwyllgorau yn ôl yr angen.

Un o'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu yw cychwyn y broses ymgynghori ar gyfer newid cyfrwng iaith yn y Cyfnod Sylfaen mewn pum ysgol yn y sir. Er mwyn cysoni oed derbyn y pum ysgol cytunwyd yn y CSGA y byddai tair ysgol yn newid eu hoed derbyn i 3 oed, yn hytrach na 4 oed. Yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae angen caniatâd Cabinet y Cyngor ar gyfer cychwyn y broses ymgynghori, a bydd papur yn mynd gerbron Cabinet ar 2.5.23. Pe rhoddir caniatâd gan Cabinet yn y cyfarfod hwnnw, anelir at ddilyn yr amserlen a ganlyn o ran y broses statudol o gynnal ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| 30 Mawrth 2023 | Pwyllgor Craffu |
| 2 Mai 2023 | Cabinet |
| 15 Medi – 30 Hydref 2023 | Cyhoeddi Dogfennau Ymgynghori<br>**Côd Trefniadaeth Ysgolion 3.4**<br>*Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol* |
| 9 Ionawr 2024 | Cabinet<br>**Côd Trefniadaeth Ysgolion 3.6**<br>*Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ei wefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf pythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol* |
| 22 Ionawr – 19 Chwefror 2024 | **Côd Trefniadaeth Ysgolion 4.1**<br>*Cyhoeddi notis stadudol*<br>*Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol, ond nid ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd). Rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).Rhaid cyhoeddi am 28 diwrnod* |
| 4 Mehefin 2024 | Cabinet<br>Penderfyniad i weithredu ai peidio |

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Oes, ar gyfer y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |

***Crynodeb:*** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Bydd y cynllun gweithredu'r CySGA 2022-32 Sir Ceredigion yn ddogfen fydd yn nodi'r camau i gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2032 o fewn y sir. Bydd targedau byr a hir dymor a chamau gweithredu pendant yn y byr a'r hir dymor wedi eu nodi dros y cyfnod |
| **Cydweithio:** | Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhan-ddeiliaid yn greiddiol i'r cynllun. Y cydweithio pennaf fydd rhwng swyddogion yr awdurdod a'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol. yn ogystal â rhieni drwy ymgynghoriadau lleol (Deilliant i a 2) |
| **Cynnwys:** | Bydd rhan-ddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys ar hyd y cyfnod cynllunio ac unrhyw gyfnodau ymgynghori |
| **Atal:** | Bydd y dulliau gweithredu fydd yn atal unrhyw broblemau allai godi neu waethygu drwy gyfnod y cynllun, wedi eu nodi ynddo. |
| **Integreiddio:** | Yn ei hanfod mae'r cynnig am gefnogi dyhead Cyngor Sir Ceredigion i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy ei Strategaeth Iaith. Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor a Strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | Bod y Cabinet yn cytuno:<br><br>i. i fabwysiadu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr Haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol<br>ii. i'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CSGA a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog<br>iii. i'r adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet<br>iv. yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, bod yr Awdurdod Lleol yn cychwyn ar y broses ymgynghori statudol o newid cyfrwng iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd;<br>v. bod yr ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cychwyn ar 15fed Medi 2023. |
| **Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** | I gydymffurfio gyda Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019 |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Trafodwyd yr argymhellion ym mhwyllgor Craffu a throsolwg Craffu ar 30.3.23 |
| **Fframwaith Polisi:** | Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019 |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Darparu'r Gorau mewn Bywyd a chaniatáu i bobl o bob oed i ddysgu |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Oddi fewn i gyllideb adrannol |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019 |
| **Goblygiadau staffio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Risg(iau):** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Adran 84 o’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019 |
| **Papurau Cefndir:** | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 |
| **Atodiadau:** | Atodiad A- Cynllun Gweithredu pum mlynedd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant |
| **Swyddog Adrodd:** | Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant |
| **Dyddiad:** | 4.4.23 |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Cynllun Gweithredu'r

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Trosolwg 5 mlynedd

Caru·Love Ceredigion

## Cynnwys

Nodiadau Cefndirol ..... 2

Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ..... 3

Deilliant 2 : Mwy o blant dosbarth derbyn/5oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ..... 5

(Targed ar ddiwedd y 10 mlynedd holl blant y dysgu Sylfaen yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg) ..... 5

Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. ..... 6

Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. ..... 7

Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol ..... 8

Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ..... 10

Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg ..... 11

## Nodiadau Cefndirol

Yn dilyn derbyn ein Cynllun Strategol y Gymraeg yn ddiweddar, rydym wedi llunio'r ddogfen hon er mwyn hwyluso'r broses o weithredu hanner cyntaf y cynllun. Mae rhai camau gweithredu yn rhai hir dymor ac yn barhaus ac eraill yn benodol o ran amserlen. Isod ceir gweld y camau cynnar sydd wedi eu sefydlu ers mis Medi 2022. Mae'r camau hyn yn allweddol i weithredoedd y cynllun gweithredu.

- creu trosolwg a chynllun gweithredu fesul deilliant am ddwy flynedd
- Ail-sefydlu fforwm a phenodi cadeirydd
- Sefydlu is bwyllgorau i drafod y cynlluniau gweithredu drafft
- Creu amserlen i'r cyfarfodydd dros y ddwy flynedd gyntaf.
- Apwyntio aelod o staff am ddwy flynedd i hwyluso a chyd-lynu gwaith y 5 ysgol gynradd trosiannol

Byddwn yn monitro'r gweithredoedd a'r cynllun trwy ein fforwm a hynny yn dymhorol.

## Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5<br>2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| *1.1/1.2/1.3/1.8/1.9/1.10* Gwella sgiliau gwarchodwyr unigol Gofal Plant gan eu cefnogi i fynychu cyrsiau dysgu a gloywi iaith<br>Gofal Plant – pob gofal plant – gwarchodwyr/ meithrinfeydd dydd/ gofal cofleidiol i ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – gan ffocysu ar gylch Aberystwyth. Cynlluniau penodol ac adnoddau. | | | | |
| *1.9* Rhaglen hyfforddiant/Gloywi iaith<br><br>*1.10* Trochi<br>*1.16* Asesiad digonolrwydd yn cryfhau ac ehangu darpariaeth | Asesu defnydd ac effaith yr adnodd gan dderbyn adborth ar ffurf holiaduron cyn ac ar ôl gweithredu.<br><br>Mireinio yn ôl y galw.<br><br>Rhaglen wedi ei llunio a'u rhannu gyda gwarchodwyr a sefydliadau gofal plant. Cynnig hyfforddiant ar fethodoleg Trochi fel Dysgu Proffesiynol.<br><br>Asesu defnydd ac effaith yr adnodd gan dderbyn adborth ar ffurf holiaduron cyn ac ar ôl gweithredu.<br><br>Mireinio yn ôl y galw. | | | |
| *1.4/1.11* Sefydlu partneriaeth Colegau Addysg bellach efo'r Mudiad Meithrin er mwyn ehangu gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant. Prentisiaethau Mudiad Meithrin. | Sicrhau bod aelod o'r Coleg a'r Mudiad Meithrin yn aelodau gweithredol o'r fforwm. | | | |
| *1.5/1.6* Paratoi Ymgynghoriad 1 – Newid cyfrwng x5 ysgol Comins Coch, Padarn Sant/Cei Newydd, Plascrug a Llwyn yr Eos<br>Ymgynghoriad 2 – Dosbarth Meithrin – x 3 ysgol Comins Coch, Padarn Sant/Cei Newydd<br>Penodi Athrawes Cefnogi'r Gymraeg i gydlynu'r gwaith | Cynnal ymgynghoriad Hydref 2023 a chynllunio tuag at y gweithredu yn unol â'r ymatebion<br>Holi am ganiatâd Cabinet ar gyfer mynd i ymgynghoriad ym Mai 2023<br>Ymgynghoriad 1 – Newid cyfrwng x5 Comins Coch, Padarn Sant/Cei Newydd, Plascrug a Llwyn yr Eos | Gweithredu yn dilyn yr Ymgynghoriad 1<br>Newid cyfrwng x5 Meithrin Medi 2024<br>Ymgynghoriad 2 – Dosbarth Meithrin – Comins Coch, Padarn Sant/Cei Newydd | Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – Derbyn | Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – Blwyddyn 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymgynghoriad 2 – Dosbarth Meithrin – Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd | | | |

| | |
|---|---|
| *1.7* Swyddog ychwanegol cefnogi ysgolion trosiannol i gydweithio gyda Dechrau'n Deg – Penparcau a'r tîm i gefnogi'r gwaith | Rhaglen wedi ei llunio a'u rhannu gyda gwarchodwyr a sefydliadau gofal plant. Cynnig hyfforddiant ar fethodoleg Trochi fel Dysgu Proffesiynol.<br><br>Asesu defnydd ac effaith yr adnodd gan dderbyn adborth staff Dechrau'n Deg Penparcau a'r swyddog.<br><br>Mireinio yn ôl y galw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *1.12/1.13* Paratoi - Ysgol Dyffryn Aeron – ysgolion Newydd – plant 3 oed Cyfrwng Cymraeg - | Paratoi - ysgol Dyffryn Aeron – ysgolion Newydd – plant 3 oed cyfrwng Cymraeg | Ysgol Dyffryn Aeron – ysgolion Newydd – plant 3 oed cyfrwng Cymraeg | Yn weithredol – ymgyrch farchnata'r Ysgol – cyd weithio efo Mudiad Meithrin /Gofal Plant |

*1.14* Plant cyn 2-3 oed ehangu'r ddarpariaeth– 'Sefydlu a Symud' a'r tîm Gofal Plant gan ganolbwyntio ar gylch Aberystwyth yn benodol

*1.15* Gwefan Cyngor Sir Ceredigion – manteision y Gymraeg – cydweithio rhwng yr adran addysg a gofal plant. Rhannu Byw a Bod llyfryn gwybodaeth gyda Mudiad Meithrin /Gofal Plant

| | |
|---|---|
| *1.17/1/18* Prosesau mewnol – gwybodaeth Clic a Derbyniadau | Gweithredol erbyn derbyniadau Pasg |

*1.19* Darpariaeth grwpiau chwarae. Parhau i gefnogi grwpiau penodol- cynyddu darpariaeth gan rannu gwaith digidol y tîm
Cydweithio efo Mudiad Meithrin,/Cylch Ti a Fi, Canolfannau Teulu/Dechrau'n Deg yn enwedig yng nghylch Aberystwyth

## Deilliant 2 : Mwy o blant dosbarth derbyn/5oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
## (Targed ar ddiwedd y 10 mlynedd holl blant y dysgu Sylfaen yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg)

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|
| *2.1/2.2/2.3* Cefnogi'r ymgynghoriad (D1) Dosbarth Meithrin | Cynnal y broses ymgynghori Ymgynghoriad Dosbarth Meithrin yn cyd redeg<br>Cynnal ymgynghoriad Hydref 2023 a chynllunio tuag at y gweithredu yn unol â'r ymatebion<br>Holi am ganiatâd Cabinet ar gyfer mynd i ymgynghoriad ym mhwyllgor Mai 2023.<br>Ymgynghoriad 1 – Newid cyfrwng x5 Comins Coch, Padarn Sant,Cei Newydd, Plascrug a Llwyn yr Eos<br>Ymgynghoriad 2 – Dosbarth Meithrin – Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd | Gweithredu yn dilyn yr Ymgynghoriad 1<br>Newid cyfrwng x5 Meithrin Medi 2024<br>Ymgynghoriad 2 – Dosbarth Meithrin – Medi 2024<br><br>Dosbarth Meithrin yn weithredol | Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 |
| *2.11 Y*n sgil derbyn grant estyniad ysgol Gymraeg Aberystwyth – lle i 28 o ddisgyblion ychwanegol ar yr oed cynradd – athrawes a chynorthwyydd i'r Ganolfan Iaith | Amserlen adeiladu<br><br>Cefnogi athrawon yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf | Yn sgil derbyn grant estyniad ysgol Gymraeg Aberystwyth – lle i 28 o ddisgyblion ychwanegol ar yr oed cynradd<br>Apwyntio athrawes a chynorthwyydd i'r Ganolfan Iaith | Derbyn Plant Blwyddyn 2 i'r dosbarth hwyrddyfodiad/gloywi | |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5<br>2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| *3.1* Categoreiddio Ysgolion – creu cynllun gweithredu o ran symud yr ddarpariaeth dros y 5 mlynedd nesaf. Apwyntiad Athrawes Cefnogi'r Gymraeg newydd i hwyluso'r gwaith dros ddwy flynedd. | Gweithredu cynlluniau gweithredu Ysgolion cynradd ac Uwchradd<br><br>Monitro cynnydd y Cynlluniau Gweithredu gan ymateb i unrhyw heriau<br>Gosod a monitro targedau ymarferol yn rhan o'r cynlluniau gweithredu. | | | |
| *3.1 - 3.5 - 3.7* Cynyddu'r dilyniant a'r niferoedd sydd yn astudio ar gyfer cymwysterau Cyfrwng Cymraeg -Cynnal awdit o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol a chreu cynlluniau gweithredu. | Parhau sgyrsiau cyrff Llywodraethol/cefnogaeth | Gweithredu ar sgyrsiau cyrff Llywodraethol. Ymgynghoriadau yn unol â hynny. | | |
| *3.2* Cynnydd canrannol yn y dilyniant o CA2 i CA3 yn Cylch Aberystwyth – | Targedu'r disgyblion bl 5 a 6 cynradd i drosglwyddo i addysg Gymraeg gan greu cwrs a darpariaeth Carlam. | Defnyddio adeilad pwrpasol estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth. | Defnyddio adeilad pwrpasol estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth. | Defnyddio adeilad pwrpasol estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth. |
| | | | | *3.3* Adeiladu ar y sail gadarn a goswyd yn y Cyfnod Sylfaen fel bod disgyblion 7-11 oed yn parhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol |
| *3.4* Cefnogi Mathemateg a Gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg | Cefnogi'r ysgolion ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant ac unrhyw adnoddau. | | | |
| *3.8* Dechrau sgyrsiau cefnogaeth gydag ysgol Categori 1 | Cefnogaeth i lunio'r cynllun gweithredu gan athrawes Cefnogi'r Gymraeg. | Monitro'r cynllun gweithredu ac ymgynghori at ddatblygu ar hyd y continwwm. | | |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5<br>2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| *4.1 - 4.2* Parhau gyda'r dilyniant ieithyddol presennol ar draws y sir | | | | |
| *4.3* Trosglwyddiad o'r ysgol Gynradd i'r uwchradd yng nghylch Aberystwyth | Monitro targedau trosglwyddo CA2/3 | | | |
| *4.4* Hyfforddiant gloywi iaith ar gyfer athrawon di-hyder | | | | |
| *4.5 - 4.6* cefnogi ysgolion gyda'r newidiadau yn sgil Cwricwlwm i Gymru efo'r Gymraeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu.<br>Cefnogi ar lefel ysgol gyda chefnogaeth benodol o ran cynllunio darpariaeth ac addysgeg yn bennaf trwy gefnogaeth Cydlynydd Cwricwlwm i Gymru a Thîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg<br>Hyrwyddo Gwaith Ysgol i Ysgol<br>Sefydlu rhwydweithiau clwstwr er mwyn sicrhau dealltwriaeth gytûn o egwyddorion cynnydd<br>Sicrhau bod y cynllun gweithredu yn sgil categoreiddio yn arwain ysgolion ar hyd gontinwwm ieithyddol gadarn ac uchelgeisiol | Parhau i gydweithio gyda Phartneriaeth o ran rhwydwaith Penaethiaid Adrannau Cymraeg Uwchradd | | | |
| *4.7* Yn sgil categoreiddio cynnig cefnogaeth i ysgolion i gynyddu darpariaeth o bynciau cyfrwng Cymraeg | | | | |
| | *4.8* Cydweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Cymraeg yn cael ei gynnig fel pwnc safon Uwch yn unol â chanfyddiadau ymgynghoriad ôl 16. | | | |
| *4.9* Cydweithio gydag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr. Rhannu a Defnyddio adnoddau cenedlaethol | | | | |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5<br>2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| *5.1* Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg Mewn Addysg i arwain ar waith y Siarter Iaith ac i gydweithio gydag amrywiaeth o ran-ddeiliaid gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion. | | | | |
| *5.2* Ymgyrch Hyder - Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg i gydweithio gyda'n ysgolion uwchradd yn benodol | Sefydlu gweithgor i gyd drafod y syniad ac edrych ar wahanol opsiynau. Gosod cynllun | Dechrau ar y gwaith | Parhau gyda'r gwaith | Adolygu'r cynllun |
| *5.3* Llunio holiadur fel gwaelodlin i'r uchod i'w chwblhau gan ddisgyblion ysgolion uwchradd y sir o ran hyder a chanfyddiad. | Paratoi yn nhymor Haf 2023<br>Medi 2023 yn rhyddhau | Ionawr dadansoddi a chreu cynllun gweithredu | Paratoi yn nhymor Haf 2025<br>Medi 2025 yn rhyddhau | Ionawr dadansoddi a chreu cynllun gweithredu |
| | *5.4* Bod o mwyafrif helaeth o glybiau ôl ysgol yn cynnig darpariaeth Cymraeg yn bennaf dros gyfnod y cynllun hwn. | Casglu data ac adrodd ar gynnydd | | |
| *5.5* Cydweithio o fis Medi 2022 ymlaen gydag Ysgol Henry Richard gan ddefnyddio a rhannu tystiolaeth o brosiect ymchwil 'Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg' i ddatblygu ymhellach ar agweddau cadarnhaol. | Cais i'r ymchwil ail ymweld ag ardal Tregaron i asesu oes newid ers yr adroddiad diwethaf<br>Rhannu canfyddiadau | | | |
| *5.6* Llunio a dadansoddi holiadur y Gymraeg mewn addysg bob dwy flynedd er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth am anghenion ysgolion, tueddiadau ieithyddol, rhwystrau, manylion y siarter ayyb. Bydd yr holiadur yn cynnig targedau gweithredu ymarferol dros gyfnod.<br><br>*5.6 a 5.3* Yr holiaduron i'w cynnal ar yr un cyfnod | Paratoi yn nhymor Haf 2023<br>Medi 2023 yn rhyddhau<br>Tachwedd 2023 dadansoddi a chreu cynllun gweithredu | | | |
| *5.7* Sefydlu, o'r newydd, fforwm ar gyfer monitro gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda sylw penodol i'r elfen o ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg.<br>Is bwyllgor o sefydliadau partneriaid plant a phobl ifanc yn cael ei sefydlu ym mis Hydref 20/10/22 | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *5.8* Cydweithio gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn ehangu darpariaeth lle gall disgyblion cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg<br>Cyfuno Gwaith 5.7, 5.8, 5.18 | Medi 2023 Sefydlu gweithgor o amrywiol sefydliadau i gyfrannu at fapio y ddarpariaeth | | | |
| *5.10* O fewn 5 mlynedd, ein dymuniad yw gweld bod mwy o ddisgyblion yn astudio Addysg Gorfforol trwy gyfrwng y Gymraeg a bod staff gwasanaethau hamdden y sir yn hyderus i ddysgu/hyfforddi yn ddwyieithog | Casglu data presennol a mesur effaith cynllun Hyder – Cwrs Preswyl Chwaraeon | | | 50% o ddisgyblion y Sir sy'n astudio Addysg Gorfforol yn gwneud trwy gyfrwng y GYmraeg |
| *5.11* Datblygu hyder unigolion penodol i gefnogi Hamdden yn ddwyieithog. | | | | |
| Parhau gyda chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer arweinyddion y Siarter Iaith i rannu syniadau, rhannu rhwystredigaethau ac arfer dda, cynllunio ar y cyd ayyb | | | | |
| Darparu gweithgareddau ar gyfer diwrnodau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg megis Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, Gŵyl Ddewi ayyb. | Parhaus | | | |
| Cardi-Iaith (@Cardiiaith): sefydlu tudalen Facebook i rannu gwybodaeth, cyflwyno sgiliau iaith, patrymau iaith, ymglymiad a chefnogaeth i rieni, hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg o fewn y sir o fewn addysg a rhannu gweithgareddau sefydliadau/mudiadau Cymraeg eraill. | Adroddiad effaith yn flynyddol i'r tîm Cyfathrebu | | | |
| Prosiect Cerddoriaeth | Y prosiect ar waith.<br><br>Datblygu perthynas pellach gyda'r gwasanaeth yn dilyn penodiad newydd | | | |
| Darparu hyfforddiant ar lein fydd yn hyrwyddo elfennau o'r Gymraeg yn ddigidol e.e. Podlediadau, darparu adnoddau ayyb. | | | | |
| Cydweithio gyda phartneriaid y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol i weld yr hyn sy'n bosibl o ran y defnydd o gemau cyfrifiadurol, dylanwadau a dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol ayyb drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Trefnu gyda Stwnsh/PopT tudalen youtube S4C i wneud ymgyrch hyrwyddo a marchnata | | | | |
| Law yn llaw gyda phartneriaid allweddol byddwn yn parhau i ddiwygio'n map darpariaeth yn flynyddol fel cofnod o'r hyn sydd ar gael i blant oed ysgol er mwyn iddynt ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn gymunedol a chymdeithasol.<br><br>Cyfuno Gwaith *5.7, 5.8, 5.18* | | | | |

## Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

| Blwyddyn 1<br>2022 - 23 | Blwyddyn 2<br>2023 - 24 | Blwyddyn 3<br>2024 - 25 | Blwyddyn 4<br>2025 - 26 | Blwyddyn 5<br>2026 -27 |
|---|---|---|---|---|
| *6.1* Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ein hysgolion ac adnoddau priodol i gefnogi | | | | |
| *6.2* Parhau i ddatblygu'r sefyllfa o ran hyfforddiant gan greu cyflwyniadau digidol/rhithwir mwy arbenigol yn y ddwy iaith fel bod staff ysgolion yn gallu dewis yr iaith maent am ei defnyddio ar sail unigol | | | | |
| *6.7* Datblygu ein systemau er mwyn gweithredu ar ofynion a goblygiadau'r Ddeddf a'r Cod ADY o fewn ein hysgolion yn ogystal â'n darpariaeth canolog | | | | |
| | *6.5* Sicrhau fod unrhyw staff newydd sydd yn cael eu penodi yn gallu siarad Cymraeg a darparu mewnbwn trwy'r iaith Gymraeg. Ble nad yw hyn yn bosibl oherwydd arbenigedd y sgiliau proffesiynol, bod y staff yn ymrwymo i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o gael eu hapwyntio. | | | |
| | *6.8* Parhau i gydweithio a rhannu arfer dda gydag Awdurdodau Lleol eraill | | | |
| | | *6.3* Rhoi darpariaeth trwy'r Gymraeg yn ei le ym mhob achos gan gynnwys mewnbwn gan yr athrawes ymgynghorol ar gyfer amhariad clyw trwy wneud addasiadau rhesymol e.e. sicrhau partneriaeth gyda Chymhorthydd Dysgu Cymraeg fel cyfieithydd a defnyddio therapydd iaith a lleferydd ble fo angen arwyddo | | |
| | | *6.6* Codi ymwybyddiaeth a disgwyliadau'r gweithlu blynyddoedd cynnar o ran datblygu sgiliau iaith Cymraeg a chyfeirio nhw at ddatblygiad proffesiynol sydd ar gael am ddim. Cynnwys y wybodaeth yma yn y gynhadledd flynyddol. | | |
| | | | *6.10* Cydweithio ar draws rhanbarth Hywel Dda ar effaith gadarnhaol y strategaeth blynyddoedd cynnar a'r system integreiddio ar ddatblygiad sgiliau'r Gymraeg | |
| | | | | *6.9* Cydweithio gyda'r Swyddog Arweinydd Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) ac asiantaethau eraill o ran |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pwysigrwydd sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu a’r ddarpariaeth. |

## Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

| Blwyddyn 1<br>2022-23 | Blwyddyn 2<br>2023-24 | Blwyddyn 3<br>2024-25 | Blwyddyn 4<br>2025-26 | Blwyddyn 5<br>2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| *7.1* Sicrhau llwybr gyrfa a chefnogaeth I’r athrawon/dirprwy brifathrawon/uwch athrawon.<br><br>Creu bas data cyfredol o pwy sydd wedi derbyn pa hyfforddiant arweinyddol a diwygio yn flynyddol | | | | |
| *7.2* Defnyddio dogfen cynllun y ‘Gweithlu Cymraeg mewn Addysg’ Llywodraeth Cymru a rhannu efo Adnoddau Dynol, gan ddefnyddio data cyfrifiad staff blynyddol fel modd o gynllunio’r Gweithlu. | Diweddaru yn ôl yr angen | | | |
| *7.3* Cydweithio efo’r Academi Arweinyddiaeth i ddenu prifathrawon i Geredigion – Ymgyrch farchnata | | | | |
| *7.4 a 7.5* Cefnogi sgiliau ieithyddol ysgolion trosiannol<br>Capasiti ychwanegol Ionawr 2023 | | | | |
| *7.7 – 7.15* Cydweithio efo Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon, Ysgolion a disgyblion Bl 10 - 13, Colegau Addysg Bellach a Mudiad Ysgolion Meithrin i ddenu mwy o weithwyr i’r sector. | | | | |
| *7.16* Creu cynllun o hyfforddiant ar fethodoleg dysgu dwyieithog. | Ystyried cydweithio gyda phartneriaid addas ar gyfer creu pecyn o adnoddau / hyfforddiannau ar gyfer athrawon sy’n dysgu mewn dosbarthiadau cymysg ieithyddol. | | | |
| *7.17* Parhau efo hyfforddiant lefel uchel yn ymwneud â’r Gymraeg.<br>Cyfres o hyfforddiannau lefel sirol a chydweithio gyda gweithgor Arweinwyr y Gymraeg yn rhanbarthol i gefnogi Cymraeg mewn ysgolion Saesneg | Trafod gyda darparwyr allanol yn ogystal â chynllunio darpariaeth mwy penodol. | | | |

# Cyngor Sir Ceredigion

**ADRODDIAD I'R:** **Cabinet**

**DYDDIAD:** **2 Mai 2023**

**LLEOLIAD:** **Hybrid**

**TEITL:** **Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Cymunedau sy'n Dysgu ar y Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA)**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023**

**CEFNDIR:**

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu y Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA) yn eu cyfarfod ar 30 Mawrth 2023. Yn unol ag adran 84, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, roedd disgwyl i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Mabwysiadwyd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan Gabinet Cyngor Sir Ceredigion ar 22 Chwefror 2022. Cymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru ar 20 Gorffennaf 2022.

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun, o dan adran 85(7), Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CySGA a pharatoi cynllun gweithredu, a fyddai'n cael ei fonitro yn flynyddol ar ffurf adroddiad adolygu. Roedd y Cynllun Gweithredu yn nodi lle'r oedd yr Awdurdod Lleol arni yn 2022 yn y meysydd dan sylw ac roedd yn egluro beth oedd y nod ymhen 5 mlynedd a sut y byddai modd cyrraedd hynny. Yn ogystal, amlinellwyd y nodau a'r hyn a ddisgwylid ar ddiwedd oes y Cynllun ymhen degawd. Roedd y Cynllun Gweithredu a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau dros 5 mlynedd, ac roedd y cynllun gweithredol mwy manwl ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn nodi cyfrifoldebau staff penodol o ran gwireddu'r camau gweithredu angenrheidiol.

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y cynllun gweithredu i'r Llywodraeth ar 23 Rhagfyr 2022. Cafwyd cadarnhad ar 28 Chwefror 2023 fod y camau 3 gweithredu a'r amserlen yn glir ac yn bwrpasol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Un o'r camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu oedd dechrau'r broses ymgynghori ar gyfer newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen mewn pum ysgol yn y sir. Er mwyn cysoni oed derbyn y pum ysgol, cytunwyd yn y CySGA y byddai tair ysgol yn newid eu hoed derbyn i 3 oed, yn lle 4 oed. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, roedd angen caniatâd Cabinet y Cyngor ar gyfer dechrau'r broses ymgynghori, a byddai papur yn mynd gerbron y Cabinet ar 2.5.23. Derbyniodd y Pwyllgor fanylion am yr amserlen o ran y broses statudol ynghylch cynnal ymgynghoriad pe byddai'r Cabinet yn rhoi ei ganiatâd yn y cyfarfod hwnnw

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell i'r Cabinet:-

i. i fabwysiadu Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol;

ii. y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CySGA a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog;

iii. y byddai adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, y Pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet; ac

iv. yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, y byddai'r Awdurdod Lleol yn dechrau ar y broses o newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd. Yn ogystal, byddai ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cyd-fynd â hyn. Byddai'r cyfnodau ymgynghori hyn yn dechrau ar 15 Medi 2023.

**Y Cynghorydd Endaf Edwards**
**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Mai 2023 |
| **Teitl:** | Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cyflwyno'r ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' a fydd yn disodli'r ddogfen 'Datblygu'r Ddarpariaeth Addysg hyd at 2020'. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |

**Cefndir**

Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chod statudol o ran trefniadaeth ysgolion a chyflwynodd gymal rhagdybiaeth yn erbyn cau ar gyfer ysgolion gwledig.

Mae diffiniad ysgol wledig wedi'i bennu gan Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac o ganlyniad, mae 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig.

Yn sgil cyflwyno canllawiau statudol newydd Llywodraeth Cymru, disodlwyd y Polisi Adolygu Ysgolion gan Lawlyfr Trefniadaeth Ysgolion sy'n rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn wrth gynnal adolygiad ysgol ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cabinet ar 15 Mehefin 2021.

**Y sefyllfa bresennol**

Mae'r cod statudol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar y cynnig hwnnw, ac wrth benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau ysgol wledig.

Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid paratoi a chyflwyno papur cynnig i'r Ffrwd Waith Cymunedau sy'n Dysgu. Yn dilyn cyfarfod y Ffrwd Waith Craffu, cyflwynir y papur cynnig i'r Cabinet i ystyried a ddylid:
a) Cymeradwyo'r cynnig a mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol
b) Gwrthod y cynnig
c) Cynnig opsiwn amgen

Yna bydd y papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn cynnal Ymgynghoriad Statudol.

Mae'r ddogfen 'Cynllunio'r Ddarpariaeth Addysg hyd at 2020' bellach wedi dyddio ac felly mae'n amserol cyflwyno dogfen sy'n amlinellu'r egwyddorion ar gyfer cynnal isadeiledd addysg cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' wedi'i hatodi **(Atodiad A)**. Mae hon yn disodli'r ddogfen 'Cynllunio'r Ddarpariaeth Addysg hyd at 2020'.

Bydd yr egwyddorion a nodwyd yn Adran 1.2 y ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' (Atodiad A) yn sail i unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch cynigion i ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth weithredu unrhyw gynigion i ad-drefnu ysgolion a cheir crynodeb ohonynt yn y 'Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion' (Atodiad C).

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | Amherthnasol gan nad yw'n cyfeirio at newid polisi |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' (Atodiad A) |
| **Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** | Bydd unrhyw gynnig i ad-drefnu yn y dyfodol yn seiliedig ar un neu fwy o'r egwyddorion a nodwyd yn adran 1.2 y ddogfen Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar 30 Mawrth 2023 |
| **Fframwaith Polisi:** | |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau staffio:** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Amherthnasol |
| **Risg(iau):** | |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<br>Cod Trefniadaeth Ysgolion- Cod Statudol Llywodraeth Cymru- 011/2018 |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Atodiad A- Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy<br>Atodiad B- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018<br>Atodiad C- Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion 2021 2021<br>Atodiad D- Datblygu Addysg 2020 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant |
| **Swyddog Adrodd:** | Nia James, Rheolwr Corfforaethol- Adnoddau Dysgu |
| **Dyddiad:** | 31 Mawrth 2023 |

# Cyngor Sir Ceredigion

# Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy



Fersiwn: Drafft V8 03.04.23

Cymeradwywyd:

# ADRAN 1: Cyflwyniad ac Egwyddorion

## 1.1 Cyflwyniad

Y pwrpas yw amlinellu egwyddorion Cyngor Sir Ceredigion wrth ddatblygu darpariaeth ac isadeiledd ysgolion.

**Nodau ac amcanion** y strategaeth hon yw rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i blant a phobl ifanc Ceredigion:

1. i ddysgu a ffynnu mewn ysgol/lleoliad sy'n cynnig y profiadau dysgu gorau posibl mewn amgylchedd dysgu sy'n addas i'r diben
2. i hybu a chefnogi lles, a model gofal plant integredig i deuluoedd
3. i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn gymwys i ddiwallu anghenion cyflogwyr a chymunedau yn y dyfodol
4. i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn falch o gyfrannu at gymdeithas ddwyieithog

Mae nodau ac amcanion y strategaeth hon yn cyd-fynd â dogfennau allweddol eraill a ffyrdd o weithio fel yr amlinellir isod:

- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant
- Cenhedloedd Unedig Hawliau'r Plentyn
- Cwricwlwm i Gymru
- Bil a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cymraeg 2050
- Cynllun Llesiant lleol 2023-2028
- Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027
- Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2021-2031
- Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant
- Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-
- Tyfu Canolbarth Cymru
- Strategaeth Gydol Oed a Llesiant

### 1.2 Egwyddorion craidd

1. Parhau i sicrhau darpariaeth, arweinyddiaeth a safonau rhagorol mewn ysgolion/lleoliadau ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion, sy’n adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru a’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol
2. Parhau i feithrin gallu i sicrhau bod gan Arweinwyr Ysgolion yr amser priodol i arwain a rheoli eu hysgolion
3. Parhau i ddatblygu darpariaeth Gymraeg i sicrhau cymwyseddau dwyieithog ein plant a phobl ifanc
4. Parhau i ddatblygu darpariaeth addysg ar gyfer plant 3 oed mewn ysgolion fel sy'n briodol
5. Darparu amgylcheddau dysgu rhagorol i blant, pobl ifanc, staff a’r gymuned ehangach
6. Gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau i sicrhau isadeiledd cynaliadwy
7. Sicrhau mynediad cyfartal a theg at ystod eang o gyfleoedd dysgu cyrsiau ôl-14 ac 16 i baratoi plant a phobl ifanc medrus iawn a chymwys ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu’r gweithle

**Bydd unrhyw gynnig i ad-drefnu yn y dyfodol yn seiliedig ar un neu ragor o’r egwyddorion a nodir uchod yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.**

**2.1 Sut mae Isadeiledd Addysg wedi newid ers troad yr 21ain ganrif**

- Adeiladwyd 3 ysgol gynradd ardal 3-11 cyfrwng Cymraeg newydd – Bro Sion Cwilt, T. Llew Jones a Dyffryn Cledlyn
- Datblygwyd 3 ysgol pob oed newydd – Ysgol Bro Pedr, Ysgol Henry Richard ac Ysgol Bro Teifi
- Sefydlwyd amrywiaeth o ffederasiynau ffurfiol ac anffurfiol rhwng ysgolion
- Sefydlwyd 5 Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn y sector Cynradd a 4 o fewn y sector Uwchradd
- Cynyddwyd nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg i blant 3 oed
- Newidiwyd categori iaith 2 ysgol gynradd
- Lleihawyd nifer yr ysgolion cynradd o 70 i 36
- Datblygwyd 3 canolfan drochi ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg
- Datblygwyd Canolfan Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn cefnogi disgyblion â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a'u hailintegreiddio yn ôl i ysgol brif ffrwd.
- Cyflawnwyd rhaglen Band A yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ar gost o £40.1m. Roedd hyn yn cynnwys:
    - ysgol 3-19 newydd yn Llandysul, Ysgol Bro Teifi;
    - ysgol ardal 3-11 newydd yn Nrefach, Ysgol Dyffryn Cledlyn
    - adain gynradd newydd ac adnewyddu ysgol uwchradd yn Nhregaron er mwyn creu ysgol 3-16, Ysgol Henry Richard
    - Ysgol Gynradd Comins-coch – ymestyn a chael gwared ag ystafell ddosbarth y gellir ei datod
    - Ysgol Gynradd Llanilar – ymestyn a chael gwared ag ystafell ddosbarth y gellir ei datod

## 2.2 Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a Grantiau cyfalaf eraill

**Band B**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu'r canlynol fel rhan o raglen Band B yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru:

- Ysgol Uwchradd Aberteifi – adnewyddu ac ymestyn yr ysgol bresennol
- Ysgol Gynradd Aberteifi – adnewyddu ac ymestyn
- Ysgol 3-11 Dyffryn Aeron – ysgol ardal 3-11 newydd yn Nyffryn Aeron
- Canolfan y Môr – estyniad i'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Uwchradd Aberaeron

**Grantiau 100% Cyfalaf**

- Estyniad i Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid
- Cyfraniad i waith prosiect Ysgol Gynradd Aberteifi
- Estyniad i Ysgol Gynradd Cenarth
- Ailfodelu i Ysgol Henry Richard

**Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**


- Mae Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn rhaglen dreigl 9 mlynedd y gall Awdurdodau Lleol gael mynediad iddi pan fyddant yn 60% trwy Fand B yn amodol ar gymeradwyaeth y Rhaglen Amlinellol Strategol.


| Blynyddoedd | Disgwyliad |
|---|---|
| 1, 2 a 3 | Disgwylir i brosiectau gyrraedd Achos Busnes Llawn o fewn y 3 blynedd |
| 4, 5 a 6 | Prosiectau sy'n cael eu datblygu ac sy'n mynd trwy ymgynghoriad Statudol |
| 7, 8 a 9 | Prosiectau yn yr arfaeth |

- Y disgwyl yw bod y Rhaglen Amlinellol Strategol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2024 a fydd yn cynnwys cynlluniau'r Awdurdod Lleol ar gyfer isadeiledd addysg am y 9 mlynedd nesaf (2024 – 2033).
- Bydd angen clustnodi arian cyfatebol ar gyfer unrhyw brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Amlinellol Strategol

## 3. Mapiau o Ddarpariaeth Addysg

***Map yn dangos lleoliad ysgolion cynradd, uwchradd a chanol yng Ngheredigion***







**ALLWEDD/ KEY**

1 – Craig yr Wylfa
2 – Talybont
3 – Rhydypennau
4 – Penrhyncoch
5 – Comins Coch
6 – Padarn Sant
7 – Ysgol Gymraeg
8 - Plascrug
9 – Llwyn yr Eos
10 – Penllwyn
11 – Syr John Rhys
12 – Mynach
13 – Llanfihangel y Creuddyn
14 - Llanfarian
15 – Llanilar
16 - Llangwyryfon
17 – Rhos Helyg
18 - Myfennydd
19 - Llanon
20 - Pontrhydfendigaid
21 – Henry Richard
22 – Y Dderi
23 – Bro Pedr
24 – Felinfach
25 – Dihewyd
26 – Ciliau Parc
27 – Aberaeron
28 – Llanarth
29 – Ceinewydd
30 – Bro Sion Cwilt
31 – Talgarreg
32 – Dyffryn Cledlyn
33 – Bro Teifi
34 – T. Llew Jones
35 - Aberporth
36 - Penparc
37 - Aberteifi
38 - Llechryd
39 - Cenarth

***Map yn dangos lleoliad ysgolion gyda darpariaeth feithrin***



***Map yn dangos lleoliad canolfannau adnoddau arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd***




**KEY**

**Primary provision**

● - Pili Pala, Enfys, ALC1 & ALC2, Llwyn yr Eos

▲– Canolfan y Don, Aberporth

★- ALN Unit Dyffryn Aeron (proposed provision)


**Secondary Provision**

★– Learning Resource Centre & Hearing Resource Base, Penglais


● – Canolfan y Bont, Bro Pedr, Lampeter

▲– Canolfan y Môr, Aberaeron

***Map yn dangos lleoliad Ysgolion Cymraeg/Saesneg/Dwy ffrwd o fewn y sector Cynradd***



***Map yn dangos lleoliad a darpariaeth iaith ysgolion o fewn y sector Uwchradd***



### 3.5 Niferoedd disgyblion

**sefyllfa ar hyn o bryd**

***Tabl yn dangos niferoedd disgyblion, lleoedd a lleoedd gwag yn ysgolion Ceredigion am y 3 blynedd diwethaf***

**Cynradd**

| | Nifer y disgyblion | Lleoedd |
|---|---|---|
| **CYBLD 2021** | 4,696 | 5,516 |
| **CYBLD 2022** | 4,582 | 5,516 |
| **CYBLD 2023*** | 4,568 | 5,538 |

**Uwchradd**

| | Nifer y disgyblion | Lleoedd |
|---|---|---|
| **CYBLD 2021** | 4,220 | 5,873 |
| **CYBLD 2022** | 4,299 | 5,873 |
| **CYBLD 2023*** | 4,309 | 5,873 |

* Data CYBLD wedi'i gyflwyno Ionawr 2023 - Data eto i'w ddilysu

**Niferoedd disgyblion cynradd fesul ysgol – data CYBLD**

| | 2021 | 2022 | 2023* | Lleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron (Cynradd) | 197 | 196 | 197 | 201 |
| Aber-porth | 146 | 157 | 161 | 181 |
| Aberteifi (Cynradd) | 378 | 374 | 367 | 421 |
| Bro Pedr | 321 | 321 | 322 | 376 |
| Bro Sion Cwilt | 99 | 100 | 93 | 147 |
| Bro Teifi | 306 | 309 | 300 | 360 |
| Ceinewydd | 77 | 82 | 83 | 98 |
| Cenarth | 61 | 75 | 75 | 73 |
| Ciliau Parc | 76 | 62 | 71 | 68 |
| Comins-coch | 174 | 153 | 144 | 185 |
| Craig Yr Wylfa | 35 | 27 | 24 | 74 |
| Dihewyd | 34 | 30 | 28 | 35 |
| Dyffryn Cledlyn | 103 | 103 | 101 | 120 |
| Felin-fach | 48 | 50 | 54 | 60 |
| Henry Richard | 112 | 115 | 119 | 120 |
| Llannarth | 52 | 52 | 61 | 86 |
| Llanfarian | 47 | 42 | 38 | 56 |
| Llanfihangel-y-Creuddyn | 26 | 24 | 22 | 37 |
| Llangwyryfon | 39 | 30 | 26 | 55 |
| Llanilar | 113 | 115 | 105 | 129 |
| Llan-non | 32 | 36 | 41 | 59 |
| Llechryd | 62 | 67 | 62 | 99 |
| Llwyn yr Eos | 210 | 195 | 189 | 219 |
| Myfenydd | 70 | 71 | 70 | 91 |
| Mynach | 38 | 35 | 35 | 51 |
| Padarn Sant | 135 | 122 | 138 | 134 |
| Pen-llwyn | 42 | 38 | 35 | 55 |
| Penparc | 102 | 93 | 90 | 146 |
| Penrhyn-coch | 94 | 89 | 94 | 110 |
| Plascrug | 395 | 395 | 396 | 409 |
| Pontrhydfendigaid | 71 | 67 | 67 | 74 |
| Rhos Helyg | 62 | 59 | 61 | 104 |
| Rhydypennau | 162 | 162 | 165 | 193 |
| Syr John Rhys | 23 | 22 | 21 | 39 |
| T. Llew Jones | 163 | 153 | 145 | 180 |
| Talgarreg | 45 | 38 | 37 | 63 |
| Tal-y-bont | 74 | 70 | 78 | 127 |
| Y Dderi | 106 | 101 | 98 | 133 |
| Yr Ysgol Gymraeg | 366 | 352 | 355 | 370 |
| **CYFANSWM** | **4,696** | **4,582** | **4,568** | **5,516** |


*

* Data CYBLD wedi'i gyflwyno Ionawr 2023 - Data eto i'w ddilysu

## Data CYBLD 2023* - Sector Cynradd fesul blwyddyn ysgol

| Ysgol | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | R-6 | Cap |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron (Cynradd) | 32 | 28 | 29 | 28 | 27 | 22 | 31 | 197 | 201 |
| Aber-porth | 23 | 25 | 21 | 23 | 27 | 17 | 25 | 161 | 181 |
| Aberteifi (Cynradd) | 50 | 48 | 48 | 52 | 54 | 58 | 57 | 367 | 421 |
| Bro Pedr | 34 | 37 | 44 | 45 | 49 | 50 | 63 | 322 | 376 |
| Bro Sion Cwilt | 15 | 14 | 16 | 5 | 12 | 17 | 14 | 93 | 147 |
| Bro Teifi | 44 | 50 | 41 | 54 | 39 | 38 | 34 | 300 | 360 |
| Ceinewydd | 13 | 7 | 12 | 9 | 15 | 12 | 15 | 83 | 98 |
| Cenarth | 14 | 16 | 11 | 9 | 8 | 10 | 7 | 75 | 73 |
| Ciliau Parc | 11 | 6 | 8 | 11 | 9 | 13 | 13 | 71 | 68 |
| Comins-coch | 12 | 12 | 18 | 21 | 24 | 26 | 31 | 144 | 185 |
| Craig Yr Wylfa | 3 | 2 | 6 | 3 | 2 | 4 | 4 | 24 | 74 |
| Dihewyd | 3 | 3 | 4 | 4 | 4 | 5 | 5 | 28 | 35 |
| Dyffryn Cledlyn | 13 | 13 | 19 | 21 | 10 | 15 | 10 | 101 | 120 |
| Felin-fach | 9 | 11 | 8 | 10 | 6 | 4 | 6 | 54 | 60 |
| Henry Richard | 17 | 15 | 14 | 22 | 8 | 20 | 23 | 119 | 120 |
| Llannarth | 17 | 9 | 9 | 9 | 4 | 3 | 10 | 61 | 86 |
| Llanfarian | 6 | 4 | 7 | 8 | 8 | 2 | 3 | 38 | 56 |
| Llanfihangel-y-creuddyn | 5 | 2 | - | 2 | 3 | 4 | 6 | 22 | 37 |
| Llangwyryfon | 3 | 4 | 4 | 4 | 2 | 6 | 3 | 26 | 55 |
| Llanilar | 11 | 17 | 14 | 14 | 15 | 20 | 14 | 105 | 129 |
| Llan-non | 8 | 6 | 4 | 6 | 5 | 6 | 6 | 41 | 59 |
| Llechryd | 8 | 7 | 11 | 9 | 10 | 11 | 6 | 62 | 99 |
| Llwyn yr Eos | 22 | 23 | 27 | 31 | 28 | 31 | 27 | 189 | 219 |
| Myfenydd | 11 | 12 | 10 | 12 | 10 | 10 | 5 | 70 | 91 |
| Mynach | 6 | 2 | 7 | 7 | 5 | 4 | 4 | 35 | 51 |
| Padarn Sant | 12 | 18 | 20 | 22 | 23 | 20 | 23 | 138 | 134 |
| Pen-llwyn | 3 | 6 | 2 | 7 | 5 | 6 | 6 | 35 | 55 |
| Penparc | 12 | 15 | 16 | 13 | 12 | 12 | 10 | 90 | 146 |
| Penrhyn-coch | 12 | 10 | 19 | 15 | 17 | 12 | 9 | 94 | 110 |
| Plascrug | 45 | 56 | 59 | 60 | 58 | 60 | 58 | 396 | 409 |
| Pontrhydfendigaid | 13 | 6 | 9 | 14 | 3 | 12 | 10 | 67 | 74 |
| Rhos Helyg – (Llangeitho) | 4 | 3 | 5 | 8 | 2 | 3 | 8 | 33 | 61 |
| Rhos Helyg – (Rhos y Wlad) | 6 | 3 | 4 | 2 | 5 | 3 | 5 | 28 | 43 |
| Rhydypennau | 17 | 25 | 31 | 21 | 17 | 25 | 29 | 165 | 193 |
| Syr John Rhys | 2 | 1 | 1 | 6 | 4 | 2 | 5 | 21 | 39 |
| T Llew Jones | 19 | 10 | 21 | 26 | 27 | 16 | 26 | 145 | 180 |
| Talgarreg | 5 | 4 | 7 | 5 | 3 | 8 | 5 | 37 | 63 |
| Tal-y-bont | 10 | 7 | 9 | 12 | 9 | 13 | 18 | 78 | 127 |
| Y Dderi | 11 | 8 | 15 | 21 | 11 | 11 | 21 | 98 | 133 |
| Yr Ysgol Gymraeg | 52 | 42 | 52 | 44 | 51 | 54 | 60 | 355 | 370 |
| **Ceredigion** | **613** | **587** | **662** | **695** | **631** | **665** | **715** | **4,568** | **5,538** |

* Data CYBLD wedi'i gyflwyno Ionawr 2023 - Data eto i'w ddilysu


Niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd: CYBLD 2023*
19%
14%
14%
22%
31%
under 30 pupils
31- 50 pupils
51- 90 pupils
91 - 150 pupils
over 150 pupils

**Uwchradd**

| | 2021 | 2022 | 2023* | Lleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | 557 | 570 | 573 | 933 |
| Aberteifi | 623 | 608 | 604 | 691 |
| Penglais | 1073 | 1092 | 1085 | 1287 |
| Penweddig | 592 | 621 | 619 | 1070 |
| Bro Pedr | 625 | 632 | 643 | 841 |
| Henry Richard | 193 | 212 | 231 | 373 |
| Bro Teifi | 557 | 564 | 554 | 678 |
| **Cyfanswm** | **4,220** | **4,299** | **4,309** | **5,873** |

**Data CYBLD 2023* - Sector Uwchradd fesul blwyddyn ysgol**

| Ysgol | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 7-13 | Lleoedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | 101 | 115 | 83 | 90 | 103 | 37 | 44 | 573 | 933 |
| Aberteifi | 106 | 106 | 103 | 113 | 110 | 37 | 29 | 604 | 691 |
| Penglais | 166 | 188 | 153 | 165 | 192 | 106 | 115 | 1085 | 1287 |
| Penweddig | 105 | 124 | 97 | 81 | 106 | 55 | 51 | 619 | 1070 |
| Bro Pedr | 111 | 114 | 85 | 114 | 92 | 73 | 54 | 643 | 841 |
| Henry Richard | 40 | 46 | 52 | 44 | 49 | - | - | 231 | 373 |
| Bro Teifi | 100 | 90 | 80 | 99 | 84 | 48 | 53 | 554 | 678 |
| **CYFANSWM** | **729** | **783** | **653** | **706** | **736** | **356** | **346** | **4,309** | 5,873 |

* Data CYBLD wedi'i gyflwyno Ionawr 2023 - Data eto i'w ddilysu

Atodiad B

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Trefniadaeth Ysgolion



## Cod Statudol

Dogfen Cod Statudol: rhif 011/2018
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2018
Yn disodli dogfen cod ymarfer: rhif 006/2013

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau esgobaethol; ac Estyn.

**Trosolwg**

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae'r Cod yn gosod gofynion y bydd angen i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â hwy. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol dalu sylw iddynt, ac mae'n nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion, a chan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion.

**Camau i'w cymryd**

Gweler uchod.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1356/0300 025 7710

e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
*Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (2007)
*Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru* Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 021/2011 (2011)

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34619 ISBN digidol 978 1 78937 075 1

# Cynnwys

**Crynodeb** **3**
**1. Datblygu ac ystyried cynigion** **5**
1.1 Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol 5
1.2 Ffactorau i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 5
1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg 5
1.4 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion 6
1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill 8
1.6 Ffactorau cyffredinol eraill 10
1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion 11
1.8 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig 12
1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin 14
1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth 15
1.11 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd 16
1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth 16
1.13 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol 17
1.14 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA 17
1.15 Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 19
**2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer** **21**
2.1 Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer 21
2.2 Cynigion i newid categori ysgol 21
2.3 Newidiadau a reoleiddir 21
2.4 Pwy all wneud cynnig? 26
**3. Ymgynghori** **27**
3.1 Egwyddorion 27
3.2 Sylw i'r manylion 27
3.3 Gweithdrefnau 28
3.4 Dogfen ymgynghori 28
3.5 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc 37
3.6 Adroddiadau ymgynghori 38
**4. Cyhoeddi cynigion statudol** **43**
4.1 Sut y cyhoeddir cynigion 43
4.2 Hyd y cyfnod gwrthwynebu 45
4.3 Cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig 45
**5. Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru)** **48**
5.1 Adroddiadau gwrthwynebu 48
5.2 Cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (adran 50 o Ddeddf 2013) 50
5.3 Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol (adran 51 o Ddeddf 2013) 51
5.4 Penderfyniad gan gynigwyr (adran 53 o Ddeddf 2013) 52
5.5 Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol 52
5.6 Hysbysiad o benderfyniad 53

5.7 Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru 55
**6. Gweithredu cynigion 56**
6.1 Gweithredu – cyffredinol 56
6.2 Gweithredu – newid categori 57
**7. Cau ysgol â llai na deg disgybl cofrestredig 58**
**8. Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion 60**
**9. Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig 62**
**10. Cynigion gan Weinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched Dosbarth 63**
**11. Hysbysiad o fwriad corff llywodraethu i gau ysgol sefydledig neu wirfoddol 64**
**Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol 65**
**Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol 68**
**Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg 74**
**Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol 77**
**Atodiad E: Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a fydd yn help wrth ddatblygu cynigion 79**
**Atodiad F: Rhestr o ysgolion gwledig 79**

## Crynodeb

Gwneir y Cod hwn ar Drefniadaeth Ysgolion (“y Cod”) o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”).

Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod a all osod gofynion a chynnwys canllawiau mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion ar y canlynol (a elwir gyda'i gilydd yn y Cod hwn yn "gyrff perthnasol"):

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir[1];
- hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

Mae’r Cod yn gymwys i gynigion sy’n ymwneud ag ysgolion a gynhelir fel y’u diffinnir yn adran 98 o Ddeddf 2013, hynny yw ysgolion yng Nghymru, sy’n ysgolion cymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgolion arbennig cymunedol neu’n ysgolion meithrin a gynhelir. Nid yw hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

Daeth fersiwn gyntaf y Cod i rym ar 1 Hydref 2013 ac roedd yn gymwys mewn perthynas â'r holl gynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a gyhoeddir ar ffurf hysbysiad statudol ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw. Dyma ail fersiwn y Cod ac fe ddaw i rym ar 1 Tachwedd 2018 ac yn dod i’r rym ar unwaith yn amodol ar y paragraff canlynol.

Os yw cynigydd wedi dechrau ymgynghori cyn 1 Tachwedd 2018 bydd **rhaid** i’r cynnig â gyhoeddwyd ei benderfynu yn unol â fersiwn gyntaf y Cod. Ystyrir y bydd ymgynghoriad wedi dechrau pan fydd dogfen ymgynghori, fel sy’n ofynnol gan adran 3.2 o’r fersiwn gyntaf o’r cod, wedi’i chyhoeddi.

Mae'r Cod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Mae'n gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol (neu bersonau sy'n cyflawni swyddogaeth at ddiben cyflawni'r swyddogaethau yn Rhan 2 (newidiadau sy’n gofyn am gynigion) gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) weithredu yn unol â hwy. Os bydd corff perthnasol yn methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod hwn, gall arwain at gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pan osodir gofynion gorfodol gan y Cod neu gan Ddeddf 2013 neu statud neu offeryn statudol arall, nodir bod yn **rhaid** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r ddarpariaeth benodol. Pan waherddir arferion, nodir bod yn **rhaid** i'r cyrff perthnasol **beidio ag** arddel yr arferion hyn.

---

**[1] Dyma’r categorïau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru: ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol sefydledig ac ysgol arbennig gymunedol.**

2. Mae'n cynnwys y canllawiau statudol y mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol roi sylw dyledus iddynt ac mae'n gosod y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion eu hystyried. Lle mae'r Cod yn cynnig canllawiau, nodir y **dylai** cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau hyn oni allant ddangos bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.

3. Mae'n rhoi disgrifiad o'r gofynion statudol a nodir yn Neddf 2013.

Mae'r Cod yn adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes ymhlith awdurdodau lleol ac eraill, ond nid yw'n ceisio rhoi canllawiau hollgynhwysfawr ar bob agwedd ar drefniadaeth ysgolion. Bydd angen i awdurdodau lleol ac eraill sicrhau, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau trefniadaeth ysgolion, eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffyrdd sy'n rhesymol ac sy'n seiliedig ar fuddiannau'r dysgwyr.

Mae'r Cod wedi'i gynllunio'n bennaf i gael ei ddefnyddio gan y cyrff perthnasol ond efallai y bydd o ddefnydd i bawb sydd â diddordeb mewn materion trefniadaeth ysgolion.

**Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**

Mae ail fersiwn y Cod yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig (a ddiffinnir o fewn y Cod), gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad. Nodir y rhain yn adran 1.8 yn bennaf a sonnir ymhellach amdanynt yn adrannau 3, 5, 7 ac Atodiad A y Cod hwn.

# 1. Datblygu ac ystyried cynigion

## 1.1 Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol

Mae'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcan Llywodraeth Cymru i weddnewid addysg yng Nghymru a darparu gwell deilliannau addysgol.

**Dylai** cyrff perthnasol geisio sicrhau bod cynigion yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldeb o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Yn Atodiad E mae rhestr o ddeddfwriaeth, egwyddorion a pholisïau cyffredinol a fydd o gymorth i gynigwyr wrth ddatblygu ac ystyried cynigion. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

## 1.2 Ffactorau i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r ffactorau y **dylai** cyrff perthnasol eu hystyried wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran llunio a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu eu cymeradwyo/penderfynu arnynt. Yn achos pob un o'r cynigion, mae paragraffau 1.3 i 1.6 yn berthnasol.

## 1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg

**Dylai** cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Gan gyfeirio at bum maes arolygu Fframwaith Arolygu Cyffredin Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) (o fis Medi 2017), **dylent** ystyried effaith debygol y cynigion ar:

- safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau;
- llesiant ac agweddau at ddysgu;
- profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu; ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth sgiliau);
- arweiniad a chymorth gofal (tracio, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a gwarchod disgyblion);
- arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnyddio adnoddau)

yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni/arno.

**Dylai** cyrff perthnasol roi sylw arbennig i effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)[2].

**Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried gallu'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun cynnig i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol. **Dylai'r** ystyriaeth hon gynnwys ansawdd darpariaeth y cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn.[3]

Pan fydd cynigion yn golygu trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, fel arfer **dylid** bod tystiolaeth y byddai'r ddarpariaeth amgen yn sicrhau'r deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny ar y pryd (gan gynnwys dysgwyr ag AAA). Gellid defnyddio cyngor gan Estyn yn rhesymol fel tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth amgen sy'n newydd sbon. **Dylai** cynigwyr sicrhau bod hyn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr.

Wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu, **dylai** cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn, cyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn neu dystiolaeth arall sy'n deillio o waith monitro perfformiad ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol am effeithiolrwydd ysgol.

## 1.4 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

**Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd yn eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os oes nifer ddigonol ohonynt, eu bod o'r cymeriad iawn a bod ganddynt ddigon o gyfarpar i ddarparu cyfleoedd addysg priodol i bob disgybl[4]. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol priodol[5] ar gyfer ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig yn eu hardal.

Yng ngoleuni'r uchod, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol:

Lle cynigir cau ysgol[6], lleihau ei chapasiti neu leihau ei hystod oedran:

---

[2] Mae'n bosibl y caiff y term Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ei newid i Anghenion Ychwanegol (AY) yn y dyfodol.
[3] Mae deddfwriaeth sylfaenol yn nodi amcanion statudol y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn adran 99 o Ddeddf Addysg 2002.
[4] Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996**.**
[5] Corff crefyddol priodol yw, yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd a'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
[6] Mae pob cyfeiriad at 'gau ysgol' yn y ddogfen hon yn golygu terfynu ysgol a gynhelir, fel y'i nodir yn adran 40 o Ddeddf 2013.

- a fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir;

  *Wrth ystyried cynigion, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r Rheoliadau Adeiladu perthnasol a Bwletinau Adeiladu cysylltiedig, a chylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru' (Cylchlythyr Rhif: 021/2011). Yn ogystal â hyn, mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999 yn nodi'r safonau ar gyfer safleoedd ysgolion, gan gynnwys yr ardaloedd lleiaf ar gyfer meysydd chwarae gemau tîm y mae'n **rhaid** i ysgolion allu manteisio arnynt. **Dylai** cynigion statudol sicrhau y caiff y safonau hyn eu bodloni.*

- gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un:

  a. categori iaith fel yr amlinellir yn "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg", dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 023/2007; neu unrhyw ddogfennau olynol; ac
  b. (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig;

  ***Dylai** cynigion sicrhau bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgolion yn adlewyrchu cydbwysedd y galw. Mae hyn yn golygu, os bydd darpariaeth ysgol yn cael ei lleihau neu ei dileu, y **dylid** sicrhau bod darpariaeth ysgol amgen o'r un natur (categori iaith neu, os yn berthnasol, cymeriad crefyddol) ar gael ac yn hwylus i'w chyrraedd i ddisgyblion yn yr ardal leol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, efallai na fydd parhau i gynnal mynediad i ysgolion o'r un natur yn gydnaws â darpariaeth addysg gosteffeithiol.*

  *Ym mhob achos lle cynigir cau ysgol, lleihau ei chapasiti neu leihau'r ystod oedran, **rhaid** i ddisgyblion yr ysgol sydd o oedran ysgol gorfodol allu parhau i dderbyn addysg yn eu cyfrwng iaith presennol. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau pontio penodol er mwyn cyflawni hyn.*

  *Pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (ar gyfer pynciau heblaw Cymraeg) drwy'r amser neu beth o'r amser, **dylai** awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.*

  *Ym mhob achos, dylai awdurdodau lleol ystyried:*
  - *i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd*
  - *sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.*

*Yn achos cynlluniau i gau ysgolion, dylai awdurdodau lleol ystyried:*

- natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA; yn benodol, p'un a fydd gan ddisgyblion cynradd siwrneiau un ffordd o fwy na 45 munud, neu gan ddisgyblion uwchradd siwrneiau un ffordd o fwy nag awr.

*Dylai trefniadau ar gyfer cael mynediad i ddarpariaeth amgen annog trafnidiaeth gynaliadwy; a **dylent** fynd i'r afael ag effaith bosibl unrhyw anawsterau o ran trafnidiaeth ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol a'r graddau y gallant fanteisio arni. Dylid asesu diogelwch a hygyrchedd llwybrau cerdded neu feicio posibl cyn cyflwyno unrhyw gynigion.*[7]

Lle cynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;

- bod yna dystiolaeth o angen/galw yn yr ardal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith a chymeriad crefyddol dynodedig yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig, a'i threfniadau derbyn o ran y rhywiau (h.y. cydaddysgol/un rhyw);

  ***Dylid** asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath yn yr ardal a darparu tystiolaeth o'r galw hwnnw. (Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 86 o Ddeddf 2013).*

- a fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol. **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â'r adnoddau addysg:

- pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd sydd dros ben yn yr ardal;

  *Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen.*

  *Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, **dylai** awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y **dylent** wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn*

---

[7] Pennod 5 o Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014 ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

*gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011)* ***ac*** *o leiaf 30 o leoedd gwag.*

*Er y gofynnir i awdurodau lleol reoli gormodedd o leoedd ychwanegol, nid yw hyn yn golygu cau ysgolion yn awtomatig. Mae adrannau 1.7 ac 1.8 o'r Cod yn annog cynigwyr i ystyried yr opsiynau eraill sydd ar gael iddyn nhw a'u hysgolion, ee clystyru, cydweithio neu ffedereiddio gydag ysgolion eraill er mwyn gwneud yr ysgol yn fwy hyfyw, neu wneud defnydd o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol. Cânt eu hannog hefyd i ad-drefnu gofod ysgolion drwy gydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol er mwyn arbed costau.*

*Fel arfer,* ***ni ddylid*** *bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag efallai y bydd cynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ymateb i'r galw am fath arbennig o ddarpariaeth e.e. cyfrwng Cymraeg, yn dal yn briodol - yn enwedig os oes darpariaeth effeithiol o leoedd wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr awdurdod lleol*.

- a yw cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar ystad yr ysgolion.

**Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid:

- costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;

- costau cludiant ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i gynigion;

  ***Dylai*** *cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a* ***dylent*** *gael cyngor gan adran drafnidiaeth yr awdurdod lleol perthnasol ar yr effaith y gall y cynnig ei chael ar y costau cludiant perthnasol a'u fforddiadwyedd.*

- costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael;

- maint unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion);

*Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i ategu gwaith ailfodelu sylweddol, gwaith adnewyddu neu brosiect adeiladu o'r newydd),* ***dylid*** *cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a'u cymharu â'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â chynnal y sefyllfa sydd ohoni.*

- a fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion;
- a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol;
- a fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu'n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

  *Yn gyffredinol,* ***dylai*** *awdurdodau lleol geisio ailgylchu asedau o unrhyw adeiladau a safleoedd ysgolion dros ben sy'n eiddo iddynt i wella eu hadeiladau ysgolion yn gyffredinol yn hytrach na neilltuo'r enillion hynny i brosiectau y tu allan i'r portffolio addysg, er mai awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn yn y pen draw.*

## 1.6 Ffactorau cyffredinol eraill

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol:

- yr effaith y bydd cynigion yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;
- unrhyw faterion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb;
- a yw'r ysgol neu'r ysgolion yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.

  ***Rhaid*** *i gynigion sy'n effeithio ar elusennau gyd-fynd â'r gyfraith elusennau neu â'r diben a ddatganwyd ar gyfer yr ymddiriedolaeth elusennol.*[8] *Os oes unrhyw ansicrwydd,* ***dylid*** *cael cyngor gan y Comisiwn Elusennau neu Weinidogion Cymru (fel Prif Reoleiddiwr cyrff llywodraethu sy'n elusennau).*

  *O dan adran 82 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i orchymyn addasu gweithred ymddiriedolaeth. Pŵer i'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn yw hwn, ac fel*

---

[8] Mae cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig a gwirfoddol yn elusennau o dan adran 23 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a gall safleoedd ysgolion cymunedol fod yn ddarostyngedig i fuddiannau elusennol hefyd.

*arfer byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i ymddiriedolwyr drafod gyda'r Comisiwn Elusennau yn gyntaf.*

## 1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Prif ddiben ysgolion yw darparu addysg a **dylai** unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal. Serch hynny, mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

**Dylai'r** achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd.

Wrth ystyried a yw'n briodol cau ysgol, **dylid** rhoi sylw arbennig i'r opsiynau canlynol:

- a ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn;

- a ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion), neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol;

- a ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol;

  (**Dylai** awdurdodau lleol ystyried a fyddai'n ddichonadwy ac yn ddarbodus cydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol);

- effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol);

- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (ee sut y cynorthwyir disgyblion, yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais, i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol).

Er nad yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i gau ysgolion bach a oedd â llai na 10 o ddisgyblion adeg Cyfrifiad y mis Ionawr blaenorol o

dan Ddeddf 2013[9], eto i gyd mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n dwyn ymlaen gynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod hwn.

## 1.8 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae'r ail fersiwn hon o'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad.

Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.

### Dynodi ysgol yn 'ysgol wledig' at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn ei chau

Nodir ysgol yn ysgol wledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn ei chau gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd yn ysgol a leolir mewn pentref gwledig prin ei phoblogaeth, mewn pentref bach iawn neu ardal ynysig arall sy'n brin ei phoblogaeth, neu mewn pentref bach iawn neu ardal ynysig arall sy'n llai prin ei phoblogaeth.

Ar sail y categorïau hyn, mae rhestr o ysgolion yn Atodiad F. Dylai cynigwyr gyfeirio at y dynodiad a'r rhestr o ysgolion i sefydlu a yw'r cynnig dan sylw i gau ysgol yn ymwneud ag ysgol wledig ac a yw'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn ei chau yn gymwys.

### Camau pellach penodol y mae'n ofynnol i'r cynigydd eu cymryd wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig

Yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r ffactorau ym mhennod 1 (paragraffau 1.3 i 1.6) sy'n berthnasol yn achos pob cynnig, mae gofyn i'r cynigiwr ddilyn y camau pellach isod os yw'r cynnig yn ymwneud â'r posibilrwydd o gau ysgol wledig.

### Llunio'r cynnig

Lle bydd y cynigydd yn ystyried llunio cynnig i gau ysgol wledig, rhaid i'r cynigydd nodi'n glir y rhesymau dros y cynnig, hynny yw y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol ac y bydd y cynigydd am geisio ymateb iddynt drwy gynnig cau'r ysgol.

---

**[9] At ddibenion penderfynu p'un a oes angen ymgynghori, mae adran 56 o Ddeddf 2013 yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol a oedd â llai na 10 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar y trydydd dydd Mawrth ym mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion.**

Bydd yn ofynnol i'r cynigydd ystyried y rhesymau hyn wrth wneud ei benderfyniad ar gynnig neu unrhyw opsiynau rhesymol eraill, felly mae'n bwysig eu bod mor glir a phenodol â phosibl - ee nifer y disgyblion yn lleihau, trafferthion o ran cyflwyno'r cwricwlwm, neu bryderon am adeilad yr ysgol.

Yn hytrach na nodi nad yw'r ysgol yn hyfyw bellach, dylai'r cynigydd ystyried yn ofalus a nodi'r rhesymau pam mae o'r farn nad yw'n ymarferol ei chadw.

**Nodi opsiynau rhesymol eraill**

Rhaid i'r cynigydd nodi unrhyw opsiynau rhesymol eraill a allai ddatrys y broblem a nodwyd fel y rheswm dros y cynnig. Mae'n bwysig sicrhau bod pob opsiwn rhesymol arall a nodwyd yn cael ei ystyried **cyn** i'r cynigydd benderfynu mynd ati i ymgynghori ar gau'r ysgol.

Y nod yw sicrhau, pan gynigir cau ysgol wledig, mai dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus iawn y penderfynir ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw, a hynny ar ôl ystyried pob opsiwn rhesymol arall a chynnal asesiad clir o ddilysrwydd y rhesymeg ac o gwestiwn ymarferoldeb.

Dangoswyd bod ffedereiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig. **Rhaid** i gynigwyr ddangos sut maent wedi ystyried ffedereiddio fel opsiwn posibl yn hytrach na chau ysgol wledig.

Mae ysgolion yn asedau cyhoeddus a chymunedol pwysig; mae'n bwysig ystyried eu dyfodol, nid dim ond o safbwynt addysg, ond o safbwynt holl gyfrifoldebau awdurdod lleol. Ymhlith yr opsiynau i'w hystyried yn hytrach na chau ysgol, gellid trafod a oes lle i'r ysgol gael ei hintegreiddio'n well i broses ehangach o fewn yr awdurdod lleol i reoli asedau a chynllunio cymunedau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, creu cysylltiadau effeithiol â strategaethau lleol i adfywio cymunedau.

Dyma rai enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried:

- clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibiliadau o ran defnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion);
- defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol, ee iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, gweithgareddau hamdden, gweithgarwch cymdeithasol ac ati;
- a fyddai'n ymarferol ac yn gwneud synnwyr yn economaidd cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol;
- a ellid ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau.

Fel yn achos pob cynnig i gau ysgol, rhaid i'r cynigydd baratoi asesiad o'r effaith gymunedol, er mwyn ystyried effaith gyffredinol a hirdymor cau'r ysgol

wledig ar bobl a'r gymuned, ac effaith colli'r adeilad fel cyfleuster cymunedol. Yn Atodiad C, mae enghreifftiau o'r hyn y **dylai'r** cynigydd ei ystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Gymunedol.

Unwaith bydd y cynigydd wedi nodi'r holl opsiynau rhesymol eraill, rhaid i'r cynigydd asesu, yn achos pob opsiwn:

- yr effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg;
- yr effaith debygol ar y gymuned;
- yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

**Paratoi papur cynnig ar gyfer y penderfynwr**

Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad yn unol â phennod 3 y cod hwn, rhaid rhoi papur ("papur cynnig") i'r unigolyn/unigolion sy'n penderfynu ar hynny. Yn ogystal â manylion y ffactorau cyffredinol ym mharagraffau 1.3 i 1.6 o Bennod 1 y Cod hwn, bydd rhaid i'r papur gynnwys hefyd:

- Y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol
- Rhestr o'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd
- Asesiad o'r canlynol ar gyfer pob un o'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd:

    - Yr effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
    - Yr effaith debygol ar y gymuned
    - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Ni ddylai'r cynigydd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid mynd ati i ymgynghori hyd nes y bydd y gofynion hyn wedi'u cyflawni gyntaf, ac oni bai ei fod yn fodlon mai gweithredu yw'r ymateb mwyaf priodol er mwyn goresgyn y prif heriau a nodwyd fel y rheswm dros gynnig dod â'r ysgol i ben.

Er nad yw Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gynigion i gau ysgolion bach oedd â llai na 10 o ddisgyblion pan gynhaliwyd cyfrifiad y mis Ionawr cynt[10], **dylai** awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n dwyn ymlaen gynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir ym Mhennod 1 y Cod hwn wrth ddatblygu ac ystyried cynigion. Os yw'r ysgol ar restr yr "ysgolion gwledig", mae hyn yn cynnwys bodloni'r gofynion yn 1.8, sef *"Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig"*.

## 1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

---

**[10] At ddibenion penderfynu a oes angen ymgynghoriad, mae adran 56 o Ddeddf 2013 yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar y trydydd dydd Mawrth ym mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion.**

- safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau, yr ystafelloedd a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;

- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;

- lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, ee addysg feithrin cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol;

- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

## 1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed;

- a fydd cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, Lefel UG/Lefel Uwch a chyrsiau sefydledig eraill yn ôl y gofyn o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;

- a yw'r cynigion yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;

- i ba raddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol;

- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;

- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat;

- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 rhanbarthol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w gwella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;

- sut y gall cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant ddewisol y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr[11] sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

## 1.11 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd

**Dylai'r** cyrff perthnasol ystyried y canlynol:

- a yw'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldeb i gynnal yr ysgol;

- y bydd corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gallu ysgwyddo ei gyfrifoldebau ariannol ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cyfalaf;

- bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer deiliadaeth y tir yn rhoi sicrwydd digonol y bydd yr ysgol yn cadw'r safle.

  *Lle na bydd trefniadau deiliadaeth tir wedi'u cadarnhau, gallai'r rhai sy'n penderfynu ar gynigion nodi eu bod yn gogwyddo o blaid cymeradwyo'r cynigion, yn amodol ar ddatrys y materion hynny yn foddhaol. Gallai penderfyniad o'r fath fod yn briodol pan na fydd hyrwyddwyr yn fodlon ysgwyddo costau cyfreithiol i ddatrys y mater deiliadaeth tan iddynt gael gwybod bod y cynigion yn debygol iawn o gael eu cymeradwyo.*

## 1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

---

**[11] Mae adran 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi grym i awdurdod lleol ddarparu cludiant dewisol lle maent hwy yn gweld yn dda i hwyluso trefniadau teithio dysgwyr. Mae paragraffau 1.98 – 1.105 o Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn darparu canllawiau pellach ar y ddarpariaeth hon.**

- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol gan yr awdurdod addysg lleol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn fwy neu'n llai na'r galw neu'r galw a ragwelir gan rieni ar gyfer darpariaeth o'r fath, a chyfraniad y cynnig at unioni'r sefyllfa honno.

- i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol.

## 1.13 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- mae pob categori ysgol - cymunedol, sefydledig, gwirfoddol a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir - yn gydradd o ran statws;

- caiff pob cynnig a ganiateir i newid categori ysgol ei ystyried yn unol â'i rinweddau ei hun[12];

- a ellir nodi unrhyw fanteision.

  *Gallai newid categori darfu ar y broses o redeg yr ysgol a/neu osod baich ychwanegol ar y corff llywodraethu a/neu ychwanegu cymhlethdod at drefniadau ad-drefnu neu dderbyn yr ysgol. Felly,* ***dylid*** *bod rhagdybiaeth yn erbyn newidiadau pan na ellir nodi manteision.*

- a yw unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol yn caniatáu iddi newid categori. Os oes unrhyw amheuaeth, neu os yw'n amlwg bod angen gwneud amrywiad i'r weithred ymddiriedolaeth, **dylai'r** cynigwyr gysylltu â'r Comisiwn Elusennau'n ddi-oed.

## 1.14 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA

### Polisïau ac egwyddorion

**Dylid** ystyried yr egwyddorion a'r cynlluniau a nodir mewn mannau eraill o'r Cod hwn wrth ystyried cynigion i ad-drefnu ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

[12] Ni chaniateir i ysgolion newid eu categori i fod yn ysgolion sefydledig ac ni chaniateir i ysgolion â chymeriad crefyddol ddod yn ysgolion cymunedol.

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried sut mae cynigion yn ategu cynlluniau'r awdurdod lleol i hyrwyddo cynhwysiant (h.y. darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion ag AAA i fynychu lleoliadau prif ffrwd) lle bynnag y bo'n briodol i ddiwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc, a chyda'i strategaeth gyffredinol ar gyfer sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer yr amrywiaeth lawn o AAA.

**Dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau a nodir isod mewn perthynas â chynigion sy'n effeithio ar ysgolion arbennig ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

**Safonau'r ddarpariaeth**

Yn ogystal â'r ystyriaethau arferol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth, **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a fydd cynigion yn gwella safonau'r adeiladau a'r ystafelloedd i ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys gwella hygyrchedd yr adeilad;
- sut y bydd cynigion yn ymdrin ag unrhyw faterion o ran iechyd, diogelwch a lles;
- sut y bydd cynigion yn hyrwyddo rhagor o gynhwysiant, lle y bo'n briodol;
- effaith cynigion ar ddarpariaeth AAA arall yn ardal agos ac ehangach yr awdurdod lleol gan gynnwys y tu allan i'r sir lle y bo'n briodol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Yn ogystal â'r ystyriaethau a restrir yn 1.4, **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a oes angen am fath penodol o ddarpariaeth AAA yn yr ardal;
- a oes gormod o ddarpariaeth AAA yn yr ardal;
- a fyddai'r ddarpariaeth AAA yn fwy effeithiol neu effeithlon pe bai darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud; ac
- effaith y cynigion hynny ar gludiant dysgwyr ag AAA.

**Ffactorau eraill**

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- sut y bydd newidiadau i ddarpariaeth AAA mewn ysgolion yn debygol o effeithio ar yr holl wasanaethau eraill a ddarperir mewn ardal ar gyfer disgyblion ag anableddau a/neu AAA.

## 1.15 Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

Wrth gymeradwyo cynigion, rhaid i'r cyrff perthnasol sy'n eu cynnig:

- ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;
- sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);
- sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;
- **dylai'r** cyrff perthnasol ystyried a oes unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, **ni ddylid** cymeradwyo cynigion o'r fath;
- **peidio â** chymeradwyo cynigion i newid categori lle mae angen gwneud amrywiad i weithred ymddiriedolaeth, os nad yw'r amrywiad hwnnw wedi ei wneud eto.

Wrth benderfynu ar gynigion, rhaid i'r cyrff perthnasol:

- ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;
- ystyried i ba raddau y mae'r ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);
- ystyried i ba raddau y mae'r cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;
- **dylai'r** cyrff perthnasol ystyried a oes unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, **ni ddylid** cymeradwyo cynigion o'r fath;
- **peidio â** chymeradwyo cynigion i newid categori lle mae angen gwneud amrywiad i weithred ymddiriedolaeth, os nad yw'r amrywiad hwnnw wedi ei wneud eto.

# 2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer

Fel arfer, mae angen gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i'w gwneud yn bosibl gwneud newidiadau pan ystyrir bod y newidiadau hynny yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac yn rhoi'r cyfle i'r sawl sydd â diddordeb leisio barn ar y broses.

## 2.1 Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer

**Rhaid** i gynigion gael eu cyhoeddi ar gyfer yr elfennau canlynol o ran ad-drefnu ysgolion:

1. agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
2. cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
3. gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir;
4. newid categori ysgol a gynhelir[13].

## 2.2 Cynigion i newid categori ysgol

Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, dylid nodi na cheir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n peri bod iddi wedyn gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt, neu ei bod yn colli ei chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol. Nid yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Ni cheir gwneud cynigion i ysgol o unrhyw gategori gael ei newid i fod yn ysgol sefydledig.

## 2.3 Newidiadau a reoleiddir

Mae Atodlen 2 o Ddeddf 2013 yn disgrifio nifer o newidiadau a reoleiddir i ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig) na cheir eu cyflawni oni bai bod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r corff llywodraethu wedi cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Cod hwn. Er bod y newidiadau a reoleiddir wedi'u disgrifio isod, dylid cyfeirio hefyd at Atodlen 2 o Ddeddf 2013.

[13] Ac eithrio ysgol sefydledig – mae Deddf 2013 yn gwahardd ysgolion rhag newid eu categori i fod yn ysgolion sefydledig.

**Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir**

- trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa’r ysgol ar ei safle newydd o fewn 1.609344 cilometr (un filltir) o brif fynedfa’r ysgol ar ei safle a safleoedd presennol;

- newid ysgol (gan gynnwys ysgol arbennig) o fod yn ysgol un rhyw i fod yn ysgol gymysg, neu i’r gwrthwyneb. (Ystyrir bod ysgol yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os cyfyngir y disgyblion a dderbynnir o'r rhyw arall i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac nad yw nifer y disgyblion hynny yn fwy na 25% o'r grŵp oedran dan sylw).

**Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ac ysgolion arbennig cymunedol**

- newid yn ystod oedran ysgol (gan gynnwys ysgol arbennig) o flwyddyn neu fwy (heb gynnwys cyflwyno Addysg Bellach ran amser neu lawn amser neu ddod â’r addysg honno i ben a heb gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol sy'n ailadrodd cwrs addysg a gwblhawyd cyn iddynt gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol);

- cyflwyno darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol neu ddod â’r ddarpariaeth honno i ben;

- newid cyfrwng addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn grŵp neu grwpiau oedran (gan gynnwys disgyblion meithrin) mewn ysgol gynradd (neu addysg gynradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod y perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o’r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu |

| | |
|---|---|
| gyfrwng y Gymraeg. | drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

- newid cyfrwng addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol uwchradd (neu addysg uwchradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod yn perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o’r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |

(Diffinnir pynciau perthnasol fel unrhyw bynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir mewn ysgol.)

**Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol**

- ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o

ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig. Y "dyddiad priodol" yw'r dyddiad diweddaraf o blith:

- y dyddiad sydd bum mlynedd cyn y dyddiad y bwriedir gweithredu'r cynigion i ehangu'r ysgol;
- y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;
- y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys lle gwelwyd lleihad blaenorol yng nghapasiti ysgol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

At ddibenion ehangu safle ysgol, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Rhif: 21/2011);

“Ehangu dros dro” yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y’i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

- gwneud ehangiad dros dro o'r ysgol yn ehangiad parhaol, pan fyddai'r ehangiad dros dro hwnnw wedi bod yn newid a reoleiddir oni bai am y ffaith mai dros dro ydoedd;

- lleihau capasiti ffisegol ysgol brif ffrwd, ac eithrio pan fydd y capasiti arfaethedig yn fwy na nifer uchaf y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd ysgol flaenorol cyn cyhoeddi'r cynnig. Yn y cyd-destun hwn, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011 Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)[14];

- cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA neu newid y math o ddarpariaeth. Dyma lle mae'r ddarpariaeth mewn ysgol brif ffrwd ond mae'r disgyblion a dderbynnir yn ychwanegol at nifer derbyn yr ysgol. Hefyd, **rhaid** i'r awdurdod lleol gydnabod bod y ddarpariaeth wedi'i chadw'n ôl ar gyfer disgyblion ag AAA;

- cyflwyno neu derfynu trefniadau bandio ar gyfer derbyn disgyblion i ysgol brif ffrwd (o dan adran 101 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998));

- cyflwyno neu derfynu darpariaeth breswyl, neu gynnydd neu ostyngiad gan 50 o ddisgyblion neu 50% o'r capasiti yn y

---

[14] **Effaith hyn yw y bydd ysgolion â chapasiti dros ben yn gallu dileu’r capasiti hwnnw heb yr angen am gynnig statudol. Fodd bynnag, os bydd ysgolion yn llawn neu bron yn llawn, rhaid cyhoeddi cynnig i leihau capasiti’r ysgol.**

ddarpariaeth breswyl mewn ysgolion prif ffrwd, pa un bynnag sydd fwyaf;

**Newidiadau a reoleiddir i ysgolion arbennig cymunedol**

- ar gyfer ysgolion arbennig (ac eithrio os yw'r ysgol mewn ysbyty), cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer a fyddai, ar y cyd â phob cynnydd blaenorol o'r fath yn nifer y disgyblion, yn cynyddu 10 % ar nifer y disgyblion neu nifer perthnasol y disgyblion o'r fath (pa un bynnag sydd leiaf). Y nifer perthnasol yw 5 os mai dim ond darpariaeth breswyl a gynigir gan yr ysgol, ac 20 mewn achosion eraill. Ystyrir unrhyw gynnydd blaenorol yn nifer y disgyblion o'r dyddiad priodol. Y dyddiad priodol yw'r dyddiad diweddaraf o blith y canlynol:

  – 19 Ionawr 2012;
  – y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;
  – y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol.

- ar gyfer ysgol arbennig, cyflwyno neu derfynu'r ddarpariaeth breswyl, neu newid y ddarpariaeth breswyl fel bod nifer y disgyblion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer yn cynyddu neu'n gostwng gan 5 disgybl;

- newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y mae ysgol arbennig yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer;

**Newidiadau a reoleiddir i ysgolion meithrin a gynhelir**

- ehangu'r gofod addysgu, neu wneud ehangiad dros dro yn ehangiad parhaol, mewn ysgol feithrin, a hynny o 50% neu ragor;

- ychwanegu neu ddileu darpariaeth (mewn ysgol feithrin) y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei bod wedi'i chadw'n ôl ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth o’r fath;

- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddisgyblion yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, newid fel bod yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg;

- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddisgyblion yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, newid fel bod yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2.4 Pwy all wneud cynnig?

Gall awdurdod lleol wneud cynigion i:

- sefydlu neu gau ysgolion cymunedol neu ysgolion meithrin a gynhelir neu wneud newid a reoleiddir iddynt (gweler 3.3 o'r Cod)
- cau ysgol wirfoddol neu sefydledig
- cynyddu neu leihau capasiti ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.

Gall cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig neu wirfoddol wneud cynigion i:

- gau eu hysgol
- gwneud newid a reoleiddir i'w hysgol.

Gall unrhyw un wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. Fodd bynnag, **dylai** awdurdodau lleol gydweithio â'r corff crefyddol perthnasol pan mai cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol o natur grefyddol sydd dan sylw.

Ni cheir sefydlu ysgol sefydledig nac ysgol arbennig sefydledig newydd yng Nghymru.

Gall awdurdodau lleol hefyd wneud cynigion i ychwanegu neu gael gwared ar ddosbarthiadau chwech mewn ysgolion uwchradd gwirfoddol a sefydledig, ond dim ond os ydynt yn gyntaf wedi cael caniatâd Gweinidogion Cymru i wneud hynny. **Rhaid** cael caniatâd drwy wneud cais ysgrifenedig sy'n nodi'n glir resymeg yr awdurdod lleol dros y cynnig.

Yn ogystal â hyn, mae Deddf 2013 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion i:

a) unioni darpariaeth ormodol neu annigonol o leoedd mewn ysgolion (lle maent eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i'r perwyl hwnnw) (adran 59);

b) sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (lle maent eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol/awdurdodau lleol/cyrff llywodraethu i'r perwyl hwnnw) (adran 68), ac

c) ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth mewn ysgol (adran 71).

# 3. Ymgynghori

## 3.1 Egwyddorion

Mae adran 48 o Ddeddf 2013 yn nodi bod yn **rhaid** cynnal ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgolion cyn eu cyhoeddi o dan adrannau 41-45. Yn ogystal â hyn, mae'n **rhaid** cynnal ymgynghoriad hefyd ar gynigion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 68 i sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig neu o dan adran 71 i ad-drefnu chweched dosbarth.

Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol fach[15] a wneir o dan adran 43. Fodd bynnag, **dylai** awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n dwyn ymlaen gynigion i gau ysgol fach sydd â llai na 10 o ddisgyblion, a honno'n ysgol sydd wedi'i dynodi'n ysgol wledig, ddal i ystyried y ffactorau sydd wedi'u pennu ym Mhennod 1 y Cod hwn, gan gynnwys y gofynion pellach sy'n ymwneud â chau ysgolion gwledig yn 1.8 *"Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig"*.

Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y **dylai'r** broses ymgynghori:

- gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal ar gam ffurfiannol;
- cynnwys digon o wybodaeth a rhesymau dros gynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus;
- rhoi digon o amser i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt;
- sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwybodol pan wneir y penderfyniad yn y pen draw.

Mae'r broses a'r canllawiau canlynol wedi'u datblygu gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a restrir uchod. Bydd angen i'r rhai sy'n ystyried cyflwyno cynigion fod yn gwbl ymwybodol o'r broses hon a'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, **rhaid** i gynigwyr gofio'r pedair egwyddor sylfaenol a chymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i sicrhau y cynhelir yr egwyddorion hynny.

## 3.2 Sylw i'r manylion

Mae'n hanfodol bod cynigwyr yn anelu at gyflwyno gwybodaeth o safon uchel ac yn sicrhau safon uchel, ar gyfer ymgyngoriadau ysgol a dogfennau ymgynghori a gaiff eu cyhoeddi. Caiff y rhain eu hystyried yn ofalus gan gymunedau, staff ysgolion a rhieni, a gall camgymeriadau yn y manylion danseilio eu hyder yn y cynnig. Os na ddarperir dogfennau ymgynghori cywir, o ansawdd uchel, efallai y bydd yn rhaid rhoi'r gorau i ymgyngoriadau, efallai

---

[15] Mae Deddf 2013 yn diffinio ysgol fach fel ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion. Dewiswyd y dyddiad hwn oherwydd mai dyma'r dyddiad y mae gofyn i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer y disgyblion ar y gofrestr.

y bydd y broses yn cymryd lawer yn hirach na’r disgwyl a gallai gynyddu’r gwrthdaro â chymunedau.

O bryd i’w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad ‘anffurfiol’ gyda rhai rhanddeiliaid penodol ynghynt yn y broses o ddatblygu cynigion. **Rhaid peidio ag** ystyried bod ymgynghoriad o’r fath yn disodli unrhyw ran o’r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod.

## 3.3 Gweithdrefnau

Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle y bydd cynigwyr o'r farn y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr wrth ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn.

Gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgyngoreion, fel sy'n briodol yn eu barn hwy. Er enghraifft, gallai diwrnodau agored neu sesiynau 'galw heibio' fod yn ffordd gyfleus i’r sawl sydd â diddordeb gael gwybodaeth, holi am eglurhad a rhoi sylwadau.

Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae tir a/neu adeiladau’n a gedwir ar ymddiriedolaeth, neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** i’r cynigydd gynnal ymgynghoriad â’r ymddiriedolwyr a/neu’r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi’r ddogfen ymgynghori. **Rhaid** i’r cynigydd ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer derbyn sylwadau a **rhaid** iddo roi sylw priodol i’r sylwadau hynny cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol.

Pan fydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad ac y mae'r cynigwyr yn penderfynu ei ystyried, **rhaid** iddynt ymgynghori eto ar yr opsiwn hwn cyn symud ymlaen i gyhoeddi'r cynigion.

## 3.4 Dogfen ymgynghori

**Rhaid** i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Dylid** ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill os bydd hygyrchedd yn peri pryder.

**Rhaid** cyhoeddi’r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu’r ysgolion y mae’r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a **rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i’r ddogfen, gydag 20 o’r rhain yn ddiwrnodau ysgol[16]. Ni ddylid cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol sy’n cynnwys sesiwn ysgol sydd wedi’i neilltuo (yn llwyr neu’n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).

---

**[16] Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu’n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o’r diwrnod.**

**Rhaid** anfon llythyr neu e-bost i'r canlynol ynghylch y ddogfen ymgynghori, gan roi gwybod iddynt bod modd iddynt ofyn am gopi caled (ond *gweler* hefyd adran 3 ar Ymgynghori â Phlant â Phobl Ifanc):

- rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys y rheini yn Lloegr lle bo'n briodol) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru*;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, neu unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;

- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, dylid anfon negeseuon e-bost i’r blwch canlynol sydd gan Lywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

Yn achos pob cynnig, **rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

**Disgrifiad a manteision**

- disgrifiad manwl o’r sefyllfa bresennol, sy’n amlinellu cryfderau a gwendidau a’r rhesymau pam yr ystyrir bod angen newid;
- disgrifiad manwl o'r cynnig neu gynigion (gall cynigydd ymgynghori ar fwy nag un cynnig posibl), yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynigion ac unrhyw drefniadau interim arfaethedig y gellid bod angen eu gweithredu. Wrth ddisgrifio’r cynigion, fel arfer **dylai** cynigwyr gyfeirio atynt gan ddefnyddio’r termau a amlinellir yn y Cod hwn (ee ‘cau ysgolion’), ond os bydd dwy ysgol bresennol neu fwy yn uno’n un ysgol sy’n gweithredu ar fwy nag un safle (ee os bydd hen ysgol babanod ac ysgol iau yn uno i greu ysgol gynradd), gellid defnyddio’r term ‘uno’;
- manteision disgwyliedig y cynigion ac anfanteision o gymharu â’r sefyllfa bresennol;
- unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynigion ac unrhyw fesurau sy’n ofynnol i reoli’r rhain;
- disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a’r rhesymau dros eu gwrthod (ond gweler para 1.8 i gael gwybod am y gofynion pellach o ran cau ysgol wledig);

- gwybodaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio gan ddysgwyr pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu a'r effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth.

**Manylion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt**

- enwau, lleoliadau a chategorïau (hy cymunedol, gwirfoddol a reolir, gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig) pob ysgol bresennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni (er enghraifft, yn achos cynnig i gau ysgol, **dylid** rhoi gwybodaeth am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt);

- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd[17] a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgolion blynyddol blaenorol ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd) a phe gweithredid y cynigion;

- capasiti lleoedd disgyblion[18] ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- nifer y lleoedd meithrin ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- gwybodaeth am ansawdd adeiladau ac ystafelloedd ym mhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg diweddaraf yr awdurdod lleol o gyflwr yr ysgol, gan ddefnyddio categorïau'r Arolwg Ysgolion gwreiddiol ar gyfer yr 21ain Ganrif;

- cyfrwng iaith pob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt (gan ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 23/2007 "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg").

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

---

[17] Ar gyfer ysgolion cynradd, dylid dangos nifer y disgyblion meithrin ar wahân ac ni ddylid eu cynnwys mewn rhagolygon.
[18] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru".

- dadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd y canlynol (cyfeirir at bum maes arolygu perthnasol Estyn mewn cromfachau):

a) safonau (safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau); llesiant ac agweddau at ddysgu;

b) profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu; ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth sgiliau);

c) arweiniad a chymorth gofal (tracio, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a gwarchod disgyblion);

d) arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnyddio adnoddau)

yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni/arno.

- gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

- effaith debygol y cynigion ar allu ysgol neu ysgolion sy'n destun cynigion neu unrhyw ysgol arall sy'n debygol o gael ei heffeithio i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

- i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.

- sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.

**Cyllid**

- costau ariannol ac arbedion y cynnig ac unrhyw arbedion posibl (gan gynnwys, lle bo'n briodol, y costau presennol yn ôl disgybl a'r costau a amcanestynnir unwaith y gweithredid y cynnig) - cyfalaf a rheolaidd (gan gynnwys costau cludiant a staff yr ysgol);

- ffynonellau cyllid cyfalaf;

- sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio.

**Tir ac adeiladau**

- manylion unrhyw dir neu adeiladau y gellid bod angen eu trosglwyddo neu eu gwaredu o ganlyniad i'r cynigion.

**Manylion ymgynghori**

- manylion o ran sut y gall pobl leisio eu barn gan gynnwys y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn y sylwadau hynny;

- manylion o ran sut y gall pobl ofyn cwestiynau eraill am y cynigion neu awgrymu opsiynau eraill;

- datganiad i'r perwyl na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynnig ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad y gall gwrthwynebiadau gael eu cofrestru;

- esboniad o'r broses gyhoeddi, sut i gyflwyno gwrthwynebiadau a sut y penderfynir ar gynigion cyhoeddedig;

    - gofod i ymateb i'r ymgynghoriad

    - cyfle i'r rheini yr ymgynghorir â nhw i nodi eu dymuniad i gael eu hysbysu pan gaiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.

Pan fydd cynigion yn cynnwys sefydlu ysgol newydd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori hefyd:

- Ar gyfer yr ysgol newydd:

    a. y nifer derbyn a'r trefniadau derbyn arfaethedig;
    b. ystod oedran;
    c. capasiti lleoedd disgyblion a/neu nifer y lleoedd meithrin;
    d. lleoliad;
    e. categori (h.y. cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir);
    f. categori iaith (yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007);
    g. manylion yr adeiladau a'r ystafelloedd arfaethedig, gan gynnwys rhestr o'r cyfleusterau arfaethedig;

h. yn achos uned adnoddau anghenion addysgol arbennig mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion arbennig y disgyblion y cynigir eu derbyn;

i. trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol (gan gynnwys unrhyw drefniadau pontio) a pholisi cludiant yr awdurdod lleol.[19]

Pan fydd cynigion yn cynnwys cau ysgol, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- manylion unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol, a'r rhesymau dros beidio â bwrw ati â'r rhain (ond gweler para 1.8 i gael gofynion pellach mewn perthynas â chau ysgol wledig);

- effaith y cynigion ar y gymuned leol, yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir mewn cynigion;

- yn achos darpariaeth amgen:

  a. enw a lleoliad y ddarpariaeth amgen arfaethedig;
  b. cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r ysgol neu ysgolion amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr opsiwn amgen;
  c. trefniadau derbyn yr ysgol amgen arfaethedig;
  d. cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r dewis arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion yn y dewis amgen;
  e. gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sydd ei angen i sicrhau y gall plant sy'n trosglwyddo gael lle yn y ddarpariaeth amgen;
  f. yr effaith ar amseroedd teithio disgyblion i'r ysgol ac ar gostau cludiant i'r ysgol;

  g. gwybodaeth am lwybrau cerdded sydd ar gael i'r ddarpariaeth amgen;

  h. cyfrwng iaith yr ysgol amgen arfaethedig.

Pan fydd cynigion yn ymwneud â chau ysgol wledig a phenderfyniad wedi'i wneud i ymgynghori ar y cynnig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y

---

[19] **Mae adran 3 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi trothwy ar gyfer hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, sef 2 filltir neu fwy ar gyfer addysg gynradd a 3 milltir neu fwy ar gyfer addysg uwchradd orfodol.**

ddogfen ymgynghori ynghyd â'r wybodaeth y mae'n **rhaid** ei chynnwys ar gyfer pob cynnig:

- Y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol (hy disgrifiad o'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol ac y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt);
- Yr opsiynau eraill a nodwyd ac asesiad o'r opsiynau hyn, gan gynnwys:
    - yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg,
    - yr effaith debygol ar y gymuned,
    - yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i'r rheini yr ymgynghorir â nhw y gallant:

- wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;

- awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n goresgyn y problemau sydd y tu ôl i'r cynnig i gau'r ysgol (hy y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt).

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth feithrin. **Rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- digonolrwydd yr adeiladau a'r ystafelloedd a gynigir, yn y dosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin;

- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;

- lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, ee darpariaeth Gymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol;

- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth. **Rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed yn yr ardal;

- a fydd cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, Lefel UG/Lefel Uwch a chyrsiau sefydledig eraill yn ôl y gofyn o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;

- a yw'r cynigion yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;

- i ba raddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 a phartneriaethau dysgu lleol;

- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;

- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat;

- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w gwella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;

- sut y gall cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant ddewisol y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr[20] sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pan fydd cynigion yn ymwneud ag ysgol arbennig neu'n cynnwys unedau adnoddau arbenigol sydd wedi'u hatodi i ysgolion prif ffrwd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar ddarpariaeth AAA;
- sut y bydd cynigion yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at wella ansawdd yr addysg a'r cymorth i blant ag AAA.

---

**[20] Mae adran 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi grym i awdurdod lleol ddarparu cludiant dewisol lle maent hwy yn gweld yn dda i hwyluso trefniadau teithio dysgwyr. Mae paragraffau 1.98 – 1.105 o Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn darparu canllawiau pellach ar y ddarpariaeth hon.**

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid cyfrwng iaith. **Rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- y galw a ragwelir ymhlith rhieni am y math o ddarpariaeth a gynigir; ac
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol, o'r math a gynigir, yn cynnig mwy neu lai na'r hyn y mae galw amdani neu'r galw a ragwelir.

Pan fydd unrhyw ysgol sy'n rhan o gynnig neu y mae cynnig yn effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- asesiad o effaith y cynnig ar y Gymraeg (rhaid cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, naill ai ym mhrif ran y ddogfen ymgynghori neu fel atodiad);
- esboniad o sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori;

- yr effaith ar argaeledd a mynediad i leoedd mewn ysgol â'r un cymeriad crefyddol dynodedig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid categori, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- effaith y newid categori ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm;

- unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol, ond, ym mhob achos, **rhaid** i'r holl wybodaeth uchod gael ei darparu mewn perthynas â phob un o'r opsiynau a nodwyd.

## 3.5 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

**Rhaid** i gynigwyr wneud trefniadau addas hefyd i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y bydd y cynigion yn effeithio arni (neu ran o ysgol yn achos darpariaeth sy'n unswydd ar gyfer plant ag AAA) a, lle y bo'n bosibl, blant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny. **Rhaid** i hyn gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a **dylai** hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn yn briodol ac yn ymarferol. **Rhaid** i gyrff llywodraethu helpu i hwyluso'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad.

**Rhaid** i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth debygol ac yn eu galluogi i lunio barn ddeallus. Mae’r safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru; **dylai** cynigwyr gyfeirio at y rhain a gweithredu’n unol â nhw.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/ParticipationforChildrenandYoungPeople/?lang=cy

Os ymgynghorir â dysgwyr unigol, **dylai** cynigwyr gynhyrchu a dosbarthu fersiwn neu fersiynau o’r ddogfen ymgynghori sy’n briodol i oed/oedrannau’r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. **Dylai’r** ddogfen ymgynghori esbonio’n glir i blant a phobl ifanc y gwahaniaeth rhwng y cyfnod ymgynghori a’r cyfnod gwrthwynebu ynghyd â sut a phryd y gallant wrthwynebu cynigion. Os bydd angen, **dylai** cynigwyr helpu plant a phobl ifanc sydd am gyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad.

## 3.6 Adroddiadau ymgynghori

**Rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ei wefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. **Rhaid** cyhoeddi’r adroddiad o leiaf ddwy wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol. Dylai:

- grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny;
- nodi ymateb Estyn i’r ymgynghoriad yn llawn;
- ymateb i ymateb Estyn ar ffurf esboniad, diwygiad i’r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.

Gallai'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hefyd wneud argymhellion - er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu - ynghylch sut i fwrw ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ailwampio’r cynigion ac ailymgynghori arnynt.

**Rhaid** i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad at unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a sicrhau bod yr adroddiad ar gael i’r plant a’r bobl ifanc hynny.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â chau ysgol wledig, yn ogystal â’r camau i’w cymryd o ran yr adroddiad ymgynghori i bob ysgol, mae’r gofynion arbennig canlynol yn gymwys:

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, pan fydd y cynigydd yn adolygu'r cynnig cyn ei gyhoeddi, bydd yn ofynnol i'r cynigydd gynnal asesiad pellach o'r cynnig ac o bob un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn y papur cynnig. Bydd hyn yn cwmpasu'r un materion â'r rheini yr oedd yn ofynnol i'r cynigydd eu hasesu wrth lunio'r cynnig:

- yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- yr effaith debygol ar y gymuned
- yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall.

Yn ei adroddiad ymgynghori, bydd gofyn i'r cynigydd esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'w asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, bydd gofyn i'r cynigydd gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn llawn neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad.

Er nad yw Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gynigion i gau ysgolion bach oedd â llai na 10 o ddisgyblion pan gynhaliwyd cyfrifiad y mis Ionawr cynt[21], **dylai** awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n dwyn ymlaen gynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir ym Mhennod 1 y Cod hwn wrth ddatblygu ac ystyried cynigion. Os yw'r ysgol ar restr yr "ysgolion gwledig", mae hyn yn cynnwys bodloni'r gofynion yn 1.8, sef *"Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig"*.

**Rhaid** i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad gael ei gyhoeddi'n electronig, naill ai ar wefan y cynigydd neu ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Yn ogystal â hyn, **rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Rhaid** i hyn ddigwydd cyn cyhoeddi unrhyw gynnig.

**Rhaid** i'r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael:

- rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;

- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;

- ymgyngoreion a oedd wedi gofyn am gael eu hysbysu.

---

**[21] At ddibenion penderfynu a oes angen ymgynghoriad, mae adran 56 o Ddeddf 2013 yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar y trydydd dydd Mawrth ym mis Ionawr yn union cyn y dyddiad pan wneir y cynigion.**

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys y rheini yn Lloegr, lle bo'n briodol) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru*;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, dylid anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol sydd gan Lywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

Oni bai bod cynigwyr wedi gwneud cais am estyniad amser a'i fod wedi'i roi gan Weinidogion Cymru, **rhaid** cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a **rhaid** cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi.

**Rhaid** gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad. Wrth benderfynu a ddylent gymeradwyo estyniad, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y rhesymau a roddir dros y cais, natur y cynigion ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Byddai Gweinidogion Cymru yn annhebygol o gymeradwyo unrhyw gais a fyddai'n arwain at fwy na blwyddyn rhwng diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddi hysbysiad statudol.

Weithiau, cyflwynir cynigion statudol o ganlyniad i adolygiadau strategol o'r ddarpariaeth ysgolion gan awdurdodau lleol. Er ei bod hi'n arfer da ymgynghori ar adolygiadau o'r fath, **rhaid** i ymgynghoriad o'r fath **beidio â** chymryd lle'r ymgynghoriad ffurfiol sydd ei angen ar gynigion unigol yn unol â'r Cod.

Pan nad awdurdod lleol yw'r darpar gynigydd **dylai'r** cynigydd fynd ati'n gynnar, h.y. cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau, i drafod ei fwriadau â'r awdurdod lleol a fyddai'n cynnal unrhyw ddarpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig arfaethedig.

**Ni ddylai** cynigwyr gyfeirio at y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebiadau fel y cyfnod ymgynghori. Dim ond i'r cyfnod cyn y gwneir penderfyniadau terfynol i fwrw ati i gyhoeddi cynnig y mae'r term 'ymgynghori' yn gymwys.

Gall ymgyngoreion gyflwyno barn o blaid neu yn erbyn cynnig. **Dylid** hysbysu ymgyngoreion na chaiff sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu trin fel gwrthwynebiadau ac, os dymunant wrthwynebu, fod angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Os bydd ymgyngoreion yn cyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn gofyn i ymateb a gyflwynir yn ystod y cam ymgynghori gael ei ystyried yn wrthwynebiad, fel arfer **dylai** hyn gael ei dderbyn. **Dylai'r** rhai sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynigion wneud pob ymdrech i sicrhau y bydd y rhai sydd wedi gwrthwynebu neu wedi mynegi pryder yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwybodol bod hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi.

# 4. Cyhoeddi cynigion statudol

## 4.1 Sut y cyhoeddir cynigion

Os bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, **rhaid** iddo gyhoeddi'r cynnig[22] ar ffurf hysbysiad (y cyfeirir ato yn y Cod hwn fel "hysbysiad statudol").

**Rhaid** i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol, ond nid ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).
**Rhaid** i'r cyfnod gwrthwynebu (*gweler* 4.2) gynnwys 15 diwrnod ysgol[23] (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).

**Rhaid** i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi:

i. ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);
ii. ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd;
iii. drwy gael ei osod wrth neu ger y brif fynedfa i unrhyw ysgol sy'n destun cynnig, neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, bob un ohonynt;
iv. lle mae ysgol newydd yn cael ei sefydlu, mewn man amlwg yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol;
v. drwy roi copïau o'r hysbysiad i unrhyw ysgol sy'n destun cynigion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgol (gall yr ysgolion ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost);
vi. yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

Yn ogystal â hyn, ar y diwrnod y caiff yr hysbysiad statudol ei gyhoeddi, **rhaid** anfon naill ai gopi caled o'r hysbysiad, neu e-bost yn cynnwys dolen i'r wefan berthnasol, i:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan

[22] Adran 48 o Ddeddf 2013.
**[23] Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.**

gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;

- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae’r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff sy’n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, dylid anfon negeseuon e-bost i’r blwch canlynol sydd gan Lywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

Nid yw'n ofynnol cyhoeddi'r cynnig mewn papur newydd mwyach.

## 4.2 Hyd y cyfnod gwrthwynebu

Mae Deddf 2013 yn darparu y caiff unrhyw un sydd am gyflwyno gwrthwynebiadau i gynnig trefniadaeth ysgolion y cyfle i wneud hynny. Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, **rhaid** cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu mewn e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu").

## 4.3 Cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig

**Rhaid** i'r hysbysiad statudol cyhoeddedig gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r personau neu'r corff sy'n cyhoeddi'r cynnig;
- dyddiad arfaethedig gweithredu'r cynnig (neu'r dyddiadau, os bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam);
- manylion sut i gael copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- y dyddiad olaf ar gyfer anfon gwrthwynebiadau a'r cyfeiriad y dylid eu hanfon iddo, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost perthnasol.

Yn ogystal â hyn

- **rhaid** i hysbysiad statudol am gynigion i sefydlu ysgol newydd nodi:
  - categori iaith arfaethedig yr ysgol yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol arfaethedig;
  - lleoliad safle'r ysgol (a'r cyfeiriad post lle y bo'n briodol);
  - a fydd yr ysgol yn ysgol un rhyw neu'n ysgol gymysg;
  - ystod oedran yr ysgol;
  - categori'r ysgol - cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol;
  - ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol fydd yr awdurdod derbyn;
  - y trefniadau arfaethedig ar gyfer cludo'r disgyblion;
  - nifer y disgyblion i'w derbyn ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion ar bob cam o'r broses weithredu - pennir nifer y disgyblion i'w derbyn, sef y "nifer derbyn", yn unol â'r cyfrifiad a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);

- capasiti arfaethedig yr ysgol - pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
- ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am y math o AAA y gwneir darpariaeth ar ei gyfer;
- a fydd gan yr ysgol gymeriad crefyddol, ac os felly, natur y cymeriad hwnnw a'r corff crefyddol priodol arfaethedig;
- a fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl gallu, a ganiateir gan adran 101 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion);
- yn achos ysgol wirfoddol newydd, a fydd y cynigion yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol neu'r hyrwyddwyr ac, os caiff y cynigion eu gweithredu gan y ddau, i ba raddau y cânt eu gweithredu gan y ddau gorff.

- **Rhaid** i hysbysiad statudol am gynigion i newid ysgol neu newid ei chategori nodi:

  - enw a chyfeiriad yr ysgol sy'n destun cynnig;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
  - disgrifiad o'r newid arfaethedig neu'r newid categori;
  - pan fydd y newid yn cynnwys ehangu'r ysgol, neu leihau capasiti, nifer presennol y disgyblion, capasiti'r ysgol a'r capasiti arfaethedig - pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
  - nifer y disgyblion i'w derbyn ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion neu ar bob cam o'r broses weithredu;
  - yn achos newid y math o ddarpariaeth AAA, y ddarpariaeth amgen i'r disgyblion a'r effaith ar gludiant i'r ysgol;
  - goblygiadau posibl y newid ar ddarpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

- **Rhaid** i hysbysiad statudol am gynigion i gau ysgol nodi:

  - enw a chyfeiriad yr ysgol i'w chau;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
  - cymeriad crefyddol yr ysgol os oes ganddi un ac, os felly, y corff crefyddol priodol;
  - manylion yr ysgol/ysgolion amgen y gall y disgyblion ei/eu mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau interim a chategori

iaith yr ysgol/ysgolion amgen fel y'i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Rhif: 023/2007;

- manylion unrhyw fesurau a gymerir i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion amgen;
- y trefniadau ar gyfer cludo'r disgyblion i ysgolion amgen.

**Noder**: Weithiau, bydd angen i gynnig gynnwys dwy elfen ar wahân, e.e. gallai ysgol gael ei throsglwyddo i safle newydd a chael ei hehangu hefyd. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen dau gynnig, y gellir eu cynnwys mewn un hysbysiad statudol.

Mae Atodiad B yn cynnwys sawl templed enghreifftiol ar gyfer hysbysiadau statudol a all fod o ddefnydd i gynigwyr wrth iddynt lunio hysbysiad statudol.

# 5. Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru)

## 5.1 Adroddiadau gwrthwynebu

O dan adran 49 o Ddeddf 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). **Rhaid** gwneud hyn:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo bennu ei gynigion ei hun o dan adran 53 o'r Ddeddf (*gweler* 5.4 isod), cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad; ac
(b) ym mhob achos arall, cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Rhaid** cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu drwy ei roi:

i. ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);
ii. ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os yw'n wahanol i (i.) uchod.

Yn ogystal â hyn, **rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais.

**Rhaid** i'r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;

- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru*;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant ac, yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, dylid anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol sydd gan Lywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

## 5.2 Cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (adran 50 o Ddeddf 2013)

Bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynigion, o dan adran 50 o Ddeddf 2013:

(a) os ydynt yn effeithio ar addysg chweched dosbarth; neu

(b) os ydynt wedi'u gwneud gan rywun heblaw'r awdurdod lleol perthnasol a bod yr awdurdod hwnnw wedi cyflwyno gwrthwynebiad nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth:

(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas yn unig i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol; neu

(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid a reoleiddir i ysgol a fyddai'n cynyddu neu'n lleihau'r ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynnig, **rhaid** i'r cynigwyr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu ac anfon atynt gopïau o'r gwrthwynebiadau statudol yn ogystal â'r adroddiad gwrthwynebu a nodir ym mharagraff 5.1. **Rhaid** i'r cynigydd hefyd anfon at Weinidogion Cymru unrhyw gynigion sydd, yn ei dyb ef, yn gysylltiedig â'r cynigion y mae angen gwneud penderfyniad arnynt. Yna, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu a fydd angen iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynigion eraill hyn hefyd.

Ystyrir bod cynnig yn "gysylltiedig" os byddai ei weithredu (neu os byddai peidio â'i weithredu) yn atal neu'n tanseilio gweithredu cynnig arall yn effeithiol. Lle bydd cynigion yn "gysylltiedig", dylai'r penderfyniadau fod yn gydnaws.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y byddai addasiadau yn ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol a'r awdurdod lleol (pan nad hwy yw'r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

## 5.3 Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol (adran 51 o Ddeddf 2013)

Mae angen cymeradwyo cynigion a gyhoeddir o dan adran 48, a hynny o dan adran 51 o Ddeddf 2013:

(a) os nad ydynt yn gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru;

(b) os ydynt wedi'u gwneud gan gynigydd heblaw'r awdurdod lleol perthnasol; ac

(c) os oes gwrthwynebiad wedi'i wneud i'r cynigion ac nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Gweithdrefnau**

Os bydd angen i'r awdurdod lleol gymeradwyo cynigion, **rhaid** i'r cynigydd hysbysu'r awdurdod lleol am gynnig y mae angen ei gymeradwyo ac anfon y dogfennau a restrir isod ato cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu:

- copi o'r ddogfen ymgynghori;
- copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd;
- copi o'r adroddiad gwrthwynebu;
- copïau o'r gwrthwynebiadau statudol;
- copïau o'r uchod mewn perthynas ag unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r cynigion y mae angen eu cymeradwyo.

**Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a oes angen iddynt gymeradwyo unrhyw gynigion cysylltiedig a anfonir atynt.

**Rhaid** iddynt drafod cynigion y mae angen eu cymeradwyo yn ddi-oed, cyn belled â bod hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion. Ym mhob achos, **rhaid** i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei benderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Fodd bynnag, ni fydd methu â chydymffurfio â'r amserlen honno'n effeithio ar ddilysrwydd unrhyw benderfyniad a wneir.

**Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

Dim ond newidiadau fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y gall addasiadau ymwneud â hwy. **Rhaid** i'r awdurdod lleol **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r

addasiad. **Rhaid** iddynt hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Os na ellir cael cydsyniad, ac os bydd yr awdurdod lleol o'r farn nad yw'r cynigion yn dderbyniol ar y ffurf y cyhoeddwyd hwy, **rhaid** iddo wrthod y cynigion. **Rhaid** i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddi (os nad y corff llywodraethu yw'r cynigydd).

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

## 5.4 Penderfyniad gan gynigwyr (adran 53 o Ddeddf 2013)

Os nad oes angen cymeradwyo cynigion o dan adrannau 50 a 51 o Ddeddf 2013, y cynigydd fydd yn penderfynu arnynt.

O dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r cynigydd wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Os bydd y cynigydd yn methu â phenderfynu ar y cynnig cyn pen 16 wythnos, ystyrir ei fod wedi tynnu'r cynnig yn ôl a bydd angen iddo ailgyhoeddi'r cynigion os hoffai barhau.

Os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r awdurdod lleol **beidio ag** ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.3 – 1.14 o'r Cod hwn. Yn yr achosion hyn, **rhaid** cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu ar yr un pryd â'r penderfyniad, yn hytrach na chyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

## 5.5 Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol

Os bydd angen i awdurdodau lleol gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion y daeth gwrthwynebiad i law yn eu cylch, bydd diwygiad[24] i Atodlen 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i weithrediaeth yr awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'r weithrediaeth a/neu'r Cabinet eisoes yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys penderfyniadau i ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion a'u cyhoeddi. Felly, bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion trefniadaeth ysgolion. Bydd y ddealltwriaeth hon, ynghyd â'u profiad mwy cyffredinol o wneud penderfyniadau a'r ffaith eu bod yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholaeth leol, yn golygu bod y weithrediaeth yn y sefyllfa ddelfrydol i benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion ai peidio.

Fodd bynnag, os byddant yn dewis gwneud hynny, ni fydd Atodlen 2 y rheoliadau perthnasol yn atal awdurdodau lleol rhag mabwysiadu prosesau

**[24] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013 Rhif 2438 (Cy. 235).**

amgen y cytunwyd arnynt yn lleol i wneud penderfyniadau o’r fath. Gall y rhain gynnwys creu pwyllgor penderfynu lleol mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill yn eu rhanbarth.

Os bydd awdurdodau lleol yn dewis dilyn y trywydd hwn, bydd angen iddynt ystyried yn ofalus sut y byddant yn sicrhau bod cyrff o’r fath yn gwneud penderfyniadau teg a chadarn.

Mae Atodiad D yn darparu manylion model posibl ar gyfer pwyllgor penderfynu lleol.

## 5.6 Hysbysiad o benderfyniad

**Rhaid** gwneud a chyflwyno penderfyniadau (mewn perthynas â chynigion sy’n gofyn am gymeradwyaeth neu benderfyniad) ar ffurf llythyr penderfyniad. **Rhaid** i’r llythyr penderfyniad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir, gan gyfeirio at adrannau 1.3 i 1.6 y Cod hwn a’r ystyried yn adrannau 1.7 i 1.14 [sy’n cynnwys y ffactorau ychwanegol i’w hystyried a’r gofynion mewn perthynas â chau ysgolion gwledig].

Yn ogystal, rhaid i lythyr penderfyniad ynghylch cynnig i gau ysgol a ddynodwyd yn ysgol wledig nodi pam mae’r cynigydd yn fodlon mai gweithredu’r cynnig yw’r ymateb mwyaf priodol i’r rhesymau a nodwyd dros lunio’r cynnig.

**Rhaid** cyhoeddi llythyrau penderfyniad yn electronig ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) ac ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw’n wahanol).

**Rhaid** i’r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod y llythyr penderfyniad ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy’n destun cynigion;
- Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo’n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, dylid anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol sydd gan Lywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

## 5.7 Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru

O dan adran 54 o Ddeddf 2013, os yw cynigion wedi'u cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol, gall y cyrff canlynol atgyfeirio'r cynigion, cyn pen 28 diwrnod o ddiwrnod y penderfyniad, i Weinidogion Cymru eu hystyried:

- i Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- ii Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- iii Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- iv Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- v Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.

Dylid atgyfeirio penderfyniadau drwy e-bost i flwch Llywodraeth Cymru, Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru **Dylai'r** corff sy'n atgyfeirio'r penderfyniad roi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol am yr atgyfeiriad.

Bydd angen i'r corff sy'n atgyfeirio nodi mewn llythyr pam ei fod o'r farn bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir.

Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynigion yn effeithio ar y cyrff y cyfeirir atynt yn i, ii a iv, ac felly bod angen iddynt ystyried y cynigion.

Os oes gofyn i Weinidogion Cymru ystyried cynnig **rhaid** i'r awdurdod lleol ddarparu iddynt, ar gais, gopïau o'r gwrthwynebiadau statudol ac unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn hanfodol.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y byddai addasiadau yn ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol a'r awdurdod lleol (pan nad hwy yw'r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

Ni ellir atgyfeirio cynigion i gau ysgol fach[25] i Weinidogion Cymru.

---

**[25] O dan adran 54 o Ddeddf 2013, ni cheir atgyfeirio cynigion a wnaed o dan adrannau 43 neu 44 i gau ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon. Mae adran 56 yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol a oedd â llai na 10 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar y trydydd dydd Mawrth ym mis Ionawr yn union cyn dyddiad y cynigion.**

# 6. Gweithredu cynigion

## 6.1 Gweithredu – cyffredinol

Fel arfer, **rhaid** i gynigion gael eu gweithredu yn unol â'r hyn y penderfynwyd arno neu a gymeradwywyd (gyda neu heb addasiadau). **Dylai** cynigwyr roi gwybod i Weinidogion Cymru drwy e-bost pan gaiff cynnig ei weithredu. Dylid anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol yn Llywodraeth Cymru: Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion unigol.

Fodd bynnag, o dan adran 55 o Ddeddf 2013, os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu cynnig ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynnig gael ei gymeradwyo ei bod yn amhriodol ei weithredu ar y dyddiad gwreiddiol, gall addasu'r cynnig fel bod y broses o'i weithredu yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd.

Os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynigion neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo y byddai'n gwbl amhriodol eu gweithredu, gall benderfynu y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion.

Yn achos cynigion i gau ysgol, ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, gall cynigydd hefyd benderfynu dwyn dyddiad gweithredu'r cynigion yn ei flaen hyd at 13 wythnos. **Rhaid** mai dim ond os nad oes gan ysgol unrhyw ddisgyblion ar y gofrestr, neu bod ganddi gyn lleied o ddisgyblion fel bod amheuon difrifol a elllid darparu'r cwricwlwm, y dylid dwyn y dyddiad gweithredu yn ei flaen.

Pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol (o dan adran 51 o Ddeddf 2013) neu Weinidogion Cymru (o dan adran 50 o Ddeddf 2013), **rhaid** mai dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y caiff cynigwyr benderfynu gohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo. **Rhaid** i unrhyw gais o'r fath am gytundeb gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau'r cynigydd yn glir.

Pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu ynghylch cynnig o dan adran 53 o Ddeddf 2013, gall yr awdurdod lleol ei hun benderfynu gohirio, prysuro neu roi'r gorau i'r cynnig.

**Rhaid** hysbysu partïon perthnasol gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Estyn, yr awdurdod lleol cynhaliol, a chyrff llywodraethu, rhieni, disgyblion a staff unrhyw ysgol y mae cynnig yn effeithio arni, fel y bo'n briodol, o unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo cyn saith diwrnod o'r ddyddiad y penderfyniad hwnnw. **Rhaid** i'r hysbysiad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn gryno.

Os bydd cynnig wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol, ac nas bodlonir yr amod hwnnw erbyn y dyddiad hwnnw, **rhaid** i'r cynigion gael eu hystyried fel eu bod wedi'u gwrthod, oni bai bod Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol wedi cytuno i ganiatáu i'r cynigydd amrywio'r amod hwnnw drwy osod dyddiad ddiweddarach.

## 6.2 Gweithredu – newid categori

Mae Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2013 yn nodi'r manylion llawn mewn perthynas â throsglwyddo tir. Bydd unrhyw drosglwyddiadau'n digwydd ar y dyddiad gweithredu. Os bydd ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, bydd unrhyw dir heblaw caeau chwarae sy'n eiddo i awdurdod lleol yn trosglwyddo'n awtomatig i ymddiriedolwyr yr ysgol.

Os bydd ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir heb gymeriad crefyddol yn dod yn ysgol gymunedol, bydd unrhyw dir a ariennir yn gyhoeddus yn trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol. Diffinnir tir a ariennir yn gyhoeddus yn Atodlen 4 o Ddeddf 2013 ac mae'n cynnwys tir a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu drwy grant cyfalaf (yn ystyr Pennod 6 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 1996). **Rhaid** i unrhyw dir arall sy'n eiddo i ymddiriedolwyr neu'r corff llywodraethu gael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol trwy gytundeb trosglwyddo a gaiff ei lunio gan y partïon. Efallai y bydd trosglwyddiad o'r fath yn cynnwys taliad, y cytunwyd arno, gan yr awdurdod lleol. Os na all y partïon gytuno ar drosglwyddiad, gall y naill barti neu'r llall ofyn i Weinidogion Cymru eithrio trosglwyddo unrhyw ddarn o dir. Yna, **rhaid** i Weinidogion Cymru'n penderfynu a ddylid cyfarwyddo eithrio'r darn hwnnw o dir ai peidio.

# 7. Cau ysgol â llai na deg disgybl cofrestredig

Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol[26].

Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli. Os daw gwrthwynebiadau i law, y cynigydd fyddai'n ystyried y cynnig ym mhob achos. Fodd bynnag, cyn cyflwyno cynigion o'r fath, **rhaid** i gynigwyr ofyn am farn unrhyw ymddiriedolaeth sydd â budd yn yr ysgol, neu'r corff crefyddol priodol, ac ystyried y safbwyntiau hyn cyn symud ymlaen.

Yn achos ysgolion lle mae rhai disgyblion ar ôl, **rhaid** i gynigwyr sicrhau y caiff yr hysbysiad cau ei ddwyn i sylw'r disgyblion, y caiff ei ystyr ei egluro iddynt, ac y caiff camau priodol eu cymryd i alluogi'r disgyblion hyn i ymateb i'r hysbysiad os dymunant wneud hynny. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu a **rhaid** i gynigwyr sicrhau yr ystyrir unrhyw farn a fynegir ganddynt yn llawn cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Anogir cynigwyr i rannu gwybodaeth â rhieni ac ysgolion eraill a **dylent** sicrhau eu bod yn cael copi o'r hysbysiad. Yn ogystal â hyn, **rhaid** hysbysu unrhyw ysgolion y nodir eu bod fwyaf tebygol o dderbyn disgyblion.

Nid yw bodolaeth gweithdrefnau symlach mewn perthynas â'r bwriad i gau ysgolion â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol gyflwyno cynigion i gau ysgolion o'r fath yn ddi-oed.

**Dylid** ystyried cau ysgolion o'r fath yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1. Os bydd yr ysgol ar restr yr "ysgolion gwledig", mae hyn yn cynnwys ystyried y ffactorau a bodloni'r gofynion yn adran 1.8, *"Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig"* cyn cyhoeddi hysbysiad ynghylch cau'r ysgol. Mae hyn yn golygu y dylai'r cynigydd hefyd:

- nodi rhesymau clir a phenodol dros lunio'r cynnig;
- nodi unrhyw opsiynau rhesymol eraill a fyddai hefyd efallai yn mynd i'r afael â'r problemau y tu ôl i'r cynnig a darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ystyried yn ofalus bob opsiwn ymarferol arall (gan gynnwys ffedereiddio), gydag asesiad clir o'u rhinweddau a'u hymarferoldeb, gan gynnwys:

---

**26**

- ✓ y manteision tebygol o ran addysg;
- ✓ yr effaith debygol ar y gymuned;
- ✓ yr effaith debygol ar drefniadau teithio; ac

- amlinellu yn y papur cynnig (sef papur i'w gyflwyno i'r sawl sy'n penderfynu) yr opsiynau eraill a nodwyd, rhoi asesiad o'r rhain ac esbonio pam mae'r cynigydd o'r farn, yng ngoleuni'r asesiad, nad gweithredu'r cynnig i gau'r ysgol fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau dros y cynnig.

## 8. Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion

Os bydd Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn y gorffennol i gyflwyno cynigion i unioni darpariaeth ormodol neu annigonol o leoedd mewn ysgolion, gallant gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r diben hwnnw.

Byddai'r meini prawf penodol y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i benderfynu cyhoeddi cyfarwyddyd neu gynnig yn amrywio, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau yn yr ardal dan sylw ond, yn gyffredinol, pwerau i'w defnyddio pan fetho popeth arall yw'r rhain a byddent yn cael eu defnyddio pan fyddai awdurdod lleol wedi methu â sicrhau:

- bod ei ardal yn cael ei gwasanaethu gan ysgolion sy'n ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i ddarparu cyfleoedd addysg priodol i bob disgybl; neu

- bod gan bob plentyn yn ei ardal fynediad rhesymol at un o'r ysgolion hynny; neu

- bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl i blant a phobl ifanc.

**Rhaid** i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r darpariaethau ym Mhennod 4 uchod.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn y cyfnod gwerthwynebu o 28 diwrnod. Os derbynnir gwrthwynebiadau, **rhaid** i Weinidogion Cymru beri cynnal ymchwiliad lleol i ystyried y cynigion. **Rhaid** i unrhyw gynigion eraill i ad-drefnu ysgolion, a gyhoeddwyd ond na phenderfynwyd arnynt eto, gael eu hatgyfeirio i'r ymchwiliad lleol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn gysylltiedig â'r cynnig sy'n cael ei wrthwynebu (ac oni bai bod Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid eu gweithredu).

**Rhaid** i'r ymchwiliad lleol gael ei gynnal gan unigolyn a benodwyd i'r diben hwnnw gan Weinidogion Cymru ac yn unol ag unrhyw weithdrefnau a amlinellir ganddynt adeg sefydlu'r ymchwiliad lleol.

Os bydd ymchwiliad lleol wedi'i gynnal, **rhaid** i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad y sawl a gynhaliodd yr ymchwiliad lleol. Yna, gallant wneud un o'r canlynol:

1. ei fabwysiadu gyda neu heb addasiadau, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru;
2. ei gymeradwyo gyda neu heb addasiadau, neu wrthod unrhyw gynigion eraill a atgyfeiriwyd i'r ymchwiliad lleol;

3. gwneud cynigion pellach i resymoli lleoedd mewn ysgolion.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu gwneud cynigion pellach, ni fydd gofyniad i beri cynnal ymchwiliad lleol arall.

Os na fydd y cynigion pellach hyn a wnaed gan Weinidogion Cymru wedi'u hatgyfeirio i ymchwiliad lleol, gall Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau:

1. fabwysiadu'r cynnig gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynnig.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a gymeradwyir neu a fabwysiedir gael eu gweithredu'n unol â Phennod 6 uchod.

# 9. Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Os bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn yn y gorffennol yn cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gyflwyno cynigion i ad-drefnu ysgolion at ddiben sicrhau darpariaeth ranbarthol i blant ag anghenion addysgol arbennig, gallant gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r diben hwnnw.

**Rhaid** ymgynghori ar y cynigion yn unol â Phennod 3 uchod, a rhaid iddynt gael eu cyhoeddi'n unol â Phennod 4.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, gall Gweinidogion Cymru;

1. fabwysiadu'r cynigion gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a fabwysiedir gael eu gweithredu'n unol â Phennod 6 uchod.

## 10. Cynigion gan Weinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched Dosbarth

O dan adran 71 o Ddeddf 2013, gall Gweinidogion Cymru wneud cynigion sy’n:

1. galw ar awdurdod lleol i sefydlu ysgol neu ysgolion i ddarparu addysg uwchradd sy’n addas i ofynion disgyblion chweched dosbarth yn unig (‘ysgol chweched dosbarth’);
2. cyflwyno neu ddileu darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol, neu;
3. gau ysgol chweched dosbarth.

**Rhaid** ymgynghori ar y cynigion yn unol â Phennod 3 uchod, a rhaid iddynt gael eu cyhoeddi’n unol â Phennod 4.

Gall unrhyw un wrthwynebu’r cynigion o fewn y cyfnod gwerthwynebu o 28 diwrnod.

Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, gall Gweinidogion Cymru;

1. fabwysiadu’r cynigion gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu’r cynigion.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a fabwysiedir gael eu gweithredu’n unol â Phennod 6 uchod.

## 11. Hysbysiad o fwriad corff llywodraethu i gau ysgol sefydledig neu wirfoddol

Mae adran 80 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol gau'r ysgol trwy roi dwy flynedd o rybudd i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o'i fwriad i wneud hynny. Cyn rhoi'r rhybudd, +:

1. gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol wedi gwario arian ar safle'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad â gwaith atgyweirio);
2. ymgynghori â Gweinidogion Cymru pe byddai cau'r ysgol yn effeithio ar gyfleusterau ar gyfer addysg lawn amser sy'n addas i unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed;
3. ymgynghori â'r ymddiriedolwyr ynghylch unrhyw dir neu adeiladau a gedwir ar ymddiriedolaeth, a/neu'r corff crefyddol priodol os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol dynodedig, a rhoi sylw priodol i unrhyw sylwadau a dderbynnir.

Os bydd angen cyngor ar gyrff llywodraethu mewn perthynas ag eiddo a gedwir ar ymddiriedolaeth elusennol, dylent gysylltu â'r Comisiwn Elusennau.

## Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol

Cam 1

Dylai'r cynigydd gyfeirio at y rhestr o ysgolion gwledig i gael gwybod a yw'r ysgol y mae am ei chau yn ysgol wledig ac a yw'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a amlinellir yn y Cod hwn yn berthnasol.

▼

Cam 2

Dylai'r cynigydd gyfeirio at adran 1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod) sy'n nodi'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar bob cynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion.

▼

Cam 3

Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae eu tir a/neu eu hadeiladau yn cael eu dal ar ymddiried, neu sydd â chymeriad crefyddol dynodedig, rhaid i'r cynigydd ymgynghori â'r ymddiriedolwyr a/neu â'r corff crefyddol priodol cyn i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi a chaniatáu 28 diwrnod i dderbyn sylwadau, a rhaid iddo roi sylw dyledus i'r sylwadau hynny cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol.

▼

Cam 4

Dylid cael cymeradwyaeth i fynd ati i ymgynghori'n ffurfiol. Lle mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet sy'n gwneud y penderfyniad fel arfer. Lle mai corff llywodraethu ysgol yw'r cynigydd, rhaid i'r corff llywodraethu wneud y penderfyniad.

▼

Cam 5

Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ei wefan a sicrhau ei bod ar gael ar ffurf copi caled. Os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd, gellir cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol hefyd. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod y tymor ysgol a rhaid i'r sawl yr ymgynghorir â nhw gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae adran 3 o'r Cod yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r holl ddogfennau ymgynghori a'r wybodaeth ychwanegol ynghylch cynigion i gau ysgolion gwledig ei chynnwys, ac mae'n darparu rhestr o'r partïon hynny y mae'n rhaid anfon copi neu ddolen i'r wefan berthnasol atynt. Rhaid i'r cynigydd wneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol yr effeithir arni.

▼

Cam 6

Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o sylwadau'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw ynghyd ag ymatebion y cynigydd ei hun i'r sylwadau (yr adroddiad ar yr ymgynghoriad) o leiaf dau wythnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad. Mae adran 3 o'r Cod yn darparu gwybodaeth am yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ac yn rhestru'r partïon y mae'n rhaid anfon copi neu ddolen i'r wefan berthnasol atynt.

▼

Cam 7

Os mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, fel arfer bydd y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet yn cyfarfod i ystyried yr ymgynghoriad ac a ddylid symud ymlaen gyda'r cynnig ai peidio. Os mai corff llywodraethu ysgol yw'r cynigydd, dylai gyfarfod i ystyried yr ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid symud ymlaen. Os penderfynant fwrw ymlaen, cymerir Cam 7. Os daw opsiwn newydd i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad y mae'r cynigwyr yn dymuno ei ystyried, yna ailadroddir Camau 1-5.

▼

Cam 8

Rhaid cyhoeddi cynigion o fewn 26 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori a ganiateir ar gyfer ymatebion. Fel arall, bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad arall.

| |
|---|
| Os bydd y cynigydd yn penderfynu symud ymlaen â'r cynnig, rhaid i'r cynigydd gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch darparu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. **Rhaid** cyhoeddi'r hysbysiad ar ddiwrnod ysgol, gyda 15 o ddiwrnodau ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) o fewn y cyfnod. Mae adran 4 o'r Cod yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad ei chynnwys ac mae'n esbonio sut mae'n rhaid ei gyhoeddi. |

▼

| Cam 9a | Cam 9b |
|---|---|
| Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau ac nad oes angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynnig. Os mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, fel arfer bydd y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet yn cyfarfod i benderfynu a ddylid symud ymlaen. Os mai corff llywodraethu'r ysgol yw'r cynigydd, dylai'r corff llywodraethu gyfarfod a phenderfynu a ddylid symud ymlaen. | Os daw gwrthwynebiadau i law, **rhaid** i'r cynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny (yr adroddiad ar y gwrthwynebiadau). |

▼

| Cam 10a | Cam 10b | Cam 10c |
|---|---|---|
| Os nad oes angen cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigwyr wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. | Os oes angen penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu at Weinidogion Cymru cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>Fel arfer, bydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu penderfynu ar gynigion cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. | Os oes angen penderfyniad gan yr awdurdod lleol ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, yr hysbysiad a gyhoeddwyd, y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu i'r awdurdod lleol cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>**Rhaid** i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad penderfyniad yr awdurdod lleol, gall cynigion gael eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru gan y canlynol:<br><br>i Awdurdod lleol arall;<br>ii Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni (yr awdurdod esgobaethol);<br>iii Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |

▼

| Cam 11 |
|---|
| Os caiff y cynigion eu cymeradwyo neu os bydd y cynigydd yn penderfynu eu gweithredu, **dylent** gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad a roddwyd yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedi hynny. |

# Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol

**Enghraifft o hysbysiad statudol i sefydlu ysgol gymunedol neu wirfoddol newydd**

[Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion].

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig sefydlu ysgol [*nodwch y categori iaith*[27]] newydd i'w chynnal gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] yn [*nodwch y lleoliad a, lle y bo'n briodol, y cyfeiriad post*] ar gyfer [*bechgyn*]/ [*merched*] /[*bechgyn a merched*] [*nodwch yr ystod oedran*] oed.

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynnig ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam, **dylid** nodi'r dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam]*.

Bydd yr ysgol newydd a gynigir yn ysgol [*nodwch* ysgol gymunedol *neu* ysgol wirfoddol a gynorthwyir *neu* ysgol wirfoddol a reolir].

[*nodwch* y corff llywodraethu *neu enw'r awdurdod lleol*] fydd yr awdurdod derbyn.

[*Nodwch y nifer derbyn*] fydd y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[28]] yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, **rhaid** rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu*]. [*Os bydd nifer derbyn ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth, **dylid** cynnwys y nifer hwnnw*].

[*Nodwch y ffigur capasiti*[29]] fydd capasiti disgyblion yr ysgol newydd. [*Byddai'n ddefnyddiol hefyd cynnwys nifer y lleoedd meithrin a ddarperir os yw'n briodol*].

[*Ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig y disgyblion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer*].

---

**[27] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at ddogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru 23/2007 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'.**

**[28] Diffinnir "grŵp oedran perthnasol" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw rhaid rhoi'r nifer derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.**

**[29] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru' neu unrhyw ddogfen olynol.**

[*Rhowch wybodaeth o ran p'un a gynigir y bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer bandio disgyblion*].

[*Yn achos ysgol wirfoddol newydd, rhowch wybodaeth am ei chymeriad crefyddol a'i chorff crefyddol priodol arfaethedig os bydd ganddi gymeriad crefyddol*].

[*Rhowch wybodaeth am y trefniadau arfaethedig i gludo'r disgyblion i'r ysgol newydd*].

[*Yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd, nodwch p'un a fwriedir i'r awdurdod addysg lleol neu'r hyrwyddwyr weithredu'r cynigion, ac, os bwriedir i'r ddau barti weithredu'r cynigion, i ba raddau y bydd y ddau gorff yn eu gweithredu*].

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol*].

[*Dyddiad - **dylai** hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

**Enghraifft o hysbysiad statudol i gau ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

[*Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion*].

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau [*enw a chyfeiriad yr ysgol*]. Cynhelir yr ysgol gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] [ac *os yn berthnasol, nodwch gymeriad crefyddol yr ysgol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynigion ar [*nodwch y dyddiad*] (2).

[*Nodwch fanylion yr ysgolion y gall y disgyblion yn yr ysgol i'w chau fynd iddynt, gan gynnwys unrhyw drefniadau interim a chategori iaith yr ysgolion amgen fel y'i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Rhif: 023/2007*].

[*Nodwch fanylion unrhyw fesurau eraill y bwriedir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion o ganlyniad i'r cynnig i gau'r ysgol*].

[*Nodwch fanylion y trefniant arfaethedig i gludo'r disgyblion i ysgolion eraill*].

[Rhaid i gynigion i gau ysgol wledig nodi'r rhesymau pam mae'r cynigydd yn fodlon mai cau'r ysgol yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd gan y cynigydd wrth lunio'r cynnig].

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*].

[*Dyddiad - **dylai** hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

**Enghraifft o hysbysiad statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid [*enw a chyfeiriad yr ysgol]* fel ei bod *[ychwanegu disgrifiad o'r newid/newidiadau arfaethedig*]. Cynhelir yr ysgol/ysgolion gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynnig ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam, **dylid** nodi'r dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam*].

[*Pan fydd y newid yn cynnwys ehangu, neu leihau capasiti, nodwch*] Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw [*nodwch nifer*], capasiti disgyblion yr ysgol yw [*nodwch gapasiti lleoedd disgyblion*[30]] a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd [*nodwch y capasiti arfaethedig*].

[*Pan fydd y newid yn cynnwys ehangu, neu leihau capasiti nodwch*] [*Nodwch y nifer derbyn*] fydd y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[31]] yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu [*Dylech gynnwys nifer chweched dosbarth ar wahân os yw'n briodol*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, **rhaid** rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu*]. [*os yn briodol*] Bydd xx o leoedd meithrin.

[*Pan fydd y newid yn golygu newid y math o ddarpariaeth, rhowch wybodaeth am y ddarpariaeth amgen i'r disgyblion a'r effaith ar gludiant i'r ysgol*].

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

---

[30] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 ‘Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru’ neu unrhyw ddogfen olynol.

[31] **Diffinnir "grŵp oedran perthnasol" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw rhaid rhoi’r nifer derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.**

Llofnodwyd …............................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*].

[*Dyddiad - **dylai** hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

# Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r gofyniad i gynnal asesiadau fod yn rhy feichus ac nid yw’n ystyried bod angen comisiynu gwaith o'r fath gan ymgynghorwyr allanol. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol eisoes i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a allai fod yn sail i'r asesiadau effaith a nodir yn y canllawiau hyn.

**Effaith ar y Gymuned**

Yn ddelfrydol, **dylai** asesiadau effaith gael eu cynnwys mewn dogfennau ymgynghori. Er nad yw'r nodiadau hyn yn rhagnodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn asesiad o'r effaith ar y gymuned, gallai cynigwyr gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill a ddarperir yn yr ysgol e.e. clwb ieuenctid/cylch chwarae;
- gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol;
- os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau;
- p'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai’r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);
- gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen;
- gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith;
- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);
- yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i’r ysgol;

- gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;

- gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach.

Mae yna lawer o ystyriaethau eraill sydd hefyd yn debygol o fod yn berthnasol o ran asesu effaith cau ysgol wledig, er enghraifft:

- a fyddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd â phlant o oedran ysgol i adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned;
- pa effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y gymuned;
- ai'r ysgol yw gwir ganolbwynt bywyd y gymuned ai peidio, ac yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill – megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cyngorfeydd a chynulliadau eraill – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n dioddef o gael eu symud i rywle arall;
- a fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned;
- sut gellid cefnogi cysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol newydd ac unrhyw gyfleusterau y mae'n eu cynnig (ee sut y cynorthwyir disgyblion, yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais, i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);
- effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau'r ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol).

Mae mynd ati cyn gynted â phosibl i ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned leol yn ffordd dda o gael gwybod am yr holl ffactorau perthnasol a'u deall.

**Effaith ar y Gymraeg**

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhagnodol nac yn hollgynhwysfawr ond gallai'r asesiad o'r effaith mewn perthynas â'r Gymraeg gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol;

- gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen;

- gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen;

- gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen (e.e. clybiau'r Urdd, clybiau Mentrau Iaith);

- gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, a lle y gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen;

- a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i atgyfnerthu safonau'r Gymraeg;
- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant penodol o ran darpariaeth ieithyddol y mae'r ysgol honno yn ei gynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion i gymryd rhan yng nghlybiau’r Urdd, clybiau Mentrau Iaith);
- Sylwadau a ddarperir gan fforwm addysg Gymraeg yr awdurdod lleol (os oes un ganddo)([32]);
- gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.

([32]) Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu’r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn darparu diffiniad o fforwm addysg Gymraeg. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw’n ofynnol i awdurdod lleol i gael fforwm o’r fath.

## Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol

Mae'r model a amlinellir isod yn un ffordd bosibl o sefydlu 'pwyllgor penderfynu lleol'.

Byddai maint y pwyllgor yn dylanwadu'n arwyddocaol ar ei effeithiolrwydd. Pe bai'n rhy fawr, byddai'n drwsgl a byddai'n anodd cael consensws. Pe bai'n rhy fach, efallai na fyddai digon o ddadlau a gallai'r safbwynt fod yn rhy gul. Efallai mai pwyllgor â phum aelod fyddai'r maint delfrydol.

Bydd cyfansoddiad y pwyllgor hefyd yn bwysig ac yn dylanwadu ar sut y bydd yn cael ei weld gan bobl. Os mai'r bwriad yw pwysleisio ei annibyniaeth ar weithrediaeth yr awdurdod lleol, efallai y bydd angen 'anghymwyso' aelodau'r weithrediaeth ac unrhyw un sydd â chysylltiad â'r awdurdod lleol, y cynigydd (os yw'n wahanol i'r awdurdod lleol) neu'r ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt, a all godi amheuon ynglŷn â'u gallu i weithredu'n ddiduedd mewn perthynas â'r cynnig.

Cyn belled nad ydynt wedi'u 'hanghymwyso', gall awdurdodau lleol benderfynu penodi pwyllgorau sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol yn unig, neu bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol (gan gynnwys aelodau awdurdod lleol arall), neu unrhyw gyfuniad o'r ddau.

Os bydd ysgol â chymeriad crefyddol Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru (neu y bwriedir iddi fod â chymeriad crefyddol o'r fath) yn destun cynnig, gall yr awdurdod lleol wahodd Bwrdd Addysg Esgobaethol esgobaeth berthnasol yr Eglwys yng Nghymru neu Esgob esgobaeth berthnasol yr Eglwys Gatholig i enwebu cynrychiolydd i fod yn un o aelodau'r pwyllgor. Yn achos unrhyw ysgol wirfoddol arall â chymeriad crefyddol dynodedig, gall yr unigolyn neu'r bobl sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig gael eu gwahodd i enwebu cynrychiolydd.

Efallai y bydd awdurdodau lleol am sicrhau bod gan o leiaf un aelod o'r pwyllgor brofiad uniongyrchol o weithio yn y sector addysg. Gall aelod neu gyn-aelod o dîm uwch reoli ysgol neu lywodraethwr ysgol profiadol fod yn addas yn hyn o beth.

Os bydd y pwyllgor yn cynnwys aelodau'r awdurdod lleol yn unig, efallai yr hoffai'r awdurdod lleol ystyried ei wneud yn fwy cytbwys o safbwynt gwleidyddol yn y ffordd a amlinellir yn adrannau 15 a 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Hwyrach y bydd yr awdurdod lleol am recriwtio, hyfforddi a chadw cronfa o unigolion cymwys a phenodi i bwyllgor yn ôl yr angen. Byddai nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys lleihau'r amser sydd ei angen i sefydlu pwyllgor yn ôl yr angen a byddai'n helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod darpar aelodau'r pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant digonol.

Gallai awdurdodau lleol gydweithredu hefyd i ddatblygu cronfeydd rhanbarthol. Byddai hyn yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr cymwys a phrofiadol

ac yn darparu mwy o gyfleoedd i aelodau'r pwyllgor ennill profiad a datblygu arbenigedd wrth wneud penderfyniadau am drefniadaeth ysgolion. Fodd bynnag, wrth benodi paneli o unrhyw gronfa ranbarthol o'r fath, efallai yr hoffai awdurdodau lleol sicrhau bod gan rai aelodau o leiaf wybodaeth leol benodol.

Byddai'r awdurdod lleol am sicrhau bod holl aelodau'r pwyllgor yn derbyn hyfforddiant priodol cyn ystyried unrhyw gynigion a bod aelodau profiadol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau ac yn cael cyfle i loywi eu hyfforddiant. Nid oes angen i'r hyfforddiant fod yn hollgynhwysfawr ond hwyrach y dylai geisio sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn gyfarwydd â'r canllawiau yn y Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013. Gallai dau awdurdod lleol neu fwy gydweithredu i ddarparu hyfforddiant a allai gyflwyno manteision megis rhannu arferion da yn eang, yn ogystal â sicrhau arbedion ariannol posibl.

Byddai'n fuddiol i'r pwyllgor sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau clerc. Er na fyddai'r clerc yn aelod o'r pwyllgor, gall weithredu fel ffynhonnell cyngor annibynnol. Er mwyn gallu gwneud hyn, byddai angen i'r clerc fod â dealltwriaeth dda o'r Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013, a'i fod wedi derbyn hyfforddiant priodol. Byddai angen i'r awdurdod lleol ddarparu cyngor cyfreithiol priodol i'r pwyllgor yn ôl yr angen. Ni ddylai'r clerc fod wedi ymwneud ag unrhyw ran o'r cynnig y mae'r pwyllgor yn ei ystyried ac ni ddylai fod ag unrhyw fuddiant mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan aelodau'r pwyllgor.

Byddai tasgau allweddol y clerc yn cynnwys:

- gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y pwyllgor;
- bod yn ffynhonnell cyngor annibynnol ar weithdrefnau, y Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013;
- cofnodi'r trafodion, y penderfyniad a'r rhesymau drosto;
- sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei hysbysu a'i gyhoeddi yn unol â pharagraff 5.13.

Er mwyn i'r pwyllgor allu gwneud penderfyniad deallus, byddai angen i'r awdurdod lleol anfon y dogfennau a amlinellir ym mharagraff 5.3 uchod at y clerc penodedig yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Dylai'r pwyllgor seilio ei benderfyniad ar y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn hytrach na cheisio neu ystyried gwybodaeth newydd (oni bai ei fod o'r farn y bydd yn helpu i wneud ei benderfyniad o fewn yr amserlen) neu ystyried sylwadau ar lafar.

# Atodiad E: Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a fydd yn help wrth ddatblygu cynigion

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod)
- Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr
- Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: cynllun datblygu cynaliadwy newydd ar gyfer Cymru, Mai 2009, neu unrhyw strategaeth olynol
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (a gyhoeddwyd Chwefror 2011, Dogfen wybodaeth rhif 95/2011), neu unrhyw strategaeth olynol
- Ffydd mewn Addysg
- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygiad economaidd neu dai
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a wnaed o dan ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (neu gynlluniau olynol)
- Ysgolion y 21ain Ganrif – Rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf, ac unrhyw fuddsoddiadau perthnasol
- Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru, Cylchlythyr Rhif: 021/2011
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') yn amlinellu ffyrdd newydd o weithio – o gynllunio a gwneud penderfyniadau – ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill y mae'n eu rhestru. Y nod yw gwella llesiant cyffredinol yng Nghymru drwy'r pethau y mae cyrff cyhoeddus, ar y cyd, yn eu gwneud. Mae'r Ddeddf a'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol, yn eu cynllunio corfforaethol a'r ffordd maent yn gweithredu'r cynlluniau hynny, wneud y canlynol:

- cydbwyso anghenion tymor byr â'r gallu i ddiwallu anghenion **hirdymor**;

- ystyried effaith eu hamcanion ar amcanion sefydliadau eraill, ac ar lesiant yng Nghymru, mewn ffordd **integredig**;
- **cynnwys** pobl sy’n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu yn y prosesau hynny;
- **cydweithio** â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni amcanion ei gilydd yn well;
- defnyddio eu hadnoddau i **atal** problemau rhag gwaethygu neu rhag codi yn y lle cyntaf.

Mae’r canllawiau statudol ar gyfer sefydliadau y mae’r Ddeddf yn berthnasol iddynt yn amlinellu’r disgwyliadau o ran sut y dylid cyflawni’r dyletswyddau:

https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

Mae’r Ddeddf ei hun ar gael i’w gweld ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Yr arfer presennol o ran defnyddio adeiladau ysgol gwag, Dogfen wybodaeth rhif 158/2014

## Atodiad F: Rhestr o ysgolion gwledig

| Rhif yr ysgol | Enw'r ysgol | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| 6602133 | Ysgol Gymuned Bodffordd | Ynys Môn |
| 6602135 | Ysgol Gymuned Bryngwran | Ynys Môn |
| 6602141 | Ysgol Gynradd Garreglefn | Ynys Môn |
| 6602142 | Ysgol Gymuned y Ffridd | Ynys Môn |
| 6602145 | Ysgol Gymuned Moelfre | Ynys Môn |
| 6602146 | Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | Ynys Môn |
| 6602153 | Ysgol Gymuned Llanfechell | Ynys Môn |
| 6602155 | Ysgol Gynradd Llangoed | Ynys Môn |
| 6602156 | Ysgol Henblas | Ynys Môn |
| 6602157 | Ysgol Gymuned Llannerch-y-Medd | Ynys Môn |
| 6602160 | Ysgol Pencarnisiog | Ynys Môn |
| 6602162 | Ysgol Penysarn | Ynys Môn |
| 6602163 | Ysgol Santes Gwenfaen | Ynys Môn |
| 6602165 | Ysgol Gynradd Rhosybol | Ynys Môn |
| 6602173 | Ysgol Gynradd y Tywyn | Ynys Môn |
| 6602227 | Ysgol Rhyd y Llan | Ynys Môn |
| 6605200 | Ysgol Caergeiliog | Ynys Môn |
| 6612008 | Ysgol Gynradd Abererch | Gwynedd |
| 6612010 | Ysgol Beddgelert | Gwynedd |
| 6612015 | Ysgol Gynradd Borth-y-Gest | Gwynedd |
| 6612017 | Ysgol Brynaerau | Gwynedd |
| 6612036 | Ysgol Gynradd Chwilog | Gwynedd |
| 6612039 | Ysgol Crud-y-Werin | Gwynedd |
| 6612046 | Ysgol Gynradd Edern | Gwynedd |
| 6612048 | Ysgol Bro Plenydd | Gwynedd |
| 6612049 | Ysgol Gynradd Garndolbenmaen | Gwynedd |
| 6612059 | Ysgol Gynradd Llanaelhaearn | Gwynedd |
| 6612060 | Ysgol Gynradd Llanbedrog | Gwynedd |
| 6612066 | Ysgol Gynradd Llangybi | Gwynedd |
| 6612070 | Ysgol Gynradd Llanllyfni | Gwynedd |
| 6612075 | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| 6612078 | Ysgol Baladeulyn | Gwynedd |
| 6612081 | Ysgol Gynradd Nebo | Gwynedd |
| 6612093 | Ysgol Gynradd Pentreuchaf | Gwynedd |
| 6612103 | Ysgol Sarn Bach | Gwynedd |
| 6612110 | Ysgol y Gorlan | Gwynedd |
| 6612111 | Ysgol yr Eifl | Gwynedd |
| 6612112 | Ysgol Gynradd Tudweiliog | Gwynedd |
| 6612185 | Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas | Gwynedd |
| 6612189 | Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy | Gwynedd |
| 6612190 | Ysgol Bro Cynfal | Gwynedd |
| 6612192 | Ysgol Edmwnd Prys | Gwynedd |
| 6612194 | Ysgol Gynradd Llanbedr | Gwynedd |
| 6612198 | Ysgol y Garreg | Gwynedd |
| 6612199 | Ysgol O M Edwards | Gwynedd |
| 6612207 | Ysgol Gynradd Pennal | Gwynedd |
| 6612210 | Ysgol Talsarnau | Gwynedd |
| 6612211 | Ysgol Gynradd Tanygrisiau | Gwynedd |
| 6612213 | Ysgol Bro Hedd Wyn | Gwynedd |
| 6612214 | Ysgol Bro Tryweryn | Gwynedd |
| 6612220 | Ysgol Ffridd y Llyn | Gwynedd |
| 6612228 | Ysgol Craig y Deryn | Gwynedd |
| 6612229 | Ysgol Bro Llifon | Gwynedd |
| 6613004 | Ysgol Pont y Gof | Gwynedd |
| 6613010 | Ysgol Foel Gron | Gwynedd |
| 6613018 | Ysgol Gynradd Llandwrog | Gwynedd |
| 6613023 | Ysgol Gynradd Llanystumdwy | Gwynedd |
| 6622012 | Ysgol Betws y Coed | Conwy |
| 6622043 | Ysgol Dolwyddelan | Conwy |
| 6622086 | Ysgol Penmachno | Conwy |
| 6622107 | Ysgol Tal-y-Bont | Conwy |
| 6622123 | Ysgol Cerrigydrudion | Conwy |
| 6622222 | Ysgol Capel Garmon | Conwy |
| 6622270 | Ysgol Pentrefoelas | Conwy |
| 6623021 | Ysgol Llangelynnin | Conwy |
| 6623032 | Ysgol Ysbyty Ifan | Conwy |
| 6623039 | Ysgol Llanddoged | Conwy |
| 6623340 | Ysgol y Plas | Conwy |
| 6632070 | Ysgol Bodfari | Sir Ddinbych |
| 6632124 | Ysgol Cefn Meiriadog | Sir Ddinbych |
| 6632164 | Ysgol Gellifor | Sir Ddinbych |
| 6632168 | Ysgol Pentrecelyn | Sir Ddinbych |
| 6632214 | Ysgol Betws Gwerful Goch | Sir Ddinbych |
| 6632216 | Ysgol Caer Drewyn | Sir Ddinbych |
| 6632267 | Ysgol Bro Dyfrdwy | Sir Ddinbych |

| | | |
|---|---|---|
| 6633044 | Ysgol Llanbedr | Sir Ddinbych |
| 6633045 | Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd | Sir Ddinbych |
| 6633057 | Ysgol Pant Pastynog | Sir Ddinbych |
| 6642050 | Ysgol Rhos Helyg | Sir y Fflint |
| 6642064 | Ysgol y Foel | Sir y Fflint |
| 6642065 | Ysgol Brynffordd | Sir y Fflint |
| 6652140 | Ysgol Llanarmon DC | Wrecsam |
| 6653042 | Ysgol Eyton | Wrecsam |
| 6653054 | Ysgol Borderbrook | Wrecsam |
| 6653326 | Ysgol St Chad | Wrecsam |
| 6653347 | Ysgol St Paul | Wrecsam |
| 6662002 | Ysgol Abermule | Powys |
| 6662003 | Ysgol Arddlin | Powys |
| 6662004 | Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Banw | Powys |
| 6662005 | Ysgol Gynradd Aberriw | Powys |
| 6662008 | Ysgol Caersws | Powys |
| 6662009 | Ysgol Gynradd Carno | Powys |
| 6662018 | Ysgol Gynradd Tre'r Llai | Powys |
| 6662019 | Ysgol Llanbrynmair | Powys |
| 6662020 | Ysgol Llandinam | Powys |
| 6662021 | Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion | Powys |
| 6662033 | Ysgol Meifod | Powys |
| 6662041 | Ysgol Pontrobert | Powys |
| 6662044 | Ysgol Dyffryn Trannon | Powys |
| 6662049 | Ysgol Cegidfa | Powys |
| 6662051 | Ysgol Gynradd Buttington Trewern | Powys |
| 6662053 | Ysgol Brynhafren | Powys |
| 6662054 | Ysgol Churchstoke | Powys |
| 6662057 | Ysgol Gynradd Llanfyllin | Powys |
| 6662058 | Ysgol Gynradd Glantwymyn | Powys |
| 6662059 | Ysgol Pennant | Powys |
| 6662066 | Ysgol Pontffranc | Powys |
| 6662068 | Ysgol Llanbister | Powys |
| 6662071 | Ysgol Llanfihangel Rhydithon | Powys |
| 6662076 | Ysgol Radnor Valley | Powys |
| 6662077 | Ysgol Crossgates | Powys |
| 6662084 | Ysgol Dolafon | Powys |
| 6662092 | Ysgol Gynradd Pontsenni | Powys |
| 6662115 | Ysgol Cradoc | Powys |
| 6662122 | Ysgol Dyffryn Irfon | Powys |
| 6662129 | Ysgol Rhiw-Bechan | Powys |
| 6662146 | Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant | Powys |
| 6663000 | Ysgol Llanfechain | Powys |

| | | |
|---|---|---|
| 6663002 | Ysgol Trefaldwyn | Powys |
| 6663016 | Ysgol Ffordun | Powys |
| 6663021 | Ysgol Llandysilio | Powys |
| 6663022 | Ysgol Castell Caereinion | Powys |
| 6663026 | Ysgol Gynradd Llanfair Llwyth Yfnwg | Powys |
| 6663031 | Ysgol Bontnewydd | Powys |
| 6663033 | Ysgol Clyro | Powys |
| 6663036 | Ysgol Gynradd Rhayader | Powys |
| 6663037 | Ysgol Llanelwedd | Powys |
| 6663046 | Ysgol Llangedwyn | Powys |
| 6663301 | Ysgol St. Michael's | Powys |
| 6663303 | Ysgol Llansantffraid | Powys |
| 6663316 | Ysgol Llanbedr | Powys |
| 6663317 | Archdeacon Griffiths Primary School | Powys |
| 6665200 | Ysgol Gynradd Llanerfyl | Powys |
| 6672284 | Ysgol Cilcennin | Ceredigion |
| 6672285 | Ysgol Ciliau Parc | Ceredigion |
| 6672288 | Ysgol Gynradd Dihewyd | Ceredigion |
| 6672289 | Ysgol Felinfach | Ceredigion |
| 6672291 | Ysgol Gynradd Llanarth | Ceredigion |
| 6672293 | Ysgol Llannon | Ceredigion |
| 6672298 | Ysgol Talgarreg | Ceredigion |
| 6672303 | Ysgol Comins Coch | Ceredigion |
| 6672308 | Ysgol Llanfarian | Ceredigion |
| 6672309 | Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn | Ceredigion |
| 6672310 | Ysgol Llangwyryfon | Ceredigion |
| 6672311 | Ysgol Gynradd Llanilar | Ceredigion |
| 6672312 | Ysgol Mynach | Ceredigion |
| 6672313 | Ysgol Penllwyn | Ceredigion |
| 6672315 | Ysgol Syr John Rhys | Ceredigion |
| 6672316 | Ysgol Rhydypennau | Ceredigion |
| 6672317 | Ysgol Tal y bont | Ceredigion |
| 6672320 | Ysgol Beulah | Ceredigion |
| 6672323 | Ysgol Gynradd Llechryd | Ceredigion |
| 6672324 | Ysgol Gynradd Penparc | Ceredigion |
| 6672345 | Ysgol Trewen | Ceredigion |
| 6672353 | Ysgol Pontrhydfendigaid | Ceredigion |
| 6672362 | Ysgol Craig yr Wylfa | Ceredigion |
| 6672363 | Ysgol Penrhyn coch | Ceredigion |
| 6672366 | Ysgol Y Dderi | Ceredigion |
| 6672367 | Ysgol Cenarth | Ceredigion |
| 6672369 | Ysgol Bro Siôn Cwilt | Ceredigion |
| 6672371 | Ysgol Llew Jones | Ceredigion |


| | | |
|---|---|---|
| 6672372 | Ysgol Rhos Helyg | Ceredigion |
| 6672373 | Ysgol Dyffryn Cledlyn | Ceredigion |
| 6673058 | Ysgol Myfenydd | Ceredigion |
| 6682209 | Ysgol Eglwyswrw | Sir Benfro |
| 6682223 | Ysgol Brynconin | Sir Benfro |
| 6682231 | Ysgol Llanychllwydog | Sir Benfro |
| 6682233 | Ysgol Maenclochog | Sir Benfro |
| 6682242 | Ysgol Narberth | Sir Benfro |
| 6682250 | Ysgol Casmael | Sir Benfro |
| 6682253 | Ysgol Llandudoch | Sir Benfro |
| 6682254 | Ysgol Casblaidd | Sir Benfro |
| 6682261 | Ysgol Gynradd Tredeml | Sir Benfro |
| 6682266 | Ysgol Tafarnspite | Sir Benfro |
| 6682270 | Ysgol Croesgoch | Sir Benfro |
| 6682273 | Ysgol Gynradd y Garn | Sir Benfro |
| 6682384 | Ysgol y Glannau | Sir Benfro |
| 6682385 | Ysgol Clydau | Sir Benfro |
| 6682390 | Ysgol y Frenni | Sir Benfro |
| 6683035 | Ysgol Cilgerran | Sir Benfro |
| 6683036 | Ysgol Cosheston | Sir Benfro |
| 6683050 | Ysgol Gynradd Spittal | Sir Benfro |
| 6683058 | Ysgol Ger Y Llan | Sir Benfro |
| 6683315 | Ysgol Sant Aidan | Sir Benfro |
| 6683321 | Ysgol Sant Oswald | Sir Benfro |
| 6692002 | Ysgol Maesybont | Sir Gaerfyrddin |
| 6692014 | Ysgol Gynradd Peniel | Sir Gaerfyrddin |
| 6692034 | Ysgol Bancyfelin | Sir Gaerfyrddin |
| 6692037 | Ysgol Meidrim | Sir Gaerfyrddin |
| 6692065 | Ysgol Gynradd Talyllychau | Sir Gaerfyrddin |
| 6692067 | Ysgol Cwrt Henri | Sir Gaerfyrddin |
| 6692080 | Ysgol Gynradd Llangadog | Sir Gaerfyrddin |
| 6692104 | Ysgol Gynradd Brynsaron | Sir Gaerfyrddin |
| 6692109 | Ysgol Llanpumsaint | Sir Gaerfyrddin |
| 6692119 | Ysgol Llanmiloe | Sir Gaerfyrddin |
| 6692166 | Ysgol Llansteffan | Sir Gaerfyrddin |
| 6692170 | Ysgol Gynradd Abernant | Sir Gaerfyrddin |
| 6692180 | Ysgol Beca | Sir Gaerfyrddin |
| 6692182 | Ysgol Hafodwenog | Sir Gaerfyrddin |
| 6692184 | Ysgol Llanybydder | Sir Gaerfyrddin |
| 6692185 | Ysgol y Fro | Sir Gaerfyrddin |
| 6692187 | Ysgol Cynwyl Elfed | Sir Gaerfyrddin |
| 6692384 | Ysgol Griffith Jones | Sir Gaerfyrddin |
| 6692386 | Ysgol Carreg Hirfaen | Sir Gaerfyrddin |
| 6692387 | Ysgol Cae'r Felin | Sir Gaerfyrddin |

| | | |
|---|---|---|
| 6692389 | Ysgol Bro Brynach | Sir Gaerfyrddin |
| 6693000 | Ysgol Abergwili | Sir Gaerfyrddin |
| 6693002 | Ysgol Tremoilet | Sir Gaerfyrddin |
| 6693003 | Ysgol Talacharn | Sir Gaerfyrddin |
| 6693013 | Ysgol Glanyfferi | Sir Gaerfyrddin |
| 6693026 | Ysgol Llanllwni | Sir Gaerfyrddin |
| 6693307 | Ysgol Penboyr | Sir Gaerfyrddin |
| 6702133 | Ysgol Gynradd Felindre | Abertawe |
| 6702167 | Ysgol Penclawdd | Abertawe |
| 6702217 | Ysgol Knelston | Abertawe |
| 6722275 | Ysgol Tynyrheol | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 6732126 | Ysgol Llancarfan | Bro Morgannwg |
| 6762108 | Ysgol Gynradd Fochriw | Caerffili |
| 6792305 | Ysgol Cross Ash | Sir Fynwy |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion

## Dyddiad: 15 Mehefin 2021


SENARIO 1: Adolygu Ysgolion (h.y cau gyda'r darpariaeth amgen mewn ysgolion cyfredol neu gau ac agor ysgol ardal newydd)
1. Cyflwyno papur sy'n egluro'r cynnig i'r Ffrwd Waith Craffu
2. Cyflwyno 'Papur Cynnig' (ar gyfer yr ysgolion sydd ar y rhestr rhagdybiaeth yn erbyn cau h.y. mae 28 ysgol wedi'u diffinio fel ysgolion gweldig gan LIC) i Cabinet (1) er mwyn cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i'r cyfnod ymgynghori
(a) Cymeradwyo bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â chyflwyno i Craffu
(b) Gwrthod y cynnig
(c) Cynnig opsiwn arall
3. Cyflwyno papur i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu er mwyn iddynt asesu'r opsiynau a chynnig unrhyw opsiwn(/ynau) eraill
4. Cynnal ymgynghoriad statudol
5. Cyflwyno'r 'Adroddiad Ymgynghori' sy'n amlinellu'r ymatebion i'r ymgynhoriad/ prif bwyntiau at Cabinet (2). Cymeradwyaeth Cabinet i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol.
(a) Cymeradwyo'r Hysbysiad Statudol
(b) Gwrthod y cynnig
(c) Cynnig opsiwn arall
6. Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol
7. Cyflwyno'r Gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd i'r Cabinet (3)
8. Cyflwyno draft o'r Adroddiad Gwrthwynebu i'r Cyngor er cymeradwyaeth a phenderfyniad terfynol
(a) Cymeradwyo'r Adroddiad Gwrthwynebu a'r cynnig
(b) Gwrthod y cynnig a'r Adroddiad Gwrthwynebu
8. Cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu a'r llythyr penderfyniad ar wefan y Cyngor

**SENARIO 1 – Adolygu'r Ysgol (h.y. cau'r ysgol a chynnig darpariaeth amgen mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes neu gau'r ysgol ac agor ysgol ardal newydd)**

**Cam 1 - Ffrwd Waith Ad-drefnu Ysgolion** – Mae hon yn cynnwys detholiad o Gynghorwyr o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu. Byddant yn ystyried y cynnig yn fanwl cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

**Cam 2 – Papur Cynnig** – Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol baratoi Papur Cynnig ar gyfer pob ysgol ar y rhestr rhagdybiaeth yn erbyn cau h.y. mae 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad F Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru*)

Mae'n rhaid i'r papur cynnig gynnwys:

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion (h.y. nifer y disgyblion ac amcanestyniadau)
- Adnoddau addysg (h.y. lleoedd dros ben) a goblygiadau ariannol
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gallu'r ysgolion i ddarparu'r cwricwlwm yn llawn yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob Cyfnod Allweddol addysgol
- Holiadur cymunedol
- Y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol
- Rhestr o'r opsiynau eraill a nodwyd; ac
- Asesiad o'r canlynol ar gyfer pob un o'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd:
    - Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg
    - Yr effaith debygol ar y gymuned
    - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Dylid cyflwyno'r papur cynnig i'r Cabinet a dylid gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol. Ni ddylai'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad hyd nes y bydd y gofynion rhagarweiniol hyn wedi'u cyflawni, ac oni bai eu bod yn fodlon mai gweithredu yw'r ymateb mwyaf priodol er mwyn goresgyn y prif heriau a nodwyd fel y rheswm dros gynnig cau'r ysgol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu ar opsiwn arall, bydd angen i'r Awdurdod Lleol fynd yn ôl i gam 1 a chyflwyno'r opsiwn 'newydd' hwn i Ffrwd Waith y pwyllgor Craffu.

**Cam 3 - Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** – Mae hwn yn cynnwys 17 Cynghorydd a fydd yn craffu ar y cynnig ac yn cynnig unrhyw opsiynau eraill.

**Cam 4 – Ymgynghoriad Statudol** – Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn manylu ar y cynnig. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen Ymgynghori ar ddiwrnod ysgol. Rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae Adran 3.4 o god trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru* yn cynnwys rhestr o'r holl ymgyngoreion – mae'n rhaid i'r rhain dderbyn copi o'r ddogfen ymgynghori. Mae'n rhaid i'r cam hwn

gynnwys (man lleiaf) ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion yr effeithir arnynt.

**Cam 5 – Adroddiad Ymgynghori** – Mae'n rhaid i'r Adroddiad Ymgynghori gynnwys y prif faterion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r rhain. Dylai'r ddogfen hon gael ei chyflwyno i'r Cabinet a dylid gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi'r hysbysiad statudol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu cynnig opsiwn arall, bydd angen i'r Awdurdod Lleol fynd yn ôl i gam 1 a chyflwyno'r opsiwn 'newydd' hwn i Ffrwd Waith y pwyllgor Craffu.

**Cam 6 - Hysbysiad Statudol –** Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, mae'n rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar ddiwrnod ysgol. Mae'n rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu bara 28 diwrnod, gan gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod y cafodd ei gyhoeddi). Mae Adran 4.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru* yn cynnwys rhestr o'r holl ymgyngoreion – mae'n rhaid i'r rhain dderbyn copi o'r Hysbysiad Statudol. Er mwyn cael eu hystyried yn Wrthwynebiadau Statudol, mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd y 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. Rhestrir cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig yn adran 4.3 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru*.

**Cam 7 – Cyflwyno Adroddiad Gwrthwynebu i'r Cabinet –** Rhaid cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu drafft i'r Cabinet er gwybodaeth yn unig.

**Cam 8 – Cyflwyno Adroddiad Gwrthwynebu i'r Cyngor –** Rhaid cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu drafft i'r Cyngor er penderfyniad (h.y. pob un o'r 42 Cynghorydd). Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu a'r llythyr penderfyniad ar wefan yr Awdurdod Lleol cyn pen 7 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. Mae adran 5.1 o God Trefniadaeth Ysgolion LlC * yn cynnwys rhestr o'r rhai y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt bod yr Adroddiad Gwrthwynebiad ar gael.

**SENARIO 2: Newid iaith, ystod oedran, dileu chweched dosbarth neu ychwanegu dosbarth meithrin**

↓

1. Cyflwyno papur sy'n egluro'r cynnig i'r Ffrwd Waith Craffu

↓

2. Cyflwyno papur sy'n egluro'r rhesymeg tu ôl i'r cynnig at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

↓

3. Cyflwyno papur i'r Cabinet (1) er cymeradwyaeth

(a) Cymeradwyo bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol

(b) Gwrthod y cynnig

↓

**4. Cynnal ymgynghoriad statudol**

↓

5. Cyflwyno'r 'Adroddiad Ymgynghori' sy'n amlinellu'r ymatebion i'r ymgynhoriad/ prif bwyntiau at Cabinet (2). Cymeradwyaeth Cabinet i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r 'Hysbysiad Statudol.'

(a) Cymeradwyo'r Hysbysiad Statudol

(b) Gwrthod y cynnig

↓

6. Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

↓

7. Cyflwyno draft o'r 'Adroddiad Gwrthwynebu' at Cabinet (3) ar gyfer y penderfyniad terfynol

(a) Cymeradwyo'r 'Adroddiad Gwrthwynebu' a'r cynnig

(b) Gwrthod y cynnig a'r 'Adroddiad Gwrthwynebu'

↓

8. Cyhoeddi'r 'Adroddiad Gwrthwynebu' a'r llythyr penderfyniad ar wefan y Cyngor

**SENARIO 2 – Newidiadau i Iaith, Ystod Oedran, Cael Gwared ar 6ed Dosbarth, neu Ychwanegu Dosbarth Meithrin**

**Cam 1 – Ffrwd Waith Ad-drefnu Ysgolion –** Mae hon yn cynnwys detholiad o Gynghorwyr o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu. Byddant yn ystyried y cynnig yn fanwl cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

**Cam 2 – Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** – Mae hwn yn cynnwys 17 o Gynghorwyr a fydd yn craffu ar y cynnig cyn gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

**Cam 3 - Cabinet** – Mae'r Cabinet yn cynnwys 8 Cynghorydd sydd â'r pŵer i wneud penderfyniadau (y pwyllgor gweithredol). Bydd angen iddynt ystyried y cynnig ac argymhelliad y pwyllgor Craffu a bydd angen iddynt benderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol.

**Cam 4 – Ymgynghoriad Statudol** – Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn manylu ar y cynnig. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen Ymgynghori ar ddiwrnod ysgol. Rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae Adran 3.4 o god trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru* yn cynnwys rhestr o'r holl ymgyngoreion – mae'n rhaid i'r rhain dderbyn copi o'r ddogfen ymgynghori. Mae'n rhaid i'r cam hwn gynnwys (man lleiaf), ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion yr effeithir arnynt.

**Cam 5 – Adroddiad Ymgynghori** – Rhaid i'r Adroddiad Ymgynghori gynnwys y prif faterion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r rhain. Dylid cyflwyno'r ddogfen hon i'r Cabinet a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyflwyno'r hysbysiad statudol.

**Cam 6 – Hysbysiad Statudol –** Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, mae'n rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar ddiwrnod ysgol. Mae'n rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu bara 28 diwrnod, gan gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod y cafodd ei gyhoeddi). Mae Adran 4.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru* yn cynnwys rhestr o'r holl ymgyngoreion – mae'n rhaid i'r rhain dderbyn copi o'r Hysbysiad Statudol. Er mwyn cael eu hystyried yn Wrthwynebiadau Statudol, mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd y 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. Rhestrir cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig yn adran 4.3 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru*.

**Cam 7 ac 8 – Adroddiad Gwrthwynebu** - Rhaid cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu drafft i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu a'r llythyr penderfyniad ar wefan yr Awdurdod Lleol cyn pen 7 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. Mae Adran 5.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru* yn cynnwys rhestr o'r rhai y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt bod yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael.

*** Dolen at God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018:**
**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf**

CYNGOR SIR CEREDIGION

CYFADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYMUNEDOL

# DATBLYGU ADDYSG YNG NGHEREDIGION

## CYNLLUNIO DARPARIAETH ADDYSG HYD AT 2020



Ionawr 2009

2005/06 Excellence Wales Rhagoriaeth Cymru
Tra Chymeradwy – Dysgu Gydol Oes i Bawb
Highly Commended – Lifelong Learning for All

...ymrwymo i ddygsu

Mr J E Evans,
*Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol*

Cyng. C W Davies
*Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Addysg, Diwylliant a Hamdden*

**Cynnwys**

**Cyflwyniad…………………..…………………………………………………… 4**

**1: Cefndir a Chyd-destun………………………………………………………… 6**

**2: Pam datblygu darpariaeth addysg? …………………………………….. 11**

**3: Gweledigaeth – Ysgol y Dyfodol…………………………………………… 14**

**4: Sefyllfa, polisïau a materion cyfredol……………………………………… 19**

**4.1 Nodweddion demograffig**

**4.2 Niferoedd Disgyblion a Lleoedd**

**4.3 Derbyn Disgyblion i ysgolion**

**4.4 Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**

**4.5 Staffio**

**4.6 Asedau o ran Adeiladau**

**4.7 Cyllid/Ariannu**

**4.8 Polisi laith**

**4.9 Y Cyfnod Sylfaen**

**4.10 Canolfannau Integredig**

**4.11 Addysg Arbennig**

**4.12 Addysg Uwchradd**

**4.13 Technoleg Gwybodaeth**

**5: Patrymau Posib…………………………………………………….……… 44**

**6: Argymhellion polisi ac egwyddorion penodol ……………………….. 50**

**7: Y broses ddatblygu………………………………………………………….. 52**

**8: Y ffordd ymlaen…………………………………………….……………… 53**

**Llyfryddiaeth**

## Y Cynllun Datblygu Addysg yng Ngheredigion.

**Datganiad Cenhadaeth**

*'Darparu a hybu'r wybodaeth, y sgiliau, y cymwyseddau, y profiadau, y cymwysterau a'r agweddau a fydd yn sicrhau bod y plant, y bobl ifanc a'r oedolion yng Ngheredigion yn cyflawni'u haddewid fel unigolion dwyieithog ac fel aelodau o'u cymunedau lleol a byd-eang, gydol eu hoes'.*

*Cynllun Addysg Sengl 2006-08*

Mewn amgylchedd lle mae newid cyflym yn digwydd a lle mae pwysau cynyddol i wella safonau a chyfleoedd dysgu mae cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysg bresennol yng Ngheredigion yn cael ei herio. Yng ngoleuni'r gofynion ar brifathrawon ac athrawon, niferoedd disgyblion mewn ysgolion sy'n prysur ddisgyn a natur ac ansawdd adeiladau i gwrdd â gofynion yr amgylchedd dysgu yn yr 21$^{ain}$ Ganrif mae'n rhaid i Awdurdod Addysg Ceredigion ystyried darpariaeth addysg yn y sir yn y dyfodol.

Prif ddiben y ddogfen yw:

• *Canfod ffyrdd o ddatblygu'r ddarpariaeth addysg ar draws Ceredigion*

• *Sefydlu a gweithredu'r rhaglen a fydd yn datblygu addysg yng Ngheredigion.*

• *Gweithredu opsiynau ar gyfer trefniadaeth ysgolion, yn enwedig yn y sector cynradd, yng nghyd-destun nifer gostyngol y disgyblion a goblygiadau hynny*

• *Darparu sylfaen ar gyfer cynllunio effeithiol at y dyfodol er mwyn cael y cyllid mwyaf posib a all fod ar gael o nifer o ffynonellau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, yn enwedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â pharamedrau a gofynion sefydlog.*

Mae'r ddogfen yn darparu eglurder ynglŷn â'r modd y caiff addysg ei chyflwyno i'r dyfodol o fewn Ceredigion. Hefyd, caiff ei chreu ar y cyd â'r polisi adolygu ysgolion yn unol â'r meini prawf sefydledig. Mae'r holl ddata perthnasol a gynhwyswyd yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â nifer disgyblion wedi'u seilio ar ffigurau ar gyfer Ionawr 2008.

Mae'r ddogfen ychwanegol 'Opsiynau Posibl i'r Dyfodol', sy'n parhau'n ddogfen drafod, yn cyflwyno opsiynau ar gyfer darpariaeth addysg mewn gwahanol ardaloedd ac yn cynnig, lle bo'n briodol, gamau graddol i gyrraedd y math o ddarpariaeth a ystyrir yn nod terfynol erbyn 2020.

Mae'n hollbwysig bod yr holl randdeiliaid yn deall yn glir nad yw cadw'r *status quo* bellach yn gynaliadwy. Mae cyfle i osod sail gadarn nid yn unig i ddysgwyr y presennol ond i genedlaethau sydd i ddod. Mae'n galw am weledigaeth, dewrder a chydweithrediad. Mae'r ddogfen hefyd yn cydnabod y ffaith nad oes yna'r un ateb unigol i Geredigion.

Dylid nodi bod y ddogfen yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod cynradd ond nid yw hynny i nacáu cynnwys ffyrdd o fynd ati sydd hefyd yn ymwneud ag ysgolion uwchradd, lle bo'n briodol. Bydd dogfen ymgynghori debyg a manylach ar ddarpariaeth addysg uwchradd – sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer 14 - 19 ac addysg ôl-16 – yn cael ei pharatoi hefyd. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion oed uwchradd ymhob un o'r chwe phrif dref yng Ngheredigion.

***Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol***
***Swyddfa'r Sir***
***Glan y Môr***
***Aberystwyth***
***Ceredigion SY 23 2DE***

## 1: Cefndir a Chyd-destun

1.1 Mae'r ddarpariaeth addysg yng Ngheredigion yn y dyfodol yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cyfleoedd addysgol o'r ansawdd gorau er mwyn sicrhau gwelliant yng nghyraeddiadau dysgwyr, sydd o safon uchel yng Ngheredigion.

1.2 Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn fel ei gilydd mewn polisïau ac adolygiadau diweddar yn pwysleisio'r anghenion canlynol

- i wella darpariaeth gwasanaethau drwy fynd at bethau mewn ffyrdd amlasiantaethol
- sicrhau bod ysgolion nid yn unig yn addas at eu diben ond yn darparu ar gyfer rhychwant ehangach o ddibenion cymunedol
- i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau prin drwy ddileu lleoedd gwag yn yr ysgol
- i ystyried ffyrdd llai anhyblyg o fynd at ddysgu a gofynion cwricwlaidd llai cyfyngedig

Yn wir, mae Estyn yn y ddogfen *"Trawsnewid ysgolion"* (2004) yn awgrymu

> *"…Bydd yn rhaid i fuddiannau sefydliadol cul pawb sy'n gysylltiedig gael eu rhoi o'r neilltu os yw dull cydweithredol a strategol dilys ar gyfer llwybrau dysgu hyblyg am gael ei adeiladu a ffynnu. Bydd angen i arweinwyr a rheolwyr gael y weledigaeth, yr egni, y medrau a'r gallu i ragweld ac ymateb i anghenion sy'n prysur newid a bod yn llai amddiffynnol o'u rolau a'u statws cyfredol. …"*

1.3 Mae'n addas i ystyried a yw darpariaeth addysg yng Ngheredigion ar ddechrau'r trydydd mileniwm yn gynaliadwy yng nghyd-destun anghenion y dysgwr mewn amgylchedd - cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a thechnolegol.
Ers amser maith mae gwerth uchel yn cael ei roi ar addysg yn y sir ac mae'r flaenoriaeth a roddir gan y Cyngor Sir er yr ad-drefnu ym 1996 yn ail-bwysleisio mor bwysig yw addysg ym meddyliau pobl ac mewn realiti ar gyfer holl ddysgwyr Ceredigion.

1.4 Y mae'n bwysig gosod y cefndir y cyflwynir y ddogfen hon yn ei erbyn a'r cyd-destun y'i cyflwynir ynddo.

### *(i) Natur y Sir*

1.5 Sir wledig, amaethyddol a thenau ei phoblogaeth yw Ceredigion gyda rhyw 75,500 o bobl yn byw mewn tiriogaeth o 1,800 cilomedr sgwâr. Dim ond tair tref o fewn y Sir sydd â phoblogaeth o 2,000 neu fwy – Aberystwyth (13,000), Aberteifi (4,000) a Llanbedr Pont Steffan (2,000). Ceir Colegau Prifysgol yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan sy'n denu tua 9,000 o fyfyrwyr i'r Sir yn ystod y flwyddyn.

1.6.Wedi cyfnod hir o ddiboblogi, gwelwyd dros y blynyddoedd diweddar gynnydd sylweddol yn y boblogaeth. Er enghraifft, cododd y boblogaeth breswyl rhwng 1990 a 2000 o 66,400 ym 1990 i 75,500 yn 2000, cynnydd o 13.7%. Cafwyd y cynnydd hwn drwy fewnfudiad net o ryw 800 o bobl y flwyddyn. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar nifer o gymunedau gwledig. Yn ôl cyfrifiad 1991, roedd 60.4% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg.

1.7 Amaethyddiaeth sydd wedi bod yn asgwrn cefn i economi'r Sir ond cyflogir cyfran weddol uchel o'r boblogaeth hefyd mewn meysydd megis gweinyddiaeth gyhoeddus. Er bod cyfradd diweithdra'r Sir yn is na'r cyfartaledd dros Gymru, ceir pocedi o ddiweithdra uchel. Mae'r Sir yn cael ei chynnwys o fewn Grant Cydgyfeiriant y Comisiwn Ewropeaidd fel un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Ewrop. Mae rhan o'r Sir wedi'i chlustnodi'n ardal o amddifadrwydd a gall atynnu cefnogaeth ariannol ychwanegol. Mae dros 11% o blant ysgol yn derbyn prydau bwyd am ddim yn yr ysgol. Mewn rhai achosion unigol mae'r ganran yn fwy na 30% - hyd yn oed mewn rhai ysgolion pentref gwledig.

### *(ii) Y Gwasanaeth Addysg*

1.8 Er ei sefydlu yn 1996 rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion flaenoriaeth i'r gwasanaeth addysg o fewn y Sir ac adlewyrchir y flaenoriaeth honno yn y gyllideb a ddyrennir i ysgolion. Ar gyfer 2007/2008 dyrannwyd

45 % o Gyllideb (Net) y Cyngor Sir i'r Gwasanaeth Addysg, a 72% o hynny'n cael ei ddirprwyo i ysgolion. Addysgir tua 10,100 o blant 4-18 mlwydd oed o fewn Ysgolion y Sir: rhyw 4,990 yn y sector cynradd a thros 5,132 yn y sector uwchradd. (Ionawr 2008)

1.9 Yn y sector cynradd, er bod y Sir yn cynnwys rhai ysgolion mawr - yn ardaloedd mwy poblog Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi yn bennaf – prif nodwedd addysg gynradd y Sir yw nifer fawr yr ysgolion bach.

- Mae 70 o ysgolion cynradd yn yr Awdurdod ar hyn o bryd (Ionawr 2008) a phedair ohonynt yn sefydliadau enwadol gwirfoddol a gynorthwyir – un yn Gatholig wedi'i lleoli yn Aberystwyth a'r lleill yn perthyn i'r Eglwys yng Nghymru yn Ne'r Sir.
- Rhwng Medi 2006 ac Awst 2007 caewyd 6 ysgol gynradd.
- Mae'r AALl yn cynnal 8 ysgol a chanddynt unedau/ddosbarthiadau meithrin sy'n derbyn disgyblion yn rhan amser ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y disgybl yn 3 oed.
- Mae'r 55 ysgol sy'n weddill i gyd yn derbyn disgyblion ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y disgybl yn 4 oed.
- Mae'r ysgolion llai yn aml wedi'u clystyru at ddibenion cynllunio cwricwlwm a hyfforddiant mewn swydd. Tan Fedi 1999, roedd llawer o ysgolion cynradd wedi'u grwpio o dan un Corff Llywodraethol. Fodd bynnag, daethpwyd â'r trefniant hwn i ben am fod Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn mynnu i bob ysgol fod â'i chorff llywodraethol ei hun. Mae Deddf Addysg 2002 yn ailgyflwyno'r posibiliad i nifer o ysgolion gael eu grwpio o dan un Corff Llywodraethol.
- Maent yn amrywio o ran maint o 10 i 347 o ddisgyblion. (Ionawr 2008)
- Nid oes dim dosbarthiadau dros 30 o ddisgyblion yn CA1 a dim ond 1 dosbarth yn CA2
- Prif nodwedd addysg gynradd y Sir yw nifer fawr yr ysgolion bach.
- Mae gan 54 [77%] o ysgolion cynradd Ceredigion lai na 90 o ddisgyblion gyda 48 yn cynnwys llai na 65 o ddisgyblion. (Ionawr 2008) Mae gan Geredigion ganran uwch o ysgolion cynradd bach na'r un sir arall yng Nghymru.
- Mae lefel y gefnogaeth ariannol fesul disgybl a roddir i ysgolion bach iawn yn uchel o'i chymharu ag AALlau eraill yng Nghymru.
-

1.10 Yn y Sector Uwchradd darperir addysg mewn 7 ysgol gyfun sy'n darparu ar gyfer disgyblion o 11-18 mlwydd oed.

- Mae maint ysgolion yn amrywio o 359 i 1,354 o ddisgyblion.
- Mae dwy wedi'u clustnodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae gan y saith ysgol uwchradd o fewn y Sir chweched dosbarth sy'n darparu ar gyfer disgyblion o 16+ oed. Addysgir 860 o ddisgyblion yn y Sir yn y dosbarthiadau chwech hyn. Mae maint y dosbarthiadau chwech hyn yn amrywio rhwng ysgolion, o 98 o ddisgyblion i 215 o ddisgyblion.
- Mae pob ysgol yn darparu rhychwant o gyrsiau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol yn ogystal â rhai CGCC ond, at ei gilydd, byddant yn gwneud hyn yn annibynnol ar ei gilydd.

(***iii)* <u>*Lleoedd Disgyblion yn y Cyfnod Cynradd*</u>**

1.11 Mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi pwysleisio'r angen i sicrhau bod ysgolion yn addas at eu diben a gosod y targed o wneud adeiladau a safleoedd ysgolion yn briodol ac yn ddigonol erbyn 2010. Yn rhan o'r bwriad hwn mae LlCC yn mynnu i AALlau fynd i'r afael â lleoedd gwag – sy'n cael eu gwaethygu gan leihad yn niferoedd disgyblion yn y sector cynradd a fydd o dipyn i beth yn effeithio ar ysgolion uwchradd.

1.12 Ar sail y Datganiad CYBLD yn Ionawr 2008 a'r fformiwla adeiladau diwygiedig …roedd 4,871 o ddisgyblion a 6,699 o leoedd. Felly roedd 27.3% o leoedd heb eu llenwi neu "dros ben".

1.13 Casgliadau adroddiad yr Archwilydd Dosbarth *Cynllunio Lleoedd Ysgol yng Ngheredigion* a gyhoeddwyd yn Chwefror 1998, ac a dynnodd sylw at y canlynol:

- bod gan Geredigion y ganran uchaf o ysgolion bach yng Nghymru,
- bod yr arian a werir ar bob disgybl yn uwch o lawer mewn ysgolion bach;
- bod nifer uchel o 'leoedd dros ben' yn ysgolion Ceredigion.

1.14 Mae hyn wedi cael ei ategu mewn Adroddiadau sydd wedi dod er hynny gan y Comisiwn Archwilio ac Adroddiad ESTYN yn dilyn yr arolygiad o wasanaethau "Mynediad i Addysg" yr Awdurdod yn 2005 .

*"Mae'r Cyngor yn cynnal nifer fawr o ysgolion cynradd mewn perthynas â'i boblogaeth ysgol gynradd….Mae ysgolion bach o anghenraid yn gostus eu rhedeg o ddydd i ddydd a'u cynnal mewn cyflwr sy'n cefnogi addysg o'r ansawdd a ofynnir yn y 21ain Ganrif." [CAyNg}*

1.15 Yn y Llythyr Blynyddol at yr Awdurdod yn 2004, mae'r Rheolwr Perthynas [o Swyddfa Archwilio Cymru] yn pwysleisio yn un o bedwar argymhelliad i Aelodau, yr angen i wneud y canlynol :

*"Adolygu a yw'r lefel bresennol o ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion bach yn gynaliadwy yn y tymor hir".[t4]*

Datgenir hefyd y canlynol:

*"Rydym o'r farn bod y lleoedd sbâr cynyddol mewn ysgolion cynradd yn risg gynyddol i'r Cyngor gan fod cost uchel rhedeg yr ysgolion yn rhwym o beri bod y Cyngor yn wynebu dewisiadau anodd o ran ariannu agweddau eraill ar ei wasanaethau." [tt16 a 17]*[1]

(***iv) Dimensiynau Strategol***

1.16 Bydd y Cyngor Sir yn mynd i'r afael â sefydlu a gweithredu ei bolisïau drwy strwythur o gynlluniau strategol a chynlluniau busnes wedi'u haenu.

1.17. *Ceredigion 2020* yw prif gynllun strategol cymunedol Ceredigion. Mae cyfres o strategaethau sirol yn ogystal sy'n tanlinellu gweledigaeth 2020. Mae'r rhain yn cynnwys *Cynllun Strategol y Sir*, *Cynllun Gwella Ceredigion*, *Cynllun Addysg Sengl 2006-08* a nifer o ddogfennau cynllunio amlasiantaethol ac adrannol eraill.

1.18 Ar ben hynny mae *Ceredigion 2020* yn gytûn â phrif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn golygu gweithio mewn cytgord â nifer o wahanol asiantaethau a phartneriaethau.

1.19 Mae Dysgu Gydol Oes yn un o'r themâu o fewn y Strategaeth Gymunedol. Ei nod yw sicrhau bod cyfleoedd dysgu gydol oes ar gael i bawb yng Ngheredigion. Mae thema Dysgu Gydol Oes yn ymrannu'n nifer o flaenoriaethau fel a ganlyn:

- 'Y Dechrau Gorau' – sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau posib mewn addysg
- Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Addysg Ffurfiol 5 – 16
- Darpariaeth ôl-16
- Darpariaeth Dysgu Cymunedol
- Adnoddau ar gyfer Dysgu.

1.20 Gwelir buddsoddi yn ein pobl ifainc yn sylfaen i anelu at ragoriaeth addysgol a dysgu gydol oes. Ar lefel gorfforaethol gwelir dysgu gydol oes yn hanfodol i ragoriaeth fusnes a chyflogaeth lawn fel ei gilydd. Yn ogystal â thraddodiad hir o hyrwyddo addysg yng ngwaith y Cyngor mae dau Sefydliad Addysg Uwch a Choleg Addysg Bellach, Coleg Ceredigion, yn y Sir sy'n cyfoethogi ymhellach y lliaws o gyfleoedd dysgu.

1.21 Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn pwysleisio cyflawniad a boddhad personol pob dysgwr. Eto ni ellir gwahanu'r rhain o'r flaenoriaeth gorfforaethol i gyflawni'r pethau canlynol, sydd ill dau yn gysylltiedig boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â mynediad i ysgolion:

- darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i blant, pobl ifainc ac oedolion o fewn eu cymunedau
- diogelu dyfodol ysgolion gwledig a chymunedol.

1.22 Mae *Cynllun Gwella* Cyngor Sir Ceredigion yn gosod allan y ffordd ymlaen at wireddu'r blaenoriaethau hyn ochr yn ochr â thargedau clir, mesuradwy sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- mynediad i addysg gyn ysgol i bob plentyn 3 blwydd oed
- cynnig clybiau gweithgaredd dysg-ganolog yn yr oriau ar ôl yr ysgol
- sicrhau bod plant a waherddir o ysgolion yn cael eu haddysgu'n briodol.

1.23 Mae'r pum blaenoriaeth a ymgorfforir yng *Nghynllun Strategol Addysg 2002 – 2005* wedi cael eu hatgyfnerthu ymhellach yn y *Cynllun Addysg Sengl 2006-08* newydd o dan y penawdau canlynol:

- Codi safonau a gwella perfformiad ysgolion (Ffocws ar ddysgu/Rhoi llais i'r dysgwr/Datblygu Arweinyddiaeth)
- Cynllunio lleoedd ysgol (Ailstrwythuro i wella dysgu)
- Ysgolion bro (Integreiddio'r ysgol a'r gymuned).

***(v) <u>Mentrau'r Cyfnod Cynradd</u>***

1.24 Roedd y sefyllfa o ran natur ysgolion cynradd o fewn Ceredigion wedi'i chydnabod yn bendant. Yn Chwefror 1998, cyhoeddodd yr Awdurdod Addysg ddogfen ymgynghorol yn dwyn y teitl *<u>"Dyfodol Addysg Gynradd yng Ngheredigion".</u>* Roedd y ddogfen yn ceisio'r canlynol

*"…*

*1. Dod o hyd i'r ffordd orau o gael y safonau addysg uchaf posib a'r profiadau dysgu cyfoethocaf posib i ddisgyblion cynradd o fewn yr adnoddau a oedd ar gael.*

*2. Dod o hyd i'r ffordd orau o feithrin gwelliant mewn ysgolion.*

*3. Sicrhau ansawdd cyfle i bob disgybl o fewn y Sir.*

*4. Sicrhau bod addysg gynradd yn cael ei darparu yn y modd mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, h.y. ei bod yn cydymffurfio ag egwyddorion "gwerth gorau".*

*5. Argymell strategaeth gyffredinol i addysg gynradd a wnaiff ein harwain yn llwyddiannus i'r mileniwm nesaf a sicrhau bod gan Geredigion y cyraeddiadau addysgol gorau yng Nghymru. …"*

1.25 O ganlyniad mynegodd Cyrff Llywodraethol nifer o ysgolion i'r De o Aberaeron ddymuniad i drafod y posibilrwydd o sefydlu ysgol ardal.

(***vi) <u>Adolygu Ysgolion</u>***

1.26 Mae'r Polisi Adolygu Ysgolion a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Medi 2006diwygiwyd yn Ionawr 2009, yn rhan annatod o'r strategaeth ' Datblygu Addysg yng Ngheredigion', a bydd y broses adolygu flynyddol yn parhau.

1.27 Wrth ystyried dyfodol yr ysgolion rhaid i'r awdurdod bwyso a mesur nifer o amcanion sy'n ymddangos yn anghydnaws:

- Y gofynion cynyddol am gymorth ariannol i ysgolion i gwrdd â'r straen ychwanegol ar eu cyllidebau, wrth wynebu'r taliadau is o du Llywodraeth y Cynulliad a broffwydir ar gyfer y pedair blynedd nesaf.
- Cadw ysgolion ar agor o fewn eu cymunedau wrth wynebu pwysau o'r tu allan i daclo'r broblem o leoedd gwag.
- Cwrdd â'i ddyletswydd i sicrhau'r gwerth gorau wrth gydnabod rôl a phwysigrwydd ysgolion bach mewn cymunedau gwledig.
- Sicrhau tegwch gyda golwg ar rannu adnoddau wrth dderbyn ei bod hi'n costio llawer mwy fesul pen i gynnal ysgolion bach
- Gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun y darlun cyflawn ar gyfer yr holl blant o fewn y Sir, wrth barchu ymroddiad brwdfrydig rhai cymunedau. Cynnal y sefyllfa bresennol yn wyneb y dirywiad yn y boblogaeth
- Cyflwyno newidiadau er lles y gwasanaeth wrth ddelio gyda'r ofn sydd yna ynghylch newid ynddo'i hun o fewn cymunedau ysgolion.

1.28 Mae egwyddorion sylfaenol y polisi yn ceisio cwrdd â'r amcanion hyn drwy:

- roi lles y plant yn gyntaf ond derbyn bod newid yn y ffordd mae addysg yn cael ei ddarparu yn anorfod
- gynorthwyo ysgolion bach i ddarparu addysg fydd yn paratoi ein plant ar gyfer byd sy'n fwy cymhleth a chystadleuol nag erioed
- sefydlu fframwaith adolygu clir a theg.

1.29 Datblygwyd nifer o bwyntiau sbardun ar gyfer adolygu, ar y cyd ag awdurdodau. Os bydd ysgol yn cwrdd â **dau neu fwy** o'r pwyntiau sbardun, dilynir hynny gan archwiliad cynnar o'r rhagolygon niferoedd, newidiadau o ran dalgylchoedd neu ddulliau gweithredu gwahanol i'r arfer - rhyngweithio er mwyn ceisio cadw'r ysgol ar agor

Caiff ysgol ei hadolygu:

- Os yw niferoedd y disgyblion wedi gostwng neu'n debygol o ostwng yn is nag 30 yn ystod y tair blynedd nesaf.

*Ni fydd ysgolion sy'n gostwng yn is nag 30 mewn nifer yn cael eu hystyried ar gyfer eu cau o anghenraid. Mae'r adolygu yn broses ryngweithiol sy'n cynnwys cynorthwyo a chadw ysgolion ar agor lle bynnag y bo'n bosibl, ac yn ystod y trafodaethau, ystyrir amryw o opsiynau er mwyn ymdrechu i sicrhau dyfodol yr ysgol. Os ceir newid i arweinyddiaeth ysgol gyda llai na 30 o ddisgyblion, barna'r Awdurdod na ddylai'r ysgol benodi pennaeth newydd ond yn hytrach, sefydlu ffederasiwn ag ysgolion cyfagos.*

*Fodd bynnag, pan fydd y niferoedd yn gostwng yn is na 20 o ddisgyblion, bydd cau yn anorfod oddieithr mewn rhai amgylchiadau lle y bo ysgol o 16 o ddisgyblion neu fwy yn ymuno mewn ffederasiwn (ffurfiol neu anffurfiol) gydag ysgolion eraill.*

*Os fydd un o'r ysgolion sydd mewn trefniant ffederal, yn gostwng i lai nag 20 o ddisgyblion, yna dilëir y broses adolygu am gyfnod o 3 blynedd. Gwneir hyn er mwyn rhoi cyfle i'r ffederasiwn ymdrechu i adfer y niferoedd angenrheidiol.*

- Os oes yna ddiffygion difrifol yn y cyfleusterau a chyflwr yr adeiladau a'r safle
  *Ystyrir y diffygion hyn fel rhai difrifol os ydyn nhw'n cael effaith niweidiol ar addysg y plant.*

- Os ydy'r ysgol yn gweithredu gyda mwy na 25% o leoedd dros ben.

- Os bydd Corff Llywodraethol ysgol unigol neu Gyrff Llywodraethol clwstwr o ysgolion yn gofyn am adolygiad.

- Os cwrddir ag un o'r pwyntiau sbardun yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl, bydd Swyddogion yr Awdurdod yn cwrdd â Chorff Llywodraethol yr ysgol er mwyn trafod y ffordd ymlaen.

Cwrddodd y Panel Adolygu Ysgolion â Llywodraethwyr 8 ysgol gynradd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2007 ac mae'r adolygiadau blynyddol yn parhau pan fo ysgolion yn cwrdd â'r pwyntiau sbardun.

## 2: Pam datblygu darpariaeth addysg yng Ngheredigion?

2.0 Mae nifer o faterion sy'n hanfodol eu deall wrth ystyried datblygiad addysg yng Ngheredigion .

***(i) Dysgu***

2.1 Dysgu yw'r flaenoriaeth hanfodol. Ffocws ar wella dysgu i bawb, waeth beth fo'i g/chefndir, ei (h)amgylchiadau, ei (g)alluoedd a ffactorau gwahaniaethol eraill, sydd oruchaf. Gwelir buddsoddi yn ein pobl ifainc yn sylfaen i geisio rhagoriaeth addysgol a dysgu gydol oes.

2.2 Dylid creu pob cyfle i ganiatáu i ddysgu ddigwydd, gan ddefnyddio'r arfer gorau o ran dysgu a'r adnoddau mwyaf modern ac effeithiol. Dylid hyrwyddo, hwyluso ac arddangos dysgu fel profiad ffurfiannol parhaus gydol oes.

2.3 Tasg anferth i Geredigion, fodd bynnag , yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, fydd datblygu darpariaeth. Fe'i gwelir yn hanfodol o ystyried y ganran uchel o leoedd dros ben, y nifer o ysgolion cynradd bach, lleihad sylweddol yn niferoedd disgyblion ac adeiladau annigonol. Mae'r materion hyn ymhlyg yn ymgyrch Cynulliad Cymru i godi safonau nid yn unig o ran dysgu a chyrhaeddiad ond hefyd o ran ceisio darparu adnoddau ac amgylcheddau priodol.

***(ii) Safbwynt cenedlaethol***

2.4 Yn y ddogfen arloesol *"Y Wlad sy'n Dysgu"* dywedodd y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod

> *"…yn rhaid i bolisïau ar gyfer Dysgu Gydol Oes adlewyrchu defnydd doeth o arian"*
>
> Un o'r blaenoriaethau fyddai *"…galluogi ysgolion cynradd bach – gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig – i ffurfio grwpiau o dan un tîm arweinyddiaeth, ac un corff llywodraethu."*
>
> Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol *"…wneud buddsoddiad sylweddol er mwyn atgyweirio, adnewyddu ac ailgodi adeiladau ysgol a'r holl awdurdodau lleol i fod wedi sefydlu cynlluniau rheoli asedau a rhaglenni buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion … fel eu bod, erbyn 2010, mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol".*
>
> *".. wrth lunio cynlluniau i godi ysgolion newydd neu i ailfodelu adeiladau ysgol ac wrth sefydlu cyllidebau bydd angen i awdurdodau lleol … sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn ymgorffori anghenion ysgolion yn y dyfodol …"*
>
> *"… Dylai Awdurdodau Addysg Lleol gymryd y rôl arweinyddol er mwyn cyrraedd nodau cenedlaethol drwy lunio a gweithredu polisïau atodol lleol mewn partneriaeth â'u hysgolion"*

Mae'r ddogfen hon a rhai dilynol yn pwysleisio'r angen am gydweithio rhwng ysgolion gan gynnwys y trosglwyddiad pwysig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

2.5 Y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, mae'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn pwysleisio ei bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol sefydlu strategaethau a gweithredu cynlluniau i leihau lleoedd dros ben yn sylweddol a darparu tystiolaeth bod adnoddau Cynghorau yn cael eu buddsoddi mewn cynlluniau rheoli asedau wedi'u costio sy'n cefnogi rhaglen gyfalaf effeithiol i wella darpariaeth. Ni fydd Awdurdodau na allant ddangos eu bod yn mynd ati'n strategol a'u bod wedi ymrwymo i gyrraedd nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn atynnu cyllid.

(***iii) Heriadau***

2.6 Yn Llythyr Blynyddol y Rheolwr Perthynas at Aelodau'r Cyngor Sir yn 2004 ymhlith y pedwar argymhelliad mae'r canlynol yn ymddangos

> *"Adolygu a yw'r lefel bresennol o ddarpariaeth addysg mewn ysgolion bach yn gynaliadwy yn y tymor hir".*[1]

Dywedir hefyd:

> "Rydym o'r farn bod y lleoedd sbâr cynyddol mewn ysgolion cynradd yn risg gynyddol i'r Cyngor gan fod cost uchel rhedeg yr ysgolion yn rhwym o beri bod y Cyngor yn wynebu dewisiadau anodd o ran ariannu agweddau eraill ar ei wasanaethau."

2.7 Mae'r thema'n adlewyrchu'r hyn a ddywedir yn Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar *Gynllunio Lleoedd Ysgol* a ailadroddodd mewn adroddiadau dilynol ar y pwnc

> *"Mae'r Cyngor yn cynnal nifer fawr o ysgolion cynradd mewn perthynas â'i boblogaeth ysgol gynradd.…Mae ysgolion bach o anghenraid yn gostus eu rhedeg o ddydd i ddydd a'u cynnal mewn cyflwr sy'n cefnogi addysg o'r ansawdd a ofynnir yn y 21ain Ganrif."*

2.8 Mae'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn *Y Wlad sy'n Dysgu* yn annog Awdurdodau Lleol ymhellach i fynd i'r afael â'r mater o ysgolion cynradd bach gan gynnig

> *"cefnogi ffyrdd dyfeisgar o fynd at bethau mewn ysgolion bach ac mewn ysgolion gwledig fel ymateb i'r lleihad yn niferoedd plant oed ysgol"*

a

> *"llunio deddfwriaeth a fydd yn galluogi Cyrff Llywodraethol i gydweithio neu i uno o Fedi 2004 ymlaen."*

***(iv) Mentrau a dylanwadau***

2.9 Mae nifer o faterion sy'n gorfod dylanwadu ar unrhyw drafodaeth ynghylch darparu adeiladau a safleoedd addysg;-

- ailfodelu'r gweithlu mewn ysgolion o ganlyniad i weithredu'r **Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon** a fydd yn effeithio ar reoli a threfnu ysgolion. Mae'n rhaid ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun darparu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

  Mae prifathrawon yn cyflawni **swyddogaeth reoli** bwysig ar yr un pryd ag ymrwymiad dysgu sylweddol, mewn ysgolion bach yn arbennig. Mae gofynion o'r fath yn gweithio yn erbyn dysgu effeithiol a rheolaeth effeithiol.

- Mae gweithredu'r '**Cyfnod Sylfaen'** gyda'r pwyslais mwy ar ddysgu drwy wneud a chwarae strwythuredig i ddisgyblion 3 hyd 7 oed nid yn unig yn gofyn mabwysiadau ymagweddiad newydd at y cwricwlwm ond hefyd yn effeithio ar yr angen i ddarparu cyfleusterau digonol o ran adeiladau a safleoedd ysgol. Nid oes cyfleusterau digonol gan fwyafrif helaeth ein hysgolion cynradd.

- Y galw cynyddol am **gyfleusterau addysgol** sy'n addas at arferion dysgu cyfredol. Mae llawer o ysgolion yn gwynebu costau cynyddol am gynnal a chadw ac mae nifer sylweddol nad ydynt bellach yn ddigonol i ddarparu ar gyfer gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- At hynny mae'n rhaid i'r AALl ac ysgolion fabwysiadu a gweithredu **Polisïau Hygyrchedd** er mwyn cydymffurfio â'r *Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd* fel y bo gan ddysgwyr a chanddynt anableddau fynediad i gyfleusterau. Ni fyddai'r mwyafrif helaeth o ysgolion yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

***(v) Mantoliad o faterion allweddol***

2.10 Mae nifer o faterion allweddol wedi dylanwadu ar y broses o baratoi'r Cynllun Trefnu Ysgolion. Ymhlith y rhain roedd:

- gofynion cynyddol ar staff.
- er gwaetha'r pwysigrwydd a'r flaenoriaeth ariannol a roddir i addysg, mae cynnal adeiladau ysgol ac adnoddau addysgol eraill yn her sylweddol
- yr angen i leihau'r bwlch o ran cwricwlwm a chyrhaeddiad rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- . pwysigrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel – Cyngor ac ysgol (gan gynnwys llywodraethwyr ysgol) i greu gweledigaeth glir i Geredigion. Mae arweinyddiaeth ddibynadwy yn allwedd i ddatblygiadau pellach
- y defnydd a wneir o adnoddau gan y gymuned.
- newidiadau mewn darpariaeth addysg i bobl 16+.

***(vi) Mesurau sydd wedi'u mabwysiadau gan Gyngor Sir Ceredigion***

2.11 Mae'r Cyngor eisoes wedi ymateb i'r heriadau a'r dylanwadau. Ymhlith mesurau sydd wedi'u mabwysiadau mae'r canlynol:

- Sefydlu'r Gweithgor ar Ddatblygu Darpariaeth Addysg yng Ngheredigion sydd â'r cyfrifoldeb i sefydlu strategaeth ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth addysg hyd 2020.
- Mabwysiadu'r Polisi Adolygu Ysgolion a sefydlu'r Panel Adolygu Ysgolion.
- Cau nifer o ysgolion cynradd bach oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion
- Arwain nifer o ysgolion gan brifathrawon ysgolion cyfagos (ffederasiwn anffurfiol)
- Cymeradwyo sefydlu dwy ysgol ardal a safle newydd i ysgol gynradd arall
- Hybu rhaglenni trosglwyddo effeithiol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3
- Sefydlu Canolfannau Plant Integredig.

2.12 Mae'r fframwaith cyffredinol ar gyfer strategaeth wedi dod i'r amlwg ac wedi cael ei dderbyn o ganlyniad i ymgynghoriad. Gellir crynhoi gweithrediad cyffredinol i roi'r strategaethau ar waith o fewn cyfnod y *Cynllun Addysg Sengl* fel a ganlyn:

- gweithredu'r drefn Adolygu Ysgolion a ddiwygiwyd yn Ionawr 2009
- trafodaethau agored gyda Chyrff Llywodraethol a grwpiau eraill ar yr opsiynau sy'n gynwysedig yn y ddogfen 'Opsiynau Posib i'r Dyfodol' (Mai 2008)cynllunio strategaethau i chwe thref/dalgylch ysgol uwchradd strategol

***(vii) Ffactorau canlyniadol sy'n sbarduno newid***

***Lleihad yn niferoedd disgyblion a lleoedd dros ben***

2.13 Un o'r ffactorau sylfaenol sy'n gwneud newid yn angenrheidiol er mwyn cynnal darpariaeth addysg o ansawdd yw'r ffaith bod nifer y plant mewn ysgolion cynradd wedi disgyn yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac mewn llawer i ardal y tebyg yw mai parhau a wna'r tueddiad i leihau am nifer o flynyddoedd i ddod. Y gwir yw y gall lleihad yn niferoedd disgyblion fygwth ansawdd darpariaeth o ran addysg, trefniadaeth ac adnoddau, gan godi amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd dosrannu adnoddau. Y tebyg yw y gallai'r pwyslais cynyddol ar gyllido yn ôl disgyblion olygu bod ysgolion â niferoedd sy'n disgyn yn anorfod yn colli adnoddau.

***Mesurau Integredig Amlasiantaethol***

2.14 Yr ydym yn cychwyn ar gyfnod o ddiwygio addysg a gwasanaethau plant, gan symud tuag at gyfnod o integreiddio'n gynyddol y rhai sy'n darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd gan gynnig dysg i bawb ochr yn ochr â gwasanaethau integredig i blant, pobl ifainc a theuluoedd, ar yr un pryd â datblygu partneriaethau â gwasanaethau cymunedol ehangach.

***Buddsoddi Cyfalaf***

2.15 Bydd angen hefyd i Awdurdodau Lleol ymateb i'r her sydd wedi'i gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy baratoi a dangos bwriad ac ymrwymiad i gynllunio a buddsoddi mewn ffordd raglennol o fynd ati i leihau lleoedd dros ben a sicrhau bod ysgolion yn addas at eu diben mewn hinsawdd wedi'i haildrefnu.

## 3: Gweledigaeth – Ysgol y Dyfodol

3.1 Fel y dywedwyd yn *Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yn yr 21ain Ganrif* (Estyn, 2002),

**'*Mae ysgolion yn bodoli ar gyfer dysgwyr ac er mwyn dysgu*',**

ac mae'n rhaid i hyn fod ar flaen meddyliau wrth ymgodymu â ffeithiau daearyddiaeth, demograffeg ac adnoddau ariannol er mwyn mynd â darpariaeth addysgol yng Ngheredigion ymlaen.

3.2 Mae'n hanfodol mewn unrhyw ystyriaeth o ddatblygu addysg yng Ngheredigion, fod golwg glir ar y canlynol:

**(i)** **sicrhau sylfaen effeithiol ar gyfer codi safonau drwy wneud y canlynol:**
- darparu addysg o ansawdd uchel
- darparu arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd uchel
- darparu a dadansoddi data perthnasol i gefnogi hunanwerthuso
- hwyluso cydweithio, trosglwyddo gwybodaeth a phartneriaeth ar draws cyfnodau

**(ii)** **sicrhau'r gwerth gorau o ran darparu a dosrannu adnoddau priodol drwy wneud y canlynol:**
- darparu staff dysgu uchel eu
- cynnwys rhieni a theuluoedd mewn cefnogi addysg eu plant.
- datblygu a defnyddio TG fel cyfrwng dysgu a chyfathrebu o fewn y gymuned ac ar ei thraws

(iii) **atgyfnerthu a gwella darpariaeth a chreu mwy o gyfle i ddileu lleoedd ysgol lle bo'n ymarferol gwneud felly**

3.3 Mae'r Cynllun Addysg Sengl (CAS) 2006-08 a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) 2008 - 2011 yn amlinellu'r gwahanol bosibiliadau o gydweithrediad mwy rhwng ysgolion. Dros gyfnod o amser gallai'r cydweithrediad hwn arwain yr ysgolion / teuluoedd o ysgolion i fynd yn **ganolfannau dysgu cymunedol.** Cynigiai'r rhain gyfleoedd dysgu priodol i oedolion a'r gymuned leol a galluogi darpariaeth amlasiantaethol integredig o wasanaethau, gan gynnwys cyfleusterau gofal plant.

3.4 Rhestrir isod y ffactorau niferus sydd angen eu cymryd i ystyriaeth wrth ddarparu cyfleoedd o'r ansawdd uchaf i'r holl ddysgwyr yn ysgolion cynradd y dyfodol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys ystyried disgyblion, staff, rheolaeth / arweinyddiaeth, rhieni, iaith, dysgu gydol oes, safle a chymuned.

**Disgyblion**
- Darpariaeth ar gyfer disgyblion o 3 – 11 mlwydd oed
- Disgyblion iau mewn dosbarthiadau heb fod yn fwy na 25 o ddisgyblion a rhychwant oedran o ddwy flynedd fan bellaf.
- Hawl statudol i gael mynediad i bob maes o'r cwricwlwm
- Disgyblion sy'n rhugl mewn dwy iaith
- Aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn perthyn iddi ac yn ymfalchïo yn ieithoedd, etifeddiaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru.
- Darpariaeth gynhwysol
- Cyfleoedd cyfartal
- Disgyblion yn cael mwy o lais yn eu haddysg eu hunain.
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol / dealltwriaeth o sut i ddysgu.
- Pleser, llwyddiant ac ymroddiad i ddysgu
- Amgylchedd saff a chefnogol
- Dysgu gweithredol yn y Cyfnod Sylfaen
- Clybiau brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol
- Cyfleoedd i ddisgyblion fynegi barn ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. (Cyngor yr Ysgol)
- Cyfleoedd i gyrraedd lefelau uchel o iechyd a ffitrwydd.

**Staff**

- Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o sut y bydd disgyblion yn dysgu
- Cynnal a hybu dwyieithrwydd.
- Ymroddiad i'w cyfleoedd datblygiad proffesiynol eu hunain
- Mae gan staff gymhelliant da ac maent yn mwynhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith
- Ymwybodol o ymchwil ddiweddar ar ddysgu e.e. 'Cau'r Bwlch' ac yn gweithredu yn unol â'r darganfyddiadau
- Cymryd rhan mewn ymchwil weithredol
- Defnydd effeithiol o rychwant o adnoddau

**Rheolaeth / Arweinyddiaeth (Llywodraethwyr / Prifathro)**

- Safon uchel o arweinyddiaeth – ymroddiad i ddysgu, gweledigaeth glir, monitro a datblygu cynnydd disgyblion a staff, cyfrannu at addysg gymunedol..
- Systemau sy'n caniatáu amser digonol i'r prifathro pan na fydd yn dysgu iddo arwain a rheoli.
- Aelod o'r uwch dîm rheoli a chanddo/i gyfrifoldeb am ddatblygu cysylltiadau cymunedol a chydweithio â'r Cydgysylltydd Cymunedol allanol.
- Yr holl randdeiliaid yn cymryd rhan yn hunanwerthusiad yr ysgol – yn llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni, ymgynghorwyr yr awdurdod
- Defnyddio a datblygu TGC er enghraifft cyfathrebu, cofrestru, cynllunio, dysgu ac addysgu, olrhain disgyblion
- Darparu dulliau o ddadansoddi a dehongli data mewn diwylliant o hunanwerthuso.
- Hyrwyddo cydweithio a throsglwyddo gwybodaeth yn effeithiol rhwng cyfnodau.
- Ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau newydd e.e. TGC, cynaliadwyedd.

**Rhieni**

- Dealltwriaeth o'r cyfleoedd i rieni ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- Cyfleoedd i rieni ddatblygu gwybodaeth am y cwricwlwm a'r broses ddysgu drwy weithdai, cyfarfodydd a chanllawiau.
- Cyfleoedd i rieni gynorthwyo yng ngweithgareddau'r ysgol e.e. darllen, paratoi arddangosfeydd, defnyddio sgiliau arbennig.
- Partneriaeth agos rhwng y disgyblion, yr ysgol a'r rhieni.
- Rhieni'n cael cyfleoedd dysgu gydol oes.

**Iaith**

- Hybu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Cynnal a hybu dwyieithrwydd
- Darparu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion

**Dysgu Gydol Oes**

- Darparu amrywiaeth o ddosbarthiadau dydd a nos
- Darparu rhychwant o weithgareddau i ddisgyblion ac oedolion
- Sefydlu clybiau e.e. Clwb TG, ffotograffiaeth.

**Safle**

- Safle ac adeiladau yn ymdroi o gwmpas y plentyn
- Safle, adeiladau ac adnoddau'n addas at addysg yn yr 21ain ganrif:
    - Ystafell staff ac ystafell waith
    - Swyddfa'r prifathro
    - Ystafell feddygol
    - Neuadd
    - Lle chwarae caled
    - Lle chwarae glas
    - Cyfleusterau cymunedol yn ystod y dydd
    - Cyfleusterau Teuluol / Gofal plant
- Cyfleusterau mewnol ac allanol digonol i'r Cyfnod Sylfaen
- Cyfleusterau digonol i gwrdd â phob maes o'r cwricwlwm e.e. cerddoriaeth, drama, dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol
- Cyfleusterau ar gyfer defnyddiau TG ar draws pob maes dysgu
- Ysgol ecogyfeillgar
- Ysgol gynhwysol

**Cymuned**.

- Ysgol yn ganolfan gymunedol – 'Yr ysgol yn y gymuned a'r gymuned yn yr ysgol'.
- Ysgol yn datblygu partneriaethau yn y gymuned
- Adnoddau a chyfleusterau'r ysgol ar gael at ddefnydd y gymuned
- Gweithgareddau hamdden ar gael yn y Ganolfan Hamdden leol
- Ymgorffori Canolfan Iechyd i gynnwys gwasanaethau meddygol a chymdeithasol
- Llyfrgell, Amgueddfa, arddangosfeydd
- Gweithgareddau i bobl hŷn – pryd ar glud, ymweliadau, cyfarfodydd.
- Darparu cyfleusterau gofal plant
- Hyrwyddo diogelwch yn y gymuned – gan gydweithio â'r heddlu, cymorth cyntaf, diogelwch ffordd
- Addysg gynaliadwy drwy brosiectau Eco Ysgol
- Hyrwyddo ffordd iach o fyw
- Sefydlu cysylltiadau â busnesau lleol a chenedlaethol
- Cysylltiadau rhyngwladol

3.5 Mae'r ddogfen ***"Y Wlad sy'n Dysgu"*** **(2001)** yn gosod allan ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion fod wrth graidd eu cymunedau:
*"Rydym am weld perthynas agosach o lawer rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym am i ysgolion weithredu fel adnodd yn y gymuned – nid yn ystod oriau ysgol yn unig ond y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau hefyd. Fe'u gwelwn fel rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant … ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliaeth deuluol a hybu iechyd a menter …"*

3.6 Mae'r cysyniad o Ysgolion Bro wedi'i gysylltu'n agos â datblygiad ysgolion yn y sir yn y dyfodol. Pa fodel trefniadol bynnag a fabwysiedir, ffederasiynau anffurfiol neu ffurfiol neu ysgolion ardal, bydd angen datblygu'r cysyniad o Ysgolion Bro yn llawn ym mhob uned ysgol.

3.7 Mae datblygiad ysgolion bro yn cydblethu â strategaethau a chynlluniau Cyngor Sir Ceredigion fel y'u hamlinellir yn ei Ddogfen Strategaeth 'Ceredigion 2020'. Credwn fod datblygu ysgolion bro yn bwysig ynddo'i hun ac rydym hefyd yn ymroddedig i ddatblygiad sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau eraill ac yn eu cefnogi.

3.8 Mae dogfen strategaeth Ceredigion ar Ysgolion Bro a Chylchlythyr Rhif 34/2003 Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Ysgolion Bro' yn darparu arweiniad i ysgolion ar sut i ddechrau a datblygu'r ddarpariaeth bresennol a hefyd i ystyried pa wasanaethau neu weithgareddau ychwanegol y gallent fod am eu cynnig i'w cymunedau.

3.9 Bydd ysgolion bro yn ein cynorthwyo i wireddu saith nod craidd '`Hawl i Weithrediad':

- Cychwyn ar fantais mewn bywyd
- Rhychwant cynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu
- Yr iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, gormes a cham-fanteisio
- Chwarae, hamdden a gweithgareddau diwylliannol
- Eu trin gyda pharch a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- Cartref a chymuned ddiogel
- Plant a phobl ifainc heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi

**Plant a Phobl Ifainc: Hawl i Weithrediad, 2004**

3.10 Mae ymchwil wedi dangos y gall yr ysgol a'r gymuned ill dwy gael eu cyfoethogi wrth i ysgolion estyn eu ffiniau ac, yn enwedig, wrth i'r ysgol a'r gymuned ymwneud yn llawnach â'i gilydd. Nododd yr adroddiad ar gyfnod cyntaf **'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion' (Mis Hydref 2005)** ffactorau allweddol a gyfrannai at lwyddiant ysgolion a oedd yn gweithio o dan amgylchiadau heriol.

Yn ôl yr astudiaeth lle mae ysgolion yn ymgysylltu â'u cymuned leol mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad disgyblion ac yn codi eu huchelgais i fynd ymlaen o'r ysgol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae buddion ysgolion bro wedi cael eu nodi fel a ganlyn:

**I ddisgyblion ac ysgolion:**

- lefelau uwch o gyrhaeddiad disgyblion
- mwy o gymhelliant a hunan-barch gan ddisgyblion
- cefnogaeth arbenigol i gwrdd ag anghenion ehangach disgyblion
- cyfleusterau ac offer ychwanegol
- gweithio'n well mewn partneriaeth â'r gymuned
- gwella statws dysgu yn y gymuned leol
- llai o ddadrithiad ymhlith disgyblion

**I deuluoedd:**

- gwelliannau yn ymddygiad a sgiliau cymdeithasol plant
- mwy o gefnogaeth arbenigol ar gael i deuluoedd
- rhieni wedi'u cynnwys fwy yn addysg plant
- mwy o gyfleoedd am addysg i oedolion a dysgu teuluol yn lleol.

**I gymunedau:**

- gwell mynediad i wasanaethau hanfodol
- mwy o chwaraeon, celfyddydau a chyfleusterau eraill ar gael yn lleol
- cyfleoedd lleol am ddatblygiad gyrfa
- gwell goruchwyliaeth i blant y tu allan i oriau'r ysgol
- yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy dynnu oedolion (ac yn enwedig rhieni) yn ôl at ddysgu – mae atgyfnerthu perthnasau rhwng yr ysgol a'r cartref yn helpu i adfywio a chryfhau cymunedau

3.11 Bydd strategaeth y sir yn anelu at weithio mewn cyd-destun amlasiantaethol er mwyn

- *cefnogi ysgolion unigol neu glystyrau o ysgolion mewn cyflawni eu cenhadaeth graidd – sef gwella gallu disgyblion i ddysgu a chefnogi teuluoedd*
- *darparu rhychwant o weithgareddau/cyfleoedd dysgu y tu allan i ddiwrnod yr ysgol i blant, pobl ifainc, teuluoedd ac oedolion*
- *darparu rhychwant o wasanaethau, cyfleoedd a gwybodaeth ychwanegol i blant, pobl ifainc, teuluoedd a'r gymuned ehangach*
- *bod yn ysgolion cynaliadwy sy'n ymgynghori â'u cymunedau, yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned, yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill sy'n cyfrannu at adfywio'r gymuned*
- *sicrhau cyfartaledd cyfle drwy wella mynediad at ddysgu a gwasanaethau eraill mewn ardaloedd lleol ar sail model y Gymuned Ddysgu Integredig*

3.12 Mae Ysgolion Bro yng Ngheredigion yn cael eu datblygu yng nghyd-destun y canlynol:

- datblygiad y ddarpariaeth addysg yn y sir a
- datblygiad Cymunedau Dysgu Integredig yn y chwe ardal

3.13 Diffinnir **Cymuned Ddysgu Integredig** fel ardal lle ceir y canlynol:

- ysgolion yn cydweithio naill ai'n glystyrau neu'n grŵp ardal
- darparu gwasanaethau mewn ffordd amlasiantaethol, gan gynnwys cyfleusterau gofal plant
- rhychwant o weithgareddau a chyfleoedd dysgu gydol oes i bobl yn y gymuned.

3.14 Bydd y strwythur datblygol hwn yn helpu i sicrhau bod cyfleusterau dysgu cymunedol sy'n ystyriol o deuluoedd i'w cael yn lleol, ym mhob ardal, a'u bod ar gael y tu hwnt i ddiwrnod arferol yr ysgol. Y mae hefyd yn cefnogi'r cysyniad bod rhychwant eang o wasanaethau cefnogaeth eraill ar gael ym mhob ardal, yn enwedig i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

3.15 Bydd y ffocws ar glystyrau neu ardaloedd, yn hytrach na darpariaeth ysgolion unigol, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n deg ar draws y sir a bod dyblygu darpariaeth yn cael ei osgoi. Mae disgwyl i bob ysgol / clwstwr ddarparu rhychwant o gyfleoedd wedi'u targedu at y gymuned a fydd yn briodol i anghenion a gallu'r ysgol a'r gymuned ehangach. Ledled y sir mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol i'w disgyblion, eu rhieni a'u cymunedau gan gynnwys addysg i oedolion, dysgu fel teulu, dysgu y tu allan i oriau'r ysgol, cyfleusterau TGC a rhaglenni chwaraeon.

3.16 Dylai fod gan ysgolion / clystyrau unigolyn penodol â chyfrifoldeb am ddatblygu ysgolion bro. Dylai Ysgolion Bro fod wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol, naill ai fel adran benodol neu o fewn pob maes allweddol.

3.17 Dylai datblygiad Ysgolion Bro fod yn elfen annatod o flaenoriaethau ysgol ac nid yn atodiad iddynt. Dylai Cyrff Llywodraethol gymryd rhan weithredol mewn datblygu ysgolion bro. Bydd yr AALl yn darparu cefnogaeth a chodi ymwybyddiaeth i gyrff llywodraethol drwy'r rhaglen hyfforddi llywodraethwyr.

3.18 Credir yn gryf nad dim ond prosiect neu fenter fyrhoedlog yw datblygu ysgolion bro, ond cyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd er lles plant, pobl ifainc ac oedolion yn y dyfodol.

3.19 Mae'n darparu cyfleoedd i ysgolion a'u cymunedau wneud y canlynol:

- Datblygu gwasanaethau lleol o ansawdd uchel sy'n ymatebol i anghenion lleol
- Cymryd rhan gynyddol mewn penderfynu ar ddarparu'r gwasanaethau hynny a bywyd cymdogaethau
- Gweithio gyda'i gilydd i wireddu'r canlyniadau i'r ardal

.

## 4: Sefyllfa, polisïau a materion cyfredol

### 4.1 Nodweddion demograffig

4.1.1 Mae tystiolaeth i'w chael o ffynonellau cenedlaethol a lleol (*Twf Poblogaeth yng Ngheredigion: Goblygiadau i Gynllunio gan yr Awdurdod Addysg* 1997 ) y bydd y tueddiad at dwf yn y boblogaeth drwy lefelau cymedrol o fewnfudiad yn parhau yn y tymor canolig:

- Mae Ceredigion wedi'i chynnwys yn Grant Cydgyfeiriant yr UE, sydd â'r amcan o gynyddu ffyniant lleol a sicrhau cyflogaeth.
- Mae'r boblogaeth yn dal i fynd yn fwyfwy symudol ac mae tueddiad o hyd i'r boblogaeth mewn ardaloedd 'pellennig a gwledig' fod yn tyfu sydd, yn ôl a awgrymir, yn cael ei achosi gan ystyriaethau ansawdd bywyd a'i helpu gan newidiadau mewn patrymau gwaith.
- Mae Ceredigion, â'r cyfraddau troseddu isaf yn y DU, addysg gyhoeddus dda a diweithdra isel, yn gyrchfan ddeniadol i fudwyr am resymau economaidd yn ogystal â rhai'n ymwneud â ffordd o fyw.

***Rhagamcanion Poblogaeth***

4.1.2 Mae dwy gyfres ddiweddar o ragamcanion poblogaeth yn ymdrin â chyfnod y Cynllun Trefnu Ysgolion (2004 - 2009)

**<u>Rhagamcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>**

Mae CCC wedi cyhoeddi cyfres o ragamcanion poblogaeth. Eto, nid yw'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol at ddibenion cynllunio manwl gan fod awdurdodau wedi cael eu grwpio ar sail ranbarthol, a Cheredigion gyda Phowys yn ffurfio grŵp canolbarth Cymru. Rhagwelir i'r grŵp canolbarth hwn gael y twf mwyaf yn ei boblogaeth yn nhermau canran.

**<u>Rhagamcanion Awdurdodau Lleol</u>**

Mae'r Adran Ymchwil a Gwybodaeth wedi diweddaru ei rhagamcanion poblogaeth i sir Geredigion gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001 yn boblogaeth sail ddechreuol ynghyd â ffynonellau newydd o ddata mudo a rhagamcanion diweddarach gan Actiwari'r Llywodraeth mewn perthynas â niferoedd genedigaethau a marwolaethau. Mae'r scenario a fodelwyd yn rhagdybio mewnfudiad net o +1,000 y flwyddyn (ychydig yn uwch nag a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf). Lleddfir ar effaith lleihad mewn genedigaethau yn y boblogaeth drwy fewnfudiad net plant o dan 18 oed (yn enwedig plant mewn oedrannau pan na fyddant yn sefyll arholiadau).

***TABL 2:* Grwpiau oedran ysgol – Mewnfudiad Net Uwch (tua 1000 o bobl y flwyddyn)**
***[ffigurau amcanol wedi'u talgrynnu i 50]***

| GRWPIAU OEDRAN | 2001 (Cyfrifiad) | 2006 | 2011 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 3485 | 3200 | 3300 | 3550 |
| 5-10 | 5019 | 4500 | 4200 | 4200 |
| 11-15 | 4213 | 4500 | 4050 | 3850 |
| 16-17 | 1725 | 1800 | 1850 | 1600 |
| Cyfanswm o dan 18 | 14442 | 14,000 | 13400 | 13200 |

***Lleoliad y Twf yn y Boblogaeth***

4.1.3 Bydd newidiadau tymor hir yn strwythur aelwydydd yn ogystal â thwf yn y boblogaeth yn arwain at fwy o alw am dai yng Ngheredigion. Cymysgedd cymhleth o ffactorau yw'r farchnad dai ond gellir rhagdybio y bydd teuluoedd a chanddynt blant oedran ysgol yn fwy tebygol o fynnu anheddau uned sengl, yn hytrach, er enghraifft, na stoc hŷn wed'i throi'n fflatiau. At ei gilydd bydd datblygiadau ystâd newydd â chyfran uwch ynddynt o boblogaeth oed ysgol na mathau eraill o dai.

4.1.4 Bydd y prif drefi, sef Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul, Tregaron ond yn enwedig Aberystwyth, yn parhau i fod yn brif ffocws cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol, ac, o'r herwydd, galw am dai. Dros y tymor canolig bydd mwy o alw yn rhan isaf Dyffryn Teifi oherwydd gwell cysylltiadau ffordd i'r de.

4.1.5 Prif leoliadau tai newydd, yn enwedig ystadau newydd, fydd safleoedd ar ymylon y trefi presennol. Eto mae'r galw cryf am y tai sydd eisoes i'w cael a nifer gyfyngedig o safleoedd addas at adeiladu tai newydd, yn golygu y bydd Aberystwyth yn dal i ddylanwadu'n gryf ar y farchnad dai dros ran helaeth o ogledd Ceredigion.

## 4.2 Niferoedd a Lleoedd Disgyblion

4.2.0 Mae niferoedd disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, wedi disgyn yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac mewn llawer i ardal y tebyg yw mai parhau a wna'r tueddiad am i lawr am rai blynyddoedd i ddod. Mewn nifer o Awdurdodau ystyrir bod ysgolion ac ynddynt lai na 100 o ddisgyblion yn fach ac yn anghynaladwy yn wyneb y goblygiadau i ddarpariaeth adnoddau o ran cyllid yn ogystal â staffio ac adeiladau.

Yn ei dogfen ddiweddar ar drawsnewid ysgolion dywed Estyn:

> *"..Mae llawer o ysgolion yng Nghymru mewn ardaloedd gwledig ac mae llawer o'r rhain yn ysgolion bach. Nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud a maint yr ysgol y maent yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau a'r gofynion baich gwaith athrawon mewn ysgolion bach iawn yn sylweddol ac mae darparu adnoddau ariannol ar gyfer yr ysgolion hyn yn sylweddol ac yn gofyn llawer gan gyllidebau cyfyngedig". [para 60]*

### *Proffil Demograffig*

4.2 1 Mae gan yr Awdurdod broses eglur sy'n cael ei mireinio'n gyson i ragweld niferoedd disgyblion. Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn y cyfnod cynradd yn lleihau erbyn 2012 o ryw 8.1% i gyfanswm o 4584 tra rhagwelir lleihad o bron i 13.7%, yn y sector uwchradd i 4429. Mae'r cwymp cyfansawdd a ragwelir o dros 1129 o ddisgyblion (426 yn y cynradd a 703 yn yr uwchradd) yn adlewyrchu'r tueddiad cenedlaethol o leihad sylweddol yn niferoedd disgyblion hyd 2013.

### *Darogan Niferoedd Disgyblion*

4.2.2 Nid gwyddor fanwl mo darogan niferoedd disgyblion. Mae cydweithrediad pellach rhwng Adran Cynllunio'r Cyngor Sir a'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol wedi cynorthwyo i ddatblygu gweithdrefnau darogan i roi'r manylion priodol at ei gilydd mewn ffordd fwy manwl gywir.

4.2.3 Mae'r broses o gadarnhau'r niferoedd disgyblion a ragwelwyd wedi cael ei mireinio gyda chydweithrediad Prifathrawon Ysgolion

### *Lleoedd heb eu llenwi*

<u>Ysgolion cynradd</u>

4.2.4 Mae gan Geredigion lefelau uchel o leoedd heb eu llenwi yn ei hysgolion cynradd o'u cymharu ag awdurdodau unedol eraill yng Nghymru. Yn Ionawr 2007 roedd 55.6% o ysgolion cynradd y Sir a mwy na 25% o'u lleoedd heb eu llenwi.

4.2.5 Mae gan yr Awdurdod hefyd y ganran uchaf o ysgolion bach yng Nghymru (a 'bach' yn cael ei ddiffinio fel llai na 90 o ddisgyblion). Mae lefel y gefnogaeth ariannol i bob disgybl a ddarperir i ysgolion bach iawn yn uchel. Mae angen i'r Awdurdod gwestiynu ei drefniadau o ran darpariaeth ysgol gynradd, yn enwedig o ystyried y lefel uchel o leoedd heb eu llenwi. At ei gilydd nid oes problem gyda niferoedd gormodol yn y sector cynradd.

4.2.6 Mae'n debyg y bydd effaith sylweddol ar y sefyllfa yn deillio o weithredu'r cwricwlwm "Cyfnod Sylfaen" [mewn perthynas â disgyblion 3-7 mlwydd oed] sydd wedi cael ei gynnig gan LlCC ac a fydd yn mennu ar

ofynion o ran staffio ac adeiladau. Ar ben hynny mae LICC yn ystyried dull arall o gyfrif am leoedd ysgol a fydd eto o bosib yn effeithio ar ddiffiniad capasiti ysgolion.

*Ysgolion Uwchradd*

4.2.7 Nid yw lefel y lleoedd heb eu llenwi yn y sector uwchradd yn broblem mor sylweddol i'r Awdurdod ag yn y sector cynradd. O'u cymharu ag awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, nid yw'r lefelau yn eithafol, a hwythau yn y chwarteli canolrifol neu is. Eto mae canran uchel o ysgolion uwchradd bach a hefyd canran uchel o ddosbarthiadau chwech. Awgrymodd yr Adroddiad y dylai'r Awdurdod ystyried a ydyw am dargedu ei fformiwla RhLY yn well i sicrhau cost-effeithiolrwydd yn y maes hwn. Nid oedd dim ysgolion a chanddynt broblemau o ran niferoedd gormodol yn y sector uwchradd ar adeg yr archwiliad.

4.2.8 Fel gyda'r cyfnod cynradd, effeithir ar gapasiti ysgolion uwchradd gan y newid a ragwelir mewn cyfrifo lleoedd ac adeiladau. Ar ben hynny, y tebyg yw y caiff y trafodaethau presennol am ddarpariaeth 16+ a'r cwricwlwm 14 -19 effaith sylweddol ar leoedd ysgol.

***Adroddiadau Archwiliad***

4.2.9 Daeth adroddiad gan Archwilydd i'r casgliad hwn: "yn wyneb lefelau uchel y lleoedd heb eu llenwi a geir yn agos at ei gilydd, dylai'r Awdurdod ystyried y canlynol:

- a fyddai cyfuno ysgolion cynradd yn briodol
- a ellid gwneud defnydd arall o rai rhannau o ysgolion.

***Capasiti ysgolion a lleoedd heb eu llenwi***

4.2.10 Mae LICC wedi darparu dull newydd o gyfrifo capasiti. Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, fod y darlun cyffredinol o lefel uwch na'r cyfartaledd o 'leoedd dros ben' yn cuddio'r ffaith bod nifer fach o ysgolion trefol â niferoedd gormodol.

4.2.11 Mae adolygiad o gapasiti ysgolion, yn dilyn yr Arolwg Cyflwr Ysgolion, yn dangos nad yw'n ymarferol mewn llawer o achosion leihau nifer y lleoedd heb eu llenwi.

4.2.12 Gwelir isod ddadansoddiad amlinellol o leoedd heb eu llenwi yn y sector cynradd. Nifer y disgyblion ochr yn ochr â chapasiti'r ysgol – a rhai ohonynt ymhell uwchben y trothwy cyfrannol o 25% a ystyrir gan LICC. Mae gan 9 o ysgolion nifer disgyblion sy'n uwch na'u capasiti.

| Capasiti'r Ysgol | <20 | 21 - 40 | 41 - 65 | 66 - 90 | 91 - 105 | 106 -150 | 151 - 200 | 201 - 250 | 251 - 300 | 301 – 350 | 351 – 400 | 401 – 450 | 451+ | CYFANSWM | Nifer yr ysgolion <90 o ddisgyblion | * ysgolion â niferoedd uwchben capasiti |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer disgyblion | | | | | | | | | | | | | | | | |
| < 20 | | 5 | 2 | 1 | | | | | | | | | | 8 | | |
| 21 – 40 | | 9 | 14 | 4 | | | | | | | | | | 27 | | 7 |
| 41 - 65 | | | 8 | 4 | | | | | | | | | | 12 | 54 [77.1%} | 1 |
| 66 – 90 | | | | 1 | 2 | 4 | | | | | | | | 7 | | |
| 91 – 105 | | | | 1 | | 2 | | | | | | | | 3 | | 1 |
| 106 – 150 | | | | | | 2 | 3 | | | | | | | 5 | | |
| 151 – 200 | | | | | | | 1 | 2 | 1 | 1 | | | | 5 | | |
| 201 – 250 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 250 – 300 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 301 – 350 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 351 - 400 | | | | | | | | | | | 3 | | | 3 | | |
| 401 + | | | | | | | | | | | | | | | | |
| CYFANSWM | | 14 | 24 | 11 | 2 | 8 | 4 | 2 | 1 | 1 | 3 | | | 70 | | 9 |
| Nifer capasiti ysgol<90 | 49 [70%] | | | | | | | | | | | | | | | |

***Maint ysgolion***

*Cyfnod Cynradd*

4.2.13 Mae rhai Awdurdodau'n awgrymu y bydd ysgolion a chanddynt niferoedd disgynnol yn colli adnoddau ac y bydd angen iddynt wneud penderfyniadau addysgol anodd. Mae maint ysgol yn ffactor o bwys o ran pa mor gost-effeithiol ydyw. Bydd hefyd yn dylanwadu'n drwm ar drefniadaeth fewnol yr ysgol, yn enwedig wrth bennu a oes angen dosbarthiadau oedrannau cymysg. Awgrymir hefyd mai'r tebyg yw y bydd gan ysgolion cynradd â thua naill ai 420 o ddisgyblion (derbyn dau ddosbarth) neu 210 o ddisgyblion (derbyn un dosbarth) adnoddau digonol i'w galluogi i ddarparu'r strategaeth gynradd yn effeithiol ac i ariannu:

- cwricwlwm ehangach a lledaenu arfer da ymhlith athrawon
- staff cefnogaeth megis cynorthwywyr dysgu, staff cefnogaeth weinyddol ac AAA i helpu ag ailfodelu'r gweithlu
- gweithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion
- TGC ac adnoddau dysgu eraill
- darpariaeth AAA a gwrth fesurau i amddifadedd.

4.2.14 Wrth i niferoedd disgyblion ddisgyn mae'n rhaid gwneud penderfyniadau wrth geisio darparu adnoddau digonol i gynnal staff a grwpiau dysgu yn aml heb ddatrys y materion sylfaenol. Yn wir mae LlCC ac Estyn yn awgrymu bod ysgolion a chanddynt lai na 90 o ddisgyblion yn cael eu hystyried yn fach ac fel y cyfryw yn cyflwyno problemau arbennig a'r rheini'n cynnwys

- bod y prifathro'n gorfod cario baich dysgu sylweddol
- arbenigedd cyfyngedig i gwrdd â'r holl gwricwlwm
- anwadalrwydd posib am fod newidiadau staff yn gallu cael effeithiau anghymesur a sydyn

4.2.15 Nid oes gan AALl Ceredigion ddim polisi wedi'i ddiffinio ar faint priodol ysgolion cynradd. Bydd yn ymdrin yn hytrach â phob ysgol ar sail unigol yn ôl yr anghenion a'r sefyllfa leol. Eto gall fod yn briodol i'r Awdurdod bennu polisi wrth greu strategaeth ar gyfer y ddarpariaeth addysgol o fewn y Sir yn y dyfodol. Fel y nodir gan Estyn ac asiantaethau eraill ystyrir ysgolion cynradd a chanddynt lai na 90 o ddisgyblion yn 'fach'. Felly, mae tua 71% o ysgolion cynradd Ceredigion yn fach. Hon yw'r ganran uchaf yng Nghymru.

4.2.16 Wrth ystyried y modelau a all fod yn briodol ar gyfer trefnu ysgolion o fewn Ceredigion mae gwahanol feintiau ysgol yn dod i'r amlwg:-

(i) Byddai ysgol gynradd 3-11 oed a chanddi 90 -100 o ddisgyblion yn darparu ar gyfer pedwar dosbarth ar gyfer dau grŵp oedran yn yr un dosbarth : Meithrin/Derbyn; Blynyddoedd 1 a 2 [y ddau ddosbarth yn cydymffurfio â'r Cyfnod Sylfaen]; Blynyddoedd 3 a 4; Blynyddoedd 5 a 6 [yn cyfuno fel Cyfnod Allweddol 2 neu'r Cyfnod Iau]. Maint dosbarth ar gyfartaledd fyddai 22.5 i 30 o ddisgyblion.

(ii) Byddai ysgol 3-11 oed wedi'i seilio ar ddosbarth i bob grŵp blwyddyn, gan gynnwys darpariaeth feithrin, yn darparu ar gyfer rhwng 180 a 240 o ddisgyblion.

(iii) Byddai model posib arall yn caniatáu 3 dosbarth ar draws dau grŵp oedran. Gellir trefnu hyn ond byddai rhai dosbarthiadau'n gymysg o ran oedran. Gallai'r ysgol ddarparu ar gyfer tua 260 i 360 o ddisgyblion

(iv) Byddai'r lefel effeithiol nesaf wedi'i seilio ar dderbyn dau ddosbarth [*h.y.* dau ddosbarth ym mhob blwyddyn] ar gyfer tua 350 i 480 o ddisgyblion.

4.2.17 Mae dadansoddiad o feintiau ysgolion yng Ngheredigion (Ionawr 2007) yn darparu deunydd ar gyfer dadansoddiadau a chasgliadau diddorol:

| ***Maint Ysgolion*** | ***YSGOLION*** | | | ***DISGYBLION*** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***No.*** | ***%*** | ***Cumulative %*** | ***No.*** | ***%*** | ***Cumulative %*** |
| <16 | 4 | 5.7% | 5.7% | 52 | 1.1% | 1.1% |
| 16 – 30 | 18 | 25.7% | 31.4% | 440 | 9.0% | 10.1% |
| 31 – 40 | 13 | 18.6% | 50.0% | 466 | 9.6% | 19.7% |
| 41 – 60 | 11 | 15.7% | 65.7% | 546 | 11.2% | 30.9% |
| 61 – 75 | 5 | 7.1% | 72.9% | 340 | 7.0% | 37.9% |
| 76 – 100 | 5 | 7.1% | 80.0% | 449 | 9.2% | 47.1% |
| 101 – 150 | 6 | 8.6% | 88.6% | 773 | 15.9% | 62.9% |
| 151 – 200 | 5 | 7.1% | 95.7% | 842 | 17.3% | 80.2% |
| 200+ | 3 | 4.3% | 100.0% | 963 | 19.8% | 100.0% |
| TOTAL | 70 | 100 | - | 4871 | 100 | - |

| DADANSODDIAD YSGOLION CYNRADDION. Ion. 2008: Disgyblion yn ôl ardal | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal | | Nifer Disgyblion | | | | | | | | | |
| | | <10 | 11 ~ 25 | 26 ~ 40 | 41 ~ 75 | 75 ~ 100 | 101 ~ 150 | 151 ~ 200 | 201 ~ 300 | 301+ | Total |
| ABERAERON | | 1 | 3 | 6 | 4 | 1 | ~ | 1 | ~ | ~ | 16 |
| ABERYSTWYTH | | - | 2 | 5 | 4 | 4 | 2 | 2 | ~ | 2 | 21 |
| ABERTEIFI | | | 1 | 3 | 2 | ~ | 3 | 1 | ~ | ~ | 10 |
| LLAMBED | | ~ | 1 | 3 | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 1 | 6 |
| LLANDYSUL | | ~ | ~ | 6 | 2 | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 9 |
| TREGARON | | | 3 | 1 | 4 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 8 |
| | | | | | | | | | | | |
| ***TOTAL*** | | 1 | 10 | 24 | 16 | 5 | 6 | 5 | 0 | 3 | 70 |

- Mae 33 ( 47%) o ysgolion o dan 40 o ddisgyblion, sef y trothwy ar gyfer lleiafswm o ddau athro ar sail y Fformiwla Ariannu bresennol
- Mae'r rhain yn darparu ar gyfer 878 (18%) o ddisgyblion.
- Mae 2578 (53%) o ddisgyblion eraill yn cael eu haddysgu mewn 14 (20%) o ysgolion sydd â dros 100 o ddisgyblion.

*Cyfnod Uwchradd*

4.2.18 Mae ysgolion uwchradd â llai na 700 o ddisgyblion yn cael eu hystyried gan Estyn ac asiantaethau eraill yn fach. Mae pedair o ysgolion Ceredigion yn disgyn i'r categori hwn ac mae tair arall oddeutu'r trothwy neu fymryn drosto. Ystyrir dosbarthiadau chwech â 160 neu lai o ddisgyblion yn fach, un ysgol yn unig sydd â mwy o ddisgyblion yn y chweched dosbarth na'r trothwy.

4,2,19 Mae darpariaeth Ôl-16 a 14-16 yn ganolbwynt sylw ar hyn o bryd. Rhagwelir bod y ddarpariaeth 16+ yn debygol o gael effaith sylweddol ar natur a maint adeiladau o fewn ysgolion Ceredigion. Hefyd, gallai'r trafodaethau ynghylch y cwricwlwm ac achredu ar gyfer y grŵp oedran 14-19 arwain at lawer o ofynion y bydd angen eu hystyried yn y dyfodol agos.

***Maint Dosbarthiadau***

4.2.20 Nid oes gan yr AALl ddim polisïau penodol sy'n diffinio meintiau dosbarth yn y Sector Cynradd nac Uwchradd – heblaw am gydymffurfio â'r gofyn statudol i gadw meintiau dosbarth o dan 30 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a'r nod dymunol o gadw trothwy o'r fath yng Nghyfnod Allweddol 2/Cyfnod iau. Ystyrir mai cyfrifoldeb y Llywodraethwyr a'r Prifathrawon o fewn yr adnoddau sydd ar gael yw trefniadaeth fewnol ysgol. Cydnabyddir gan yr Awdurdod gymhlethdod rheoli'r dosbarth oedran/gallu cymysg anorfod ar y lefel gynradd.

4.2.21 Adeg Cyfrifiad Disgyblion Ionawr 2008 nid oedd dosbarthiadau ac ynddynt fwy na 30 o ddisgyblion mewn unrhyw ysgol gynradd.

4,2,22 Dilynir yr arweiniad priodol o ran meintiau dosbarth ar gyfer rhai pynciau ar y lefel uwchradd.

***Ysgolion Ffydd***

4.2.23 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn bod Awdurdodau Addysg yn adolygu darpariaeth ysgolion ffydd. Mae dwy Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir [y naill un yn perthyn i'r Eglwys yng Nghymru a'r llall i'r Eglwys Gatholig Rufeinig] o fewn yr Awdurdod yn ogystal â dwy Ysgol Wirfoddol a Reolir yn perthyn i'r Eglwys yng Nghymru. Mae darpariaeth felly yn cwrdd â'r anghenion presennol. Os daw unrhyw ofynion sylweddol i'r amlwg ymgynghorir â'r Awdurdod Esgobaethol priodol.

4.2.24 Er bod nifer o ddisgyblion o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd ethnig a chrefyddol yng Ngheredigion y maent wedi'u canolbwyntio yn bennaf yn ardaloedd Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan lle mae'r sefydliadau Prifysgol yn denu myfyrwyr o'r byd i gyd. Bydd myfyrwyr ymchwil yn bennaf weithiau'n dod â'u teuluoedd yn eu canlyn ond mae eu harhosiad yn un dros dro. O ganlyniad ni fu galw am ysgolion i draddodiadau ffydd benodol heblaw am y rhai Cristnogol.

***Darpariaeth Iaith***

4.2.25 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn bod Awdurdodau Addysg yn adolygu eu darpariaeth o ran y Gymraeg. Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn datgan ei gred yng ngwerth addysgol codi dwy iaith ac yn ystyried bod y polisi'n darparu'n ddigonol.

4.2.26 Nod y polisi dwyieithog hwn yw addysgu disgyblion fel y bônt yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd wrth iddynt ymadael â'r ysgol gynradd fel y gallant gymryd rhan yn llawn yn y gymuned ddwyieithog y maent yn perthyn iddi. Dylai'r ddarpariaeth a wneir sicrhau bod pob disgybl yn medru cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith a'i f/bod yn gwerthfawrogi etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

4.2.27 Yn y sector cynradd, mae mwyafrif yr ysgolion yn dilyn polisi lle mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol [Categori A], mae un o'r ysgolion hyn yn ysgol benodedig gyfrwng Cymraeg. Mae 67 o ysgolion sy'n dilyn y polisi. Mae 6 ysgol arall yn dilyn polisi lle mae'r Gymraeg yn un cyfrwng ym mywyd a gwaith yr ysgol [Categori B]. Ar ben hynny mae 3 ysgol sydd wedi'u trefnu yn y fath fodd fel y bo ffrydiau sy'n dilyn y naill neu'r llall o'r polisïau hyn [Categori A/B].

4.2.28 Mae chwe Chanolfan Iaith wedi cael eu sefydlu i gefnogi disgyblion oedran ysgol iau sy'n hwyr ddyfodiaid i'r ardal.

4.2.29 Mae'r Awdurdod Addysg yn ymwybodol o'r angen i sicrhau dilyniant rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd os yw'r Polisi Iaith i fod yn effeithiol.

4.2.30 Mae gan Gyrff Llywodraethol Ysgolion Uwchradd bolisïau sefydlog ar gyfer darpariaeth Iaith yn unol â Strategaeth Iaith Ceredigion. Mae pob ysgol yn cwrdd â'r galw i rychwant o bynciau gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dwy o'r 7 Ysgol Uwchradd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig.

## 4.3 Derbyn Disgyblion i Ysgolion

***Ceisiadau am Leoedd***

4.3.1 Mae gan yr Awdurdod drefn dderbyn hen sefydlog a adolygir ar hyn o bryd ar gyfer derbyn disgyblion i'r cyfnodau cynradd ac uwchradd ill dau.

4.3.2 Am y tro cyntaf er ei sefydlu ym 1996 cafwyd gordanysgrifio mewn un o Ysgolion Uwchradd Ceredigion ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2005-06. Gweithredwyd trefnau a oedd eisoes i'w cael er mwyn datrys y mater.

***Polisi Derbyn***

4.3.3 . Mae'r Awdurdod Addysg yn adolygu ei Polisi Derbyn ar hyn o bryd. Y prif gynnig yw gadael i'r plentyn ei dderbyn i ysgol gynradd ar ddechrau'r tymor y caiff ei b/phen-blwydd yn bedair oed ynddo Os oes dosbarth meithrin yn yr ysgol, caiff plant gychwyn ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed - fel arfer ar sail ran amser. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith nid yw'n rhaid i blant ddechrau yn yr ysgol hyd nes y byddant wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed.

4.3.4 Nid oes dim trosglwyddiad awtomatig o uned/dosbarth meithrin i ddosbarth derbyn yr ysgol brif ffrwd sy'n gysylltiedig â hi/ef.
.
4.3.5 Bydd disgyblion wedi cyrraedd 7 mlwydd oed erbyn 31ain o Awst cyn cael eu derbyn neu eu trosglwyddo i ysgol plant iau ar ddechrau blwyddyn yr ysgol.

4.3.6 Bydd plant yn dechrau eu haddysg uwchradd yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 11.

4.3.7 Bydd disgyblion wedi cyrraedd 16 mlwydd oed erbyn 31 o Awst cyn cael eu derbyn i Flwyddyn 12 (chweched dosbarth) ysgol uwchradd ar ddechrau blwyddyn ysgol.

4.3.8 Mae'n rhaid i rieni wneud cais ysgrifenedig am le ym mha ysgol(ion) bynnag yr hoffent i'w plentyn gael ei (h)addysg ynddi (ynddynt). O fewn Ceredigion bydd y rhan fwyaf o rieni yn anfon eu plentyn i'r ysgol sy'n gwasanaethu eu hardal leol. Yn draddodiadol mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu a bydd disgyblion o fewn yr ardal honno yn mynychu'r ysgol leol. Eto, caiff rhieni ddatgan bod ysgol arall yn well ganddynt.

4.3.9 Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion hyd at y lefel dderbyn sydd wedi'i chyhoeddi ar ei chyfer. Bydd y lefel dderbyn yn adlewyrchu nifer lleoedd yr ysgol a rhoddir lle i blentyn mewn ysgol oni bai ei bod yn llawn. Ar ôl cyrraedd y lefel dderbyn, mae'n rhaid gwrthod ceisiadau am le yn yr ysgol.

4.3 10 Rheolir derbyn plant i'r ysgol gan "Awdurdod Derbyn". Yn achos ysgolion cymunedol yng Ngheredigion yr Awdurdod Derbyn yw Cyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdod Addysg Lleol neu AALl). Yn achos Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Awdurdod Derbyn yw Corff Llywodraethol yr ysgol.

4.3.11 Lle bo mwy o blant sy'n dymuno mynd i ysgol benodol nag o leoedd, cymerir y ffactorau canlynol i ystyriaeth – yn nhrefn blaenoriaeth:-

1. datganiadau ysgrifenedig yn nodi dewis a rhesymau rhieni;
2. nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i'r ysgol;
3. yr ardal ddaearyddol y bydd yr ysgol fel arfer yn ei gwasanaethu;
4. disgyblion sy'n derbyn gofal;
5. rhesymau meddygol a chymdeithasol penodol ac eithriadol;
6. cysylltiadau brodyr/chwiorydd.

Lle bo mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn ac ymgeiswyr yn dal i fod ar ôl yna derbynnir y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol.

4.3.12 Lle bo modd mae’n rhaid i’r Awdurdod Derbyn ddarparu ar gyfer y dewis, ond cymerir rhai ffactorau i ystyriaeth. Mae’r rhain yn cynnwys:

- y defnydd effeithlon o adnoddau ac adeiladau
- cymeriad ysgol (crefyddol at ei gilydd)

4.3.13 Mae gan rieni'r hawl i apelio lle na fu’n bosib i blentyn gael ei dderbyn i’r ysgol a ddatganwyd yn ddewis ganddynt.

4.3.14 Nid yw’r Awdurdod yn caniatáu dethol, rhestrau aros na chyfweld â rhieni sy’n ceisio am le.

## 4.4 Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol

4.4.1 Darperir ar gyfer y ddyletswydd sydd ar yr AALl i ddarparu cludiant di-dâl i hwyluso i ddisgyblion fynychu’r ysgol yn Adran 509 o Ddeddf Addysg 1996.

4.4.2 Bydd disgyblion yn gymwys i dderbyn cymorth statudol os ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol orfodol ac yn mynychu’r ysgol agosaf neu’r ysgol sydd fel arfer yn gwasanaethu’r ardal y mae’r disgyblion yn byw ynddi, a hefyd lle maent yn byw dros y pellterau cerdded statudol. Diffinnir y pellter fel 2 filltir yn achos plant o dan 8 mlwydd oed a 3 milltir yn achos plant 8 mlwydd oed a mwy.

4.4.3 Gall fod y darperir cymorth i ddisgyblion o dan rai amgylchiadau o achos y canlynol:-

- Diogelwch;
- Cyflwr Meddygol;
- Datganiad Anghenion Addysgol;
- Newid preswylfa mewn blwyddyn pan sefir arholiadau terfynol;
- Cyfle i barhau â chwrs astudiaeth uwch heb fod ar gael yn yr ysgol benodedig;
- Credau crefyddol: O ystyried gofynion Deddf Addysg 1993, cynghorir rhieni i gysylltu â’r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol i gael gwybodaeth bellach cyn dweud pa ysgol sydd ddewisaf ganddynt ar y sail bod natur yr addysg grefyddol a ddarperir yn y sefydliad hwnnw'r un peth â’r grefydd neu’r enwad y mae’r rhiant yn perthyn iddi/iddo.

4.4.4 Gall fod y caiff disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael 'cludiant di-dâl’ fel y’i diffinnir uchod, yn dilyn cais ysgrifenedig i’r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, deithio ar gerbydau contract yr AALl os bydd llefydd sbâr ar gael. Gellir tynnu’r consesiwn yn ôl ar unrhyw adeg.

.

4.4.5 Trefnir cludiant hefyd i’r sawl sy’n mynychu Coleg Addysg Bellach.

4.4.6. Mae natur wledig y Sir yn golygu costau cludiant uchel er mwyn sicrhau mynediad i Addysg. Cyfanswm y gwariant net yw £2,636,100

| Nifer y disgyblion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***CYMWYS*** | ***ANGHYMWYS (Sedd wag))*** | ***CYFANSWM*** | ***COST £*** |
| ***Cynradd*** - tan 5 | 0 | 14 | 14 | 338100 |
| - 5-11 oed | 208 | 97 | 305 | |
| | | | | |
| ***Secondary*** - Yr 7-11 | 2721 | 251 [102 talu] | 3074 | 1741900 |
| Dosbarth VI *[amcangyfrif]* | 256 | 11 [11 talu] | 278 | |
| | | | | |
| ***Addysg Arbennig*** | 103 | 0 | 103 | 396300 |
| - Gwaharddiadau | 6 | 0 | 6 | |
| - Uned PR | 19 | 0 | 19 | |
| | | | | |
| ***Myfyrwyr Addysg Bellach*** | 215 | 104 | 379 | 159800 |
| | | | | |
| ***CYFANSWM*** | 3585 | 477 [113 talu] | 4178 | **2636100** |

**4.5 Staffio**

4.5.1 Mae cyflwyno’r Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon ac ailfodelu Ysgolion yn cael effaith sylweddol ar ysgolion. Mae ailfodelu’r gweithlu wedi esgor ar gynnydd yn nifer ac ystod yr oedolion yn yr ysgol ac y mae wedi peri bod arweinwyr yn rheoli mwy o bobl. I lawer o ysgolion, mae hyn wedi golygu canolbwyntio amser athrawon ar ddysgu a defnyddio pobl broffesiynol addas eu cymwysterau o’r tu allan i ymgymryd â swyddogaethau eraill.

4.5.2 Mae saith elfen y Cytundeb ar Lwyth Gwaith yn ceisio galluogi arweinwyr i arwain, rhoi amser i athrawon ar gyfer paratoi ac asesu, canolbwyntio egnïon ac arbenigedd athrawon ar ddysgu drwy gyfeirio nifer o orchwylion at staff cefnogaeth. Mae’r olaf felly’n darparu cyfleoedd i ddatblygu strwythur i staff cefnogaeth yn yr ysgol sy’n ymgymryd â dysgu a chefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddiaeth a dyletswyddau clercio.

4.5.3.O fewn Ceredigion mae tystiolaeth i’w chael fod y mentrau o les i athrawon ond eu bod wedi creu mwy o bwysau ar brifathrawon gan fod y cyllid ar gyfer eu gweithredu wedi bod yn annigonol. Ar ben hynny er bod LlCC yn ceisio hyrwyddo creu cefnogaeth drwy ddatblygu a chyflogi Cynorthwywyr Dysgu, mae ysgolion wedi ceisio cyflogi rhagor o athrawon cymwysedig i gyflawni dyletswyddau athrawon. Nid yn unig y mae prinder o ran y staff sydd ar gael ond nid yw darpariaeth o’r fath yn gynaliadwy yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol.

4.5.4 Mewn rhai sefyllfaoedd mae cyfyngiadau wedi arwain at ddyfeisgarwch nodedig ac ysgolion yn cydweithio i rannu staff neu’n dod at ei gilydd yn staff a disgyblion er mwyn darparu amser i athrawon baratoi ac asesu. Mae trefniadau o’r fath o les ychwanegol o ran cyfleoedd dysgu disgyblion oherwydd y rhychwant o arbenigedd sydd ar gael gan athrawon a’r ffordd y cryfheir ymwneud cymdeithasol disgyblion â’i gilydd mewn grwpiau mwy o gyfoedion mewn modd nad yw i’w weld mewn unedau ysgol llai a mwy ynysig.

4.5.5 Mae cyfyngiadau unedau ysgol bach yn creu anawsterau mewn gweithredu’r agenda i Ailfodelu’r Gweithlu. Mae taliadau Cyfrifoldeb Dysgu ac Addysgu i ddisodli lwfansau rheolaeth. Mae taliadau felly i adlewyrchu’r ffocws ar gyfrifoldebau dysgu ac addysgu. Mae gofyn i ysgolion fod wedi sefydlu strwythurau erbyn mis Rhagfyr 2008 a fydd yn adlewyrchu gofynion o’r fath. Eto nid oes cyllid ar gael i sefydlu strwythurau'r un peth â’r systemau presennol. Mae cyfleoedd i’w cael o gydweithio rhwng ysgolion drwy gytundebau ffurfiol sy’n cynnwys rhannu arbenigedd a chyfrifoldebau. Yn wyneb maint ysgolion yng Ngheredigion gall fod mai rhoi modelau ffederal cydweithiol priodol ar waith yw’r unig ffordd realistig o weithredu gofynion y Gweithlu ac Ailfodelu.

4.5.6 Bydd yr agenda sy’n hybu mwy o integreiddio rhwng addysg a gwasanaethau plant yn galw am fwy o ddarpariaeth arbenigol amlasiantaethol fuddiol. Gall disgyblion a staff fod ar eu hennill o weithio gyda staff mewn sectorau eraill, megis y gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, heddlu a chefnogaeth ieuenctid.

4.5.7 Yn anorfod fel y gwêl Estyn,

> *“bydd y ffaith fod ystod ehangach o arbenigwyr yn cymryd rhan yn cyfrannu at ddysgu yn cynnig cyfle ar gyfer modelau staffio a threfniadau gweithio mwy hyblyg. Dylai hyn wneud defnydd gwell o fedrau llawer o bobl ac yn eu helpu i gyflawni cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Nid oes un model sy’n addas i bawb ar gyfer ysgolion, ond mae meddwl yn ddychmygus ac yn hyblyg yn allweddol i wneud newidiadau llwyddiannus yn y modd y gellir defnyddio’r gweithlu. O ganlyniad, gallai staff mewn ysgolion elwa mwy ar batrwm gwaith hyblyg, a allai gynnwys trafod eu horiau gwaith a’u gwyliau fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr a’u hamgylchiadau eu hunain. [para 80]*

4.5.8 Noda Estyn hefyd fod proffil ystadegol athrawon yng Nghymru hefyd fel pe tai’n awgrymu bod angen mwy o hyblygrwydd mewn modelau staffio os yw ysgolion i gadw, datblygu a chynnal y 40%, bron â bod, o’r holl staff sydd wedi’u cofrestru yng Nghymru, a’r 65% a mwy o brifathrawon, sydd yn y grŵp oedran 50+. Adlewyrchir hyn yng Ngheredigion gyda thua 47% o brifathrawon presennol y sir yn cyrraedd oedran ymddeol erbyn 2015. Yn y dyfodol disgwylir i brifathrawon fod a chymwysterau priodol a gall hyn arwain at brinder ymgeiswyr am y swyddi cyffelyb. Ymddengys hefyd bod diffyg awydd i geisio am swyddi prifathrawon. Gall fod yr ateb i’w gael mewn strwythurau ffederal ffurfiol.

4.5.9 Yn ei chyhoeddiad diweddar awgryma Estyn fod y ffyrdd ymlaen i ysgolion y dyfodol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol:

- ailfeddwl am strwythurau staffio o ran addasrwydd at eu diben;
- rheoli swyddogaethau staff amrywiol i gefnogi cyflawni gan ddisgyblion;
- datblygu'r sgiliau rhwydweithio a negodi sydd gan staff i gefnogi gweithio mewn partneriaethau;
- datblygu a meithrin staff drwy systemau rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol effeithiol;
- a chefnogi pobl newydd a myfyrwyr sy'n dod at y proffesiwn yn y rhaglenni y maent yn mynd drwyddynt cyn ennill eu cymhwyster ac ar ôl hynny.

4.5.10 Yn hanfodol felly bydd mabwysiadu strwythurau ar draws ysgolion yn y sector cynradd er mwyn sefydlu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol nad ydynt yn gynaliadwy fel unedau unigol. Mae'r materion arweinyddiaeth yn cynnwys Cyrff Llywodraethol

4.5.11 Mae Estyn yn pwysleisio :.

> **… Er mwyn i ysgolion hyrwyddo dysgu gydol oes a datblygiad cymunedol, bydd angen i bob arweinydd gael gweledigaeth a'r gallu i godi disgwyliadau ac ysbrydoli a chymell eraill. Bydd angen i arweinwyr weithio yn fwy hyblyg mewn gwahanol fathau o rolau rheoli. Bydd angen cydweithredu ag asiantaethau allanol bob amser ar gyfer cynllunio, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ogystal â darparwyr addysg eraill fel dysgu oedolion. [para 92]*

ac mae'r ffyrdd ymlaen mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol:

- *goresgyn ffiniau sefydliadol i ddeall a gweithio'n effeithiol â rhychwant eang o bartneriaid sy'n cyfrannu at bob agwedd ar ddysgu, iechyd a lles disgyblion;*
- *gwella dysgu ac addysgu drwy gymell a dylanwadu ar ddisgyblion a staff mewn sefyllfa sy'n newid;*
- *defnyddio amser pobl, adnoddau ac adeiladau mewn ffyrdd mwy uchelgeisiol a chreadigol;*
- *darparu mwy o hyblygrwydd wrth ddosrannu cyfrifoldeb ymhlith staff;*
- *rhoi blaenoriaeth i reoli perfformiad ac i ddatblygu'r holl bobl sy'n gweithio mewn ysgolion yn unol â blaenoriaethau trefniadol; a*
- *datblygu a meithrin timau rheoli sy'n gweithio'n effeithiol ar draws sectorau.*

4.5.12 Gallai rhan hanfodol o'r strategaeth i ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg o fewn y Sir arwain at gau neu ad-drefnu rhai ysgolion. Gallai mesurau o'r fath olygu bod anghenion staffio o fewn y Sir yn newid ac y ceir newidiadau i'r gweithlu.

Mae *'Côd Ymarfer ar gyfer delio gyda Materion Staffio mewn Ysgolion sy'n cael eu Cyfuno neu'u Cau'* wedi'i gynhyrchu gan yr Adran Addysg i gyfarwyddo a mynd i'r afael â'r materion hyn. Bwriad y cyfarwyddyd yw diogelu staff i'r graddau eithaf posib trwy sicrhau bod yna ddulliau cyson o ddelio gyda materion staffio lle bynnag yr ailstrwythurir ysgolion. Hefyd, bydd y cyfarwyddyd yn ymdrin â gweithdrefnau penodi a chyfleoedd adleoli, yn ogystal ag amlinellu lefelau'r budd-daliadau sy'n daladwy mewn achos o ymddeoliad neu ddiswyddiad.
Cydnabyddir mai cyfrifoldeb y Cyrff Llywodraethu yw penderfyniadau staffio ond Cyngor Sir Ceredigion yw cyflogwr cyfreithiol yr holl staff o hyd. Disgwylir felly i bawb weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau penodiadau effeithiol mewn ysgolion a diogelu'r gweithwyr presennol.
Ymgymerwyd ag ymgynghoriad ynglŷn â chynnwys y Côd Ymarfer gyda'r Undebau Llafur, y Cymdeithasau Athrawon a'r Grŵp Partneriaeth Cymdeithasol Lleol sy'n croesawu'r fath gyfarwyddyd

## 4.6 Asedau o ran Adeiladau

4.6.1 Mae darparu cyfleusterau ysgol sy'n addas at eu diben yn darged gan LlCC. Mae gofyn i Awdurdodau Lleol sefydlu cynlluniau praff i leihau lleoedd dros ben ac i wella safonau adeiladau. Wrth wneud hynny mae LlCC yn gofyn ymhellach fod Awdurdodau'n dangos ymroddiad o ran yr egwyddor a hefyd drwy gyfeirio adnoddau cyfalaf at yr orchwyl. Gall diffyg ymroddiad a chynlluniau praff o'r fath i reoli asedau beri na fydd Awdurdodau'n gymwys i dderbyn cyllid grant cyfalaf.

.

4.6.2 Mae Estyn yn y ddogfen *“Trawsnewid Ysgolion”* yn awgrymu y dylai’r canlynol fod gan ysgolion y dyfodol:

- .adeiladau deniadol a modern sy’n defnyddio ffynonellau cynaliadwy o ddeunyddiau sy’n cadw’r traddodiadau pensaernïaeth ac adeiladu lleol gorau a’u bod yn effeithlon o ran ynni ac adnoddau;
- adeiladau digonol, ansawdd uchel, sydd wedi’u dylunio’n dda, y gellir eu defnyddio’n hyblyg ar gyfer addysgu a dysgu gan ddefnyddio ystod o ddulliau;
- cyfleusterau o’r radd flaenaf lle gall disgyblion fwynhau prydau iach;
- darpariaeth fodern addas a glân ar gyfer toiledau a hylendid personol;
- adeiladau sy’n hygyrch i’r gymuned gyfan sydd â chyfleusterau addas ar gyfer dysgwyr anabl;
- cyfleusterau cyfoes, fel canolfannau TG, labordai, gweithdai a llyfrgelloedd, i’w defnyddio gan ddisgyblion, staff, rhieni ac aelodau o’r gymuned;
- mannau cymunedol cysgodol diogel, wedi’u goleuo’n dda, a chaeau ar gyfer chwarae ac ymlacio, sy’n annog i’r gymuned wneud defnydd eang ohonynt er mwyn i ddefnyddwyr ymfalchïo mewn gofalu am eu hardal;
- cyfleusterau chwaraeon a chwarae y tu mewn a’r tu allan sydd ar gael i ddisgyblion a’r gymuned; a
- gwasanaethau cymunedol, lle caiff disgyblion a’u teuluoedd fynediad at ystod eang o gymorth, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

***Rheoli Asedau***

4.6.3 Mewn cydweithrediad â’r Adran Briffyrdd, Eiddo a Gwaith ac ysgolion, bydd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn ymgymryd â Rhaglen Gyfalaf sylweddol bob blwyddyn, a ariennir i raddau helaeth drwy gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn enwedig y Grant Gwella Adeiladau Ysgol.

4.6.4 Daeth arolwg o bob eiddo ysgol yn 2000-01 i’r casgliad bod eisiau gwerth tua £10m o waith i ddod ag ysgolion i gyflwr rhesymol. Mae arolwg newydd yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Mae eisiau adnoddau sylweddol eraill i wella a darparu cyfleusterau newydd. Er bod yr Awdurdod wedi cyflawni cryn dipyn mewn darparu cyfleusterau newydd megis darparu ysgol newydd i Benweddig, gwaith helaeth yn Ysgol Uwchradd Aberaeron, estyniadau yn Ysgol y Dderi a Phenrhyn-coch ac ysgol newydd i Ysgol Gynradd Ffynnonbedr yn ogystal ag ysgol ardal arfaethedig, mae’n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cwrdd â’r her sydd wedi’i gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael pob ysgol yn addas at ei diben erbyn 2010 heb gryn fuddsoddiad.

4.6.5 Yn wir mae her wedi cael ei gosod i bob Awdurdod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi cynlluniau i leihau’n sylweddol leoedd heb eu llenwi, i fod â chynlluniau praff yn eu lle i Reoli Asedau ac i wneud cyfraniad sylweddol gan y Cyngor.
4.6.6 Mae cyfrifoldeb am adeiladau a safleoedd ysgolion wedi’i rannu rhwng yr AALl ac ysgolion ac mae arweiniad yn diffinio’n eglur pa feysydd cyfrifoldeb sy’n perthyn i bwy o ran elfennau o gyfalaf ac atgyweirio, cynnal a chadw. Caiff ysgolion wneud Cytundeb Lefel Gwasanaeth â’r Adran Briffyrdd, Eiddo a Gwaith er mwyn cael cyngor a chefnogaeth dechnegol.

4.6.7 Mae’r Awdurdod wedi darparu arweiniad i ysgolion ynghylch cyfrifoldebau pob parti o dan y ddeddfwriaeth anabledd.

***Cyflwr Adeiladau***

4.6.8 Ar hyn o bryd addysgir disgyblion cynradd Ceredigion mewn 72 o ysgolion gwahanol. Adeiladwyd 48 o’r ysgolion hyn (65%) cyn 1900. Mae llawer o’r adeiladau hyn wedi cael eu hadnewyddu ac mewn rhai achosion eu hestyn ac yn aml maent yn darparu amgylchedd dymunol ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae rhai eraill yn gyfyng a heb fod yn darparu cyfleusterau delfrydol ar gyfer cyflwyno addysg gyfoes. Yn aml mae’r cyfleusterau’n annigonol ar gyfer darparu addysg gorfforol, nid ydynt yn darparu digon o le ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar ac nid ydynt yn addas iawn at ddysgu gwyddoniaeth a thechnoleg yn effeithiol. Gallant

hefyd fod yn ddrud eu gwresogi a'u cynnal a heb gyfleusterau parcio digonol. Mae diogelwch yn mynd yn fater cynyddol bwysig. Mae 11 o ysgolion yn dal i fod â thoiledau tu allan.

4.6.9 Dros y chwarter canrif ddiwethaf dwy ysgol gynradd newydd yn unig sydd wedi cael eu hadeiladu o fewn y Sir ond mae 2 Ysgol Ardal ac ysgol gynradd i gymryd lle un o'r rhai presennol yn cael eu cynllunio.

4.6.10 Dros y 15 i 20 mlynedd ddiwethaf ni fu'n bosib buddsoddi i'r lefel angenrheidiol mewn atgyweirio adeiladau ac o ganlyniad mae cryn dipyn o waith wedi cronni. Mae gofynion mwyfwy ar adnoddau cyfalaf cyfyngedig yr Awdurdod, na allant ond ychwanegu at y gwaith sydd wedi cronni ar hyn o bryd.

4.6.11 Nododd yr Arolwg Cyflwr (Ebrill 2008) fod gwerth rhyw £7m o waith atgyweirio wedi cronni. Ceir crynodeb o gasgliadau'r arolwg isod.

| **YSGOLION fel ar 16eg o Fedi 2002** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DETR PPI 1A - % Arwynebedd Llawr Mewnol Crynswth yng Nghategorïau Cyflwr A - D** | | | | | | | | | |
| **Codau Cyflwr DfEE** | | | | | | | | | |
| **Da** - Yn perfformio fel y bwriedir ac yn gweithio'n effeithlon | | | | | | A | | | |
| **Boddhaol** - Yn perfformio fel y bwriedir ond angen atgyweiriadau bach | | | | | | B | | | |
| **Gwael** – Yn dangos diffygion sylweddol | | | | | | C | | | |
| **Wedi dod i ddiwedd ei oes** – Perygl difrifol | | | | | | D | | | |
| **Categori Eiddo** | **Cyfanswm Safleoedd** | **Categori A** | | **Categori B** | | **Categori C** | | **Categori D** | |
| | | **Cyfanswm Safleoedd** | **%** | **Cyfanswm Safleoedd** | **%** | **Cyfanswm Safleoedd** | **%** | **Cyfanswm Safleoedd** | **%** |
| **Ysgolion Cynradd** | 70 | 33 | **47.88** | 36 | **51.5** | 1 | **0.59** | 0 | **0** |
| **Ysgolion Uwchradd** | 6 | 1 | **25.55** | 5 | **74.4** | 0 | **0.00** | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | 76 | 34 | **35.73** | 41 | **63.9** | 1 | **0.27** | 0 | **0** |

| **DETR PPI 1B – Cynnal a Chadw wedi Cronni yn ôl Cost wedi'i Fynegi fel % yn Lefelau Blaenoriaeth 1-3** | |
|---|---|
| | |
| **Codau Blaenoriaeth DfEE** | |
| Gwaith brys i atal cau'r safle | Blaenoriaeth **1** |
| Angen gwaith hanfodol o fewn 2 flynedd | Blaenoriaeth **2** |
| Angen gwaith dymunol o fewn 3 - 5 mlynedd | Blaenoriaeth **3** |

| **Categori Eiddo** | **Cyfanswm Safleoedd** | **Cyfanswm Cynnal a Chadw wedi Cronni** | **Blaenoriaeth 1** | | **Blaenoriaeth 2** | | **Blaenoriaeth 3** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cyfanswm Cost** | **%** | **Cyfanswm Cost** | **%** | **Cyfanswm Cost** | **%** |
| **Ysgolion Cynradd** | 70 | £3,364,786 | £2,872 | **0.09** | £2,024,528 | **60.17** | £1,337,386 | **39.75** |
| **Ysgolion Uwchradd** | 6 | £3,536,749 | £0 | **0** | £1,932,884 | **54.65** | £1,603,865 | **45.35** |
| **Cyfanswm** | 76 | £6,901,535 | £2,872 | **0.04** | £3,967,412 | **57.34** | £2,941,251 | **42.62** |

4.6.12 Mae'r gwaith wrth gefn fel yr oedd wedi'i ddiffinio pryd hynny wedi cael ei leihau o dipyn i beth i ryw £7m, ond gall dirywiad naturiol mewn adeiladwaith olygu bod elfennau eraill yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Mae arolwg newydd yn cael ei wneud a ddylai hysbysu ysgolion a'r Awdurdod o'r angen. Anogir ysgolion i ddatblygu rhaglenni cynnal a chadw wedi'u cynllunio a all gael eu hintegreiddio yn rhaglenni

arfaethedig yr Awdurdod. Felly ceir ffordd o fynd ati ar y cyd i greu rhaglen atgyweirio, cynnal a chadw ar y cyd o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

4.6.13 Er gwaethaf dirprwyo adnoddau ychwanegol i Gyrff Llywodraethol i gwrdd â chyfrifoldebau am atgyweirio, cynnal a chadw, mae cryn bryder yn cael ei fynegi am lefel yr atebolrwydd a roddir i Gyrff Llywodraethol erbyn hyn o ganlyniad i ofynion statudol Ariannu Teg, o ystyried mor annigonol y gwelir y cyllid sydd ar gael. Fodd bynnag nid oes gan yr AALl yr hyblygrwydd a fu i ymgymryd â rhai elfennau o atgyweirio, cynnal a chadw adeiladau ysgol gan fod adnoddau wedi cael eu dirprwyo i gyd-fynd â'r meysydd atebolrwydd helaethach. At hynny, mynegir pryder gan swyddogion technegol fod Cyrff Llywodraethol Ysgolion yn ymgymryd â gwaith adferol neu estynedig ar adeiladau heb ymgynghori ac nad ydynt o bosib mewn rhai achosion yn cwrdd â gofynion rheoliadol.

***Adroddiadau ESTYN***

4.6.14 Er dechrau trefn arolygiadau rheolaidd Estyn mae pob ysgol yng Ngheredigion wedi cael ei harolygu 2 neu 3 gwaith er 1994. Cynigir sylwadau ar gyflwr adeiladau Ysgol o fewn yr adroddiad Gall hyn gefnogi datblygiad y Rhaglen Gyfalaf – er enghraifft, mewn dau achos ychwanegwyd estyniadau at ysgolion yr oedd eu hadeiladau yn nhyb yr Arolygwyr yn annigonol.

4.6.15 Mae dadansoddiad o Estyn yn dangos bod mwyafrif helaeth yr adeiladau at ei gilydd yn cael eu hystyried yn "dda" neu'n "foddhaol". Mae'r tabl isod yn gwneud hyn yn glir:

| Da iawn | Da | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|
| 4.5% | 47% | 44% | 4.5% |

5.6.16 At ei gilydd mae lefel uchel o sylwadau canmoliaethus a sylw arbennig yn cael ei roi i lendid a glanweithdra a'r systemau cynnal a chadw. Gwneir sylwadau ffafriol at ei gilydd am amgylcheddau ysgol ac addasrwydd tir o'u cwmpas.

Fodd bynnag mae'r diffygion pennaf yn cynnwys:

- y diffyg gofod ar gyfer agweddau ar y cwricwlwm [i ddisgyblion o dan 5 mlwydd oed, dim neuadd, addysg gorfforol dan do, dim llyfrgell, dim cae chwarae]
- diffyg darpariaeth o ran cyfleusterau megis toiledau tu mewn, ystafell staff, ystafell i'r prifathro, storio
- mae llawer o'r sylwadau'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch
- tynnir sylw at ddiffygion ystafelloedd dosbarth symudol sydd yn aml wedi'u lleoli yn bell o brif adeilad yr ysgol a'r toiledau

***Adeiladau Dros Dro***

4.6.17 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bryderus am nifer, safon a chyflwr yr adeiladau symudol sydd i'w cael mewn ysgolion. Y maent yn aml wedi cael eu gosod yn ymateb cyflym dros dro i broblemau gofod mewn ysgolion. Fodd bynnag fe fydd y math hŷn yn dirywio gan ofyn cynnal a chadw parhaol.

4.6.18 Yng Ngheredigion mae nifer fawr o adeiladau dros dro i'w cael, ac eisiau cynnal a chadw ac atgyweirio ar lawer ohonynt. Ar ben hynny gallai mynd â nhw i ffwrdd leihau nifer y lleoedd dros ben yn sylweddol pe tai'n ymarferol bosib. Eto os arhosant mewn ysgol maent yn darparu gofod ychwanegol y gellir ei ddefnyddio gyda dychymyg i gwrdd â gofynion y cwricwlwm.

4.6.19 Tanlinellodd Adroddiad yr Archwiliad Dosbarth y canlynol:

> *"… Mae gan yr Awdurdod niferoedd uchel o adeiladau dros dro yn y sectorau cynradd ac uwchradd ill dau. Gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn y mesuriadau capasiti gall hyn esgor ar broblemau yn y dyfodol gyda diffyg adeiladau digon da. Mae'r taliadau cyfalaf sy'n deillio o adeiladau dros dro yn dod i ryw £200,000. "*
>
> *O dan y Côd Ymarfer Cyfrifo newydd mae pob adeilad yn destun taliadau cyfalaf (dibrisiant a llog tybiannol). Mae hyn yn cynnwys adeiladau dros dro...*

*...Ar sail ffigyrau gwirioneddol mewn perthynas â nifer o ystafelloedd dosbarth yng Ngheredigion, y gost ar gyfartaledd i bob adeilad symudol yn 1996/97 oedd £3,600. Pan fo adeiladau symudol dros 10 mlwydd oed nid yw'r taliadau hyn yn berthnasol bellach. Ni allem felly gyfrifo cyfanswm cost ystafelloedd dosbarth dros dro.*

4.6.20 Mae adeiladau dros dro mewn ysgolion cynradd yn cyfrif am tua 1100 o leoedd mewn rhyw 38 o unedau. Mae hyn oddeutu 20% o'r capasiti disgyblion sydd ar gael. Ymddengys felly fod yr adeiladau dros dro yn cuddio prinder posib o ddarpariaeth ddigonol. Gellid mynd â rhai unedau o'r fath ymaith wrth ymgymryd â phrosiectau adeiladu arfaethedig.

4.6.21 Mae'r niferoedd cyfatebol mewn ysgolion Uwchradd yn debyg. O'r 32 uned eir â rhai ymaith wrth gyflawni prosiectau adeiladu arfaethedig.4.6.22 Rhaid cydnabod, fodd bynnag, er bod estyn ac adnewyddu Ysgol Gyfun Aberaeron ac Ysgol Gyfun Penweddig wedi mynd yn bell tuag at leihau adeiladau dros dro, fod niferoedd yn anodd eu rheoli yn enwedig pan fo angen lleol i ddarparu lle ar gyfer mwy o ddisgyblion.

4.6.23 Mae angen dadansoddi'n fanwl leoliad a phriodolrwydd pob adeilad dros dro er mwyn:

- sicrhau nad yw adeiladau dros dro yn cuddio problemau posib yn y dyfodol gyda gorniferoedd
- sicrhau bod nifer y lleoedd heb eu llenwi yn cael ei chadw mor isel ag sy'n bosib
- sicrhau nad yw taliadau cyfalaf yn cael eu hatynnu'n ddianghenraid.

***Ysgolion: Gwybodaeth Ystadegol Gyffredinol 2007/08 [data Ionawr 2008]***

| | *Cynradd* | *Uwchradd* | *Cyafanswm* |
|---|---|---|---|
| Nifer Ysgolion | 70 | 7 | 77 |
| Nifer disgyblion Ionawr 08 | 4871 | 5004 | 9875 |
| Cyfanswm capasiti | 6699 | 6484 | 13183 |
| Nifer Lleoedd Dros Ben | 1,878 | 1480 | 3358 |
| Nifer Ysgolion â Lleoedd Dros Ben | 61 | 7 | 68 |
| % Lleoedd Dros Ben | 28.03% | 22.83% | 25.47% |
| Nifer Lleoedd Gor-gapasiti | 50 | 0 | 50 |
| Nifer Ysgolion â gor-gapasiti | 9 | 0 | 9 |
| % Gor-gapasiti | 0.74% | 0 | 0.3.8% |

***Addasrwydd a Digonolrwydd***

4.6.24 Mae angen yn gynyddol gloriannu addasrwydd ysgolion o ran cyfleusterau a gallu cwrdd â'r gofynion a wneir a'r safonau a fynnir gan fentrau cwricwlaidd [*e.e.* Cyfnod Sylfaen] a Hygyrchedd yn enwedig i bobl anabl. Cwblhaodd yr Awdurdod Arolwg o gyflwr adeiladau ysgol ac y mae wedi bwrw ati gydag arolwg o addasrwydd a digonolrwydd adeiladau at ddiben addysg. Ceir isod ymdrech i gloriannu a graddio addasrwydd adeiladau cynradd o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar a mynediad pobl anabl ac i gyfrif adeiladau symudol.

**DADANSODDIAD O YSGOLION CYNRADD 2005**

**Addasrwydd** ~ 1: Da; 2: Digonol; 3: Annigonol; 4: Anaddas

**Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar** ~ 1: Da; 2: Digonol; 3: Annigonol; 4: Anaddas

**Mynediad i bobl anabl** ~ Oes; Nac oes | **Darpariaeth i bobl anabl yn fewnol**: Anawsterau; Dim Anawsterau

| ***Ardal*** | ***Mynediad i Bobl Anabl: Oes*** | | | | | | | | | ***Mynediad i Bobl Anabl: Nac oes*** | | | | | | | | | | ***Adeiladau Symudol*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gradd*** | 1 | 1 ~ 2 | 1 ~ 3 | 2 | 2 ~ 3 | 3 | 3 ~ 4 | 4 | Is-gyfan swm | 1 | 1 ~ 2 | 1 ~ 3 | 2 | 2 ~ 3 | 3 | 3 ~ 4 | 4 | Is-gyfa nswm | Cyfan swm | Dim Ysgolion | Dim Adeiladau Symudol |
| ***ABERAERON*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | 1 | ~ | ~ | 1 | ~ | 1 | ~ | ~ | 3 | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | 1 | ~ | ~ | 2 | 5 | 5 | 7 |
| Anawsterau | ~ | 1 | ~ | 1 | ~ | 2 | ~ | ~ | 4 | ~ | 1 | ~ | ~ | 1 | 3 | ~ | 3 | 8 | 12 | | |
| ***ABERYSTWYTH*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | 6 | ~ | 2 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 8 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 0 | 8 | 10 | 19 |
| Anawsterau | 3 | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | ~ | ~ | 10 | ~ | 1 | ~ | 2 | ~ | 2 | ~ | ~ | 5 | 15 | | |
| ***ABERTEIFI*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | 3 | ~ | ~ | 2 | ~ | 1 | ~ | ~ | 6 | 1 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | 7 | 5 | 6 |
| Anawsterau | 2 | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 3 | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | 4 | | |
| ***LLAMBED*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | ~ | ~ | ~ | 3 | ~ | 1 | ~ | ~ | 4 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 0 | 4 | 2 | 5 |
| Anawsterau | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 1 | 2 | | |
| ***LLANDYSUL*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim anawsterau | 2 | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | ~ | ~ | 3 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 0 | 3 | 1 | 1 |
| Anawsterau | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 1 | ~ | 5 | ~ | ~ | 7 | 7 | | |
| ***TREGARON*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | 1 | ~ | ~ | ~ | 2 | ~ | ~ | ~ | 3 | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | ~ | ~ | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Anawsterau | ~ | ~ | ~ | 1 | 1 | 1 | ~ | ~ | 3 | ~ | ~ | ~ | ~ | 1 | 1 | ~ | ~ | 2 | 5 | | |
| ***IS-GYFANSWM*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dim anawsterau | 13 | ~ | ~ | 9 | 2 | 3 | ~ | ~ | 27 | 1 | ~ | ~ | ~ | 1 | 2 | ~ | ~ | 4 | 31 | | |
| Anawsterau | 5 | 2 | 1 | 3 | 4 | 5 | ~ | ~ | 20 | 1 | 2 | ~ | 4 | 2 | 12 | ~ | 3 | 24 | 44 | | |
| ***CYFANSWM*** | | | | | | | | | 47 | | | | | | | | | 28 | 75 | 25 | 40 |

Mae nifer yr ysgolion a ystyrir yn llai na digonol [gradd 3 neu 4] ar y ddau faen prawf oddeutu 25 [30%]. Mae cyfran sylweddol o'r rhain yn dangos anawsterau o ran darpariaeth fewnol ar gyfer pobl anabl.

## 4.7 Cyllid/Ariannu

4.7.0 Mae gofyn i'r Awdurdod ariannu ysgolion yn ôl fformiwlâu sydd wedi'u cytuno a'u chyhoeddi ac yn cydymffurfio â rheoliadau ariannu ysgolion. Wrth wneud hynny mae'r Awdurdod yn gosod rhai paramedrau yn y cyfnod cynradd megis, er enghraifft, sicrhau bod ysgolion â thua 40 o ddisgyblion yn derbyn darpariaeth adnoddau ar lefel sy'n caniatáu i'r ysgolion gael eu staffio gan brifathro ac athro cynorthwyol. Ar hyn o bryd, mae pob ysgol gyfansoddiadol yn derbyn cyllideb ar sail fformiwla ariannu'r Awdurdod. Pan sefydlir ffederasiwn anffurfiol, bydd yn cynnwys mwy nag un ysgol gyfansoddiadol, felly, bydd gan bob un ysgol ei chyllideb ei hun. Mewn ffederasiwn ffurfiol, un ysgol gyfansoddiadol sydd - hyd yn oed os yw'n bodoli ar fwy nag un safle. Bydd yr ysgol unigol yn derbyn un gyllideb ddirprwyedig er y gallai'r fformiwla adlewyrchu natur aml-safle'r ysgol.

Gellir ystyried y rhain, ynghyd ag elfennau sy'n ymwneud ag adeiladau yn gostau sefydlog sydd yn rhwym o fod yn gyfrannol fwy mewn ysgolion llai. Mae Ceredigion ar hyn o bryd yn dosrannu'r cyllid uchaf fesul disgybl yng Nghymru, yn y sectorau cynradd ac uwchradd ill dau. Fodd bynnag, mae LlCC ac Estyn ill dwy wedi codi'r cwestiwn o gynaliadwyedd ysgolion bach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ac o ran ymarferoldeb addysgol.

### *Ariannu cyfalaf ac ariannu arall*

4.7.1 Mae digonolrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol a'r cyfleusterau sydd ynghlwm ag ef – megis caeau chwaraeon; cyflenwad dŵr mewn ystafelloedd dosbarth – o bwys wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Mae costau cynnal yr asedau presennol yn uchel, ac mae cyfrifoldeb mwy am y rhain yn gorwedd gyda Chyrff Llywodraethol er 1 o Ebrill 2000 yn unol â gofynion Ariannu Teg. Gall Cyrff Llywodraethol, drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth, gael gwasanaethau'r Cyngor Sir i gynghori, cynllunio ac ymgymryd â gwaith atgyweirio, cynnal a chadw os dymunant felly. Yr AALl sy'n cadw'r cyfrifoldeb am y Rhaglen Gyfalaf. Ar gyfer 2005-06 mae ~ £218k wedi cael eu dirprwyo i ysgolion uwchradd [*cmh £245k yn 2004/05*] a £172k [*£ 236k yn 2004-05].*

4.7.2 Bydd angen ystyried o ddifrif fater addasrwydd a digonolrwydd adeiladau ysgol yng nghyd-destun gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a mentrau newydd, megis darparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a TGC, wrth bennu'r strategaeth ar gyfer darparu addysg yn y Sir.

4.7.3 Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli Rhaglen Gyfalaf effeithiol wedi'i chynyddu drwy fentrau gan y Cynulliad Cenedlaethol megis Cyllid Cyfalaf Ychwanegol i Ysgolion; Grantiau i Leihau Maint Dosbarthiadau, Cyllid Bargen Newydd a Grant Gwella Adeiladau Ysgol. Pwysleisiwyd uwchraddio cyfleusterau megis labordai ac ystafelloedd gwaith technoleg yn y cyfnod uwchradd – ac enghraifft o hynny i'w gweld yn yr adnoddau trwy'r Fentr Cyllid Cyfalaf Ychwanegol sy'n cael eu cyfeirio at ddarparu cyfleusterau Dylunio a Thechnoleg newydd yn Ysgol Gyfun Tregaron ac Uned wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion Addysg Arbennig yn Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Materion sy'n peri pryder parhaol yw darparu toiledau tu mewn ym mhob ysgol; safon ceginau a ffreuturiau ysgol ac adnewyddu systemau gwresogi a thoeau. Yn ogystal prosiect £5m+ yn Ysgol Gyfun Aberaeron sy'n anelu at ddiddymu adeiladau dros dro ac a ddenodd adnoddau o Gronfeydd Her Cymru a Sportslot. Sicrhaodd cyllid cychwynnol ar gyfer Menter Cyllid Preifat i ysgol newydd gael ei darparu i Ysgol Gyfun Penweddig erbyn Rhagfyr 2000.

4.7.4 Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn ymwybodol o'r tanfuddsoddiad yn adeiledd adeiladau ysgol ac er ei sefydlu ym 1996 buddsoddodd yr Awdurdod gyfalaf fel a ganlyn mewn ysgolion a chyfleusterau addysgol.ers 2002.

**GWARIANT CYFALAF 2002-08**

| CATEGORI | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007/08 | Cyllid 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Hanfodol | £470k | £470k | £349k | £303k | £305k | £403k | £310k |
| Cynlluniau ysgolion | £163k | £192k | £394k | £43k | £37k | £69k | £100k |
| Bargen newydd | £ 64k | £ 18k | - | - | - | - | - |
| GGAY – Ffformiwla | £1,141k | £1,996k | £1,168k | £924k | £493k | £900k | £1,116k |
| GGAY – £9m | - | - | | £1,087k | £2.900k | £1,661k | £2,460k |
| Cyfnod Sylfaen | - | - | - | - | - | £175k | £86k |

****GGAY = Grant Gwella Adeiladau Ysgol***
Mae'r hyblygrwydd mwy sydd wedi cael ei gynnig gan Grant Gwella Adeiladau Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi galluogi'r estyniad i Ysgol y Dderi a chynllunio darparu uned AAA newydd yn Ysgol Gynradd Aberporth.

4.7.5 Mae LlCC yn darparu tua £1m y flwyddyn i ymgymryd â phrosiectau sy'n gorfod costio dros £100k. At hynny mae LlCC wedi neilltuo £9m i bob AALl i hyrwyddo prosiectau mawr. Mae Ceredigion eisoes wedi enwi'r prosiectau canlynol fel y rhai sydd i'w hyrwyddo:-

- Ysgol Ffynnonbedr: ysgol newydd
- Ysgol ardal Bro Sion Cwilt
- Ysgol Gyfun Llambed: ailfodelu ac adnewyddu

4.7.6 Defnyddir y Rhaglen Gyfalaf i gefnogi newidiadau y mae'r canlynol ymhlyg ynddynt:-

(i) rhychwant o ffyrdd o fynd at bethau wedi'u mabwysiadu i ateb angen lleol;
(ii) y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gryfhau darpariaeth gwricwlaidd, gan sicrhau dilyniant a chynnydd.

4.7.7 Yr her o hyd yw cynllunio'n effeithiol ar gyfer 2010 ac ystyried strategaethau i ddarparu cyfleusterau'n effeithiol yng nghyd-destun y cysyniad o ganolfannau dysgu cymunedol.

**Y Cyllid sydd ei Angen**

4.7.8 Gellid amcangyfrif yn geidwadol y costiai rhaglen i ddarparu cyfleusterau priodol a digonol oddeutu £11m ar gyfer atgyweirio, cynnal a chadw a £30m ar ben hynny ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr.

4.7.9 Yn ogystal, caiff unrhyw ailstrwythuro ar drefniadaeth darparu gwasanaethau effaith ar fodelu'r gweithlu, elfen sy'n anodd ei meintioli hyd nes y bydd strategaethau a chynigion wedi'u cynllunio a'u costio.

**Adnoddau Posib**

4.7.10 Yn ystod cyfnod Cynllun Addysg Sengl 2006-08 rhagwelir ar gyfer yr elfennau cyfalaf yn unig y gallai'r Cyngor Sir drwy ei Raglen Gyfalaf ddarparu rhyw £0.7m. Bydd dwy ffynhonnell o'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Grant Gwella Adeiladau Ysgol yn darparu rhyw £2-3m ar gyfer prosiectau mawrion a £0.9m ar gyfer prosiectau llai. Rhwng 2008 – 2009, caiff £3miliwn ychwanegol ei wario o'r ddwy ffynhonnell ariannu.

4.7.11 Fel y eglurir isod, os ydyw i gynllunio'n effeithiol, mae'n rhaid i'r Awdurdod archwilio dulliau a ffynonellau ariannu eraill megis

- dosraniadau fformiwläig yr awdurdod a'r ysgol
- Cronfa Cydgyfeiriant
- cyfalaf i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

- <u>derbyniadau cyfalaf</u>
- <u>benthyca darbodus.</u>

4.7.12 Wrth lunio cynllun aildrefnu dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- Cloriannu buddion adeiladau ysgol newydd yn erbyn y dewis llawer rhatach o ddefnyddio adeiladau sydd eisoes i'w cael.
- Dod â chyfalaf ynghyd o rychwant eang o ffynonellau.
- Trafod â LlCC ddewisiadau ar gyfer ariannu cynlluniau unigol ac unrhyw gysylltiadau â'r agenda adfywio trefol.
- Ystyried y goblygiadau o ran cyllid gan gynnwys yr hyn a all ddod o gyllidebau ysgolion yn y dyfodol

**Dadansoddiad o gyllid cyfalaf dichonadwy**

4.7.13 Rhoddwyd ystyriaeth i gyllid cyfalaf dichonadwy'r dyfodol gan nodi opsiynau posibl y tymor canol.

**Crynodeb ariannol**

4.7.14 Yr wybodaeth ariannol sydd wedi'i pharatoi yw'r amcangyfrifon dangosol gorau a bydd angen eu manwl gyweirio yn y dyfodol pan fydd manylion pellach yn hysbys. Hefyd, caiff graddfa chwyddiant yn y dyfodol effaith ar y cynigion gan eu bod yn debygol o ddigwydd dros y tymor hir.

4.7.15 Mae cynilion wedi cael eu hamcangyfrif ar lefel geidwadol ac efallai y newidiant ar sail gwybodaeth newydd a ddaw i law am union fanylion y cynnig a gaiff ei gyflwyno.

4.7.16 Golygai ei bod yn rhaid i'r gweddill gael ei ariannu drwy unrhyw gyfuniad o'r canlynol yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet ac ati:

- Cyllid grant
- Dosraniad cyfalaf o Raglen Gyfalaf y Cyngor
- Benthyca darbodus ychwanegol
- Derbyniadau o waredu safleoedd diangen.

4.7.17 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn rhoi cyllid grant i wella ysgolion drwy'r Grant Gwella Adeiladau Ysgol (GGAY) ac mae hwn yn swm sylweddol bob blwyddyn tuag at gyrraedd targedau o ran bod yn addas at ddiben. Fodd bynnag cafwyd ar ddeall y bydd trefniadau targedu'n berthnasol ar gyfer dosrannu cyllid GGAY o 2009-10 ymlaen, a'r hyn a ddisgwylir gan LlCC yw y bydd eisiau i Gynghorau fuddsoddi mewn adeiladau ysgol eu hunain yn unol ag adnoddau cyfalaf a ddosrennir drwy'r Fformiwla Cyllid Cyfalaf Gyffredinol bob blwyddyn.

**Materion Penodol i Ystadau**

4.7.18 Mae prisiannau marchnad o ysgolion cynradd wedi cael eu paratoi am y tro heb archwilio'r gweithredoedd eiddo'n fanwl gan y gellir gwneud hyn yn nes ymlaen pan fydd cynigion mwy cadarn yn eu lle. Gall fod cyfamodau sy'n gofyn bod tir yn cael ei ad-drosglwyddo i'r rhoddwr (neu etifeddion ei deitl) neu gyfyngiadau ar ddefnyddiau eraill. Felly mae gwerthoedd gwerthiant wedi cael eu hymgorffori i gostiadau ar lefel geidwadol, nad yw ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw gynnydd a allai fod yn y gwerth yn deillio o ddefnydd gwahanol gan ddibynnu ar gynllunio. Bydd yn rhaid wrth drafodaethau gyda'r Adran Gynllunio ynglŷn â defnydd gwahanol wrth fanwl gyweirio'r model ariannol.

4.7. 19 Pan brydlesir asedau i'r gymuned dylent fod ar brydlesi atgyweirio llawn, hynny yw, i gynnwys yr holl gostau rhedeg gan gynnwys cynnal a chadw ac yswiriant fel y bydd cynilion yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn ystyried mai les o bum mlynedd yw'r cyfnod hwyaf sydd ar gael cyn y gellir gwerthu'r eiddo i'r lesdalwyr presennol.

Pan fo ysgol yn cau ac yn eiddo i'r Awdurdod, mabwysiedir y gweithdrefnau canlynol ar gyfer defnyddio'r adeilad i'r dyfodol

1. rhoir ystyriaeth gan yr Adran Addysg i ddefnydd posibl gan yr Adran, neu adrannau eraill o fewn yr Awdurdod
2. lle nad oes angen yr adeilad gan adrannau o fewn yr Awdurdod, rhoir ystyriaeth i geisiadau oddi wrth grwpiau cymunedol. Os trefnir lesau neu drwyddedau byrdymor gyda'r grwpiau cymunedol, byddant am gyfnod prawf o 1-3 blynedd heb unrhyw gost i'r Awdurdod. Bydd y deiliaid yn gyfrifol am yr holl gynnal a chadw, atgyweirio a threuliau. Caiff y ddaliadaeth ei hadolygu bob chwe mis ac os bydd angen, ei therfynu. Yn dilyn unrhyw gyfnod prawf, gosodir y ddaliadaeth ar rent economaidd yn unol â pholisïau'r Awdurdod.

lle nad yw 1 a 2 yn gymwys, caiff yr eiddo ei werthu ar y farchnad agored.

**Materion Economaidd a Phenodol i'r Grant**

4.7.20 Y mae wedi cael ei hawgrymu y gall fod modd, mewn perthynas ag unrhyw ysgolion sydd i'w cadw at ddefnydd cymunedol, i'r gymuned godi arian drwy raglenni Cydgyfeiriant neu Gynllun Datblygiad Gwledig yr UE er mwyn meddu ar yr adeilad a'i adnewyddu lle bo angen. Yn ddamcaniaethol ni ddylai hyn esgor ar chwyddo'r gwerth marchnad a thrwy hynny enillion i'r Cyngor, ond gallai helpu i gadw'r safle mewn defnydd cymunedol. Pwysig yw nodi bod asesu prosiectau Cydgyfeiriant yn debygol o fod yn weddol gystadleuol ac y byddir am weld canlyniadau sylweddol o ran creu swyddi incwm uwch a chynaliadwyedd er mwyn cwrdd â'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu gan y Comisiwn.

4.7.21 Bydd egwyddor ychwaneged mewn prosiectau (Cyfalaf) ERDF yn rhwystro i'r defnydd o arian Cydgyfeiriant yr UE gyfrannu at unrhyw brosiect adeiladu cyfalaf a ddylai gael ei wneud gan Lywodraeth Leol neu Genedlaethol yn rhan o'i dyletswyddau statudol arferol. Ymddengys felly mai annhebyg yw cyfraniadau cyllid gan yr UE i raglenni adeiladu cyfalaf ysgolion.

4.7.22 Eto bu meini prawf cymhwysedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o ran ychwaneged gweithgaredd ychydig yn wahanol yn y gorffennol a'r disgwyl yw mai felly y parhânt o dan Gydgyfeiriant, er, unwaith eto, nad yw hyn wedi'i gyhoeddi na'i gytuno gan y Cynulliad hyd yma. O dan ESF fe gaiff rhywun yn ddamcaniaethol gymryd gweithgaredd sydd eisoes i'w gael a chynyddu'r ddarpariaeth ohono lle gellir dangos bod angen, gan ddefnyddio cyllid y ddarpariaeth sydd ohoni yn ariannu cyfatebol i gyfraniad gan ESF sy'n ariannu'r gweithgaredd ychwanegol. O dan y Rhaglen Gydgyfeiriant gall hyn fod yn arbennig o berthnasol yn y grŵp Llwybrau Dysgu 14-19, sy'n faes buddsoddiad a ffefrir, ymddengys. Eto, er y gallai hyn ddarparu mecanwaith cyllid i'r AALl wneud mwy, ni ddylai fod yn fecanwaith i wneud cynilion costau refeniw.

**<u>Egwyddorion ar gyfer ariannu'r prosiect</u>**

4.7.23 Dylai'r holl dderbynebau cyfalaf a geir o werthu asedau Addysg gael ei hailfuddsoddi yn y rhaglen ail-fodelu. Pan gaiff asedau eu prydlesu i'r gymuned, dylid defnyddio'r incwm i gefnogi benthyciadau darbodus ar gyfer Datblygu Addysg.

**<u>Benthyca Darbodus</u>**

Benthyca darbodus yw gallu'r Cyngor i ariannu gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Mae hyn yn golygu bod angen talu'r costau llog a'r swm cyfalaf a fenthycwyd yn flynyddol ac felly rhaid cyllidebu ar gyfer hyn yng nghyllideb refeniw y Cyngor. Yn sgil hyn, rhaid i unrhyw fenthyca darbodus gan y Cyngor gael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn ddarbodus ac yn fforddiadwy. Gallai fod yn bosib gwneud arbedion o'r gyllideb refeniw drwy ailfodelu ysgolion, ac felly gallai fod yn bosibl defnyddio'r arbedion hyn i ariannu benthyca darbodus sy'n berthnasol i ysgolion newydd yn ogystal â helpu i ddarparu gwasanaethau addysg.

Gellir ariannu'r cynigion drwy:

- defnyddio benthyca darbodus y gellir ei ariannu naill ai drwy ailfuddsoddi cynilion refeniw a wneir drwy ad-drefnu ysgolion a/neu ei ariannu drwy gyllideb refeniw'r Cyngor (yn amodol ar ystyriaeth gan y Gweithgor Cyllideb a chymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor)
- Bydd eisiau cyllid i ariannu costau ymlaen llaw e.e. prynu tir, estyniadau a gellid gwneud hyn yn bosib drwy neilltuo rhai cynilion cynnar a derbyniadau cyfalaf a fyddai wedi'u clustnodi.
- Gall fod angen cymryd benthyca darbodus dros dro i ystyriaeth wrth gyllido costau ymlaen llaw, e.e. prynu tir, costau adeiladu ac wrth werthu yn nes ymlaen.

**<u>Llunio Strategaeth</u>**

4.7.24 Bydd angen ystyried materion amseru'n ofalus a dylid cymryd dull rheoli prosiect gyda phob opsiwn sydd i'w gyflawni. Lle bo eisiau dod o hyd i'r tir angenrheidiol a'i gyllido ac adeiladu a chyllido'r ysgol ardal

cyn i werthiannau ddigwydd, mae'n rhaid ystyried trefn rhai o'r opsiynau'n ofalus gan y gallai'r amseru ei hun fod yn hanfodol o ran dichonadwyedd cyllido'r strategaeth. Mae angen buddsoddi mwy o'r rhaglen gyfalaf mewn adeiladau ysgol er mwyn denu dosraniadau grant yn y dyfodol gan LICC.

4.7.25 At ei gilydd, gellir cyflawni llawer yn ystod y tymor canolig os gwneir penderfyniadau'n gynnar ac os deuir o hyd i dir, er enghraifft, yn gynnar er mwyn i gynllunio pellach fynd yn ei flaen. Mae'n ddichonadwy i bedair ysgol ardal, un ysgol newydd a dau estyniad/ailstrwythuriad ddigwydd dros gyfnod o bum mlynedd ond nid os gohirir penderfyniadau, neu oni chaiff tir ei glustnodi, ei gyllido a'i brynu yn ddigon cynnar, felly amserlen fwy tebygol fyddai cyfnod o chwech hyd at wyth mlynedd.

4.7.26 O ran modelau ffederal, ar hyn o bryd amcangyfrifir bod yr un sydd wedi'i gyflwyno'n costio mwy na'r trefniadau presennol. Ni fydd ffederaleiddio felly yn cyfrannu at y cynilion refeniw sydd eu hangen i ariannu benthyca darbodus i adeiladu ysgolion newydd neu i estyn / wella rhai sydd eisoes i'w cael, a bydd eisiau cyllido unrhyw gostau ychwanegol o gynilion neu ffynonellau eraill.

**Goblygiadau Cost Refeniw Datblygu Addysg yng Ngheredigion**

4.7.27 At bwrpas egluro'r arbedion refeniw posib, (Atodiad C…..Tabl iv…Tud.72) dewiswyd pump o'r opsiynau sy'n debygol o ddigwydd yn gynharach o fewn y ffrâm amser i greu modelau mwy manwl. Mae'r opsiynau'n canolbwyntio ar ysgolion newydd neu ymestyn ysgolion yn Sarnau, Cwrtnewydd, Llanon, Llanarth a Synod Inn.

4.7.28 Mae'r model yn darogan arbedion o bron £0.75M y flwyddyn os caiff ei weithredu nawr, gan godi i dros £0.8M y flwyddyn os caiff ei weithredu yn 2012. Fe fydd yna gostau cludiant ychwanegol i'w gosod yn erbyn y rhain, ond mae ffigyrau'r arbedion net dros £0.5M nawr a thros £0.6M mewn pum mlynedd.

4.7.29 Fe fydd yna gostau eraill, e.e. diswyddo, costau adeiladau, ond daw'r rhan fwyaf o'r rhain yn y misoedd yn union ar ôl cau'r ysgolion. Byddai'r ysgolion yn cau fel arfer ar ddiwedd tymor yr haf, ac felly byddai'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn dod yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gyda'r arbedion net yn digwydd y mis Ebrill canlynol. Gallai cyfran fach o'r costau hyn ddigwydd y tu allan i'r ffrâm amser hwnnw, ond ni fyddent yn ddigon i newid y darlun cyffredinol.

4.7.30 Mae'r model hwn yn tybio y bydd pob disgybl yn trosglwyddo i'r ysgol sydd agosaf at ei gartref. Mae'r costau cludiant wedi'u hasesu ar sail oedran pob disgybl a'r pellter rhwng cartref y disgybl a'r ysgol agosaf.

4.7.31 Bydd rhai disgyblion yn cael eu bwydo mewn i ysgolion bach eraill, gan ostwng y taliad ysgolion bach sydd ei angen ar yr ysgolion hynny. Wrth gwrs, ar ryw bwynt, mae'n bosib y bydd yr ysgolion hynny eu hunain yn ganolbwynt datblygu addysg yng Ngheredigion. Mae hynny'n pwysleisio'r ffaith na ellir edrych ar opsiynau unigol ar wahân, ond rhaid eu gweld fel rhan o'r darlun ehangach.

4.7.32 Y rheswm dros gael mwy o arbedion nawr nag yn 2012 yw y byddai gostyngiad yn nifer y disgyblion yn arwain at dalu symiau uwch o daliadau ysgolion bach.

4.7.33 Bydd costau cludiant yn amsugno cyfran llai o'r arbedion refeniw gros (tua 25%), a byddent felly yn sylweddol. Dylid cofio mai amcangyfrif yn unig yw'r costiadau hyn a byddant yn amodol ar bolisi'r AALl ar gludo disgyblion o ysgolion sy'n cau. Mae'r ffigyrau yn y model yn seiliedig ar ofynion statudol sylfaenol yn unig.

## 4.8 Strategaeth Iaith

4. 8.1 Bydd ysgolion sydd yn ffederaleiddio neu'n cyfuno, ynghyd ag unrhyw ysgolion cynradd newydd a agorir yn cael eu diffinio, yn unol â diffiniad dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007, fel ysgolion 'Cyfrwng Cymraeg'. Bydd yr ysgolion hyn yn darparu 100% o brofiadau addysg y Cyfnod Sylfaen ac o leiaf 70% o addysg Cyfnod Allweddol 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y broses o ffurfio ffederasiynau ffurfiol neu anffurfiol, rhoir ystyriaeth i natur ieithyddol yr ysgolion unigol a'u cymunedau. Byddir yn datblygu sgiliau iaith y disgyblion a'r ethos Cymreig o fewn y ffederasiwn yn unol â'r ddogfen 'Strategaeth Iaith Ceredigion'.

4.8.2 Am fanylion pellach gweler y ddogfen 'Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion'. (Rhagfyr 2007)

.

**4.8 Y Cyfnod Sylfaen**

4.9.1 Bydd y pwyslais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar chwyldroi'r ddarpariaeth addysg a gofal i blant hyd at 7 oed yn un gwbl sylfaenol i ddysg a datblygiad plant, yn ogystal ag i'r modd y darperir ac y trefnir dysgu mewn ysgolion ac amryw o sefydliadau eraill. Bydd yn galw am berthynas agos rhwng amryw o asiantaethau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a masnachol a bydd ganddo ddylanwad dwfn ar y gwaith o gynllunio ar gyfer datblygu addysg yng Ngheredigion.

4.9.2 Mae profiadau cynnar yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygiad addysgol a chymdeithasol i'r dyfodol. Cyflwynir ymagweddau newydd at addysg plant ifainc iawn yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed. Yn y cyfnod hwn, mae'r pwyslais ar ddysgu trwy brofi gweithgareddau strwythuredig a fydd yn canolbwyntio ar y disgybl unigol a'i gam datblygiadol. Awgryma Estyn bod

> *"..Y math hwn o ymagwedd yn cynnig llawer o fanteision ond mae hefyd yn cynnig heriau sylweddol o ran caffael yr adeiladau priodol, cynllunio cwricwlwm newydd a hyfforddi staff priodol i weithredu'r rhaglen…".*

4.9.3 Yn ogystal â hyn mae angen am gwricwlwm i blant 7-14 mlwydd oed a fydd yn datblygu'n llwyddiannus ar sail eu dysgu yn ystod eu Cyfnod Sylfaen. O 7 oed ymlaen, mae'r cwricwlwm cynradd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau disgyblion trwy'r pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar yr un pryd, yn aml, dysgir amryw o bynciau eraill mewn modd integredig. Mae'r ymagwedd hon yn canolbwyntio'n benodol ar barhad a datblygiad ym meysydd meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddysgwyr ac yn cynnwys astudio'r cynnwys a nodir yng ngorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol.

4.9.4 Mae'r mentrau deddfwriaethol i ddarparu gofal yn cynnig cyfleoedd i ymestyn y defnydd ar gyfleusterau ysgolion cyn a thu hwnt i'r diwrnod ysgol ar y cyd ag asiantaethau eraill ac er budd teuluoedd a chymunedau.

**Addysg i Blant 3 – 7 mlwydd oed yng Ngheredigion**

***Y cefndir***

4.9.5 Darperir addysg i blant 3 - 7 oed yng Ngheredigion mewn amryw o sefydliadau a gan amrywiaeth o ddarparwyr fel a ganlyn:

a. <u>Ysgolion sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran gyfan rhwng 3 a 7</u>

Sefydlwyd 8 Uned Feithrin ar draws Ceredigion yn ystod 70au'r ganrif ddiwethaf. Mae rhan fwyaf yr ysgolion hyn yn ysgolion sylweddol eu maint sydd yn ardaloedd poblog y Sir. Eithriad i hyn yw Ysgol y Dderi a sefydlwyd fel Ysgol ardal i wasanaethu nifer o ardaloedd gwledig pan gaewyd eu hysgolion ac Ysgol Cenarth a gafodd ddarpariaeth feithrin pan godwyd Ysgol newydd yn 70au'r ganrif ddiwethaf.

b. <u>Darpariaeth Addysgol i blant 4 i 7 mlwydd oed.</u>

Mae pob Ysgol Gynradd (ar wahân i Ysgol Iau Aberteifi) yn darparu addysg amser llawn i blant o'r tymor wedi eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae'r dosbarthiadau hyn yn amrywio yn ôl nifer y disgyblion:

- Dosbarth Derbyn – plant 4 – 5 mlwydd oed; Dosbarth Blwyddyn 1; Dosbarth Blwyddyn 2 – pob dosbarth yn cael ei arwain gan wahanol athro.
- Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 (plant 4 - 6 mlwydd oed) - un athro.
- Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (plant 4 – 7 mlwydd oed) – un athro.

c. <u>Darpariaeth addysgol i blant 3 – 4 mlwydd oed ac eithrio honno a nodwyd yn (a) uchod.</u>

Mae'n ofynnol i bob AALl ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar i blant 4-5 a 3-4 oed.

Yn sgil cyflwyno'r ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu' anogwyd pob Awdurdod Lleol i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau a oedd yn darparu gofal plant/addysg gynnar cyn-ysgol i ddarparu addysg ran-amser yn rhad ac am ddim i blant wedi eu pen-blwydd yn 3 oed.

Bellach mae 35 sefydliad a gyllidir gan yr Awdurdod Addysg yn darparu'r gwasanaeth hwn. Gwneir y ddarpariaeth gan y Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, a meithrinfeydd dyddiol preifat.

Cartrefir y sefydliadau hyn mewn amryw o adeiladau fel y nodir yn y tabl, gan amrywio o adeiladau a ddefnyddir yn unswydd at y diben hwnnw, unedau symudol ar libart Ysgol, neuaddau pentref neu neuaddau eglwysi ac ystafelloedd mewn ysgolion.

**Y Wlad sy'n Dysgu – Cyfnod Sylfaen 3 – 7 mlwydd oed**

***Adeiladau, ystafelloedd ac adnoddau***

4.9.6 *Yng Nghymru mae adeiladau sâl a diffyg adnoddau yn nodwedd mewn sawl lleoliad ar gyfer y blynyddoedd cynnar (3 i 7 mlwydd oed). Lle gwelir hyn bydd y diffygion yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad corfforol a meddyliol y plant a'r safonau y byddant yn eu cyrraedd. Byddant yn cyfyngu ar y profiadau sy'n agored i'r plant ac felly yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad dyfalbarhad a pharodrwydd y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy heriol. Bydd y diffygion hyn hefyd yn cyfyngu ar chwarae hunan-gyfeiriedig a thrafodaethau gyda chyfoedion ac oedolion ac yn arwain at ostwng safonau cyrhaeddiad y plant.*

Mae yna angen am -

- amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored sydd yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel ac sy'n hyrwyddo datblygiad plant a'u cywreinrwydd naturiol i archwilio ac i ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol;
- amgylchedd sy'n hyrwyddo darganfod ac annibyniaeth ac sy'n gosod mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu plant
- sefydlu mannau golau i gynnal gweithgareddau a chwarae ysgogol e.e. .
    - chwarae rhan
    - chwarae byd bach
    - gofod creadigol/celfyddydol
    - gofod sain a cherdd
    - man chwarae corfforol bach a mawr (e.e. ffrâm ddringo, llithren, sgiliau echddygol bras e.e. beiciau a sgwteri; twneli)
- mannau tawel a mannau astudio a mannau addysgu i blant hŷn a phlant mwy galluog e.e.
    - man tawel i glywed stori/gweithgareddau ar y cyd
    - llyfrgell fechan ddeniadol
    - ffocws ar gyfer marcio/ysgrifennu
    - adnodd synhwyraidd e.e. ystafell dywyll yn llawn o oleuadau diddorol
    - encil/ gofod preifat i blentyn y mae angen llonydd arno
    - byrddau ac adnoddau i blant gael canolbwyntio ar dasgau mwy strwythuredig.

- Rhwydd hynt i symud i'r 'dosbarth' y tu allan a fydd yn cynnwys yr un cyfleusterau sydd i'w gweld y tu mewn (y ddelfryd fyddai adlewyrchu'r hyn a grëwyd yn yr Ysgol beilot (Ysgol y Dderi))
- ystafell / encil er mwyn i'r staff gwrdd â gofynion baich gwaith yn ogystal â chreu adnoddau a chynnal cyfarfodydd
- mynedfa ddeniadol, groesawgar wedi'i neilltuo at ddefnydd y rhieni
- llawr sydd yn addas ar gyfer gweithgareddau artistig/gwlyb yn ogystal â llawr sydd yn fan cynnes a chysurus i weithio
- cyfleusterau dan do y tu allan i'r ystafell ar gyfer y deunydd o'r tu allan trwy gydol y flwyddyn

**Cyflwr cyfredol yr adeiladau sy'n perthyn i ysgolion a darparwyr Addysg Cyn-ysgol yng Ngheredigion**

4.9.7 Wrth ystyried gofynion addysgol y Cyfnod Sylfaen daeth y pynciau isod i'r brig –

- *digon o le <u>dan do</u> i gynnal y gwahanol weithgareddau y mae angen eu darparu*

- amgylchedd sy'n hyrwyddo darganfod ac annibyniaeth ac sy'n gosod mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu plant
- llawr sydd yn addas ar gyfer gweithgareddau artistig/gwlyb yn ogystal â llawr sydd yn fan cynnes a chysurus i weithio
    - chwarae rhan
    - chwarae byd bach
    - gofod creadigol / celfyddydol
    - gofod sain a cherdd
    - man chwarae corfforol bach a mawr (e.e. ffrâm ddringo, llithren, sgiliau echddygol bras e.e. beiciau a sgwteri; twneli)
    - man tawel i glywed stori/gweithgareddau ar y cyd
    - llyfrgell fechan ddeniadol
    - ffocws ar gyfer marcio/ysgrifennu
    - adnodd synhwyraidd e.e. ystafell dywyll yn llawn o oleuadau diddorol
    - encil/ gofod preifat i blentyn y mae angen llonydd arno
    - byrddau ac adnoddau i blant gael canolbwyntio ar dasgau mwy strwythuredig..

*b. digon o le / lle a fo'n addas yn union <u>y tu allan</u> i'r ystafell ddosbarth a fydd yn cynnig y cyfleoedd addysgol priodol yn ddiogel*

- amgylchedd sy'n hyrwyddo darganfod ac annibyniaeth ac sy'n gosod mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu plant.
- chwarae rhan
- chwarae byd bach
- gofod creadigol / celfyddydol
- gofod sain a cherdd
- man chwarae corfforol bach a mawr (e.e. ffrâm ddringo, llithren, sgiliau echddygol bras e.e. beiciau a sgwteri; twneli)
    - man i feithrin cywreinrwydd am y byd o'u hamgylch, e.e. gardd i feithrin y synhwyrau, tywod, dŵr
    - llawr sydd yn addas ar gyfer gweithgareddau artistig/gwlyb yn ogystal â llawr sydd yn fan cynnes a chysurus i weithio

*c .Modd i fynd a dod yn rhwydd rhwng y tu allan a'r tu mewn.*

- Rhwydd hynt i symud i'r 'dosbarth' y tu allan a fydd yn cynnwys yr un cyfleusterau sydd i'w gweld y tu mewn (y ddelfryd fyddai adlewyrchu'r hyn a grëwyd yn yr Ysgol beilot (Ysgol y Dderi))

*ch. Gofal dros y dosbarth Derbyn.*

- Dim mwy na dau grŵp oedran yn yr un dosbarth e.e. meithrin/derbyn

*d. Darpariaeth addysgol yn dair blwydd oed a gofal plant wrth law yn hwylus.*

- Addysg ar gyfer plant 3 blwydd oedd a ddarperir gan, e.e., MYM ar safle'r ysgol.
- Gofal Cylchynol ar gyfer plant rhan-amser yn cael ei ddarparu gan feithrinfa gyfagos

*dd .Amgylchedd gwaith*

- Ystafell / encil i'r staff allu cwrdd â gofynion baich gwaith yn ogystal â chreu adnoddau a chynnal cyfarfodydd
- Mynedfa ddeniadol, groesawgar wedi'i neilltuo at ddefnydd y rhieni

**Materion i'w hystyried ymhellach**

**1.** Creu Uned Feithrin dan ofal athro yn y sefydliadau hynny sydd â dosbarthiadau derbyn yn unig.

2. Creu Uned Feithrin ym mhob un o brif drefi Cynllun Gofodol Ceredigion: Llandysul, Aberteifi a Thregaron yn ogystal â'r ysgolion yn y trefi Gofodol eraill sydd ag Uned Feithrin – Aberystwyth, Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan.
3. Derbyn disgyblion amser llawn wedi eu pen-blwydd yn 4 oed ym mhob un o Ysgolion Cynradd Ceredigion (yn hytrach na'r tymor wedi eu pen-blwydd yn 4 oed)

*Manteision*

a. Mae'r adroddiad gwerthuso ar sefydliadau peilot y Cyfnod Sylfaen (mis Rhagfyr 2006) yn nodi'r angen i unigolion sydd â'r cymhwyster uchaf posibl i arwain sefydliadau addysgol Dan 5 oed. Nodir bod safon y ddarpariaeth a arweinir gan athro yn sylweddol uwch nag eiddo sefydliadau a arweinir gan unigolion heb gymhwyster priodol.
b. Cyfle i roi statws priodol i unigolion sydd wedi gwneud ymdrechion glew i ennill cymhwyster ar lefel gradd
c. Y nifer o ysgolion sydd â dosbarthiadau penodol ar gyfer plant rhwng 4 -5 mlwydd oed. Byddai cynnwys disgyblion 3 mlwydd oed yn y dosbarthiadau hyn yn arwain at ddosbarth penodol ar gyfer plant Dan 5. Byddai hyn yn cynyddu'r nifer o blant a fyddai'n derbyn Addysg ddi-dor o 3 i 5 dan ofal athro cymwys.
ch. Cyfle i benodi nifer ddigonol o staff dysgu ategol yn ôl y gymhareb 1:8 o fis Medi 2008 ymlaen. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai'r grwpiau dysgu yn rhai mawr ac y byddai athro yn gyfrifol am dîm penodol o unigolion er budd addysg y plant.
d. Llai o bwysau ar ddarparwyr Addysg cyn-Ysgol sy'n teimlo cryn bwysau wedi dod o dan y system addysg.
dd. Angen mawr am ddarpariaeth gofal plant cylchynol yn ogystal ag addysg. Cyfle i gyrff gwirfoddol i ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol i'r plant rhan-amser ac i'r plant rhwng 2 a 3+ mlwydd oed.
e. Cyfle i rieni gael gofal plant (sesiynol) i'w galluogi i dargedu gwaith.
f. Mae dwy o'r ysgolion hyn wedi cael darpariaeth gylchynol - Canolfannau Integredig - Aberteifi a Llandysul - mae'r cyfleusterau Addysg cyn-Ysgol yn cwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen a Gofal Cylchynol.

**4.10 Canolfannau Integredig**

4.10.0 Un dull o weithredu elfennau o ddarpariaeth plentyn-ganolog gyfannol yw sefydlu Canolfannau Plant Integredig.

4.10.1 Mae Canolfannau Plant Integredig (ICCau) yn seiliedig ar y cysyniad bod darparu addysg, gofal, cefnogaeth deuluol a gwasanaethau iechyd integredig yn ffactor allweddol os am gynnig canlyniadau da i blant a'u rheini, gan sicrhau'r dechrau gorau posib.

4.10.2 Yn ein cymunedau mae yna amrywiaeth enfawr, yn aml, o weithgareddau sy'n ymwneud â theuluoedd, eu haddysg, eu hiechyd a'u lles. Darperir y gweithgareddau hynny mewn amryw o ffyrdd gan y sectorau gwirfoddol a statudol. Nod Canolfannau Plant yw datblygu ar sail yr hyn sy'n dda yn barod ac anelu at ei wella eto fyth trwy sicrhau bod yr holl asiantaethau a chyrff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn gweithio mewn ffordd gydlynol a chadw anghenion y plentyn wrth graidd y mater ar bob achlysur.

**Darpariaeth yn y Canolfannau Plant Integredig**

4.10.3 Bydd gan bob ICC wrth ei graidd::

- Addysg Blynyddoedd Cynnar
- Gofal Plant
- Chwarae Mynediad Agored
- Addysg a Hyfforddiant Cymunedol

A fydd yn caniatáu mynediad at:

- Ystod o wasanaethau gofal plant proffesiynol
- Gweithgareddau o'r math sy'n cefnogi teuluoedd gan gynnwys dosbarthiadau i rieni
- Sesiynau chwarae
- Sesiynau wedi'u teilwrio'n arbennig ar iechyd a maeth teuluol
- Cyfleusterau llyfrgell deganau i deuluoedd
- Mynediad at amryw o gyrsiau addysg i oedolion

- Sesiynau i gynghori ar fudd-daliadau a dod o hyd i waith
- Amgylchedd dysgu
- Rhwydwaith o warchodwyr plant sy'n gweithio yn eich ardal chi

4.10.4 Bydd ICC yn ganolbwynt gwasanaeth yn y gymuned ar gyfer amrywiaeth helaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â lles a iechyd plant a theuluoedd.

4.10.5 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu dwy ganolfan, un yn Aberteifi a'r llall yn Llandysul. Y bwriad yw sefydlu rhagor trwy'r Awdurdod penbaladr.

## 4.11 Addysg Arbennig

4.11.1 Ar hyn o bryd mae anghenion addysgol 99.9% o'r disgyblion yng Ngheredigion yn cael eu digoni yn ysgolion yr AALl a'r pedair Uned Arbenigol sydd ar safleoedd yn y brif ffrwd. Golyga hyn bod Ceredigion yn un o'r AALlau mwyaf cynhwysol yng Nghymru.

4.11.2 Mae pwnc mynediad yn berthnasol i ddatblygiad addysg yng Ngheredigion. Mae tair prif agwedd ar y pwnc:

***a) Mynediad i adeiladau***

4.11.3 Pan fo adeiladu unrhyw 'ysgol newydd' dan ystyriaeth bydd yr AALl, yn unol â rheoliadau, yn sicrhau y ceir mynediad corfforol i bob rhan o'r ysgol, yn yr adeilad ei hun ac ar y safle, i rai sydd mewn cadair olwyn. Bydd yn bwysig hefyd i sicrhau y ceir mynediad priodol i doiledau a chyfleusterau newid.

4.11.4 Ar hyn o bryd nid yw cyfran fawr o'r ysgolion hŷn yn gallu cynnig mynediad hygyrch i gadeiriau olwyn ac nid ydynt yn addas i bobl anabl. Ni fyddai modd iddynt gwrdd ag anghenion y nifer fechan honno yn y boblogaeth ysgol sy'n defnyddio cadair olwyn. Mewn achosion o'r fath, pan dderbynnir cais am fynediad, ystyrir pob achos ac asesir y gofynion/anghenion i sicrhau a fyddai modd gwneud addasiadau rhesymol gan ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.

4.11.5 Os nad yw hi'n bosibl i dderbyn plentyn i'w ddewis ysgol yna bydd yr AALl yn cynnig yr ysgol agosaf fydd yn gallu digoni anghenion y plentyn orau. Bydd yr AALl yn gyfrifol am dalu am gludiant os yw'r ysgol a gynigiwyd yn bellach i ffwrdd. .

4.11.6 Yng nghyswllt 'mynediad i adeiladau' i ddisgyblion sydd ag anghenion synhwyraidd, ceisir cyngor gan wasanaeth Synhwyraidd yr AALl ynglŷn ag addasiadau rhesymol.

4.11.7 Mae'n bosibl y bydd yn briodol i'r Awdurdod i gynllunio darpariaeth ar gyfer rhai mathau o anableddau a chyflyrau mewn ysgol a ddynodwyd yn arbennig a allai wasanaethau ardaloedd penodol.

***b) Mynediad i'r Cwricwlwm***

4.11.8 Mae AALl Ceredigion yn cefnogi ysgolion wrth sicrhau y caiff pob disgybl fynediad i'r cwricwlwm ar lefel briodol yn ôl oedran, gallu a lle y bo'n briodol, eu hanghenion addysgol arbennig. Yn unol â Pholisi Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod, bydd cyllid ar gael i ysgolion yn unol â meini prawf a gyhoeddir fel y gall athrawon a staff cefnogi sicrhau mynediad i'r cwricwlwm trwy, e.e. wahaniaethu'r cwricwlwm.

***c) Mynediad i ddeunyddiau printiedig***

4.11.9 Mae'r AALl yn cyflogi staff arbenigol sydd yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad i unrhyw ysgol ynglŷn â'r maint print/ffont mwyaf priodol ac/neu offer arbenigol y byddai eu hangen o bosibl ar rai disgyblion er mwyn defnyddio deunydd printiedig. Yn gyffredinol, cyngor yr Awdurdod Lleol yw y dylai pob deunydd printiedig ddefnyddio Ariel maint 12 fel ffont rhagosodedig.

## 4.12 Addysg Uwchradd

4.12.1 Wrth ystyried datblygiad addysg yng Ngheredigion rhaid o'i hanfod gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg uwchradd. Y rheswm dros hyn yw natur y sir a'i rhyngberthynas gyda'r sector cynradd, nid yn unig o ran trosiant o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 ond hefyd oherwydd y potensial, mewn rhai ardaloedd, i ddatblygu ymagweddau dysgu integredig ac ymagweddau dysgu cydlynol gan ddarparu a rhannu gwasanaethau.

4.12.2 Er y bydd cyfleoedd i ddefnyddio dulliau a strategaethau ar y cyd, mae heriau arwyddocaol yn wynebu'r sector uwchradd i ddatblygu ac ehangu ar gyfleoedd dysgu i bobl ifainc, yn arbennig rhai rhwng 14 -19 oed ac yn benodol felly wedi16 oed. Trwy gyfrwng menter Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth y Cynulliad anogir defnyddio dulliau ar draws ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch i roi amrywiaeth helaeth o ddysgu a phrofiadau, yn academaidd ac yn alwedigaethol, er mwyn datblygu holl botensial dysgwyr a gwireddu'r nod cyhoeddedig canlynol:

> "*95 y cant o bobl ifanc 25 oed yn barod am gyflogaeth sgil uchel neu addysg uwch erbyn 2015".*

4.12.3 Mae Estyn yn awgrymu mai'r ffordd ymlaen, os bydd ysgolion y dyfodol a'u prif bartneriaid am gydweithio'n effeithiol, fyddai:

- Sefydlu gweledigaeth a chyfeiriad cyffredin;
- Sefydlu partneriaethau sy'n ymateb i anghenion y dysgwyr a'r gymuned ehangach.
- Magu ethos o ymddiriedaeth a pharch y naill at y llall;
- Sefydlu mesurau sicrwydd ansawdd cyffredin ar gyfer pob darpariaeth;
- Ymdrechu i sefydlu arferion gorau ar draws y Rhwydwaith ac osgoi dyblygiadau diangen

4.12.4 Adolygir yr agenda hwn ar wahân a bydd hyn, o raid, yn dylanwadu ar y ddarpariaeth addysgol yng Ngheredigion yn gyffredinol. Lle y bo'n briodol bydd y ddogfen strategol hon yn cyfeirio at opsiynau a chyfleoedd mewn ardaloedd penodol lle y gallai cydweithio adeiladol a diriaethol rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd cyfagos fod yn bosibl.

## 4.13 Technoleg Gwybodaeth

4.13.1 Yn y byd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sy'n brysur newid, mae o'r pwys mwyaf ein bod yn darparu'r cyfleoedd a'r adnoddau i ddisgyblion a staff Ceredigion er mwyn gwireddu'i lawn botensial. Bydd angen sicrhau fod pob adnawdd yn cael ei ddiweddaru i gwrdd â gofynion yr 21$^{ain}$ ganrif a bod staff yn cael cyfleoedd i ehangu'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Bydd hyn, yn ei dro, yn cael effaith fawr ar addysgu a dysgu ledled Ceredigion.

4.13.2 Caiff TGCh ei ddefnyddio i hyrwyddo pob pwnc o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Dylai gymell, cefnogi a herio disgyblion ac mae'n gallu cael effaith fawr ar eu haddysgu a'u dysgu.
Bydd angen darparu cyfleoedd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion i groesawu TGCh fel ffordd o gyfathrebu ymhlith ei gilydd, ac i rieni, disgyblion ac athrawon gael mynediad i adnoddau a deunyddiau dysgu o unrhyw leoliad. Hefyd, anogir ysgolion ac athrawon i ddefnyddio TGCh fel ffordd o rannu arferion da ac adnoddau gwersi.

4.13.3 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddir yn gwella rheolaeth, cefnogaeth a rhwydwaith mewnol TG er mwyn cynnal a chadw'r offer yn gyflawn, storio a diogelu data yn gywir, a rhwydweithio'r cyfleusterau argraffu

## 5: Patrymau Posibl

5.0 Yng nghyd-destun ein gweledigaeth am ddyfodol addysg yng Ngheredigion a'r heriau a wynebir gan ysgolion ar hyn o bryd, cynigiwn isod fodelau posibl ar gyfer darpariaeth addysgol a fydd yn cefnogi ein disgyblion ac yn cwrdd ag anghenion pob dysgwr yn yr 21ain ganrif.

5.1 Mae'r Polisi Arolygu Ysgolion a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Gorffennaf 2006, diwygiwyd Ionawr 2009, yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer datblygu ysgolion i'r dyfodol. Mae'r opsiynau hyn, a'r iaith a ddefnyddiwyd i'w disgrifio, yn agored i'w dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Er eglurder, mae'r adran hon yn rhoi diffiniadau o'r gwahanol fodelau sefydliadol dan ystyriaeth gan yr awdurdod. Cafodd y rhain eu disgrifio yn eglur gan Estyn yn ei adroddiad 'Ysgolion Bach yng Nghymru' 2006, ac mae'r awdurdod yn cytuno'n fras â'r diffiniadau a roddwyd.

5.2 Ar hyn o bryd, mae modd dosbarthu'r ysgolion sydd yn y sir i'r categorïau hyn:

- Ysgolion sydd mewn clystyrau ffurfiol
- Ysgolion sydd mewn ffederasiynau anffurfiol – gan rannu pennaeth
- Un Ysgol Ardal – Ysgol y Dderi

5.3 Dyma'r diffiniadau mwy manwl ar y termau hyn:

- Ysgolion sydd mewn clystyrau ffurfiol – cydweithio/cydweithredu

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion y sir wedi eu trefnu yn glystyrau ffurfiol a bydd penaethiaid a staff yn cydweithio ar lefel leol ar amryw o faterion sy'n ymwneud â chynllunio a'r cwricwlwm e.e. rhannu dyddiau HMS a datblygu cynlluniau gwaith a pholisïau ar y cyd. Mae hefyd yn cynnig cyfle i fwynhau rhagor o gyfleoedd i ddilyn datblygiad proffesiynol a chyfleoedd ar y cyd i leihau'r baich gwaith. Mae rhai clystyrau wedi cymryd cam ymhellach, gan ddatblygu gweithio mewn partneriaeth trwy gyflwyno trefniadau i rannu athrawon mewn meysydd arbenigol, cymorth gweinyddol ac adnoddau.

Bydd penaethiaid hefyd yn mynychu cyfarfodydd 'teulu o ysgolion' yr ardal bob tymor. Trefnir y 'teuluoedd' hyn yn ôl dalgylchoedd yr ysgolion uwchradd, a thrafodir a datblygir amryw o strategaethau e.e. trefniadau trosiant rhwng y cynradd a'r uwchradd, asesu a datblygu proffesiynol. Bydd penaethiaid hefyd yn mynychu cynadleddau sirol bob tymor i drafod materion cwricwlaidd a threfniadol, yn sirol ac yn genedlaethol.

- Ysgolion mewn ffederasiynau anffurfiol – rhannu pennaeth

Yn y math hwn o drefniant bydd ysgol fwy yn cymryd cyfrifoldeb dros arweinyddiaeth a gwaith rheoli mewn ysgol gyfagos lai. Cyflwynir trefniant o'r math hwn wedi i swydd pennaeth yr ysgol lai ddod yn wag. Cyflwynwyd trefniant o'r math hwn dros y 4 blynedd ddiwethaf ac ar hyn o bryd mae yna chwech trefniant rhannu pennaeth yn y sir -

- Cwrtnewydd / Capel Dewi;
- Penparc / Llechryd
- Pennant / Cilcennin
- Talgarreg / Caerwedros
- Penllwyn / Sir John Rhys / Capel Seion
- Rhydlewis / Glynarthen

Ar hyn o bryd mae gofyn bod gan bob ysgol gorff llywodraethol a phennaeth er mwyn cwrdd â deddfwriaeth statudol. Yn Nhachwedd 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghorol ar drefniadaeth y ffederasiynau i'r dyfodol. Os derbynnir yr argymhellion, bydd hynny'n caniatáu i'r ffederasiynau anffurfiol gael un Corff Llywodraethol ar gyfer y grŵp heb orfod dilyn proses statudol y ffederasiynau ffurfiol. Gall Corff Llywodraethol yr ysgol y mae ganddi swydd pennaeth yn wag benderfynu naill ai i gael ei bennaeth ei hun neu bennaeth mewn gofal o ysgol gyfagos. Gwneir y penderfyniad hwn, trwy ymgynghoriad gyda'r awdurdod, wedi talu ystyriaeth ddyledus i niferoedd y disgyblion a chynlluniau ar gyfer yr ysgol i'r dyfodol. Cymerir swydd pennaeth yr ail ysgol gan Bennaeth Cynorthwyol. Bydd y trefniant hwn yn golygu cynnydd ym maich gwaith y Pennaeth mewn gofal yn sgil gweithio gyda dau gorff llywodraethol, ac oni chaiff ei ddiffinio'n glir gallai gynnig anawsterau o safbwynt atebolrwydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ym

meysydd rheoli personél a gosod cyllidebau. Mae ysgolion sydd wedi dod yn rhan o drefniant o'r fath wedi derbyn copi o ddisgrifiad swydd a gytunwyd gan y sir, ac mae hon yn diffinio'n eglur swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pennaeth mewn Gofal a hefyd y Pennaeth Cynorthwyol yn yr ail ysgol.

- Ysgol Ardal – Ysgol y Dderi.

Mae Ysgol y Dderi, Llangybi yn ysgol ardal gymunedol. Fe'i hagorwyd fel ysgol ardal ym 1976 wedi cau'r ysgolion yng Nghellan, Llanfair Clydogau, Betws Bledrws, Silian a Llangybi. Mae disgyblion o Ysgol Gartheli, a gaeodd ym 1984, hefyd yn mynychu Ysgol y Dderi.

5.4 Awgrymir nifer o opsiynau posibl ar gyfer trefniadau ysgolion i'r dyfodol:

- Trefniant Cydweithredol (Anstatudol)
- Ffederasiwn Anffurfiol neu Feddal (Anstatudol)
- Ffederasiwn Llywodraethiant Meddal (Statudol)
- Ffederasiynau Ffurfiol neu Galed (Statudol)
- Ysgolion ardal

Mae'r gwahanol fathau o ffederasiynau, ynghyd â modelau sefydliadol posibl fel a ganlyn. Daw'r wybodaeth isod o Ddeddf Addysg 2002, adran 24, a hefyd y Rheoliadau Llywodraethiant Ysgolion (Ffederasiynau), gan dybio y bydd y gorchmynion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion ffederal yn rhai tebyg.

5.5 Trefniadau Cydweithredol (Anstatudol)


Mae sawl math o drefniadau cydweithredol yn bod a bydd ysgolion yn aml yn gweld ei bod hi'n hawdd gweithredu o'u mewn, gan nad oes unrhyw drefniadau cyfreithiol na strwythurau penodedig ac mae hyn yn caniatáu felly rwydd hynt i rwydweithio a rhannu.
Bydd ysgolion yn cadw eu strwythurau a'u trefniadau presennol ond yn cydweithredu fesul clystyrau er mwyn datblygu gweithgareddau penodol yn ôl y gofyn.

5.6 Ffederasiwn Anffurfiol neu Feddal (Anstatudol)

Mae'r ysgolion hyn wedi gwneud ymrwymiad ffurfiol i gydweithio, er enghraifft trwy greu cydbwyllgorau neu bwyllgorau trosfwaol ar unrhyw agwedd o ddysgu ac addysgu neu arweinyddiaeth, ond bydd pob ysgol sy'n aelod yn cadw rhywfaint o annibyniaeth. Mae rhai wedi dirprwyo cyfrifoldebau o gyrff llywodraethol unigol i gydbwyllgorau ond mae gofyn iddynt ddilyn y canllawiau sydd yn y Rheoliadau Llywodraethiant Ysgolion (Cydweithredu). Yn ôl y Rheoliadau, caiff dau neu fwy o gyrff llywodraethol drefnu i gyflawni unrhyw swyddogaethau sydd ganddynt ar y cyd, a chânt ddirprwyo unrhyw swyddogaethau o'u heiddo (yn amodol ar rai cyfyngiadau ar ddirprwyo) i gydbwyllgor.

- Pennaeth Gweithredol / Pennaeth Cynorthwyol a chyrff llywodraethol ar wahân


Dylid ystyried y ffederasiynau anffurfiol (dwy ysgol gyda phrifathrawiaeth yn gyffredin a chyrff llywodraethol ar wahân) a sefydlwyd yn y sir hyd yma fel modelau sefydliadol tymor byr, a fydd yn arwain yn y pen draw at ffederasiynau mwy ffurfiol.




Lle bo ysgol fwy yn rhan o'r ffederasiwn, gallai dirprwy bennaeth hefyd fod yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli.

- Mwy nag un pennaeth (Cydbenaethiaid) a chyrff llywodraethol ar wahân


Dylid ystyried y model hwn - gwahanol benaethiaid (Cydbenaethiaid) a Chyrff Llywodraethol ar wahân - hefyd fel cam dros dro tuag at sefydlu naill ai ffederasiwn ffurfiol neu Ysgol Ardal.




5.7 <u>Ffederasiwn Llywodraethol Meddal (Statudol)</u>

Sefydlir ffederasiynau llywodraethol meddal trwy ddefnyddio Rheoliadau Cydweithredu, a wnaed o dan Adran 26 Deddf Addysg 2002. Mae gan bob ysgol ei chorff llywodraethol ei hun, ond mae gan y ffederasiwn **bwyllgor cydlywodraethol/strategol gyda phŵer dirprwyedig.**

Mae'r holl ysgolion yn rhannu nodau cyffredin a gall y cydbwyllgor wneud penderfyniadau ar y cyd mewn rhai meysydd, ond nid ym mhob un. Nid oes cyllideb gyffredin, ond os dirprwywyd pwerau cyllidebol i'r JSC gall wneud penderfyniadau cyllidebol dros y grŵp o ysgolion yn ddiymdroi.





5.8 <u>Ffederasiynau Ffurfiol neu Galed (Statudol)</u>

Endidau cyfreithiol sengl yw'r rhain, gydag un corff llywodraethol ar draws yr holl ysgolion sydd yn y ffederasiwn. Mae hyn yn unol â Deddf Addysg 2002, adran 24, a hefyd y Rheoliadau Llywodraethiant Ysgolion (Ffederasiynau). Maent yn caniatáu i bob categori o ysgolion a gynhelir i uno'n ffederasiwn o dan un corff llywodraethol, yn amodol ar y gweithdrefnau a nodir yn y Rheoliadau.


- **Gwahanol benaethiaid (Cydbenaethiaid) ac un corff llywodraethol**

Mae'r darpariaethau sydd yn adran 24 a 25 Deddf Addysg 2002 yn caniatáu ffederasiwn ffurfiol gydag un corff llywodraethol, gyda'r ysgolion yn parhau i fod yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u penaethiaid eu hunain.



**b. Pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol**

Wrth sefydlu'r math hwn o ffederasiwn, caiff dwy neu ragor o ysgolion eu 'cau' er mwyn creu un ysgol 'aml-safle' gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol. Gall y corff llywodraethol barhau i redeg pob ysgol fel unedau ar wahân gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ym mhob uned, neu fe all drefnu'r ysgolion fel bod y disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl eu hoedran - y Cyfnod Sylfaen yn un ysgol a Chyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol arall. Mae'r math hwn o grwpio yn cynnig manteision amlwg o ran cynllunio a datblygu'r cwricwlwm ond gallai'r rhain gael eu gwrthbwyso o bosibl gan y cynnydd mewn costau a theithio. Lle bo'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar wahanol safleoedd, bydd angen bod yn ofalus i sicrhau parhad rhwng y cyfnodau allweddol.




5.9 Gall ffederasiynau gynnig llawer o gyfleoedd newydd a chyffrous i ysgolion i'w galluogi i ymateb i heriau'r unfed ganrif ar hugain. Maent yn galluogi ysgolion i archwilio modelau arweinyddol a rheolaethol newydd ac i ddatblygu strwythurau, swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd.

Maent hefyd yn cynnig modd effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau i blant, i deuluoedd ac i'r gymuned gan gynnwys gofal plant, gweithgareddau hamdden, gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg i oedolion.
Wrth i ysgolion ffederal gael eu sefydlu ar draws yr Awdurdod, cynigir cyrsiau hyfforddi i'r staff a'r llywodraethwyr ynglŷn â threfnu a datblygu ffederasiynau i'r dyfodol.

5.9 Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru rhai o'r cyfleoedd a hefyd yr heriau sydd i'w hwynebu, o bosib, wrth ddatblygu cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion.

**CYFLEOEDD**

**I Ddisgyblion**

- Adlewyrchir arbenigedd staff gan welliannau o ran cynllunio a pharatoi cynlluniau gwaith, safon y ddarpariaeth a monitro pynciau
- Mwy o gyfleoedd i ddysgu gyda disgyblion o'r un oedran o ysgolion eraill
- Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon gyda disgyblion o ysgolion eraill
- Mwy o gyfleoedd i fanteisio ar gysylltiadau gyda'r gymuned ehangach e.e. Y Dimensiwn Rhyngwladol - (Meddyliau Agored -WiMi)

**Staff**

- Gwell darpariaeth rheoli perfformiad
- Gwell datblygiad proffesiynol a mwy o gyfle i arwain ar gyfer athrawon
- Gwell ysbryd ymhlith aelodau staff
- Mwy o ymgynghori, gwneud penderfyniadau ar y cyd a gwaith tîm
- Rhannu profiad ac arbenigedd
- Modelau o arferion da i wella dysgu ac addysgu a chynhwysiant

**I'r Penaethiaid**

- Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Llai o ymdeimlad o arwahanrwydd – rhagor o gefnogaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd

- Llai o bwysau
- Rhagor o symbyliad a mwynhad proffesiynol
- Arbed o ran amser cynllunio a gweinyddu

**I'r ysgol:**

- Ffordd strwythuredig i ysgolion i gydweithio, i ddysgu gan ei gilydd ac i rannu arferion da
- Effeithiolrwydd o ran costau – darbodion maint
- Sail ar gyfer partneriaethau pellach, gan gynnwys rhai traws-gyfnod a gyda darparwyr eraill (e.e. 14-19 oed, gwasanaethau cymunedol ayb).
- Sail ehangach o arbenigedd a gwybodaeth i dynnu arni wrth ddatblygu'r ysgol
- Ymatebion rhwyddach i'w haddasu i aml ofynion, cymhlethdod ac amwysedd y swyddogaeth
- Gwahanol bersbectifau ar faterion anodd i hyrwyddo gwneud gwell penderfyniadau
- Arweinyddiaeth fwy creadigol a chydweithredol
- Mwy o brosiectau'n cael eu cwblhau
- Pennaeth arall i lenwi'r bwlch yn syth yn achos salwch neu absenoldeb
- Denu a chadw – cadw penaethiaid profiadol gan ddenu hefyd rhagor o benaethiaid newydd
- Datblygu unigolion gan gynnal hefyd barhad yn yr arweinyddiaeth

**HERIAU**

- Sicrhau cyfathrebu effeithiol ac eglur
- Sicrhau dealltwriaeth eglur o swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd
- Sefydlu perthynas waith bositif, broffesiynol rhwng penaethiaid
- Sicrhau cyfathrebu eglur ac effeithiol rhwng rhanddeiliaid wrth sefydlu'r trefniadau newydd
- Sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad yr holl randdeiliaid

5.11 Bydd ysgolion yng Ngheredigion sydd wedi cydweithio mewn clystyrau yn bellach ar hyd y Continwwm Ffederasiwn nag ysgolion sydd heb brofiad o weithio ar y cyd.

5.12 Bydd angen i ysgolion bychain y dyfodol i gydweithio fel y gallant:

- gynnal yr ethos 'deuluol' sy'n nodweddu ysgolion bychain, tra'n sicrhau mwy o effeithlonrwydd trwy reolaeth a gweinyddiaeth ar draws safleoedd;
- .rannu arbenigedd ac adnoddau a gwella'r cyfleoedd ar gyfer dysgu arbenigol;
- darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau all gwricwlaidd; a sicrhau manteision cymdeithasol ehangach i ddisgyblion o ardaloedd gwledig diarffordd.

5.13 Yn 2005 daeth Uned Arloesedd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) â grŵp o benaethiaid profiadol ym maes ffederasiynau at ei gilydd i lunio canllaw ar gyfer rhai eraill a allai fod yn awyddus i greu ffederasiwn. Yn y canllaw hwn, nododd yr awduron yr amodau sydd, yn eu barn hwy, yn arwain ar bartneriaeth ffederasiwn llwyddiannus:

- Ymdeimlad o **hunaniaeth gyffredin** rhwng yr ysgolion. Mae agosrwydd daearyddol a rhannu'r un amcanion o ran gweithgareddau cwricwlaidd ac all gwricwlaidd yn hynod o fanteisiol.
- **Bwriad yn gyffredin**. Mae angen i ysgolion rannu'r un ymdeimlad am yr hyn sydd angen ei gyflawni a'r ffordd o wneud hynny, gyda gweledigaeth ar y cyd am wella lefelau cyrhaeddiad a chyflawniad.
- **Arweinyddiaeth**. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galw am arweinyddiaeth gref a bydd ffederasiynau ar eu hennill o ddatblygu a chynnal arweinyddiaeth ar bob lefel.
- **Strwythur rheoli** cryf. Rhaid i ysgolion ddeall a chydweithredu gyda hyn os am weld partneriaethau effeithiol yn datblygu.
- **Ymddiriedaeth**. Mae ymddiriedaeth yn hanfodol bwysig i gydweithio effeithiol a dylid ei meithrin ar bobl lefel reoli. Mae'n rhaid cael gwir ymdeimlad o fod yn agored a pharodrwydd i weithredu mewn modd cydlynol ymhlith llywodraethwyr, penaethiaid a phob aelod arall o'r staff.
- **System arolygu**. Mae angen systemau monitro/gwerthuso da er mwyn dangos pa rai o blith y manteision a ragwelwyd o weithio mewn ffederasiwn a gyflawnwyd.
- **Ymrwymiad**. Mae angen amser yn ogystal ag adnoddau i sicrhau bod y ffederasiwn yn un effeithiol a chynaliadwy.

- **Cyfathrebu.** Mae galw am drefniadaethau cyfathrebu ardderchog wrth gyflwyno newid, yn arbennig lle y bo llawer o ysgolion yn rhan o'r newid. Gall ffederasiynau ddatblygu mewnrwydi a gwahanol e-fforymau eraill.
- **Cynaliadwyedd.** Mae gofyn bod strategaeth gynaliadwyedd eglur yn ei lle i alluogi cydweithio i ymdopi â newidiadau. Er enghraifft: pe bai arweinyddiaeth un o'r ysgolion yn newid; pe bai ysgolion ychwanegol am ymuno; pe bai ysgolion sydd eisoes yn rhan o'r ffederasiwn am adael.
- Os yw'r ffederasiwn yn ymrwymo i gytundebau neu wariant dros unrhyw gyfnod o amser, mae **cynaliadwyedd ariannol** yn anhepgor.

5.14 Ysgolion ardal

Er mwyn sefydlu ysgol ardal, caeir dwy neu ragor o ysgolion a bydd un ysgol newydd, fwy yn eu disodli. Gall yr ysgol newydd fod ar safle un o'r hen ysgolion neu mewn man newydd a chanolog.

## 6: Argymhellion polisi ac egwyddorion penodol

**Egwyddorion**

6.1 Mae'r ddogfen yn ceisio cyflwyno strategaeth ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth addysg ar sail yr egwyddorion canlynol:-

**i.Cymunedau Dysgu Integredig**
- datblygu canolfannau dysgu cymunedol integredig yn ffocws ar gyfer darparu cyfleoedd wedi'u cytgordio i ddysgu gydol oes trwy Geredigion benbaladr

**ii.Safonau**.
- sicrhau gwelliant parhaus o ran safonau gwasanaeth uchel i gefnogi cyraeddiadau llawn mor uchel ar gyfer y dysgwr

**iii.Adnoddau**
- darparu adnoddau a ddefnyddir yn effeithiol ac yn effeithlon ar gyfnod o gyfyngiadau ariannol a gostyngiad yn nifer y disgyblion

**iv.Cyllid.**
- adolygu'r dulliau o gyllido ysgolion

**v.Cyfleusterau**
- darparu cyfleusterau o safon i gwrdd â gofynion mentrau dysgu, economaidd a chymdeithasol ac anghenion cymunedau ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain

**vi.Strwythurau**
- sefydlu strwythurau er mwyn cydweithio ar draws gwahanol asiantaethau, darparwyr ac ysgolion er mwyn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon posibl a defnyddio arbenigedd yn y modd mwyaf effeithiol posibl

**vii.Datblygiad Proffesiynol Staff**
- sicrhau cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff trwy sefydlu strwythurau a fydd hefyd yn golygu datblygu arweinyddiaeth a rheoli ar bob lefel gan ddiogelu felly gydbwysedd bywyd a gwaith gweithwyr

**viii. Adeiladau.**
-sefydlu rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf a fydd yn sicrhau bod cyfleusterau ac adeiladau ysgolion yn addas at eu diben

**ix. Strategaeth.**
- ennill ymrwymiad yr holl randdeiliaid i fabwysiadu a gweithredu'r strategaeth

**Polisïau**

6.2 Yr hyn sy'n deillio o'r egwyddorion, y gwaith dadansoddol, y strwythurau arfaethedig a'r strategaeth yn gyffredinol yw cadarnhad o'r polisïau a lle y bo eu hangen, llunio polisïau pellach:-

(i) i ddatblygu canolfannau dysgu cymunedol integredig

(ii) i adolygu modelau cyllido ysgolion

(iii) i ostwng y nifer o leoedd dros ben trwy ad-drefnu strwythurau ysgolion ar sail unedau, naill ai'n unigol neu drwy gydweithio, gyda nifer derbyn isaf posibl o hanner maint dosbarth

(iv) i ddatblygu sefyllfa dros gyfnod lle na fydd unrhyw ddosbarth yn cynnwys dros 30 disgybl na mwy na dau grŵp oedran

(v) i ddarparu ysgolion, a hynny ar sail ffederal lle y bo'n ofynnol, sy'n cynnwys lleiafswm o 100 disgybl a thrwy hynny sicrhau y ceir rheolaeth gan un corff llywodraethol, arweinyddiaeth gan un pennaeth ac a gefnogir gan strwythur staffio o ran athrawon a staff anaddysgol a fyddai'n cynnig ystod o arbenigedd cyflenwol a chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol

(vi) i geisio fel y bo'r gofyn y gweithdrefnau statudol i ad-drefnu ysgolion a fydd yn cynnwys cau ysgolion, uno ysgolion a ffederasiynau

(vii) i wneud y gorau o'r ymrwymiad i fuddsoddiad cyfalaf trwy amryw o ddulliau cyllido gan gynnwys rhaglen gyfalaf yr awdurdod, trefniadau benthyca sy'n berthnasol ar y pryd, ffynonellau allanol megis grantiau gan y Llywodraeth er mwyn cynllunio a darparu adnoddau yn effeithiol ar gyfer strategaeth i sicrhau y bydd adeiladau a chyfleusterau yn addas ar gyfer eu diben

(viii) i sefydlu strwythur corfforaethol ac annog partneriaethau gydag asiantaethau allanol er mwyn hyrwyddo strategaethau a rhaglenni a fydd o fantais i'r dysgwr cyfan

(ix) i adolygu a gweithredu'r strategaeth ar gyfer addysg ddwyieithog

(x) i hyrwyddo dysgu yn y blynyddoedd cynnar a gweithredu'r cyfnod sylfaen gyda darparwyr mewn lleoliadau priodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth i gyfranogwyr

(xi) i sicrhau trosiant cydlynol a threfnus o un cyfnod i'r llall

(xii) i annog cydweithio effeithiol rhwng ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo

(xiii) i sicrhau cydweithio effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a sectorau addysg eraill er mwyn darparu llwybrau amgen ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 19 oed.

(xiv) I barhau i ymgymryd ag arolygon rheolaidd ar ysgolion a diwygio fel y bo'n briodol y meini prawf a fydd yn sbarduno arolwg

## 7: Y Broses Ddatblygu

Dyma fydd y broses ar gyfer gweithredu'r strategaeth ddatblygu:

**Drafft**

- Y Cabinet yn mabwysiadu/cymeradwyo'r ddogfen ymgynghorol *(Mai / Mehefin 2008*)
- Y Pwyllgor Craffu *(Mehefin / Gorffennaf 2008)*
- Y Cyngor yn cymeradwyo/mabwysiadu'r ddogfen ymgynghorol *(Mehefin / Gorffennaf 2008)*

**Ymgynghoriad**

- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Ymgynghoriad cyhoeddus *( Medi - Rhagfyr 2008)*
  - (i) Cyhoeddi'r strategaeth ddrafft
  - (ii) Hyrwyddo'r cyhoeddiad
  - (iii) Cyfarfodydd cyhoeddus ar sail ardaloedd Ysgolion Uwchradd *[dechrau Medi 2008]*
  - (iv) Gwahoddiad ffurfiol am ymatebion gan Gyrff Llywodraethol, Staff ysgolion, Cynghorau Cymuned. Cymdeithasau Staff, Darparwyr Statudol a Gwirfoddol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
  - (v) Ymatebion erbyn Rhagfyr 15fed 2008

**Cymeradwyo/mabwysiadu'r cynllun yn derfynol**

- Y Cabinet yn cymeradwyo/mabwysiadu *(Ionawr 2009)*
- Y Cyngor yn cymeradwyo/mabwysiadu *(Chwefror 2009 )*

**Cyfnod Gweithredu**

Mae'r ddogfen – 'Opsiynau posibl i'r dyfodol – dogfen drafod' yn parhau dan drafodaeth a chaiff ei defnyddio fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Chyrff Llywodraethol a charfanau perthnasol eraill. Mewn rhai ardaloedd, mae trafodaethau wedi symud ymlaen ymhell tra bo ardaloedd eraill heb ddechrau'r broses eto. Dylid pwysleisio fod angen cynnal y trafodaethau hyn dros gyfnod priodol fel y gellir ystyried yr holl faterion yn llawn cyn ffurfio penderfyniadau.

**Y broses statudol**

***Ffederasiynau***

Wedi'u hymgorffori yn Neddf Addysg 2002 a disgwylir Rheoliadau

***Cau ysgolion/newid yn natur yr Ysgol***

Lle y rhagwelir y bydd ysgolion yn cau neu y gwelir newid yn natur yr ysgol mewn perthynas ag uno ysgolion a sefydlu ysgolion newydd megis darparu ysgolion ardal, rhoddir y prosesau canlynol ar waith, a all gymryd blwyddyn o leiaf:-

- Cynnig i fynd ymlaen yn unol â'r Cynllun Datblygu Addysg yng Ngheredigion a gytunwyd gan y Cabinet a'r Cyngor, hynny yw, adolygu ysgolion yn flynyddol yn unol â'r 'Polisi Adolygu Ysgolion' pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi.
- Ymgynghori â Llywodraethwyr, Staff, Rhieni a'r Gymuned
- Gwahodd sylwadau ysgrifenedig gan Lywodraethwyr, staff a rhieni ynghyd ag ysgolion cyfagos sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion
- Adrodd i'r Cabinet a chael cadarnhad/cymeradwyaeth ganddynt
- Cyhoeddi rhybuddion statudol - gwahodd gwrthwynebiad ysgrifenedig *[2 fis]*
- Os **na** cheir gwrthwynebiad bydd y Cabinet yn cadarnhau'r gweithredu ac fe hysbysir y Cyngor neu
  Os **oes** yna wrthwynebiad cyflwynir y cynnig i'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael penderfyniad.*{dau dymor cyn unrhyw gau arfaethedig: un ar gyfer ystyriaeth + un tymor o rybudd i rieni]*

## 8: Y ffordd ymlaen

**Datblygu'r modd y cyflenwir y Ddarpariaeth Addysg yng Ngheredigion: casgliad/diweddglo a chrynodeb**

8.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn rhaid i ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg fod yn brif ffocws i'r Cynllun Addysg Sengl 2006-08 a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2008 – 2011). Rhaid gweld y datblygiadau yng nghyd-destun Strategaeth Gymunedol y Cyngor "Ceredigion 2020".

8.2 Yn ganlyniad i hyn amlinellir y nodau ailstrwythuro yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir isod:

**<u>Tymor Hir: (2015 – 2020)</u>**

- Cyflawni'r cysyniad o Gymunedau Dysgu Integredig ym mhob un o'r chwe ardal – Aberteifi, Llandysul, Tregaron, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth.
    - Ysgolion yn cydweithio mewn clystyrau neu grŵp ardal
    - Darpariaeth aml-asiantaethol o wasanathau, gan gynnwys gofal plant.
    - Amrediad o weithgareddau dysgu gydol oes a chyfleoedd i bobl yn y gymuned

- Trwy weithredu'n aml-asiantaethol gellid darparu gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ar lefel Ysgol, clwstwr neu ardal. ( Nodau Craidd 1 – 7)

- Pob Ysgol yn y sir - ysgolion ardal, ysgolion ffederal a chlystyrau o ysgolion yn gweithredu fel Ysgolion Bro.

**<u>Tymor Canolig: (2011-2015)</u>**

- Parhau i weithredu'r cynlluniau cytunedig a dilyn y drefn ar gyfer aildrefnu yn ôl y galw, sy'n cynnwys sefydlu ysgolion ffederal, ysgolion ardal a chlystyrau:

    - ysgolion ardal lle bo'n addas ac ymarferol
    - sefydlu ffederasiynau gyda nifer o ysgolion wedi eu grwpio o dan yr un tîm rheoli a chorff llywodraethol
    - teuluoedd o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu sefydlu er mwyn cynllunio a chyflwyno addysg yn un dilyniant di-dor

- Parhau i weithredu'r Polisi Adolygu Ysgolion pan fo ysgolion yn cwrdd â'r pwyntiau gweithredu.
- Parhau i ddatblygu pob Ysgol yn y sir - ysgolion ardal, ysgolion ffederal a chlystyrau o ysgolion - fel Ysgolion Bro.
- Gwella'r adnoddau ysgol uwchradd ar gyfer rhai rhwng 14 a 19 oed.
- Pob ysgol wedi sefydlu strwythur staffio.

**<u>Tymor Byr: (2006-2008)</u>**

- Datblygu'r dogfennau strategol ar gyfer datblgu ac ailstrwythuro y ddarpariaeth addysg yng Ngheredigion. (Cynradd ac Uwchradd)
- Y Cabinet a'r Cyngor yn cytuno ar y cynnig.
- Ymgynhoriad gyda'r llywodaraethywr, staff, disgylion, rhieni a'r gymuned.
    - Cyflwyno a thrafod yr awgrymiadau ar gyfer strwythurau ysgolion ym mhob ardal.

- Parhau i weithredu'r cynlluniau cytunedig, a dilyn y camau statudol ar gyfer aildrefnu ysgolion, sy'n cynnwys sefydlu ysgolion ffederal, ysgolion ardal a chlystyrau

- Parhau i weithredu'r Polisi Adolygu Ysgolion pan fo ysgolion yn cwrdd â'r pwyntiau gweithredu.

- Gweithredu Strategaeth Iaith newydd yr Awdurdod ar gyfer ysgolion.

    - Caiff ysgolion ffederal neu ysgolion sy'n uno, yn ogystal ag unrhyw ysgol gynradd neu uwchradd newydd a sefydlir yn y dyfodol, eu diffinio, yn unol â Dogfennaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007, fel ysgolion 'Cyfrwng Cymraeg', sef ysgolion sy'n darparu 100% o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac o leiaf 70% o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2.
      (gweler 'Dogfen Strategaeth Iaith Ceredigion')

- Darparu arweiniad a chefnogaeth i ysgolion i ddatblygu yn ysgolion bro, fel y gall yr Ysgol a'r gymuned weithio gyda'u gilydd i:

    - ddatblygu gwasanaethau lleol o safon mewn ymateb i'r angen lleol
    - gymryd rhan gynyddol yn y broses o benderfynu ynghylch darpariaeth y gwasanaethau hynny a bywyd y cymdogaethau
    - weithio gyda'n gilydd i wireddu'r deilliannau ar gyfer yr ardal
      (Gweler Strategaeth ar gyfer Datblygu Ysgolion Bro)

- Cynlluniau strwythur staffio wedi'u sefydlu
- Darparu strategaeth lleoedd ysgol a fydd yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac 14-19 oed.
- Sefydlu strwythur corfforaethol ac annog partneriaethau ag asiantaethau allanol i hyrwyddo strategaethau a rhaglenni o fudd i'r dysgwr cyfan

*Cyllido*

8.3 Byddai amcangyfrif ceidwadol o'r gost o ddarparu cyfleusterau priodol a digonol oddeutu £11m ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw a £30m pellach ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol.

8.4 Caiff unrhyw waith ailstrwythuro ar drefniadaeth darparu'r gwasanaeth effaith ar fodelu'r gweithlu, elfen sydd yn anodd ei fesur nes i bob strategaeth a chynnig cael ei gynllunio a'i gostio.

**LLYFRYDDIAETH**

Polisi Adolygu Ysgolion Ceredigion. (2006)
Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, (2004)
Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cam II Ysgolion Cynradd. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005)
Rhaglen Addysg Gynhwysfawr a Dysgu Gydol Oes hyd 2010 yng Nghymru.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Awst 2001)
Strategaeth Ysgolion Bro Ceredigion. (2006)
Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion. ( 2007)
Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006)
Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymgynhorol (2001)
Ysgolion Bro . Cylchlythyr Cyfarwyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 34/2003
Ysgolion Rhagorol: Gweledigaeth ar gyfer ysgolion yn yr 21^eg ganrif (Estyn, 2002)
Trawsnewid Ysgolion (Estyn, 2004)

**Argraffwyd yng Nghanolfan Addysg Broffesiynol Ceredigion**

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD:** | **2 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Cymunedau sy'n Dysgu ar Egwyddorion Isadeiledd Cynaliadwy ar gyfer Addysg** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023** |

**CEFNDIR:**

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu'r adroddiad ar Egwyddorion Isadeiledd Cynaliadwy ar gyfer Addysg yn eu cyfarfod ar 30 Mawrth 2023.

Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chod statudol o ran trefniadaeth ysgolion a chyflwynodd gymal rhagdybiaeth yn erbyn cau ar gyfer ysgolion gwledig. Roedd y diffiniad ysgol wledig wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac o ganlyniad, roedd 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig.

Cafodd y Pwyllgor wybod ei bod yn amserol cyflwyno dogfen a oedd yn amlinellu egwyddorion y gwasanaeth i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r cod statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ymgynghori ar y cynnig hwnnw, a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau ysgol wledig ai peidio.

Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad, byddai'n rhaid paratoi a chyflwyno papur cynnig i'r Ffrwd Waith Cymunedau sy'n Dysgu. Yn dilyn cyfarfod o Ffrwd Waith y Pwyllgor Craffu, byddai'r papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel y gellid ystyried a ddylid:

a) Cymeradwyo'r cynnig a mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol

b) Gwrthod y cynnig

c) Cynnig opsiwn amgen

Byddai'r papur cynnig wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn y byddai Ymgynghoriad Statudol yn cael ei gynnal.

Byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei seilio ar yr Egwyddorion yn Atodiad A ynghyd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf (llyw.cymru)

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:

i. argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Ddogfen Egwyddorion Isadeiledd Cynaliadwy (Atodiad A) ar gyfer addysg; a

ii. cadarnhau aelodaeth y ffrwd waith trawsbleidiol a fyddai'n trafod unrhyw bapurau cynnig a ddaw gerbron yn unol â'r Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion.

Y ffrwd waith fydd y ffrwd waith a sefydlwyd eisoes 'Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau' sy'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- Y Cynghorydd Endaf Edwards
- Y Cynghorydd Chris James
- Y Cynghorydd Meirion Davies
- Y Cynghorydd Eryl Evans
- Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Y Cynghorydd Endaf Edwards**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu***

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Mai 2023 |
| **Teitl:** | Polisi Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACaRh) |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Darparu gwybodaeth am y newidiadau diweddar o ran Addysg Ryw a'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru. Sicrhau bod gennym ni fel Awdurdod Lleol bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb addas y gall yr ysgolion ei fabwysiadu a'i addasu. Bydd y polisi yn cefnogi'r ysgolion i ymgorffori'r cwricwlwm newydd a bydd yn darparu cymorth, gwybodaeth, cysondeb ac eglurder. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |

**CEFNDIR:**
Daeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob ysgol gynradd a'r ysgolion uwchradd hynny a ymrwymodd i gyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 ymlaen. Yn yr ysgolion uwchradd, bydd hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, gan ddechrau gyda Blwyddyn 7.

I rai, mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn bwnc sensitif. Mae grŵp o'r enw *Public Child Protection Wales* wedi herio Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn a gynigir o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac roedd Adolygiad Barnwrol ar 15fed o Dachwedd 2022. Ar 22ain o Ragfyr 2022 roedd y llys o blaid Llywodraeth Cymru ar bob cyfrif.

**Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?**
Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn faes rhyngddisgyblaethol eang a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol. Mae'n cwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau, y tueddfrydau a'r gwerthoedd a fydd yn grymuso dysgwyr i wneud y canlynol:

- cefnogi eu hiechyd a'u lles
- datblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus o bob math, gan gynnwys cydberthnasau â theulu a ffrindiau ac, ymhen amser, cydberthnasau rhamantus a rhywiol
- deall a gwneud synnwyr o'r ffordd y mae cydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu hunaniaeth a'u bywydau eu hunain a rhai pobl eraill
- deall a chefnogi eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill i fwynhau cydberthnasau teg, diogel, iach a boddhaus gydol eu bywydau ac eirioli dros yr hawliau hynny

Mae'r rhan hon o fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: mae'r cod hwn yn nodi'r elfennau dysgu mandadol ar gyfnodau priodol o safbwynt datblygiad
- y canllawiau statudol ategol: mae'r canllawiau hyn yn helpu i ddatblygu addysg cydberthynas a rhywioldeb o fewn cwricwlwm fel elfen hanfodol ynddi ei hun a hefyd fel elfen drawsgwricwlaidd ym mhob Maes

Mae'r Cod hwn yn cynnwys gofynion mandadol, ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y gofynion hyn i'w gweld yn y crynodeb deddfwriaethol yn y canllawiau fframwaith hyn ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb:

- cydberthnasau a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch

Mae'r llinynnau uchod yn cynnwys 6 thema: cydberthnasau; hawliau a thegwch; rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd rhywiol a lles; a thrais, diogelwch a chymorth.

Mae darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gadarnhaol o gydberthnasau a rhywioldeb ac yn adnabod camsyniadau. Nod addysg cydberthynas a rhywioldeb yw grymuso dysgwyr yn unol â'u hanghenion, eu profiadau a'u datblygiad ehangach. Drwy drafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr, gall yr addysg hon ddarparu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n galluogi dysgwyr i fyfyrio ar eu safbwyntiau a'u teimladau ynghylch ystod o faterion, a mynegi'r safbwyntiau a'r teimladau hynny, gan sicrhau hefyd fod y cynnwys yn briodol o safbwynt datblygiad.

Dylai'r hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir o fewn addysg cydberthynas a rhywioldeb gael eu cefnogi gan ddull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac mae hyn yn hollbwysig er mwyn cefnogi lles dysgwyr. Mae hyn yn golygu cysylltu pob agwedd ar yr ysgol yn effeithiol, gan gynnwys y cwricwlwm, polisïau, staff, amgylchedd yr ysgol a'r gymuned, er mwyn cefnogi dysgwyr yn eu haddysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai ysgolion a lleoliadau drafod addysg cydberthynas a rhywioldeb yng nghyd-destun hawliau plant a ddiogelir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai dull gweithredu seiliedig ar hawliau a gefnogir gan degwch fod wrth wraidd y dysgu. Yn unol â gofynion mandadol y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, caiff addysg cydberthynas a rhywioldeb ei darparu mewn ffordd gynhwysol yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall y dysgwyr i gyd weld eu hunain, eu teuluoedd, eu cymunedau a'i gilydd yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r cwricwlwm a dysgu sut i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder. Mae hyn yn cyfrannu at gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn sy'n datblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen ar ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys, wrth gwrs, tegwch o ran rhywedd a chynhwysiant LHDTC+.

Mae gofynion cyfreithiol yn nodi bod yn rhaid i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn briodol o safbwynt datblygiad. Rhaid ymateb felly i anghenion a phrofiadau'r dysgwyr ynghyd a'u gwybodaeth sy'n datblygu'n gyson gan wneud hynny ar adegau ac oedrannau priodol. Hefyd, rhaid i'r adnoddau y bydd yr ysgolion yn eu defnyddio fod yn briodol. Mae gan bob maes o'r cwricwlwm a'r ystod o ddisgyblaethau pwnc o fewn

pob Maes gyfraniad unigryw i'w wneud at yr hyn a ddysgir fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb ac maent ar ffurf tri chyfnod datblygu bras fel a ganlyn.

- Cyfnod 1: o 3 oed
- Cyfnod 2: o 7 oed
- Cyfnod 3: o 11 oed

Mae'r egwyddorion cynnydd ar gyfer y Maes Iechyd a Lles yn cynnig arweiniad ar gynnydd o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai ysgolion sy'n darparu addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr nad yw ei ddealltwriaeth o faterion iechyd rhywiol a lles o bosibl yn cyfateb i'w ddatblygiad. Dylai ysgolion a lleoliadau feddu ar linellau cyfathrebu clir mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb a dylen nhw ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach, gan roi cyfle iddyn nhw ymgysylltu â'r hyn a ddysgir a'r hyn a addysgir fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb.

**Pam mae angen addysg cydberthynas a rhywioldeb?**
Mae'r byd o'n cwmpas yn datblygu'n gyflym ac yn sylweddol. Fel cymdeithas, rydym yn dod yn fwyfwy ymwybodol o:

- newidiadau mewn strwythurau a chydberthnasau teuluol
- newidiadau mewn normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb
- datblygiadau technolegol gan gynnwys dylanwad cynyddol y cyfryngau cymdeithasol a chynnydd yn y defnydd o ddulliau cyfathrebu a dyfeisiau digidol
- newidiadau i gyfreithiau a hawliau sy'n ymwneud â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb

Yn y cyd-destun hwn, mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cynnig cefnogaeth bwysig er mwyn galluogi dysgwyr i ddelio â'r newidiadau hyn. Mae deall sut mae ffurfio, datblygu a chynnal cydberthnasau yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac agweddau a fydd o gymorth iddyn nhw yn eu cydberthnasau eu hunain gydol eu bywydau.

Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb o ansawdd yn helpu dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â'r hyn y maen nhw’n ei ddysgu a'i brofi. Mae hyn yn eu helpu i ddeall eu gwerthoedd a'u credoau ac eirioli dros barchu a deall pobl eraill. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael addysg gynhwysol a chyfannol o ansawdd uchel am gydberthnasau a rhywioldeb. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n gynhwysol, yn gyfannol ac o ansawdd uchel yn gysylltiedig ag ystod o ddeilliannau cadarnhaol ac amddiffynnol i bob dysgwr a'i gymuned.

**Y SEFYLLFA SYDD OHONI:**
Nid yw’r polisïau presennol yn adlewyrchu’r newidiadau yn y Cwricwlwm i Gymru ac mae angen eu haddasu. Mae’n ofynnol i’r ysgol rannu gwybodaeth â’r rhanddeiliaid e.e. y rhieni, ac mae angen polisi i gefnogi cymuned ehangach yr ysgol gan sicrhau bod pawb yn ymwybodol o’r disgwyliadau a’r gweithdrefnau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y sir ynghyd â dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae’r polisi drafft wedi’i ddatblygu gan nifer o gyfranwyr e.e. yr ysgolion, staff cynhwysiant Ceredigion gan gynnwys swyddogion

ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, amddifadedd a diogelu, elusen iechyd rhywiol Brook a'r Cydlynwyr Ysgolion Iach. Mae'r ysgolion wedi derbyn copi drafft o'r polisi ac maent yn croesawu'r cyfle i fabwysiadu'r polisi ar ôl iddo fod i Gabinet.

Polisi Drafft Cymraeg

| | |
|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** |
| **Argymhellion:** | i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ceredigion<br>ii) Nodi y bydd unrhyw sylwadau a gynigir gan Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel newidiadau i'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| **Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** | Er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Cwricwlwm i Gymru a darparu trosolwg clir o gyfrifoldebau'r ysgolion.<br>Bydd y polisi'n sicrhau bod y dull o gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws Ceredigion yn gyson ac o'r safon uchaf. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd i'r pwyllgor craffu ar 30ain o Fawrth. Pawb o blaid ac yn cefnogi'r polisi a'r argymhellion. |
| **Fframwaith Polisi:** | |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | |
| **Goblygiadau staffio:** | |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | |
| **Risg(iau):** | |
| **Pwerau Statudol:** | |

| | |
|---|---|
| **Papurau Cefndir:** | • Adroddiad craffu<br>• Canllawiau statudol Addysgu Cydberthynas a Rhywioldeb yn Cwricwlwm i Gymru |
| **Atodiadau:** | • Polisi ACaRh Ysgolion Ceredigion 2022- DRAFFT (Atodiad 1)<br>• Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn CiG (Mandadol) |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant |
| **Swyddog Adrodd:** | Gillian Evans (Rheolwr Corfforaethol – ADY, Cynhwysiant a Lles) a Laurie Hughes (Athrawes Ymgynghorol Lles) |
| **Dyddiad:** | 04/04/23 |

Ysgolion Iach Ceredigion

brook

## Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn wedi'i ysgrifennu'n unol â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r Crynodeb Deddfwriaethol (Ionawr 2022) ar gyfer ysgolion a darparwyr addysg yn Awdurdod Lleol Ceredigion.

| | |
|---|---|
| **Enw'r ysgol / y ddarpariaeth** | |
| **Dyddiad cymeradwyo'r polisi gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol / y Pwyllgor Rheoli** | |
| **Dyddiad adolygu'r polisi** | |

| | |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol / y ddarpariaeth hon** | |
| **Enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r Polisi Cydberthynas a Rhywioldeb hwn** | |

## Cynnwys y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn


1. Cyflwyniad
2. Deddfwriaeth ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
3. Polisïau cysylltiedig
4. Cyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
5. Monitro a gwerthuso Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
6. Diogelu a chyfrinachedd
7. Sut beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon?
8. Y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut y caiff ei weithredu
9. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
10. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr dan anfantais
11. Llais y dysgwr mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
12. Gweithio gyda rhieni a gofalwyr
13. Gweithio gydag asiantaethau allanol
14. Adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
15. Atodiad: Adnodd Archwilio - Dull ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

## 1. Cyflwyniad

Diben y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn yw rhoi gwybodaeth am ein darpariaeth o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i holl randdeiliaid (dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a sefydliadau allanol) **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)**.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon yn galluogi pob dysgwr i dyfu a datblygu mewn amgylchedd diogel ac i ddeall sut mae dod yn oedolion iach sy'n gallu meddwl yn feirniadol gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol ac iach ag eraill. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu archwilio, datblygu a meithrin agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb, amrywiaeth o ran rhywedd a chydberthnasau llawn parch, ac mae'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn yn hybu dulliau ehangach o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol, ac achosion o gam-drin ac aflonyddu rhwng cyfoedion.

Wrth i'r byd o'n cwmpas esblygu yn gyflym ac yn sylweddol byddwn yn cynnal hawliau dysgwyr, dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i addysg (Erthygl 28) sy'n eu paratoi i ddeall pobl eraill (Erthygl 29) trwy Gwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol, yn gyfannol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyfranogol.

Mae **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn cydymffurfio'n llawn â'r ddyletswydd statudol gyfreithiol a nodwyd yng Nghod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Llywodraeth Cymru, ac â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym yn cynnig cyfle i ddysgwyr fynegi barn am y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gyflwynir iddynt, ac yn cynorthwyo rhieni/gofalwyr i ddeall pam y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol o safon yn hollbwysig i ddatblygiad a gwaith dysgu pob dysgwr.

## 2. Deddfwriaeth ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn un o'r gofynion statudol yn fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr.

Caiff y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei gyhoeddi mewn deddfwriaeth dan Adran 8 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac mae'n datgan yn glir y gofynion gorfodol cyfreithiol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y mae'n rhaid i ysgolion a darparwyr addysg eu bodloni. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed yng Nghymru.
- Ni chaniateir mwyach i rieni/gofalwyr dynnu eu plentyn/person ifanc allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Bydd ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm eu hunain ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ond mae'n rhaid i'r cynnwys gael ei osod yng nghyd-destun y llinynnau dysgu bras a chysylltiedig hyn:
    - Cydberthnasau a hunaniaeth
    - Iechyd rhywiol a lles
    - Grymuso, diogelwch a pharch.
- Rhaid i'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol i ddatblygiad y dysgwyr. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried ystod o ffactorau sy'n cynnwys oed y dysgwr; ei wybodaeth a'i aeddfedrwydd; ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo, a rhagweld ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol. Bydd dysgu o fewn y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gysylltiedig â'r cyfnodau canlynol:
    - **Cyfnod 1**: o 3 oed
    - **Cyfnod 2**: o 7 oed
    - **Cyfnod 3**: o 11 oed.

Mae'r ddolen gyswllt hon yn amlinellu'r dysgu sy'n ddisgwyliedig ym mhob cyfnod, o dudalen 5 ymlaen.

- Mae'n rhaid i'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynnwys dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd, ac o amrywiaeth o ran cydberthnasau, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

Caiff Canllawiau Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (2022) eu cyhoeddi dan Adran 71 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a bwriedir iddynt gynorthwyo'r sawl sy'n gyfrifol am gynllunio'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer eu hysgol/darpariaeth addysg, fel y nodwyd yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010. Dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, rhaid i ysgolion beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn dysgwyr ar sail eu hoed, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, neu gyfeiriadedd rhywiol (a elwir ar y cyd yn *nodweddion gwarchodedig*). Rhaid i ysgolion/darparwyr addysg hefyd wneud addasiadau rhesymol i leihau anfantais.

Mae **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn mynd ati i wrthsefyll pob math o wahaniaethu gan hybu cysylltiadau da a pharch rhwng pawb yn ein cymuned a rhwng dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr/aelodau'r pwyllgor rheoli a phartneriaid.

## 3. Polisïau cysylltiedig

Mae'r sawl sydd â chyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn ymwybodol o bolisïau perthnasol yr ysgol, sy'n ategu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac yn glynu wrth y polisïau hynny. Maent yn cynnwys polisïau ynghylch:

- Cyfrinachedd
- Diogelu / amddiffyn plant

- Gwrth-fwlio (gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig)
- Camddefnyddio sylweddau
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Diogelwch ar-lein (gweler dogfen Llywodraeth Cymru: Secstio: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu dysgwyr)
- Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau ar gyfer polisïau ynghylch pobl drawsryweddol, a fydd yn cael eu rhyddhau er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch; disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod tymor yr haf (2023) a dylid eu cynnwys yn y polisi hwn wedi iddynt gael eu cyhoeddi.

*Dylid adolygu ac addasu'r rhestr o bolisïau sydd yn yr adran hon er mwyn adlewyrchu polisi ac ymarfer sy'n benodol i'ch ysgol chi.*

## 4. Cyfrifoldeb am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Yn unol â dull ysgol gyfan o weithredu, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gyfrifoldeb i bawb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)**. Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethu, y Pennaeth, yr Uwch-dîm Arwain a'r Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rolau penodol i'w cyflawni o ran sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyflwyno mewn modd gofalus, ystyriol a llwyddiannus, ac o ran sicrhau amgylchedd diogel i bob dysgwr.

**Rôl Corff Llywodraethu'r Ysgol/Darparwr**

Rôl Corff Llywodraethu **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yw:

- Pennu'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i awdurdodi, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

- Sicrhau bod y ddarpariaeth o ran cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i nodi yn glir yn y datganiad cwricwlwm lefel uchel y mae'n rhaid i'r ysgol ei gyhoeddi.
- Sicrhau bod y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gyfredol a'i fod yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
- Sicrhau bod y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei rannu'n eang ar draws cymuned yr ysgol gyfan.

**Rôl y Pennaeth a'r Uwch-dîm Arwain**

Rôl y Pennaeth a'r Uwch-dîm Arwain yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yw:

- Cydlynu'r gwaith o lunio Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** trwy gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol gan sicrhau cyfathrebu effeithiol.
- Rhoi gwybod i'r holl staff a'r holl oedolion sy'n ymwneud â darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol am gynnwys y polisi a'i oblygiadau iddyn nhw fel darparwyr.
- Asesu anghenion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff yr ysgol sy'n ymwneud â'r rhaglen, a cheisio ymateb i'r anghenion hynny â hyfforddiant proffesiynol addas.
- Darparu cymorth i'r Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lle bo'n briodol, sy'n cynnwys cynorthwyo gydag unrhyw heriau gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr.
- Pennu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a dyrannu'r cyllid hwnnw er mwyn cynorthwyo gyda chostau adnoddau/hyfforddiant proffesiynol/sefydliadau allanol.
- Adolygu'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gwneud newidiadau a diwygiadau priodol bob blwyddyn yn ôl yr angen.

**Rôl yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Rôl yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yw:

- Datblygu a gweithredu Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb **priodol i ddatblygiad** ar gyfer pob dysgwr, yn unol â'r gofynion statudol a amlinellir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Monitro a gwerthuso Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn cydweithrediad ag arweinwyr pwnc eraill er mwyn sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei hintegreiddio'n effeithiol ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.
- Ysgol/Darpariaeth Uwchradd yn unig: Cysylltu ag ysgolion bwydo a chreu cysylltiadau priodol â nhw, er mwyn sicrhau parhad a datblygiad o'r dysgu sy'n digwydd yng Nghyfnod 2.
- Monitro a gwerthuso'r cynllun gwaith ac addasrwydd adnoddau.
- Sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei adlewyrchu yn y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a bod cymorth emosiynol yn cael ei ddarparu.
- Cysylltu ag asiantaethau allanol a chydlynu eu hymwneud â'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lle bo'n briodol.
- Cysylltu â rhieni a gofalwyr os oes angen ynghylch y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Cysylltu â'r Awdurdod Lleol a'r Tîm Ysgolion Iach.

## 5. Monitro a gwerthuso Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn monitro'r gwaith o weithredu'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a dylid adolygu a diweddaru'r polisi bob blwyddyn yn unol ag archwiliad diogelu'r awdurdod lleol.

Wrth adolygu'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ymgynghorir â dysgwyr, athrawon, llywodraethwyr, teuluoedd ac asiantaethau allanol (lle bo'n berthnasol) er mwyn sicrhau bod y polisi'n effeithiol a'i fod yn bodloni gofynion statudol.

Caiff y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei fonitro a'i werthuso gan yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn gyfredol a'i fod yn diwallu anghenion pob dysgwr.

## 6. Diogelu a chyfrinachedd

Mae'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn cynorthwyo dysgwyr i allu datblygu eu gwybodaeth, eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ynghylch sut mae adnabod ymddygiad sy'n

gwahaniaethu yn erbyn pobl, ymddygiad rhywiol niweidiol, cydberthnasau afiach a chydberthnasau lle mae cam-drin/trais yn digwydd, gan sicrhau ar yr un pryd bod pob dysgwr yn datblygu dealltwriaeth o beth yw cydsyniad, sy'n cynnwys datblygu sgiliau ynghylch sut mae rhoi cydsyniad a'i dynnu yn ôl.

Mae'n bwysig bod holl staff yr ysgol yn cael yr Hyfforddiant Diogelu priodol a'u bod yn deall bod dyletswydd arnynt i ddilyn Protocol Diogelu **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)**, a fydd yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 / Protocol AALl Ceredigion, os amheuir y gallai dysgwr fod wedi dioddef niwed sylweddol neu fod perygl i ddysgwr ddioddef niwed o'r fath.

Gallai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon, a gaiff ei chyflwyno mewn amgylchedd cynhwysol a diogel, arwain at fwy o achosion o ddatgelu gwybodaeth gan ddysgwyr. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael gwybod mewn modd sensitif nad oes modd i staff yr ysgol/y ddarpariaeth addysg warantu y bydd gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol os byddant yn datgelu unrhyw beth iddynt, oherwydd bod dyletswydd ar y staff i ofalu amdanynt ac adrodd ynghylch unrhyw beth sy'n achosi pryder. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael cymorth digonol gan aelod priodol o staff.

Os yw'r staff yn amau neu'n nodi pryder o ran diogelu, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhoi gwybod yn syth i Berson Diogelu Dynodedig yr ysgol neu, yn absenoldeb yr unigolyn hwnnw, i'r Dirprwy-berson Diogelu Dynodedig, a fydd yn gyfrifol am gymryd y camau gweithredu priodol. Nid cyfrifoldeb staff yw datgelu cyfeiriadedd rhywiol dysgwr neu'i hunaniaeth o ran rhywedd i bobl eraill heb ganiatâd y dysgwr.

Lle bo'n briodol, yn achos dysgwyr 13 oed a hŷn, gall staff roi gwybodaeth i ddysgwyr/eu cyfeirio at wybodaeth am ddulliau atal cenhedlu a gwybodaeth ynghylch ble y gallant gael gafael ar ddarpariaeth leol o ran iechyd rhywiol. Cofiwch fod Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr) yn datgan na all pobl ifanc dan 13 oed gydsynio i weithred rywiol, felly os bydd dysgwr dan 13 oed yn datgelu ei fod/ei bod yn cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, rhaid dilyn Protocol Diogelu **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)**.

Mae Estyn yn cydnabod bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn amlwg iawn ym mywydau dysgwyr ifanc, ac mae'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn sicrhau bod dull ataliol a rhagweithiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar argymhellion ar gyfer ysgolion, yn dilyn adroddiad Estyn, ac mae disgwyl i'r rhain fod ar gael yn ystod tymor yr hydref (2022).

Mae hynny'n cynnwys rhoi sicrwydd i ddysgwyr y bydd staff yr ysgol/y ddarpariaeth addysg yn cymryd pob achos o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol lle bo'n briodol i ymdrin ag unrhyw achosion o hynny.

Er mwyn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a diogel i ddysgwyr drwy gydol eu Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, bydd yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a staff eraill yr ysgol/y ddarpariaeth addysg yn cael mynediad rheolaidd i gyfleoedd dysgu proffesiynol o safon. Bydd hynny'n sicrhau bod y staff yn teimlo'n barod ac yn alluog i gynorthwyo dysgwyr gyda phynciau megis cydberthnasau, cydsyniad, rhywioldeb, y gyfraith, amrywiaeth, newid rhywedd, ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

## 7. Sut beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon?

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon yn amddiffynnol, yn ataliol ac wedi'i hategu gan ddull gweithredu sy'n briodol i ddatblygiad, sy'n cael ei arwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyried rhywioldeb a chydberthnasau pobl mewn modd cadarnhaol.

At hynny, dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon:

- Ddarparu ffeithiau cywir sy'n briodol i ddatblygiad.
- Defnyddio terminoleg fiolegol gywir yn ystod gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Hybu diwylliant dysgu diogel, cadarnhaol, agored a gonest lle nad oes stigma, cywilydd, ofn nac euogrwydd ac sy'n gadarnhaol o ran bod yn gynhwysol, yn llawn parch ac yn ddiogel i bob dysgwr.
- Hybu ymwybyddiaeth feirniadol o wahanol agweddau a gwerthoedd mewn cysylltiad ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus, a'u grymuso i allu eu deall eu hunain a deall pobl eraill.
- Herio stereoteipiau a chanfyddiadau niweidiol, gan gynnwys normau o ran rhywedd.

- Rhoi mynediad i wybodaeth wrthrychol, gefnogol, gynhwysol a phriodol i ddatblygiad, am dyfu i fyny, newidiadau i'r corff, cydberthnasau iach, ac iechyd rhywiol ac atgenhedlol.
- Darparu gwybodaeth briodol i ddatblygiad ynghylch ble y gall dysgwyr gael gafael ar wasanaethau cymorth a help mewn cysylltiad ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Cael ei chydgynhyrchu gan gymuned yr ysgol gan gynnwys llais y dysgwyr, rhieni a gofalwyr a chynnwys mewnbwn gan randdeiliaid perthnasol sy'n cynorthwyo i'w darparu. Gweler y ddogfen Cynllunio eich Cwricwlwm.
- Bod yn briodol i ddatblygiad. Gweler Cyfnodau'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Asesu dysgwyr er mwyn ceisio deall ble maen nhw arni o ran eu datblygiad.

Mae'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn galluogi dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau y mae pob un ohonynt yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch rhwng pawb. Dyma sylfaen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ein hysgol/darpariaeth addysg ni.

## 8. Y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut y caiff ei weithredu

Mae **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn ceisio darparu Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb plwraliaethol o safon, sy'n gynhwysol ac yn ffeithiol gywir ac sy'n annog dysgwyr i ymwneud yn feirniadol â'r deunydd a gaiff ei gyflwyno iddynt. Caiff y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei addysgu gan staff cymwys sy'n defnyddio themâu trawsbynciol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad mewn gwersi, gan ddefnyddio strategaethau a thechnegau addysgu sy'n cyd-fynd ag anghenion y dysgwyr. Mae hynny'n golygu y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei chyflwyno nid yn unig trwy Iechyd a Lles ond trwy bob Maes Dysgu a Phrofiad.

***Os yw'r ysgol/y ddarpariaeth addysg yn ddarpariaeth gynradd:***
Caiff y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei addysgu trwy'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a themâu trawsbynciol, a bydd yn cynnwys y pum

datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Caiff pynciau eu haddysgu yn unol â'r gofynion a amlinellir yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 2 y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

***Os yw'r ysgol/y ddarpariaeth addysg yn ddarpariaeth uwchradd:***
Wrth i'r ysgol gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn raddol (gan ddechrau gyda Blwyddyn 7 yn 2022/23), bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd yn cael ei haddysgu trwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles i rai grwpiau blwyddyn. Caiff pynciau eu haddysgu yn unol â'r gofynion a amlinellir yng Nghyfnod 3 y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. (Os bydd eich ysgol yn dewis cyflwyno'r cwricwlwm newydd i bob grŵp blwyddyn o 2022/23 ymlaen, bydd angen addasu'r adran hon i adlewyrchu hynny.)

Dylai'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn seiliedig ar y tri llinyn a amlinellir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- **Cydberthnasau a hunaniaeth**: helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus â phobl eraill, a'u helpu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau.
- **Iechyd rhywiol a lles**: helpu dysgwyr i fanteisio ar ffynonellau gwybodaeth ffeithiol am eu hiechyd rhywiol ac atgenhedlol a'u lles, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus drwy gydol eu bywyd.
- **Grymuso, diogelwch a pharch**: helpu i amddiffyn dysgwyr rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol, gan eu cynorthwyo i wybod pryd, sut a ble y gallant ofyn am gymorth a chyngor.

Os bydd dysgwyr yn gofyn cwestiynau i staff yn ystod gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (a allai fod o natur sensitif), ni fydd y staff byth yn rhannu eu profiadau personol a byddant yn defnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth ddarparu atebion sy'n briodol, o ran oed a chyfnod, i oed ac aeddfedrwydd y dysgwr neu ddysgwyr eraill a allai fod yn gwrando.

## 9. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Rhaid darparu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhaid i staff **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion dysgwyr unigol y gallai eu

hanghenion ychwanegol olygu nad yw eu dealltwriaeth o iechyd rhywiol a lles yn cyfateb i'w hoed cronolegol. Gall dysgwyr sydd ag anghenion mwy difrifol fod yn agored iawn i niwed, felly mae cyfrifoldeb ar athrawon i gynnwys elfennau o'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y ddarpariaeth o oed ifanc iawn er mwyn sicrhau bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth o 'berygl dieithriaid' a 'chyffwrdd preifat a chyhoeddus' erbyn iddynt gyrraedd y glasoed.

Rhaid i bob aelod o staff, gan gynnwys staff ategol, ffisiotherapyddion, nyrsys a gofalwyr fod yn ymwybodol o ddull yr ysgol o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 10. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr dan anfantais

Rhaid i'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ddangos ymarfer teg a bod ar gael i bob dysgwr, waeth beth yw ei amgylchiadau personol neu gymdeithasol. Bydd ysgol a darpariaeth deg yn cydnabod ac yn deall bod manteision a rhwystrau'n bodoli ym maes addysg, yn cydnabod bod profiad pob dysgwr o addysg yn wahanol, ac yn gweithio'n galed i unioni unrhyw anghydbwysedd addysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hynny'n golygu y bydd ysgol neu ddarpariaeth yn cynnig darpariaeth ychwanegol er mwyn goresgyn anfantais, ac yn neilltuo mwy o amser ac yn gwneud mwy o ymdrech i gynorthwyo pobl ifanc sydd dan anfantais.

I'r perwyl hwnnw, mae'n hanfodol bod ysgol/darpariaeth yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i ymwneud â'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Weithiau, gallai fod yn fuddiol ailadrodd sesiynau neu gynnig cyfleoedd i drafod ymhellach. Yn aml, yn y sefyllfa hon, bydd angen i athrawon a staff ysgol chwarae rôl rhiant a chynnig cymorth parhaus. Mewn achosion mwy cymhleth, dylai ysgol/darpariaeth ystyried a oes gan y person ifanc hawl i gael mynediad i'r rhan hon o'r cwricwlwm mewn modd sydd wedi'i deilwra ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Un camsyniad cyffredin yw bod amddifadedd yn gysylltiedig â thlodi a dim byd arall. Mae'n wir, wrth gwrs, bod dysgwyr sydd dan anfantais yn byw mewn tlodi; fodd bynnag, mae anfantais wirioneddol yn ehangach o lawer na hynny. Yn y canolbarth, er enghraifft, rhaid i bob dysgwr oresgyn tlodi gwledig ac mae ganddynt fynediad gwael i wasanaethau a chyfleoedd o'u cymharu â dysgwyr ar draws ardaloedd trefol yng Nghymru. O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gallai fod angen

cymorth ychwanegol ar deuluoedd i gynnwys pobl ifanc mewn sgyrsiau amrywiol a chytbwys am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n briodol i'w datblygiad. Unwaith eto, gallai fod yn bwrpasol i ysgolion ddatblygu man diogel, gyda gweithiwr proffesiynol addas, lle gall pobl ifanc siarad yn agored am unrhyw gwestiynau, pryderon neu gredoau a allai fod ganddynt.

## 11. Llais y dysgwr mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau a wneir am eu bywyd (Erthygl 12). Er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn mynd i'r afael â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, bydd **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn ymgynghori â dysgwyr, yn sicrhau eu bod yn ymwneud â llunio cynnwys y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac yn cadw hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodir gan ddysgwyr.

Bydd yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnal ymarferion gwerthuso rheolaidd gyda dysgwyr er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mor gadarn, mor bwrpasol ac mor ddiddorol ag sy'n bosibl.

## 12. Gweithio gyda rhieni a gofalwyr

Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi dileu hawl rhieni a gofalwyr i dynnu eu plant allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – mae'n **orfodol** i bob dysgwr 3-16 oed. Fodd bynnag, mae **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** yn cydnabod bod gan rieni a gofalwyr ddylanwad pwysig a rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflwyno negeseuon am ryw a chydberthnasau. Rhieni a gofalwyr yw'r bobl allweddol o safbwynt addysgu eu plant am ryw a chydberthnasau ac o safbwynt cynnal diwylliant ac ethos y teulu. O ganlyniad, rydym yn gweld Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel cyfrifoldeb a rennir ac rydym yn ceisio rhannu

gwybodaeth â rhieni a gofalwyr am y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hwn, y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac adnoddau lle bo'n bosibl.

Mae'r ysgol yn croesawu unrhyw sylwadau gan rieni a gofalwyr, sy'n ceisio gwella darpariaeth yr ysgol yn y maes hwn. Mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni a gofalwyr yn anhapus ag elfennau o'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gofynnir iddynt ddilyn Polisi Cwynion **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)**.

## 13. Gweithio gydag asiantaethau allanol

Er mai **(nodwch enw'r ysgol/y ddarpariaeth)** sy'n gyfrifol am ddarparu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rydym yn cydnabod gwerth cynnwys asiantaethau allanol priodol/siaradwyr gwadd i ategu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ni fwriedir i'r mewnbwn hwn gymryd lle na disodli'r hyn a gyflwynir gan yr ysgol/y ddarpariaeth addysg o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Os bydd asiantaeth allanol/siaradwr anhysbys yn cysylltu â'r ysgol/y ddarpariaeth addysg, gofynnir am gyngor ynghylch addasrwydd yr asiantaeth honno/y siaradwr hwnnw.

Arfer da wrth weithio gydag asiantaethau allanol/siaradwyr gwadd:

- Ymchwilio er mwyn sicrhau bod gan yr asiantaeth allanol y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd cywir a bod ganddi enw da dibynadwy a phroffesiynol am weithredu mewn modd cyfannol a chynhwysol yng nghyswllt Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Cytuno ar nodau a deilliannau dysgu ar gyfer yr ymweliad er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn briodol i oed y dysgwyr dan sylw.
- Sicrhau bod gan yr asiantaeth allanol/siaradwyr gwadd wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod yn cael eu hystyried yn briodol o safbwynt Gweithdrefnau Diogelu.
- Sicrhau bod yr ysgol/y ddarpariaeth addysg wedi rhannu gwybodaeth â'r asiantaeth allanol am bolisïau'r ysgol ac am ddisgwyliadau'r ysgol ar gyfer yr ymweliad.
- Bydd y staff yn rhoi gwybod i'r dysgwyr am yr ymweliad gan asiantaeth allanol/siaradwr gwadd ac yn eu paratoi ar gyfer yr ymweliad, gan roi amser iddynt baratoi cwestiynau ymlaen llaw.

- Bydd staff yn aros yn yr ystafell ddosbarth drwy'r amser oherwydd eu bod yn gyfrifol am y dysgwyr ac am reoli ymddygiad.

## 14. Adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'n hanfodol bod yr Arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn defnyddio adnoddau priodol i gefnogi'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Yn XXX rydym yn defnyddio'r adnodd canlynol i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr:

- XXXXXXXX

*(Bydd angen i ysgolion addasu'r rhestr hon i adlewyrchu'r adnodd a ddefnyddir yn eu lleoliad nhw.)*

## 15. Atodiad 1: Adnodd Archwilio – Dull ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio'n bennaf gan aelod dynodedig o'r uwch-dîm arwain sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli darpariaeth gyfannol o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

| **Meini prawf llwyddiant** | *Ar waith yn llawn* | *Ar waith yn rhannol* | *Ddim ar waith* | *Sylwadau* |
|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth ac ymrwymiad** | | | | |
| Mae gan aelod o'r uwch-dîm arwain gyfrifoldeb cyffredinol am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Ceir aelod o staff sy'n cydlynu'r gwaith o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Ceir llywodraethwr a enwir ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ceir cynllun gweithredu i sicrhau bod y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus. | | | | |
| Mae gan yr ysgol bolisi cyfredol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sydd wedi'i ddatblygu gan staff gan ymgynghori â dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr, ac sydd wedi'i gytuno gan y Corff Llywodraethu. | | | | |
| **Deall anghenion dysgwyr a chymuned yr ysgol** | | | | |
| Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Mae profiadau amrywiol dysgwyr, megis grwpiau agored i niwed a'r sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu cydnabod ac mae eu hanghenion o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael eu diwallu. | | | | |
| Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion o ran iechyd yng nghymuned leol yr ysgol, sy'n berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| **Ymgysylltu** | | | | |
| Mae'r polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i rannu â phob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr sy'n ymwneud â chyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Mae'r staff yn cael eu cynnwys ac yn ymwneud yn weithredol â datblygu'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r ddarpariaeth o ran y cwricwlwm. | | | | |
| Mae rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth am waith dysgu eu plentyn ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith i rieni/gofalwyr weld deunyddiau addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Darperir gwybodaeth i gynorthwyo rhieni/gofalwyr yn eu rôl fel addysgwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cartref. | | | | |
| Caiff trefniadau eu dilyn ar gyfer rheoli ceisiadau gan rieni i dynnu eu plant allan o addysg rhyw. | | | | |
| **Gweithlu** | | | | |
| Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael hyfforddiant a chymorth priodol. | | | | |
| Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei haddysgu gan staff cymwys, gwybodus a hyderus. | | | | |
| **Cydberthnasau** | | | | |
| Mae'r ysgol yn gallu dangos sut y mae'n meithrin ac yn datblygu cydberthnasau iach rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol. | | | | |
| Mae'r ysgol yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. | | | | |
| **Gwasanaethau cymorth** | | | | |
| Mae cyfraniadau gan asiantaethau allanol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cefnogi ac yn gwella'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac nid ydynt yn disodli gwaith addysgu gan staff yr ysgol. Mae ymwelwyr yn cydymffurfio â pholisi'r ysgol. | | | | |
| Mae dysgwyr yn y sector uwchradd yn cael mynediad i wybodaeth, cymorth a chyngor lleol priodol. | | | | |
| Mae'r ysgol yn ymwneud yn weithredol â gwasanaethau arbenigol, e.e. y nyrs ysgol. | | | | |
| **Amgylchedd dysgu** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Mae dysgwyr yn gallu cael mynediad i gymorth a chyngor mewn ardaloedd dynodedig o'r ysgol. | | | | |
| Mae trefniadau wrth gefn ar waith i gynorthwyo plant a phobl ifanc y gallai'r wers gael effaith emosiynol arnynt ac a allai deimlo bod angen iddynt adael. | | | | |
| **Cwricwlwm** | | | | |
| Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Mae trosolwg o'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i ddatblygu sy'n nodi camau cynnydd yn glir. | | | | |
| Caiff adnoddau eu dewis yn ofalus o safbwynt eu haddasrwydd, a chânt eu hadolygu o safbwynt eu heffeithiolrwydd. | | | | |
| Defnyddir ystod o strategaethau addysgu a dysgu sy'n annog cyfranogiad, gyda chyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu gwerthoedd, sgiliau ac agweddau cadarnhaol yng nghyswllt Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | | | | |
| Mae asesu cyflawniad dysgwyr o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i gynllunio yn rhan o'r rhaglen. | | | | |
| <u>Camau nesaf</u><br><br>Cwblhawyd gan: | | Dyddiad: | | |

*(Addaswyd o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 019/2010, 'Whole School RSE Audit Tool': 2018 y Fforwm Addysg Rhyw, Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, Gwobr Ansawdd Genedlaethol gan Gynllun Ysgolion Iach Sir Fynwy Mai 2022)*

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD:** | **2 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Cymunedau sy'n Dysgu ar y Polisi Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACaRh)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023** |

**CEFNDIR:**

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu y Polisi Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACaRh) yn eu cyfarfod ar 30 Mawrth 2023.

Darparodd yr Athrawes Ymgynghorol Llesiant wybodaeth am y newidiadau diweddar o ran Addysg Ryw a'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb addas y gallai'r ysgolion ei fabwysiadu a'i addasu. Byddai'r polisi yn cefnogi'r ysgolion i ymgorffori'r cwricwlwm newydd a byddai'n darparu cymorth, gwybodaeth, cysondeb ac eglurder. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Y Cefndir
- Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
- Y Cynnwys Polisi
- Y Sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth i Ysgolion

CYTUNWYD i argymell bod y Cabinet yn:

(i) mabwysiadu cynnwys Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ceredigion; a
(ii) nodi y byddai unrhyw sylwadau a gynhigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel newidiadau i'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**Y Cynghorydd Endaf Edwards**
**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 11

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 2 Mai 2023 |
| **Teitl:** | Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf |
| **Pwrpas yr adrodd:** | Darparu gwybodaeth am y Strategaeth Dai Leol a gofyn am ganiatâd i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth<br><br>Er gwybodaeth ac er penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd |

**CEFNDIR:**
O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol swyddogaeth strategol o ran y modd y mae'r farchnad dai leol yn gweithio. Un o'r prif ffyrdd y maent yn cyflawni'r swyddogaeth honno yw drwy greu Strategaeth Dai Leol. Y nod yw bod yr awdurdod lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer tai ymhob sector a'i fod yn sicrhau y cyflenwir tai priodol a gwasanaethau cysylltiedig er mwyn bodloni'r anghenion lleol.

Mae'r Strategaeth Dai Leol bresennol wedi bod ar waith ers 2018 ac roedd y Strategaeth honno yn gynllun ar gyfer 5 mlynedd. O ystyried hyn, cafodd y Strategaeth Dai ei hadolygu a'i diweddaru. Mae Uwch Swyddogion y Tîm Tai, partneriaid allweddol a Rheolwyr Corfforaethol pob un o'r Pyrth wedi bod yn rhan o'r adolygiad ac mae llawer o waith wedi'i wneud o ran casglu data a dadansoddi.

Mae'r Strategaeth Dai ddiwygiedig yn amlinellu'r weledigaeth am y 5 mlynedd nesaf:

**"Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i fodloni anghenion trigolion y sir yn awr ac yn y dyfodol"**

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
Diben y Strategaeth Dai Leol yw amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer tai yn y sir a phennu blaenoriaethau allweddol wrth nodi'r heriau a gyfyd yn ystod y 5 mlynedd nesaf (2023-2028) ac ymateb iddynt.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl bwysig tai a'r modd y mae'n effeithio ar iechyd a lles unigolion, teuluoedd, a'r gymuned ehangach. Bydd y Strategaeth hefyd yn parhau i fod yn ystyriol o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'n bwysig ein bod ni'n deall ac yn ystyried gofynion cenedlaethau'r dyfodol, eu hanghenion a'r dewisiadau y maent yn eu gwneud gan ystyried sut y gallwn ni ddarparu ar eu cyfer. Mae angen tai arnom y gellir eu haddasu ac sy'n addas i bobl ar wahanol adegau yn eu bywydau Bydd hyn yn cyfrannu'n fawr at sicrhau bod pobl Ceredigion yn iachach a bydd yn gwneud gwell defnydd o'r tai sydd eisoes ar gael. Bydd hefyd yn codi safonau ac yn gwella amodau byw pobl.

Mae angen i ni ddarparu tai o ansawdd da mewn mannau addas a fydd yn caniatáu i bobl fyw yn eu cartrefi'n hirach; pe gwneid hynny gellid creu cymunedau mwy cydnerth a chysylltiedig, sy'n elfen allweddol o gyflawni gweledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, mae'r Strategaeth yn rhoi sylw priodol i'r strategaethau lleol, yn benodol Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion a'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes.

Mae'r heriau allweddol wedi'u nodi yn y Strategaeth Dai. Mae'r darlun cenedlaethol sy'n cynnwys y dirwasgiad economaidd, newidiadau mewn deddfwriaeth a'r gwaith adfer ar ôl y Pandemig i gyd yn ffactorau pwysig sy'n effeithio ar y sefyllfa yng Ngheredigion. Mae'r materion sy'n effeithio ar Geredigion fel a ganlyn:

- Costau tai uchel
- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Digartrefedd
- Natur wledig y sir
- Diffyg trafnidiaeth
- Prinder sgiliau a gweithwyr yn y diwydiant adeiladu

Yn ogystal, oherwydd y broblem Ffosffadau yn y Sir, bydd angen i ni feddwl yn wahanol am y ffordd yr ydym ni'n cynyddu'r stoc dai gan barhau i wella amodau byw ein trigolion a'u cefnogi. Felly, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth a gasglwyd, rydym wedi datblygu dwy brif flaenoriaeth a dau amcan i gyd-fynd â nhw:

- Cynyddu'r cyflenwad tai a gwella cyflwr tai
    - Darparu tai sy'n bodloni anghenion ein cymunedau
    - Sicrhau bod trigolion yn byw mewn llety addas a chynaliadwy o ansawdd da
- Cefnogi trigolion yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain
    - Sicrhau mai prin yw'r achosion o ddigartrefedd, nad yw pobl yn ddigartref am gyfnod hir ac nad yw digartrefedd yn brofiad sy'n cael ei ailadrodd.
    - Darparu cymorth amserol a phriodol i sicrhau y gall pobl fyw'n annibynnol

Caiff y Strategaeth ei chyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o wireddu'r Strategaeth. Er mwyn monitro ein cynnydd a'n llwyddiant, bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu a'i rannu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd ein Partneriaeth Tai Strategol.

Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet gytuno i'r Strategaeth, ein bwriad yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Dai ym mis Mai a mis Mehefin 2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | | Oes |
| | ***Crynodeb:*** | | |
| | **Hirdymor:** | Bydd y Strategaeth yn para 5 mlynedd. Ar ôl 5 mlynedd, caiff y Strategaeth ei hadolygu i sicrhau ei bod yn parhau i fodloni anghenion y trigolion a | |

chaiff ei newid yn ôl yr angen. Mae’r broses o ddatblygu tai yn mynd i’r afael â materion yn yr hirdymor.

Rhoddir sylw i anghenion yn y tymor byr drwy ymateb ar unwaith a darparu cymorth.

**Cydweithio:** Cafodd y Strategaeth ei datblygu ar y cyd â’n Partneriaid a bydd dal angen cefnogaeth y Partneriaid arnom er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y Strategaeth a'i chyflwyno’n llawn. Dim ond drwy weithio â’n partneriaid yn y Sector Cyhoeddus a’r Trydydd Sector y gallwn ni wireddu’r Strategaeth.

**Cynnwys:** Gwahoddwyd rhanddeiliaid i weithdy ynglŷn â'r Strategaeth ac anogwyd hwy i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. Mae diweddariadau am y modd y mae’r Strategaeth yn datblygu yn cael eu rhoi'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Tai Strategol ac mae aelodau’r Bartneriaeth yn eu hystyried. Cynhelir proses ymgynghori ffurfiol cyn mabwysiadu’r Strategaeth.

**Atal:** Mae’r gair Atal yn rhan annatod o’r Strategaeth gan mai un o’r nodau yw sicrhau bod pobl yn medru bod yn annibynnol a sicrhau cymunedau cynaliadwy. Bydd gan y Gwasanaethau Tai rôl bwysig o ran atal ac uwchgyfeirio.

Bydd gwella ac addasu cyflwr tai yn hybu annibyniaeth a chynaliadwyedd. Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa dai’r sir, gan wella ansawdd tai a sicrhau eu bod mewn mannau addas lle bydd pobl yn medru byw yn eu cartrefi’n hirach. Mae gan y Strategaeth y potensial i greu cymunedau mwy cydnerth a chysylltiedig a gwella iechyd a lles pobl. Gan fod nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y Sir, bydd angen sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod yr hyn a wneir i fodloni’r anghenion o ran tai yn cynnwys y Gymraeg ac yn ei chryfhau.

**Integreiddio:** Mae'r Gwasanaeth Tai wedi'i wreiddio'n llawn yn y model Llesiant Gydol Oes, ac mae’n gweithio'n gyfannol gyda gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r Strategaeth yn annog cydweithio a gwaith partneriaethol i sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni.

| | |
|---|---|
| | Cafodd y Strategaeth ei datblygu gyda'n Partneriaid a bydd yn parhau i gael ei monitro drwy gyfarfodydd y Bartneriaeth Tai Strategol er mwyn sicrhau bod canlyniadau allweddol yn cael eu cyflawni. |
| **Argymhelliad:** | Bod y Cabinet yn cymeradwyo fersiwn DDRAFFT Strategaeth Dai Leol 2023-2028 fel y gellir dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth. |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth dai strategol. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd y Pwyllgor Craffu wedi trafod y Strategaeth. Y disgwyl oedd y byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 13 Ebrill. |
| **Fframwaith Polisi:** | Amherthnasol |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | • Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth<br>• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach<br>• Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi Cysylltu'n Dda â'i Gilydd |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau staffio:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Amherthnasol |
| **Risgiau:** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Atodiad A - Fersiwn ddrafft y Strategaeth Dai<br>Atodiad B – Yr Asesiad Effaith Integredig |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal |
| **Swyddogion Adrodd:** | Llŷr Hughes – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tai<br>Cerys Purches-Phillips – Uwch Swyddog Tai – Strategaeth a Monitro |
| **Dyddiad:** | 09/03/2023 |

Atodiad A

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# TAI I BAWB







# PARTNERIAID

Barcud
Uned 4
Parc Busnes Pont Steffan
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7HH

Ffôn: 0345 606 7654
gwefan: www.barcud.cymru

Caredig Ltd
43 Walter Road
Abertawe
SA1 5PN

Ffôn: 01792 460192
gwefan: www.caredig.co.uk

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA43 0PA

Ffôn: 01545 570881
gwefan: www.ceredigion.gov.uk
www.ceredigionhousingoptions.cymru

Tai Wales & West
Cwrt y Llan
Castell Newydd Emlyn
SA38 9AB

Ffôn: 01239 712000
gwe: www.wwha.co.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os hoffech gael y ddogfen hon yn Saesneg neu mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â cerys.purches-phillips@ceredigion.gov.uk

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Ffeithiau Allweddol | 6 |
| Cyflawniadau Allweddol | 8 |
| Ein Nod | 11 |
| Cynyddu'r cyflenwad a gwella cyflwr tai | 12 |
| * Darparu tai sy'n ateb anghenion ein cymunedau | |
| Sicrhau bod trigolion yn byw mewn llety o ansawdd da, addas a chynaliadwy | 14 |
| * Cefnogi trigolion yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain | 16 |
| * Sicrhau bod digartrefedd yn ddigwyddiad prin, byr, nad yw'n digwydd eto | |
| * Darparu cymorth amserol a phriodol i gynnal byw'n annibynnol | 18 |
| Y Darlun Mawr | 20 |
| Rhoi Ein Strategaeth Ar Waith | 26 |
| Papurau Tystiolaeth | 27 |
| Rhestr Termau | 42 |

# CYFLWYNIAD

Croeso i'n Strategaeth Dai newydd sy'n amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y pum mlynedd nesaf, 2023-2028. Mae Tai i Bawb yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n wynebu gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai yng Nghheredigion.

Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â'r anghenion a'r blaenoriaethau sy'n wynebu'r sir ar gyfer y blynyddoedd 2023-2028 sydd hefyd yn cynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant y cydnabyddwn y gellir eu cefnogi trwy ddatblygiadau tai priodol. Mae tai yn chwarae rhan hollbwysig o ran dylanwadu ar iechyd a llesiant trigolion Ceredigion. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried galwadau cenedlaethau'r dyfodol, eu hanghenion a'u dewisiadau, a sut y gallwn sicrhau ein bod yn darparu ar eu cyfer wrth lunio'r Strategaeth hon.

Gyda phrisiau tai uchel ac incwm isel, mae Ceredigion yn anfforddiadwy i lawer, gan ei gwneud yn anoddach i brynwyr am y tro cyntaf a phobl leol aros yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae gan lawer o'r stoc tai gyfraddau effeithlonrwydd ynni isel, ac mae hyn ynghyd ag incwm isel yn golygu bod llawer o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae arnom angen tai y gellir eu haddasu, a all gynnal pobl ar wahanol adegau yn ystod eu bywydau. Bydd hyn yn gymorth mawr i sicrhau poblogaeth iachach, ochr yn ochr â defnydd gwell o'r stoc tai presennol, safonau ac amodau byw gwell, a chefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, sydd i gyd yn flaenoriaeth.

Gall gwella ansawdd tai sydd wedi'u lleoli'n addas ei gwneud hi'n bosibl i bobl fyw gartref am gyfnod hwy, gyda'r posibilrwydd o greu cymunedau mwy cydnerth a chysylltiedig.

Mae'r Strategaeth Dai yn cysylltu â strategaethau a pholisïau eraill, gan gynnwys Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-2027 a'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027.

Mae Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion yn cynnwys pedwar amcan llesiant, sef:

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd Wedi'u Cysylltu'n Dda

Nod y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant yw sicrhau’r canlynol:

- Dinasyddion o bob oed i gael ansawdd bywyd gwell.
- Gwell rhwydweithiau cymorth i deuluoedd a phobl mewn angen ledled y sir
- Gwell llesiant ac iechyd trwy ymyriadau effeithiol
- Cefnogi rhwydweithiau sefydledig o grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n darparu cefnogaeth ataliol
- Gwell dewis o dai lleol ac ansawdd gwell iddynt

Mae'r Strategaeth Dai yn bwydo'n uniongyrchol i'r amcanion a gynhwysir yn y strategaethau, gan sicrhau synergeddau o ran ymagwedd a chyfeiriad.

Mae pandemig Covid-19 wedi gorfodi newid a heriau ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, ac mae materion pwysig wedi dod i'r amlwg. Mae'r heriau a wynebir yn cynnwys dirwasgiad economaidd, mynd i'r afael â'r argyfwng tai cenedlaethol ac ymateb i ddigartrefedd, gan barhau i ateb anghenion newydd Ceredigion yr un pryd. Mae tai yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod ein trigolion a'n cymunedau yn cael cyfleoedd i lwyddo yn wyneb yr heriau sydd o'n blaenau.

Mae'r Strategaeth hon yn parhau i fod yn ganolbwynt er mwyn i’r holl bartneriaid tai a gwasanaethau cysylltiedig allu nodi, cynllunio a chyflawni gwell darpariaeth gwasanaeth a gwella bywydau trigolion Ceredigion.



**Y Cynghorydd Matthew Vaux - Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

# FFEITHIAU ALLWEDDOL

**33,557**

Cyfanswm yr anheddau, gan gynnwys carafanau a chartrefi symudol

**1715**

Anheddau sy'n ail gartrefi

**3400**

Unedau tai cymdeithasol a fforddiadwy ar gael i'w rhentu

**80**

Unedau o lety dros dro

**1750**

Aelwydydd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Tai Cyffredin (Ionawr 2023)

**120**

Ceisiadau i'r Gofrestr Tai Cyffredin bob mis, ar gyfartaledd

**280**

Gosodiadau Tai Cymdeithasol bob blwyddyn, ar gyfartaledd

**322**

Tai fforddiadwy ychwanegol, ers 2018

**74%**

Eiddo perchen-feddianwyr, y math mwyaf niferus o ddeiliadaeth yn y sir

**9.4%**

Llety rhent cymdeithasol yng Ngheredigion (16% yw cyfartaledd Cymru)

**17%**

Mewn llety rhent preifat yng Ngheredigion (14% yw cyfartaledd Cymru)

**833**

Eiddo gwag

# FFEITHIAU ALLWEDDOL

**690**

Tai Amlfeddiannaeth Trwyddedadwy

**47**

Lleoliadau byw â chymorth

**404**

Unedau o lety Cynllun Gwarchod yng Ngheredigion

**104**

Unedau Cynllun Gofal Ychwanegol

**£31,162**

Incwm canolrif aelwydydd Ceredigion (CACI Paycheck 2021)

**£262,535**

Pris eiddo cyfartalog yng Ngheredigion (Medi 2022)

**82.4%**

Eiddo heb gyflenwad nwy o'r prif gyflenwad

**24.9%**

Cartrefi mewn tlodi tanwydd

**11,407**

Eiddo ar olew

# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

## TAI I BAWB 2018—2023

**£540,000**
Wedi'i wario ar 10 benthyciad Troi Tai'n Gartrefi

**£510,853**
Wedi'i wario ar 35 benthyciad Gwella Tai

**£3.5m**
Cronfa Cartrefi Cynnes ar gyfer gwresogi ac inswleiddio/uwchraddio

**£511,982**
Wedi'i ennill trwy Gynllun Pwyslais ar yr Incwm y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

**3500**
Datganiadau ar gyfer Cynllun Flex ECO ALI

**£2.5m**
Cyllid refeniw wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 2022/23

**9**
Gwobr wedi'i derbyn ar gyfer Prosiectau Effeithlonrwydd Ynni

**25**
Eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd

**210**
Unedau Tai Cymdeithasol wedi'u datblygu

**56**
Unedau o lety Gofal Ychwanegol ar y safle newydd Maes y Môr

Mae nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yn cynyddu'n flynyddol, a rhagwelir y bydd y cynnydd sylweddol mewn cyllid yn cynnig modd i'r duedd hon gyflymu

| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartrefi Marchnad Cyffredinol net ychwanegol wedi'u caniatáu | 1927 | 2080 | 2198 | 2112 | 2333 | 2413 |
| Tai Fforddiadwy net ychwanegol wedi'u caniatáu | 800 – 42% | 838 – 40% | 875 – 40% | 829 – 39% | 860 – 37% | 901 - 37% |
| Cartrefi Marchnad cyffredinol net ychwanegol wedi'u cwblhau | 1020 | 1104 | 1201 | 1753 | 1901 | 2048 |
| Cartrefi Fforddiadwy net ychwanegol wedi'u cwblhau | 432 – 42% | 450 – 41% | 494 – 41% | 521 – 30% | 640 – 34% | 657 - 32% |

Mae'r tabl uchod yn dangos y Data Monitro Tai Fforddiadwy

Fel Awdurdod Lleol, rydym wedi gweithio'n agos gyda datblygwyr a landlordiaid i ddarparu ystod o dai fforddiadwy yn y sir

Mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Canolraddol i gaffael llety o fewn y sir er mwyn datblygu eiddo arbenigol, gan weithio gyda phartneriaid lleol ac ar draws y Model Gydol Oed a Llesiant

Trwy ddefnyddio'r Polisi Dyraniadau Cyffredin a'r Polisïau Gosodiadau Lleol ategol, mae'r holl ddyraniadau trwy'r Gofrestr Tai wedi sicrhau bod yr eiddo cywir wedi'i ddyrannu i'r teulu cywir, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i leihau maint a galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth

**Dyraniadau Tai Cymdeithasol**

| 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|
| 262 | 314 | 267 | 278 | 338 |

Ers 2018, mae tua 2,500 o bobl wedi cael cymorth trwy'r Grant Cymorth Tai bob blwyddyn

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cefnogi 61 o aelwydydd ffoaduriaid dros y 5 mlynedd diwethaf

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a roddwyd

| Blwyddyn | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | Mân addasiadau (SWS a C&R) | Cyfanswm | Cyfanswm gwariant |
|---|---|---|---|---|
| 2017 - 18 | 120 | 125 | 245 | |
| 2018 - 19 | 143 | 149 | 292 | |
| 2019 - 20 | 136 | 135 | 271 | |
| 2020 - 21 | 67 (Covid) | 61 | 128 | |
| 2021 - 22 | 127 | 128 | 255 | |
| **Cyfanswm** | **593** | **598** | **1191** | **£5,309,031.98** |

# EIN NOD

## EIN HER

**"Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i ateb anghenion trigolion nawr ac yn y dyfodol"**

Mae'r heriau a wynebir gan y Gwasanaeth Tai yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y Strategaeth flaenorol ond wedi'u gwaethygu gan y dirwasgiad economaidd, newidiadau deddfwriaethol ac adfer yn dilyn pandemig Covid-19.

O ganlyniad, er gwaethaf llwyddiannau blaenorol, mae diffyg tai addas a fforddiadwy o ansawdd da yn parhau. Mae hyn, ynghyd â'r angen i fynd i'r afael â digartrefedd, a helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn golygu bod angen buddsoddiad a gwaith sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio i sicrhau bod pobl leol a siaradwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi er mwyn gallu parhau i fforddio byw yn eu cymunedau, gan gyfrannu at fywiogrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

| Mae'r darlun cenedlaethol | ynghyd â materion lleol | yn creu heriau penodol i Geredigion | felly byddwn yn... |
|---|---|---|---|
| **<u>Dirwasgiad Economaidd:</u>**<br>Toriadau i'r gyllideb, llai o gyfleoedd ariannu, mwy o ddiweithdra, a chyflogau is<br><br>**<u>Newid deddfwriaethol:</u>**<br>Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol newydd<br><br>**<u>Adfer yn dilyn y pandemig:</u>**<br>Cost deunyddiau, prinder sgiliau a llafur ac effaith fforddiadwyedd tai | Costau tai uchel a chyflogau isel<br><br>Poblogaeth sy'n heneiddio<br><br>Digartrefedd<br><br>Natur wledig y sir<br><br>Argaeledd trafnidiaeth gwael<br><br>Prinder sgiliau a llafur (Adeiladu) | Cyflenwad a galw<br><br>Cyllid a fforddiadwyedd<br><br>Ansawdd<br><br>Y math o dai a pha mor addas ydynt<br><br>Cymorth | Cynyddu argaeledd cartrefi fforddiadwy a diogel sy'n golygu y gall preswylwyr gael mynediad at y cymorth cywir i gynnal annibyniaeth. |

# 1. CYNYDDU'R CYFLENWAD A GWELLA CYFLWR TAI

## 1.1. Darparu tai sy'n ateb anghenion ein cymunedau

Nid oes gan Geredigion ystod ddigon eang o dai i ateb anghenion newidiol trigolion y sir. Mae'r sector tai cymdeithasol yn gymharol fach ac nid yw'n bodloni'r angen a nodwyd am eiddo un a dwy ystafell wely. Arweiniodd newidiadau yn y gorffennol mewn deddfwriaeth budd-daliadau at yr angen am dai un ystafell wely fforddiadwy a llety a rennir ar gyfer y rhai o dan 35 oed. Mae hyn yn arbennig o wir am breswylwyr llety dros dro, gan bwysleisio'r angen sylweddol am eiddo llai a'r camau pellach y mae angen eu cymryd mewn perthynas â Chynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhagweld ymhellach y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn parhau i ostwng. Er y disgwylir i gyfanswm poblogaeth Ceredigion barhau â'r duedd ar i lawr, mae'r lleihad ym maint aelwydydd yn golygu ein bod yn disgwyl gweld nifer cynyddol o aelwydydd y mae angen darparu llety iddynt.

Mae anghenion yn cael eu dylanwadu gan y canlynol:

- Costau uchel tai yn y sir - mae pris eiddo cyfartalog wedi cynyddu gan 42% ers Ionawr 2020
- Diffyg argaeledd opsiynau tai fforddiadwy addas, gan roi mwy o bwysau ar lety dros dro
- Sector tai cymdeithasol bach
- Prinder y math addas o eiddo
- Natur wledig y sir a chysylltiadau trafnidiaeth gwael
- Cyfran uchel o ail gartrefi
- Tlodi tanwydd

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn adolygu ei ddarpariaeth sipsiwn-teithwyr yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, ac mae'n ofynnol iddo gytuno ar yr Asesiad Sipsiwn-Teithwyr gyda Llywodraeth Cymru.

Yn rhannol oherwydd pandemig Covid-19, mae galw uchel a chyflenwad cyfyngedig wedi gweld pwysau cynyddol yn cael eu rhoi ar dai yn y sir, gan achosi i brisiau tir a thai saethu i fyny. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r cynnydd yn y galw ac, yn rhannol, i fwy o gyfleoedd i weithio o bell.

Mae nifer y bobl sy'n gweithio ym maes adeiladu yn y sir wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf o 2,761 (8.6% o'r gweithlu) yn 2011 i 2,582 (8.5% o'r gweithlu) yn 2021. Yn gyffredinol, mae mentrau yn rhai bach neu ficro eu maint, sy'n golygu ei fod yn fwy anodd cystadlu am gontractau, yn enwedig contractau mawr. Gyda chyfyngiadau ar ddatblygu oherwydd materion yn ymwneud â ffosffadau a chostau ansefydlog deunyddiau, mae'r sector adeiladu a datblygu mewn sefyllfa wael ar hyn o bryd i allu darparu cartrefi ychwanegol yn y sir. Bydd y costau adeiladu uchel yn gwneud rhai cynlluniau tai yn anhyfyw, felly efallai y bydd angen ystyried dulliau adeiladu eraill.

| Canlyniadau: Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyrraedd y nod |
|---|
| Bydd pobl yn cael tai sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion |
| Digon o dai fforddiadwy i ateb anghenion |

| I gyrraedd y nod, byddwn yn: |
|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu llety i fynd i'r afael ag anghenion a thueddiadau |
| Nodi safleoedd a sicrhau bod modd eu datblygu, gan gynnwys tai fforddiadwy |
| Gwneud y mwyaf o'r ffrydiau ariannu sydd ar gael i adeiladu tai fforddiadwy |
| Cynyddu'r ystod o ddeiliadaethau opsiynau tai fforddiadwy, gan gynnwys perchentyaeth cost isel er mwyn i bobl allu aros yn y sir |
| Cydweithio â phartneriaid i ddarparu tai fforddiadwy trwy ddefnyddio asedau sydd mewn |
| Cefnogi'r Hwylusydd Tai Gwledig i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig |
| Ystyried y dystiolaeth o ddylanwad ail gartrefi yn y sir a gweithredu lle bo'n briodol |
| Ystyried symiau gohiriedig a phremiymau treth y cyngor er mwyn hwyluso datblygiadau a chynlluniau cymunedol yn y dyfodol |
| Cefnogi'r economi leol a chontractwyr lleol trwy Bolisi Caffael y Cyngor |

| Sut y byddwn yn mesur hyn: |
|---|
| Tystiolaeth o'r angen am dai |
| Nifer y cleientiaid o grwpiau penodol sydd wedi'u hailgartrefu mewn llety addas |
| Yr amrywiaeth o eiddo wedi'u datblygu ar safleoedd newydd |
| Nifer y tai fforddiadwy sydd wedi'u hadeiladu |
| Yr amrywiaeth o ddeiliadaethau opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael yn y sir |
| Nifer y safleoedd newydd a ddarparwyd |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy a gefnogir trwy gymhellion y Cyngor |

## 1.2. Sicrhau bod trigolion yn byw mewn llety o ansawdd da, addas a chynaliadwy

Mae cyfran fawr o stoc tai Ceredigion yn hen, yn anodd eu gwresogi ac yn ddrud i'w gwella i fodloni'r safonau diogelwch ac effeithlonrwydd ynni cyfredol.

- Cyfran uchel o gartrefi cyn 1919 gydag effeithlonrwydd ynni gwael
- Pwysau ariannol cynyddol oherwydd stoc tai aneffeithlon o ran ynni/gwres ym mhob deiliadaeth sy'n arwain at fwy o broblem fforddiadwyedd ynghyd â phrisiau ynni sy'n codi
- Nifer uchel o eiddo gwag yn y sir
- Pwysau cynyddol ar y cymorth sy'n gysylltiedig â thai a'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol oherwydd bod anghenion yn newid wrth i'r boblogaeth heneiddio
- Nifer uchel o dai amlfeddiannaeth

Ynghyd â'r argyfwng costau byw ac enillion is na'r cyfartaledd, mae Ceredigion yn lle rhy ddrud i fyw i lawer o bobl.

| Canlyniadau: Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyrraedd y nod |
| --- |
| Pobl yn byw mewn tai o ansawdd da |
| Pobl yn byw mewn cartrefi ynni effeithlon a fforddiadwy |
| Pobl yn byw mewn cartrefi sy'n addas ar gyfer eu hanghenion |

| I gyrraedd y nod, byddwn yn: |
|---|
| Ymgysylltu â phartneriaid i godi safonau trwy nodi safonau tai gwael |
| Gweithio gyda landlordiaid a pherchnogion tai i nodi a dileu peryglon risg uchel (HHSRS Categori 1) i wella safonau tai |
| Cynorthwyo cymunedau i gael cyllid a chyngor er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi a defnyddio llai o danwydd |
| Gweithio gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd thermol yn y stoc tai a lleihau tlodi tanwydd |
| Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyllido a'r darpariaethau gorfodi i sicrhau bod anheddau |
| Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phartneriaid eraill i ddefnyddio'r stoc tai gwag trwy drefniadau prynu neu brydlesu |
| Sicrhau bod landlordiaid yn bodloni gofynion deddfwriaethol trwy fesurau gorfodi cadarn |
| Sicrhau bod holl dai amlfeddiannaeth cymwys y sir wedi'u trwyddedu |
| Cynnal cynlluniau trwyddedu ychwanegol priodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth a safleoedd carafanau preswyl |
| Ehangu Cynllun Prydlesu Cymru i wella'r ddarpariaeth o lety rhent fforddiadwy |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ystod o addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol a rhyddhau o'r ysbyty |

| Sut y byddwn yn mesur hyn: |
|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau gan y sector iechyd a llesiant |
| Nifer y peryglon Categori 1 sydd wedi'u dileu |
| Nifer yr anheddau sydd wedi elwa o gael mesurau effeithlonrwydd thermol |
| Nifer yr aelwydydd sy'n derbyn yr incwm mwyaf posibl a chyngor ar effeithlonrwydd ynni |
| Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd |
| Nifer yr ymyriadau gorfodi a gyflawnwyd |
| Canran y trwyddedau tai amlfeddiannaeth a roddwyd heb amodau |
| Nifer y tai amlfeddiannaeth heb eu trwyddedu yr ymchwiliwyd iddynt |
| Nifer y trwyddedau a roddwyd |
| Nifer yr eiddo sydd wedi ymrwymo i Gynllun Prydlesu Cymru |
| Nifer y dyraniadau a wnaed o'r Gofrestr Pobl Hŷn |
| Nifer y dyraniadau a wnaed trwy'r Gofrestr Tai Hygyrch |
| Nifer yr eiddo hygyrch a ddarparwyd trwy ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru |
| Nifer yr addasiadau a gwblhawyd |

# 2. CEFNOGI TRIGOLION YN EU CARTREFI A'U CYMUNEDAU EU HUNAIN

## 2.1. Sicrhau bod digartrefedd yn ddigwyddiad prin, byr, nad yw'n digwydd eto

Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth "Cymru lle mae gan bawb gartref diogel sy'n ateb eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Cymru lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn ddigwyddiad prin, byr nad yw'n digwydd eto." Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddatblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae'r Cynllun yn rhan o'r Strategaeth Dai ac yn ffocws ar gyfer lleihau tai dros dro.

Bydd y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Atal digartrefedd
- Osgoi ddigartrefedd rhag digwydd eto
- Gwella perthnasoedd â'r sector rhentu preifat
- Tyfu Cynllun Prydlesu Cymru

Mae'r galw ar y gwasanaethau digartrefedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae disgwyl iddo gynyddu ymhellach. Mae'r pandemig wedi cynnig modd i'r Awdurdod Lleol gael gwell dealltwriaeth o raddfa digartrefedd, ynghyd ag anghenion cymorth heb eu hateb. Cyfeiriad Llywodraeth Cymru yw lleihau digartrefedd, ac mae newidiadau mewn deddfwriaeth yn cael eu datblygu i gefnogi'r nodau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gydag enillion is na'r cyfartaledd, mae trigolion Ceredigion hefyd yn wynebu prisiau tai a rhenti uwch na'r cyfartaledd. Cafodd pandemig Covid-19 effaith fawr ar y farchnad dai a fforddiadwyedd tai yn lleol. Mae'r cynnydd yn y galw ynghyd â'r stoc cyfyngedig wedi achosi 'ffyniant' tai bach yn y sir, gan arwain at gynnydd mewn rhenti. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn annigonol i fodlon rhenti'r farchnad yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaeth digartrefedd hefyd wedi gweld cynnydd mewn achosion o droi allan trwy hysbysiadau. Awgrymir y gellir priodoli hyn, yn rhannol, i gyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016.

Mae'r galw am Daliadau Tai Dewisol wedi cynyddu'n ddiweddar. Rhaid aros i weld sut y bydd y dirwasgiad economaidd yn effeithio ar y gwasanaeth digartrefedd.

| Canlyniadau: Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyrraedd y nod |
| --- |
| Digartrefedd yn cael ei atal, lle bo modd |
| Pobl mewn llety dros dro am gyfnod mor fyr â phosibl |
| Pobl yn cael eu cefnogi i symud i lety addas a diogel |

| I gyrraedd y nod, byddwn yn: |
| --- |
| Gweithio i atal digartrefedd trwy amrywiaeth o ymyriadau |
| Sicrhau bod llety dros dro yn addas |
| Datblygu gwasanaethau i reoli pontio cyflym i denantiaethau |
| Adolygu'r Polisi Dyraniadau Cyffredin yn sgîl gofynion a deddfwriaeth sy'n newid |

| Sut y byddwn yn mesur hyn: |
| --- |
| Nifer yr aelwydydd lle mae digartrefedd yn cael ei atal |
| Nifer yr aelwydydd sy'n symud i lety addas |
| Nifer yr adolygiadau o addasrwydd llety dros dro |
| Symud ymlaen i'r model Ailgartrefu Cyflym |
| Nifer y diwrnodau a dreuliwyd mewn llety dros dro |
| Datblygu gwasanaethau cymorth Ymyriad Amser Allweddol / Tai yn Gyntaf i reoli'r pontio cyflym i denantiaethau ar gyfer cleientiaid cymhleth |

## 2.2. Darparu cymorth amserol a phriodol i gynnal byw'n annibynnol

Mae darparu cymorth i bobl o bob oed yn her sylweddol. Mae newid mewn demograffeg, poblogaeth sy'n heneiddio a disgwyliad oes hwy, ynghyd ag effaith camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig, wedi arwain at angen cynyddol am gymorth tai ar gyfer cleientiaid agored i niwed er mwyn atal argyfwng tai.

Yn ogystal â'r uchod, mae anghenion llety yn newid o ganlyniad i'r canlynol:

- Y tebygolrwydd o gael tai cymdeithasol, gyda chyfran sylweddol is o stoc tai cymdeithasol
- Y cynnydd yng nghostau rhedeg aelwydydd
- Mwy o awydd am annibyniaeth yn hwyrach mewn bywyd

Mae'r Grant Cynnal Tai yn elfen allweddol o gyflawni'r nod uchod. Gall ymyrraeth gynnar atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa dai neu helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety. Mae hyn yn sicrhau, yn gyffredinol, bod pobl yn cael eu cefnogi i gael y cartrefi cywir, gyda'r cymorth cywir er mwyn gallu byw'n annibynnol, gan fodloni un o nodau allweddol y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant.

Unwaith eto, wrth i'r argyfwng costau byw barhau, mae'r effaith yn debygol o gael ei theimlo yn yr ardal hon.

| Canlyniadau: Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyrraedd y nod |
| --- |
| Gall pobl gael mynediad at y cymorth cywir i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu |

| I gyrraedd y nod, byddwn yn: |
| --- |
| Hyrwyddo'r holl opsiynau ariannu sydd ar gael ar gyfer landlordiaid, tenantiaid a pherchen-feddianwyr i wella eu cartrefi |
| Darparu cymorth, cyngor a chymorth i denantiaid, landlordiaid a pherchen-feddianwyr i godi safonau ar draws pob tenantiaeth |
| Datblygu a hyrwyddo atebion cymorth ar gyfer tenantiaid gan alluogi mynediad i gymorth cynnar er mwyn cynnal tenantiaethau |
| Galluogi pobl i symud i lety arall pan fydd yn briodol ac yn ymarferol i wneud hynny |
| Ceisio cefnogi cynlluniau sy'n galluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain |
| Hyrwyddo mynediad i wasanaethau cymorth trwy'r Porth Cymorth Tai mewnol |

| Sut y byddwn yn mesur hyn: |
| --- |
| Nifer y grantiau a'r benthyciadau a roddwyd |
| Nifer y bobl sy'n cael cymorth i godi safonau tai yn eu cartrefi |
| Nifer y tenantiaid a gefnogir i aros yn eu cartrefi a chynnal tenantiaethau |
| Nifer y bobl sy'n cael eu hailgartrefu trwy'r Gofrestr Tai Cyffredin |
| Nifer y bobl sy'n cael cymorth i ddod o hyd i lety arall |
| Nifer y bobl sy’n cael grantiau i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain |
| Nifer y bobl a gefnogir trwy'r Grant Cymorth Tai |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan amrywiaeth o wasanaethau |

# Y DARLUN MAWR

Bydd y tai cywir yn y lle cywir yn golygu y gall pobl barhau i fod yn annibynnol ac aros yn eu cymunedau am gyfnod hwy, gan gefnogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Bydd Strategaeth Dai 2023-2028 yn ceisio gwireddu hyn trwy ystyried y darlun ehangach, a sut mae gweithio gyda gwasanaethau eraill yn effeithio ar dai yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae **Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027** wedi cael ei datblygu trwy ymgysylltu â thrigolion a dadansoddi tystiolaeth. Dangosodd yr ymgysylltu trylwyr hyn, ynghyd â'r Cynllun Llesiant Lleol, fod tai fforddiadwy yn bryder ac yn flaenoriaeth amlwg i'r cyhoedd. Mae'r weledigaeth a'r amcanion llesiant corfforaethol i'w gweld isod:

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n cynnig gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau.**

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**



Pris eiddo cyfartalog yng Ngheredigion ym mis Medi 2022 oedd £262,535.

Yn yr un modd â'r Strategaeth Dai, mae Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 yn cydnabod bod fforddiadwyedd tai wedi bod, ac yn parhau i fod, yn her fawr i Geredigion.

Bu cynnydd sylweddol yn y galw am dai yn y sir, gan achosi i brisiau eiddo godi i'r lefelau uchaf erioed. Yn ystod y pandemig, gwelodd Ceredigion dwf sylweddol ym mhrisiau eiddo wrth i'r galw fynd y tu hwnt i'r cyflenwad. Dechreuodd prisiau gynyddu pan gyrhaeddodd y pandemig Gymru gyntaf ym mis Mawrth 2020, a thyfodd yn sylweddol drwy gydol 2021.

O ganlyniad, yn genedlaethol, mae gan Geredigion y bedwerydd gymhareb fforddiadwyedd tai uchaf ar ôl Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i bobl leol a phrynwyr am y tro cyntaf brynu tai yn eu cymunedau o ddewis, yn enwedig gan fod enillion yng Ngheredigion yn is na'r cyfartaledd. Yr enillion blynyddol canolrifol, yn ôl man preswylio, oedd £23,576 yn 2021 yng Ngheredigion.

At hynny, nododd astudiaeth gan Sefydliad Bevan na chafodd unrhyw eiddo o unrhyw faint eu hysbysebu ym mis Awst 2022 ar neu'n is na chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yng Ngheredigion. Yn rhyfeddol ddigon, ar draws Cymru dim ond tua 6% o eiddo oedd ar gael ar gyfradd Lwfans Tai Lleol, gydag amrywiadau rhanbarthol. Mae'r Lwfans Tai Lleol i fod i gwmpasu 30% o eiddo o fewn ardal. Gyda chyfraddau Lwfans Tai Lleol yn aros ar gyfradd 2020 ar gyfer 2023/2024, mae fforddiadwyedd rhentu preifat yn parhau i fod yn broblem.

Mae'r **Strategaeth Gydol Oed a Llesiant** yn chwarae rôl allweddol yn Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion. Nod y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant yw:

**"Galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion"**

O fewn y Strategaeth mae nifer o bwyntiau allweddol sydd â chysylltiadau uniongyrchol â'r Gwasanaeth Tai:

- Cynnydd yn y galw am wasanaethau gan leihau'r cyflenwad (disgwyliad oes uchel)
- Yr enillion cyfartalog isaf
- Lefelau uchel o yfed alcohol
- Cynnydd mewn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol mewn cymunedau
- Costau llety yn codi
- Cyflwr tai o safon wael
- Llawer o bobl yn derbyn gofal a chymorth gan deuluoedd

Mae pandemig Covid-19 wedi achosi i'r galw ar wasanaethau gynyddu'n sylweddol, yn enwedig o ganlyniad i newid yn y dull o ddelio â digartrefedd. Sicrhaodd dechrau'r pandemig, ym mis Mawrth 2020, fod ymateb digartrefedd yn cael ei roi ar waith i gydnabod yr effaith bosibl y gallai Covid-19 ei chael ar bobl ddigartref, ac yn enwedig y rhai sy'n cysgu ar y stryd. Arweiniodd y dull "neb heb help" at ddod â nifer sylweddol o bobl i lety brys, gan roi darlun cliriach o raddfa digartrefedd ynghyd ag anghenion cymorth oedd heb eu hateb yn flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i barhau â'r dull hwn.

Cafodd llawer o feysydd gwaith eu hatal dros dro yn ystod pandemig Covid-19 oherwydd bod ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u gohirio. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y meysydd hyn, ac mae'r effaith yn dal i gael ei theimlo. Parhaodd atal digartrefedd drwy gydol y cyfnod, wedi'i ddarparu o bell yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a nodir uchod yn golygu bod gormod o geisiadau ar gyfer llety brys o hyd, ac mae opsiynau symud ymlaen yn gyfyngedig.

Yn ogystal ag effaith ac adferiad pandemig Covid-19, mae'r Gwasanaeth Tai hefyd wedi gweithio'n agos gydag adrannau a phartneriaid eraill i gefnogi Cynllun Ailsefydlu'r Swyddfa Gartref yn sgîl Rhyfel Wcráin.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig sef anabledd, oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred neu ddiffyg cred. Mae gofynion siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael eu hamddiffyn.

**Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

Mae Ceredigion yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd y Gymraeg o fewn Cymru lle mae'r iaith yn rhan annatod o gymdeithas Ceredigion. Cymunedau Cymraeg a dwyieithog yw sylfaen diwylliant a bywyd bob dydd y sir. Fodd bynnag, mae cymunedau'n newid, ac mae hwn yn cael effaith ar iaith a diwylliant Cymru, yn enwedig wrth i bobl ifanc sydd wedi elwa o addysg Gymraeg yn y sir, symud i ffwrdd. Nod y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg eu hiaith lle mae crynodiad uchel o ail gartrefi ac, o ganlyniad, bydd y Strategaeth Dai yn parhau i fod yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a hefyd yn cefnogi Strategaeth Iaith Ceredigion 2023-2028.

Yng Nghyfrifiad 2021 cofnodwyd bod 31,678 (45.3%) o drigolion Ceredigion dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn llai na'r nifer a'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef gostyngiad o 3,286 o bobl a 2 bwynt canran. Fodd bynnag, Ceredigion oedd yr Awdurdod Lleol gyda'r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn genedlaethol.

Yr egwyddor sylfaenol sy’n sail i'r Strategaeth 'Tai i Bawb', felly, yw mai’r ffordd orau o gynnal bywiogrwydd yr iaith Gymraeg yw trwy gynnal cymunedau. Gyda chymaint o'r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddiadau gwledig, mae strategaeth sy'n cefnogi cymunedau gwledig, yn ogystal â chymunedau trefol, yn hollbwysig ar gyfer iechyd yr iaith.

Er mwyn cynnal y diwylliant a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd bob dydd y sir, un o brif amcanion y Strategaeth yw mynd i'r afael â thai fforddiadwy ar gyfer pobl leol. Nod y Strategaeth yw sicrhau digon o gyfleoedd i bobl leol gael mynediad at dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol trwy gael cysylltiad lleol.

### Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl grŵp oedran 2011 a 2021, yn ôl adroddiadau'r Cyfrifiad:

| | 3–15 oed | 16-64 oed | 65+ oed | Pawb dros 3 oed |
|---|---|---|---|---|
| 2011 | 78.4% (7,175) | 41.9% (20,503) | 46.4% (7,286) | 47.3% (34,964) |
| 2021 | 71.8% (6,123) | 42.4% (18,219) | 39.9% (7,347) | 45.3% (31,678) |

Yn unol â **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol lunio ystod o strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n cynnwys trefniadau ar y cyd â chymunedau a'r sector gwirfoddol i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol. Nod 'Tai i Bawb' yw bodloni'r gofyniad hwn trwy roi cymorth a chefnogaeth gynnar trwy ein Rhaglen Cymorth Tai sy'n ceisio sefydlogi a chynnal tai i bobl.

Mae lefelau diweithdra ynghyd â lefelau incwm isel yn golygu ei fod yn anoddach i bobl gael tai diogel a fforddiadwy. Yn aml, bydd pobl yn cwympo ac yn baglu yn y cartref oherwydd bod ansawdd y cartref yn wael neu oherwydd nad yw'n hygyrch; gall hyn wneud i bobl deimlo'n unig ac yn ynysig a gall arwain at oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r holl ffactorau hyn yn creu costau mawr i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Felly, mae cael tai yn iawn yn gwneud synnwyr ariannol.

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru **"Y Rhaglen Lywodraethu - 2021-2026"** yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni 10 amcan llesiant sydd wedi'u cynllunio i adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer diogelu a datblygu'r economi, cymdeithas, yr amgylchedd a diwylliant. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed, ffocws ar ddatgarboneiddio a diwygio'r gyfraith tai.

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** yw'r newid mwyaf i'r gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau. Newidiodd y ffordd y mae pob landlord yng Nghymru yn rhentu eu heiddo, gan wella sut mae pobl yn rhentu, yn rheoli ac yn byw mewn cartrefi rhent yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud rhentu'n haws ac yn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid a landlordiaid.

Fodd bynnag, mae hyn wedi creu heriau hefyd, wrth i landlordiaid sy'n ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol bwyso a mesur manteision parhau yn y sector.

Nod **Deddf Tai (Cymru) 2014** yw gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru. Prif elfennau'r Ddeddf yw:

- Cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat ac asiantau gosod a rheoli
- Diwygio'r ddeddfwriaeth digartrefedd, gan gynnwys rhoi dyletswydd gryfach ar Awdurdodau Lleol i atal digartrefedd trwy roi cyngor a chymorth i bobl a'u galluogi i ddefnyddio llety addas yn y sector preifat
- Rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr, lle y nodwyd bod eu hangen
- Cyflwyno safonau ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran rhenti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety
- Diwygio’r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai
- Rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol godi mwy na chyfradd safonol y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor a mathau penodol o ail gartrefi
- Cynorthwyo'r ddarpariaeth o dai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol
- Diwygio Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993

**Lefelau Ffosffadau**

Yn dilyn tystiolaeth newydd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am effeithiau niweidiol ffosffadau ar ecosystemau a rhywogaethau dŵr, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad o'r naw ardal berthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Afon Teifi yng Ngheredigion, ac ym mis Ionawr 2021 cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi. Roedd dros 60% o gyrff dŵr Cymru heb gyrraedd y targedau, gan gynnwys Afon Teifi. Cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddatganiad sefyllfa cynllunio interim yn nodi bod yn rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn enwedig y rhai a fydd yn cynhyrchu maint neu grynodiad cynyddol o ddŵr gwastraff, brofi nawr na fydd y dyluniad yn cyfrannu at lefelau uwch o ffosffadau. O ganlyniad, mae datblygu tai mewn rhai ardaloedd wedi'i atal, a fydd wrth gwrs yn effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ddod o hyd i atebion tymor byr a hirdymor er mwyn i ddatblygiadau allu mynd yn eu blaenau ac adfer iechyd yr afonydd.

Mae'r **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn ystyried y farchnad dai gyfan ac anghenion gwahanol cymunedau, gan gynnwys pobl hŷn, myfyrwyr a phobl ag anableddau. Yn ogystal, mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru hefyd wedi nodi meysydd allweddol i'w canolbwyntio arnynt yn eu Hasesiad o Anghenion Tai a Llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phobl ag anghenion iechyd meddwl yng ngorllewin Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022. Mae Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Tai a Gofal yn cael ei datblygu hefyd a fydd yn rhoi cyfeiriad mewn perthynas â chynlluniau tai arbenigol.

Defnyddir y ffynonellau tystiolaeth hyn hefyd wrth ddatblygu ein Prosbectws Tai, sy'n rhoi cyfeiriad ar gyfer ein Rhaglen Cyflenwi Tai Cymdeithasol, ac wrth ddatblygu cynlluniau newydd i ateb angen penodol.

# RHOI EIN STRATEGAETH AR WAITH

## Cytundebau partneriaeth

Wrth gyflawni ein blaenoriaethau tai bydd angen i Gyngor Sir Ceredigion gydweithio'n agos ag eraill, gan ddatblygu syniadau, galluogi cyfleoedd a chyflawni prosiectau. Mae ein partneriaid allweddol wrth wireddu'r strategaeth yn cynnwys:

- Landlordiaid cymdeithasol preswyl
- Datblygwyr lleol a'r diwydiant adeiladu
- Landlordiaid preifat
- Sefydliadau trydydd sector
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Rydym ni i gyd yn gweithio tuag at yr un nod a bydd pawb ar eu hennill o ddarparu cartrefi yng Ngheredigion y gall pobl ffynnu ynddynt. Rydym hefyd yn deall y bydd gan bob un o'n partneriaid ei ystyriaethau hun ac na fyddwn o reidrwydd yn mynd ati i gyflawni ein nod yn yr un ffordd. O ystyried maint yr heriau yr ydym yn eu hwynebu, mae'n bwysicach nag erioed bod gennym bartneriaethau effeithiol a chadarn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch.

Mae Strategaeth Gydol Oed a Llesiant y Cyngor yn nodi, "Mae rhoi cymorth a chefnogaeth i'r holl oedrannau ac anghenion gwahanol yn her sylweddol i'r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig. Mae proffil y gymdeithas a demograffeg wedi newid cryn dipyn dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ynghyd â chynnydd yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny. Yn ogystal, mae lefelau diweithdra ynghyd â lefelau incwm isel wedi esgor ar fwyfwy o anawsterau i bobl gael mynediad at dai diogel, fforddiadwy". Felly, byddwn yn parhau i weithio ar draws gwasanaethau a chymorth y Cyngor lle bynnag y bo modd i ateb yr anghenion tai a nodwyd a sicrhau bod blaenoriaethau yn gynhwysol, wedi'u cydgynhyrchu ac yn canolbwyntio ar y cleient.

Rydym yn deall y gall fod gan rai pobl sy'n byw yng Ngheredigion anghenion unigryw. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r holl grwpiau hyn ac yn ceisio ateb eu hanghenion penodol fesul achos.

## Perfformiad a Llywodraethu

Byddwn yn monitro'r camau gweithredu a'r mesurau a nodir yn y Strategaeth yn chwarterol ac yn flynyddol trwy'r Bartneriaeth Tai Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'n partneriaid allweddol. Yn ogystal, ar adegau priodol, bydd diweddariad ar gynnydd y Strategaeth yn cael ei roi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

## Cynllun Gweithredu

Byddwn yn paratoi Cynllun Gweithredu yn nodi ein targedau, prosiectau allweddol a gweithgareddau a sut byddwn yn mesur ein cynnydd. Bydd cyflawni yn erbyn y Cynllun yn cael ei adrodd i'r Aelodau a phartneriaid trwy'r Bartneriaeth Tai Strategol.

# PAPURAU TYSTIOLAETH

Cyflwynir y dystiolaeth ehangach isod. Mae'r cyd-destun lleol a chenedlaethol, ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth a ddangosir ar y tudalennau canlynol wedi ein harwain at sefydlu ein prif flaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y Strategaeth hon.

## Demograffeg

Mae canlyniadau Cyfrifiad diweddaraf 2021 yn dangos bod poblogaeth Ceredigion yn 71,500, rhyw 4,492 yn is na'r boblogaeth yn 2011. Rhwng canol 2011 a 2011, cynyddodd y boblogaeth o 75,400 i frig o 75,800 yn 2004. Cyrhaeddodd brig newydd o 76,000 yn 2012, ac mae wedi gostwng yn raddol ers hynny. Awgrymir y bydd niferoedd yn parhau i ostwng i 70,445 erbyn 2031.

**71,500**
Poblogaeth, Cyfrifiad 2021

**26%**
o boblogaeth Ceredigion yn 65 oed neu'n hŷn

Yn ôl yr amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf (seiliedig ar 2018), bydd hyn yn codi i 30% o'r boblogaeth (21,000 o bobl) erbyn 2030, tra bydd nifer y bobl 85+ oed yn cynyddu o 2,400 i 3,200.

Data o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Ceredigion

| Grŵp Oedran | Poblogaeth | % |
|---|---|---|
| 0-18 | 12,572 | 18 |
| 18-50 | 26,168 | 37 |
| 50+ | 32,728 | 46 |
| Cyfanswm | 71,468 | 100* |

*Nid yw'r ffigurau'n cyfateb i 100% yn union oherwydd talgrynnu cyfrifiadurol*

Mae cyfran uwch o boblogaeth Ceredigion (26%) o oedran ymddeol nag yng Nghymru yn gyffredinol (21%)

# Tai Cymdeithasol

9.4%


Stoc Tai Cymdeithasol, Ceredigion

Ar ddiwedd Ionawr 2023, roedd 1750 o geisiadau Cofrestr Tai yn ceisio Tai Cymdeithasol yng Ngheredigion, sef cynnydd o 1400 yn 2018. Ar gyfartaledd, mae 280 o ddyraniadau'n cael eu gwneud y flwyddyn, gan arwain at anghysondeb mawr rhwng galw a chyflenwad.

Mae’r stoc tai cymdeithasol yn cyfrif am 9.4% o dai Ceredigion o’i gymharu â chyfartaledd Cymru o 16% (Amcangyfrifon Stoc Anheddau 2020, Llywodraeth Cymru). Mae argaeledd Tai Cymdeithasol yn rhwystr i sicrhau tai fforddiadwy yn y sir.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o eiddo rhent cymdeithasol yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely yng Ngheredigion (data stoc landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) (Ceredigion 2021)

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Fflatiau / Fflatiau 1 Ystafell Wely | 469 | 16 |
| 2 ystafell wely | 1348 | 46 |
| 3 ystafell wely | 1029 | 35 |
| 4 ystafell wely | 64 | 2 |
| 5 ystafell wely | 6 | 0.5 |
| 6 ystafell wely | 3 | 0.5 |
| **Is-gyfanswm:** | **2919** | |
| Llety gwarchod | 404 | |
| Gofal ychwanegol | 104 | |
| **Cyfanswm yr unedau:** | **3427** | |




## Mae'r tabl uchod yn dangos y galw am nifer yr ystafelloedd gwely, yn ôl y Gofrestr Tai Cyffredin

Mae'r tabl uchod yn dangos galw sylweddol am eiddo 1 ystafell wely yn y sir, sydd wedi parhau trwy oes y Strategaeth flaenorol. Mae cynnydd hefyd yn y galw am eiddo 2 a 4 ystafell wely. Gallwn weld o'r tabl isod nad yw'r stoc presennol yn cyfateb i'r galw.

Mae'r galw am dai cymdeithasol yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw am unedau llai ac argaeledd unedau llai o fewn y stoc tai cymdeithasol.

## Galw am nifer yr ystafelloedd gwely o'i gymharu â'r stoc tai


| Nifer yr ystafelloedd gwely | Stoc presennol | Galw |
|---|---|---|
| 1 ystafell wely | 16% | 60% |
| 2 ystafell wely | 46% | 24% |
| 3 ystafell wely | 35% | 11% |
| 4 ystafell wely | 2% | 4% |
| 5+ ystafell wely | 1% | 1% |

# Tai Fforddiadwy

Mae Prosbectws yr Awdurdod Lleol yn nodi’r angen i adolygu'r amrywiaeth o opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael ac ymchwilio i gyfleoedd i greu llwybrau fforddiadwy i berchentyaeth, gan gynnwys:


- Rhanberchnogaeth
- Rhannu Ecwiti
- Rhentu i Berchnogi
- Cynllun Cymorth Prynu
- Cynllun Rhannu Ecwiti LCC
- Cymorth i Brynu Cymru
- Gofal Ychwanegol

## Galw am Opsiynau Tai Fforddiadwy, fel y nodir ar y Gofrestr Tai Cyffredin




Cynhaliwyd yr Asesiad Llesiant Lleol yn 2022 a nododd fod trigolion Ceredigion yn pryderu am gyfleoedd tai fforddiadwy.

## Wrth edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich poeni fwyaf am ffyniant yn y sir?




*Ffynhonnell: Arolwg Llesiant BGC Ceredigion*

## Pa dri pheth ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn cymuned lewyrchus?




*Ffynhonnell: Arolwg Llesiant BGC Ceredigion*

Wrth feddwl am y dyfodol, diffyg tai fforddiadwy oedd y maes oedd yn peri'r pryder mwyaf i drigolion gyda phrisiau tai yn codi a chostau byw uwch

# Safonau Tai

**16.6%**

Eiddo rhent preifat yng Ngheredigion


Yn gyffredinol, tybir bod tai rhent preifat mewn cyflwr gwaeth na mathau eraill o denantiaethau. Mae gan Geredigion gyfran uchel o eiddo rhent preifat, 16.6% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 14.2%.

Cofnododd yr Awdurdod Lleol 1383 o geisiadau gwasanaeth yn ymwneud â thai rhwng 2017 a 2022. Cafodd 178 o beryglon Categori 1 eu nodi o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), ac roedd angen gwneud 62 o ymyriadau gorfodi.

**1383**

o geisiadau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â thai

## Mae'r tabl isod yn dangos y math o geisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tai




Mae'r pedwar prif berygl a nodwyd yn ystod Asesiadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai fel a ganlyn:

- Lleithder a llwydni
- Oerfel gormodol
- Tân
- Peryglon trydanol

Mae llawer o’r stoc tai yng Ngheredigion, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, yn anodd eu gwresogi oherwydd eu hoedran, eu saernïaeth a'r ffaith nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Gall addasiadau tai fod o gymorth i rai sy'n byw mewn tai llai addas, ond ni allant ddatrys pob problem. Mae tai o ansawdd da yn cael dylanwad cryf ar iechyd pobl o bob oed. Amcangyfrifir bod tai o ansawdd gwael yn costio mwy na £95m y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru (Nicol and Garrett, 2019), sy'n ffactor y tu ôl i faterion fel cwympo a damweiniau yn y cartref a phroblemau iechyd sy'n cael eu hachosi neu eu gwaethygu trwy fyw mewn oerni a lleithder.

Y dull presennol o asesu 'tai gwael' yw'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), sy'n dosbarthu diffygion mewn anheddau trwy asesu eu heffaith bosibl ar iechyd a diogelwch preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r system yn caniatáu i ddifrifoldeb unrhyw berygl gael ei raddio, gan wahaniaethu rhwng mân beryglon a'r rhai lle mae bygythiad uniongyrchol o niwed mawr. Lle mae perygl yn sgorio 1,000 neu fwy ar yr HHSRS ystyrir ei fod yn berygl Categori 1, ac ystyrir bod unrhyw annedd gyda pherygl o'r fath yn is na'r safon dderbyniol ofynnol ar gyfer tai, ac felly'n cael ei ddosbarthu fel tai 'gwael' neu 'ddrwg'.

## Peryglon Categori 1

| Blwyddyn | Cyfanswm Asesiadau HHSRS | Cyfanswm Peryglon Categori 1 wedi'u nodi | Hysbysiadau Gwella a Gyflwynwyd |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 253 | 37 | 2 |
| 2018/19 | 100 | 52 | 4 |
| 2019/20 | 223 | 23 | 2 |
| 2020/21 | 30 | 17 | 0 |
| 2021/22 | 66 | 22 | 0 |

Mae'r galw am Fenthyciadau Gwella Cartrefi yn parhau. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi blaenoriaeth i berchnogion tai a landlordiaid sy'n cynnig yr eiddo i'w osod ar lefelau rhent fforddiadwy/canolraddol, neu sy'n cynnig y tŷ ar gyfer tai cymdeithasol neu hawliau enwebu.

## Tlodi Tanwydd

45%


o aelwydydd mewn tlodi tanwydd

Mae amcangyfrifon tlodi tanwydd swyddogol newydd Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyd at 45% o aelwydydd Cymru yn debygol o fod yn ei chael hi'n anodd cadw'n gynnes ac yn ddiogel yn y cartref ac wedi’u dal mewn tlodi tanwydd.

## Effeithlonrwydd Ynni


Mae sawl ffactor yn effeithio ar effeithlonrwydd ynni tai, gan gynnwys y math o eiddo, deiliadaeth a phryd y cafodd ei adeiladu. Mae llawer o stoc tai Ceredigion, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, yn anodd eu gwresogi oherwydd eu hoedran, eu saernïaeth a'r ffaith nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy.

- Nid yw 82.4% o'r tai wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy (29,693 eiddo)
- 6926 o’r tai gyda sgôr EPC o F neu G




Mae'r tabl uchod yn dangos sgôr effeithlonrwydd ynni canolrifol yn ôl deiliadaeth a math o eiddo, Cymru a Lloegr, hyd at fis Mawrth 2022 (Ffynhonnell: Yr Adran Ffyniant Bro)

Mae data Rhentu Doeth Cymru yn dangos bod y sgôr EPC cyfartalog ar gyfer eiddo yn y sector rhentu preifat gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Ngheredigion yn 58, sef y pedwerydd isaf yng Nghymru.




Rheoleiddir eiddo domestig rhentu preifat yng Nghymru gan y Safonau Isafswm Effeithlonrwydd Ynni. Mae angen sgôr EPC o E neu uwch ar yr eiddo hyn er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn cynorthwyo perchnogion tai a'r rheini yn y sector rhentu preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo trwy osod amrywiaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni.

# Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi

| | *2017-18* | *2018-19* | *2019-20* | *2020-21* | *2021-22* | *2022/23 ar 06.01.2023* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Gwag Hirdymor | 226 | 260 | 255 | 189 | 154 | 210 |
| Premiymau Gwag Hirdymor | 736 | 665 | 684 | 720 | 680 | 646 |
| Ail Gartrefi | 90 | 85 | 91 | 82 | 72 | 87 |
| Premiwm Ail Gartrefi | 1622 | 1621 | 1637 | 1609 | 1727 | 1793 |

Mae'r ffigurau uchod, a nodwyd trwy gofnodion Treth y Cyngor, yn dangos nifer yr eiddo gwag yng Ngheredigion.

Mae eiddo gwag ac ail gartrefi yn gorfod talu Premiwm Treth y Cyngor o 25%.

Mae rhai amrywiadau rhwng eiddo gwag, ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar osod yn fasnachol yn amodol ar ardrethi busnes.

Ym mis Ionawr 2023, nodwyd y canlynol ar gyfer eiddo gwag yng Nghheredigion:

Nifer yr eiddo gwag yng Nghheredigion: 833 (210 Gwag Hirdymor a 646 Premiwm Gwag Hirdymor)

Aberystwyth - 119 (27 hirdymor, 92 premiwm)
Aberteifi - 48 (21 hirdymor, 27 premiwm)
Llanbedr Pont Steffan - 29 (8 hirdymor, 21 premiwm)

Er bod nifer yr eiddo gwag wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, bydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag yn cynnig modd cymryd camau gweithredu wedi'u targedu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn y sir.

# Tai Amlfeddiannaeth

Gelwir anheddau sy'n cynnwys mwy nag un aelwyd yn dai amlfeddiannaeth ac maent yn cwmpasu ystod eang o fathau o dai yn y sector rhentu preifat yn bennaf. Maent yn aml yn cael eu meddiannu gan bobl iau a gallant gynnwys rhai grwpiau bregus a difreintiedig.

Mae dwy dref brifysgol yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae gan y sir nifer uwch na'r cyfartaledd o dai amlfeddiannaeth yng Nghymru o ran maint ei phoblogaeth. Ym mis Rhagfyr 2022 roedd 558 o dai amlfeddiannaeth trwyddedig yn y sir. Mae Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedu rhai mathau o dai amlfeddiannaeth yn orfodol. Mae angen trwyddedu gorfodol pan fydd pump neu ragor o bobl yn byw mewn dwy neu fwy o aelwydydd ar wahân mewn tŷ amlfeddiannaeth. Mae Deddf Tai 2004 hefyd yn darparu ar gyfer estyn trwyddedu gan Awdurdod Lleol i gynnwys tai amlfeddiannaeth nad ydynt yn dod o dan drwyddedu gorfodol. Cyhoeddwyd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ym mis Ebrill 2019 yng Ngheredigion. Mae'n rhaid i'r defnydd o drwyddedu ychwanegol fod yn gyson â Strategaeth Dai'r Awdurdod Lleol a dylid ei gydgysylltu â dull yr awdurdod o ddelio â digartrefedd, eiddo gwag ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Cynllun yn para am gyfnod o 5 mlynedd a disgwylir iddo gael ei adolygu cyn Ebrill 2024.

Mae'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn berthnasol i dai amlfeddiannaeth a feddiannir gan dri neu ragor o bobl, sy'n ffurfio tair neu ragor o aelwydydd ar wahân, waeth beth fo nifer y lloriau, yn wardiau canlynol y sir:

- Aberystwyth—Gogledd
- Aberystwyth—Canol
- Aberystwyth—Penparcau
- Aberystwyth—Rheidol
- Aberystwyth—Bronglais
- Llanbadarn Fawr—Padarn
- Llanbadarn Fawr—Sulien
- Faenor

# Cynllun Prydlesu Cymru

O ganlyniad i'r dull “neb heb help” bu cynnydd yn y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd ariannu, ynghyd â lansio Cynllun Prydlesu Sector Rhentu Preifat Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymuno â menter Cynllun Prydlesu Cymru Llywodraeth Cymru i wella mynediad i eiddo am rent fforddiadwy.

# Addasiadau

Ar gyfartaledd mae 265 o addasiadau mawr, canolig a bach yn cael eu darparu'n flynyddol i gynorthwyo trigolion i barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a hwyluso rhyddhau o'r ysbyty. Gwneir amrywiaeth o addasiadau gan gynnwys estyniadau, lifftiau trwy’r llawr, lifftiau grisiau, cyfleusterau cawod mynediad gwastad, teclynnau codi, rheiliau cydio, rampiau a mynediad i ofod allanol. Darperir addasiadau yn unol ag anghenion y cleient fel yr argymhellir gan y therapydd galwedigaethol.

- Mae 19% (cynnydd o 17%) o'r aelwydydd ar Gofrestr Tai Cyffredin Ceredigion wedi gofyn am eiddo wedi'i addasu (hunan-adrodd ar bob lefel)

- Mae 21% (cynnydd o 14%) o aelwydydd ar Gofrestr Tai Cyffredin Ceredigion wedi gofyn am lety pobl hŷn




Mae'r tabl uchod yn dangos y math o addasiadau a osodwyd rhwng 2018 a 2023


# Digartrefedd

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac yn ystod y pandemig mae nifer y cyflwyniadau i'r gwasanaeth digartrefedd wedi aros yn weddol gyson. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig mae dull ’Cynnwys Pawb’ wedi'i ddilyn gan newidiadau mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod nifer yr achosion dyletswydd digartrefedd lawn (Adran 75) wedi cynyddu. Mae'r tîm Opsiynau Tai yn llai abl i gau achosion yn gynharach oherwydd diffyg opsiynau tai addas i bobl symud iddynt. Yn ogystal, mae'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn golygu bod pobl nad oeddent yn gymwys i gael cymorth neu lety ar y cam hwn, oherwydd nad oes ganddynt angen â blaenoriaeth, bellach yn gymwys. Mae hyn yn golygu ein bod yn cefnogi pobl am gyfnod hwy.

Gellir cynrychioli hyn trwy edrych ar nifer yr achosion gweithredol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae nifer yr achosion ym mhob cam dyletswydd digartrefedd yn tueddu ar i fyny, ac yn benodol mae'r achosion Adran 75 wedi cynyddu'n sylweddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y maes hwn yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.


### Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr achosion gweithredol 2018-2022



## Llety Dros Dro


Mae'r data isod yn edrych ar gyfansoddiad yr aelwydydd a gafodd eu lleoli mewn llety dros dro yn ystod 2021/2022. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd 189 o leoliadau eu gwneud, gyda lle i 144 o aelwydydd.

### Math o aelwyd a leolir mewn llety dros dro





Mae 74% o'r holl leoliadau digartrefedd ar gyfer pobl sengl. Mae hyn yn cymharu â data Cyfrifiad 2011 sy'n dangos mai dim ond 33.1% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion oedd mewn aelwyd un person.

### Aelwydydd a leolir mewn llety dros dro




Mae galw cynyddol am lety dros dro oherwydd diffyg opsiynau tai i bobl.


## Symud ymlaen yn llwyddiannus o Lety Dros Dro 2018—2022 (canran)




Mae'r siart uchod yn dangos canlyniad llwyddiannus symud ymlaen o lety dros dro ar gyfer y cyfnod 2018-2022. Mae'n dod yn fwyfwy anodd symud teuluoedd digartref o lety dros dro i'r sector rhentu preifat. Effeithiwyd ar y gostyngiad mewn niferoedd yn 2020 gan atal symud cartref i raddau helaeth oherwydd y pandemig. Cafodd hyn effaith ganlyniadol ar y gallu i symud pobl i eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a lleoliadau â chymorth yn arbennig.

O ganlyniad i bandemig Covid, gweithiodd y Cyngor yn galed i ddarparu lle ar gyfer pawb oedd mewn perygl o dan yr ymbarél 'Cynnwys Pawb'. Dangosir hyn yn y nifer cynyddol o aelwydydd sy'n cael eu lleoli mewn llety dros dro. Mae hyn yn cyfateb â gostyngiad mewn rhyddhau llwyddiannus i'r sector rhentu preifat. Mae hyn wedi arwain at bwysau cynyddol ar y timau Opsiynau Tai a Chymorth, gan amlygu'r angen i ailystyried yr opsiynau symud ymlaen sydd ar gael, gan gynnwys adolygiad o'r Polisi Dyraniadau Cyffredin.

# Cymorth Tai




## Mae'r tabl uchod yn dangos anghenion defnyddwyr gwasanaeth (Asesiad o Anghenion Cymorth Tai)

Fel y dangosir yn yr Asesiad o Anghenion Cymorth Tai ac a nodwyd fel blaenoriaethau yng Nghynllun y Rhaglen Cymorth Tai, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnal y ddarpariaeth bresennol a gwella'r ystod o lety arbenigol sydd ar gael
- Darparu llety arbenigol i gartrefu unigolion sy'n anfodlon neu'n methu â rheoli hyd yn oed y llety mwyaf sylfaenol
- Mynd i'r afael â diffyg darpariaeth llety â chymorth ar gyfer cleientiaid sydd ag anghenion cymhleth a ffyrdd anhrefnus o fyw

# RHESTR TERMAU

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** | Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhoi cymorth i bennu lefel y galw am dai yng Ngheredigion. |
| **Cofrestr Pobl Hŷn** | Mae'r Gofrestr Pobl Hŷn yn gofrestr ar gyfer tai sy'n addas ar gyfer pobl dros 55 oed yn benodol. |
| **Cofrestr Tai Cyffredin** | Rheolir y Gofrestr Tai gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran ei bartneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn paru ymgeiswyr addas ag eiddo tai cymdeithasol. |
| **Cofrestr Tai Fforddiadwy** | Cofrestr ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cael mynediad i dai marchnad agored sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Efallai y bydd ymgeiswyr yn gallu fforddio rhent canolradd neu rent fforddiadwy neu fel arall fod yn gymwys i brynu un o'r opsiynau Perchentyaeth Cost Isel. Mae'r Gofrestr yn cael ei chadw gan yr Awdurdod Lleol ac mae hefyd ar gael i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Ngheredigion. |
| **Cofrestr Tai Hygyrch** | Cofrestr ar gyfer ymgeiswyr sydd naill ai â nam symudedd neu'n anabl ac angen eiddo wedi'i addasu'n briodol. Rheolir y Gofrestr gan yr Awdurdod Lleol ar ei ran. |
| **Cyfraddau Lwfans Tai Lleol** | Swyddogion Rhent Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n pennu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir i gyfrifo budd-dal tai ar gyfer tenantiaid sy'n rhentu gan landlordiaid preifat.<br>Mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar renti marchnad breifat sy'n cael eu talu gan denantiaid yn ardal eang y farchnad rentu). Dyma'r ardal y gellid yn rhesymol ddisgwyl i berson fyw ynddi. |
| **Cymuned** | Gellir diffinio'r 'gymuned' mewn sawl ffordd. Gellir ei defnyddio i ddiffinio grŵp o drigolion mewn lleoliad penodol. Gellir ei defnyddio hefyd i gyfeirio at grŵp o unigolion sy'n rhannu diddordeb neu safbwynt arbennig. Mae'r gymuned nid yn unig yn ymwneud â chyfleusterau ond hefyd rwydweithiau cymdeithasol, o ran cwrdd a chymdeithasu. Mae'r rhan a chwaraeir gan y Gymraeg yn hyn yn hynod bwysig er mwyn cynnal bywiogrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yng Ngheredigion. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dwysedd uchel o siaradwyr yn angenrheidiol er mwyn i'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio fel yr iaith gymunedol fywiog arferol. (Arolwg Cenedlaethol yr Iaith Gymraeg 2013-15) |
| **Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag** | Bydd y Cynllun hwn yn helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ac yn gwella cyflwr ffisegol yr amgylchedd presennol, gan dargedu'r eiddo hynny sy'n cael effaith niweidiol. |
| **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | Mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn ddogfen gynllunio sy'n ceisio helpu awdurdodau lleol i drosglwyddo i fodel Ailgartrefu Cyflym o wasanaethau digartrefedd. |
| **Grant Cymorth Tai** | Diben y Grant Cymorth Tai, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw atal digartrefedd a chefnogi pobl i gael y gallu, annibyniaeth, sgiliau a hyder i gael mynediad at a/neu gynnal cartref sefydlog ac addas. |
| **Grant Tai Cymdeithasol** | Mae'r Grant Tai Cymdeithasol yn grant a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan yr Awdurdod Lleol. Nod y grant yw darparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu a pherchentyaeth cost isel. |

| | |
|---|---|
| **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** | Gellir defnyddio'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau a chyfarpar sydd eu hangen er mwyn i rywun allu parhau i fod yn annibynnol yn ei gartref ei hun. |
| **Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sefydliadau preifat dielw a elwir hefyd yn Gymdeithasau Tai sy'n darparu tai cymdeithasol cost isel. |
| **Prosbectws Tai Cymdeithasol** | Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol ac mae'r Prosbectws yn rhoi crynodeb o flaenoriaethau tai Ceredigion. |
| **Rhentu Doeth Cymru** | Mae Rhentu Doeth Cymru yn prosesu cofrestriadau landlordiaid ac yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantau y mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. |
| **Symiau Gohiriedig** | Swm gohiriedig, yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, yw taliad o swm cyfalaf gan ddatblygwr i'r Awdurdod Lleol yn lle darparu tai fforddiadwy ar y safle (lle mae'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno nad yw hyn yn bosibl) neu lle nad yw adeiladu unedau tai fforddiadwy cyfan ar y safle yn bodloni ymrwymiad llawn y datblygwr o dan y polisi tai fforddiadwy. Mae'r taliad yn gyfraniad at gronfa a weinyddir gan yr awdurdod ac a ddefnyddir i ategu datblygu tai fforddiadwy mewn mannau eraill yng Ngheredigion. |
| **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)** | Mae'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yn asesu 29 o beryglon tai a'r effaith y gallai pob un ei chael ar iechyd a diogelwch y rhai sy'n byw yn yr eiddo nawr ac yn y dyfodol. Os yw perygl yn risg difrifol ac uniongyrchol i iechyd a diogelwch person, gelwir hyn yn berygl Categori 1. |
| **Tai Amlfedd-iannaeth (HMO)** | Mae tŷ amlfeddiannaeth yn eiddo sy'n cael ei rentu gan o leiaf dri pherson nad ydynt o'r un aelwyd ond sy'n rhannu cyfleusterau fel yr ystafell ymolchi a chegin. |
| **Tai Cymdeithasol** | Mae tai cymdeithasol yn dai sy'n cael eu gosod ar renti isel ac ar sail ddiogel i bobl sydd ag angen tai. Yn gyffredinol fe'u darperir gan Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai. |
| **Tai Fforddiadwy** | Yn gyffredinol, cyfeirir at dai fforddiadwy fel "perchentyaeth cost isel". Gall hefyd gynnwys tai ar rent am bris gostyngol neu ranberchenogaeth/rhannu ecwiti neu dai rhent canolradd/ fforddiadwy. |
| **Tlodi Tanwydd** | Diffinnir aelwyd sy'n dlawd o ran tanwydd fel aelwyd sydd angen gwario mwy na 10% o'i hincwm ar danwydd er mwyn cynnal system wresogi foddhaol (fel arfer 21 gradd yn y brif le byw ac 18 gradd yn yr ystafelloedd eraill a ddefnyddir). |
| **Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)** | Mae Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn adroddiad sy'n asesu effeithlonrwydd ynni eiddo ac yn argymell ffyrdd penodol o wella effeithlonrwydd eich eiddo. |

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian) | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf. |

| Maes gwasanaeth | Tai | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Donna Pritchard | Cyfarwyddwr Corfforaethol | James Starbuck |
|---|---|---|---|---|---|

| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Cerys Purches-Phillips | E-bost | Cerys.purches-phillips@ceredigion.gov.uk | Ffôn | Skype |
|---|---|---|---|---|---|

| Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig |
|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol yn chwarae rhan arweiniol wrth ddatblygu cynlluniau ynghylch tai ar draws gwahanol fathau o ddeiliadaeth yn y Sir. Pwrpas y Strategaeth yw sicrhau bod gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig mwy integredig yn cael eu darparu er mwyn diwallu'r angen lleol, gan ddiogelu treftadaeth a diwylliant y Sir ar yr un pryd. Mae cynnal y cymunedau presennol yn allweddol i'r strategaeth hon, ac yn hanfodol ar gyfer dyfodol y Gymraeg yng Ngheredigion. |
| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw). |
| Gallai'r strategaeth effeithio ar drigolion y Sir, ar draws pob deiliadaeth. |



| **RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
| Cerys Purches-Phillips | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR**: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y diwydiant adeiladu lleol gan ddarparu cyfleoedd gwaith wrth ddatblygu cartrefi newydd ac addasu a gwella'r cartrefi presennol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i breswylwyr gael cartref cynaliadwy a gall hyn fod yn sail iddynt ddod o hyd i waith sefydlog. |
| Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach | Bydd y Strategaeth yn rhoi cyfleoedd i alluogi pobl leol i aros yn eu cymunedau, gan ddiogelu'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Nod y Strategaeth fydd darparu cymorth a chefnogaeth gynnar o ran anghenion tai pobl gan sicrhau y gallant aros yn eu cartref presennol neu eu galluogi i symud ymlaen pan fo hynny'n briodol. Bydd y lefel gywir a'r math cywir o gymorth yn cael eu darparu ar yr adeg gywir, er mwyn atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu. Lle bynnag y bo modd, drwy amrywiaeth o opsiynau, byddwn yn gwneud popeth ag y gallwn i sicrhau bod pobl yn medru parhau i fod yn annibynnol gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. |
| Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu | Bydd y Strategaeth yn rhoi cyfle i breswylwyr gael cartref cynaliadwy a gall hyn fod yn sail iddynt ddod o hyd i addysg / gwaith sefydlog. |
| Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi Cysylltu'n Dda â'i Gilydd | Bydd darparu tai o safon, sydd wedi'u lleoli'n addas yn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach, gan hyrwyddo cydnerthedd cymunedol. Gall gwneud gwelliannau i gartrefi sydd eisoes yn bodoli wella ardal gan roi ymdeimlad o falchder cymunedol. Bydd y Strategaeth yn cefnogi cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni. |



**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*

- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

**2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol | • Strategaeth 5 mlynedd yw hon. Ar ôl hynny bydd yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn dal i fodloni anghenion trigolion a chaiff ei diwygio yn unol â hynny.<br>• Mae anghenion tymor byr yn cael sylw drwy'r ymatebion a roddir a'r cymorth a gynigir ar unwaith. | Mae datblygu tai yn mynd i'r afael â materion yn yr hirdymor. | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau | • Cafodd y Strategaeth ei datblygu ar y cyd â'n Partneriaid a bydd dal angen cefnogaeth y Partneriaid arnom er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y Strategaeth a'i chyflwyno'n llawn. Dim ond drwy weithio â'n partneriaid yn y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector y gallwn ni wireddu'r Strategaeth. | Cyfarfu'r Bartneriaeth Tai Strategol yn rheolaidd a chynhaliwyd gweithdai ar 9 Ionawr 2023 a 12 Ionawr 2023 i ddatblygu'r Strategaeth. Mae'r partneriaid yn cynnwys: Cymdeithas Tai Wales & West, Ceredig, Barcud, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda , ynghyd â Rheolwyr Corfforaethol o wasanaethau eraill y Cyngor. | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn | Rydym wedi cynnal gweithdy ynglŷn â'r strategaeth a gwahoddwyd rhanddeiliaid i'r gweithdy hwnnw a'u hannog i gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth. Mae diweddariadau ar y cynnydd a wneir o ran y strategaeth yn cael eu rhoi'n rheolaidd a'u hystyried gan y Bartneriaeth Tai Strategol. Bydd proses ymgynghori ffurfiol yn cael ei chynnal cyn mabwysiadu'r Strategaeth. | Cyfarfu'r Bartneriaeth Tai Strategol yn rheolaidd a chynhaliwyd gweithdai ar 9 Ionawr 2023 a 12 Ionawr 2023 i ddatblygu'r Strategaeth. Mae'r partneriaid yn cynnwys: Cymdeithas Tai Wales & West, Ceredig, Barcud, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda , ynghyd â Rheolwyr Corfforaethol o wasanaethau eraill y Cyngor. | Ddim yn berthnasol |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu | Mae atal problemau rhag codi neu waethygu yn rhan annatod o'r Strategaeth fel y gall pobl gadw eu hannibyniaeth ac fel y gall cymunedau fod yn gynaliadwy. | Bydd gwasanaethau Cymorth Tai yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o atal problemau rhag codi a gwaethygu.<br>Bydd gwella ac addasu cartrefi pobl yn hybu annibyniaeth a chynaliadwyedd. | Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa dai'r sir, gan wella ansawdd tai a sicrhau eu bod mewn mannau addas lle bydd pobl yn medru byw yn eu cartrefi'n hirach. Mae gan y Strategaeth y potensial i greu cymunedau mwy cydnerth a chysylltiedig a gwella iechyd a lles pobl. Gan fod nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y Sir, bydd angen sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod yr hyn a wneir i fodloni'r anghenion o ran tai yn cynnwys y Gymraeg ac yn ei chryfhau. |
| **Integreiddio**<br>Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill | Mae'r Gwasanaeth Tai wedi'i wreiddio'n llawn yn y model Llesiant Gydol Oes, gan weithio'n gyfannol gyda Gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn canolbwyntio ar unigolion.<br>Mae'r Strategaeth yn annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau | Datblygwyd y Strategaeth gyda'r partneriaid a bydd yn parhau i gael ei monitro drwy Gyfarfodydd y Bartneriaeth Tai Strategol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau allweddol yn cael eu cyflawni. | Byddai'r strategaethau cenedlaethol penodol sydd wedi'u datblygu ar gyfer grwpiau gwarchodedig yn cael eu hystyried , e.e. y Lluoedd Arfog , Gwrth-hiliaeth, Sipsiwn a Theithwyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bod y blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni. | | |

| **3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall. | | | |
|---|---|---|---|
| Nod llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **3.1. Cymru lewyrchus** Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi | Mae'r strategaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at Gymru lewyrchus, a hynny drwy gyfleoedd ar gyfer caffael yn lleol, ymwneud â'r gymuned drwy gynlluniau datblygu lleol ac effeithlonrwydd ynni. | Mae'r cyfleoedd ar gyfer caffael yn lleol yn deillio o waith addasu, gwaith datblygu a gwaith o ran effeithlonrwydd ynni.<br>Caiff £4miliwn ei fuddsoddi yn y Sir drwy'r Rhaglen Cefnogi Tai. | Gellir gwireddu buddion cymunedol drwy'r dulliau caffael. |
| **3.2. Cymru gydnerth** Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Mae'r Strategaeth yn annog cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni o fewn cartrefi pobl a meithrin cydnerthedd cymunedol trwy ddarparu cartrefi cynaliadwy sy'n gost effeithiol. | Ceir enghreifftiau o'r ceisiadau a wnaed am arian ar gyfer cartrefi cynhesach ynghyd â chynlluniau datblygu newydd eraill.<br>Mae'r Papurau Tystiolaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth yn cefnogi'r farn hon. | Bydd yr ystyriaethau amgylcheddol yn cael sylw drwy'r broses gynllunio. |
| **3.3. Cymru iachach** Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd | Nod y Strategaeth yw gwella'r amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant corfforol a meddyliol pobl. | Asesiad Anghenion Tai.<br><br>Mae'r Papurau Tystiolaeth sydd yn y strategaeth yn amlinellu amrywiol ffactorau ac mae'r ystadegau allweddol yn cael eu dangos | Rydym yn cydweithio'n agos â'r Pyrth drwy'r model Llesiant Gydol Oes. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Rhaglen Cefnogi Tai, sy'n cefnogi'r Strategaeth Dai, yn mynd i'r afael â llesiant corfforol a meddyliol pobl, o ran yr angen am dai. | fel enghreifftiau o safonau byw gwell, addasiadau a thai fforddiadwy. | |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol wrth greu cymunedau deniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Mae'r dystiolaeth yn dangos mai statws economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd, mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a throseddau, sy'n cael yr effaith fwyaf ar gydlyniant a chydnerthedd cymunedol. Bydd darparu tai fforddiadwy o ansawdd yn y man cywir sy'n bodloni anghenion trigolion yn cael effaith gadarnhaol ar statws economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd. Bydd galluogi pobl leol i aros yn eu cymunedau yn cyfrannu at gynnal y dreftadaeth ddiwylliannol a'r iaith. | Bydd ystyriaethau cymunedol yn cael sylw drwy'r broses gynllunio. |
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Ceir effaith gadarnhaol gan fod cynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd ac adeiladau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hannog a'u cefnogi wrth leihau ôl troed carbon pobl.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Tai yn cefnogi'r gwaith o Ailsefydlu Ffoaduriaid o fewn y Sir. | Tystiolaeth o leihau carbon cyn ac ar ôl rhoi'r cynlluniau ar waith. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.6. Cymru sy’n fwy cyfartal**<br>Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu’u hamgylchiadau<br><br>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.<br>*Ydych chi wedi ystyried sut allai’r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y’u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae’r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br><br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.<br><br>*Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o’r grwpiau gwarchodedig. Bydd angen i chi ystyried a yw’r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw’n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i’r amlwg.* | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon?<br><br>*Mae’n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy’n defnyddio’r gwasanaeth neu bwy sy’n debygol o’i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio data nac yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â’r blwch* ***cynnwys*** *yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.* | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at yr egwyddor hon?<br><br>*Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i’r sefydliad drin unigolion yn unol â’u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny’n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â’r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae’n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu’r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.* |
| **Oedran**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓) | Ceir effaith gadarnhaol i bob grŵp oedran gan ein bod yn creu cartrefi sy'n addas ar gyfer pob cyfnod o fywyd | Mae 21% o'r aelwydydd ar Gofrestr Tai Ceredigion wedi gofyn am Lety i Bobl Hŷn. | Mae camau eisoes wedi'u cymryd i gyfrannu'n well at y broses o sicrhau |

| | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | ✓ | | |
| Pobl 18-50 | ✓ | | |
| Pobl hŷn 50+ | ✓ | | |

gan gynnwys sicrhau cartrefi diogel a chynnes i blant a theuluoedd a chartrefi annibynnol i'r henoed.

O fewn y Strategaeth Tai, ceir cydnabyddiaeth bod angen tai llai o faint sy'n addas ar gyfer pobl iau sy'n dymuno byw’n barhaol yn yr ardal.
Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r angen am lety i Bobl Hŷn ac o'r herwydd, mae datblygiadau ar y gweill i roi cynlluniau priodol ar waith.

Mae'r papurau tystiolaeth a'r ystadegau allweddol sydd yn y Strategaeth yn cefnogi'r farn hon.

Disgwylir i boblogaeth Ceredigion heneiddio dros y blynyddoedd nesaf, gyda chynnydd sylweddol yn niferoedd y bobl 65 oed a throsodd, ac yn fwy arbennig yn y grŵp oedran 85+. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, mae'r galw am dai sy'n addas ar gyfer yr henoed yn debygol o gynyddu ymhellach.

Data o Gyfrifiad 2021 am Geredigion:

| Grŵp Oedran | Poblogaeth | % |
|---|---|---|
| 0-18 | 12,572 | 18 |
| 18-50 | 26,168 | 37 |
| 50+ | 32,728 | 46 |
| Cyfanswm | 71,468 | 100 |

Mae cyfran uwch o'r boblogaeth yng Ngheredigion o oedran ymddeol (26%) o gymharu â Chymru yn gyffredinol (21%).

effeithiau cadarnhaol i bobl ifanc a phobl hŷn.

Mae gwasanaethau penodol wedi’u comisiynu gan y Gwasanaeth Cymorth Tai i fynd i'r afael ag anghenion y bobl ifanc a’r bobl hŷn.

| **Anabledd**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓) | | | | Mae 19% o'r aelwydydd ar Gofrestr Tai Ceredigion wedi gofyn am eiddo sydd wedi'i addasu, ac felly mae'r Gofrestr Tai Hygyrch wedi'i chreu. Mae anghenion y Gofrestr Tai Hygyrch yn cael eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau tai cymdeithasol.<br>Gellir sicrhau addasiadau drwy'r broses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, lle nad oes prawf modd bellach ar gyfer grantiau bach a chanolig.<br><br>Mae'n bwysig darparu amrywiaeth o wasanaethau tai sy'n galluogi pobl i sicrhau eu hannibyniaeth a'u lles drwy bob cyfnod o fywyd.<br><br>Ceir effaith gadarnhaol o ran yr ystod lawn o anableddau gan y dylai tai yn y dyfodol fod yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion wrth iddynt godi. | Mae'r papurau tystiolaeth a'r ystadegau allweddol sydd yn y Strategaeth yn cefnogi'r farn hon.<br><br>Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 22% o'r boblogaeth yn dangos bod ganddynt broblemau iechyd neu anableddau hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. | Mae gwasanaethau penodol wedi'u comisiynu gan y Gwasanaeth Cymorth Tai i fynd i'r afael ag anghenion pobl anabl. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Nam corfforol | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Salwch hirdymor | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Iechyd meddwl | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Arall | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

<table>
<tr>
<td colspan="4">Trawsrywiol<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)</td>
<td rowspan="3">Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol ar bobl drawsryweddol.<br><br>Mae anghenion unigol yn cael eu nodi yn y ceisiadau ac rydym yn mynd i'r afael â nhw yn unol â hynny.</td>
<td rowspan="3">Mae'n anodd gwybod beth yw'r ffigyrau o ran ailbennu rhywedd gan fod y rhan fwyaf o bobl sy'n profi dysmorffia rhywedd yn debygol o fod yn anhysbys.<br><br>Mae ffigyrau newydd y Cyfrifiad yn dangos bod un o bob wyth o bobl yng Ngheredigion sydd dan 35 oed wedi nodi cyfeiriadedd rhywiol LGBTQA+.<br><br>Mae data'r Cyfrifiad (Mawrth 2021) yn dangos bod 1,660 o bobl rhwng 16 a 24 oed (ynghyd â 500 rhwng 25 a 34 oed) yng Ngheredigion yn disgrifio eu hunaniaeth rywiol fel lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol neu unrhyw beth heblaw am heterorywiol.<br><br>Yn ogystal, mae ffigyrau diweddaraf y Cyfrifiad yn dangos bod 1 o bob 8 o bobl yng Ngheredigion, sydd o dan 35 oed, wedi nodi cyfeiriadedd LGBTQA+.</td>
<td rowspan="3">Nodir anghenion unigol a chanolbwyntir ar yr unigolyn wrth ddarparu cefnogaeth.</td>
</tr>
<tr>
<td rowspan="2">Trawsrywiol</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>Negyddol</td>
<td>Dim/Fawr ddim</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>✓</td>
</tr>
</table>

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

<table>
<tr><td colspan="4">Priodas neu bartneriaeth sifil<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="5">Nod y Strategaeth yw darparu tai i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn waeth beth yw eu statws priodasol.</td><td rowspan="5">Yn ôl Adroddiadau Cyfrifiad 2021, mae 43.1% o'r bobl yng Ngheredigion yn briod, sydd ychydig yn llai na'r ganran ar draws Cymru gyfan (43.8%). Mae 0.2% mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw, sy'n uwch na'r ffigwr o 0.1% ar draws Cymru a Lloegr.</td><td rowspan="5">Nodir anghenion unigol a chanolbwyntir ar yr unigolyn wrth ddarparu cefnogaeth.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Priodas</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Partneriaeth sifil</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Beichiogrwydd neu famolaeth<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="5">Nod y Strategaeth yw darparu tai i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Rhoddir blaenoriaeth i anghenion menywod beichiog a menywod sydd â phlant dibynnol.</td><td rowspan="5">Mae hwn yn ofyniad deddfwriaethol.</td><td rowspan="5">Nodir anghenion unigol a chanolbwyntir ar yr unigolyn wrth ddarparu cefnogaeth.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Beichiogrwydd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Mamolaeth</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Hil<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? ( Ticiwch ✓)</td><td rowspan="5">Caiff arferion, credoau a thraddodiadau o fewn cymunedau amrywiol eu parchu.<br><br>Wrth ddatblygu safleoedd tai fforddiadwy, ceir gwahanol fathau o dai i fodloni anghenion amrywiol a llety sy'n ddiwylliannol briodol.</td><td rowspan="5">Mae rhan fwyaf trigolion Ceredigion (96.2%) yn wyn, ac fel rhan o'r grŵp ethnig "Gwyn" nododd y rhan fwyaf o bobl y sir eu bod yn Gymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig. Y grŵp ethnig mwyaf nesaf yng Ngheredigion yw Asiaidd,</td><td rowspan="5">Efallai y bydd angen gwasanaethau cyfieithu ar rai defnyddwyr gwasanaeth sy'n fudwyr nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg/Saesneg neu fawr ddim sgiliau.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwyn</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Rhoddir sylw i anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn yr Asesiadau Llety a wneir yn rheolaidd.<br><br>Mae'r Cyngor yn rhan o'r cynlluniau cenedlaethol ar gyfer Ailsefydlu Ffoaduriaid. | Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig (1,096 o bobl neu 1.5% o boblogaeth y Sir). Nododd 867 neu 1.2% arall o'r boblogaeth eu bod yn dod o grwpiau ethnig cymysg neu luosog, a nododd 366 neu 0.5% eu bod yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd. | Rhoddir ystyriaeth i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Grwpiau ethnig eraill | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| **Crefydd neu ddim cred**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | Caiff arferion, credoau a thraddodiadau o fewn cymunedau amrywiol eu parchu. | Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 47% o boblogaeth Cymru nad oes ganddynt grefydd (47%). Disgrifiodd 44% eu crefydd fel Cristnogaeth a disgrifiodd 2.2% (66,947) eu crefydd fel Islam. Yng Ngheredigion, disgrifodd 47% o'r boblogaeth eu crefydd fel Cristnogaeth (47%), a nododd 43% nad oedd ganddynt grefydd. Nododd 0.9% o'r boblogaeth grefyddau eraill gan gynnwys Paganiaeth ac Ysbrydegaeth. | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogion | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Hindŵiaid | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sikhiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Strategaeth yw darparu tai i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. | Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae mwy o fenywod yng Ngheredigion (51%) na dynion (49%). | Ddim yn berthnasol |
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r Strategaeth yn ymdrechu i ddarparu llety addas ar gyfer pob grŵp penodedig. Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol.<br><br>Caiff anghenion unigol eu nodi yn y ceisiadau a byddwn yn mynd i'r afael â nhw yn unol â hynny. | Am y tro cyntaf yn hanes y Cyfrifiad, yn 2021, cofnodwyd gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol. Yng Ngheredigion, nododd 85% eu bod yn strêt neu'n heterorywiol, a dewisodd 10% i beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Nododd 3% neu 1,617 eu bod yn ddeurywiol, a nododd 2% neu 941 eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd. Cyn | Ddim yn berthnasol |
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod 5-7% o'r boblogaeth yn hoyw, yn lesbiaidd, neu'n ddeurywiol. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | | | | | |

**O ran Cymru fwy cyfartal, rydym hefyd wedi ystyried y grwpiau penodol canlynol**

| **Personél y lluoedd arfog** Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar Bersonél y lluoedd arfog? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r Grŵp hwn.<br><br>Mae gwybodaeth am hyn yn cael ei chasglu a'i monitro. | Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 2525 o bobl yng Ngheredigion (4.1%) wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn y gorffennol, o'i gymharu â 4.5% ar draws Cymru. | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Personél y lluoedd arfog | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Fawr Ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| **Gofalwyr** Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ofalwyr? (Ticiwch ✓) | | | | Ceir effaith gadarnhaol o ran pobl anabl a'u gofalwyr gan y dylai tai yn y dyfodol fod yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion wrth iddynt godi. | Yn ôl Cyfrifiad 2021, ceir 7,421 o ofalwyr di-dâl yng Ngheredigion. Mae 2,338 ohonynt yn darparu 50 awr yr wythnos neu fwy o ofal. Mae hyn ychydig yn uwch na'r 2,225 yn 2011. | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr Ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |



| **Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.** |
|---|
| **3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?** *Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Dileu neu leihau anfantais ● Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran* |
| Bydd y Strategaeth yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob preswylydd fel y gallant fyw mewn llety diogel a fforddiadwy sydd o'r safon uchaf ac sy'n addas i'w hanghenion unigol. |
| **3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?** *Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: ● Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ● Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny* |

| |
|---|
| Mae'r Strategaeth yn helpu i ddileu gwahaniaethu drwy fod yn hygyrch i bob grŵp, a thrwy wneud addasiadau rhesymol, lle bynnag bo angen. |
| **3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : ● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth* |
| Ni ddangosir ffafriaeth i unrhyw grŵp ac mae'r strategaeth yn annog cynwysoldeb. Ein nod yw darparu tai cynhwysol i bawb sydd mewn angen ac i annog a chefnogi cydlyniant cymunedol o fewn cymunedau amrywiol. Caiff cefnogaeth gan gymheiriaid ei hannog o fewn y cymunedau drwy'r Rhaglen Cefnogi Tai. |

| |
|---|
| **Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.**<br>**Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.**<br>*Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.* |
| **3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?** Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys. |
| Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y sawl sydd ag incwm isel wedi'i gyfyngu o ran dewisiadau tai ac y gall hyn effeithio ar eu cyfleoedd o fewn eu cymuned leol, i gael cymorth, sicrhau gwaith a derbyn addysg. |
| Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon? |
| Yr Asesiad Marchnad Dai Leol, Data'r Cyfrifiad, Cynllun Llesiant, Demograffeg. |
| Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif? |
| Mae'r Rhaglen Cefnogi Tai yn darparu cymorth a chyngor ynghylch rheoli arian, cynyddu incwm, cyllidebu, sicrhau ffyrdd iach o fyw a rheoli llety. Mae'r Strategaeth Dai hefyd yn anelu at sicrhau bod cynifer o dai fforddiadwy ac opsiynau tai fforddiadwy yn cael eu darparu ag y bo modd. |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y Strategaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg | Bydd copïau dwyieithog o'r Strategaeth derfynol ar gael ar y wefan gorfforaethol yn unol â Safonau'r Gymraeg . | Ddim yn berthnasol |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Mae'r effaith yn yr achos hwn yn gadarnhaol<br><br>Mae cymunedau yng Ngheredigion yn newid ac mae hyn yn cael effaith ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg. O fewn y strategaeth rydym yn anelu at<br>(i) Sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol fel y gallant aros yn eu cymunedau a chynnal bywiogrwydd yr iaith.<br>(ii) Sicrhau bod digon o gartrefi ar gael i bobl | Proffil Ceredigion o ran y Gymraeg:<br>Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021, mae 45.3% (31,678) o'r boblogaeth dros 3 oed yn siaradwyr Cymraeg .<br><br>Rydym yn cofnodi dewis iaith y sawl sy'n cyflwyno ceisiadau. | Ddim yn berthnasol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ifanc, os ydynt am aros yn y Sir. | | |
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Mae'r effaith yn gadarnhaol.<br>Gall defnyddwyr y gwasanaeth gael mynediad i'r gwasanaeth tai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â pholisi iaith y Cyngor. | Gall ymgeiswyr wneud cais naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a chael gwasanaeth llawn. | Ddim yn berthnasol |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y Strategaeth a'r dogfennau perthnasol ar gael yn y ddwy iaith.<br><br>Rydym wastad yn ystyriol o'r iaith a'r diwylliant ac rydym yn ceisio darparu cartrefi i bobl leol aros yn eu cymunedau fel y gall yr iaith ffynnu. | Un o brif amcanion y Strategaeth 'Tai i Bawb' yw mynd i'r afael â thai fforddiadwy i bobl leol. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod digon o gyfleoedd i bobl leol sydd â chysylltiad lleol gael mynediad at dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol. | Ddim yn berthnasol |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Amcan y Strategaeth yw cael effaith gadarnhaol ar y diwylliant a'r dreftadaeth leol gan gynyddu tai fforddiadwy i bobl leol. | Bydd camau yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag anghenion y trigolion lleol gan gynnwys anghenion ieithyddol, a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol y sir. | Ddim yn berthnasol |



**4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

**4.1 Camau**

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd fyddwch chi'n ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.**
*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)*

Ni nodwyd dim effeithiau negyddol.

**4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**
*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?*

Caiff effaith ac effeithiolrwydd y Strategaeth eu monitro drwy'r Bartneriaeth Tai Strategol a thrwy gynnal sgyrsiau parhaus gyda'r partneriaid.



**5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | 1 – Isel iawn | 2 – Isel | 3 – Canolig | 4 – Uchel | 5 – Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 – Annhebygol o ddigwydd | 2 – Llai tebygol o ddigwydd | 3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 – Mwy tebygol o ddigwydd | 5 – Tebygol o ddigwydd |



| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw risgiau | | | |
| | | | |

Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?

Gallai. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r model Llesiant Gydol Oes a'r Gwasanaeth Economi ac Adfywio, gallwn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf ledled y Sir.

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

| **6. CYMERADWYO** | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Llŷr Hughes |  | 14/03/2023 |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Donna Pritchard |  | 14/03/2023 |
| Y Cyfarwyddwr Corfforaethol | James Starbuck |  | 15/03/2023 |
| Deiliad y Portffolio | Y Cynghorydd Matthew Vaux |  | 15/03/2023 |

# Cyngor Sir Ceredigion

**ADRODDIAD I'R:** Cabinet

**DYDDIAD:** 2 Mai 2023

**LLEOLIAD:** Hybrid

**TEITL:** Y Strategaeth Dai – amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf.

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023.

**CEFNDIR:**
Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028.

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol swyddogaeth strategol o ran y modd y mae'r farchnad dai leol yn gweithio. Un o'r prif ffyrdd y maent yn cyflawni'r swyddogaeth honno yw drwy greu Strategaeth Dai Leol. Y nod yw bod yr awdurdod lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer tai ymhob sector a'i fod yn sicrhau y cyflenwir tai priodol a gwasanaethau cysylltiedig er mwyn bodloni'r anghenion lleol.

Mae'r Strategaeth Dai Leol bresennol wedi bod ar waith ers 2018 ac roedd yn gynllun ar gyfer 5 mlynedd. O ystyried hyn, cafodd y Strategaeth Dai ei hadolygu a'i diweddaru. Mae Uwch Swyddogion y Tîm Tai, partneriaid allweddol a Rheolwyr Corfforaethol pob un o'r Pyrth wedi bod yn rhan o'r adolygiad a gwnaed llawer o waith i gasglu a dadansoddi data.

Mae'r Strategaeth Dai ddiwygiedig yn amlinellu'r weledigaeth am y 5 mlynedd nesaf:
**"Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i fodloni anghenion trigolion y sir yn awr ac yn y dyfodol".**

Yn dilyn trafodaeth, ystyriodd yr Aelodau'r argymhelliad canlynol:

**ARGYMHELLIAD:**
Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet gymeradwyo fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028 fel y gellir dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth.

Cytunodd yr Aelodau i argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028 a dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth, yn ddibynnol ar ystyried y canlynol:

- Bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cabinet ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, i fynegi pryder nad yw'n bosib darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion yng Ngheredigion gan fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar ffosffadau ac ansawdd y dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar yr argyfwng tai presennol a dylid ystyried y mater.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er mwyn caniatáu i’r Cyngor gyflawni’r gofynion sy’n gysylltiedig â’r swyddogaeth dai strategol.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

 Eitem Agenda 12

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 02/05/2023 |
| **Teitl:** | Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Ystyried y strategaeth newydd ynghylch y dull rhanbarthol o ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth oedolion yng Ngorllewin Cymru yn unol â rhwymedigaethau deddfwriaethol. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oed a Llesiant |

**CEFNDIR:**

Mae darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ran 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r math hwn o eiriolaeth yn cael ei ddarparu mewn amgylchiadau megis lle mae amheuaeth ynghylch mynediad dinesydd at wasanaethau gofal a chymorth. Gellir gweld eiriolaeth ei hun ar gontinwwm, ac, er bod darpariaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wedi'i mandadu'n benodol, mae mathau eraill i'w hannog, gan adeiladu ar allu unigol a chymunedol.

**SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Mae'r holl ddeddfwriaeth ddiweddar o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod fod eiriolaeth yn sylfaenol bwysig mewn sefyllfaoedd lle y mae angen i unigolion a grwpiau a ymyleiddiwyd gael cefnogaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu parchu. Mae eiriolaeth yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno er mwyn annog unigolion a grwpiau i gymryd rhan yn y penderfyniadau a'r prosesau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Er nad yw'n ofyniad statudol, mae'r Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol yn ceisio llunio ein trefniadau comisiynu i fodloni'r gofynion cyfreithiol i sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac yn deg i'r rheini sydd ei heisiau, neu sydd ei hangen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru, sef Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar gyfnod estynedig o ymgysylltu â dinasyddion, ac yn enwedig felly'r rheini sy'n ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mudiadau eiriolaeth, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Mae gan y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion hon bum maes blaenoriaeth, pob un ohonynt yn anelu at wella canlyniadau i bobl sydd angen eiriolaeth. Cafodd y blaenoriaethau eu diffinio yng ngoleuni gweithgarwch cyd-gynhyrchu hyd yn hyn,

ymgysylltu, yr Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ac wrth ymateb i ofynion deddfwriaethol. Maent yn cynnwys:

- Blaenoriaeth 1. Cynnal a datblygu ymhellach ein dull cydgynhyrchu o weithredu
- Blaenoriaeth 2. Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eiriolaeth
- Blaenoriaeth 3. Gofalu fod Eiriolaeth ar Gael yn Hwylus ac i Bawb
- Blaenoriaeth 4. Gofalu fod Safon Eiriolaeth yn Gyson Uchel
- Blaenoriaeth 5. Cynnal Arbenigeddau a Mathau Anstatudol o Eiriolaeth

Mae pob blaenoriaeth yn y strategaeth yn amlinellu pam ei bod yn bwysig a beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd yng Ngorllewin Cymru. Yn dilyn hyn mae pob blaenoriaeth yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn cael eu bodloni.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Oes |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Mae'r strategaeth yn un ar gyfer y 5 mlynedd nesaf tra hefyd yn cyfeirio at faterion tymor byr i fynd i'r afael â nhw |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Cydweithio:** | Mae datblygiad y strategaeth wedi'i oruchwylio gan y Gweithgor Eiriolaeth (cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol, y 3ydd sector a'r bwrdd iechyd) |
| | **Cynnwys:** | Roedd datblygiad y strategaeth yn cynnwys cyfnod o gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid sydd agosaf at wasanaethau eiriolaeth |
| | **Atal:** | Gall eiriolaeth fel darpariaeth gefnogi'r agenda ataliol |
| | **Integreiddio:** | Mae'r strategaeth yn hyrwyddo gwaith integredig iechyd a gofal cymdeithasol i symleiddio'r ddarpariaeth eiriolaeth |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | Er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â darpariaethau eiriolaeth oedolion. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd y strategaeth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar Ebrill y 13eg 2023 |
| **Fframwaith Polisi:** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Ceredigion 2022 – 2027: Amcan(ion) Llesiant:<br>• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach |

- Darparu'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd a Galluogi Dysgu ym Mhob Oed

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) |
| **Goblygiadau Staffio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau Eiddo / Asedau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Risg(iau):** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) |
| **Papurau Cefndir:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1- Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru<br>Atodiad 2- Asesiad Effaith Integredig |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal |
| **Swyddog Adrodd:** | Rebecca Johnson, Rheolwr Gwasanaeth Contractau a Gomisiynwyd ar ran y Gweithgor Rhanbarthol |
| **Dyddiad:** | 02/05/2023 |

2023 - 2027

# Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru

DRAFT

wwcp
West Wales Care Partnership
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

## Rhagair

Mae'r holl ddeddfwriaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddiweddar yn cydnabod fod eiriolaeth yn sylfaenol bwysig mewn sefyllfaoedd lle y mae angen i unigolion a grwpiau a ymyleiddiwyd gael cefnogaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu parchu. Mae eiriolaeth yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno er mwyn annog unigolion a grwpiau i gymryd rhan yn y penderfyniadau a'r prosesau sy'n effeithio eu bywydau.

Mae'r Strategaeth Eiriolaeth Oedolion hon yn ceisio llunio trefniadau comisiynu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny mae'n ceisio sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn hwylus ac i bawb sydd ei eisiau, neu ei angen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru, sef Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Fwy a mwy, derbynnir fod niferoedd arwyddocaol o bobl sydd angen gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol hefyd angen mathau o gefnogaeth sy'n caniatáu iddynt gael llais cyfartal a rheolaeth ar y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu cynllunio a'u darparu. Mae'r ystod o wasanaeth eiriolaeth yn ein rhanbarth yn ceisio mynd i'r afael â'r angen hwn am gefnogaeth ac mae hefyd yn annog datblygu hyder a sgiliau unigolion i gymryd rhan a lleisio eu lleisiau a'u dewisiadau eu hunain trwy hunan-eiriolaeth.

Mae rhai grwpiau yn ein cymunedau sydd angen lefel arwyddocaol o gefnogaeth er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod eu hawliau'n cael eu cyflawni'n llawn. Mae hyn yn cynnwys pobl ag anghenion penodol yn lleisio eu dymuniadau a'u dewisiadau, er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl ag anableddau dysgu, pobl ag awtistiaeth, pobl â dementia, pobl a chanddynt faterion iechyd meddwl cymhleth, rhai pobl a chanddynt amhariadau niferus neu synhwyraidd, a rhai gofalwyr. Ar gyfer y grwpiau hynny y mae'r strategaeth hon yn ceisio llywio'r gwaith o gomisiynu a darparu eiriolaeth i'r dyfodol.

Ein bwriad, trwy weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau a rhanddeiliaid yw y byddwn, yn y pum mlynedd nesaf, yn gallu llunio, trwy ein trefniadau comisiynu, sut fydd y mathau mwyaf priodol o eiriolaeth yn y rhanbarth yn cwrdd â'r ystod o anghenion am eiriolaeth. Bwriadwn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn sylfaen gadarn o wasanaethau wrth geisio datblygu gwasanaethau eiriolaeth mewn meysydd sydd angen eu datblygu. Bwriadwn flaenoriaethu cefnogaeth eiriolaeth ar gyfer yr unigolion a'r grwpiau hynny sydd ei hangen fwyaf.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â'r heriau pwysig hyn er mwyn sicrhau bod mynediad at wasanaethau eiriolaeth yn ein rhanbarth yn cyrraedd y safon uchaf bosib a'i fod yn adlewyrchu'r hyn mae ein cymunedau angen o wasanaethau eiriolaeth.



Judith Hardisty
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

CONTENTS

**Rhagair** ........................................ 1
**CEFNDIR A CHYD-DESTUN** ........................................ 3
**Beth yw Eiriolaeth a Phwy Sydd Ei Hangen?** ........................................ 4
**Datganiad Safbwynt Gorllewin Cymru** ........................................ 6
**Gweithio Gyda'n Gilydd – Ein Gweledigaeth Gyffredin** ........................................ 10
**Dadansoddi Anghenion** ........................................ 11
**Beth Ydym Ni'n Mynd i'w Wneud?** ........................................ 16
Blaenoriaeth 1. Cynnal a Datblygu Ein Dull Cydgynhyrchu Ymhellach ........................................
Blaenoriaeth 2: Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eiriolaeth ........................................
Blaenoriaeth 3: Gofalu fod Eiriolaeth ar Gael yn Hwylus ac i Bawb ........................................
Blaenoriaeth 4: Gofalu fod Safon Eiriolaeth yn Gyson Uchel ........................................
Blaenoriaeth 5: Cynnal Arbenigeddau a Mathau Anstatudol o Eiriolaeth ........................................
**Adrodd ar Ein Cynnydd** ........................................ 32
**Geirfa** ........................................ 33
**Cyfeirnodau a Dolenni** ........................................ 36

DRAFT

## CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Er mwyn creu cyd-destun cyffredinol y bydd Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru yn gweithredu oddi fewn iddo aethom ati i gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth Gymreig sy'n effeithio ar y maes hwn.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn mynnu fod rhaid i'r tri Awdurdod Lleol rhanbarthol gomisiynu gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol statudol a bod rhaid i'r Awdurdodau Lleol hyrwyddo mynediad at y sbectrwm o wasanaethau eiriolaeth.

> **Dylid ystyried eiriolaeth yn elfen gynhenid o'r Ddeddf sy'n sicrhau bod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a'u llesiant. Mae eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall sut y gallant gyfranogi, cyfrannu a chymryd rhan, a sut y gallant arwain neu gyfarwyddo'r broses os oes modd.**
> Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Cod Ymarfer Eiriolaeth t.8

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn rhoi llawer o bwyslais ar lais a rheolaeth pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

> **Mae gan eiriolaeth rôl bwysig i'w chwarae o ran llais a rheolaeth a chynnal gofynion ehangach y Ddeddf o ran llesiant, diogelu ac atal. Gall gynorthwyo pobl yn fawr i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau gwybodus, gan sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau perthnasol.**
> Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Cod Ymarfer Eiriolaeth t.2

### Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod cysyniad llais a chyfranogiad unigolion ynghanol y dull o gyflawni llesiant yng Nghymru.

> **Mae fy llais yn cael ei glywed ac yn cael gwrandawiad.**
> **Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried. Rwyf yn siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gen i rywun all wneud hynny ar fy rhan.**
> Datganiad yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ynghylch cyflawni llesiant personol t.5

### Deddf Iechyd Meddwl a Ddeddf Galluedd Meddyliol

Ceir gofynion tebyg yn y Ddeddf Iechyd Meddwl a Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gomisiynu gwasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol ar draws y rhanbarth.

### Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru a Chynllun Ardal

Mae angen i gomisiynu effeithiol fanteisio ar y wybodaeth a gasglwyd trwy gydgynhyrchu a'r data demograffig yng Nghynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-23 a'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru.

## Beth yw Eiriolaeth a Phwy Sydd Ei Hangen?

Ceir isod ddiffiniad o eiriolaeth a dderbynnir yn eang:

**'Ystyr eiriolaeth yw gweithredu i helpu pobl i ddweud beth maen nhw ei eisiau, sicrhau eu hawliau, cynrychioli eu buddiannau a chael y gwasanaethau maen nhw eu hangen. Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r bobl maen nhw'n eu cefnogi ac yn ochri gyda nhw. Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.'** Siarter Eiriolaeth 2018 y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant




Mae'r diagram uchod, a gynhyrchwyd gan Brosiect Eiriolaeth Edau Euraidd, yn dangos y sbectrwm o wasanaethau eiriolaeth. Mae manteision penodol i bob un o'r gwahanol fathau:

| Math | Disgrifiad |
|---|---|
| Hunan-Eiriolaeth | Pan mae unigolion yn cynrychioli ac yn siarad drostynt eu hunain. |
| Eiriolaeth Anffurfiol | Pan mae teulu, ffrindiau a chymdogion yn cefnogi unigolyn i sicrhau bod eu safbwyntiau dymuniadau a theimladau yn cael eu clywed, a gallai hynny gynnwys siarad ar eu rhan. |
| Eiriolaeth gan Gymheiriaid | Un unigolyn yn gweithredu'n eiriolwr i eraill sy'n rhannu profiad/cefndir cyffredin. |
| Eiriolaeth ar y Cyd | Mae'n cynnwys grwpiau o unigolion a chanddynt brofiadau cyffredin sy'n cael eu grymuso i gael llais a dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. |
| Eiriolaeth Dinasyddion | Mae'n cynnwys partneriaeth un ac un hirdymor rhwng eiriolwr ddinesydd gwirfoddol wedi'i hyfforddi neu ei gefnogi ac unigolyn. |
| Eiriolaeth Wirfoddol Annibynnol | Mae'n cynnwys eiriolwr annibynnol a di-dâl sy'n gweithio trwy drefniant tymor byr, neu ar fater penodol, gydag unigolyn neu unigolion. |
| Eiriolaeth Ffurfiol | Gall gyfeirio at rôl eiriolaeth staff mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill lle y mae angen i weithwyr proffesiynol fel rhan o'u rôl ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn a helpu sicrhau eu bod yn cael sylw priodol. |
| Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Statudol) | Eiriolwyr a hyfforddwyd yn arbennig i gefnogi pobl i fynegi barn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ynghylch eu gofal a'u triniaeth iechyd meddwl. Mae'n fath o eiriolaeth statudol. |
| Eiriolaeth Galluedd Meddyliol | Mae Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) yn helpu pobl nad yw'r galluedd ganddynt fel y gallant fod yn rhan o benderfyniadau a wneir ar eu rhan. Mae ar gyfer |

| | |
|---|---|
| Annibynnol (Statudol) | pobl a gafodd asesiad nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad drostynt eu hunain. |
| Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (Statudol) | Mae'n cynnwys eiriolwr proffesiynol, wedi'i hyfforddi yn gweithio mewn partneriaeth un ac un gydag unigolyn i sicrhau bod eu barn yn cael ei chyfleu'n gywir a bod eu hawliau'n cael eu parchu. Gallai hynny fod ar gyfer un mater neu nifer o faterion. |


Mae gwahaniaeth pwysig rhwng eiriolaeth dan gyfarwyddyd ac eiriolaeth heb gyfarwyddyd. Mae eiriolaeth heb gyfarwyddyd yn golygu fod eiriolwyr yn cael eu cyfarwyddo gan yr unigolyn, hyd yn oed os na wnaeth yr unigolyn gyfeirio eu hunain at y gwasanaethau eiriolaeth. Rhyngddynt, gallant sefydlu perthynas ac adnabod y materion eiriolaeth, y nodau a'r canlyniadau a fwriedir yn unol â dymuniadau/dewisiadau defnyddiwr y gwasanaeth.

Efallai y bydd angen y math heb gyfarwyddyd o eiriolaeth pan mae materion cyfathrebu a galluedd yn golygu nad yw cyfarwyddyd a mynegi dewisiadau a phryderon yn amlwg. Byddai hyn yn cynnwys cymryd camau cadarnhaol gyda neu ar ran person sy'n methu rhoi arwydd clir o'u barn neu ddymuniadau mewn sefyllfa benodol. Mae eiriolwyr heb gyfarwyddyd yn ceisio cynnal hawl y person, sicrhau triniaeth deg a chyfartal, sicrhau mynediad at wasanaethau, a gwneud yn siŵr y cymerir penderfyniadau gan roi ystyriaeth ddyladwy i'w dewisiadau a'u safbwyntiau unigryw (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)

DRAFT

## Datganiad Safbwynt Gorllewin Cymru

Prif Randdeiliaid





Cafwyd ffocws cydlynol ar eiriolaeth yng Ngorllewin Cymru ers rhai blynyddoedd, a sefydlwyd Rhwydwaith Eiriolaeth y Tair Sir dros 12 mlynedd yn ôl. Nod y Rhwydwaith, sy'n cynrychioli darparwyr gwasanaethau eiriolaeth statudol ac anstatudol ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yw gwella, hyrwyddo a datblygu gwasanaethau eiriolaeth a darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y gwasanaethau hynny. Mae'n gweithio'n gyfochrog â Gweithgor Eiriolaeth sy'n cynnull at ei gilydd gomisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth ar draws Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro. Dangosir y perthnasoedd hyn yn y diagram Venn gyferbyn.

Adolygiad Rhanbarthol

Datblygwyd y cynnig gwreiddiol trwy drefn gydgynhyrchu, fel y cynigiwyd gan y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd.

Yn 2017, derbyniodd Rhwydwaith Eiriolaeth y Tair Sir arian i wneud gwaith ymgysylltu yn dilyn ymarferiad hunanasesu a amlygodd feysydd lle'r oedd potensial i wella arfer, fel rhan o Raglen Eiriolaeth Edau Euraidd. Gwnaed gwaith ymgysylltu, gyda chefnogaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, gydag unigolion, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill ar draws y rhanbarth, oedd yn cynnwys arolwg (142 ymateb), pum digwyddiad sirol ac un digwyddiad rhanbarthol.

Arweiniodd y gwaith hwn, a'r adroddiad a ddilynodd, at ddiffinio a dylunio'r model gwasanaeth rhanbarthol arfaethedig - roedd y prif nodweddion yn cynnwys yr hyn a ddywedwyd oedd yn bwysig i'r sawl a gymerodd ran yn yr ymgysylltiad: un pwynt cyswllt; darparu lleol; parhau i gydnabod arbenigeddau (diogelu plant, gofalwyr, anableddau dysgu); a phwysigrwydd cysylltu â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA). Mae'r model gwasanaeth yn cydnabod rôl allweddol IPA o fewn cyd-destun cymorth ehangach mathau anstatudol o eiriolaeth. Darlunnir y model 'wy wedi'i ffrïo' fel y'i gelwir isod.




| | |
|---|---|
| 🔵 | Grwpiau neu fudiadau a gefnogir yn y rhwydwaith ehangach. Gall rhai fod yn gweithio tuag at ddod yn ddarparwyr IPA |
| 🟠 | Darparwyr IA Generig ac Arbenigol ar draws yr ardal sy'n bodloni'r safonau angenrheidiol ar gyfer IPA |
| ⚪ | Rhwydwaith eiriolaeth ehangach yn cynnwys y Rhwydwaith Strategaeth Eiriolaeth |

Comisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

Wrth ymateb i'r adolygiad, cytunodd yr awdurdodau lleol yn y Rhanbarth i gyd gomisiynu un gwasanaeth IPA ar gyfer oedolion (ceir trefniadau gwahanol ac ar wahân ar gyfer plant). Cafodd hyn ei ddylanwadu'n rhannol gan ymrwymiad Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i gomisiynu rhanbarthol, o dan Ran 9 DGCLl, a chynigiwyd y dylai'r gwasanaeth gael ei gefnogi gan drefniant cronfa gyfunol gysylltiedig - sef yr arian a werir yn barod ar eiriolaeth.

Tra bod gan Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro drefniadau cytundebol yn barod ar gyfer darparu eiriolaeth, roedd Ceredigion yn darparu IPA ad hoc trwy drefniant 'prynu ar y pryd'. Roedd y ffaith nad oedd contractau yn bod yn barod yn golygu fod trefniadau ar gyfer Ceredigion yn flaenoriaeth; ac oherwydd y risg o ansefydlogi'r farchnad mewn mannau eraill, cytunwyd cynnal peilot o'r cynllun rhanbarthol a fwriadwyd yng Ngheredigion yn y lle cyntaf, cyn ei ehangu ymhellach. Roedd y cynllun peilot yn

cynnig y fantais hefyd o fod yn gyfle i asesu'r galw (oedd heb ei fesur ar y pryd) am IPA, o gymharu â mathau eraill o eiriolaeth.

Cychwynnodd peilot Ceredigion ar 1 Hydref 2019, gyda'r bwriad ar ôl ei werthuso, y byddai ymarferiad comisiynu rhanbarthol yn dilyn yn 2020. Fodd bynnag, mae pandemig COVID a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, wedi golygu fod cynlluniau comisiynu rhanbarthol ar gyfer y gwasanaeth IPA wedi cael eu gohirio tan 2022.

Comsiynu Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol ac Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol

Mae'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol yn rôl statudol a grëwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cynnig diogelwch i bobl sydd heb alluedd i wneud penderfyniadau pwysig. Rôl yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yw cefnogi a chynrychioli'r person yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn y bôn, maen nhw'n sicrhau bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei dilyn pan fydd angen gwneud penderfyniad ynglŷn â newid hirdymor o ran llety neu driniaeth feddygol ddifrifol.

Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar weithwyr proffesiynol (Gweithwyr Cymdeithasol a/neu Staff Meddygol) i benodi Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ar gyfer unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn ac y barnwyd nad oes ganddo alluedd a'i fod yn ddigyfaill. Gall Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol hefyd fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch Adolygiadau Gofal neu Achosion Diogelu Oedolion. Rôl yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yw cefnogi a chynrychioli'r person sydd heb alluedd, felly mae gan Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yr hawl i weld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol a rhaid ystyried unrhyw adroddiadau a ddarperir gan Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae Mental Health Matters Wales yn darparu'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae gan y Bwrdd Iechyd gontract Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol ar ran y rhanbarth a'r awdurdodau lleol, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i greu contract Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol Cymru gyfan y gwahoddir tendrau amdano yn lleol. Dylai tendrau fod yn barod erbyn yr haf, rhoddir gwybod i'r cynigwyr buddugol erbyn yr hydref a bydd contract newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2024.

Comisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Cymunedol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ailgomisiynu Eiriolaeth Gymunedol ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau Eiriolaeth Gymunedol ar gyfer pobl a chanddynt bryderon Iechyd Meddwl lefel isel.

Bydd Eiriolaeth Gymunedol yn gweithio yn y gymuned a bydd yn cefnogi unigolion i gael eu clywed a'u trin gyda pharch i fyw yn eu cymuned, yn ddiogel, yn annibynnol a chan deimlo fod ganddynt gefnogaeth.



DRAFT

Pwrpas y math a'r lefel hon o Eiriolaeth yw darparu cefnogaeth gynnar ac ymyriad cynnar er mwyn lleddfu'r pwysau ar Wasanaethau Gofal Sylfaenol yn ogystal â rhwystro pryderon Iechyd Meddwl a'r galw ar wasanaethau eiriolaeth mwy rhag cynyddu.

DRAFT

Gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir yn y rhanbarth ar hyn o bryd

Ar draws Gorllewin Cymru, gellir dosbarthu gwasanaethau eiriolaeth yn fras yn ddarpariaeth statudol ac anstatudol. Gan adeiladu ar waith a wnaed gan Rwydwaith y Tair Sir, a chan nodi'r gwaith a amlinellwyd uchod, mae'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir ar hyn o bryd (Mehefin 2021) fel a ganlyn:

| Gwasanaeth | Ardal | Comisiynydd | Darparwr (ym mis Ebrill 2021) |
|---|---|---|---|
| Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol | Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Eiriolaeth Gorllewin Cymru |
| Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol | Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Mental Health Matters |
| Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol | Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro | Comisiynir yn Rhanbarthol gan y 3 Awdurdod Lleol | 3CIPA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eiriolaeth Anstatudol | Sir Gaerfyrddin<br>Ceredigion<br>Sir Benfro | - | Eiriolaeth Gorllewin Cymru |

## Gweithio Gyda'n Gilydd – Ein Gweledigaeth Gyffredin

Cyn y pandemig roedd ein gweledigaeth ar gyfer eiriolaeth fel a ganlyn:

**Bydd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn sicrhau mynediad cyfartal at eiriolaeth o ansawdd uchel yn ein hardal.**

Ers y pandemig ac ers llunio'r weledigaeth hon, cafodd llawer o waith ei wneud i sicrhau mynediad cyfartal at eiriolaeth o ansawdd uchel yn yr ardal. Mae enghraifft dda o'r gwaith hwn yn cynnwys gwasanaeth IPA rhanbarthol a gyd ailgomisiynwyd gyda fframwaith cytundebol.

Roedd aelodau'r Gweithgor Eiriolaeth yn teimlo ei bod yn bwysig inni gadw'r hen weledigaeth hon yn y strategaeth derfynol er mwyn dangos pa mor bell rydym wedi teithio dros y 2-3 blynedd diwethaf o ran gwasanaethau eiriolaeth rhanbarthol.

Yn naturiol, nid yw'r weledigaeth yn addas mwyach gan nad yw'n gydnaws â'r dyheadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Felly, caiff gweledigaeth newydd ei datblygu a bydd angen partneriaeth gydgynhyrchu gyda'r holl brif asiantaethau, fforymau cymunedol a rhanddeiliaid i sicrhau bod datblygiadau yn adlewyrchu'r gweithredu sydd ei angen. Caiff y weledigaeth hon ei chytuno mewn grŵp llywio eiriolaeth rhanbarthol newydd fydd yn cael ei sefydlu i gyd-fynd â chyhoeddi'r strategaeth hon.

Caiff yr holl gynllunio a datblygu arwyddocaol eu cytuno o fewn grŵp llywio cydgynhyrchu eiriolaeth rhanbarthol, y bydd ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth yn cael eu datblygu, fydd yn gwasanaethu'n is-grŵp o'r Grŵp Comisiynu sydd yn ei dro'n gweithredu ar ran Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC). Bydd PGGC yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth hon yn cwrdd â'r nodau a gytunwyd gennym.

Bydd gweithio gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogaeth, a'u cynrychiolwyr, yn ganolog i'n ffordd o weithio. Bydd y Rhwydwaith Strategaeth Eiriolaeth (ASN), sy'n cynnwys mudiadau eiriolaeth lleol, yn bwynt cyfeiriol allweddol ar gyfer datblygiadau. Mae'n hanfodol fod datblygiadau nid yn unig yn cael eu cydgynhyrchu ond hefyd yn cael eu cyd-berchnogi gan y partneriaid, rhanddeiliaid a phobl wahanol sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Yr hyn sy’n cynnal yr egwyddorion hyn yw’r angen i fudiadau eiriolaeth gael llywodraethu sefydliadol ac annibyniaeth weithredol.

## DADANSODDI ANGHENION

Mae’r strategaeth hon yn seiliedig ar gyfnod estynedig o ymgysylltu â dinasyddion, ac yn enwedig felly’r rhai sy’n ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal

> Caiff y strategaeth ei fframio gan gasgliad o egwyddorion eiriolaeth a gytunwyd yn genedlaethol a amlinellir yng Nghod Ymarfer Eiriolaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru):
>
> Dylai gwasanaethau eiriolaeth:
> - gael eu harwain gan farn a dymuniadau’r unigolyn
> - ddiogelu a hyrwyddo hawliau ac anghenion yr unigolyn
> - gael cyhoeddusrwydd a bod yn hawdd i’w defnyddio
> - weithio dros yr unigolyn yn unig
> - gael eu rheoli’n dda, yn brydlon, ymatebol a darparu gwerth am arian
> - barchu cyfrinachedd
> - gynnwys gweithdrefnau Canmol a Chwyno effeithiol a hygyrch
> - hyrwyddo a monitro cydraddoldeb

DRAFT

cymdeithasol, mudiadau eiriolaeth, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Cychwynnodd yr ymgysylltu hwn yn 2016 a pharhaodd tan 2019 ac roedd dan arweiniad Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) genedlaethol, prosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, i ddatblygu trefn effeithiol o gomisiynu gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gan Awdurdodau Lleol sy’n un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).


Gan weithio gyda chomisiynwyr a Rhwydwaith y Tair Sir, trefnodd Edau Euraidd gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws y rhanbarth a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a arweiniodd at ddigwyddiad Agored yng Ngheredigion ym mis Mawrth 2019.

Gofynnodd y digwyddiadau ddau gwestiwn:

1. Sut mae eiriolaeth dda yn edrych?
2. Beth sydd ei angen o ran eiriolaeth ar gyfer Gorllewin Cymru?

## Sut mae eiriolaeth dda yn edrych?

Gan gydnabod y bydd hyn yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, roedd cytundeb cyffredinol y dylai eiriolaeth dda gefnogi pobl i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, i fod yn annibynnol, sicrhau hawliau unigolyn, herio anghydraddoldeb, hyrwyddo hunan-eiriolaeth, cael eu cyfeirio gan y person, bod yn barchus o unigolyddiaeth a bod yn gyfrinachol.





## Beth sydd ei angen o ran eiriolaeth ar gyfer Gorllewin Cymru?

Roedd yr ymatebion ynghylch yr hyn oedd ei angen yn ddigon amrywiol ac fe awgrymwyd blaenoriaethau gwahanol gan y grwpiau gwahanol a gymerodd ran. Fodd bynnag, roedd modd adnabod rhai themâu cyffredin o'r ymatebion hyn oedd wedyn yn cyfrannu at ail gam yr ymgysylltu cydgynhyrchu:

Yr angen i:

1. Godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a chymunedau am fathau gwahanol o eiriolaeth a manteision posib pob un ohonynt.
2. Gallu derbyn eiriolaeth yn rhwyddach a sicrhau ei fod ar gael yn gyfartal ar draws ein rhanbarth, yn enwedig felly ar gyfer unigolion a grwpiau nad ydynt hyd yn hyn wedi'i chael yn hawdd dod o hyd i'r math iawn o eiriolaeth.
3. Sicrhau bod ansawdd gwasanaethau eiriolaeth yn gyson uchel ac y gellir gwerthuso canlyniadau eiriolaeth yn effeithiol
4. Cynnal a datblygu cyfranogiad llawn gan ddinasyddion, cymunedau ac ystod o bartneriaid sefydliadol o ran sut mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu datblygu a'u darparu.
5. Cefnogi mathau arbenigol ac anstatudol o eiriolaeth.

**Beth sydd ei angen o ran eiriolaeth ar gyfer Gorllewin Cymru? (112 yn bresennol)**




Trwy gydol 2020, cynhaliodd Arweinydd Prosiect yn y Prosiect Rhanbarthol ar Ddatblygu Eiriolaeth gyfres o drafodaethau unigol a grwpiau ffocws i edrych yn fanylach ar sut ellid troi'r themâu hyn yn strategaeth fanwl.

Pan wnaeth pandemig COVID hi'n anodd ymgysylltu wyneb yn wyneb cynhaliwyd rhagor o arolygon a holiaduron. Mae PGGC yn hyderus y casglwyd digon o wybodaeth a safbwyntiau i gyfrannu at y blaenoriaethau strategol. Bydd cynllunio gweithredu cydgynhyrchu parhaus yn adolygu a mireinio gweithredu'r strategaeth wrth iddi esblygu.

Wrth inni ddod allan o bandemig COVID roedd y Gweithgor Eiriolaeth yn teimlo fod angen cynnal rhagor o ymgysylltu, nid yn unig i gryfhau/ychwanegu at yr ymgysylltu a ddigwyddodd yn barod, ond i sicrhau hefyd bod lleisiau'r sawl sydd agosaf at wasanaethau eiriolaeth yn cael lle amlwg yn y strategaeth. Fe'u casglwyd trwy gyfres o ddigwyddiadau grwpiau ffocws rhithiol a hefyd trwy fynychu fforymau/grwpiau oedd yn cyfarfod yn barod gyda rhanddeiliaid gwasanaethau eiriolaeth.

Yn yr ymgysylltiad mwy diweddar hwn, dangosodd ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, mudiadau sy'n darparu eiriolaeth, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod cryn gytundeb ar y prif flaenoriaethau. Roedd y rhain yn adlewyrchu'n agos y pum canfyddiad allweddol o'r ymgysylltiad GTAP cynharach.

Beth sydd ei angen yn ôl defnyddwyr gwasanaethau:

Yn ogystal â chanfyddiadau'r GTAP, dywedodd nifer arwyddocaol o ddefnyddwyr gwasanaethau y byddai'n well ganddynt gael eiriolaeth gan aelod o'r teulu neu gyfaill agos. Roeddent yn teimlo, os oedd angen eiriolwr annibynnol, y dylid rhoi digon o amser iddynt ddatblygu ymddiriedaeth ac y byddai hynny'n galw am gyfnod rhesymol o amser.

***"Helpodd fy nheulu fi i esbonio i Weithwyr Cymdeithasol a Meddygon pa fath o help rwyf ei eisiau"***
***- Diane***

***"Rwyf angen eiriolwr sy'n cymryd amser i ddod i fy adnabod"***
***- Matthew***

***"Rwyf yn siarad drosof fy hun y rhan fwyaf o'r amser. Nid wyf ond eisiau cefnogaeth ar y penderfyniadau mawr yn fy mywyd"***
***- Gregg***

DRAFT

*Beth sydd ei angen yn ôl rhanddeiliaid sefydliadol unigol*

Yn ogystal â chanfyddiadau'r GTAP, roedd nifer arwyddocaol o bobl o fudiadau yn teimlo fod angen i'r strategaeth gyfeirio at yr angen am fwy o gydweithio a chydweithredu rhwng mudiadau eiriolaeth a mudiadau cysylltiol sy'n darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fel ffordd o wella canlyniadau i bobl.

***"Mae'r rhan fwyaf o eiriolaeth yn dda ond nid yw'n rhwydd i bobl ddod o hyd i'r eiriolaeth iawn iddyn nhw"***
***- Mary***

***"Byddai pobl yn cael gwell canlyniadau pe bai eiriolaeth, cyngor a mathau eraill o gymorth yn gweithio'n well gyda'i gilydd"***
***- Paul***

Beth sydd ei angen yn ôl eiriolwyr a'u rheolwyr

Yn ogystal â chanfyddiadau'r GTAP:

Trefniadau ariannu cadarnach a thros gyfnod hirach o amser er mwyn cynllunio gwasanaethau cynaliadwy.

Cyflwyno dull 'cynnig gweithredol' o dderbyn eiriolaeth. Mae cynnig gweithredol yn agwedd fwy hwylusol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth drafod defnyddio cymorth eiriolaeth.

***"Pe bai mwy o bobl yn cael gwybodaeth dda ac amserol am eiriolaeth, gallem gynnig gwell cymorth eiriolaeth i'r bobl sydd fwyaf ei angen"***
***- Kelly***

***"Rwyf yn mynd yn rhwystredig nad ydym yn gallu gwneud cynlluniau hirdymor i ddatblygu ein gwasanaeth gan fod ein contract yn un byrdymor ac ansicr"***

***"Dylai Gweithwyr Cymdeithasol ystyried bob tro os byddai person yn elwa o gymorth eiriolaeth"***
***- James***

<u>*Beth sydd ei angen yn ôl gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.*</u>

Yn ogystal â chanfyddiadau'r GTAP:

Y gallu i ddelio â chymhlethdod anghenion eiriolaeth o ran:

- Cael gwasanaethau a digon o adnoddau all ddygymod â chynnydd yn y galw ar wasanaethau
- Gallu bod yn hyblyg ac ymatebol i ddelio â materion arbenigol ac anhysbys all godi yn y dyfodol

***"a oes gennym ddigon o eiriolwyr ar gyfer y gwasanaethau eiriolaeth? Os mynnwch chi, yr atgyfeiriadau sy'n dod i mewn, mae'n fater o gapasiti"***
***- Susan***

***"Hyd yn oed cyn COVID, roedd gennym broblemau gyda phethau fel cael asesiadau gofalwyr a rhestri aros hir ar gyfer asesiadau gofalwyr"***
***- Lorraine***

**<u>Golwg gyffredinol ar beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen newid</u>**

O safbwynt y bobl hynny oedd wedi derbyn cymorth eiriolaeth cafwyd ymateb cadarnhaol i'r manteision yr oedd wedi'u cynnig. O blith y pedwar deg tri pherson oedd wedi derbyn cymorth eiriolaeth yn ein harolwg, un yn unig ddywedodd nad oedd yn gyfan gwbl ddefnyddiol.

Unwaith yr oeddent yn gwybod fod cymorth eiriolaeth ar gael a sut i gael gafael arno, roeddent yn teimlo fod pethau wedi gweithio'n dda. Roeddent yn teimlo y byddent yn mynd yn ôl i gael rhagor o gymorth eiriolaeth pan roeddent ei angen, ac roeddent hefyd yn fwy hyderus i hunan-eiriol.

***"Rwyf yn teimlo'n llawer mwy hyderus i roi gwybod i bobl beth rwyf eisiau"***
***- Sarah***

***"Rwy'n gwybod ble i fynd os ydw i angen eiriolaeth eto"***

Yr her fwyaf yr oedd unigolion yn ei theimlo oedd cael gafael ar y math iawn o gymorth eiriolaeth ac ar yr adeg iawn. Roeddent yn teimlo fod cael llawer mwy o ffocws ar ddarparu gwybodaeth am eiriolaeth a'i gwneud yn rhwyddach cael gafael arno yn hollbwysig.

## Beth Ydym Ni'n Mynd i'w Wneud?

Mae gan y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion hon bum maes blaenoriaeth, pob un ohonynt yn anelu at wella canlyniadau i bobl sydd angen eiriolaeth. Cafodd y blaenoriaethau eu diffinio yng ngoleuni gweithgarwch cydgynhyrchu hyd yn hyn, ymgysylltu, yr Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ac wrth ymateb i ofynion deddfwriaethol.

Bydd y strategaeth yn hyrwyddo a chefnogi ymrwymiad a rennir gan y prif bartneriaid i gyflwyno datblygiadau yn gyfartal ar draws y rhanbarth.

Ein pum prif flaenoriaeth yw.

**Yr angen i:**

**Blaenoriaeth 1. Cynnal a datblygu ein dull cydgynhyrchu ymhellach**

**Blaenoriaeth 2 Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eiriolaeth.**

**Blaenoriaeth 3. Gofalu fod Eiriolaeth ar Gael yn Hwylus ac i Bawb**

**Blaenoriaeth 4. Gofalu fod Safon Eiriolaeth yn Gyson Uchel**

**Blaenoriaeth 5. Cynnal Arbenigeddau a Mathau Anstatudol o Eiriolaeth**

### Blaenoriaeth 1. Cynnal a Datblygu Ein Dull Cydgynhyrchu Ymhellach

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae cydgynhyrchu yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl wasanaethau a gofal cymdeithasol gael eu cynllunio, comisiynu a darparu.

Y diffiniad yng Nghod Ymarfer Cynllunio, Comisiynu a chydgynhyrchu Gofal Cymdeithasol Cymru (e elwid ynghynt yn Gyngor Gofal Cymru), o gydgynhyrchu yw **'y cysyniad o fynd ati o ddifrif i gynnwys pobl a chymunedau yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a gwerthfawrogi eu cryfderau a theilwra dulliau gweithredu yn unol â hynny.'**

Bydd llais, cyfranogiad a chyfrifoldeb yn arwain at sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn adlewyrchu datblygiadau y bydd pob partner a rhanddeiliad yn teimlo fod ganddynt reolaeth a pherchnogaeth gyffredin ohonynt.

Mae'n bwysig fod y sawl sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth yn cyfrannu'n llawn at fanylion cynlluniau gweithredu, trefniadau tendro a chomisiynu gan eu bod mewn sefyllfa unigryw oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad arbenigol. Mae sicrhau cyfathrebu, ymgysylltu, myfyrio a dysgu effeithiol yn helpu sicrhau bod gan dimau comisiynu yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am weithredu eiriolaeth a sut orau i gael canlyniadau cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu fod cydweithio ac integreiddio o fewn cynllunio iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn cynnig gwell canlyniadau i unigolion a chymunedau.

Mae PGGC wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau y bydd datblygiad a gweithrediad y strategaeth hon, trwy ei chynllun gweithredu cysylltiedig, yn cael eu cynnal a'u cryfhau.

**Beth yw'r sefyllfa yng Ngorllewin Cymru?**

Mae Rhwydwaith Rhanbarthol y Strategaeth Eiriolaeth, sy'n cynrychioli mudiadau eiriolaeth rhanbarthol, wedi sefydlu cysylltiadau gyda PGGC. Bu'r Rhwydwaith yn bwynt cyfeiriol allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth hon, a bydd ganddo rôl barhaus o bwys mewn penderfyniadau ar gynllunio gweithredu. Cafwyd cydweithio parod rhwng y Rhwydwaith a Chomisiynwyr Rhanbarthol trwy broses o gyfathrebu, ymgysylltu, myfyrio a dysgu effeithiol wrth dendro'n ddiweddar am wasanaethau eiriolaeth, ac mae hyn wedi arwain at welliannau o ran manylebau, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn bartner allweddol yn PGGC. O ran y strategaeth, caiff lefelau priodol o gydweithio ac integreiddio rhwng y Bwrdd a'r tri Awdurdod Lleol eu cytuno o fewn fframwaith gwneud penderfyniadau PGGC.

**Beth fyddwn ni'n wneud?**

Byddwn trwy gynlluniau gweithredu a gydgynhyrchwyd yn:

1. Sicrhau y caiff y strwythurau angenrheidiol eu cefnogi i ddatblygu diwylliant o gydgynhyrchu effeithiol ac ystyrlon, gan sicrhau cynrychiolaeth eang o randdeiliaid ar draws y rhanbarth all gyfrannu at a llywio penderfyniadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf oll

2. Mabwysiadu egwyddorion cyfathrebu, ymgysylltu, myfyrio a dysgu effeithiol er mwyn llywio a chyfrannu at y dulliau comisiynu a thendro

3. Cryfhau'r cysylltiad rhwng PGGC a Rhwydwaith Rhanbarthol y Strategaeth Eiriolaeth

4. Archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio ac integreiddio agosach wrth gynllunio eiriolaeth ac mewn trefniadau comisiynu rhwng cyrff statudol

**Sut fydd llwyddiant yn edrych?**

- Bydd cyfraniadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

- Bydd penderfyniadau mewn cynlluniau gweithredu er mwyn gweithredu'r strategaeth wedi elwa o gyfraniad amlwg gan ddinasyddion, yn enwedig felly grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.


- Fe fydd llif o wybodaeth berthnasol rhwng grwpiau a strwythurau gwahanol o fewn cydgynhyrchu gan gynnwys Rhwydwaith y Strategaeth Eiriolaeth (ASN), grwpiau defnyddwyr gwasanaethau ac ati.

- Bydd diwylliant o gyfrifoldeb a pherchnogaeth wedi cael ei greu ymhlith y partneriaid cydgynhyrchu.

- Fe fydd ymgysylltu rheolaidd rhwng PGGC a Rhwydwaith Rhanbarthol y Strategaeth Eiriolaeth.

- Adeiladu ar y gwasanaethau IPA rhanbarthol newydd a gomisiynwyd gan sicrhau ein bod yn cydweithio i ddatblygu gwasanaethau.

**Beth fydd pobl sy'n derbyn eiriolaeth yn ddweud?**




DRAFT

Blaenoriaeth 2: Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eiriolaeth.

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae eiriolaeth yn darparu gwasanaeth cymorth hanfodol sy’n golygu fod llais pobl yn cael ei glywed a bod eu hawliau’n cael eu diogelu a’u sicrhau. Bydd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth yn galluogi mwy o bobl i dderbyn eiriolaeth, yn enwedig felly’r bobl sydd ei angen fwyaf.

Dangosodd ein hymgysylltiad yn glir nad oes wastad ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r gwahanol fathau o eiriolaeth, eu pwrpasau a’r manteision y gall pob un ohonynt eu cynnig. Mae cryn angen datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fewn disgyblaethau proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol.

Bydd yr ymrwymiad hwn i ddatblygu ymhellach yr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth yn cynnig mwy o gyfleoedd i unigolion, yn enwedig felly’r rhai fwyaf ei hangen, dderbyn y math iawn o eiriolaeth a sicrhau trwy hynny bod eu lleisiau’n cael eu clywed, eu hawliau’n cael eu parchu a’u sicrhau. Mae’n bwysig cofio’r gyfatebiaeth rhwng ymwybyddiaeth o/hyrwyddo eiriolaeth a nifer yr atgyfeiriadau y bydd gwasanaeth yn eu derbyn. Rhaid cefnogi darparwyr eiriolaeth i greu gwasanaethau a chanddynt adnoddau digonol sy’n gallu cwrdd â’r galw cynyddol hwn.

**Beth yw’r sefyllfa yng Ngorllewin Cymru?**

Mae'r deunyddiau gwybodaeth a marchnata a ddarperir gan bob mudiad eiriolaeth ynghylch eu gwasanaethau eu hunain yn hysbys ond gallai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fwy cyffredinol gael eu datblygu ymhellach.

Mae natur wledig ein rhanbarth yn creu heriau arbennig o ran gallu estyn allan mewn ffordd gyfartal at unigolion, grwpiau a chymunedau wedi'u hynysu o ran codi ymwybyddiaeth.

Mae nifer o fudiadau eiriolaeth gwahanol yn y rhanbarth sy'n cynnig gwahanol fathau o eiriolaeth ac mae'r sbectrwm hwn o wasanaethau eiriolaeth yn cynnig heriau o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth y mae ganddynt ddealltwriaeth ohonynt a chysylltiad â nhw, ond efallai nad ydynt yn gyfarwydd â gwasanaethau eraill allai fod yn addas.

Mae lle i staff sy'n gweithio i ddarparwyr gofal, gan gynnwys cartrefi preswyl a nyrsio, gael gwell dealltwriaeth o wasanaethau eiriolaeth.

Mae lle i fudiadau eiriolaeth a mudiadau sy'n darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gydweithio mwy i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

**Beth fyddwn ni'n wneud?**

Byddwn trwy gynllun gweithredu a gydgynhyrchwyd yn:

1. Cytuno ar drefn strwythuredig ac wedi'i rhannu o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith dinasyddion, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, darparwyr gofal a rhanddeiliaid eraill perthnasol.

2. Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio dulliau creadigol o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys nifer o lwyfannau digidol gwahanol

3. Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth wedi'u comisiynu yn darparu gwybodaeth yn y fformatau mwyaf hygyrch

4. Cefnogi a hyrwyddo trefniadau cydweithredol rhwng mudiadau eiriolaeth a'r rhai sy'n cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth


**Sut fydd llwyddiant yn edrych?**

- Fe fydd deunyddiau gwybodaeth gwell ac wedi'u diweddaru ar gael mewn nifer o fformatau hygyrch yn cwmpasu'r sbectrwm o wasanaethau eiriolaeth a byddant yn cael eu dosbarthu'n eang

- Bydd dulliau creadigol eraill, gan gynnwys llwyfannau digidol, wedi cael eu datblygu ymhellach

- Bydd gan yr holl weithwyr perthnasol ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wasanaethau eiriolaeth a'u pwrpasau
- Bydd y bobl sy'n gymwys i dderbyn cymorth eiriolaeth yn gwybod beth all y gwahanol fathau o eiriolaeth ei gynnig

**Beth fydd pobl sy'n derbyn eiriolaeth yn ddweud?**




DRAFT

**Blaenoriaeth 3: Gofalu fod Eiriolaeth ar Gael yn Hwylus ac i Bawb**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Er mwyn i eiriolaeth allu darparu cymorth ar gyfer y sawl sydd ei hangen fwyaf, mae'n rhaid iddi fod ar gael yn rhwydd ac i bawb.

Dangosodd ein hymgysylltiad cydgynhyrchu nad oedd bob tro'n hawdd i bobl fyddai'n elwa o eiriolaeth gysylltu gyda'r mudiad eiriolaeth mwyaf addas i'w cefnogi. Roedd yn amlwg hefyd nad oedd gwasanaethau eiriolaeth bob tro'n cael eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y rhanbarth. Byddai gwasgariad daearyddol mwy cyfartal o'r gwahanol fathau o wasanaethau eiriolaeth yn galluogi unigolion o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau gwahanol i ddod o hyd i gymorth eiriolaeth yn lleol.

Dangosodd y gwahanol ddigwyddiadau ymgysylltu fod dewis o ddarpariaeth ar gael, ond fod rhai pobl yn cael anhawster i ddod o hyd i'r gwasanaeth sy'n iawn iddyn nhw.

Un o brif ofynion Cod Ymarfer Eiriolaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw y dylid defnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn gynnar mewn prosesau gofal cymdeithasol fel agwedd o'r 'agenda ataliol'. Mae hyn yn golygu fod rhaid i weithwyr proffesiynol wneud atgyfeiriadau cyn gynted ag y bo modd er mwyn i gymorth eiriolaeth fod yn ystyrlon ac effeithiol trwy sicrhau bod llais unigolyn yn cael ei glywed pan mae fwyaf angen hynny ac i rwystro'r sefyllfa rhag gwaethygu.


Yn yr un modd, mae'r Ddeddf yn pwysleisio rôl allweddol cymorth eiriolaeth mewn prosesau Diogelu a sut mae angen gwneud atgyfeiriadau eiriolaeth yn y cyfnodau cynharaf er mwyn i unigolion gael y gefnogaeth maen nhw ei hangen i allu cymryd rhan lawn yn y penderfyniadau a sicrhau'r canlyniadau gorau posib o ran gwneud y person unigol yn ganolog i'r broses. Mae trefn gyson a theg o geisio cael Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar yr adeg iawn yn hanfodol.

**Y sefyllfa yng Ngorllewin Cymru**

Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gael yn y rhan fwyaf o ranbarth Gorllewin Cymru, yn enwedig felly o ran cymorth arbenigol i bobl ag anableddau dysgu a phobl ag anghenion iechyd meddwl. Ar gyfer grwpiau eraill o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, mae gwasanaethau IPA generig ar gael erbyn hyn ac yn ennill eu plwyf. Golyga hynny fod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r rhan fwyaf o bobl sydd eu hangen.


Mae natur wledig, demograffeg a daearyddiaeth ein rhanbarth yn creu rhai heriau wrth geisio darparu mynediad ffisegol at y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, gan gynnwys eiriolaeth.

Yn yr un modd, mae gennym niferoedd arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg yn ein rhanbarth, ac os yw ein gwasanaethau eiriolaeth yn mynd i ddarparu gwasanaeth teg mae angen sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.




% o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad Poblogaeth 2011)

Y ffactor fwyaf arwyddocaol a amlygwyd yn yr [Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru](#) yw'r niferoedd cynyddol o bobl hŷn sy'n debygol o fod angen rhyw lefel o wasanaethau cymorth a chynnydd mawr yn y niferoedd y mae disgwyl iddynt ddatblygu dementia. Mae'r newidiadau demograffig hyn fwyaf arwyddocaol mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Bydd y newidiadau demograffig hyn yn arwain hefyd at gynnydd yn nifer y bobl fydd yn dod yn ofalwyr di-dâl. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o alw am fwy o ffocws ar alluogi pobl hŷn a gofalwyr yn y rhanbarth i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth, ac yn enwedig felly yn yr ardaloedd mwy gwledig.




Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru (2022)

**Beth fyddwn ni'n wneud?**

Byddwn trwy gynllun gweithredu a gydgynhyrchwyd yn:

1. Sicrhau bod mwy o bobl yn gallu derbyn gwasanaethau eiriolaeth a sicrhau bod pobl sydd eu hangen fwyaf yn gallu eu cael mewn ffordd sydd fwyaf addas iddyn nhw e.e. yn Gymraeg, wyneb yn wyneb, ar-lein ac ati

2. Datblygu trefn 'cynnig gweithredol' i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n hyrwyddo a hwyluso cyswllt ag eiriolwr fel y gallant esbonio'r cymorth allant ei gynnig

3. Sicrhau y bydd eiriolaeth ar gael yn deg a chyfartal ar draws ein rhanbarth gan gofio natur wledig a demograffeg ein rhanbarth

4. Gwerthuso'r 'pyrth' atgyfeirio mwyaf effeithiol ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth yn hwylus

**Sut fydd llwyddiant yn edrych?**

- Fe fydd ffyrdd rhwydd ar gael fydd yn galluogi pobl i dderbyn y math o eiriolaeth sy'n iawn iddyn nhw drwy'r 'porth' neu 'byrth' atgyfeirio mwyaf effeithiol


- Bydd eiriolaeth yn cael ei darparu ar yr adeg gynharaf a mwyaf cefnogol drwy'r dull 'cynnig gweithredol'

- Gall pobl sy'n dymuno derbyn eiriolaeth trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny yn yr un modd â phawb arall

- Bydd pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig yn gallu derbyn eiriolaeth mewn ffordd rwydd, deg a chyfartal

**Beth fydd pobl sy'n derbyn eiriolaeth yn ddweud?**

DRAFT




DRAFT

**Blaenoriaeth 4: Gofalu fod Safon Eiriolaeth yn Gyson Uchel**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Er mwyn cael canlyniadau cyson gadarnhaol i bobl sy’n derbyn cymorth eiriolaeth mae angen cael safonau cyson uchel o ran amodau llywodraethu a darparu gwasanaethau.

Cafodd y flaenoriaeth hon ei hamlygu fwyaf gan fudiadau sy’n darparu eiriolaeth a mudiadau trydydd sector eraill o fewn y broses ymgysylltu ac mae hefyd yn un o’r prif ofynion cyfreithiol ar gyrff statudol sy’n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo fod ansawdd gwasanaethau eiriolaeth yn y rhanbarth yn anghyson ac y dylai fod gan bob darparydd eiriolaeth drefniadau llywodraethu a darparu sy’n cyrraedd y safonau uchaf.

O fewn y sector eiriolaeth annibynnol cafwyd ymrwymiad hirsefydlog i sicrhau ansawdd eu heiriolaeth. Yr hyn a ddatblygodd dros y blynyddoedd diwethaf yw sefydlu safonau, a ddiffiniwyd gan Siarter Eiriolaeth a Chod Ymarfer y sector ei hun, ac yn fwy diweddar y safonau a amlinellwyd yng Nghod Ymarfer Eiriolaeth y DGCLl.

Prif offeryn sicrhau ansawdd o fewn eiriolaeth annibynnol yw'r Nod Perfformiad o Ansawdd (QPM) sy'n cael ei asesu a'i ddyfarnu'n annibynnol gan y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (Eiriolaeth) a chefnogir y sicrwydd hwn gan fframwaith cymwysterau eiriolaeth galwedigaethol a grëwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Y bwriad yn y dyfodol agos yw y bydd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wedi'i chomisiynu yn dod o fewn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (RISCA), unwaith y gellir cytuno fframwaith. Pan fydd yn gyfreithiol ofynnol bydd angen mabwysiadu'r fframwaith hwn o fewn y strategaeth.

Mae angen i bob math o eiriolaeth allu arddangos ansawdd ond mae angen hefyd iddynt arddangos canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, o'u defnyddio. Mae fframweithiau a dangosyddion canlyniadau yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth ac nid yw hyn bob tro'n cynnig darlun cywir a chymharol ar draws gwasanaethau. Mae lle i ddatblygu a safoni monitro canlyniadau ac adrodd mewn eiriolaeth a gomisiynwyd.

Mae ansawdd mewn gwasanaeth yn dibynnu ar ddarparu'r gwasanaeth am gyfnod rhesymol o amser. Mae hyn yn golygu y gellir cynllunio gwasanaethau effeithiol. Nid yw trefniadau cytundebol byrdymor yn arwain at ddatblygu ansawdd o ran darparu gwasanaethau na hygyrchedd. Mae angen monitro ac adolygu contractau a'u hail-dendro o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, dylai'r prosesau hyn gefnogi'r angen i gynnal ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau trwy roi sylw priodol i barhad y gwasanaeth.

Mae angen i bob gwasanaeth eiriolaeth gynnwys systemau sy'n delio'n effeithiol â chwynion a sylwadau, yn ogystal â chanmoliaethau. Mae'r systemau hyn, sef dull o wella gwasanaethau a dysgu o gamgymeriadau a llwyddiannau, yn agwedd hanfodol ar ansawdd.

DRAFT

**Y sefyllfa yng Ngorllewin Cymru**

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau eiriolaeth annibynnol sydd wedi'u comisiynu ar hyn y bryd yng Ngorllewin Cymru wedi derbyn y QPM neu maent wedi cofrestru ac yn gweithio tuag at ddyfarniad. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf hefyd yn cyflogi eiriolwyr sydd wedi ennill y cymhwyster eiriolaeth annibynnol priodol ar gyfer eu priod rôl, neu maent wedi cofrestru ac yn gweithio tuag at y dyfarniad. Roedd cefnogaeth ar gael tan y Gwanwyn 2021, trwy'r Prosiect Datblygu Eiriolaeth, ar gyfer y mudiadau hynny sy'n bwriadu cofrestru ar gyfer y QPM a'u heiriolwyr ar gyfer y cymhwyster perthnasol.

Mae trefniadau monitro canlyniadau ar draws gwasanaethau eiriolaeth a gomisiynwyd ac mae lle i ryw gymaint o safoni wrth gydnabod fod gwasanaethau

gwahanol yn cyflawni swyddogaethau statudol gwahanol a bod ganddynt fanylebau gwasanaeth gwahanol.

Mae rhai mudiadau eiriolaeth wedi sefydlu trefniadau ar gyfer gwelliannau parhaus i'w gwasanaethau, ond mae peth lle i PGGC gefnogi pob mudiad eiriolaeth i roi sylw i sicrhau ansawdd a gwella gwasanaethau.

Mae yna gwestiynau ynghylch parhad gwasanaethau, yn enwedig felly ar gyfer eiriolaeth anstatudol ac arbenigol, ac mae lle i ystyried ymhellach sut i gydbwyso'r angen i gydymffurfio â thendrau gyda pharhad gwasanaethau.

Mae PGGC wedi ymrwymo i sicrhau y bydd yr holl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a gomisiynir ynghyd â gwasanaethau eiriolaeth eraill yn y rhanbarth yn cyrraedd safon gyson uchel. Bydd hyn yn sicrhau y gall pobl sy'n derbyn cymorth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ddisgwyl gwasanaeth o ansawdd da, ym mha ran bynnag o'r rhanbarth maen nhw'n byw

**Beth fyddwn ni'n wneud?**

Byddwn trwy gynlluniau gweithredu a gyd-gynhyrchwyd yn:

1. Comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol cynaliadwy all arddangos a sicrhau ansawdd eu trefniadau llywodraethu ac arfer trwy systemau sicrhau ansawdd a chymhwysedd arfer cydnabyddedig.

2. Cyflwyno'r trefniadau sicrhau ansawdd angenrheidiol o fewn trefniadau comisiynu sydd eu hangen gan unrhyw fframwaith eiriolaeth RISCA i'r dyfodol

3. Cefnogi datblygiadau yn y sector eiriolaeth sy'n arwain at wella gwasanaethau o ran ansawdd ac arfer gorau, gan gynnwys trwy ddysgu o gamgymeriadau a chwynion.

4. Cyflwyno mwy o safoni wrth fonitro canlyniadau ar draws y rhanbarth ac ar draws gwasanaethau eiriolaeth cymharol

**Sut fydd llwyddiant yn edrych?**

- Bydd yr holl eiriolaeth annibynnol a gomisiynir yn bodloni safonau sicrhau ansawdd a chymhwysedd arfer cydnabyddedig.

- Bydd diwylliant o wella gwasanaethau yn cael ei gefnogi ar draws pob gwasanaeth eiriolaeth

- Rhoddir ystyriaeth briodol i barhad gwasanaethau wrth dendro a chontractio gwasanaethau eiriolaeth a gomisiynir


- Bydd unrhyw ofynion ar gyfer comisiynu eiriolaeth o dan ddeddfwriaeth RISCA i'r dyfodol yn cael eu cyflwyno a'u gwreiddio'n llawn.

- Bydd dull cadarnach ac wedi'i safoni o fonitro canlyniadau ac adrodd ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol a gomisiynwyd yn cael ei gyflwyno a'i wreiddio.

- Bydd gan bob gwasanaeth eiriolaeth a gomisiynwyd systemau effeithiol ar gyfer delio â chwynion a dysgu o gamgymeriadau.

- Nifer uchel o eiriolwyr wedi'u hyfforddi i ddygymod â chapasiti a galw uchel.

**Beth fydd pobl sy'n derbyn eiriolaeth yn ddweud?**




DRAFT

## Blaenoriaeth 5: Cynnal Arbenigeddau a Mathau Anstatudol o Eiriolaeth

Datblygwyd y flaenoriaeth hon i gwmpasu dau fater a godwyd drwy gydol y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid: yn gyntaf, cydnabod sbectrwm llawn gwasanaethau eiriolaeth a sut mae angen i ni ei ddatblygu'n deg gyda phartneriaid; ac yn ail, pwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol ddarparwyr ar y sbectrwm eiriolaeth i rannu gwybodaeth, sgiliau, gallu a phrofiad.

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae pobl angen cymorth eiriolaeth mewn nifer fawr o amgylchiadau gwahanol ac nid yw llawer o'r rhain yn cael eu diwallu o gwbl neu orau trwy wasanaethau eiriolaeth statudol. Yn yr un modd, mae llawer o unigolion a grwpiau yn cael y canlyniadau gorau pan mae hyn yn cael ei ddarparu trwy wasanaethau arbenigol. Wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth mae'n rhaid inni sicrhau bod unigolion yn cadw llais, dewis a rheolaeth dros gymaint o agweddau ar eu bywydau ag y gallant, cyhyd ag y gallant. Gellir gwneud hynny trwy ddull canolbwyntio ar unigolion sy'n deall amgylchiadau personol pob unigolyn, eu hanes, eu dyheadau i'r dyfodol a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod fod angen cael cydbwysedd priodol rhwng eiriolaeth generig ac arbenigol ac yn yr un modd rhwng eiriolaeth statudol ac anstatudol ac y dylai defnyddwyr gwasanaethau gael dewis o ba wasanaeth sy'n darparu eu cymorth eiriolaeth.

Mae angen cydlynu a chydweithio i sicrhau bod pobl yn derbyn y math mwyaf priodol o eiriolaeth ar gyfer eu hanghenion penodol nhw a bod dewis o ddarpariaeth ar gael.

Mae arbenigeddau yn arbennig o bwysig ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol, megis pobl ag anableddau dysgu, pobl awtistaidd a phobl o'r gymuned arwyddo byddar. Mae eiriolaeth iechyd meddwl anstatudol yn dibynnu ar eiriolwyr sy'n meddu ar wybodaeth benodol iawn am fframweithiau a gwasanaethau cyfreithiol er mwyn gallu darparu'r cymorth eiriolaeth gorau posib.

Mae eiriolaeth anstatudol, wedi'i chomisiynu a thrwy arian grant, yn bwysig iawn gan y gallai ddarparu cymorth eiriolaeth yn yr agweddau ar fywydau pobl nad oedd eiriolaeth statudol yn cael ei chomisiynu'n uniongyrchol i ddarparu ar eu cyfer. Mae hefyd yn golygu y gellir rhoi sylw i faterion mewn ffordd sy'n eu hatal rhag gwaethygu ac arwain at ymyriadau statudol. Hefyd, mae eiriolaeth annibynnol anstatudol mewn gwell sefyllfa i gynnig y perthnasoedd eiriolaeth parhaus sydd orau ar gyfer grymuso pobl a chynnig y gallu i hunan-eiriol.

Mae grwpiau hunan-eiriolaeth, yn enwedig felly ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, yn hyrwyddo a hwyluso'r gallu i hunan-eiriol, ac o'r herwydd mae'n galluogi pobl i chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hyn yn caniatáu cynllunio gofal cyd-gynhyrchiol mwy effeithiol ac mae hefyd yn hyrwyddo'r agenda atal a diogelu.

Mae Eiriolaeth Annibynnol yn aml yn darparu cymorth o bwys i rieni sy'n rhan o brosesau diogelu plant a gwrandawiadau cyfreithiol. Fel y gwelwyd yn yr ymarferiad ymgynghori gydag eiriolwyr, mae'r gwaith arbenigol hwn yn golygu meddu ar wybodaeth am brosesau diogelu a chyfreithiol er mwyn gallu cael y gefnogaeth orau bosib i'r rhieni hyn ar yr adegau anodd hyn yn eu bywydau - "heb anghofio'r gwaith enfawr rwy'n credu y mae pob eiriolwr yn ei wneud ar hyn o bryd mewn achosion diogelu plant a rhieni'n mynd trwy brosesau diogelu plant" (Stacey, Eiriolwr)

**Beth yw'r sefyllfa yng Ngorllewin Cymru?**

Mae'r sefyllfa yng Ngorllewin Cymru yn cynnig eiriolaeth arbenigol ac anstatudol i rai grwpiau defnyddwyr gwasanaethau ond nid i bawb. Mae'n ymddangos fod hyn yn adlewyrchu'r cryn alw am y gwasanaethau hyn gan grwpiau cymunedol gweithgar, megis y cymunedau anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Mae'r cymunedau anableddau dysgu ac iechyd meddwl yn teimlo fod y cydbwysedd rhwng statudol ac anstatudol a rhwng arbenigol a generig yn briodol.

Mae anghenion cymunedau eraill o ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu mewn gwasanaethau generig a statudol. Mae ein hymgysylltu yn dangos fod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r cydbwysedd hwn wrth ystyried sut i lunio gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau eraill. Mae'r grwpiau hyn yn dechrau dod yn fwy ymwybodol o fuddion posib eiriolaeth arbenigol ac anstatudol. Roedd hyn fwyaf amlwg ymhlith ymatebion gofalwyr trwy ein hymgysylltu, yn enwedig felly ofalwyr pobl hŷn â dementia. Mae rhagfynegiadau yn awgrymu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau dementia, gan gynnwys eiriolaeth yn oes y strategaeth.

Mae grwpiau hunan-eiriolaeth sefydledig ar gyfer anableddau dysgu yn gweithredu yn y rhanbarth ond nid ydynt ar gael ymhob rhan ohono.

Mae cymorth eiriolaeth sydd ei angen ar gael ar gyfer rhieni mewn prosesau diogelu plant ond mae awgrym y byddai darpariaeth arbenigol yn cynhyrchu gwell canlyniadau.

**Beth fyddwn ni'n wneud?**

Byddwn trwy gynlluniau gweithredu a gyd-gynhyrchwyd yn:

1. Sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwasanaethau eiriolaeth generig ac arbenigol a statudol ac anstatudol ar draws yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau yn y rhanbarth.

2. Sicrhau y gall pobl dderbyn y math mwyaf priodol o eiriolaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol a chynnig dewis.

3. Sicrhau y bydd pobl a chanddynt anghenion cyfathrebu cymhleth yn derbyn y math mwyaf priodol o gymorth eiriolaeth annibynnol

4. Datblygu a chefnogi grwpiau hunan-eiriolaeth

5. Asesu'r angen am wasanaeth eiriolaeth annibynnol arbenigol ar gyfer rhieni sy'n rhan o brosesau diogelu plant sy'n cael anhawster i ddeall gwybodaeth allweddol

**Sut fydd llwyddiant yn edrych?**

- Fe fydd ystod o ddarpariaeth arbenigol a generig ar gael i adlewyrchu gwahaniaethau yn anghenion a dewisiadau unigolion.
- Bydd eiriolaeth anstatudol yn cael ei chynnal a'i datblygu yn ôl y galw er mwyn diwallu anghenion cymunedol yn y ffordd orau
- Bydd unigolion a chanddynt anghenion cyfathrebu cymhleth yn gallu derbyn gwasanaethau eiriolaeth arbenigol fydd yn cwrdd â'u hanghenion cyfathrebu yn y ffordd orau
- Ceisio cefnogi'r sbectrwm llawn o wasanaethau eiriolaeth megis hunan-eiriolaeth
- Os yw'r dadansoddiad anghenion yn dangos fod angen gwasanaeth eiriolaeth arbenigol ar gyfer rhieni sy'n rhan o brosesau diogelu plant, sydd angen cymorth i ddeall gwybodaeth allweddol, caiff gwasanaeth ei gomisiynu

**Beth fydd pobl sy'n derbyn eiriolaeth yn ddweud?**

Roedd yn bwysig imi mod i'n cael dewis o sut roeddwn yn cael fy nghymorth eiriolaeth

Roedd fy eiriolwr yn gwybod y ffordd orau i fy helpu rhoi gwybod i bobl beth roeddwn i eisiau digwydd


Dydw i ddim yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ond llwyddais i gael cymorth eiriolwr annibynnol yn ystod gwrandawiad cyflogaeth

Rwyf yn mynd i grŵp hunaneiriolwr-eiriolaeth ac erbyn hyn mae gen i fwy o hyder i siarad drosof fy hun

Mae'n well gen i gefnogaeth eiriolwr annibynnol sy'n arbenigo ar ddiogelu plant

DRAFT

## Adrodd ar Ein Cynnydd




Yn unol â'r strategaeth hon bydd grŵp llywio eiriolaeth rhanbarthol newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio a chraffu ar y cynnydd a wnaed ar y strategaeth eiriolaeth i oedolion ranbarthol. Bydd y grŵp yn dylunio a chyflawni cynllun gweithredu rhanbarthol cynhwysfawr fydd yn cynnwys camau clir a mesuradwy i lunio a llywio eiriolaeth ranbarthol yng Ngorllewin Cymru. Dylai'r cynllun fod yn gydnaws â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol), y Fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro a'i ddiwygio'n rheolaidd yng ngoleuni cynnydd a chyfleoedd newydd i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau eiriolaeth – fel rhan o ymrwymiad parhaus i weithio'n gydgynhyrchiol gyda defnyddwyr a darparwyr.

Bydd y grŵp llywio eiriolaeth rhanbarthol newydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Grŵp Rhaglen Gomisiynu a fydd, ar ran Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru, yn goruchwylio gweithredu'r strategaeth hon:

- Derbyn a chraffu ar adroddiadau cynnydd rheolaidd gan y Gweithgor Eiriolaeth.
- Sicrhau bod PGGC yn cydnabod llwyddiannau a materion y mae angen eu datrys.
- Sicrhau bod trefniadau monitro contractau cyd-gynhyrchiol ar waith, lle y mae darparwyr a defnyddwyr yn gyfranogwyr gweithredol.

- Sicrhau bod gan y strategaeth hon y proffil a'r adnoddau i gael ei gweithredu'n effeithiol

Cyflwynir adroddiadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

## Geirfa

| Term | Acronym | Esboniad |
|---|---|---|
| ***Y Ddeddf*** | | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| ***'Cynnig gweithredol'*** | | Y broses sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i hwyluso cyfarfod rhwng person ac eiriolwr i alluogi'r eiriolwr i esbonio eu rôl yn llawn ac i alluogi'r person i benderfynu a ydynt eisiau cymorth eiriolaeth. |
| ***Cymhwyster eiriolaeth*** | | Y dyfarniad a roddir i eiriolwyr annibynnol sy'n dangos y cawsant hyfforddiant priodol a'u bod yn gymwys i arfer eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys unrhyw feysydd arbenigol e.e. iechyd meddwl |
| ***y Cod*** | | Rhan 10 y Ddeddf, Cod Ymarfer (Eiriolaeth) diweddarwyd 2019, sy'n esbonio'r gofynion ar awdurdodau lleol ynghylch gwasanaethau eiriolaeth |
| ***Cydgynhyrchu*** | | Y broses o alluogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyfartal, i rannu grym a chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau a chynllunio |
| ***Comisiynu/comisiwn*** | | Y broses a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i adnabod anghenion ac yna cynllunio ac adolygu gwasanaethau maen nhw am i asiantaethau eraill eu darparu |
| ***Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd*** | **GTAP** | Y Prosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflawnwyd gan AgeCymru i gefnogi comisiynu eiriolaeth yng Nghymru, ac yn enwedig felly'r gwasanaethau Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar draws Cymru. |
| ***Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol*** | **IPA** | Math o eiriolaeth annibynnol a ddiffinnir yn y Cod ac a ddarperir gan eiriolwyr cymwysedig sy'n gweithio mewn mudiadau sicr eu hansawdd. Mae rhai amgylchiadau lle y dylai Awdurdodau |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Lleol gyfarwyddo Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol ac eraill pan mae'n rhaid iddynt, yn unol â'r hyn a nodir yn y Cod. |
| ***Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth*** | | Y gwasanaethau sy'n anelu at adnabod y gefnogaeth all pobl ei derbyn i'w rhwystro rhag bod angen lefel uwch o gefnogaeth yn y dyfodol. |
| ***Eiriolaeth dan Gyfarwyddyd*** | | Mae eiriolwr yn gweithredu'n llwyr yn ôl cyfarwyddyd y person sy'n cael eu cefnogi |
| ***Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant*** | **NDTi** | Mudiad sy'n hyrwyddo arfer gorau o ran cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n gweinyddu'r Nod Ansawdd Perfformiad Eiriolaeth. |
| ***Eiriolaeth heb fod dan Gyfarwyddyd*** | | Nid yw'r person yn gallu rhoi cyfarwyddyd ac mae'r eiriolwr yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau neu weithredoedd a wneir ar eu rhan yn parchu eu hawliau ac yn rhoi ystyriaeth i'w dewisiadau a ffyrdd o fyw hysbys. |
| ***Monitro canlyniadau*** | | Y prosesau lle y mae buddion arfaethedig cam yn cael eu hasesu a'u hadolygu. |
| ***Nod Ansawdd Perfformiad*** | **QPM** | Y broses a ddefnyddir gan fudiadau eiriolaeth i ddangos fod eu gwasanaethau yn cyrraedd safon uchel |
| ***'Porth' atgyfeirio*** | | Y ffordd y mae pobl sydd eisiau derbyn gwasanaeth yn gallu gwneud y cysylltiad cyntaf |
| ***Prosiect Rhanbarthol ar Ddatblygu Eiriolaeth*** | | Prosiect a ariannwyd gan PGGC i gefnogi datblygu eiriolaeth yn y rhanbarth |
| ***Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*** | **RISCA** | Y broses a ddefnyddir gan fudiadau sy'n darparu cymorth gofal cymdeithasol i gofrestru i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd |
| ***Hunan-eiriolaeth*** | | Gallu person i rannu mewn ffordd effeithiol gydag eraill y pethau sy'n bwysig iddyn nhw a sut maen nhw'n dymuno derbyn gwasanaethau. Mae'r mathau gwahanol o hunan-eiriolaeth yn cael eu hyrwyddo ond rhoddir ffocws penodol arno mewn grwpiau hunan-eiriolaeth. |
| ***Defnyddiwr gwasanaethau*** | | Person sy'n derbyn, neu'n gymwys i dderbyn, gwasanaethau cymorth neu ofal |
| ***Diogelu*** | | Y broses o ddiogelu plant ac oedolion bregus rhag niwed, camdriniaeth neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | esgeulustod a phroses addysg barhaus er mwyn ceisio adnabod yr arwyddion a'r risgiau o ran camdriniaeth. |
| ***Cynhwysiant cymdeithasol*** | | Y broses o gefnogi pobl a chymunedau i allu cyfrannu at benderfyniadau a chamau sy'n effeithio ar eu bywydau. |
| ***Gofal Cymdeithasol Cymru*** | | Rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gyfrifol am feithrin hyder yn y gweithlu ac arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol. |
| ***Rhanddeiliad*** | | Unrhyw berson neu fudiad y mae ganddynt ddiddordeb mewn neu gysylltiad â mater, e,e. Fforymau Gofalwyr, Grwpiau Pobl yn Gyntaf ac ati |
| ***Statudol*** | | Prosesau sydd eu hangen o dan fframweithiau cyfreithiol ac a drefnir a/neu a ddarperir gan Gyrff Cyhoeddus, e.e. Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac ati |
| ***Sbectrwm o wasanaethau eiriolaeth*** | | Y gwahanol fathau o eiriolaeth, gan gynnwys eiriolaeth a ddarperir gan; teulu a chyfeillion, gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd, eiriolwyr gwirfoddol, hunan-eiriolaeth ar y cyd ac eiriolwyr annibynnol sy'n derbyn tâl. |
| ***Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru*** | **PGGC** | Cydweithrediad rhanbarthol rhwng tri Awdurdod Lleol Gorllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r trydydd sector, y sector annibynnol, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Ei rôl yw trawsnewid a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â bwriadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| ***Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru*** | | Trosolwg o boblogaeth a demograffeg y rhanbarth a ddefnyddir i ragfynegi'r newidiadau fydd eu hangen yn y gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth i'r dyfodol |
| ***Gorllewin Cymru*** | | Tair sir Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |

DRAFT

## Cyfeirnodau a Dolenni

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf (llyw.cymru)

Rhan 10 Cod Ymarfer Eiriolaeth
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/deddf-gwasanaethau--cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-cod-ymarfer-rhan-10-eiriolaeth.pdf

Siarter Eiriolaeth
https://qualityadvocacy.org.uk/wp-content/uploads/2018/05/Advocacy-Charter-A3.pdf

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA)

https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-06/180606-risca-guide-en.pdf

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru www.wwcp-data.org.uk.population-needs-assessment

Mesurau y Gymraeg
https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents?lang=enhttps://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents?lang=en

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/the-national-outcomes-framework-for-people-who-need-care-and-support-and-carers-who-need-support.pdf

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Ffocws Ystadegol yng Nghefn Gwlad Cymru https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf

Cod Ymarfer IMHA (ymgorfforwyd yng Nghod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) Pennod 6)
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/mental-health-act-1983-code-of-practice-mental-health-act-1983-for-wales-review-revised-2016.pdf#:~:text=The%20Mental%20Health%20Act%201983%20Code%20of%20Practice,being%20laid%20before%20the%20National%20Assembly%20for%20Wales.

Cod Ymarfer (ymgorfforwyd yng Nghod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol (Cymru) Pennod 10) http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/744/Code%20of%20Practice%20E.pdf

Cynllunio, Comisiynu a Chydgynhyrchu, Cyngor Gofal Cymru
https://socialcare.wales/cms-assets/documents/hub-downloads/Canllaw-i-adnoddau-cynllunio-a-chomisiynu-%E2%80%93-Ionawr-2017.pdf

DRAFT

GTAP Comsiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gyfer Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/golden-thread-advocacy-programme/programme-documents/commissioning-ipa-framework-english-oct-19.pdf

Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-23
www.wwcp.org.uk › west-wales-area-plan

DRAFT

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig hwn** yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian) | |
|---|---|
| Teitl y Cynnig | Ein Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes Gwasanaeth | Gydol Oed a Llesiant | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Audrey Somerton-Edwards | Cyfarwyddwr Strategol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Rebecca Johnson ar ran y Gweithgor Rhanbarthol | E-bost | rebecca.johnson@ceredigion.gov.uk | Rhif Ffôn | |

| Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig |
|---|
| Ystyried y strategaeth newydd ynghylch y dull rhanbarthol o ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth oedolion yng Ngorllewin Cymru yn unol â rhwymedigaethau deddfwriaethol. |
| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw). |
| Y Cyhoedd |



**RHEOLI FERSIYNAU:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd.

| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
|---|---|---|---|---|
| | *e.e. Proses y Gyllideb, Craffu, Cabinet ac ati* | | | *Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r Nodau Llesiant, a'u rhoi ar waith?* |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR:** Pa un o Amcanion Strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi, cefnogi Busnes a galluogi cyflogaeth. | |
| Creu cymunedau gofalgar ac iach | Gofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |
| Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi Dysgu ym mhob oed | |
| Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrddach sydd â chysylltiadau da | |

**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol - data sy'n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gwynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol (gan gynnwys y ddogfen 'A Yw Cymru'n Decach'.*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

| **2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig? | | | |
|---|---|---|---|
| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam(au) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam. | | negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion hirdymor a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol. | • Mae'r strategaeth yn un ar gyfer y 5 mlynedd nesaf tra hefyd yn cyfeirio at faterion tymor byr i fynd i'r afael â nhw | | |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau. | • Mae datblygiad y strategaeth wedi'i oruchwylio gan y Gweithgor Eiriolaeth (cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol, y 3ydd sector a'r bwrdd iechyd) | | |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn. | • Roedd datblygiad y strategaeth yn cynnwys cyfnod o gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid sydd agosaf at wasanaethau eiriolaeth | | |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. | • Gall eiriolaeth fel darpariaeth gefnogi'r agenda ataliol | | |
| **Integreiddio**<br>Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill. | • Mae'r strategaeth yn hyrwyddo gwaith integredig iechyd a gofal cymdeithasol i symleiddio'r ddarpariaeth eiriolaeth | | |

**3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

| Nod Llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam(au) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.1. Cymru lewyrchus** Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi. | | | |
| **3.2. Cymru gydnerth** Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd). | | | |
| **3.3. Cymru iachach** Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd. | Er nad yw'r strategaeth ei hun yn ofyniad statudol, bydd yn cefnogi rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran darpariaethau eiriolaeth oedolion. | | |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | | | |
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol. | | | |

| **3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal** Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau. *Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.* | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? *Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar* | Pa gam(au) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?*<br>*Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb | *Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.* | *gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio data nac yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch* ***cynnwys*** *yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.* | *Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.* |
| **Oedran**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓) | *Mae'r Strategaeth yn ymwneud â darpariaeth Eiriolaeth i Oedolion* | | |

| | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim |
|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed | | ✓ | |
| Pobl 18-50 | ✓ | | |
| Pobl hŷn 50+ | ✓ | | |

| **Anabledd**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam corfforol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Anabledd Dysgu | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Salwch hirdymor | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Iechyd Meddwl | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Arall | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| **Trawsryweddol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsryweddol? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trawsryweddol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Priodas neu bartneriaeth sifil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priodas | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Partneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Beichiogrwydd neu famolaeth**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Hil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Cymysg/Grwpiau aml-ethnig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Crefydd neu ddim cred**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hindŵiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Siciaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | | | | |
| Arall | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |



| **Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.** |
|---|
| **3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Dileu neu leihau anfantais ● Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran* |
| Mae'r strategaeth yn amlinellu'n glir Eiriolaeth a'i phwysigrwydd. Y Strategaeth yw siapio'r trefniadau comisiynu yn y rhanbarth. |
| **3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**<br>*Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: ● Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ● Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny* |
| |

| **3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth* |
|---|
| |

| **Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.**<br>**Anfantais Economaidd-Gymdeithasol yw byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.**<br>*Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion roi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas mae hyn yn golygu cynnal asesiad effaith tlodi. Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu pawb sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.* |
|---|
| **3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal mewn perthynas â'r cynnig?**<br>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. |
| |
| Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? |
| |
| Pa gam(au) y gallwch eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
| |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud* | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam(au) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|

Tudalen 316

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | | | |
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarn haol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | *Mae'r strategaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae darpariaeth Eiriolaeth ar gael yn y ddwy iaith* | | |
| | ✓ | | | | | |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? | Cadarn haol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu’n lleihau’r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | Cadarn haol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg? | Cadarn haol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol? | Cadarn haol | Negyddol | Dim/ Fawr ddim ✓ | | | |

**4. ATGYFNERTHU’R CYNNIG:** Os yw’r cynnig yn debygol o effeithio’n negyddol ar unrhyw rai o’r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o’r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

**4.1 Camau.**

| Beth fyddwch chi’n ei wneud? | Pryd fyddwch chi’n ei wneud? | Pwy sy’n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

| |
|---|
| **4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.** *(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
| |
| **4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu.** *Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?* |
| |

**5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

| Meini prawf asesu effaith | 1 - Isel iawn | 2 - Isel | 3 - Canolig | 4 - Uchel | 5 - Uchel Iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 - Annhebygol o ddigwydd | 2 - Llai tebygol o ddigwydd | 3 - Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 - Mwy tebygol o ddigwydd | 5 - Tebygol o ddigwydd |

| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|
| | | | *Tebygolrwydd x Effaith e.e. 3 x 5 = 15* |
| | | | |

| Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall? |
|---|
| |

**6. CYMERADWYO**

| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Rheolwr y Gwasanaeth | | | |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Audrey Somerton-Edwards | | |
| Cyfarwyddwr Strategol | | | |
| Deiliad y Portffolio | | | |

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD:** | **2 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023** |

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach adroddiad ynghylch Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru.

Mae darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ran 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r math hwn o eiriolaeth yn cael ei ddarparu mewn amgylchiadau megis lle mae amheuaeth ynghylch mynediad dinesydd at wasanaethau gofal a chymorth. Gellir gweld eiriolaeth ei hun ar gontinwwm, ac er bod darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wedi'i mandadu'n benodol mae mathau eraill i'w hannog, gan adeiladu ar allu unigol a chymunedol.

Yn dilyn trafodaeth, ystyriodd yr Aelodau'r argymhelliad canlynol:
**ARGYMHELLIAD:**

1. Gofyn am gymeradwyaeth i Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, argymhellodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er nad yw'r strategaeth ei hun yn ofyniad statudol, bydd yn cefnogi rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â darparu eiriolaeth i oedolion.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Mai 2023 |
| **Teitl:** | Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhannu'r wybodaeth a geir yn yr adroddiadau blynyddol statudol cyn eu symud ymlaen drwy'r broses lywodraethu a chyhoeddi. |
| **Er:** | Gwybodaeth a throsolwg cyn cyhoeddi |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant |

**CEFNDIR:**

Diffinnir y ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan 'Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Cod Ymarfer'.

Bu oedi wrth gwblhau'r adroddiadau yn ystod argyfwng Covid-19.

Ni fydd rheswm dros oedi wrth gynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Mae'r adroddiadau yn awr wedi'u llunio ac yn barod i'w cymeradwyo.

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | *Na, bydd yr adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ac nid yw'n cynnwys unrhyw newid i bolisi na gwasanaeth.* |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Bod y Cabinet yn argymell cyflwyno'r adroddiadau i'r Cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn sicrhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i lunio a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn ddwyieithog gan y Cyfarwyddwr Statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd yr adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach ar 13 Ebrill 2023 lle nodwyd y cynnwys a daethpwyd i'r cytundeb i barhau drwy'r broses llywodraethol yn barod i'w gyhoeddi yn unol â gofyniad deddfwriaethol. |
| **Fframwaith Polisi:** | Ceredigion i Bawb |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Creu cymunedau gofalgar ac iach |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>Bydd cyhoeddi yn sicrhau cydymffurfio â gofynion y Ddeddf |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Gall methu cyhoeddi olygu na chydymffurfir â deddfwriaeth sylfaenol. |
| **Pwerau Statudol:** | Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol y pŵer i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau. |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021<br>Atodiad 2- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021/2022 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Swyddog Adrodd:** | Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad:** | 14.04.23 |



Cyngor Sir Ceredigion

Sian Howys

DRAFFT

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru Love Ceredigion

# Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol 2020/2021

1. Cyflwyniad ..... 3
Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant ..... 5
Ymateb Covid-19 Ceredigion ..... 6
2. Crynodeb o Berfformiad ..... 7
Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu ..... 7
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ..... 14
3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau? ..... 21
Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella ..... 22
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ..... 24
Grŵp diogelu plant a phobl ifanc Sêr Saff Ceredigion – wedi'i hwyluso gan TGP ..... 25
Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu ..... 25
Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion ..... 26
Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion ..... 28
Ymgysylltiad a Chymorth ar gyfer Gofalwyr Maeth: ..... 32
Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru ..... 33
Cwynion a Chanmoliaeth ..... 33
4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu ..... 41
Beth wnaethom ni gynllunio i'w wneud y flwyddyn ddiwethaf? ..... 41
I ba raddau oeddem ni wedi llwyddo i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn? ..... 42
Ymateb Covid-19 Ceredigion ..... 45
Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ..... 48
Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion ..... 48
Crynodeb o Ganlyniadau Llesiant 2020-2021: ..... 52
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham? ..... 53
5. Sut ydym yn gwneud yr hyn a wnawn ..... 55
Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu Gofal Cymdeithasol ..... 55
Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ..... 62
Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd ..... 63
6. Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol ..... 66

# 1. Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2020-2021. Mae hon wedi bod yn flwyddyn ddigynsail mewn cymaint o ffyrdd oherwydd pandemig byd-eang Covid-19 a'r argyfwng iechyd cyhoeddus. Mae hyrwyddo diogelwch a llesiant trigolion Ceredigion yng nghyd-destun goblygiadau pellgyrhaeddol Covid-19 wedi bod yn heriol tu hwnt.

O'r cychwyn cyntaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd camau llym i reoli'r risg o ymlediad Covid-19 a thrwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn rhagweithiol ac yn gadarn wrth flaenoriaethu amddiffyn a chefnogi trigolion Ceredigion. Rhaid i mi ar y cychwyn gydnabod a diolch i ymrwymiad ac ymroddiad fy nghydweithwyr a'r holl staff am y ffordd y maent wedi ymateb i argyfwng Covid-19 ac wedi gwneud yr addasiadau angenrheidiol i sicrhau parhad a darpariaeth ddiogel gwasanaethau gofal cymdeithasol allweddol yn ystod y cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid.

O ran yr adroddiad blynyddol hwn, y nod yw gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-2021. Mae effaith Covid-19 mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn arwyddocaol iawn ar draws holl feysydd gwaith y Cyngor. Mae hefyd wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gwybodaeth benodol ar gyfer yr adroddiad hwn, fodd bynnag, rwyf wedi sicrhau hyd eithaf fy ngallu bod y wybodaeth sydd ar gael wedi'i darparu i ddangos sut y cyflawnwyd y canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt yng Ngheredigion.

Diffinnir cynnwys yr adroddiad blynyddol yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) o dan y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol nodi sut y mae'r Awdurdod Lleol wedi mynd ati i gyflawni safonau ansawdd y canlyniadau llesiant.

Yr wyth canlyniad llesiant yw:

- Sicrhau hawliau
- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- Cyfrannu at gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl


Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol yn erbyn y canlyniadau llesiant yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
- Rhoi cymorth i bobl ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
- Gweithio gyda phobl a rhoi cymorth i bobl gael mwy o lesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n ateb eu hanghenion

Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa eang, gyda'r bwriad iddo fod ar gael i bawb.  Wrth lunio'r adroddiad hwn, ystyriais yn benodol y grwpiau canlynol:

- Defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a'r holl bobl hynny y mae eu llesiant wedi'i effeithio gan yr hyn y mae gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a'i swyddogaethau cysylltiedig yn ei wneud, fel bod effaith y gwasanaethau hyn yn cael ei hesbonio
- Y cyhoedd sydd â diddordeb yn yr hyn y mae ei Awdurdod Lleol yn ei wneud, sut y mae'n perfformio a sut mae ei arian yn cael ei wario
- Aelodau etholedig ac eraill sy'n ymwneud â phrosesau craffu
- Partneriaid yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys partneriaid ffurfiol ac eraill yn y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector y mae angen iddynt ddeall rhaglen ac amcanion â blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol
- Rheoleiddwyr (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynwyr Statudol)
- Llywodraeth Cymru

# Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant




Yn ystod 2020-2021, gohiriwyd gweithredu'r Model Cyflenwi Gwasanaeth Integredig Gydol Oed a Llesiant oherwydd effaith y pandemig a'r angen i flaenoriaethu camau gweithredu mewn perthynas â'n hymateb i Covid-19. Fodd bynnag, roedd cyflawniadau'r flwyddyn flaenorol wedi rhoi sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad parhaus nodau strategol y model. Mae'r model yn canolbwyntio ar gryfderau pobl, gan eu galluogi nhw a'u teuluoedd lle mae angen cymorth arnynt a datblygu gwydnwch o fewn ein cymunedau.

Cwblhawyd Cam 1 yr ad-drefnu corfforaethol ym mis Ebrill 2018 gyda recriwtio dau Gyfarwyddwr Corfforaethol a 12 o Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i ymgymryd â chyfrifoldebau pob maes gwasanaeth.

Mae rhoi'r Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant ar waith yn newid swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddi rhai o'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r timau ar draws yr Awdurdod Lleol cyfan, nid dim ond yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae'r tri Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal wedi arwain y prosesau rheoli newid i gefnogi datblygu a chyflenwi'r model.

Mae swyddogaethau'r Rheolwr Corfforaethol wedi bod yn weithredol ers mis Mawrth 2020 a thrwy gydol 2020-2021 mae'r tîm wedi cydweithio'n dda ac wedi bwrw ymlaen â nifer o ddatblygiadau strategol allweddol ar draws y Pyrth. Mae'r Rheolwyr Corfforaethol wedi gweithio'n galed ar ddiffinio swyddogaethau a llwybrau rhwng y timau a'r gwasanaethau amrywiol, sefydlu cynigion i baratoi ar gyfer ail gam ad-drefnu rheoli tîm a chyflunio gwasanaethau tra hefyd yn gweithredu mesurau Covid-19. Mae'r model bellach wedi'i enwi'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant ac mae wedi ennill momentwm sylweddol ym mhob un o'r pedwar prif faes gwasanaeth.


- Cyswllt â Chwsmeriaid Clic – Pwynt cyswllt ac atgyfeirio cyntaf
- Porth Cymorth Cynnar – Ymyrraeth Gynnar ac Atal
- Porth Gofal – Brysbennu, Asesu, Ymyrraeth wedi'i Dargedu a Gwasanaethau Uniongyrchol
- Porth Cymorth Cynnal – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Arbenigol Gydol Oed

# Ymateb Covid-19 Ceredigion

O ddechrau'r pandemig, roedd gan Gyngor Sir Ceredigion weledigaeth glir a fframwaith gweithredu i sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelwyd trwy'r don gyntaf ond hefyd ar gyfer unrhyw donau eraill a ragwelwyd yn y dyfodol. Camau diffiniedig ein hymateb fu;

- Cam 1 – Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cam 2 – Gweithredu – Darparu gwasanaethau o dan amodau'r cyfnod clo a rheoledig
- Cam 3 – Addasu a gwydnwch hirdymor
- Cam 4 – Adfer

Cymerwyd amryw o fesurau trwy gydol 2020-2021 i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cartrefi gofal, ein hysgolion ac yn y gymuned. Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn, ar hyn o bryd mae gennym un o'r cyfraddau Covid-19 isaf yng Nghymru ac ar Gam 3 o'n hymateb wrth gynllunio ar gyfer gwneud addasiadau pellach gyda'r nod o wneud popeth o fewn ein gallu i gynnal y gyfradd isel hon ac adeiladu gwydnwch ac adfer hirdymor yn ein cymunedau.



Sian Howys
Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal

# 2. Crynodeb o Berfformiad

Fel y nodir o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, defnyddir y fframwaith Mesur Perfformiad i asesu perfformiad swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol. Bydd yr adran hon yn dangos sut y mae'r gwasanaeth wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn sgil cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, rhaid nodi na chafodd llawer o waith adrodd ei gwblhau yn ystod pandemig Covid-19 ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny.


## Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu

Mae perfformiad gwasanaethau i oedolion yn foddhaol a rhoddir blaenoriaeth i gadw at reoliadau, canllawiau a phrotocolau Covid-19 lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn cydweithrediad ag asiantaethau partner tra'n cymryd rhan lawn ym mhob fforwm aml-asiantaeth sy'n ymdrin â'r pandemig.

Mae datblygiad parhaus meysydd gwasanaeth allweddol fel Clic ar gyfer cyswllt cychwynnol a chyfeirio at Borth Gofal am gyngor a chymorth, brysbennu ac asesu cymesur yn sail i'n model ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau atal o fewn Porth Cymorth Cynnar yn parhau fel elfen allweddol arall, gydag addasiadau Covid-19 megis Cysylltwyr Cymunedol yn darparu cymorth ar-lein a galwadau ffôn llesiant.

### Diogelu Oedolion

Cydymffurfiodd Gwasanaeth Diogelu Oedolion Ceredigion â'r protocolau y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar gyfer cyflawni dyletswyddau diogelu oedolion sydd mewn perygl yn ystod y pandemig. Cwblhawyd asesiadau risg ar gyfer pob ymweliad angenrheidiol a gweithredwyd trefniadau gweithio rhithiol pryd bynnag y bo modd. Mae'r mesur hwn yn dangos canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod. Bu gostyngiad yn 2020/2021 sy'n gysylltiedig ag effaith Covid ar gyfraddau salwch ac absenoldeb staff a'r angen i flaenoriaethu achosion risg uchel. Fel rheol dylai ymholiad gael ei gwblhau o fewn saith diwrnod gwaith o'r adroddiad. Wrth gwrs, ni fyddai hyn yn atal cymryd camau ar unwaith pan fydd angen i amddiffyn oedolyn sydd mewn perygl.





Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod

### Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Eleni, mae'r mesur oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar wasanaethau fel argaeledd lleoliadau preswyl a gofal cartref gyda chyfnodau clo a rheoli brigiad o achosion. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael ei brofi gan glaf mewnol mewn ysbyty sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ofal ond sy'n cael ei atal rhag gwneud hynny am un neu ragor o resymau megis darparu gwasanaeth oherwydd yr angen am ofal

a chymorth. Gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion y penderfyniad ym mis Ebrill 2020 i fabwysiadu Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbytai Covid-19 (Cymru). Fodd bynnag, penderfynodd hefyd, trwy gadw at y canllawiau yn eu cyfanrwydd fod posibilrwydd y byddai cartrefi gofal preswyl yn agored i risg o heintio a allai gael canlyniadau trychinebus. Er mwyn lliniaru'r risg yma ac amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth a staff o fewn y cartrefi, penderfynwyd y byddai derbyniadau newydd i gartrefi preswyl yn digwydd mai dim ond yn dilyn canlyniad prawf Covid-19 negyddol, a byddai angen dangos y canlyniad cyn derbyn y claf. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r cartref ar ôl cyfnod o ofal acíwt dilynwyd yr un drefn.




**Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn**

Mae gan Borth Gofal gysylltiadau cryf â gwasanaethau trydydd sector sydd wedi cael eu defnyddio pryd bynnag y bo modd i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion lefel isel am gymorth ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Ethos Porth Gofal yw gweithio integredig gyda'n cydweithwyr Iechyd, a brysbennu yw'r prif ganolbwynt ar gyfer cydlynu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn wedi sicrhau bod yr unigolyn yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir gan y gweithiwr proffesiynol cywir, gan adeiladu ar gryfderau a rhwydwaith yr unigolyn a hyrwyddo hunan-wydnwch i adennill annibyniaeth. Mae rhyddhau o'r ysbyty yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn gwasanaeth Porth Gofal ac i hynny ddigwydd yn ddiogel o fewn cyfyngiadau protocolau Covid y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac yn lleol.

## Galluogi

Mae galluogi fel arfer yn wasanaeth byr a dwys, a ddarperir yn y cartref fel arfer, a gynigir i bobl ag anableddau a'r rhai sy'n fregus neu'n gwella o salwch neu anaf.

### 2020-2021 Atgyfeiriadau a dderbyniwyd wedi'u gweithredu arnynt a'u cau gan y tîm Galluogi

| 2020/21 | Cyfanswm yr Atgyfeiriadau | Galluogi | Hirdymor | Wedi cau | Wedi cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ebr-20** | 28 | 23 | 5 | 7 | 21 |
| **Mai -20** | 55 | 45 | 10 | 14 | 41 |
| **Meh -20** | 42 | 28 | 14 | 9 | 33 |
| **Gorff-20** | 41 | 31 | 10 | 11 | 30 |
| **Awst-20** | 34 | 23 | 11 | 13 | 21 |
| **Medi-20** | 33 | 19 | 14 | 16 | 17 |
| **Hyd -20** | 59 | 33 | 26 | 32 | 27 |
| **Tach -20** | 52 | 27 | 25 | 22 | 30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhag-20** | 53 | 34 | 19 | 7 | 46 |
| **Ion -21** | 43 | 27 | 16 | 21 | 22 |
| **Chwef -21** | 52 | 31 | 21 | 24 | 28 |
| **Maw-21** | 60 | 49 | 11 | 32 | 28 |
| **CYFANSWM** | **552** | **370** | **182** | **208** | **344** |

### Cyfanswm fesul mis yr unigolion sy'n derbyn gwasanaeth Galluogi a'r oriau a ddarparwyd


Darparwyd cyfanswm o 4072.38 awr o wasanaeth Galluogi yn 2020/21. Cafodd cyfanswm o 336 o unigolion eu hail-alluogi a'u rhyddhau o'r gwasanaeth.

Rhwng mis Ionawr 21 a mis Mawrth 21, o'r 24 o achosion pontio gofal hirdymor a dderbyniwyd lleihawyd 8 ohonynt trwy ymyrraeth Galluogi gan 45.75 awr. Mae hyn wedi atgyfnerthu ein model datblygu newydd i asesu anghenion hirdymor trwy lens ffocws galluogi.


Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddarparu gwasanaeth pwysig o ran hyrwyddo rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty a hybu annibyniaeth o fewn protocolau rheoli Covid. Bu modd i'r gwasanaeth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion er gwaethaf pwysau sylweddol ar y gwasanaethau gofal cartref a gomisiynir. Mae'r gwasanaeth galluogi mewnol wedi parhau i helpu cannoedd o bobl i adennill eu hannibyniaeth ac i fyw gartref heb unrhyw gymorth o gwbl, neu fawr ddim cymorth, gan y gwasanaethau statudol. Mae'r egwyddorion sylfaenol, sef ymyrraeth gynnar, isgyfeirio ac ail-alluogi, yn parhau i fod yn rhan o edefyn euraid ein rhaglen i drawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn ystod 20201-2021, ehangodd y gwasanaeth ei gapasiti staffio hefyd i gynnwys darparu cymorth ar gyfer gofal cartref tymor hwy gan ddefnyddio cyllid penodol Covid-19 ac er mwyn mynd i'r afael ag effaith y pwysau cynyddol ar ddarparwyr gofal cartref annibynnol yn y sir.

## Oedolion sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl




**Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n cael eu derbyn i gartrefi gofal preswyl**




**Y cyfnod o amser ar gyfartaledd (diwrnodau) y bydd oedolion (65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl**

Mae gofal preswyl yn darparu amryw o opsiynau ar gyfer unigolion sydd angen gofal 24 awr. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau tymor byr, dros dro a pharhaol. Mae opsiynau gofal preswyl amrywiol ar gael, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae Ceredigion yn gweithredu pum cartref gofal preswyl ei hun ac yn comisiynu gyda nifer o gwmnïau preifat yng Ngheredigion a thu hwnt.

Eleni bu gostyngiad yn yr amser cyfartalog a dreulir mewn cartrefi preswyl a gellid priodoli hynny i'r pandemig ac effaith brigiad o achosion.
Yn gynnar iawn, datblygodd yr Awdurdod Lleol brotocol atal a rheoli heintiau. Roedd hyn wedi sicrhau bod gan y gweithlu a chydweithwyr iechyd ganllawiau clir i'w dilyn mewn perthynas â lleihau'r cyfle i drosglwyddo'r firws yn y cartrefi gofal.

Datblygwyd protocol hefyd i sicrhau y gellid rhannu cyfathrebiadau allweddol gyda'r sector gofal cymdeithasol annibynnol.


Drwy gydol y gwasanaeth hwn yn ystod Covid-19 rydym wedi sicrhau bod cymorth aml-broffesiynol a chlinigol ar gael trwy dechnoleg i gefnogi cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol neu ymweliadau diogel gan feddygon teulu, iechyd meddwl, dementia, therapi galwedigaethol/proffesiynau perthynol i iechyd.

Datblygwyd Polisi Uwchgyfeirio Rhanbarthol a chytunwyd ar drefniadau lleol a'u rhannu ar draws y sector.

Mae adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa ar draws yr holl gartrefi gofal wedi'u cwblhau 7 diwrnod yr wythnos er mwyn nodi materion neu bryderon posibl a gweithredu'n gyflym.

Buddsoddodd yr Awdurdod Lleol yn gynnar iawn mewn cyfleusterau cynadledda i sicrhau y gallai teuluoedd gael mynediad at dechnoleg i gadw cysylltiad tra bod ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u gohirio. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cefnogodd y Cyngor y gwaith o gynllunio a datblygu cyfleusterau ymweld yn yr awyr agored pan gafodd lefelau rhybudd eu gostwng. Datblygodd hyn hefyd gyda'r sector annibynnol trwy gymorth Canolfan Cydweithredol Cymru sydd wedi darparu offer, hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn gallu cael mynediad at dechnoleg a'i defnyddio. Cafodd y rhaglen waith hon sylw yn y wasg genedlaethol.


## Cyngor a Chymorth i Oedolion





Mae Adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael ei ddarparu. Mae tîm Porth Gofal wedi'i hyfforddi gyda llawer o wybodaeth am wasanaethau ataliol trydydd sector yn yr ardal leol. Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda Phorth Cymorth Cynnar i fynd i'r afael â'r rhai sydd ag anghenion lefel isel a'u hisgyfeirio yn y pwynt cyswllt cyntaf mewn cydweithrediad â'r unigolyn.

Mae pob atgyfeiriad nad yw'n cael ei isgyfeirio gan wybodaeth yn unig yn cael ei drosglwyddo i'r tîm brysbennu integredig ar gyfer asesiad cymesur. Bydd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu asesiad cyfannol gan ddefnyddio Arwyddion Diogelwch i nodi pa gyngor a chymorth sydd eu hangen i gefnogi a lleddfu'r sefyllfa ymhellach. Gall y tîm amlddisgyblaethol ddarparu gwybodaeth broffesiynol arbenigol sy'n cynnwys therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, nyrsio a gwaith cymdeithasol. Bydd y tîm amlddisgyblaethol hefyd yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill yn y Bwrdd Iechyd am gymorth os oes angen. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n rhithiol gydag asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer pob cyswllt wyneb yn wyneb.

## Darparu Gofal Cartref



Yn ystod y cyfnod 2020-09-21 i 2021-03-21, amrywiodd nifer y bobl a oedd yn aros am ofal cartref rhwng 26 ar yr isaf i 51 ar y mwyaf, ond mae wedi bod rhwng 30 a 40 ers mis Rhagfyr 2020.

Mae'r berthynas waith dda yn parhau gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr sy'n rhoi sylfaen dda i ni adeiladu arni, gan ganiatáu i ni weithio'n agos gyda'r farchnad trwy'r cyfnodau brig a'r cyfnodau tawel ac yn wyneb holl heriau effaith Covid-19. Mae darparwyr yn parhau i adrodd bod eu cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyngor Sir Ceredigion wedi bod yn fuddiol ac yn addysgiadol o ran gweithredu protocolau Covid lleol a chenedlaethol ar ddarparu gofal personol a rheoli heintiau a dosbarthu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel. Gall darparwyr godi materion pwysig a gellir nodi tueddiadau a'u huwchgyfeirio pan fydd angen, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn rhanbarthol.

Mae gennym nifer o ardaloedd anghysbell, ynysig lle mae'n anodd iawn caffael gofal, ac roedd hyn yn fwy o her fyth yn ystod Covid-19 gyda darparwyr yn wynebu heriau staffio sylweddol. Er mwyn hwyluso rhyddhau pwysau mewn rhai meysydd a chynorthwyo rhyddhau o'r ysbyty, yn ystod y pandemig defnyddiwyd ein tîm Galluogi mewnol i helpu gyda'r galw am wasanaethau.

| | **Cyfanswm yr oriau o ofal cartref a brynwyd gan y sector annibynnol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **2017/18** | 239470.73 | Derbyniodd 551 o unigolion ofal cartref wedi'i gomisiynu |
| **2018/19** | 241300.18 | Derbyniodd 571 o unigolion ofal cartref wedi'i gomisiynu |
| **2019/20** | 234499.18 | Derbyniodd 540 o unigolion ofal cartref wedi'i gomisiynu |
| **2020/21** | 209780.61 | Derbyniodd 487 o unigolion ofal cartref wedi'i gomisiynu |

Mae nifer o'n darparwyr yn cynnig gwasanaethau gofal yn sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Phowys ac yn gallu llenwi'r bylchau yn eu rotas ar draws llinellau'r sir. Ar hyn o bryd ceir 14 o brif ddarparwyr sy'n gweithredu o fewn y brif farchnad gofal cartref yng Ngheredigion ar 31 Mawrth 2021.

**Gwasanaethau Dydd**
Caewyd y Canolfannau Dydd yn ystod y cyfnod hwn a chafodd gwasanaethau'r ganolfan i oedolion anabl ac oedolion hŷn eu hatal. Gwnaethpwyd addasiadau gwasanaeth gyda thimau Porth Cynnal a Phorth Gofal, cwblhawyd asesiadau risg gofal cymdeithasol ac iechyd a diogelwch a dilynwyd mesurau rheoli heintiau er mwyn sicrhau trefniadau seibiant a chymorth diogel ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed ynghyd â galwadau rhithiol a chadw mewn cysylltiad rheolaidd.

**Gwasanaethau Llesiant Meddyliol**
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch gan staff timau Porth Cynnal a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gyda pharhad asesiadau Deddf Iechyd Meddwl a chymorth statudol i bobl ag anawsterau iechyd meddwl a salwch a'u gofalwyr.

**Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau**
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff Tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau gofal a chymorth statudol i bobl sy'n profi anawsterau a dibyniaeth a chamddefnyddio sylweddau a'u gofalwyr.

**Cymorth Estynedig**
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff Tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau gofal a chymorth statudol i bobl ag anableddau a'u gofalwyr.

**Gofal Wedi'i Gynllunio**
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau a gofal a chymorth statudol i oedolion ag anghenion gofal a chymorth tymor hwy.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Yn ystod y flwyddyn hon, bu timau Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth ysgolion ac asiantaethau partner allweddol i ddiogelu a chefnogi plant a phobl ifanc yng Ngheredigion a pharhau i fodloni dyletswyddau statudol o fewn gofynion protocolau a chanllawiau Covid-19 y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae effaith sylweddol Covid-19 ar blant a theuluoedd wedi bod yn amlwg yn nhermau gweld llai o blant a diffyg mynediad at gymorth cymunedol a chynnydd mewn anghenion cymorth ar gyfer llesiant meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Yn ystod y cyfnodau clo a chau ysgolion, bu gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ysgolion i sicrhau bod plant sydd mewn perygl o niwed ac sydd angen gofal a chymorth yn gallu mynychu'r hybiau ysgol i gael cymorth.

Cafodd trefniadau seibiant a chymorth eu blaenoriaethu ar gyfer plant a theuluoedd anabl a phlant sy'n derbyn gofal o fewn cyfyngiadau Covid-19 yr un pryd.

Gyda llacio'r cyfyngiadau yn ystod yr haf, roedd plant sy'n derbyn gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol yn gallu cael mynediad at weithgareddau haf o hwyl a drefnwyd gan wasanaethau Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar mewn cydweithrediad â phartneriaid wrth gadw at fesurau diogelwch Covid-19.


Mae'r Gofrestr Amddiffyn Plant wedi amrywio yn ystod 2020/21, ac roedd 29 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth. Mae'r ffigur hwn yn is na'r ffigur ar ddiwedd 2019/20.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion wedi cynyddu i 86 ar 31 Mawrth 2021. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei fonitro'n agos ac mae effaith Covid-19 ar y gallu i gadw plant yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn y gymuned wedi bod yn amlwg.

Mae Covid-19 wedi effeithio'n fawr ar argaeledd gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal. Lle bynnag y bo modd, mae gwasanaethau cymorth wedi cael eu cynnig yn rhithiol.


**Canlyniad yr Asesiadau**

Cwblhawyd asesiadau risg ar gyfer pob ymweliad cartref neu wyneb yn wyneb angenrheidiol. Gweithredwyd gweithio rhithiol ar gyfer cyfarfodydd aml-asiantaeth gyda chymorth yn cael ei ddarparu er mwyn i deuluoedd allu cymryd rhan. Roedd achosion yn cael eu blaenoriaethu o ran risg o niwed o gamdriniaeth neu esgeulustod. Gweithiodd staff o fewn y fframwaith risg ac ymarfer a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a chyda phrotocolau lleol a rhanbarthol eraill.





**Cynorthwyo plant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd**

Mae cynorthwyo plant i fyw gyda'u teuluoedd yn un o brif nodau'r gwasanaethau Porth Cynnal. Lle y bo'n bosibl, ystyrir mai dyma yw'r canlyniad gorau i blant. Mae'r mesur hwn yn cymharu nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo fel plant sy'n derbyn gofal (plentyn sydd wedi bod yng ngofal ei Awdurdod Lleol am fwy na 24 awr) â nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo y tu allan i'r mathau hyn o drefniadau.




Canran y plant a gynorthwywyd i barhau i fyw gyda'u teuluoedd ar 31 Mawrth, oedd â chynllun gofal a chymorth am o leiaf 3 mis.




Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn


Yn 2020-21 gwelsom gynnydd pellach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol a gostyngiad bach yn y rhai a ddychwelodd adref ar ôl derbyn gofal sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn achosion cymhleth y mae'n rhaid eu rheoli ac effaith Covid-19. Mae'r gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal yn parhau i ddarparu gwasanaeth allweddol gyda chymorth ymarferol ar gyfer rhianta mwy diogel. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar y maes gwaith hwn gyda mynediad mwy anodd at gymorth yn y gymuned a mwy o anhawster i reoli'r risg o niwed yng nghartref y plentyn neu yn y gymuned.





## Y Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r gofrestr amddiffyn plant yn darparu cofnod o'r holl blant yn yr ardal sydd â materion diogelu heb eu datrys ac sy'n destun cynllun diogelu rhyngasiantaethol ar hyn o bryd. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng, gyda lleihad yn yr amser y mae'r plentyn yn aros ar y gofrestr, ac ni fu unrhyw ail-gofrestriadau yn ystod y flwyddyn hon.









Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Gwasanaeth Diogelu wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod ymholiadau ac ymchwiliadau amddiffyn plant o fewn gofynion Covid-19 yn cael eu cwblhau'n ddiogel.

## Iechyd ein Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn datgan bod rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael gofal gan ymarferydd deintyddol cofrestredig cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac mewn unrhyw achos dim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gael ei wneud.




**Canran y plant a gafodd eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal**





**Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau eu lleoliad.**

Mae Canllawiau Clinigol NICE [CG19] – 'Archwiliadau deintyddol: y cyfnodau rhwng adolygiadau iechyd y geg' yn amlinellu'r canllawiau ar amlder archwiliadau deintyddol.  Seilir hyn ar ffactorau risg y claf unigol o gael clefyd deintyddol. Yn gyffredinol, ystyrir bod plant sy'n derbyn gofal mewn mwy o berygl o gael clefyd deintyddol ac felly disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu galw yn ôl naill ai bob tri mis neu bob chwe mis. Yn 2020-21 gwelwyd gostyngiad pellach yng nghanran y plant a gafodd eu gweld gan ddeintydd cyn pen tri mis ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal, ac mae hwn yn fater sy'n cael ei ystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cael sylw ganddo oherwydd bu anawsterau oherwydd Covid a staffio deintyddfeydd.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn datgan bod rhaid i'r awdurdodau cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei gofrestru gyda Meddyg Teulu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac mewn unrhyw achos ddim hwyrach na deg diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gael ei wneud. Fel y gwelwch o'r graff yn 2020-21 fe wnaethom gyrraedd ein targed o 100% o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cofrestru gyda Meddyg Teulu.


## Plant sy'n derbyn gofal – sefydlogrwydd lleoliadau

Mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall symud dro ar ôl tro gael effaith negyddol ar blant. Mae symudiadau aflwyddiannus, neu heb eu cynllunio, yn llawer llai tebygol o ddigwydd i blant iau. Mewn cyferbyniad, mae lleoliadau 'plant yn eu harddegau' yn fwy tebygol o chwalu.




**Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal oedd heb ddigwydd oherwydd trefniadau pontio**

Ni ddeellir yn llawn a yw'r symud lleoliad ei hun yn arwain at ganlyniadau gwael i blant neu a yw hyn yn digwydd oherwydd profiadau ac anawsterau blaenorol plant. Ceir dau brif fesur sy'n ceisio esbonio sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r cyntaf yn ystyried sawl gwaith y bu'n rhaid i blentyn newid ysgol (heb gynnwys pan fydd plentyn yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd), ac mae'r ail yn ystyried sawl gwaith y bu'n rhaid i blentyn symud i ddau leoliad neu ragor. Mae'r mesurau hyn yn rhai hir-sefydlog a gallant roi gwybodaeth am berfformiad hirdymor y gwasanaeth. Anfantais y ddau fesur yma yw eu bod yn tueddu i newid oherwydd y nifer isel o blant sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Mae'r cynnydd a welwyd yn 2019-20 ac sy'n weddill ar y ganran honno yn 2020-21 o ran plant sydd wedi symud lleoliad tair gwaith neu ragor yn ganlyniad i Covid yn ein barn ni a'r anhawster o geisio lleoli'r plant gyda gofalwyr gwahanol pan fydd anghenion cymhleth gan y plant ac oherwydd y cyfyngiadau a'r gallu i gynnig cymorth cyfyngedig/ar-lein yn unig yn ogystal â'r gofalwyr yn cael y plant gartref hyd yn oed ar ddiwrnodau ysgol. O ran y ganran isel o blant sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor, fel gwasanaeth rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr addysg ac yn ceisio sicrhau mai dim ond pan fydd hynny'n briodol i'r plentyn y mae symud ysgol yn cael ei ystyried, h.y. symud i'w hysgol leol ar ôl sefydlogi yn y lleoliad, neu lle nad ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i leoliad lle y gellir cefnogi'r plentyn i barhau i fynychu ei ysgol. Fodd bynnag, mae'r mesur isel o ystyried y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal unwaith eto yn arwydd o lwyddiant y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn ein Gwasanaeth Gofal wedi'i Gynllunio.




Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn


## Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae gadael gofal yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at grŵp o blant rhwng 16 a 18 oed ac sydd wedi bod mewn gofal yn flaenorol ond nad ydynt bellach yn "derbyn gofal" yn gyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol. Pan fydd plant yn gadael gofal, mae dyletswydd arnom o hyd i gynorthwyo'r bobl hyn tan eu bod yn 21 oed, neu'n 25 oed os ydynt mewn addysg amser llawn neu os oes anabledd ganddynt.


I'r garfan hon o bobl ifanc mae Covid wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd gyda heriau i rai ar ôl colli swydd, llety, a mwy o unigedd yn ystod y cyfnod clo. Mae'n siomedig gweld gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc o fewn 12 mis o adael gofal sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y rhai sydd mewn rhyw fath o addysg/cyflogaeth ac sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth gadael gofal ar ôl 24 mis. Mae'n braf hefyd nodi gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn 2020-21. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio ar eu prosiectau a'u strategaethau i fynd i'r afael â'r angen am lety priodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac yn gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac asiantaethau allanol yn ein hardal i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i flaenoriaethu'r mater hwn a chodi ei broffil yn unol â hynny. Roedd y cynghorwyr personol wedi parhau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal yn dda yn ystod y cyfnod anodd hwn.




**Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal**





**Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal**




**Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn**

**Operation Encompass**




Daeth Operation Encompass yn fyw yng Ngheredigion ym mis Tachwedd 2019. Mae wedi bod yn gweithio'n dda yn gyson ers ei lansio, gan rannu gwybodaeth yn ddyddiol ag ysgolion (neu wrth i hysbysiadau ddod i law). Cafwyd rhai hysbysiadau o bryd i'w gilydd ynghylch teuluoedd gan awdurdodau cyfagos ar y ffin â Cheredigion, ond mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hanfon ymlaen fel y bo'n briodol. Ers y cyfnod clo, mae rhannu gwybodaeth wedi newid o alwadau ffôn i e-byst, a diwygiwyd y Protocol Rhannu Gwybodaeth i ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, nodir nad yw'r hysbysiad e-bost llawn yn cael ei rannu ag ysgolion yn ei gyfanrwydd, mae pob adroddiad yn cael ei olygu i gynnwys manylion y dioddefwr/troseddwr honedig, manylion y plant, a oeddent yn bresennol, amser/dyddiad a chrynodeb o'r digwyddiad. Mae ysgolion yn cael eu briffio'n llawn ar y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sydd wedi bod yn agored i ddigwyddiadau naill ai yn eu cartrefi, neu o fewn eu perthnasoedd eu hunain, gan gynnwys Sbectrwm (Hafan Cymru) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru. Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cadw golwg ar ddiogelwch a llesiant eu disgyblion, mae gwasanaeth diogelu'r ysgol yn parhau i rannu hysbysiadau hefyd trwy gydol gwyliau'r ysgol, felly nid yw wedi'i gyfyngu i'r tymor ysgol yn unig. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn adlewyrchu nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, a oedd yn amlwg yn uwch yn ystod cyfnodau clo.

# 3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu fel arfer â dinasyddion a rhanddeiliaid trwy ddulliau amrywiol. Ceisiwn adborth "galw yn ôl" o fewn Clic a gwasanaethau Porth Gofal. Ymgysylltwn fel arfer â byrddau a grwpiau gwahanol, er enghraifft, y Bwrdd Diogelu Ieuenctid Sêr Saff, Grŵp Plant sy'n Derbyn Gofal, Fforwm Anabledd, Fforwm 50+, Byrddau Trawsnewid Iechyd Meddwl, lle y byddwn yn rhannu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yn hyrwyddo adborth ynghylch ad-drefnu'r gwasanaeth a ddarperir. Hefyd, dysgwn o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru, arolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion wrth iddynt ddigwydd.  Rydym yn cwrdd â chynghorau tref a chymuned i rannu ein cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ac i gael adborth ar y cynlluniau hyn.

Yn ystod 2020-2021, yn sgil effaith Covid-19 mae ymarferion ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ymarferion ymgysylltu arferol eraill â defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu cyfyngu'n ddifrifol.

Serch hynny, mae adborth gan y cyhoedd sy'n derbyn gwasanaethau cymorth wedi cael ei gasglu'n rheolaidd a'i ystyried gyda grwpiau allweddol fel Sêr Saff, gan greu rhaglen gyfan o ymgysylltu a chymorth i blant a phobl ifanc ar-lein.

**Crynodeb o enghreifftiau o sicrhau llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2020-2021;**

- Cyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth asesu, cynllunio gofal ac adolygu; defnyddio Arwyddion o Ddiogelwch a Llesiant, gwaith ar ddatblygu ffurflenni a llwybrau wedi'u llywio gan ymarferwyr a rheolwyr
- Defnydd hyblyg o daliadau uniongyrchol yn lle gofal preswyl a gofal dydd
- Defnyddio technoleg i sicrhau adborth rhithiol gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Holiadur seibiant i lywio cymorth yn ystod Covid-19 i blant a theuluoedd anabl
- Datblygu holiadur adborth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â diogelu oedolion
- Gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion; gwrando ar farn plant am ddulliau rhithiol
- Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, Cynadleddau Amddiffyn Plant, Adolygiadau Gofal a Chymorth a gynhelir yn rhithiol
- Defnyddio gwasanaethau eiriolaeth rhithiol a gomisiynir ar gyfer plant ac oedolion
- Pawb sy'n derbyn gofal cartref/galluogi yn cael cyfle i roi'r gorau iddi/lleihau darpariaeth i gyfyngu ar risg
- Mae dysgu o achosion mewn meysydd penodol wedi cynnig modd i ni adolygu a diwygio polisïau a gweithdrefnau (yn benodol mewn cartrefi gofal h.y. y defnydd o gyfarpar diogelu personol, parthau diogel, atal a rheoli heintiau ac ati)
- Rhaglen drawsnewid 1 – cyflwyno'r rhaglen Connect
- Arolwg boddhad ieuenctid a ffurflenni adborth sesiynol
- Adborth o weithgareddau chwarae i blant a phobl ifanc
- Adborth gan Gyngor Ieuenctid Ceredigion a'r Grŵp Sêr Saff

# Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella

Mae Ceredigion yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Gwella Bywydau Rhanbarthol. Bob yn ail fis mae'r grŵp hwn yn cynnal cyfarfod busnes a chyfarfod sy'n cael ei arwain a'i gadeirio gan y 'Dream Team'. Grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau yw aelodau'r tîm hwn. Maent yn cael eu cynorthwyo gan Bobl Sir Benfro yn Gyntaf sy'n rhoi cymorth gweithredol i'r grŵp rhanbarthol, yn enwedig o ran defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig.

Arolygwyd Gwasanaethau ar gyfer Plant Anabl, Atal a Throsglwyddo gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mhedwerydd chwarter 2019-2020. Mae'r Cynllun Gweithredu a grëwyd mewn ymateb i faterion a godwyd wedi'i roi ar waith er bod Covid-19 wedi rhwystro cynnydd ar rai agweddau ac mae rhai addasiadau wedi'u gwneud.

**Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu**

1.1 Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gallu bod yn glir ynghylch pa gymorth y gallant ei gael, sut a phryd a ble.

- Manyleb gwasanaeth a chytundeb gweithio diwygiedig gydag Iechyd wedi eu gweithredu.
- Mae strategaeth cleientiaid wedi'i drafftio gyda lefelau gwasanaeth o ran y cymorth a gynigir.
- Mae strwythur staffio ar gyfer TAW wedi'i gytuno gyda'r cynllunio ar gyfer y cam nesaf.
- Mae gwybodaeth gyfathrebu ynghylch y cynnig newydd o ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol gan yr ALl ac Iechyd wedi'i ddosbarthu a thrafodwyd unrhyw ymholiadau gan deuluoedd.

1.2 Paratoi a chefnogi staff i gwblhau a chofnodi asesiadau a chynlluniau gofal o ansawdd da sy'n bodloni'r holl ofynion statudol gan gynnwys anghenion cyfathrebu'r plentyn.

- Mae staff wedi cwblhau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac asesu ac mae asesiad risg Covid-19 wedi'i roi ar waith.
- Mae goruchwyliaeth staff fisol ar waith i sicrhau ansawdd achosion byw.
- Defnyddio proffiliau 1 dudalen ar gyfer plant ar eu cofnod WCCIS.
- Cwblhawyd y gwaith o fapio sgiliau cyfathrebu'r staff ac mae anghenion hyfforddi wedi'u nodi. Gall rhai staff ddefnyddio Makaton lle bo angen.

1.2 Paratoi a chefnogi staff i nodi asesu a darparu cymorth pan fydd angen i ofalwyr yn unol â gofynion statudol.

- Mae staff wedi nodi gofalwyr ac wedi cynnig asesiad o anghenion cymorth gofalwyr.
- Mae hyfforddiant staff ar asesiadau gofalwyr wedi'i gwblhau.
- Bydd staff yn cofnodi'r rheswm dros wrthod asesiad gofalwr os mai dyma yw'r achos.

2.1 Sefydlu'r Gofrestr Anabledd yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i defnyddio i lywio datblygu'r gwasanaeth a chomisiynu strategol yn y dyfodol.

- Mae'r Gofrestr yn barod i fynd yn fyw, a bydd hon yn eistedd yn y Porth Gofal i ddechrau, ond yn symud i Clic pan fydd wedi'i sefydlu.

2.2 Gwella darpariaeth gwasanaeth a'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant anabl a'u teuluoedd yn unol â'u hanghenion.

- Cynnal adolygiadau amlasiantaethol gyda theuluoedd i nodi anghenion gan ddefnyddio dulliau rhithiol oherwydd Covid-19
- Bydd y panel anghenion cymhleth lleol yn trafod pecynnau gofal a chymorth a chomisiynu ar y cyd yn fisol.
- Mae ffurflenni cais am wasanaeth yn cael eu cwblhau ar gyfer pob gwasanaeth newydd, ac mae taliadau uniongyrchol yn cael eu cefnogi'n fewnol erbyn hyn.
- Bydd Camu Mlaen yn ystyried yr holl fyfyrwyr blwyddyn 9 a allai fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth ac yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r cynllun pan ystyrir yn briodol i ddiwallu eu hanghenion addysgol ôl-18.
- Mae DASH wedi cael y contract i gynnig penwythnosau seibiant ar gyfer rhai o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen y ddarpariaeth hon arnynt. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth seibiant.

2.3 Mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cymorth ac yn adolygu a datblygu trefniadau comisiynu presennol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.

- Manyleb gwasanaeth yn cael ei gweithredu.
- Mae cynllun gweithredu rhanbarthol a grŵp canlyniadau plant rhanbarthol wedi'u sefydlu'n ddiweddar.
- Cynhelir cyfarfod olrhain wythnosol rhwng cymorth estynedig a chydweithwyr iechyd i drafod achosion a nodi'r person mwyaf addas i weithio gyda'r person ifanc.


2.4 Gall plant a phobl ifanc gael mwy o gymorth i fod yn annibynnol a gwella canlyniadau trwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno cais am gyllid gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol er mwyn gallu datblygu'r gwasanaeth hwn.


3.1 Datblygu fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o'i swyddogaethau a'i brosesau craidd.

- Mae templed a dulliau Arwyddion Diogelwch yn cael eu defnyddio wrth oruchwylio staff.
- Fframwaith sicrhau ansawdd i'w ddatblygu fel offeryn archwilio i reolwyr gynnal hapwiriadau archwilio ar gyfer achosion.
- Mae rheolwyr wedi cael hyfforddiant ar sgiliau goruchwylio.
- Rhaglen gymorth atal a rheoli heintiau i reolwyr ar gymorth estynedig.

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod




Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddigwyddiadau trawmatig sy'n effeithio ar blant. Gallai'r rhain ddigwydd wrth i blant dyfu, trwy gael eu cam-drin neu fyw mewn cartref sydd wedi'i effeithio gan drais domestig, camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl.




Yn 2019-2020 cafodd holl staff rheng flaen Ceredigion hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (cyfanswm o 1829) yn dilyn dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2020-2021, mae sesiynau hyfforddi eraill wedi cael eu cynnig i staff er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu ymyriadau cynharach a helpu ein gweithwyr proffesiynol i ofalu am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u cefnogi.

Cafodd Covid-19 effaith enfawr ar hyfforddiant yn ystod 2020-2021 oherwydd y cyfyngiadau oedd yn eu lle. Fodd bynnag, rydym wedi cyflawni'r datblygiadau allweddol canlynol:

- Mae 12 aelod newydd o staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i sicrhau ymagwedd gyson at ddeall trawma a'r effeithiau ar blant a phobl ifanc.
- Roedd modd cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn Team Teach ym mis Mai a mis Mehefin 2021 ar gyfer nifer o staff cymorth ac atal.
- Hyfforddwyd 5 aelod o staff cymorth ac atal yn y rhaglen STAR sy'n ymdrin â cham-drin domestig a pherthnasoedd parchus.
- Derbyniodd 13 aelod o staff cymorth ac atal hyfforddiant mewn therapi tynnu lluniau a siarad er mwyn gallu helpu plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn dioddef o drawma neu iechyd meddwl gwael.
- Mae staff o fewn y tîm cymorth ac atal hefyd wedi derbyn hyfforddiant mewn 'Ymwybyddiaeth o Hunan-niweidio a Hunanladdiad' oherwydd natur yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon am gymorth i blant a phobl ifanc yn y gymuned ac yn yr ysgol.
- Mae 9 aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs 'Cwnsela Creadigol'.
- Cyflwynwyd hyfforddiant ar y Model Adfer Wedi Trawma i 6 aelod o staff gyda'r model yn cael ei addasu i ddarpariaeth ar-lein a'i archebu ar gyfer Chwefror 2022.
- Rhoddwyd hyfforddiant 3 diwrnod i ymarferwyr Model Adfer Wedi Trawma i 43 o staff o fewn y tîm cymorth ac atal gan gynnwys staff yr uned cyfeirio disgyblion. Datblygwyd y model

mewn ymateb i anghenion cymhleth plant a phobl ifanc â phrofiadau plentyndod niweidiol lluosog.

- Oherwydd Covid-19 a rhai cyfyngiadau bu'n rhaid cynnal y sesiynau a gynlluniwyd gan Team Teach pan gafodd cyfyngiadau eu codi ar gyfer cynnal sesiynau wyneb yn wyneb. Cynigiwyd sesiynau cyflwyno Team Teach i Benaethiaid, Tîm Arweinyddiaeth Ysgolion a Rheolwyr Gwasanaeth o fewn yr Awdurdod Lleol ym mis Chwefror 2022. Roedd 62 o gynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd a'r uned cyfeirio disgyblion, gyda 24 arall o sectorau gan gynnwys Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant, Tai a Canolfannau Llesiant.
- Yn dilyn ymlaen o hynny roedd ysgolion yn gallu cofrestru i hyfforddi eu staff gyda sesiynau wedi'u teilwra i'w hanghenion. Aeth 147 o staff ysgolion ymlaen i drefnu a derbyn hyfforddiant gyda 39 arall wedi'u neilltuo ar gyfer gwanwyn 2022.

Hefyd, mae rhai aelodau o staff wedi penderfynu astudio meysydd o ddiddordeb personol iddynt y gallant eu defnyddio yn eu gwaith.

Yn ddiweddar cwblhaodd Mentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc ei gradd meistr gyda theilyngdod yn 'Effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: Cynnydd a Chyrhaeddiad Addysgol', ac mae Gweithiwr Ieuenctid newydd gwblhau cwrs 'Cwnselydd a Seicotherapydd Uwch' Lefel 4.

## Grŵp diogelu plant a phobl ifanc Sêr Saff Ceredigion – wedi'i hwyluso gan TGP

Mae adroddiad ar-lein ar gyfer gweithgarwch yn 2020-2021 yn dangos datblygiad gwerthfawr cymorth diogel a mesurau diogelu gyda phlant a phobl ifanc trwy'r cyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i'r pandemig:

Safe Starts – YouTube

## Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu

Yn ystod 2021-2021, gwelsom gynnydd o 267 o ofalwyr di-dâl cofrestredig, gan fynd â'r nifer o 825 o ofalwyr i 1092.

Ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Ebrill 2020, sefydlodd y Gwasanaeth Gofalwyr wasanaeth 'gwirio llesiant'. Cysylltwyd â holl aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr trwy e-bost, llythyr neu ffôn i roi sicrwydd a gwybodaeth, nodi problemau a chynnig cymorth. Roedd gofalwyr a oedd am gael mwy o gymorth yn cael cynnig cyswllt cyson yn rheolaidd.

Er na chaniatawyd cyswllt wyneb yn wyneb, cynhyrchwyd cylchlythyrau 'Infobursts' Covid-19 atodol i ofalwyr. Dosbarthwyd y rhain i aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ac roedd gwybodaeth hefyd ar gael i'r cyhoedd trwy wefan Cyngor Sir Ceredigion. Er mwyn parhau i gefnogi llesiant gofalwyr o dan gyfyngiadau'r pandemig, datblygwyd ffyrdd arloesol newydd o ddarparu hyfforddiant, gweithgareddau a digwyddiadau i ofalwyr heb yr angen am gyswllt wyneb yn wyneb.

I ddathlu Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2020 a Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd 2020, darparwyd ystod eang o weithgareddau yn rhithiol dros Zoom. Roedd gofalwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd yn gallu cael mynediad i'r gweithgareddau dros y ffôn arferol felly nid oedd gofalwyr

heb gysylltiad digidol yn cael eu heithrio. Cyhoeddwyd cyfarwyddiadau ar sut i ymuno a chael mynediad at Zoom yn y Cylchgrawn Gofalwyr ynghyd â chymorth arall ar ddatblygu sgiliau digidol.

I gydnabod popeth y mae gofalwyr yn ei wneud a dangos ein gwerthfawrogiad, dosbarthwyd bagiau llesiant gofalwyr i ofalwyr ym mis Mehefin 2020 a dosbarthwyd te prynhawn Cymreig 'seibiant mewn bocs' ym mis Mawrth 2021. Cymerodd nifer sylweddol o ofalwyr yr amser i gysylltu â ni i ddweud diolch a'u bod yn gwerthfawrogi'r rhoddion.

Yn ystod y cyfnod clo, roedd rhai gofalwyr yn ei chael hi'n anodd gwneud eu siopa hanfodol. Mewn ymateb, datblygodd Uned Gofalwyr Ceredigion Gerdyn Oedolion sy'n Ofalwyr a oedd yn cael ei gydnabod gan bob archfarchnad fawr wrth gynnig slotiau siopa a dosbarthu â blaenoriaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi hyn ar waith yn rhanbarthol.

Fel rhan o ddiwrnod gweithredu Gofalwyr Ifanc, lansiodd Ceredigion ei gylchlythyr cyntaf erioed i ofalwyr ifanc a'i ddosbarth i'r gofalwyr ifanc hynny sydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth gwybodaeth yn ogystal â'r rhai sy'n cael cymorth gan y gwasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer gofalwyr ifanc yng Ngheredigion, sef Gweithredu dros Blant.

Mae'n werth nodi bod Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn arwain ar brosiect rhanbarthol i gyflwyno'r Rhaglen Gwydnwch a Llesiant Gofalwyr. Cafodd hyn ei gyflwyno mewn lleoliad wyneb yn wyneb traddodiadol yn flaenorol, ond yn ystod y flwyddyn mae wedi cael ei ailysgrifennu i'w gyflwyno'n rhyngweithiol ar-lein hefyd.

Mae ystod o fodiwlau wedi cael eu datblygu gan gynnwys Gofalwyr Ifanc 8-13, Gofalwyr Ifanc 14-17, Oedolion sy'n Ofalwyr yn y Gymuned, Hyfforddi'r Hwylusydd a Sesiynau Blasu Gwydnwch a Llesiant.

## Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion

Mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Ceredigion – y Tîm o Amgylch y Teulu, y Tîm Teulu a Chanolfan Teulu Penparcau, yn darparu cymorth cynnar i'r teuluoedd a'r plant sydd fwyaf agored i niwed er mwyn atal problemau rhag digwydd neu fynd i'r afael â nhw cyn iddynt waethygu. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda rhwydwaith teulu cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar unigolyn. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda'r teulu i nodi'r problemau a helpu'r teulu i roi sylw iddynt trwy ddatblygu a chryfhau eu cysylltiadau, perthnasoedd a sgiliau er mwyn adeiladu a chreu gwydnwch, hunanddibyniaeth a chynnal eu llesiant.

**Tîm o Amgylch y Teulu**
Yn 2020-21, cwblhaodd y Tîm o Amgylch y Teulu 143 o geisiadau JAFF. Roedd 20 o'r rhain yn ymwneud â phlentyn â gofyniad dysgu ychwanegol penodol neu anabledd.

Yn flynyddol, mae oddeutu 31% (44) o'r ceisiadau yn ymwneud ag ailatgyfeiriadau (blynyddoedd yn ddiweddarach yn aml) pan fydd teuluoedd yn cyrraedd cyfnod newydd yn eu bywyd ac yn cofio bod cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu wedi bod yn effeithiol o'r blaen ac yn gofyn am gymorth eto.

Yn 2020-2021, cofnododd 76% o deuluoedd â Chynllun Gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu ganlyniad cadarnhaol adeg cau'r achos.

Nodwyd bod gan 43 o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd bryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau gyda chyfran o'r rhain hefyd yn dangos ffactorau eraill a fyddai'n cyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Roedd gostyngiad o 64% i 57% yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu o fewn 5 diwrnod gwaith sy'n adlewyrchu'r cynllunio ychwanegol sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â gofynion sy'n fwyfwy cymhleth teuluoedd sydd angen cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu ochr yn ochr â'r heriau o ymgysylltu â theuluoedd yn rhithiol yn ystod y cyfnod clo.

Wrth addasu darpariaeth gwasanaeth i bandemig Covid-19, datblygodd Tîm o Amgylch y Teulu Ceredigion, mewn partneriaeth ag Uned Gofalwyr Ceredigion, gyfres o sesiynau hyfforddi rhithiol ar gyfer rhieni plant ag anghenion ychwanegol neu ddatblygol. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y rhiant a'r teulu ac yn canolbwyntio ar bynciau a nodwyd gan y cyfranogwyr. Mae'r sesiynau'n cynnwys botwm 'Dweud Eich Dweud' digidol i gasglu adborth yn syth. Mae'r cydweithrediad hefyd yn sicrhau bod rhieni-gofalwyr yn cael gwybod am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc sydd ar gael.

Mae'r tîm wedi cyflwyno gweithdai aml-asiantaeth rhithiol pwrpasol i fynd i'r afael â materion penodol e.e. Adeiladu Pobl Ifanc Gwydn yn Emosiynol i fynd i'r afael â hunan-niweidio cynyddol. Dywedodd un rhiant ei bod ni bellach yn teimlo'n "hyderus fy mod i'n gallu eistedd i lawr gyda fy mab a siarad ag ef am gyffuriau oherwydd bod y wybodaeth gen i nawr".

**Tîm Teulu**

Mae Tîm Teulu yn garfan fach o weithwyr cymorth i deuluoedd sy'n helpu teuluoedd i wneud y newidiadau a nodwyd gyda ffocws ar rianta a newid ymddygiad. Cyfyngwyd y gwasanaeth hwn yn ddifrifol oherwydd effaith y cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid-19.

Eleni cafodd Tîm Teulu 137 o atgyfeiriadau. O'r 137 o atgyfeiriadau a dderbyniwyd, dim ond 4 oedd heb eu dyrannu – cyfeiriwyd 2 i gael cymorth mwy priodol, symudodd 1 teulu allan o'r ardal a gwrthododd 1 teulu ymyrraeth.

Roedd y 133 o atgyfeiriadau hyn yn ychwanegol at y gwiriadau llesiant a gynhaliwyd gan staff i gefnogi disgyblion ysgol tra bod addysg yn cael ei darparu yn rhithiol ac yn y cartref.

Mae'n werth nodi bod 71% o'r rhai y gweithiwyd â nhw wedi nodi gwelliant ar draws y mesurau perfformiad cenedlaethol perthnasol, gydag 88% yn nodi gwelliant yn eu gwydnwch unigol a 79% yn nodi gwelliant yn eu hiechyd emosiynol.

Addasodd y tîm adnoddau ac ymyriadau er mwyn gallu darparu gwasanaeth rhithiol yn ystod y cyfnod clo gan barhau i ddarparu: Yr Ymennydd sydd ar Fai; Gweithdy Gemau Cyfrifiadurol Ar-lein a Diogelwch ar y Rhyngrwyd; Cymorth i'r Teulu; Cefnogaeth Rhianta Un-i-Un; Sesiynau Rhannu a Rhif a Stori a Sbri i rieni ifanc / rhieni plant bach.

Yng ngwanwyn 2021, trefnwyd gweithgareddau teithiau cerdded a welîs fel gweithgaredd cymdeithaso allanol ar gyfer grwpiau rhieni ifanc.

Cynhaliwyd ymweliadau wyneb yn wyneb, un-i-un, wedi'u hasesu o ran risg, ar gyfer nifer fach o deuluoedd a phlant agored i niwed yn ystod y cyfnodau clo.

Hefyd, yn ystod y cyfnod clo, mewn partneriaeth â rhai ysgolion cynradd, treialwyd sesiynau gwaith llesiant emosiynol i helpu plant a theuluoedd a fyddai fel arfer wedi mynychu grwpiau anogaeth yn yr ysgol.

Mae Tîm Teulu hefyd yn cefnogi dosbarthu deunyddiau darllen gan Gyngor Llyfrau Cymru i deuluoedd agored i niwed yn ystod 2020-2021.

**Canolfan Teulu Penparcau**
Yn anffodus, oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo, prin iawn oedd y defnydd o Ganolfan Teulu Penparcau yn ystod y cyfnod 2020-2021. Ailddechreuodd cyswllt wyneb yn wyneb dan oruchwyliaeth rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u rhieni ym Mhenparcau ar ddiwedd chwarter 4 2020-2021.

## Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion

Mae'r Gwasanaeth Cymorth ac Atal wedi'i ffurfio o dimau amlddisgyblaethol, gyda'r nod cyffredinol o ddarparu dulliau dan arweiniad plant, pobl ifanc a'r teulu i alluogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ehangach gael eu grymuso, i gyflawni, i ddatblygu'n bersonol, yn emosiynol, yn gymdeithasol a bod y gorau y gallant fod. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Arwyddion Diogelwch yn sail i bopeth a wnawn. Mae ein timau yn darparu cymorth cyffredinol ac â ffocws i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys:

- Gwaith ieuenctid ac ymgysylltu; Gwaith ieuenctid yn yr ysgol, dilyniant addysg, dysgu achrededig a chyfranogiad

Mae Gweithwyr Ieuenctid mewn ysgolion yn ymgysylltu â phobl ifanc 11-18 oed mewn cyd-destunau cyffredinol ac â ffocws. Mae Gweithwyr Ieuenctid yn ceisio adeiladu a chynnal perthnasoedd ystyrlon â phob disgybl ysgol; mae hynny'n cynnwys disgyblion a gyfeiriwyd yr ystyrir eu bod mewn perygl o ymddieithrio o addysg brif ffrwd oherwydd un neu lu o resymau.

Mae Gweithwyr Ieuenctid yn ffurfio perthnasoedd yn seiliedig ar ymgysylltu gwirfoddol. Trwy weithio gydag unigolion gall Gweithwyr Ieuenctid ddylunio cynllun wedi'i deilwra sy'n cynnig cymorth ar ffurf anghenion personol, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yr unigolyn. Gellir cyflawni hyn o fewn a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol a bod yn gymorth wedi'i dargedu ac yn gymorth cyffredinol.

- Cymorth a Chyflawniad; Mentora cynradd/uwchradd, pontio, llesiant emosiynol, anogaeth ac allgymorth

Mae'r Mentoriaid Sgiliau Plant a Phobl Ifanc yn cefnogi plant a phobl ifanc a allai ddangos ymddygiad heriol oherwydd eu profiadau cymdeithasol ac emosiynol. Mae mentoriaid yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a lleoliadau addysg eraill.

Mae mentoriaid yn hyrwyddo dull cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn deall yn well y rhesymau dyfnach pam mae plant yn gweld eu hamgylchedd presennol yn heriol mewn lleoliadau un-i-un a grwpiau bach â ffocws. Mae hyn er mwyn helpu i reoli eu hemosiynau, gan sianelu eu hegni'n gadarnhaol trwy ganolbwyntio ar gyrhaeddiad, yn addysgol ac yn bersonol.

- **Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal**; cymorth 16-24, allgymorth cymunedol, canolfannau ieuenctid, darpariaethau cyffredinol â ffocws

Mae ein tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn darparu ymyriadau wedi'u targedu a chyffredinol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau risg posibl neu faterion sylfaenol megis materion teuluol, cymdeithasol, unigol, addysgol, neu iechyd meddwl ac emosiynol a'u lleddfu a allai eu rhoi mewn risg uwch o droseddu ac aildroseddu, ond hefyd yn eu hatal rhag bod angen ymyrraeth statudol bellach megis gwasanaethau iechyd meddwl proffesiynol, ymyrraeth feddygol bellach a hyd yn oed cymorth tai fel enghraifft.

Mae'r darpariaethau'n amrywio o weithgareddau allgymorth, symudol a datgysylltiedig, canolfannau ieuenctid a chlybiau, a rhaglenni a phrosiectau cydweithredol wedi'u targedu.

- **Llwybrau Cymorth**; ymyriadau gydol oed, dyraniadau, sgrinio, sicrhau ansawdd, dadansoddi data a pherfformiad, cymorth adnoddau

Y tîm Llwybrau Cymorth yw'r porth ar gyfer yr holl atgyfeiriadau i Borth Cymorth Cynnar a'i wasanaethau p'un a ydynt yn dod trwy Clic neu'n cael eu brysbennu gan Borth Gofal. Mae'r tîm yn rhoi cymorth uniongyrchol i bob gwasanaeth ym Mhorth Cymorth Cynnar i nodi, dyrannu, monitro a gwerthuso ymyriadau neu gymorth.

Mae'r tîm yn cefnogi'r protocolau 'camu i fyny a chamu i lawr' trwy weithio gyda Phorth Cynnal a Phorth Gofal i sicrhau cymorth amserol ac effeithiol i blant/pobl ifanc, oedolion ac i deuluoedd/gofalwyr.

Mae'r tîm hefyd yn helpu i oruchwylio data a phrosesau sicrhau ansawdd gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar, gan sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion dinasyddion mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

**Canlyniadau 2021-2022 wedi'u halinio â themâu allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**

| Llinellau ymholi | Tystiolaeth Gwasanaeth |
|---|---|
| 1. **Pobl – llais a rheolaeth**<br>Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, yn gwneud dewisiadau gwybodus, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau? Sut mae hyn yn cael ei gydbwyso â'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru? A all yr Awdurdod Lleol ddangos bod dysgu yn cael ei ddefnyddio i lywio ffyrdd newydd o weithio? | - Marc Ansawdd Aur ar gyfer Gwaith Ieuenctid<br>- Nod Barcud Plant yng Nghymru (safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc)<br>- Dulliau a arweinir gan blant a phobl ifanc at gyflwyno'r cwricwlwm<br>- Arolwg Boddhad<br>- Sesiynau adborth, holiaduron, arolygon ar-lein<br>- Ymarfer Pellter a Deithiwyd<br>- Fforymau plant a phobl ifanc h.y. DEWIS<br>- Cyngor Ieuenctid<br>- Arwyddion Diogelwch a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'u gwreiddio yn y broses Cynllunio Ymyrraeth ac Atgyfeirio – caniatâd rhiant/gwarcheidwad<br>- Goruchwyliaeth Arwyddion Diogelwch<br>- Cyfarfodydd swigen ysgol (timau integredig) – prosesau coch melyn gwyrdd – ymyrraeth gynnar |

| | |
|---|---|
| | - Team Teach – cynlluniau trafod cadarnhaol, strategaethau lleddfu, sbardunau, ymarfer adferol<br>- Cyfryngau cymdeithasol – cynnwys, polau piniwn, offer/sesiynau rhyngweithiol<br>- Cymorth mentora cyfoedion<br>- Strategaeth gyfranogi |
| 2. **Atal**<br>I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn llwyddo i hyrwyddo atal a lleihau'r angen am gymorth cynyddol neu ffurfiol gan asiantaethau statudol? Gan gynnwys cymryd pob cam angenrheidiol i gefnogi magu'r plentyn gan deulu'r plentyn a helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl cyn iddynt gyrraedd argyfwng. | • Gweithwyr ieuenctid ysgol a chymuned, mentoriaid a gweithwyr atal a dargyfeirio<br>• Ymyriadau un-i-un a grŵp<br>• Gweithgareddau strwythuredig<br>• Clybiau ieuenctid, sesiynau galw heibio, gweithdai<br>• Darpariaethau ar ôl ysgol<br>• Rhaglenni gweithgareddau gwyliau ysgol<br>• Darpariaeth allgymorth, datgysylltiedig a symudol<br>• Cwricwlwm amgen, ymgysylltu galwedigaethol a chymorth addysg heblaw yn yr ysgol<br>• Anogaeth a llesiant<br>• Cyfleoedd mynediad agored<br>• Gweithgareddau rhithiol<br>• Proses ymateb raddedig ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal<br>• Prosesau pontio a modelu arfer da<br>• Datrysiadau y tu allan i'r llys a llwybrau ataliol<br>• Panel proffesiynol cymorth ac atal<br>• YEPF a digartrefedd ieuenctid<br>• Prosiectau thematig a chynlluniau peilot<br>• Cydweithio a chyfeirio<br>• Ymarfer sy'n ystyriol o drawma a Team Teach<br>• Ymagwedd ysgol gyfan at lesiant meddyliol<br>• Cynllun braenaru'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Tîm Troseddau Ieuenctid Atal |
| 3. **Llesiant**<br>I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo llesiant, yn sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt? Gan gynnwys camu i lawr amserol o blant o ofal Awdurdod Lleol, cefnogi pobl hŷn i ddychwelyd adref o'r ysbyty. | • Mae llesiant yn eitem sefydlog ar yr agenda – wedi'i ymgorffori<br>• Hyrwyddwyr llesiant a gweithgareddau<br>• Goruchwyliaeth<br>• Cyfarfodydd swigen wythnosol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac olrhain y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd mewn perygl o waethygu<br>• ABCh a gweithdai/cynnwys thematig sy'n cael ei arwain gan anghenion<br>• Prosiectau peilot fel hwb ieuenctid<br>• Ymagweddau adferol at waharddiadau ac ymddygiad heriol |

| | |
|---|---|
| | • Cydweithio gyda gwasanaeth ysgolion a phartneriaid allanol i hyrwyddo gweithgareddau a mentrau llesiant<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff, partneriaid, pobl ifanc a gwirfoddolwyr<br>• Pellter a deithiwyd – hunan-effeithiolrwydd, llesiant, a hunan-barch/hyder<br><br>Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro – Mae pobl ifanc yn dweud wrthym fod manteision eu hymgysylltiad â gwasanaethau cymorth ieuenctid yn rhoi'r canlynol iddynt:<br>• Mannau diogel ac oedolion dibynadwy<br>• Cyfleoedd i fagu hyder, hunan-barch, hunaniaeth, parchu'ch hun a pharchu eraill<br>• Dysgu ffyrdd newydd o ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd<br>• Cyfle i fod yn greadigol ac yn fynegiannol<br>• Ffyrdd o gynnal neu weithio tuag at iechyd meddwl cadarnhaol<br>• Ffyrdd o ddatblygu dealltwriaeth well o berthnasoedd cymdeithasol gan hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth<br>• Cyfle i gynyddu eu cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau<br>• Cyfleoedd i gael hwyl a chwarae. |
| 4. **Partneriaethau**<br>I ba raddau y gall awdurdodau lleol sicrhau eu hunain y manteisir yn gadarnhaol ar y newid sylweddol yn y cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a chynaliadwyedd gwasanaethau. Mae cyfleoedd yn cynnwys dysgu diweddar o ddatblygiadau digidol, gweithio mewn partneriaeth a gallu'r system iechyd a gofal cymdeithasol i symud ymlaen ar raddfa a chyflymder a gweithio tuag at Gymru Iachach. | - Panel proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal o fewn ysgolion a lleoliadau cymunedol ehangach<br>- Cydlynydd Ymgysylltu a Chynnydd/Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid ymarferwyr NEET cyn ac ôl 16<br>- Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r sector gwirfoddol<br>- Mynediad at hyfforddiant<br>- Prosiectau thematig a dan arweiniad y gymuned h.y. digartrefedd ieuenctid, prosiect graffiti<br>- Cynllun Braenaru Atal y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>- Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Rhanbarthol<br>- Canllawiau, adnoddau, a rhannu arfer da |

## Ymgysylltiad a Chymorth ar gyfer Gofalwyr Maeth:

Daeth Covid-19 â nifer o heriau newydd i bob maes gwasanaeth, a datblygwyd dulliau newydd o ymgysylltu, cyfathrebu a chefnogi ein gofalwyr maeth a'n gofalwyr sy'n berthnasau.

Yn gynnar iawn yng ngwanwyn 2020 nododd y Gwasanaeth Maethu fod angen cynnal cyfathrebu, goruchwyliaeth a chymorth rheolaidd o ansawdd da tra hefyd yn cynnal y neges 'Aros Gartref' a hybu iechyd a llesiant yr holl ofalwyr maeth, staff a phlant. Cafodd y pwysau ychwanegol i addasu a darparu addysg gartref ei gydnabod yn gyflym hefyd ac o ganlyniad dechreuodd y daith tuag at HWB a Microsoft Teams.

Roedd y feddalwedd 'newydd' hon a'r gyfres o swyddogaethau i sgwrsio, cyfarfod a chydweithio yn gyfle i gadw mewn cysylltiad a chael y cyswllt fideo gweledol yn lle'r cyfarfodydd corfforol, wyneb yn wyneb. Wrth i ymwybyddiaeth o'r feddalwedd gynyddu, datblygodd y Gwasanaeth Maethu a chydnabod bod hwn yn adnodd gwerthfawr nid yn unig i gadw cysylltiad ond i hwyluso'r amrywiol gyfarfodydd megis adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, cynadleddau, adolygiadau blynyddol, grwpiau cymorth a'r panel maethu.

Ar y dechrau roedd rhywfaint o bryder ymhlith staff a gofalwyr maeth ynghylch trefnu cyfleoedd rhithiol, fodd bynnag trwy weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Dysgu a Datblygu datblygwyd pecyn hyfforddi pwrpasol, ac mae'r holl ofalwyr maeth a'r staff wedi cael cyfle i gael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Teams. Yn ogystal, mae nifer o sgyrsiau a phrofiadau dysgu wedi tynnu sylw at ymddygiad cymdeithasol ac wedi darparu nodiadau i'ch atgoffa eich bod yn weladwy ar y sgrin!

Mae gofalwyr maeth Ceredigion wedi croesawu'r newidiadau ac wedi magu hyder i gael mynediad i'r HWB addysg, hefyd trwy Teams, er mwyn cefnogi ymgysylltiad y plant a'r bobl ifanc yn yr amgylchedd dysgu rhithiol. Mae amlbwrpasedd a hyblygrwydd yr hyfforddiant hefyd wedi dangos hygyrchedd y feddalwedd, nid yn unig ar y gliniadur, ond ar dabledi, ffonau, a dyfeisiau gemau cyfrifiadurol fel Xbox a PlayStation.

Mae'r hyfforddiant a'r defnydd cyson o'r meddalwedd a'r adnoddau hefyd wedi arwain at nifer o agweddau o'r gwaith yn mynd yn ddi-bapur. Mae gan ofalwyr maeth fynediad at eu sianel breifat, benodol eu hunain lle maent wedi cael eu hannog i lanlwytho eu dogfennau megis, cofnodion wythnosol, cwblhau eu ffurflenni milltiroedd, a chael mynediad at eu dogfennau adolygu blynyddol. Mae'r cyfleuster hwn yn ennill momentwm ac mae'n disodli'n gyflym yr angen am gabinetau ffeilio trwm sy'n griddfan o dan bwysau'r cofnodion rydym yn eu cadw. Sicrhawyd hefyd bod adrannau perthnasol, gan gynnwys cyllid, yn cael y wybodaeth yn gyflymach, gan arwain at daliadau'n cael eu prosesu'n gyflymach, yn hytrach na'r post malwoden traddodiadol a'r risg o ddogfennau'n mynd ar goll.

Mae timau hefyd wedi cefnogi'r agwedd 'gymdeithasol' rithiol o'r gwaith, gyda nifer o gwisiau, sesiynau gêm a bingo sydd wedi golygu bod modd defnyddio rhyngweithio cyfoedion a chymorth anffurfiol cymaint â phosibl mewn blwyddyn sydd wedi bod yn heriol.

Mae gweithio mewn ardal wledig a'r heriau o sicrhau cysylltiad dibynadwy a chyson yn parhau i fod yn her, ochr yn ochr ag atgoffa pobl yn gyson "Rwyt ti ar miwt!". Fodd bynnag, mae'r gwydnwch a'r ymrwymiad i addasu i newid wedi bod yn dyst i bawb.

# Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru

Ym mis Mawrth 2020, wrth i gyfraddau heintio gynyddu ac wrth i Gymru wynebu'r cyfnod clo cyntaf, roedd AGC wedi atal ei rhaglen o weithgarwch adolygu perfformiad arferol er mwyn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Yn lle hynny, datblygwyd ffyrdd newydd o weithio a oedd yn adlewyrchu'r angen i ymgysylltu â pherthnasoedd mwy cefnogol ag awdurdodau lleol.

Drwy gydol 2020-2021, cyfarfu'r Cyfarwyddwr Statudol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Gofal a Phorth Cymorth Cynnar yn rheolaidd â'r Arolygydd CONNECT a chynhaliwyd y cyfarfodydd adolygu perfformiad bob 6 mis yn ystod mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd Cynlluniau Adfer/Addasu ar ôl Covid-19 Ceredigion eu rhannu a'u trafod yn llawn.

# Cwynion a Chanmoliaeth

**Cyflwyniad**
Bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at holl gwynion a chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniwyd yn ystod 2020-2021. Fodd bynnag, cynhwyswyd y data hwn yn Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer 2020-2021, a oedd yn cyd-fynd â'r Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr un cyfnod adrodd. Cyflwynwyd y dogfennau uchod i'r pwyllgorau canlynol yn ystod 2021 (wedi'u darparu fel hyperddolenni i'r tudalennau perthnasol ar wefan y Cyngor, pe bai angen rhagor o wybodaeth):

- Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (27/10/21)
- Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor (09/12/21)

Cafodd Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 eu gweithredu'n llawn gan y Cyngor, a'r ddogfen hon yw'r canllawiau sy'n sail i Bolisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ei hun. Cymeradwywyd y Polisi gan bwyllgor Cabinet y Cyngor ar 17 Mawrth 2020 ac mae'n nodi'r gofynion a osodwyd ar staff o fewn Gwasanaethau Porth Cynnal a Phorth Gofal, a Thîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor. Mae hyn yn hybu atebolrwydd ac yn sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i ddelio â chwynion yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor, yn ogystal â sicrhau bod y broses yn hygyrch, yn deg ac yn dryloyw.

Mae'n rhaid nodi mai dyma'r cyfnod adrodd cyntaf sy'n adlewyrchu'r ailstrwythuro sefydliadol a ddigwyddodd fel rhan o Fodel Gydol Oed a Llesiant y Cyngor, wrth i systemau cofnodi'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth gael eu diwygio ar ddechrau 2020.

**Gweithgarwch Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gwneir pob ymdrech i ddatrys cwyn cyn gynted â phosibl, ac, yn y mwyafrif o achosion, mae hyn yn llwyddiannus, a chofnodir y mater fel 'ymholiad/pryder'. Os na ellir datrys y mater yn gynnar, neu os yw'r materion sy'n cael eu codi o natur ddifrifol neu gymhleth, caiff pryderon sylw yn unol â'r gweithdrefnau cwynion ffurfiol y cyfeirir atynt uchod.

Mae'r Cyngor yn gweithredu proses gwynion dau gam ac mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cysylltu â'r Rheolwyr Corfforaethol perthnasol i sicrhau bod y lefel briodol o atebolrwydd yn cael ei chynnal a bod y broses gywir yn cael ei dilyn ar bob cam.

Yn ystod 2020-2021 derbyniwyd 59 o ymholiadau/pryderon a chafodd y mwyafrif o'r rhain eu datrys yn foddhaol heb fod angen bwrw ymlaen â nhw o dan y gweithdrefnau cwynion.

Mae'r data a ddarperir dros y dudalen yn ymwneud â'r holl gwynion a gafodd sylw o dan Gam 1 a Cham 2 yn ystod y flwyddyn adrodd. Cam 2 yw'r cam olaf o dan weithdrefn gwynion y Cyngor ei hun; fodd bynnag, mae gan achwynwyr yr hawl i gyfeirio eu pryderon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn parhau'n anfodlon ar ôl Cam 2.

<u>Cyfanswm y cwynion a ddaeth i law yn ystod 2020–2021</u>

| Maes Gwasanaeth | Cam 1 | Cam 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Porth Cynnal | 9 | 4 | **13** |
| Porth Gofal | 9 | 2 | **11** |
| | **18** | **6** | **24** |


Derbyniwyd cyfanswm o 24 o gwynion mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn 2020-2021. Mewn cymhariaeth, derbyniwyd 25 o gwynion ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019-2020, sy'n dangos gostyngiad bach yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.


Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gydweithio'n agos â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth trwy fynd ati i ddatrys unrhyw bryderon ac ymholiadau sy'n dod i law yn gynnar. Gellir dangos hyn wrth gymharu nifer yr ymholiadau/pryderon yn erbyn nifer yr achosion yr oedd angen eu hystyried o dan y drefn gwynion ffurfiol (h.y., cafodd 40% o'r holl gysylltiadau a dderbyniwyd gan y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â Phorth Cynnal neu Borth Gofal eu cau heb fod angen eu huwchgyfeirio).

<u>Data cymharol</u>

Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad, cafodd systemau cofnodi cwynion a rhyddid gwybodaeth eu halinio â'r strwythurau gwasanaeth a weithredwyd fel rhan o Strategaeth Gydol Oed a Llesiant y Cyngor ar ddechrau 2020 yn unig. Felly nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng perfformiad Gwasanaethau Oedolion a Phlant â'r Gwasanaethau Porth Cynnal a Phorth Gofal o ran nifer y cwynion.

O ganlyniad, mae'r data a gafodd eu cynnwys yn adroddiadau blaenorol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u darparu isod. Mae cynrychiolaeth weledol o'r cwynion yn ymwneud â'r strwythurau gwasanaeth presennol (h.y. ar gyfer 2020-2021) wedi'i darparu hefyd, a chaiff hyn ei ddiweddaru mewn adroddiadau yn y dyfodol.




**Canlyniadau Cwynion fesul Gwasanaeth**


Ceir dadansoddiad o nifer y cwynion a'u canlyniadau isod, fesul maes gwasanaeth perthnasol:

| Porth Cynnal | Heb eu cadarnhau | Wedi eu cadarnhau'n (yn llwyr neu'n rhannol) | Yn parhau/ Wedi'u hatal dros dro |
|---|---|---|---|
| Llesiant Meddyliol (4) | 1 | 2 | 1 |
| Tîm Oedolion (1) | | | 1 |
| Asesu Plant a Theuluoedd (2) | | 2 | |
| Ansawdd a Gwella Gwasanaeth (1) | | 1 | |
| Amddiffyn Oedolion (3) | 1 | 2 | |
| Camu Mlaen (1) | | 1 | |
| Y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu (1) | | 1 | |
| Cyfanswm | 2 | 9 | 2 |

| Porth Gofal | Heb eu cadarnhau | Wedi eu cadarnhau'n (yn llwyr neu'n rhannol) | Yn parhau/ Wedi'u hatal dros dro |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Gofal Plant (1) | | 1 | |
| Gwasanaethau Uniongyrchol (2) | | 2 | |
| Brysbennu Porth Gofal (3) | 2 | 1 | |
| Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol (1) | | 1 | |
| Digartrefedd / Tai (4) | 4 | | |
| Cyfanswm | 6 | 5 | |

Terfynau Amser Cam 1

O'r 18 cwyn a gafodd eu hystyried o dan Gam 1; ymatebwyd i 8 ohonynt o fewn y terfynau amser penodedig (h.y. 15 diwrnod gwaith) ac ymatebwyd i'r 10 achos arall y tu allan i'r terfynau amser hyn.




**Terfynau Amser Cyfnod 2**

Roedd pob un o'r **6** chwyn yr ymchwiliwyd iddynt o dan Gam 2 trefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd yn hwy na'r terfyn amser penodedig (h.y. o fewn 25 diwrnod gwaith i'r gŵyn gael ei chytuno gan bob parti). Fodd bynnag, ymchwiliwyd i bob achos yn annibynnol, fel y nodir yn y canllawiau statudol a chafodd pob ymateb ffurfiol ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

**Dadansoddiad**
Nid oedd nifer y cwynion a gafodd eu hystyried o dan weithdrefn gwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn (2020-2021) yn annhebyg i'r lefelau gweithgarwch a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, er gwaetha'r effaith ddwys a achoswyd gan bandemig Covid-19. Fodd bynnag, cafodd llai o gwynion eu hystyried o dan Gam 2 yn 2020-2021 ac roedd nifer yr ymholiadau/pryderon bron wedi'u haneru o'i gymharu â 2019–2020.

Roedd amseroedd ymateb ar ddau gam y broses gwynion hefyd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, er y cydnabyddir yr ymatebwyd i bob cwyn Cam 2 yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod hwn y tu allan i'r terfyn amser a bennwyd. Nid yw hyn, ynddo'i hun, yn peri pryder mawr oherwydd rhaid rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, ac y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau o'r fath.

Derbyniodd Porth Cynnal ychydig mwy o gwynion fesul gwasanaeth, ond mae hyn yn bennaf oherwydd natur y gwasanaethau hynny a chymhlethdod yr achosion y maent yn delio â nhw.

O'r 24 o gwynion a dderbyniwyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, cadarnhawyd 14 yn dilyn ymchwiliad, sy'n cyfateb i 58% o'r holl gwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hwn yn ganlyniad mwy cadarnhaol o'i gymharu â'r data sydd ar gael ar gyfer 2019-2020, a ddaeth i'r casgliad bod 70% o'r holl gwynion wedi'u cadarnhau (h.y., wedi'u cyfiawnhau).

**Themâu a thueddiadau**
Mae cyfathrebu gwael yn parhau i fod yn ffactor cyson yn y rhan fwyaf o gwynion, ac yn y rhan fwyaf o achosion, gellir mynd i'r afael â'r rhain yn brydlon ar lefel gwasanaeth i atal y materion rhag gwaethygu'n ddiangen. Roedd hyn yn wir yn achos 59 o ymholiadau/pryderon a adroddwyd uchod, sy'n llawer uwch na nifer yr achosion a symudodd ymlaen wedi hynny o dan y broses gwynion ffurfiol.

**Terfynau Amser**
Fel y nodwyd yn 2019-2020, mae angen gwneud gwelliannau o ran yr amser ymateb yng Ngham 1 y broses gwynion. Mae gofyniad yng Ngham 1 i gynnig 'trafodaeth' rhwng yr achwynydd a'r Rheolwr Corfforaethol perthnasol. Felly, roedd sicrhau bod rheolwyr ar gael yn ystod cyfnod brig y pandemig yn heriol, yn ogystal â cheisio cydlynu pryd oedden nhw a'r achwynydd ar gael. Felly mae methu â bodloni terfynau amser penodedig o dan yr amgylchiadau hyn yn ddealladwy. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

**Gwersi a Ddysgwyd**
Ym mhob achos lle tybir bod cwyn yn cael ei chadarnhau (naill ai yn ei chyfanrwydd neu elfennau penodol) mae'n hollbwysig bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith i ddysgu gwersi ac atal unrhyw ailadrodd yn y dyfodol. Rhoddir enghreifftiau ar dudalen 5 o rai o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2020-2021.

- *Cafodd dogfennaeth o fewn y gwasanaeth ei gwella i sicrhau bod anghenion cyfathrebu'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu hystyried. Atgoffwyd y staff hefyd i barhau i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r defnyddiwr gwasanaeth, yn enwedig wrth gydlynu gofal, gwneud trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty a dilyn i fyny unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau arbenigol a/neu ymyrraeth.*

- *Cytunwyd y byddai'r pecyn gwybodaeth presennol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth i gynnwys manylion am yr amrywiaeth a'r mathau o asesiadau a gaiff*

*eu cynnal. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyflwyno 'proses baru' ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau tai.*

- *Atgoffa'r holl dimau Gwaith Cymdeithasol bod ganddynt ddyletswydd i hyrwyddo cyswllt a, lle bo amgylchiadau'n caniatáu hynny, y dylid trefnu hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Atgoffa gweithwyr cymdeithasol mai eu cyfrifoldeb nhw yw agor y ddogfen adolygu plant sy'n derbyn gofal i sicrhau nad yw'r broses o rannu'r cofnodion yn cael ei gohirio'n ddiangen.*

**Cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Yn ystod 2020-2021 derbyniodd y Cyngor wyth cyswllt newydd gan swyddfa'r Ombwdsmon yn ymwneud â chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd y rhain eu categoreiddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

- ➢ Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (5)
- ➢ Gwasanaethau Cymdeithasol Plant (3)

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad yn nifer y cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant (derbyniwyd 5 yn ystod 2019-2020) a chynnydd (o un achos) mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Ni chafodd yr un o'r cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad ffurfiol, ond cafodd dau achos eu datrys trwy ddatrysiad cynnar/setliad gwirfoddol:

| Gwasanaeth a Chyfeirnod | Crynodeb o'r Gŵyn | Camau Gweithredu a Gytunwyd |
|---|---|---|
| Porth Cynnal (202005090) | Cwyn ynghylch cael mynediad at offer a gwasanaethau. | Cytunodd y Cyngor i gynnal ailasesiad o anghenion yr unigolyn o fewn 8 wythnos iddynt gadarnhau'r lleoliad. |
| Delio â Chwynion/Porth Cynnal (201907197) | Y Cyngor wedi methu â rhoi'r camau gweithredu a gytunwyd ar waith yn dilyn cwyn gynharach am ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth. Cafodd hyn effaith arwyddocaol ar y defnyddiwr gwasanaeth oedd yn destun yr achos. | Cytunodd y Cyngor i gwblhau sawl cam gweithredu i sicrhau y byddai'r camau roedd wedi addo eu cymryd yn cael eu cwblhau. |

Daeth y 6 achos arall i ben fel a ganlyn:

- Caewyd 2 achos oherwydd methiant yr achwynwyr i ymateb i gais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am wybodaeth ychwanegol.
- Caewyd tri achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol gan yr Ombwdsmon (e.e. roedd yn fodlon nad oedd unrhyw gamweinyddu ar ran y Cyngor neu ni fyddai llawer i'w ennill pe bai'r Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn).
- Cafodd un achos ei atgyfeirio'n rhy gynnar (e.e. ni chafodd ei ystyried o dan weithdrefn gwynion y Cyngor ei hun).

**Canmoliaeth**

Derbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol y nifer ail uchaf o ganmoliaethau o'i gymharu â gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor. Derbyniwyd cyfanswm o **241 o ganmoliaethau** mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarparwyd.

| Maes gwasanaeth | Canmoliaeth a dderbyniwyd |
|---|---|
| Porth Cynnal | 72 |
| Porth Gofal | 169 |
| Cyfanswm | 241 |

Rhoddir enghreifftiau o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd ym Mhorth Cynnal a Phorth Gofal isod:

"Roedden ni am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am y gofal arbennig rydych yn ei roi i un o'n ffrindiau agos. Rydym ni mor ddiolchgar eich bod wedi ystyried ffydd a theimladau a pharchu credoau. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am bopeth rydych chi'n ei wneud."

"Mor ddiolchgar am y gofal gwych a gafwyd, y diweddariadau cyson ar ei llesiant. Cartref gwych a staff gwych."

"Hoffwn i ddiolch i chi am yr holl gymorth a gefais. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i weithio gyda chi. Diolch eto am eich cymorth parhaus, rwy'n hynod ddiolchgar."

"Rydych chi i gyd yn gwneud gwaith arbennig mewn cyfnod mor anodd ac rydyn ni'n anfon ein cariad a'n cefnogaeth."

**Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd gan Wasanaethau Porth Cymorth Cynnar**

"Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yng Ngheredigion. Rwy'n hynod ddiolchgar am y gwasanaeth hwn a ddarparwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, ar ôl methu â gadael y tŷ ers dros ddau fis. Roedd y parsel bwyd a gefais yr wythnos diwethaf yn llawer gwell na'r disgwyl. Mae ansawdd ac amrywiaeth y cynnyrch yn amlwg wedi'u dewis yn ofalus i sicrhau ein hiechyd a'n llesiant ni fel trigolion sy'n gwarchod. Rwy'n falch iawn i alw Ceredigion fy nghartref."

"Diolch yn fawr iawn i chi am y 'seibiant mewn bocs' i ofalwyr a gawson ni y bore yma, roedd e'n syrpreis bach neis. Cafodd fy ngwraig lawdriniaeth ym mis Tachwedd a dim ond ychydig o symudedd sydd ganddi nawr, felly mae wedi bod yn gyfnod anodd iawn i ni. Roedd yr anrheg yma wedi codi calonnau'r ddau ohonom ni!
Diolch unwaith eto ac am yr holl gefnogaeth wych i ofalwr rydych yn ei roi, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr."

**Adborth o Weithgareddau Chwarae â Chymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal yn Llangrannog, Haf 2021**

Dywedodd Plentyn A wrth ei fam pan ddaeth oddi ar y bws ei fod wedi cael y 'diwrnod gorau erioed'

'Mae Plentyn B yn gwrando'n well nag ar brosiectau blaenorol ac yn mwynhau pob gweithgaredd. Dywedodd ei gofalwr maeth wrthyf sut y bu'n siarad am y gweithgareddau trwy'r nos ar ôl mynd adref'

'Roedd plentyn C wedi gwneud cerdyn Diolch i'r aelod o staff yr Urdd a fu'n ei helpu gyda'r ceffylau'

# 4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu

**Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol yn erbyn y canlyniadau llesiant yw:**

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl
3. Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
4. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
5. Rhoi cymorth i bobl ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
6. Gweithio gyda phobl a rhoi cymorth i bobl gael mwy o lesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n ateb eu hanghenion

## Beth wnaethom ni gynllunio i'w wneud y flwyddyn ddiwethaf?

Gan fod nifer o'n gwasanaethau'n gysylltiedig â'i gilydd a'n strategaethau'n gydnaws â'i gilydd, mae amcanion ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gorgyffwrdd ag amcanion ein gwasanaethau oedolion, ac felly mae'r amcanion yn canolbwyntio ar ddull gydol oes o weithredu.

### Amcan Gwella 1

- Sicrhau bod y broses o drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei chyflawni yn ystod 2020/21 ar y cyd ag adrannau corfforaethol eraill ac asiantaethau sy'n bartneriaid.
- Gweithio mewn partneriaeth ar y cynllun ad-drefnu corfforaethol, gan alluogi dull gweithredu effeithlon ar draws y Cyngor cyfan
- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer gofal cymdeithasol wedi'u diffinio'n eglur o fewn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle er mwyn i ddinasyddion allu cyflawni eu canlyniadau personol

### Amcan Gwella 2

- Sicrhau bod llais cryf gan yr Awdurdod Lleol yn y rhanbarth
- Sicrhau cyfranogiad ymrwymedig rheolaidd ym mhob digwyddiad partneriaeth rhanbarthol gan staff perthnasol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau trwy'r rhanbarth ac yn genedlaethol

### Amcan Gwella 3

- Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn effeithiol, ynghyd â'i bartneriaid, wrth sicrhau a defnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu canlyniadau gwell i bobl yng Ngheredigion
- Datblygu Prosiect Technolegau Galluogi Gofal rhanbarthol ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin/Cyngor Sir Penfro a Hywel Dda

- Gweithio mewn partneriaeth â Hywel Dda i dyfu'r Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Gweithio mewn cydweithrediad ag Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu hybiau cymunedol ac adnoddau

## I ba raddau oeddem ni wedi llwyddo i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn?

### Amcan Gwella 1 – Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol

Ein gweledigaeth ar gyfer y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant yw: Sicrhau bod pob plentyn, pob person ifanc a phob oedolyn yng Ngheredigion yn gallu gwireddu ei botensial llawn. Sicrhau mynediad teg i bawb at wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu rhagorol sy'n cynnal iechyd a llesiant yr holl ddinasyddion. Meithrin sgiliau a chydnerthedd a fydd yn para oes a galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu.

Byddwn yn:
- cynorthwyo'r rheini sydd o dan anfantais a'r rheini sy'n wynebu heriau
- datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau
- diogelu a meithrin y rheini sydd fwyaf agored i niwed
- anelu at fod yn feincnod ar gyfer rhagoriaeth ac arloesedd yng Nghymru a thu hwnt
- uwchsgilio ein gweithlu i gydweithio i wella'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth amrywiol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod iechyd a llesiant dinasyddion cystal ag y gall fod, gan gynnwys:
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod prif egwyddorion y fframwaith deddfwriaethol yn ennill eu plwyf yn ei holl weithgareddau a'i ddatblygiadau.

Gyda dyfodiad Covid-19, cafodd y bwriad o gyflwyno nifer o weithgareddau allweddol i symud y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant yn ei blaen ei ohirio ac ailsefydlwyd y rhaglen a'r gweithgorau ym mis Medi 2020 gyda'r rhaglen waith ganlynol.

### Ffrydiau Gwaith Gweithredu
Ystod o ffrydiau gwaith i symud ymlaen â'r newidiadau a'r gweithredu:
- Datblygu Strategaeth
- Systemau a Phrosesau
- Adolygiad o Wasanaethau a Gomisiynir
- Arwyddion Diogelwch
- Prosesau Adnoddau Dynol
- Cyllid a Chaffael

**Datblygiadau eraill**

- Rhaglen gynhwysfawr o gymorth, wedi'i datblygu gydag atal a rheoli heintiau, i gefnogi Swyddogion Corfforaethol Arweiniol, Rheolwyr Corfforaethol a Rheolwyr Tîm
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd
- Polisi Goruchwylio

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymwreiddio'r Fframwaith Arwyddion Diogelwch ac roedd gwaith wedi parhau i ddatblygu'r defnydd o'r fframwaith fel rhan ganolog o'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant. Wrth y drws ffrynt ac yn yr asesiad gwnawn hyn drwy sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir gennym gan ddinasyddion yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau eraill yn cael ei defnyddio'n briodol i roi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith ar sail cwestiynau sylfaenol fel 'Beth sy'n peri gofid i chi?' a 'Beth sy'n gweithio'n dda?' O ganlyniad i'r rhain, rydym yn ceisio mynd ati i ddatblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau, yn ymateb yn brydlon ac yn greadigol, ac yn canolbwyntio bob amser ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

**Amcan Gwella 2 – Partneriaeth**

- Sicrhau bod llais cryf gan yr Awdurdod Lleol yn y rhanbarth
- Sicrhau cyfranogiad ymrwymedig rheolaidd ym mhob digwyddiad partneriaeth rhanbarthol gan staff perthnasol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau trwy'r rhanbarth ac yn genedlaethol

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i ymgysylltu â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a fforymau partneriaeth allweddol eraill. Mae'r rhain yn gyfrwng i hybu gwelliannau rhanbarthol ar draws y maes gofal cymdeithasol, gan barhau i ganolbwyntio ar feysydd angen a blaenoriaethau penodol Ceredigion.

Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o fforymau rhanbarthol ac yn ymgysylltu'n effeithiol â nhw. Mae'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael cyllid rhanbarthol trwy bartneriaethau a mentrau rhanbarthol, gan gynnwys Rhaglen Drawsnewid Cymru Iachach a'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae cyfranogiad llawn ym mhob fforwm cynllunio Covid-19 rhanbarthol hefyd wedi bod yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn hon.

**Amcan Gwella 3 – Rhaglen Drawsnewid Cymru Iachach**

- Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn effeithiol, ynghyd â'i bartneriaid, wrth sicrhau a defnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu canlyniadau gwell i bobl yng Ngheredigion
- Datblygu Prosiect Technolegau Galluogi Gofal rhanbarthol ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin/Cyngor Sir Penfro a Hywel Dda
- Gweithio mewn partneriaeth â Hywel Dda i dyfu'r Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Gweithio mewn cydweithrediad ag Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu hybiau cymunedol ac adnoddau


Fel rhan o Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, roedd ein cyflwyniad gwreiddiol i raglen waith Gorllewin Cymru Iachach yn cynnwys:

**Gwella bywydau trwy dechnoleg**
- Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg
- Fframwaith digidol a rennir

**Cryfhau lleoliadau integredig**
- Integreiddio cyson ar lwybr carlam
- Hunanreolaeth ragweithiol a gynorthwyir

**Cefnogi newid gyda'n gilydd**
- Ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion
- Newid ymddygiad am byth

**Cysylltu pobl....cymunedau caredig**
- Creu cysylltiadau i bawb
- Adeiladu'r seilwaith i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol




Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £11.89 miliwn i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i gefnogi'r camau i roi'r tair rhaglen y cytunwyd arnynt ac a restrir isod ar waith:

**Rhaglen 1: Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg**
- Dull rhagweithiol o gadw pobl yn iach yn eu cymunedau
- Mae'n seiliedig ar ddull y profwyd ei fod yn gweithio yn Bilbao, Sbaen
- Mae tystiolaeth o Sbaen yn dangos ei fod yn cael effaith sylweddol ar alw ac ar lesiant
- Gofal pwrpasol wedi'i deilwra i'r unigolyn sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg
- Asesiad llesiant manwl a chynlluniau llesiant a gefnogir
- Galwadau rhagweithiol gan ddefnyddio llwyfan Delta Wellbeing sy'n bodoli eisoes ac yn darparu manteision cynhenid
- Ymateb cyflym amlasiantaethol, gyda chymorth cymunedol lleol gwell
- Prosiect cynhwysiant digidol i gefnogi rhwydweithiau anffurfiol

**Rhaglen 3: Integreiddio cyson ar lwybr carlam**
- Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym sy'n darparu ymateb proffesiynol 24/7 mewn argyfwng
- Rhoddir y model ar waith ym mhob ardal, ac fe gaiff ei deilwra i sicrhau bod y trefniadau'n ateb gofynion lleol ac yn adeiladu ar y trefniadau presennol
- Capasiti ychwanegol yn y rhaglen i gefnogi mwy o integreiddio ar lefel ardal

**Rhaglen 7: Creu cysylltiadau i bawb**
- Rhoi model cysylltwyr cymunedol cyson ar waith ledled Gorllewin Cymru i greu cysylltiadau cymunedol ac adeiladu cydnerthedd
- Dinasyddion gweithredol – hybu a chefnogi gwirfoddoli
- Rhaglen bydis sy'n pontio'r cenedlaethau i feithrin sgiliau TG a sgiliau eraill
- Rhaglen 'Mae'r Gorllewin yn Garedig'
- Gwreiddio Dewis ac Info-engine
- Rhaglen sgiliau garlam ar gyfer staff sy'n darparu cymorth cymunedol

Cychwynnwyd ar y tair rhaglen yn 2019/2020. Mae rhaglen 1 yn cael ei harwain yn rhanbarthol, rhaglen 3 yn cael ei harwain yn lleol, a rhaglen 7 yn cael ei harwain gan y trydydd sector ac wedi parhau yn ystod 2020/21.

Gellir gweld cynnydd cadarnhaol yr Amcan hwn, ein hymgysylltiad â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r addasiadau a wnaed yn sgil blaenoriaethau Covid-19 yn yr adroddiad cynhwysfawr i gyfarfod Cabinet Ceredigion a gyflwynwyd ar 1 Medi 2020.

9iv. INFO Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.pdf (ceredigion.gov.uk)

## Ymateb Covid-19 Ceredigion

O'r cychwyn cyntaf, blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion fu amddiffyn ei ddinasyddion a lleihau nifer y boblogaeth a fydd yn dal Covid-19 a nifer y marwolaethau. Ar y dechrau, roedd rhagamcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos y sefyllfa waethaf bosibl o 600 o farwolaethau yn y sir ac nid oedd hyn yn dderbyniol i ni.

Amlinellodd Cyngor Sir Ceredigion weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau marwolaethau a ragfynegwyd trwy'r brig cyntaf ond yn bwysicach fyth ar gyfer unrhyw adegau brig a ragwelir yn y dyfodol.

- Cam 1 – Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cam 2 – Gweithredu – Darparu gwasanaethau o dan amodau'r cyfnod clo a rheoledig
- Cam 3 – Addasu a gwydnwch hirdymor
- Cam 4 – Adfer

Cydnabyddwn fod ein lleoliad daearyddol a'n poblogaeth wasgaredig wedi rhoi manteision unigryw i ni o ran rheoli'r feirws. Yn y cyd-destun hwn rydym wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith sy'n ceisio atgyfnerthu ein manteision a cheisio atal y feirws, yn hytrach na chyfyngu arno, a rheoli ei ymlediad trwy'r sir. Mae'n bwysig cydnabod y 72,000 o drigolion Ceredigion sydd wedi glynu'n ddewr at yr heriau a osodwyd gan y cyfnod clo. Diolchwn i drigolion y sir am ddilyn arweiniad i'r llythyren, gan sicrhau bod y nifer sydd wedi eu heintio gan Covid-19 wedi eu cadw yn gymharol isel; 84, sef 115.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar 8 Medi 2020 a 1771 o achosion wedi'u cadarnhau ar 26/4/21. Mae'r achosion a'n cyfraddau heintio trwy gydol 2020-2021 yn cymharu'n ffafriol iawn â gweddill Cymru. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod pob marwolaeth o Covid-19 wedi bod yn golled drist iawn ac yn ein cymunedau mae staff a'r cyhoedd fel ei gilydd wedi cael eu heffeithio'n fawr gan effaith y pandemig ar lesiant corfforol a meddyliol yn ogystal ag yn ariannol ac yn economaidd.

### Strategaeth a gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig

### Blaenoriaethau Strategol Cyngor Sir Ceredigion

- Diogelu iechyd a llesiant y rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys gwasanaethau gofal i'r henoed a'r rhai y mae eu cyflyrau meddygol yn eu gwneud yn arbennig o agored i risg o Covid-19.

- Diogelu'r ddarpariaeth addysg o fewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.

- Galluogi'r economi leol i oroesi.

**Strwythur a phenderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur**
Mae strwythur a phroses y Grŵp Rheoli Aur a roddwyd ar waith o ddechrau'r pandemig wedi golygu bod modd gwneud y penderfyniadau allweddol canlynol a'u rhoi ar waith:

- Cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed – o'r cychwyn cyntaf, cysylltwyd â'r rhai sy'n agored i niwed yn feddygol a'r rhai sy'n gwarchod yng Ngheredigion dros y ffôn i sicrhau bod bwyd a meddyginiaeth yn cael eu dosbarthu a sicrhau eu diogelwch. Darparodd y Cyngor focsys bwyd wythnosol o ffynonellau lleol i dros 950 o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, ac mae staff y Cyngor yn cysylltu â dros 2,500 o unigolion sy'n gwarchod yn rheolaidd. Mae'r Cyngor wedi derbyn 159 o ganmoliaethau mewn perthynas â'r bocsys bwyd ac am y cyswllt rheolaidd o fis Medi 2020. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, daeth y cynllun gwarchod i ben ar 16 Awst 2020 ac ni chafodd bocsys bwyd eu darparu'n systematig mwyach. Fodd bynnag, parhaodd talebau bwyd trwy wasanaethau ysgol a chymorth ymarferol gan gynnwys parseli bwyd ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.
- Olrhain cysylltiadau – datblygwyd system olrhain cysylltiadau fewnol gan y Cyngor ar ddechrau mis Ebrill 2020 gan ddwyn ynghyd tîm o staff oedd â'r setiau sgiliau olrhain ym maes iechyd yr amgylchedd, diogelu data, adnoddau dynol, a systemau data TGCh. Wedi'i adeiladu ar sail holiadur, cafodd y system rheoli data ei llywio gan ein Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd â phrofiad o dracio ac olrhain brigiadau o achosion eraill fel legionella a gwenwyn bwyd, ac roedd ymchwil yn seiliedig arno yn digwydd mewn mannau eraill yn rhyngwladol. Ar y pryd, roedd nifer yr achosion yn isel, ac o ganlyniad rydym wedi gallu gwneud gwaith dilynol ar bob achos a hysbyswyd ers ei weithredu. Mae'r Cyngor bellach yn rhan o'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu cenedlaethol.
- Cyfarpar diogelu personol – Sefydlwyd hyb cyfarpar diogelu personol canolog ar ddiwedd mis Mawrth 2020 mewn ymateb i'r angen i gael dull cydgysylltiedig o ddarparu cyfarpar diogelu personol yn yr Awdurdod Lleol ac ar gyfer y sector annibynnol. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn gallu dod o hyd i amrywiaeth o offer o sawl ffynhonnell. Mae'n werth nodi bod tua 3,000 o fisorau wyneb arbenigol wedi'u gwneud gan ysgolion lleol i gefnogi'r ddarpariaeth cyfarpar diogelu personol yn lleol.
- Adleoli staff – cafodd staff eu hadleoli i sefydlu'r hyb cyfarpar diogelu personol, y tîm olrhain cysylltiadau a chefnogi staffio cartrefi gofal a rheng flaen hanfodol allweddol arall. Mae'r staff hyn yn parhau yn eu lle a byddant yn cael eu hailgyflwyno yn ôl i rolau parhaol yn raddol.
- Adroddiadau diogelu i'r Grŵp Rheoli Aur tra bod pwerau brys yn eu lle
- Cartrefi gofal – prawf negyddol ar ryddhau, ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u gohirio ym mis Mawrth 2020 yn symud ymlaen i ymweliadau awyr agored, dim cymysgu staff, ymweliadau cyfyngedig gan weithwyr proffesiynol
- Asesiadau risg a chanllawiau ar ymweliadau gofal cymdeithasol, cyswllt â chleientiaid ac ar weithio rhithiol gyda chymorth iechyd a diogelwch llawn
- Canllawiau a phrotocolau lleol helaeth wedi'u cynhyrchu ar gyfer y cartrefi gofal preswyl a'r darparwyr gofal cartref
- Cymorth ariannol a chaledi – grantiau/cyllid busnes – atal caledi a datblygu Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi
- Grwpiau Rheoli Arian wedi'u sefydlu'n benodol, gofal preswyl, olrhain cysylltiadau/tracio olrhain diogelu, addasiad economaidd, brechu/profi,
- Cynrychiolaeth uwch swyddogion ar dimau rheoli digwyddiadau lleol a rhanbarthol
- Cynrychiolaeth uwch swyddogion ar fforymau lleol a rhanbarthol penodol Covid gan gynnwys Grŵp Ymateb i Covid Ceredigion, Grŵp Rhanbarthol Diogelu Covid, Is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Cynllunio Addasu ac Adfer**

Mae'n rhaid cydnabod bod yr holl wasanaethau rheng flaen hanfodol wedi'u cynnal trwy gydol y pandemig, er bod hyn yn cynnwys elfen o gyfyngiad er mwyn lleihau'r risg o haint ac i gadw'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a staff yn ddiogel a lleihau'r risg o ledaenu'r haint.

Mabwysiadwyd dull cynllun adfer 3 cham ar draws pob maes gwasanaeth. Cyflwynir pob cynllun i'r Grŵp Rheoli Aur i'w drafod a'i gymeradwyo ac yna fe'i darperir i gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth/Cabinet er gwybodaeth.

Mae gan y Cyngor fap ar gyfer y cyhoedd sy'n amlinellu'r cerrig milltir allweddol mewn perthynas â newidiadau i wasanaethau ac adfer gwasanaethau fesul cam.

Mae'r cynlluniau adfer a gyflwynwyd hyd yma wedi cynnwys meysydd fel:

- Cartrefi gofal preswyl (cynaliadwyedd staff ac adolygu trefniadau ymweld i alluogi ymweliadau awyr agored a pharhau â chymorth aml-broffesiynol a chlinigol trwy dechnoleg i gefnogi cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol neu ymweliadau diogel gan feddygon teulu, iechyd meddwl, dementia, therapi galwedigaethol/proffesiynau perthynol i iechyd
- Addasiadau Gwasanaethau Dydd Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn
- Addasiadau gofal seibiant
- Ystod eang o wasanaethau Ymyrraeth Gynnar/Atal gan gynnwys rhai galwedigaethol awyr agored wedi'u trefnu, dysgu a gwaith, Tîm Cymorth Cyflogaeth i ailddechrau gwaith â thâl a chyfleoedd gwirfoddoli, gweithgareddau grŵp plant/pobl ifanc awyr agored wedi'u trefnu a'u cymeradwyo, dosbarthiadau ymyrraeth iechyd awyr agored/dosbarthiadau ymarfer corff i oedolion
- Gwasanaeth Llesiant Meddwl
- Addasu Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion

**Heriau o ran y Gweithlu**

Rhoddwyd rhaglen adleoli staff ar waith yn ystod camau cynnar y pandemig i gynorthwyo gwasanaethau allweddol gan gynnwys cartrefi gofal a hybiau ysgol sy'n gofalu am blant agored i niwed. Bu ffocws parhaus ar recriwtio gyda nifer o ymgyrchoedd yn fewnol ond hefyd yn cefnogi darparwyr allanol gydag ymgyrchoedd.

Mae rhai o'r heriau presennol yn cynnwys recriwtio a chadw staff allweddol, yn benodol gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol, fodd bynnag cydnabyddir bod hon yn duedd genedlaethol ac mae cyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol wedi cael eu hystyried. Mae gan y Cyngor strategaeth ar gyfer ateb yr her hon gan gynnwys y dulliau canlynol:

- Hyfforddeiaethau gwaith cymdeithasol
- Cynnig cyfleoedd cymwysterau a llwybrau dysgu i'r staff presennol
- Lleoliadau myfyrwyr
- Adolygu rolau a gwerthuso swyddi
- Hysbysebu newydd – ymgyrch ddwys i ymuno â Cheredigion

**Cefnogi Llesiant Staff**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ymatebol, hygyrch a chynhwysol i staff trwy gydol y pandemig, gan gynnwys:

- Swyddog Iechyd a Llesiant Gweithwyr
- Pecyn Cymorth i Weithwyr

- Iechyd Galwedigaethol
- Dull ymatebol gan gynnwys arolygon/holiaduron llesiant, trafodaethau gyda rheolwyr a thimau, proses arfarnu symlach, sesiynau galw heibio
- Gweithgarwch a chefnogaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys, gwybodaeth ar y fewnrwyd, Dydd Mercher Llesiant, gweithgareddau, gweminarau llesiant, staff gwarchod
- Gweminarau iechyd a llesiant pwrpasol, cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwr Corfforaethol/Rheolwyr Cofrestredig,
- Cymorth i staff unigol mewn cartrefi gofal

**Ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol**
Mae'r 12 mis diwethaf wedi golygu newid sylweddol yn y ffordd y mae'r Cyngor a'i staff wedi gorfod gweithio a chwrdd â galw dyddiol y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Gyda'r holl staff yn gweithio o gartref (oni bai bod eu rôl yn gofyn iddynt ddelio â'r cyhoedd h.y., staff cartrefi gofal preswyl, galluogi ac ati), dibynnwyd ar dechnoleg ddigidol a gweithio o bell.
Cytunwyd ar Grŵp Rheoli Arian i ystyried sut y gallai'r Cyngor weithio yn y dyfodol yn wyneb yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig. Y weledigaeth yw darparu amgylchedd gwaith modern, hyblyg sy'n cefnogi ystwythder ac yn annog gweithgarwch cydweithredol. Y nod yw creu gweithleoedd sydd nid yn unig yn gost-effeithiol ond sy'n cryfhau ein diwylliant corfforaethol, cynyddu ymgysylltiad â'n cymuned yng Ngheredigion a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae arolwg staff a grwpiau ffocws wedi'u cynnal i benderfynu beth fydd y 'ffyrdd newydd o weithio', a bydd hyn yn llywio strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol. Cynigir y bydd hyn yn hybu iechyd a llesiant y gweithlu, yn annog, ac yn cefnogi gweithio ystwyth a hyblyg, cynyddu mannau ar gyfer y cyhoedd tra hefyd yn lleihau'r ôl troed carbon a hybu cadernid amgylcheddol.

**Adferiad ariannol a busnes**
Mae'r Cyngor wedi galluogi a grymuso amrywiaeth o wasanaethau a mentrau trwy wahanol ffrydiau ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Mae'r rhain wedi cynnwys y Gronfa Galedi sydd wedi darparu cymorth penodol ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl a rheng flaen. Mae'r Gronfa hon wedi galluogi gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynir i ganolbwyntio ar eu cynlluniau adfer. Cafwyd cyllid grant i fusnesau a chymorth ar gyfer ailagor yr economi ymwelwyr sy'n bwysig iawn i'r adferiad economaidd cyffredinol yng Ngheredigion.

## Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi

Ar 7 Gorffennaf 2020, cymeradwyodd aelodau Cabinet Ceredigion y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi yn wyneb effaith negyddol bosibl argyfwng Covid-19 ar lesiant cymdeithasol ac economaidd trigolion Ceredigion, a'r risg gynyddol y bydd unigolion a theuluoedd yn profi caledi, felly roedd yn amserol i gyflwyno'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Nod y strategaeth yw mynd i'r afael â chaledi trwy ddarparu fframwaith cadarn a fydd yn galluogi dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa, atgyfnerthu a datblygu ystod o fentrau i liniaru risg, a gweithredu camau cynnar ac ataliol. Bydd y strategaeth yn darparu un ddogfen i sicrhau bod Arweinwyr y Cyngor, ein partneriaid a'r cyhoedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar gynnydd.

## Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion

O dan yr ymyriadau digartrefedd yn 2020-2021, cychwynnwyd 479 o achosion lle bu cysylltiadau oherwydd credir bod aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ar y diwrnod. O'r 479 o achosion a gychwynnwyd, rhoddwyd cyngor a chymorth i rai, a

chynhaliwyd 435 o asesiadau o dan ofynion Adran 62 y Ddeddf Tai. O ganlyniad i'r asesiadau hyn, llwyddwyd i atal a/neu leddfu 216 o achosion.

Cynorthwywyd 24 o gleientiaid gyda blaendal rhent a bondiau yn 2020-2021. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y rhai y mae'r Tîm Opsiynau Tai wedi'u cefnogi a'u cyfeirio at asiantaethau eraill megis y Vicar's Relief Fund, benthyciadau cyllidebu a cheisiadau taliad tai dewisol ar gyfer y costau ymlaen llaw hynny.

Bu'n rhaid i'r gwasanaethau Opsiynau Tai ymateb i ddull 'pawb wedi'i gynnwys' Llywodraeth Cymru gan arwain at gynnydd yn y galw am y gwasanaeth yn dilyn dileu 'angen â blaenoriaeth'. Yn ei dro, roedd gorfod rhoi llety i'r rhai na fyddent wedi cael cymorth llety brys yn flaenorol wedi arwain at yr angen am fwy o unedau. Yn ystod y flwyddyn hon, bu'n rhaid i'r gwasanaeth ailwampio gyda chymorth asiantaethau partner, 13 yn rhagor o unedau llety a rennir a 4 yn rhagor o unedau hunangynhwysol.

Wynebwyd yr heriau cynyddol hyn hyd yn oed gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, ac un o'r rhain oedd atal achosion o droi allan.

O dan y gwasanaeth addasiadau, darparwyd 52 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a darparwyd 427 o Grantiau Diogel, Cynnes a Sicr. Cafodd y cyflenwad hwn ei rwystro oherwydd effaith y pandemig, h.y. cyfyngiad ar ymweliadau cartref ac ati.

O dan waith y Gofrestr Tai ar gyfer y flwyddyn 2020-2021, derbyniwyd 1251 o geisiadau Cofrestr Tai ar draws y 4 cofrestr (fforddiadwy, cyffredinol, pobl hŷn a hygyrch).

***Pa wahaniaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud?***
Ar gyfer dyletswyddau atal digartrefedd, sicrhaodd 24 o aelwydydd lety yn y sector rhentu preifat gyda chynllun cymhelliant landlordiaid.

Mae grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Diogel, Cynnes a Sicr wedi cynorthwyo cleientiaid i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Cafodd cyfanswm o 272 o ymgeiswyr dai drwy'r Gofrestr Tai. Cafodd 55 (20%) o'r dyraniadau eu gwneud i unigolion yr oedd arnom ddyletswydd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. Hyd yn oed gyda'r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig, bu'r Gofrestr Tai a'r gwasanaeth Opsiynau Tai yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Cymdeithasau Tai partner i ddyrannu llety cyn gynted â phosibl er mwyn gallu symud ymlaen o lety argyfwng lle bo hynny'n briodol.

***Pa mor dda ydym ni wedi'i wneud?***
**Tai – Digartrefedd**
Cyfanswm y canlyniadau atal digartrefedd: 144 (mae hyn yn cynnwys achosion y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nas llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nad oeddent yn cydweithredu, achosion a wrthododd gymorth, achosion a dynnwyd yn ôl, ac achosion a dynnwyd yn ôl yn sgil colli cysylltiad)
Canlyniadau lle y llwyddwyd i atal digartrefedd: 109. Felly, llwyddwyd i atal 75% o'r aelwydydd a oedd yn wynebu digartrefedd rhag bod yn ddigartref. Fodd bynnag, dim ond 16 (11%) o'r 144 achos nas llwyddwyd i'w ddatrys, a hynny gan fod 19 (13%) o'r cleientiaid wedi tynnu'n ôl o'r gwasanaeth (gan gynnwys un aelwyd a wrthododd gymorth ac un aelwyd na fu iddi gydweithredu) ac nad oedd modd i'r Gwasanaeth Opsiynau Tai eu cynorthwyo neu ddwyn y maen i'r wal.

**Addasiadau – Tai**
Darparwyd cartref diogel i 479 o ymgeiswyr anabl ac agored i niwed er mwyn iddynt allu parhau i fyw'n annibynnol gan arwain at ansawdd bywyd gwell.

**Effeithlonrwydd Ynni**
Yn ystod y flwyddyn derbyniodd cyfanswm o 224 o gleientiaid naill ai welliannau i'w cartrefi trwy fentrau effeithlonrwydd ynni/neu gyngor effeithlonrwydd ynni i wella eu sefyllfa ariannol a'u gwariant.

**Cofrestr – Tai**
Ychwanegwyd 1100 o geisiadau am dai at y Gofrestr Tai i'w hystyried pan fydd tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu. Yn ychwanegol at hyn, gwnaed newidiadau i'r ffurflenni cais a'r ffurflenni adnewyddu i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar gael i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid inni.

***Cyflenwi tai fforddiadwy sydd ar gael ar draws pob math o ddeiliadaeth***
Mae'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn rhan o raglen ddatblygu dreigl 3 mlynedd wedi'i ffurfio o nifer o ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd o'r Cofrestri Tai gyda'r nod o gyflenwi cymysgedd o dai cymdeithasol a chanolradd ar draws Ceredigion.

***Pa wahaniaeth y mae'r amcan hwn wedi'i wneud?***
Mae nifer yr unedau rhentu cymdeithasol sy'n cael eu cyflenwi yn debygol o gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y 3 blynedd nesaf ac felly'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o 20,000. Mae datblygiadau'n cael eu targedu i helpu i ateb yr angen lleol a nodwyd yn y sir. Mae'r amrywiaeth o opsiynau deiliadaeth fforddiadwy hefyd yn cael ei gynyddu er mwyn helpu i roi sylw i'r anghenion tai gwahanol yn y sir.

Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'r holl waith o adeiladu tai cymdeithasol newydd yn cael ei dargedu, a hynny drwy system cronfa ddata'r Gofrestr Tai. Mae tai arbenigol ac wedi'u haddasu megis unedau hygyrch i gadeiriau olwyn/nam symudedd hefyd cael eu cyflenwi i geisio rhoi sylw i'r angen ar gyfer ymgeiswyr/cleientiaid penodol.

***Cyfrannu at ddatblygu gofal a chymorth:***
Yn ystod 2019-20, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen y Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl). Roedd y canllawiau hyn yn tynnu sylw at y cysylltiadau cryf rhwng cymorth tai ac atal digartrefedd. I gydnabod y cysylltiadau hyn, symudwyd y cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn strategol i'r Gwasanaethau Tai. Yn ystod 2020-21 roedd cynlluniau ar y gweill i weithredu'r Gwasanaeth Porth Grant Cymorth Tai newydd fel pwynt canolog ar gyfer cyflwyno pob cais am gymorth tai, gan sicrhau y byddai pob achos yn cael yr ymyriadau priodol mewn modd amserol. Roedd hyn yn golygu dyfeisio rolau newydd a chyflogi pobl yn y swyddi hyn. Roedd datblygiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21, gan gynnwys ail-gomisiynu a pharatoi i ddatblygu Strategaeth Rhaglen y Grant Cymorth Tai.

At hynny, trwy leoli'r Gwasanaethau Tai ym model gwasanaeth integredig gydol oes Porth Gofal, nodwyd llawer o gyfleoedd i adeiladu ar gyfleoedd a chysylltiadau ar draws y model gwasanaeth, o atal ac ymyrraeth gynnar i ymyrryd mewn argyfwng.

*Sicrhau bod anghenion llety trigolion yn cael eu bodloni*

Mae'r Gwasanaethau Tai yn parhau i weithio i sicrhau bod anghenion llety'n cael eu bodloni. Yn ystod y flwyddyn, arolygwyd 36 o dai amlfeddiannaeth trwyddedig (llety rhent preifat) i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu bodloni. Ymchwiliwyd i 10 achos o aflonyddu a throi allan anghyfreithlon, ac aethpwyd i'r afael â 254 o gwynion gwasanaeth a oedd yn ymwneud â safonau tai gwael.

Caffael Eiddo

Mae defnyddio grantiau gofal integredig cyfalaf wedi cynnig modd caffael tai newydd allweddol. Un yw cynllun ar y cyd â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru i'r Cyngor gaffael dau eiddo yn y sir i'w prydlesu at ddefnydd dioddefwyr cam-drin domestig. Yr ail oedd caffael eiddo i'w ddefnyddio gan wasanaethau gofal a chymorth Porth Cynnal i gefnogi rhieni a babanod fel cam i lawr neu atal plant rhag cael gofal gan yr Awdurdod Lleol.

# Crynodeb o Ganlyniadau Llesiant 2020-2021:

## Canlyniadau

### Mawrth 30 - Ebrill 17

1159
bocsys bwyd wedi'u dosbarthu

1727
trigolion sy'n 'gwarchod' wedi'u cysylltu â nhw ar gyfer bocsys bwyd

533
plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi'u cysylltu â nhw

43
staff wedi'u hadleoli i gefnogi gwasanaethau eraill

825
gofalwyr wedi'u cefnogi dros y ffôn, trwy lythyr neu gylchgrawn

602
cleientiaid NERS wedi'u cysylltu â nhw

290
galwadau 'Clic' wedi ymateb iddynt a gweithredu arnynt

5000
galwadau wedi'u gwneud i drigolion Ceredigion

16,259
nifer sydd wedi gweld y rhestr adnoddau a gwasanaethau lleol ar-lein

3
lleoliadau wedi'u trawsnewid yn ysbytai dros dro (2 ganolfan hamdden, 1 ysgol)

### 17 Ebrill - 31 Mai

**Trigolion**

4600
bocsys bwyd wedi'u dosbarthu

3044
trigolion sy'n 'gwarchod' wedi'u cysylltu â nhw ar gyfer bocsys bwyd

3240
galwadau wedi'u gwneud i drigolion Ceredigion

599
plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi'u cysylltu â nhw

790
galwadau 'Clic' wedi'u hymateb iddynt a'u gweithredu arnynt

**Dysgu Galwedigaethol**

84
prentisiaid yn cael eu cefnogi gan HCT

544
dysgwyr yn cael eu cefnogi gan y Tîm Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Llesiant**

800
pecynnau llesiant wedi'u paratoi ar gyfer oedolion ynysig

850
pecynnau llesiant wedi'u paratoi ar gyfer gofalwyr

50
pecynnau teulu egnïol wedi'u dosbarthu i deuluoedd

**Cymorth ac Ymyrraeth**

10,843
pobl wedi ymgysylltu â thudalen Facebook Gwasanaeth Ieuenctid

40
pobl ifanc wedi cofrestru ar gyfer gweithgareddau rhithiol Gwasanaethau Ieuenctid

## 2020-2021

1650 o becynnau llesiant wedi'u cynhyrchu ar gyfer gofalwyr di-dâl ac oedolion ynysig

195 o fagiau teulu egnïol wedi'u dosbarthu gyda Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf

600 o bobl ifanc a theuluoedd wedi'u cefnogi drwy 3000 o alwadau

22 o raglenni gweithgareddau cyn ysgol wythnosol wedi'u paratoi

15,000+ o barseli bwyd wedi'u dosbarthu i breswylwyr sy'n agored i niwed yn feddygol

100+ o gardiau adnabod oedolion sy'n ofalwyr a 10+ gofalwr ifanc

£30,000 o Gronfa Gofalwyr wedi'i ddosbarthu

Dros 50,000 o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol

250 o bobl ifanc wedi cael cymorth yn yr ysgol

50+ o grwpiau a rhaglenni magu plant wedi'u darparu'n rhithiol

## Canlyniadau

64 o aelwydydd digartref mewn llety dros dro

Mehefin 20 – 21 Ebrill 32 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfartaledd ar restrau aros gofal cartref (mwyaf 51 lleiaf 12)

8,602,591 o eitemau cyfarpar diogelu personol wedi'u dosbarthu ar draws y wlad, gyda rhaglen stoc dreigl 12 wythnos

265 o gyfarfodydd cynllunio wedi'u cynnal mewn ymateb i 55 o achosion/brigiadau yng nghartrefi gofal Ceredigion

67 o focsys te prynhawn wedi'u dosbarthu â llaw gan staff y Tîm Maethu i bob gofalwr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau ym mis Rhagfyr 2020

Ymweliadau carreg drws o bellter cymdeithasol i ddiolch i'r gofalwyr a dymuno Nadolig Llawen iddynt

Galwadau sefyllfa ddyddiol i ddarparwyr cartrefi gofal –cyfanswm o 7,546 o alwadau ffôn wedi'u gwneud a 343 o adroddiadau sefyllfa ddyddiol

Cynnydd yn nifer y gwelyau cymuned a ddarperir 19/20 – 208, 20/21 - 286

# Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd nifer o brosiectau trawsnewid system gyfan yn parhau ynghyd â pharhau i fynd i'r afael â heriau pandemig Covid-19 a'i ganlyniadau.

**Amcan Covid-19**

- Parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner i leihau'r risg o ledaenu'r haint
- Gweithredu cynlluniau addasu yn effeithiol
- Adfer

**Amcan Gwella 1**
Sicrhau bod trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyflawni yn ystod 2021/22 mewn partneriaeth â gwasanaethau corfforaethol ac asiantaethau partner eraill.

- Gweithio mewn partneriaeth ar y cynllun ad-drefnu corfforaethol, gan alluogi dull gweithredu effeithlon ar draws y cyngor cyfan

- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol wedi'u diffinio'n eglur o fewn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle er mwyn i ddinasyddion allu cyflawni eu canlyniadau personol

**Amcan Gwella 2**
Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol lais cryf yn y rhanbarth o hyd

- Sicrhau cyfranogiad ymrwymedig rheolaidd ym mhob digwyddiad partneriaeth rhanbarthol gan staff perthnasol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau trwy'r rhanbarth ac yn genedlaethol

**Amcan Gwella 3**
Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn effeithiol, ynghyd â'i bartneriaid, wrth sicrhau a defnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu canlyniadau gwell i bobl yng Ngheredigion

- Parhau i ddatblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i hybu'r agenda gweithio integredig, gan gynnwys y Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

**Meysydd Gwasanaeth i'w Datblygu Ymhellach:**

**Porth Cymorth Cynnar**

- Canolfannau Llesiant – datblygu cyfleusterau sy'n gwella'r cynnig gweithgarwch corfforol a hamdden craidd gyda mannau cyfarfod, ymgynghori a thriniaeth. Bydd y Ganolfan Llesiant yn ymgorffori gwasanaethau sy'n ystyried ac yn gwella agweddau corfforol, cymdeithasol, emosiynol a meddyliol llesiant unigolyn ac yn cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni eu potensial llawn.
- Datblygu a darparu ymhellach weithgareddau ac ymyriadau cymunedol cyfunol, â ffocws gydol oedran i alluogi grymuso, gwydnwch ac annibyniaeth.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddatblygu ystod o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion sy'n esblygu o fewn ein cymunedau i gefnogi a galluogi unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu.

**Porth Gofal:**

- Datblygu gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol yn fewnol
- Gofal Cartref – dilyniant gyda model darparu gwasanaeth hybrid gyda Galluogi
- Gweithredu'r Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid 3
- Maethu – cynllun datblygu gwasanaeth gan gynnwys recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth newydd
- Adolygu Gwasanaethau Dydd – canolbwyntio ar wydnwch cymunedol ac unigol, strategaethau atal a grymuso a chyfleoedd seibiant

**Porth Cynnal:**

- Datblygu dulliau atal ac adfer ar draws Gwasanaethau Porth Cynnal a'r Model Gydol Oed a Llesiant a chydag asiantaethau partner sy'n canolbwyntio ar lesiant meddwl, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau
- Mentrau Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal Diogel
- Prosiectau rhanbarthol a lleol: datblygu llety diogel wedi'i lywio gan drawma i blant a llety lleol i rieni a babanod
- Ymgorffori arferion Arwyddion Diogelwch

# 5. Sut ydym yn gwneud yr hyn a wnawn


## Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaethau a ddarperir gan y sector Gofal Cymdeithasol i ddinasyddion Ceredigion. Drwy ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu, rydym yn ceisio denu, recriwtio a chadw gweithlu cymwys a hyfedr sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Defnyddir arian grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r sector. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau er mwyn iddynt gael hyfforddiant sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus ac ennill y cymwysterau sy'n ofynnol gan y rheoleiddwyr.

Er mwyn sicrhau bod anghenion y sector cyfan yn cael eu diwallu, mae Tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn cynnal dadansoddiad mewnol ac allanol o anghenion hyfforddi blynyddol ac yn cynnal digwyddiadau lle gwahoddir darparwyr Gofal Cymdeithasol allanol i nodi eu blaenoriaethau hyfforddi.

Roedd Covid-19 wedi effeithio ar y broses o ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu ym mis Mawrth 2020 ac arweiniodd at ganslo pob hyfforddiant wyneb yn wyneb. Er mwyn gallu cynnig cymorth parhaus i'r sector, cafodd yr holl hyfforddwyr eu huwchsgilio i ddatblygu cynnwys ar-lein a dysgu dulliau cyflwyno ar-lein. Lansiwyd pum modiwl e-ddysgu newydd: Cyflwyniad i Ofal a Gofal Personol, Codi a Chario – Pobl, Codi a Chario – Gwrthrychau, Atal a Rheoli Heintiau gan gynnwys gwisgo a dadwisgo cyfarpar diogelwch personol, rhoi meddyginiaethau'n ddiogel a dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Roedd staff a oedd yn gweithio gartref hefyd wedi derbyn canllawiau iechyd a diogelwch ar weithio gartref.





Cynyddodd nifer yr unedau e-ddysgu a gwblhawyd gan 59% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfanswm o unedau 4864 wedi'u cwblhau. Mae'r graff gyferbyn yn dangos dadansoddiad o'r unedau gofal cymdeithasol mewnol ac allanol a gwblhawyd.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, cafodd hyfforddiant wyneb yn wyneb hanfodol ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol fel codi a chario a chymorth cyntaf ei ailsefydlu a'i ddarparu i grwpiau staff gyda niferoedd is gan gadw at gyfyngiadau Covid-19 ac asesu risg.

Mae 417 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol craidd/ymarfer gwaith cymdeithasol a hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi'u darparu i'r sector gan alluogi 3488 o staff i'w cwblhau, sef

cynnydd o 548 ar y flwyddyn flaenorol, sy'n arwyddocaol yn wyneb effaith Covid-19, salwch staff, recriwtio, a heriau gweithredol ar y sector yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn cefnogi prosiect trawsnewidiol gydol oed a llesiant y Cyngor, dechreuodd rhaglen datblygu rheolaeth bwrpasol a bydd yn parhau y flwyddyn nesaf.




Mae'r graff gyferbyn yn dangos ffigurau presenoldeb hyfforddiant staff fesul blwyddyn ac mae'n dangos y galw cynyddol am e-ddysgu a'r nifer sy'n cael ei gwblhau.

Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth y gweithlu wedi'i gefnogi trwy Gynllun Gweithiwr Cymdeithasol Dan Hyfforddiant y Cyngor a thrwy ddarparu 16 o leoliadau gwaith cymdeithasol. Mae'r cynnig o Brentisiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 mewn cartref gofal preswyl yn parhau i ddatblygu, ac mae wedi arwain at ddau aelod parhaol o staff ac mae un arall wedi dechrau ar y llwybr gyrfa hwn yn ddiweddar.

Mae hyrwyddo a chefnogi darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth. I gefnogi'r 'Cynnig Gweithredol', mae sesiynau cymorth iaith Gymraeg pwrpasol wedi'u cyflwyno i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a'r tîm gofalwyr, mae 21 o staff gofal cymdeithasol wedi cael cymorth i gael gwersi Cymraeg, ac mae 124 aelod o staff ar draws y sector wedi cwblhau'r e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

*Crynodeb o'r staff a gafodd gymorth i ennill cymhwyster:*

| Rhaglen | Niferoedd ar y rhaglen 1 Ebrill 2020 | Nifer a gofrestrodd yn ystod 2020/2021 | Nifer a enillodd gymhwyster yn ystod 2020/2021 | Niferoedd a adawodd y rhaglen | Niferoedd sy'n parhau â'r rhaglen yn 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan | 22 | 0 | 0 | 6 | 16 |
| Cymhwyster Cymeradwy Lefel 2 | 9 | 4 | 5 | 0 | 8 |
| Cymhwyster Cymeradwy Lefel 3 | 10 | 4 | 10 | 2 | 2 |
| Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Lefel 3 – Plant a Phobl Ifanc | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymhwyster Cymeradwy Lefel 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymhwyster Cymeradwy Lefel 5 | 3 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| Dyfarniad TAQA – Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad TAQA – Lefel 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglen Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â Thystysgrif Addysg Uwch | 3 | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 4 – noddedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 5 – noddedig | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 6 – noddedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 4 – arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 5 – arall | 3 | 6 | 3 | 0 | 6 |
| Gradd Gwaith Cymdeithasol Lefel 6 – arall | 1 | 3 | 1 | 0 | 3 |
| Gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol Lefel 1 – noddedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol Lefel 2 – noddedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol Lefel 1 – arall | 2 | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol Lefel 2 – arall | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Rhaglen Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso | `8 | 1 | 8 | 0 | 1 |
| Tystysgrif Raddedig mewn Atgyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol | 6 | 10 | 6 | 0 | 10 |
| Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymgynghorydd Gwaith Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Galluogi Ymarfer 6/7 (Dyfarniadau Aseswr Ymarfer) | 1 | 6 | 0 | 0 | 7 |
| Aseswr Budd Gorau | 0 | 12 | 0 | 1 | 11 |
| Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy | 2 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Rhaglen Datblygu Rheolwr Canol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithio gyda Phobl Byddar-Ddall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tystysgrif mewn Gofal Dementia Lefel 3 | 0 | 20 | 0 | 1 | 19 |
| Aseswr Profedig Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Asesu'r Gallu i Wneud Penderfyniadau Lefel 6 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Rhaglen Arweinyddiaeth Rheolwyr Strategol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Proffil iaith ein Gweithlu Gydol Oed:**

**Porth Cymorth Cynnar:**

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| **ALTE 0, 1 a 2** | 51 | 20.48% |
| **ALTE 3, 4 a 5** | 198 | 79.52% |
| **CYFANSWM** | **249** | **100.00%** |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 96 | 37.94% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 157 | 62.06% |
| CYFANSWM | 249 | 100.00% |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 3 | 21 | 27 | 34 | 60 | 104 | 249 |
| % y bobl | 1.20% | 8.43% | 10.84% | 13.65% | 24.10% | 41.77% | 100.00% |
| PERSON – YSGRIFENNU | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 10 | 27 | 32 | 37 | 65 | 78 | 249 |
| % y bobl | 4.02% | 10.84% | 12.85% | 14.86% | 26.10% | 31.33% | 100.00% |
| PERSON – DARLLEN | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 10 | 23 | 30 | 35 | 61 | 90 | 249 |
| % y bobl | 4.02% | 9.24% | 12.05% | 14.06% | 24.50% | 36.14% | 100.00% |

Porth Cynnal:

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| ALTE 0, 1 a 2 | 58 | 48.33% |
| ALTE 3, 4 a 5 | 62 | 51.67% |
| CYFANSWM | 120 | 100.00% |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 61 | 50.83% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 59 | 49.17% |
| CYFANSWM | 120 | 100.00% |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 4 | 33 | 21 | 18 | 11 | 33 | 120 |
| % y bobl | 3.33% | 27.50% | 17.50% | 15.00% | 9.17% | 27.50% | 100.00% |
| PERSON – YSGRIFENNU | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 15 | 31 | 20 | 12 | 15 | 27 | 120 |
| % y bobl | ##### | 25.83% | 16.67% | 10.00% | 12.50% | 22.50% | 100.00% |
| PERSON – DARLLEN | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 12 | 32 | 21 | 9 | 17 | 29 | 120 |
| % y bobl | ##### | 26.67% | 17.50% | 7.50% | 14.17% | 24.17% | 100.00% |

## Porth Gofal:

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| ALTE 0, 1 a 2 | 168 | 47.06% |
| ALTE 3, 4 a 5 | 189 | 52.94% |
| CYFANSWM | 357 | 100.00% |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 188 | 52.66% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 169 | 47.34% |
| CYFANSWM | 357 | 100.00% |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 27 | 74 | 67 | 72 | 32 | 85 | 357 |
| % y bobl | 7.56% | 20.73% | 18.77% | 20.17% | 8.96% | 23.81% | 100.00% |
| PERSON – YSGRIFENNU | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 67 | 76 | 70 | 59 | 22 | 63 | 357 |
| % y bobl | ##### | 21.29% | 19.61% | 16.53% | 6.16% | 17.65% | 100.00% |
| PERSON – DARLLEN | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 58 | 67 | 71 | 46 | 42 | 73 | 357 |
| % y bobl | ##### | 18.77% | 19.89% | 12.89% | 11.76% | 20.45% | 100.00% |

# Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Am y tro cyntaf ers dros 10 mlynedd, ystyriwyd bod setliad ariannol y Cyngor yn un cadarnhaol. Roedd setliad cyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru y Cyngor ar gyfer 2020/2021 o £107.6m yn gynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol ac yn golygu nad oedd yn rhaid i wasanaethau ddod o hyd i unrhyw lefel sylweddol o arbedion.

Roedd 2020/2021 hefyd yn nodi'r flwyddyn pan ddechreuodd y Cyngor alinio ei gyllidebau â'r model gweithredu newydd wedi'i dargedu ar gyfer gofal cymdeithasol a welodd gwasanaethau sy'n ymwneud ag Ymyrraeth Gynnar a Llesiant yn llawer mwy integredig ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol mwy traddodiadol. O ganlyniad, adlewyrchwyd strwythur gweithredu newydd Pyrth y Cyngor mewn cyllidebau gyda chyfanswm o £35.2m sydd bellach dros 23% o gyllideb 2020/2021 y Cyngor o £151.2m.

Roedd y cyllidebau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yn dal i wynebu pwysau cost sylweddol o £3.5m. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu lliniaru'n bennaf gan fudd setliad cadarnhaol Llywodraeth Cymru, a dull corfforaethol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol gofal cymdeithasol.

Er bod gorwariant o £0.6m ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021, mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'n adlewyrchu'r effaith y dechreuwyd ei gweld o alinio gwasanaethau â'r gydol oed newydd. Er hynny, mae'r model yn ei ddyddiau cynnar ac yn parhau i ddatblygu.

Ni ellir gorffen adroddiad 2020/20212 heb sôn am Covid-19 a'r effaith ariannol sylweddol y mae hyn wedi'i chael. Mae'r sector Gofal Cymdeithasol wedi bod ar flaen y gad yn y pandemig gyda'r effaith yn cael ei theimlo gan yr Awdurdod Lleol a'r ystod eang o ddarparwyr preifat y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu ganddynt. Trwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, mae cyllid ychwanegol sylweddol wedi cael ei ddarparu i'r sector gofal cymdeithasol ar ffurf cyllid a thaliadau ar gyfer bylchau, taliadau premiwm uwch dros dro ar gyfer lleoliadau a chyllid ar gyfer costau eithriadol yn deillio o ddigwyddiadau Covid-19 19. Mae'r gronfa hon wedi bod yn hollbwysig i sicrhau parhad gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

O edrych tua'r dyfodol, mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amlinellu strategaeth ariannol at ddibenion cynllunio ar gyfer y dyfodol a gwireddu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, sef:

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol Pobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Mae rhan o agwedd drawsnewidiol y Cynllun Tymor Canolig yn canolbwyntio ar symud oddi wrth wasanaethau gofal cymdeithasol mwy traddodiadol i blant ac oedolion at y Model Gydol Oed ehangach sy'n cynnwys ymyrraeth gynnar, a hynny drwy gyflwyno model gweithredu pwrpasol newydd a elwir yn Borth Gofal, Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar.

## Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Ar 25 Mawrth 2020 rhoddodd Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i Covid-19. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn cael eu cefnogi gan 5 Grŵp Rheoli Arian, sy'n adrodd yn wythnosol i'r Grŵp Rheoli Aur.

Yn ogystal, mae'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd wedi cwrdd o leiaf unwaith yr wythnos gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, CLILC ac Arweinwyr a Phrif Weithredwyr eraill, yr Aelod Seneddol a'r Aelod o'r Senedd yn ogystal â darparu sesiynau briffio i'r Cabinet

Mae'r Grŵp Rheoli Aur, sy'n cynnwys Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, wedi cwrdd yn ddyddiol ers canol mis Mawrth 2020 i ymdrin ag ymateb y Cyngor i Covid-19.

Mae cofnod o benderfyniadau a chamau gweithredu'r Grŵp Rheoli Aur yn ystod y flwyddyn i'w weld ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o'r penderfyniadau allweddol a wnaed mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth.

Cyflwynwyd adroddiadau diogelu wythnosol ynghylch gweithgarwch mewn perthynas â phlant ac oedolion i'r Grŵp Rheoli Aur gan y Cyfarwyddwr Statudol er gwybodaeth a sicrhau ansawdd.


**Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach**
Cyfarfu'r Pwyllgor yn rhithiol ar 19 Tachwedd 2020 a bu'n ystyried Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2019/20, Adroddiad Blynyddol y Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol 2019-2020, Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar Gymorth Cynnar a Gofal a Chymorth a Phontio i Blant Anabl, Adroddiad Monitro Perfformiad Gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol Ch2 2019-2020. Nododd Aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad arolygu a chymeradwyo'r cynnydd fel yr adroddwyd yn y Cynllun Gweithredu o 2019/20.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn rhithiol ar 18 Chwefror 2021 a bu'n ystyried yr adroddiadau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22, lleihau costau/arbedion cyllideb a'r newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor 2021/22. Cymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor yr argymhellion a wnaed a chofnododd bryder ynghylch costau cynyddol plant sy'n derbyn gofal gan nodi'r cynnydd yn y galw am daliadau uniongyrchol a'r bwriad yw i'r gwasanaeth ddod yn fewnol yn ystod 2021.

**Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
Cyfarfu'r Pwyllgor yn rhithiol ar 16 Medi 2020 a bu'n ystyried Adroddiad Blynyddol CYSUR a CWMPAS 2019-2020. Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad cynhwysfawr a oedd yn amlinellu ymateb y Cyngor hyd yma o ran rheoli pandemig Covid-19.

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

Mae Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu Cynlluniau Ardal sy'n amlinellu'r amrywiaeth a lefel y gwasanaethau a gaiff eu darparu yn eu hardal mewn ymateb i Asesiadau o'r Boblogaeth rhanbarthol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd a rhaid i'r cynlluniau cychwynnol gael eu cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2019.




Mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2019-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' wedi cael ei gytuno gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau strategol y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu arnynt dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi trawsnewid ac integreiddio gofal a chymorth yn y rhanbarth.

Mae'r cynllun ar gael yma. Mae hefyd ar gael trwy'r porthol newydd, Porthol Data Gorllewin Cymru, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Uned Data Cymru. Mae hyn yn darparu mynediad i ystod eang o ddata am y boblogaeth a gwasanaethau ar gyfer y rhanbarth ac yn cynnig modd i'r cynllun gael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu datblygiadau lleol a chenedlaethol ac adrodd ar gynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein cynllun.

Ym mis Awst 2020 comisiynodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol werthusiad annibynnol o raglenni Gorllewin Cymru Iachach. Roedd hwn yn nodi cynnydd ar draws y Bwrdd ac yn argymell nifer o welliannau gan gynnwys gwella setiau data i asesu effaith rhaglenni; dangos tystiolaeth o effaith trefniadau cyflawni gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r rhanbarth; cryfhau'r ymgysylltiad â defnyddwyr, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill a defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hynny i lywio datblygiad rhaglenni; ac aliniad agosach rhwng rhaglenni er mwyn i staff sy'n ymwneud â'u cyflawni allu cydnabod eu cyfraniad at y dirwedd drawsnewid ehangach.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. Yn wyneb y dystiolaeth gadarnhaol a gyflwynwyd yn yr adroddiad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ddyraniad o ychydig llai na £6m ar gyfer 2021-22 i barhau â'r rhaglenni am flwyddyn drosiannol arall. Ochr yn ochr â rhaglenni Gorllewin Cymru Iachach, roedd y Gronfa Drawsnewid hefyd yn darparu adnoddau wedi'u clustnodi i'r bartneriaeth i gefnogi rheoli perfformiad ac adrodd ac ymgysylltu parhaus. O ganlyniad, yn 2020-21 roeddem yn gallu penodi Swyddog Perfformiad a Gwerthuso i arwain y gwaith o ddatblygu metrigau i asesu effaith trawsnewid a rhaglenni rhanbarthol eraill. Cyfrannwyd hefyd at gostau platfform digidol y 'Pencadlys Ymgysylltu' sydd wedi cael ei gaffael gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sawl sefydliad unigol yn y rhanbarth. Bydd y feddalwedd hon yn darparu offeryn ar gyfer ymgysylltu â chymunedau gwahanol (yn ddaearyddol ac o ddiddordeb), gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys fforymau rhithiol, byrddau negeseuon ar-lein, 14 sgwrs seiliedig ar le, straeon rhyngweithiol, cyfleusterau holi ac ateb, polau piniwn ac arolygon.

**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru:**

CYSUR yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Uno'r Rhanbarth yw CYSUR a dyma'r gair Cymraeg am dawelu meddwl hefyd.
Mae CYSUR yn gyfuniad o'r hen Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

CWMPAS yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion yw CWMPAS a dyma hefyd y gair Cymraeg am sgôp neu gylch gwaith.
Mae cylch gwaith CWMPAS hefyd yn ymestyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Sefydlwyd y trefniadau rhanbarthol i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod 2020-2021, parhaodd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i weithredu yn unol â'i rwymedigaethau statudol yn sgil argyfwng cenedlaethol a'r pandemig. Er bod rhywfaint o waith y Bwrdd nad oedd yn hanfodol wedi'i atal dros dro, roedd holl is-grwpiau gorfodol y Bwrdd h.y. yr Is-grwpiau Hyfforddiant, Polisïau a Gweithdrefnau ac Adolygu Ymarfer wedi parhau i gwrdd a gweithredu, ac roedd swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan lawn ym mhob gweithgaredd. Rhoddwyd blaenoriaeth i gwblhau a datblygu polisïau, gweithdrefnau a strategaethau rhanbarthol parhaus yn ogystal ag adolygiadau ymarfer plant ac oedolion parhaus.

Roedd cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol wedi parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd, a sefydlwyd Grŵp Gweithredol Rhanbarthol Covid-19 dros dro i oruchwylio, monitro ac ymateb i unrhyw feysydd risg uwch a nodwyd o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r grŵp aml-asiantaeth hwn yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth ac uwch reolwyr gwasanaethau o bob rhan o'r rhanbarth a'r swyddogion cyfatebol o sefydliadau asiantaeth partner.

Yn ogystal â hyn, mae arweinwyr diogelu amlasiantaethol yn cynnal cyfarfodydd wythnosol ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion gyda chynrychiolwyr o'r pedwar Awdurdod Lleol, byrddau iechyd rhanbarthol a Heddlu Dyfed Powys. Ffocws y cyfarfodydd hyn yw arwain datblygiad polisïau rhanbarthol interim Covid-19, sefydlu ymarfer proffesiynol cyson ar draws y rhanbarth lle bo'n briodol a rhannu syniadau a chynnig cymorth gan gymheiriaid. Mae rolau Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Staff yr Uned Fusnes wedi'u had-drefnu er mwyn cyfateb â blaenoriaethau sy'n cefnogi'r grwpiau rhanbarthol newydd hyn, ac unrhyw gamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â pharhau i ddatblygu is-grwpiau allweddol y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi cynhyrchu canllawiau a pholisïau rhanbarthol penodol i helpu i arwain gweithgarwch diogelu rhanbarthol a lleol asiantaethau partner yn ystod y pandemig.

# 6. Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol

| Teitl | Lleoliad |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2020-21 | West-Wales-RPB-Annual-Report-2020-21-ENGLISH.pdf (wwcp.org.uk) |
| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cysur \| Ein Hadroddiadau Blynyddol |
| Adroddiad Blynyddol yr Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion | Annual Report 2020-21 (Carers).pdf |
| Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2020-21 | WWCDG-Annual-Report-2021-21-FINAL.pdf (wwcp.org.uk) |
| Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2019-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' | http://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/West-Wales-Area-Plan-English-Final-Version-29-03-18.pdf |
| Cofnodion Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Ceredigion | Strwythur Llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau – Cyngor Sir Ceredigion |
| Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr 2019-2020 | Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion - Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol 2019-2020 |

Cyngor Sir Ceredigion

Sian Howys

DRAFFT

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol 2021 /2022



**1. Cyflwyniad** .......... **3**

Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant .......... 5
Ymateb Covid-19 Ceredigion .......... 6

**2. Crynodeb o Berfformiad** .......... **7**

Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu .......... 7
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd .......... 16

**3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?** .......... **25**

Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella .......... 26
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod .......... 28
Grŵp Diogelu Plant a Phobl Ifanc Sêr Saff Ceredigion – wedi'i hwyluso gan TGP .......... 29
Wythnos Genedlaethol Diogelu Tachwedd 2021 .......... 29
Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu .......... 30
Cysylltwyr Cymunedol .......... 31
Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion .......... 32
Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion .......... 33
Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru .......... 35
Cwynion a Chanmoliaeth .......... 36

**4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu** .......... **44**

Beth wnaethom ni gynllunio i'w wneud y flwyddyn ddiwethaf? .......... 44
I ba raddau oeddem ni wedi llwyddo i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn? .......... 46
Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion .......... 54
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham? .......... 59

**5. Sut ydym yn gwneud yr hyn a wnawn** .......... **60**

Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol .......... 60
Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol .......... 65
Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd 67

**6. Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol** .......... **73**

# 1. Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2021-2022. Unwaith eto, mae hon wedi bod yn flwyddyn o heriau mawr yn wyneb pandemig byd-eang Covid-19. Mae hyrwyddo diogelwch a llesiant trigolion Ceredigion yng nghyd-destun goblygiadau pellgyrhaeddol Covid-19 wedi parhau i fod yn heriol tu hwnt.

Mae mesurau cadarn Cyngor Sir Ceredigion i geisio atal a rheoli'r risg o ledaenu Covid-19 wedi helpu i gadw cyfraddau heintio yn gymharol isel yn y sir. Serch hynny, mae'r pandemig wedi effeithio'n fawr ar staff a'r cyhoedd mewn llawer ffyrdd.

Mae'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn hon wedi bod yn aruthrol ac ar ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r rhai sydd angen gofal a chymorth. Unwaith eto, rhaid imi nodi fy niolch a'm hedmygedd dwfn yn wyneb ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb cydweithwyr a staff trwy gydol y flwyddyn anodd hon. Mae recriwtio a chadw staff i sicrhau capasiti digonol yn y gweithlu wedi bod yn ffocws cynyddol yn ystod y flwyddyn hon, a bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn nesaf.

O ran yr adroddiad blynyddol, y nod yw gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-2022. Mae effaith Covid-19 mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn arwyddocaol iawn ar draws holl feysydd gwaith y Cyngor. Mae hefyd wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gwybodaeth benodol ar gyfer yr adroddiad hwn, fodd bynnag, rwyf wedi sicrhau hyd eithaf fy ngallu bod y wybodaeth sydd ar gael wedi'i darparu i ddangos sut y cyflawnwyd y canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt yng Ngheredigion.

Diffinnir cynnwys yr adroddiad blynyddol yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) o dan y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol nodi sut y mae'r Awdurdod Lleol wedi mynd ati i gyflawni safonau ansawdd y canlyniadau llesiant.

Yr wyth canlyniad llesiant yw:

- Sicrhau hawliau
- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- Cyfrannu at gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl


Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol yn erbyn y canlyniadau llesiant yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
- Rhoi cymorth i bobl ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
- Gweithio gyda phobl a rhoi cymorth i bobl gael mwy o lesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n ateb eu hanghenion

Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa eang, gyda'r bwriad iddo fod ar gael i bawb.  Wrth lunio'r adroddiad hwn, ystyriais yn benodol y grwpiau canlynol:

- Defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a'r holl bobl hynny y mae eu llesiant wedi'i effeithio gan yr hyn y mae gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a'i swyddogaethau cysylltiedig yn ei wneud, fel bod effaith y gwasanaethau hyn yn cael ei hesbonio
- Y cyhoedd sydd â diddordeb yn yr hyn y mae ei Awdurdod Lleol yn ei wneud, sut y mae'n perfformio a sut mae ei arian yn cael ei wario
- Aelodau etholedig ac eraill sy'n ymwneud â phrosesau craffu
- Partneriaid yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys partneriaid ffurfiol ac eraill yn y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector y mae angen iddynt ddeall rhaglen ac amcanion â blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol
- Rheoleiddwyr (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynwyr Statudol)
- Llywodraeth Cymru

# Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant




Yn ystod 2021-2022, gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu ein Model Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant.

Ym mis Hydref 2021, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu. Ar ddechrau'r rhaglen, crëwyd gweledigaeth a oedd yn adlewyrchu rhaglen newid uchelgeisiol: "Sicrhau bod pob plentyn, pob person ifanc a phob oedolyn yng Ngheredigion yn gallu gwireddu ei botensial llawn. Sicrhau mynediad teg i bawb at wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu rhagorol sy'n cynnal iechyd a llesiant yr holl ddinasyddion. Meithrin sgiliau a chydnerthedd a fydd yn para oes a galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu." Mae Strategaeth Gydol Oed a Llesiant yn egluro'r weledigaeth, yn amlinellu'r achos dros newid ac yn disgrifio'r dulliau gweithredu cysylltiedig y bwriadwn eu mabwysiadu er mwyn trawsnewid sut y caiff llesiant a diogelwch pobl Ceredigion ei gynnal. Cytunwyd ar amserlen o 2021-2027 er mwyn cyflawni'r newidiadau.

Cwblhawyd Cam 1 yr ad-drefnu corfforaethol ym mis Ebrill 2018 gyda recriwtio dau Gyfarwyddwr Corfforaethol a 12 o Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i ymgymryd â chyfrifoldebau pob maes gwasanaeth.

Mae rhoi'r Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Gydol Oed a Llesiant ar waith yn newid swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddi rhai o'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r timau ar draws yr Awdurdod Lleol cyfan, nid dim ond yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae'r tri Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal wedi arwain y prosesau rheoli newid i gefnogi datblygu a chyflenwi'r model.

Gyda Cham 2 wedi'i gwblhau, mae'r rolau Rheolwr Corfforaethol wedi bod yn weithredol ers mis Mawrth 2020 ac maent wedi gweithio'n galed i weithredu ar ddatblygiadau strategol allweddol ar draws y Pyrth. Y pedair prif wasanaeth yw:

- Cyswllt â Chwsmeriaid Clic – Pwynt cyswllt ac atgyfeirio cyntaf
- Porth Cymorth Cynnar – Ymyrraeth Gynnar ac Atal
- Porth Gofal – Brysbennu, Asesu, Ymyrraeth wedi'i Dargedu a Gwasanaethau Uniongyrchol
- Porth Cynnal – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Arbenigol Gydol Oed


Ym mis Ebrill 2021, dechreuodd Cam 3 yr ymgynghoriad ac erbyn mis Mehefin 2021 roedd Rheolwyr Tîm wedi'u penodi ac wedi dechrau yn eu swyddi yn y rhan fwyaf o wasanaethau ar draws y Pyrth. Ym mis Rhagfyr 2021 gwelwyd cychwyn ymgynghoriad staff sylweddol ar ad-drefnu timau a rolau ar draws gwasanaethau Pyrth ac eithrio Gwasanaethau Gofal Preswyl a Gwasanaethau Dydd. Prif ddiben yr ad-drefnu yw sicrhau gweithlu medrus a hyblyg ynghyd â model gweithredu effeithiol yn unol â nodau ac amcanion strategol y rhaglen er mwyn i ni allu diwallu anghenion pobl Ceredigion gyda gwasanaethau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Daeth y broses ad-drefnu i ben ym mis Mawrth 2022.

## Ymateb Covid-19 Ceredigion

O ddechrau'r pandemig, roedd gan Gyngor Sir Ceredigion weledigaeth a fframwaith gweithredu clir i sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelwyd trwy'r don gyntaf ond hefyd ar gyfer unrhyw donau eraill a ragwelwyd yn y dyfodol. Camau diffiniedig ein hymateb yw;

- Cam 1 – Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cam 2 – Gweithredu – Darparu gwasanaethau o dan amodau'r cyfnod clo a rheoledig
- Cam 3 – Addasu a gwydnwch hirdymor
- Cam 4 – Adfer

Ym mis Ebrill a mis Mai 2021, rhoddwyd Cynlluniau Addasu ac Adfer Covid-19 ar waith gan alluogi pob gwasanaeth i roi'r camau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod gwasanaethau diogel yn cael eu darparu. Roedd y cynlluniau hyn yn cael eu hailystyried a'u hadolygu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn wrth i lefel y risg amrywio a chyda'r newidiadau mewn mesurau rheoli cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ogystal, mae ffyrdd newydd o weithio wedi parhau i ddatblygu trwy gydol y flwyddyn gyda ffocws ar ddull hybrid. Prif nod y Cyngor fu gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnal cyfradd heintio cymharol isel Ceredigion ac adeiladu gwydnwch ac adferiad tymor hwy yn ein cymunedau.




Sian Howys
Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal

# 2. Crynodeb o Berfformiad


Fel y nodir o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, defnyddir y fframwaith Mesur Perfformiad i asesu perfformiad swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol. Bydd yr adran hon yn dangos sut y mae'r gwasanaeth wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn sgil cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, rhaid nodi na chafodd llawer o waith adrodd ei gwblhau yn ystod pandemig Covid-19 ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny.

## Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu

Mae perfformiad gwasanaethau i oedolion yn foddhaol a rhoddir blaenoriaeth i gadw at reoliadau, canllawiau a phrotocolau Covid-19 lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn cydweithrediad ag asiantaethau partner tra'n cymryd rhan lawn ym mhob fforwm aml-asiantaeth sy'n ymdrin â'r pandemig.

Mae datblygiad parhaus meysydd gwasanaeth allweddol fel Clic ar gyfer cyswllt cychwynnol a chyfeirio at Borth Gofal am gyngor a chymorth, brysbennu ac asesu cymesur yn sail i'n model ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau atal o fewn Porth Cymorth Cynnar yn parhau fel elfen allweddol arall, gydag addasiadau Covid-19 megis Cysylltwyr Cymunedol yn darparu cymorth ar-lein a galwadau ffôn llesiant.


### Diogelu Oedolion




Bu gostyngiad yng nghanran yr ymholiadau Amddiffyn Oedolion a gwblhawyd o fewn saith diwrnod gwaith yn ystod 2021-2022.
Y prif reswm am hyn yw y bu pwysau a her sylweddol ar wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn gyda chapasiti'r gweithlu. Serch hynny, mae achosion risg uchel wedi'u blaenoriaethu a chymerwyd camau amserol yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch pobl.

### Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Eleni, mae'r mesur "oedi wrth drosglwyddo gofal" wedi gostwng ychydig o 2020 -21. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael ei brofi gan glaf mewnol mewn ysbyty sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ofal ond sy'n cael ei atal rhag gwneud hynny am un neu ragor o resymau megis darparu gwasanaeth oherwydd yr angen am ofal a chymorth. Mae rhyddhau o'r ysbyty yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwasanaeth brysbennu integredig Porth Gofal sy'n cydweithio'n agos â chydweithwyr iechyd i gydlynu a hwyluso'r holl ryddhau o'r ysbyty ar gyfer dinasyddion Ceredigion. Mae rhyddhau 2 adfer ac asesu yn parhau'n flaenoriaeth, ond gall y ddarpariaeth fod yn heriol oherwydd effaith Covid-19 a'r gwasanaeth Galluogi yn pontio rhwng pecynnau gofal hirdymor yn y gymuned. Mae'r farchnad gofal cartref wedi cael llai o gapasiti a chapasiti cyfyngedig gydag effaith Covid-19 yn ffactor cyfrannol yn enwedig ar gyfer y rheini ag anghenion cymhleth sydd angen lefel uchel o gymorth fel gofal dwy law. Mae hyn wedi cyfrannu at yr oedi wrth ddarparu gofal ac mae Porth Gofal yn gweithio ar y cyd ac yn rhagweithiol ag Iechyd i hwyluso lleoliadau byrdymor a ariennir gan Iechyd tra bo cleifion yn aros am becynnau gofal sydd wedi cyfrannu at leihau oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae Porth Gofal yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth cymorth y trydydd sector i hwyluso rhyddhau dinasyddion ag anghenion lefel isel.






**Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn**

### Galluogi

Mae'r tîm Galluogi wedi cefnogi nifer cynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n aros am ofal hirdymor er mwyn darparu capasiti ychwanegol i ddarparu pecynnau gofal cartref.

Ym mis Mawrth 2021, roedd y tîm Galluogi yn darparu gwasanaeth pontio ar gyfer tua 20% o'u llwyth achosion. Erbyn mis Mawrth 2022, roedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol i bron 80%.







Roedd y tîm Galluogi yn pontio 34 o gleientiaid a oedd yn aros am ofal hirdymor ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Roedd hyn dros 80% o gyfanswm eu llwyth achosion

Fel y dengys y siart, roedd 42% o'r bobl a oedd yn aros am ofal cartref yn cael eu cefnogi gan y tîm Galluogi.

Roedd 35% o bobl yn aros tra eu bod yn byw yn eu cartrefi eu hunain.


Cafodd rhai unigolion gymorth gan deulu/ffrindiau a chymorth gan y trydydd sector. Roedd y tîm gwaith cymdeithasol yn monitro pob achos yn agos ac yn cadw mewn cysylltiad â'r unigolion dan sylw.

### Oedolion sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl




**Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n cael eu derbyn i gartrefi gofal preswyl**

Mae gofal preswyl yn darparu amryw o opsiynau ar gyfer unigolion sydd angen gofal 24 awr. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau tymor byr, dros dro a pharhaol. Mae opsiynau gofal preswyl amrywiol ar gael, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae Ceredigion yn gweithredu pum cartref gofal preswyl ei hun ac yn comisiynu gyda nifer o gwmnïau preifat yng Ngheredigion a thu hwnt.




**Y cyfnod o amser ar gyfartaledd (diwrnodau) y bydd oedolion (65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl**

Eleni bu gostyngiad pellach yn yr amser cyfartalog a dreulir mewn cartrefi preswyl a gellid priodoli hynny i'r pandemig ac effaith brigiad o achosion gyda llai o bobl yn dewis gofal preswyl oni bai na ellir ei osgoi.
Yn gynnar iawn, datblygodd yr Awdurdod Lleol brotocol atal a rheoli heintiau. Roedd hyn wedi sicrhau bod gan y gweithlu a chydweithwyr iechyd ganllawiau clir i'w dilyn mewn perthynas â lleihau'r cyfle i drosglwyddo'r firws yn y cartrefi gofal. Mae'r protocolau hyn wedi'u diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r newidiadau mewn amgylchiadau a chanllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae fforymau a dulliau cyfathrebu allweddol rheolaidd wedi parhau trwy gydol y flwyddyn gyda'r sector gofal cymdeithasol annibynnol.


Drwy gydol y gwasanaeth hwn yn ystod Covid-19 rydym wedi sicrhau bod cymorth aml-broffesiynol a chlinigol ar gael trwy dechnoleg i gefnogi cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol neu ymweliadau diogel gan feddygon teulu, iechyd meddwl, dementia, therapi galwedigaethol/proffesiynau perthynol i iechyd.

Datblygwyd Polisi Uwchgyfeirio Rhanbarthol a chytunwyd ar drefniadau lleol a'u rhannu ar draws y sector.


Mae adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa ar draws yr holl gartrefi gofal wedi'u cwblhau 7 diwrnod yr wythnos er mwyn nodi materion neu bryderon posibl a gweithredu'n gyflym.

Buddsoddodd yr Awdurdod Lleol yn gynnar iawn mewn cyfleusterau cynadledda i sicrhau y gallai teuluoedd gael mynediad at dechnoleg i gadw mewn cysylltiad tra bod ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u gohirio. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cefnogodd y Cyngor weithredu cyfleusterau ymweld yn yr awyr agored pan gafodd lefelau rhybudd eu gostwng.

## Cyngor a Chymorth i Oedolion




Mae'r holl atgyfeiriadau oedolion newydd i'r awdurdod yn cael eu symud ymlaen i wasanaeth brysbennu ac asesu integredig Porth Gofal pan fydd angen cyngor a chymorth. Mae Porth Gofal yn wasanaeth brysbennu integredig gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae'r brysbennu integredig yn cynnwys uwch weithiwr cymdeithasol, nyrs, therapydd galwedigaethol a ffisiotherapydd a fydd yn cynnal asesiad cymesur cyfannol gyda ffocws ar atal, ymyrraeth gynnar sy'n lleihau'r cynnydd yn yr angen am ofal a chymorth statudol hirdymor.




*Mae unrhyw ddull arall yn ymwneud â chanlyniadau cenedlaethol eraill ar gyfer asesu nad ydynt ar gyfer cynllun gofal a chymorth neu nad oes ganddynt unrhyw anghenion cymwys.

- Nid oes unrhyw anghenion gofal a chymorth i'w diwallu.= Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.
- Gellir diwallu anghenion trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. = Roedd modd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall.
- Gellir diwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol. = Roedd modd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall.
- Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolion eu hunain (gyda neu heb gymorth gan eraill). = Roedd modd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall.
- Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion. = Roedd modd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall.
- Dim ond trwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth (mae anghenion yn gymwys) y gellir diwallu anghenion. = Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth yr oedd modd diwallu anghenion.


Darparwyr y Porth Gofal

- Cymorth, gwybodaeth a chyngor am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol i oedolion a gwella'r cysylltiad rhwng pobl a'u cymunedau.
- Annog ymagwedd gytbwys at asesu angen gan sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd sgyrsiau a phenderfyniadau a bod y sgwrs "beth sy'n bwysig" yn digwydd.
- Brysbennu atgyfeiriadau amlddisgyblaethol i nodi'r gweithiwr proffesiynol cywir i ymateb e.e. ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol neu weithwyr gofal cymdeithasol i sicrhau ymateb cywir ar yr amser cywir.
- Darparu asesiad mwy cyson, cydgysylltiedig ar gyfer gofal a chymorth.
- Gwella'r llif gwybodaeth rhwng gwasanaethau, gan arwain at benderfyniadau cyflymach yn cael eu gwneud am anghenion a chymorth pobl.
- Lleihau derbyniadau i'r ysbyty. Darparu gwasanaeth cymorth i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal a rhyddhau amserol o'r ysbyty.
- Ymateb cyflym i wasanaeth syml e.e. darparu offer syml i wella annibyniaeth y person a lleihau'r risg o ddirywiad pellach.

Gydag effaith Covid-19, mae Porth Gofal wedi parhau i gynnal brysbennu ac asesiadau yn rhithiol gyda phob cyswllt wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei asesu o ran risg a dilyn mesurau rheoli heintiau.

**Darparu Gofal Cartref**
Yn ystod y cyfnod 21-03-2021 i 14-03-2022, amrywiodd nifer y bobl a oedd yn aros am ofal cartref rhwng 19 ar yr isaf i 82 ar y mwyaf.

Roedd y rhestr aros dros 70 o fis Awst 2021 ymlaen, yn dilyn cynnydd sydyn o tua 45 y mis hwnnw.




Dywedodd darparwyr fod recriwtio staff newydd yn parhau'n gyson, ond yn anffodus eu bod yn colli rhai staff ar gyfradd debyg. Roedd y golled/cynnydd staff net ar draws y darparwyr yn gyffredinol yn ffigur negyddol yn aml. Roedd staff yn nodi amrywiol resymau dros adael y gwasanaeth gan gynnwys y gost o redeg cerbyd; tâl isel; ddim yn addas ar gyfer gwaith gofal (effaith iechyd corfforol/meddwl), costau gofal plant anfforddiadwy ac effaith Covid-19.


Setliad ariannol Ceredigion gan Lywodraeth Cymru oedd yr isaf yng Nghymru ar 2% felly roedd yr awdurdod yn ystyried bod codiadau ffioedd o sefyllfa anodd tra'n cydnabod y pwysau ychwanegol ar ddarparwyr. Y codiad y cytunwyd arno ar gyfer 2021/22 oedd 2.2%. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai'r taliad ychwanegol fesul awr ar gyfer staff gofal cartref yn parhau tan ddiwedd Mehefin 21. Cafodd y cynllun gwella tâl salwch statudol a'r estyniad ei ymestyn ymhellach i 30 Medi 2021.

Ym mis Mehefin 2021, mynychodd nifer o ddarparwyr gofal cartref weithdy a hwyluswyd gan Lucy Richardson, Swyddog Polisi, Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn edrych ar dempled Cynllun Parhad Busnes newydd. Roedd y gweithdy'n gyfle da i edrych ar y templed Cynllun Parhad Busnes a sut y gallai gefnogi Cynllun Parhad Busnes presennol y gallai sefydliadau fod wedi'u defnyddio neu yn eu defnyddio fel templed i greu Cynllun Parhad Busnes newydd.

Ar 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru daliad untro o £735 y pen ar gyfer staff y GIG a staff gofal cymdeithasol. Roedd y swm hwn yn cynnwys y gyfradd sylfaenol o dreth a chyfraniadau yswiriant gwladol, ac ar ôl didyniadau derbyniodd y rhan fwyaf o bobl £500. Daeth cadarnhad wedyn bod y £1 ychwanegol yr awr ar gyfer gweithwyr gofal cartref y disgwyliwyd iddo ddod i ben ym mis Medi yn cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2022.

Cyfrannodd darparwyr at Arolwg o'r Gweithlu Darparwyr Gofal Cartref yn ystod haf 2021. Bu'r wybodaeth o'r Arolwg o'r Gweithlu yn gymorth i fwrw ymlaen â'r sgwrs yng Ngheredigion i weithio gyda darparwyr i ddod o hyd i ffyrdd o greu fframwaith ar gyfer y dyfodol yng Ngheredigion. Y nod oedd ateb rhai o'r cwestiynau i'r materion yr oedd pob darparwr gofal cartref yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi â nhw, a dod o hyd i ffordd o barhau i fod yn gystadleuol.


Cafodd trafodaethau yn y cyfarfodydd darparwyr/CSC rheolaidd a'r trafodaethau galw heibio anffurfiol a gynhaliwyd dros yr haf, gan gynnwys yr holl bryderon ac ymholiadau a godwyd, eu rhannu a'u trafod ar y lefel uchaf gan gynnwys y Prif Weithredwr. Sicrhawyd darparwyr bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar y lefelau uchaf.




**Cyfanswm nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref:**

Roedd cyfanswm nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref yn dangos gostyngiad yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022 ac arhosodd yr un fath yn ystod ail hanner y flwyddyn, sef tua 277.

**Cyfanswm nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref**




| | Cyfanswm yr oriau o ofal cartref a brynwyd gan y sector annibynnol | Unigolion sy'n derbyn gofal wedi'i gomisiynu |
|---|---|---|
| 2017/18 | 239470.73 | 551 |
| 2018/19 | 241300. 18 | 571 |
| 2019/20 | 234499.18 | 540 |
| 2020/21 | 209780.61 | 487 |
| 2021/22 | 192088.00 | 278 |

| 2021/22 | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Galluogi | Hirdymor | Wedi cau | Wedi cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-21 | 50 | 32 | 15 | 18 | 32 |
| Mai -21 | 34 | 23 | 11 | 12 | 22 |
| Meh-21 | 39 | 28 | 11 | 20 | 19 |
| Gorff-21 | 44 | 33 | 11 | 16 | 28 |
| Awst-21 | 48 | 33 | 15 | 17 | 31 |
| Medi-21 | 39 | 29 | 10 | 23 | 16 |
| Hyd -21 | 44 | 19 | 25 | 19 | 25 |
| Tach -21 | 44 | 25 | 19 | 9 | 35 |
| Rhag-21 | 36 | 25 | 11 | 15 | 21 |
| Ion -22 | 42 | 33 | 9 | 15 | 27 |
| Chwef -22 | 47 | 31 | 16 | 22 | 25 |
| Maw-22 | 34 | 22 | 12 | 13 | 21 |
| CYFANSWM | 501 | 333 | 165 | 199 | 302 |

Rydym yn parhau i fwynhau perthynas weithio dda â'r rhan fwyaf o ddarparwyr sy'n rhoi sail dda i ni adeiladu arni, gan gynnig modd i ni weithio'n agos â'r farchnad trwy'r da a'r drwg. Mae darparwyr yn parhau i roi gwybod bod eu cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyngor Sir Ceredigion yn fuddiol ac yn llawn gwybodaeth. Gall darparwyr godi materion pwysig a gellir nodi tueddiadau a'u huwchgyfeirio pan fydd angen, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn rhanbarthol.

Mae nifer o ardaloedd anghysbell ac unig gennym lle mae'n anodd iawn caffael gofal. Er mwyn hwyluso rhyddhau pwysau mewn rhai meysydd a chynorthwyo rhyddhau o'r ysbyty, yn ystod y pandemig defnyddiwyd ein tîm Galluogi mewnol i helpu gofal cartref gan bontio rhwng achosion hirdymor a rhyddhau.

Ar 28/03/2022, roedd 12 o ddarparwyr wedi'u comisiynu yn darparu tua 3694 awr o ofal bob wythnos. Roedd gwasanaeth galluogi mewnol CSC yn cefnogi 51 o bobl ag anghenion gofal hirdymor.

Yn gyffredinol mae ein darparwyr gofal cartref wedi gallu cydweithio i gyflenwi mewn rhannau o'r sir. Mae sawl un o'n darparwyr yn cynnig gwasanaethau gofal yn sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Phowys ac yn gallu llenwi'r bylchau yn eu rotas ar draws llinellau'r sir.

### Gwasanaethau Dydd
Caewyd y Canolfannau Dydd yn ystod y cyfnod hwn a chafodd gwasanaethau'r ganolfan i oedolion anabl ac oedolion hŷn eu hatal. Gwnaethpwyd addasiadau gwasanaeth gyda thimau Porth Cynnal a Phorth Gofal, cwblhawyd asesiadau risg gofal cymdeithasol ac iechyd a diogelwch a dilynwyd mesurau rheoli heintiau er mwyn sicrhau trefniadau seibiant a chymorth diogel ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed ynghyd â galwadau rhithiol a chadw mewn cysylltiad rheolaidd.

### Gwasanaethau Llesiant Meddyliol
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch gan staff timau Porth Cynnal a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gyda pharhad asesiadau Deddf Iechyd Meddwl a chymorth statudol i bobl ag anawsterau iechyd meddwl a salwch a'u gofalwyr.

### Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff Tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau gofal a chymorth statudol i bobl sy'n profi anawsterau a dibyniaeth a chamddefnyddio sylweddau a'u gofalwyr.

### Cymorth Estynedig
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff Tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau gofal a chymorth statudol i bobl ag anableddau a'u gofalwyr.

### Gofal Wedi'i Gynllunio
Cwblhawyd asesiadau risg ac asesiadau iechyd a diogelwch, a dilynwyd mesurau rheoli heintiau gan staff tîm Porth Cynnal gyda pharhad asesiadau a gofal a chymorth statudol i oedolion ag anghenion gofal a chymorth tymor hwy.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Yn ystod y flwyddyn hon, bu timau gofal cymdeithasol yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth ysgolion ac asiantaethau partner allweddol i ddiogelu a chefnogi plant a phobl ifanc yng Ngheredigion a pharhau i fodloni dyletswyddau statudol o fewn gofynion protocolau a chanllawiau Covid-19 y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae effaith sylweddol Covid-19 ar blant a theuluoedd wedi bod yn amlwg yn nhermau gweld llai o blant a diffyg mynediad at gymorth

cymunedol a chynnydd mewn anghenion cymorth ar gyfer llesiant meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Yn ystod y cyfnodau clo a chau ysgolion lleol, mae gwasanaethau Porth Cynnal wedi cydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ysgolion ac asiantaethau partner i gefnogi plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Mae trefniadau seibiant a chymorth wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer plant anabl a phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd o fewn cyfyngiadau Covid-19.

Gyda llacio'r cyfyngiadau, roedd plant yn gallu cael mynediad i haf o weithgareddau llawn hwyl a drefnwyd gan wasanaethau Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar mewn cydweithrediad â phartneriaid wrth gadw at fesurau diogelwch Covid-19.


Mae'r Gofrestr Amddiffyn Plant wedi amrywio yn ystod 2021/22, ac roedd 45 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd ar y ffigur diwedd blwyddyn ar gyfer 2020/2021 a gellir ei briodoli'n rhannol i'r ffaith bod plant yn fwy weladwy tua diwedd y flwyddyn ac oherwydd y cynnydd mewn adroddiadau diogelu ar gyfer plant sy'n wynebu risg.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion wedi cynyddu i 100 erbyn 31 Mawrth 2022. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei fonitro'n agos ac mae effaith Covid-19 ar y gallu i gadw plant yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn y gymuned wedi bod yn amlwg.

Mae diffyg lleoliadau addas ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn thema gyson yn lleol fel y bu ar draws Cymru. Ym mis Hydref 2021, cytunodd aelodau Cabinet Ceredigion i ddatblygu cartref grŵp bach i blant yn y sir fel rhan o'r cynllun llety diogel rhanbarthol o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Sefydlwyd grŵp prosiect gyda mewnbwn gan yr holl wasanaethau perthnasol ar draws y Cyngor i symud y gwaith datblygu pwysig hwn yn ei flaen.


Mae Covid-19 wedi effeithio'n fawr ar argaeledd gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal. Lle bynnag y bo modd, mae gwasanaethau cymorth wedi cael eu cynnig yn rhithiol.

## Canlyniad yr Asesiadau





Cwblhawyd asesiadau risg ar gyfer pob ymweliad cartref neu wyneb yn wyneb angenrheidiol. Gweithredwyd gweithio rhithiol ar gyfer cyfarfodydd aml-asiantaeth gyda chymorth yn cael ei ddarparu er mwyn i deuluoedd allu cymryd rhan.


Gwnaed 4056 o gysylltiadau â Phorth Gofal ar gyfer plant yn ystod 2021-22.





## Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn 2021-22 gwelsom gynnydd pellach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a gostyngiad sylweddol yn y rhai a ddychwelodd adref ar ôl derbyn gofal sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn achosion cymhleth y mae'n rhaid eu rheoli. Mae'r gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal yn parhau i ddarparu gwasanaeth allweddol gyda chymorth ymarferol ar gyfer rhianta mwy diogel. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar y maes gwaith hwn gyda mynediad mwy anodd at gymorth yn y gymuned a mwy o anhawster i reoli'r risg o niwed yng nghartref y plentyn neu yn y gymuned. Mae timau Porth Cynnal wrthi'n rhoi'r Protocol Cyfraith Gyhoeddus ar waith, a phryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny caiff plant eu cefnogi i aros yng ngofal eu rhieni neu aelodau o'r teulu estynedig neu ddychwelyd atynt.





**Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn**





**Canran yr ailgofrestriadau o blant ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol**

## Y Gofrestr Amddiffyn Plant

Bu cynnydd o 12.5% yn nifer y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod, ond bu rhan o'r cyfnod hwnnw yn ystod cyfyngiadau Covid-19 pan na fu gan blant a phobl ifanc lawer o gysylltiad y tu allan i'w cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, gan fod cyfyngiadau wedi'u codi mwy yn y cyfnod 2021-22, a bod plant/pobl ifanc yn dychwelyd i addysg a bod gan asiantaethau allanol fwy o gysylltiad â phlant/pobl ifanc, cafwyd canran uchel o ailgofrestriadau. Yn 2020-21, roedd teuluoedd mwy o faint penodol lle oedd nifer neu'r holl blant o fewn un teulu yn cael eu hailgofrestru.





Yn ystod 2021-22, yr oedd rhan o'r cyfnod hwnnw yn ystod cyfyngiadau pandemig COVID-19, nid oedd gan blant a phobl ifanc lawer o fynediad at gymorth a chyswllt y tu allan i'w cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, ers i gyfyngiadau gael eu codi mwy yn y cyfnod 2021-22, a bod plant/pobl ifanc yn dychwelyd i addysg a bod asiantaethau allanol yn cael mwy o gysylltiad â phlant/pobl ifanc, roedd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd 2021-22 yn uwch nag ar ddiwedd 2020-21 ond nid mor uchel ag ar ddiwedd 2019-2020.





Yn ystod y cyfnod 2021-22 roedd yn fwy posibl gweithio gydag asiantaethau partner i gymryd camau gyda phlant a theuluoedd a oedd wedi bod ar y gofrestr am gyfnod hwy, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn yr amser y mae plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Iechyd ein Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn datgan bod rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael gofal gan ymarferydd deintyddol cofrestredig cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac mewn unrhyw achos dim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gael ei wneud.




Canran y plant a gafodd eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal





Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau eu lleoliad

Mae Canllawiau Clinigol NICE [CG19] – 'Archwiliadau deintyddol: y cyfnodau rhwng adolygiadau iechyd y geg' yn amlinellu'r canllawiau ar amlder archwiliadau deintyddol. Seilir hyn ar ffactorau risg y claf unigol o gael clefyd deintyddol. Yn gyffredinol, ystyrir bod plant sy'n derbyn gofal mewn mwy o berygl o gael clefyd deintyddol ac felly disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu galw yn ôl naill ai bob tri mis neu bob chwe mis. Yn 2021-22, gwelsom gynnydd yng nghanran y plant a welwyd gan ddeintydd o fewn 3 mis i ddechrau derbyn gofal. Mae hwn yn fater sy'n cael ei ystyried ac yn cael sylw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan y bu anawsterau oherwydd Covid a staffio practisau deintyddol.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn datgan bod rhaid i'r awdurdodau cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei gofrestru gyda Meddyg Teulu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac mewn unrhyw achos ddim hwyrach na deg diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gael ei wneud. Fel y gwelwch o'r graff, yn 2021-22 cyrhaeddwyd ein targed o 100% o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cofrestru gyda Meddyg Teulu.


## Plant sy'n derbyn gofal – sefydlogrwydd lleoliadau




Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal oedd heb ddigwydd oherwydd trefniadau pontio

Mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall symud dro ar ôl tro gael effaith negyddol ar blant. Mae symudiadau aflwyddiannus, neu heb eu cynllunio, yn llawer llai tebygol o ddigwydd i blant iau. Mewn cyferbyniad, mae lleoliadau 'plant yn eu harddegau' yn fwy tebygol o chwalu.

Ni ddeellir yn llawn a yw'r symud lleoliad ei hun yn arwain at ganlyniadau gwael i blant neu a yw hyn yn digwydd oherwydd profiadau ac anawsterau blaenorol plant. Ceir dau brif fesur sy'n ceisio esbonio sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r cyntaf yn ystyried sawl gwaith y bu'n rhaid i blentyn newid ysgol (heb gynnwys pan fydd plentyn yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd), ac mae'r ail yn ystyried sawl gwaith y bu'n rhaid i blentyn symud i ddau leoliad neu ragor. Mae'r mesurau hyn yn rhai hir-sefydlog a gallant roi gwybodaeth am berfformiad hirdymor y gwasanaeth. Anfantais y ddau fesur yma yw eu bod yn tueddu i newid oherwydd y nifer isel o blant sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Mae'r cynnydd a welwyd yn 2020-21 a'r cynnydd pellach yn 2021-22 o ran y plant sy'n symud lleoliad tair gwaith neu ragor yn ganlyniad i Covid a'r anhawster o geisio lleoli'r plant gyda gofalwyr gwahanol pan fydd gan y plant anghenion cymhleth ac oherwydd y cyfyngiadau, dim ond cymorth cyfyngedig/ar-lein y gellir ei gynnig, yn ogystal â'r ffaith bod plant gofalwyr gartref hyd yn oed ar ddiwrnodau ysgol. O ran y ganran isel o blant sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor, fel gwasanaeth rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr addysg ac yn ceisio sicrhau mai dim ond pan fydd hynny'n briodol i'r plentyn y mae symud ysgol yn cael ei ystyried, h.y. symud i'w hysgol leol ar ôl sefydlogi yn y lleoliad, neu lle nad ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i leoliad lle y gellir cefnogi'r plentyn i barhau i fynychu ei ysgol. Fodd bynnag, mae'r mesur isel o ystyried y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal unwaith eto yn arwydd o lwyddiant y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn ein Gwasanaeth Gofal wedi'i Gynllunio.





**Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn**


## Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae gadael gofal yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at grŵp o blant rhwng 16 a 18 oed ac sydd wedi bod mewn gofal yn flaenorol ond nad ydynt bellach yn "derbyn gofal" yn gyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol. Pan fydd plant yn gadael gofal, mae dyletswydd arnom o hyd i gynorthwyo'r bobl hyn tan eu bod yn 21 oed, neu'n 25 oed os ydynt mewn addysg amser llawn neu os oes anabledd ganddynt.


I'r garfan hon o bobl ifanc mae Covid wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd gyda heriau i rai o ran colli cyflogaeth a llety a mwy o unigedd yn ystod y cyfnod clo. Mae'n siomedig gweld gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc o fewn 12 mis iddynt adael gofal sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a gostyngiad sylweddol yn y rhai sydd mewn rhyw fath o addysg/cyflogaeth ac sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth gadael gofal am 24 mis. Mae canran y bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn 2021-22 hefyd yn peri pryder. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio ar eu prosiectau a'u strategaethau i fynd i'r afael â'r angen am lety priodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac yn gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac asiantaethau allanol yn ein hardal i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i flaenoriaethu'r mater hwn a chodi ei broffil yn unol â hynny. Roedd y Cynghorwyr Personol wedi parhau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal yn dda yn ystod y cyfnod anodd hwn.



Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal




Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal



Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn

**Operation Encompass**




Daeth Operation Encompass yn fyw yng Ngheredigion ym mis Tachwedd 2019. Mae wedi bod yn gweithio'n dda yn gyson ers ei lansio, gan rannu gwybodaeth yn ddyddiol ag ysgolion (neu wrth i hysbysiadau ddod i law). Cafwyd rhai hysbysiadau o bryd i'w gilydd ynghylch teuluoedd gan awdurdodau cyfagos ar y ffin â Cheredigion, ond mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hanfon ymlaen fel y bo'n briodol. Ers y cyfnod clo, mae rhannu gwybodaeth wedi newid o alwadau ffôn i e-byst, a diwygiwyd y Protocol Rhannu Gwybodaeth i ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, nodir nad yw'r hysbysiad e-bost llawn yn cael ei rannu ag ysgolion yn ei gyfanrwydd, mae pob adroddiad yn cael ei olygu i gynnwys manylion y dioddefwr/troseddwr honedig, manylion y plant, a oeddent yn bresennol, amser/dyddiad a chrynodeb o'r digwyddiad. Mae ysgolion yn cael eu briffio'n llawn ar y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sydd wedi bod yn agored i ddigwyddiadau naill ai yn eu cartrefi neu o fewn eu perthnasoedd eu hunain, gan gynnwys Sbectrwm (Hafan Cymru) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru. Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cadw golwg ar ddiogelwch a llesiant eu disgyblion, mae gwasanaeth diogelu'r ysgol yn parhau i rannu hysbysiadau hefyd trwy gydol gwyliau'r ysgol, felly nid yw wedi'i gyfyngu i'r tymor ysgol yn unig. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn adlewyrchu nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, a oedd wedi parhau'n uchel trwy lawer o 2021 wrth i ni barhau i addasu i gyfyngiadau Covid. Haf 2022 oedd y tro cyntaf ers dros 2 flynedd i ni gael bron dim cyfyngiadau, ac erbyn diwedd y gwyliau hynny ac ar ddechrau'r tymor newydd Medi 2022 bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau.

# 3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu fel arfer â dinasyddion a rhanddeiliaid trwy ddulliau amrywiol. Ceisiwn adborth "galw yn ôl" o fewn Clic a gwasanaethau Porth Gofal. Ymgysylltwn fel arfer â byrddau a grwpiau gwahanol, er enghraifft, y Bwrdd Diogelu Ieuenctid Sêr Saff, Grŵp Plant sy'n Derbyn Gofal, Fforwm Anabledd, Fforwm 50+, Byrddau Trawsnewid Iechyd Meddwl, lle y byddwn yn rhannu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yn hyrwyddo adborth ynghylch ad-drefnu'r gwasanaeth a ddarperir. Hefyd, dysgwn o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru, arolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion wrth iddynt ddigwydd. Rydym yn cwrdd â chynghorau tref a chymuned i rannu ein cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ac i gael adborth ar y cynlluniau hyn.

Yn ystod 2021-2022 gydag effaith Covid-19, mae ymarferion ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ymarferion ymgysylltu arferol eraill gyda defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu cyfyngu.

Serch hynny, mae adborth gan y cyhoedd sy'n derbyn gwasanaethau cymorth wedi cael ei gasglu'n rheolaidd a'i ystyried gyda grwpiau allweddol fel Sêr Saff, gan greu rhaglen gyfan o ymgysylltu a chymorth i blant a phobl ifanc ar-lein.

**Crynodeb o enghreifftiau o sicrhau llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2021-2022.**

- Cyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth asesu, cynllunio gofal ac adolygu; defnyddio Arwyddion o Ddiogelwch a Llesiant, gwaith ar ddatblygu ffurflenni a llwybrau wedi'u llywio gan ymarferwyr a rheolwyr
- Defnydd hyblyg o daliadau uniongyrchol yn lle gofal preswyl a gofal dydd
- Defnyddio technoleg i sicrhau adborth rhithiol gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Holiadur seibiant i lywio cymorth yn ystod Covid-19 i blant a theuluoedd anabl
- Datblygu holiadur adborth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â diogelu oedolion
- Gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion; gwrando ar farn plant am y gwasanaethau a ddarperir
- Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, Cynadleddau Amddiffyn Plant, Adolygiadau Gofal a Chymorth a gynhelir yn rhithiol
- Defnyddio gwasanaethau eiriolaeth rhithiol ac wyneb yn wyneb wedi'u comisiynu ar gyfer plant ac oedolion
- Pawb sy'n derbyn gofal cartref/galluogi yn cael cyfle i roi'r gorau iddi/lleihau darpariaeth i gyfyngu ar risg
- Dysgu o achosion o fewn ardaloedd penodol wedi cynnig modd adolygu a diwygio polisïau a gweithdrefnau (yn benodol mewn cartrefi gofal h.y. defnyddio cyfarpar diogelu personol, parthau diogel, atal a rheoli heintiau ac ati)
- Rhaglen drawsnewid 1 – cyflwyno'r rhaglen CONNECT
- Arolwg boddhad ieuenctid a ffurflenni adborth sesiynol
- Adborth o weithgareddau chwarae a gwyliau plant
- Adborth gan Gyngor Ieuenctid Ceredigion

# Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella

Mae Ceredigion yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Gwella Bywydau Rhanbarthol. Bob yn ail fis mae'r grŵp hwn yn cynnal cyfarfod busnes a chyfarfod sy'n cael ei arwain a'i gadeirio gan y 'Dream Team'. Grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau yw aelodau'r tîm hwn. Maent yn cael eu cynorthwyo gan Bobl Sir Benfro yn Gyntaf sy'n rhoi cymorth gweithredol i'r grŵp rhanbarthol, yn enwedig o ran defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig.

Cafodd Gwasanaethau ar gyfer Plant Anabl, Atal a Throsglwyddo eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mhedwerydd chwarter 2019-2020. Mae'r Cynllun Gweithredu a grëwyd mewn ymateb i faterion a godwyd wedi'i roi ar waith er bod Covid-19 wedi rhwystro cynnydd ar rai agweddau ac mae rhai addasiadau wedi'u gwneud.

<u>**Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu**</u>

1.1 <u>Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gallu bod yn glir ynghylch pa gymorth y gallant ei gael, sut a phryd a ble.</u>

- Manyleb gwasanaeth a chytundeb gweithio diwygiedig gydag Iechyd wedi eu gweithredu.
- Mae strategaeth cleientiaid wedi'i drafftio sy'n nodi lefelau gwasanaeth o ran y cymorth a gynigir
- Mae'r strwythur staffio ar gyfer gydol oed a llesiant wedi'i roi ar waith ac mae'r tîm gydol oed wedi'i sefydlu

1.2 <u>Paratoi a chefnogi staff i gwblhau a chofnodi asesiadau a chynlluniau gofal o ansawdd da sy'n bodloni'r holl ofynion statudol gan gynnwys anghenion cyfathrebu'r plentyn.</u>

- Mae staff wedi cwblhau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac asesu ac mae asesiad risg Covid-19 wedi'i roi ar waith.
- Mae goruchwyliaeth staff fisol ar waith i sicrhau ansawdd achosion byw.
- Defnyddio proffiliau 1 dudalen ar gyfer plant ar eu cofnod WCCIS.
- Cwblhawyd y gwaith o fapio sgiliau cyfathrebu'r staff ac mae anghenion hyfforddi wedi'u nodi. Gall rhai staff ddefnyddio Makaton lle bo angen.

1.2 <u>Paratoi a chefnogi staff i nodi asesu a darparu cymorth pan fydd angen i ofalwyr yn unol â gofynion statudol.</u>

- Mae staff yn nodi gofalwyr ac yn cynnig asesiad o anghenion cymorth gofalwyr
- Mae hyfforddiant staff ar asesiadau gofalwyr wedi'i gwblhau.
- Bydd staff yn cofnodi'r rheswm dros wrthod asesiad gofalwr os mai dyma yw'r achos.
- Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r tîm gofalwyr gydol oed a chymorth cymunedol i arwain gofalwyr i'r cyfeiriad cywir.

2.1 <u>Sefydlu'r Gofrestr Anabledd yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i defnyddio i lywio datblygu'r gwasanaeth a chomisiynu strategol yn y dyfodol.</u>

- Mae'r gofrestr yn fyw erbyn hyn ac ar wefan Cyngor Sir Ceredigion i deuluoedd roi eu data.
- Bydd hyn yn cael ei adolygu bob chwarter i nodi a llywio datblygiadau a gofynion gwasanaeth yn y dyfodol.

2.2 Gwella darpariaeth gwasanaeth a'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant anabl a'u teuluoedd yn unol â'u hanghenion.

- Cynnal adolygiadau amlasiantaethol gyda theuluoedd i nodi anghenion gan ddefnyddio dulliau rhithiol oherwydd Covid-19
- Bydd y panel anghenion cymhleth lleol yn trafod pecynnau gofal a chymorth a chomisiynu ar y cyd yn fisol.
- Mae ffurflenni cais am wasanaeth yn cael eu cwblhau ar gyfer pob gwasanaeth newydd, ac mae taliadau uniongyrchol yn cael eu cefnogi'n fewnol erbyn hyn.
- Bydd Camu Mlaen yn ystyried yr holl fyfyrwyr blwyddyn 9 a allai fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth ac yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r cynllun pan ystyrir yn briodol i ddiwallu eu hanghenion addysgol ôl-18.
- Mae DASH wedi cael y contract i gynnig penwythnosau seibiant ar gyfer rhai o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen y ddarpariaeth hon arnynt. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth seibiant.
- Bydd Ceredigion yn hapbrynu rhagor o gyfleoedd seibiant gan DASH unwaith y bydd y nifer o benwythnosau a brynwyd dan gontract wedi dod i ben.
- Rydym wedi cyflogi dau weithiwr prosiect yn y tîm i'w galluogi i wneud gwaith uniongyrchol a chynnig cymorth ymarferol pellach i unigolion a theuluoedd yn unol â'u hanghenion a aseswyd.
- Mae Ceredigion mewn trafodaethau ag awdurdodau cyfagos ynghylch hapbrynu darpariaeth seibiant ganddynt.

2.3 Mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cymorth ac yn adolygu a datblygu trefniadau comisiynu presennol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.

- Manyleb gwasanaeth yn cael ei gweithredu.
- Mae cynllun gweithredu rhanbarthol a grŵp canlyniadau plant rhanbarthol wedi'u sefydlu'n ddiweddar.
- Cynhelir cyfarfod olrhain wythnosol rhwng cymorth estynedig a chydweithwyr iechyd i drafod achosion a nodi'r person mwyaf addas i weithio gyda'r person ifanc.


2.4 Gall plant a phobl ifanc gael mwy o gymorth i fod yn annibynnol a gwella canlyniadau trwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol

- Mae cyllid Cronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi'i gytuno i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol


3.1 Datblygu fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o'i swyddogaethau a'i brosesau craidd.

- Mae templed a dulliau Arwyddion Diogelwch yn cael eu defnyddio wrth oruchwylio staff.
- Fframwaith sicrhau ansawdd i'w ddatblygu fel offeryn archwilio i reolwyr gynnal hapwiriadau archwilio ar gyfer achosion.
- Mae rheolwyr wedi cael hyfforddiant ar sgiliau goruchwylio.
- Rhaglen gymorth atal a rheoli heintiau i reolwyr ar gymorth estynedig.

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod




Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddigwyddiadau trawmatig sy'n effeithio ar blant. Gallai'r rhain ddigwydd wrth i chi dyfu, cael eich cam-drin, neu fyw mewn cartref sy'n cael ei effeithio gan drais domestig, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, neu broblemau troseddol. Mae plant sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o ddatblygu amrywiaeth o glefydau cronig a dioddef o lesiant meddyliol gwaeth.




Yn y flwyddyn 2020-2021 cynigiwyd cyfleoedd hyfforddi i staff er mwyn sicrhau ein bod ni, yng Ngheredigion, yn gallu darparu ymyriadau cynharach a helpu ein gofal proffesiynol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd hyn yn dilyn y 1829 o staff rheng flaen a gafodd eu gwneud yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod y flwyddyn flaenorol yn dilyn dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws gwasanaethau.

Er bod COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar hyfforddiant oherwydd cyfyngiadau, cafodd llawer o staff eu hyfforddi mewn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith trawma a'r effeithiau ar blant a phobl ifanc. Roedd llawer o staff yn dilyn hyfforddiant Team Teach (rheoli ymddygiad cadarnhaol) ac felly hefyd y rhaglen STAR sy'n ymdrin â cham-drin domestig a pherthnasoedd parchus. Darparwyd hyfforddiant therapi tynnu llun a siarad i 13 aelod o staff er mwyn gallu cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn dioddef o drawma neu iechyd meddwl gwael.

Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunan-niwed a hunanladdiad oherwydd natur yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon am gymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Roedd cyrsiau eraill yn cynnwys 'Cwnsela Creadigol', Model Adfer Wedi Trawma (datblygwyd Model Adfer Wedi Trawma mewn ymateb i anghenion cymhleth plant a phobl ifanc â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod lluosog.)

Yn ystod 2021-2022, mae'n ofynnol i aelodau newydd o staff fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod pan fyddant ar gael trwy dîm Dysgu a Datblygu'r sir. Cyflwynwyd hyfforddiant Team Teach i gyfanswm o 326 o staff yng Ngheredigion gan gynnwys 246 o staff mewn ysgolion a'r 80 arall gan gynnwys staff Cymorth ac Atal a staff sydd wedi bod yn cefnogi pobl ifanc a phlant sy'n agored i niwed.

Derbyniodd 11 aelod arall o'r tîm staff Cefnogi ac Atal hyfforddiant Model Adfer Wedi Trawma ym mis Mawrth gan barhau ag ymrwymiad y sir i sicrhau bod staff yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn gallu ymateb i anghenion cymhleth y plant a'r bobl ifanc hynny.

Bydd hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2022 yn cael ei ddarparu gan Bartneriaeth Gweithredu Adferol Cymru (WRAP) ar gyfer staff Cymorth ac Atal ynghyd â Dirprwy Bennaeth un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y sir fel rhan o gynllun peilot gyda'r bwriad o gyflwyno hyfforddiant Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru y flwyddyn nesaf. Bydd 36 aelod o staff yn derbyn yr hyfforddiant hwn.

## Grŵp Diogelu Plant a Phobl Ifanc Sêr Saff Ceredigion – wedi'i hwyluso gan TGP

Creodd Bwrdd Diogelu Plant Iau Ceredigion nifer o ryseitiau syml ac iach ar gyfer plant a phobl ifanc. Cawsant eu dosbarthu fel rhan o becynnau iechyd a llesiant Sêr Saff ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion, i helpu pobl ifanc, yn enwedig y rhai a allai fod yn wynebu heriau gartref, trwy roi gwybodaeth iddynt i gefnogi eu llesiant a'u hiechyd. Hefyd wedi'i gynnwys yn y Pecynnau Iechyd a Llesiant, yn ogystal â chael eu dosbarthu i bobl ifanc Ceredigion, yw calendr Sêr Saff a gafodd ei ddatblygu unwaith eto ar gyfer 2022. Mae'r calendr yn cynnwys dyddiadau diwrnodau ymwybyddiaeth allweddol sy'n berthnasol i bobl ifanc ar themâu gan gynnwys iechyd meddwl a chamfanteisio yn erbyn cefndir o olygfeydd prydferth o Geredigion a dynnwyd yn ystod yr amser a dreuliwyd gan y bobl ifanc yn mynd allan i fyd natur yn ystod y cyfnod clo.

Yn ogystal â defnyddio Zoom i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd, mae Sêr Saff hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cyfathrebu eleni trwy rannu diweddariadau cyson ar brosiectau cyfredol ar Facebook ac Instagram, a thrwy ddefnyddio "sgwrsio grŵp" i gadw mewn cysylltiad â'n gilydd.

Mae Sêr Saff Ceredigion wedi wynebu heriau tebyg i'r Bwrdd Rhanbarthol o ran recriwtio, gyda rhai aelodau presennol yn gadael oherwydd eu bod symud ymlaen i gyfleoedd newydd a symud y tu allan o'r sir gan arwain at lai o aelodaeth o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Bydd recriwtio yn ffocws yn lleol ac yn rhanbarthol yn y flwyddyn i ddod gan geisio cynnwys pobl ifanc newydd sy'n teimlo'n angerddol am ddiogelu a hyrwyddo llais plant a phobl ifanc.

Gweler adroddiadau o weithgarwch gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo diogelu a llesiant yn ystod 2021:

Diweddariad Prosiect Sêr Saff Ceredigion « TGP Cymru

Rydym hefyd yn falch iawn bod Sêr Saff Ceredigion a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi cyfrannu at waith CADW Bwrdd Diogelu Plant Iau Rhanbarthol yn 2021-22.

## Wythnos Genedlaethol Diogelu Tachwedd 2021

Bu Grŵp Gweithredol Ceredigion yn cydweithio ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i gyflwyno rhaglen o weithgareddau i gefnogi Wythnos Genedlaethol Diogelu. Roedd digwyddiadau a

chyfathrebiadau yn ystod yr wythnos yn canolbwyntio ar themâu o arwyddocâd arbennig yn ystod y pandemig, er enghraifft, cam-drin domestig, camfanteisio, hunanladdiad a hunan-niwed a hunan-esgeulustod. Cynhaliwyd nifer o seminarau a gweithdai rhithiol gyda swyddogion Ceredigion yn bresennol trwy gydol yr wythnos i archwilio'r pynciau hyn, wedi'u hategu gan ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

Canolbwyntiodd Cyngor Sir Ceredigion ar hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch a llesiant pobl hŷn sydd mewn perygl o droseddu ar-lein, sgamiau neu brofi camdriniaeth. Gan ddefnyddio ein cyfryngau cymdeithasol, darparwyd ystod eang o ganllawiau a gwybodaeth hawdd eu deall yn ymwneud â diogelwch ar-lein, yn ogystal ag awgrymiadau defnyddiol a diweddariadau ar y sgamiau diweddaraf i gadw llygad amdanynt a gwybodaeth am linellau cymorth arbenigol.

## Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu

Yn ystod 2021-22 fel rhan o'r trawsnewid tuag at y Model Gydol Oed a Llesiant, unodd dau dîm bach, yr Uned Gofalwyr a Phorth y Gymuned i greu'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.

Roedd gweithio ym mhresenoldeb Covid, am yr ail flwyddyn, wedi parhau i greu heriau i ni. Rydym wedi ymrwymo i gyfleu'r neges am bwysigrwydd y rhaglen frechu i'r gymuned, gan sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn gwybod pryd y gallent ddisgwyl eu brechiadau a'u pigiadau atgyfnerthu, a bod y rhai sy'n agored i niwed yn gwybod ble, pryd, a sut i gael eu rhai nhw.

Un o'r heriau mwyaf i ofalwyr di-dâl yw cael mynediad at ofal amgen hirdymor er mwyn iddynt gael seibiant o'u rôl ofalu. Roedd swyddi gwag staff asiantaethau gofal a staff yn ynysu oherwydd Covid yn ei gwneud hi'n anodd comisiynu gwasanaethau amgen i ofalwyr. Roedd rhai o'r ceisiadau gan gomisiynu yn mynd allan i dendr heb asiantaeth sydd â'r gallu i dderbyn cleient newydd. Er mwyn helpu i liniaru hyn, roeddem yn gallu defnyddio cyllid pwysau'r gaeaf i ymestyn y gwasanaeth gofal amgen tymor byr yr oedd Gofalwyr Ceredigion Carers yn ei gynnig o 6 wythnos i 12 wythnos. Roedd hyn yn caniatáu mwy o amser i ddod o hyd i wasanaethau hirdymor. Tua diwedd y flwyddyn roedd y Cysylltwyr Cymunedol yn gallu cynnal ymweliadau carreg drws a chymryd rhan mewn digwyddiadau awyr agored. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y tîm a'n cleientiaid, gan ganiatáu i ni gysylltu o fewn ein cymunedau a dangos i ni fod golau ar ddiwedd y twnnel. Rydym yn edrych ymlaen at fod yn ôl allan, wyneb yn wyneb, ar draws Ceredigion yn 2022/23.

Cawsom adborth gan nifer fawr o ofalwyr am ein gweithgareddau sydd wedi cynnwys Cronfa Gofalwyr Ceredigion, darpariaeth gwybodaeth, te prynhawn Cymreig 'Seibiant mewn Bocs', gwybodaeth i ofalwyr ifanc, y cylchgrawn Carers, sesiynau hyfforddi a dysgu, digwyddiadau a gweithgareddau. Defnyddiwyd yr adborth i ddangos canlyniadau cadarnhaol o'r Gronfa Gofalwyr, llywio datblygiad cylchlythyrau a digwyddiadau gofalwyr i staff a llywio datblygiad buddion y Cerdyn Gofalwyr.

Mae gofalwyr ifanc yn rhan o'n holl waith, fodd bynnag, oherwydd eu hoedran mae angen dull amgen o ymdrin â'r gwasanaethau a ddarparwn i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Eleni, fe wnaethom gydgysylltu'r gwaith o ailgomisiynu'r gwasanaeth gofalwyr ifanc yng Ngheredigion. I wneud hyn, ymgynghorwyd â gofalwyr ifanc ynghylch pa gymorth yr oeddent yn teimlo yr oedd ei angen arnynt, ble yr oeddent am ei gael, a sut a ble yr oeddent am gael mynediad iddo. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol o fewn yr awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd, a'r trydydd sector, lluniwyd manyleb gwasanaeth newydd a aeth allan i dendr yn llwyddiannus ym mis

Tachwedd 2021. Disgwylir i'r gwasanaeth newydd ddechrau ar 1 Ebrill 2022, gyda'r hen ddarparwyr a'r darparwyr newydd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau trosglwyddiad di-dor. Bu Gweithredu dros Blant, sef y gwasanaeth a gomisiynwyd o'r blaen, yn gweithio'n broffesiynol gyda'r gwasanaeth newydd i sicrhau bod y gofalwyr ifanc yn parhau i dderbyn y gwasanaeth gorau posibl yn ystod y cyfnod hwn. Hoffem ddiolch i holl staff Gweithredu dros Blant am eu hymroddiad a'u gwaith caled gyda gofalwyr ifanc yng Ngheredigion dros y blynyddoedd diwethaf.

Y darparwr gwasanaeth gofalwyr ifanc newydd yw Gofalwyr Ceredigion Carers sydd ar hyn o bryd yn darparu cymorth i oedolion sy'n gofalu yn y sir. Edrychwn ymlaen at weld sut y byddant yn datblygu ein gweledigaeth ar y cyd o wasanaeth gydol oed dros y ddwy flynedd nesaf.

Rydym hefyd wedi estyn allan at ofalwyr ifanc i adolygu'r daflen i ofalwyr ifanc sydd wedi dyddio 'Who Cares'. Gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig, gofynnwyd i'n partneriaid ddatblygu llyfryn gwybodaeth rhanbarthol newydd. Bydd y deunydd newydd yn cael ei ddosbarthu ar draws y rhanbarth fel adnodd am ddim i ofalwyr ifanc.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw bod y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol wedi gweithio ochr yn ochr ag Arad Goch, Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion a Gweithredu dros Blant i gefnogi grŵp o ofalwyr ifanc o Wasanaeth Gofalwyr Ifanc Ceredigion i greu ffilm fer sy'n addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ofalwr ifanc. Bu'r gofalwyr ifanc yn gweithio gydag Arad Goch i greu stori a sgript, ac yn ffilmio golygfeydd yn ac o gwmpas Aberystwyth, cyn golygu'r ffilm i greu ffilm fer. Cynhyrchwyd y ffilm gan ofalwyr ifanc dan arweiniad y cwmni theatr lleol, Arad Goch. Cefnogwyd y prosiect hefyd gan ddisgyblion drama lleol, a gymerodd ran yn y cynhyrchiad fel actorion ifanc.

## Cysylltwyr Cymunedol

Yn ystod 2021/22 cofnodwyd 971 o ymholiadau trwy Clic, trwy'r e-bost, post, ffôn, a gwefan Ceredigion.

Cyfeiriwyd 468 o unigolion a grwpiau cymunedol at wasanaethau'r Cyngor, gwasanaethau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector.

Y 5 prif fwlch cymorth a nodwyd oedd;

- Trafnidiaeth
- Cyfeillio
- Gwasanaethau eistedd
- Prydau bwyd gartref
- Tasgmon

Drwy gydol 2021/22, roedd y tîm wedi parhau i gadw adnoddau cymunedol Covid yn gyfredol, gan roi cyfle i ni nodi bylchau yn y gwasanaeth a ble oedd angen penodol i weithredu er mwyn llenwi'r bylchau hynny. Roedd cynnydd yn y ceisiadau am wybodaeth ynghylch cael pryd ar glud, gan gleientiaid a gweithwyr proffesiynol, yn dangos nad oedd gan bobl mewn ardaloedd penodol o'r sir fynediad at y gwasanaeth hwn. Yn dilyn ymarfer mapio, a gynhaliwyd gan y tîm, cafodd sawl ardal ddaearyddol ei nodi fel blaenoriaeth a phenderfynwyd cysylltu â busnesau a mentrau lleol i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb yn y cyfle i ddatblygu gwasanaeth i ateb angen y gymuned leol.

# Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion

Mae Tîm Rhianta a Chymorth i Deuluoedd Ceredigion – Tîm o Amgylch y Teulu, Gweithwyr Teulu (Tîm Teulu yn flaenorol) a Chanolfan Teulu Penparcau yn darparu cymorth cynnar i'r teuluoedd a'r plant mwyaf agored i niwed er mwyn atal problemau rhag digwydd neu ymyrryd yn gynnar cyn iddynt waethygu. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda rhwydwaith teulu cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar unigolyn. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda'r teulu i nodi a mynd i'r afael â'r materion trwy ddatblygu a chryfhau eu cysylltiadau, perthnasoedd, a sgiliau i adeiladu gwydnwch a chefnogi eu llesiant.

**Tîm o Amgylch y Teulu**
Yn 2021-22 cwblhaodd y Tîm o Amgylch y Teulu 180 o asesiadau JAFF, ac roedd 14 ohonynt yn ymwneud â phlant â gofyniad dysgu ychwanegol penodol neu anabledd.

Yn flynyddol, mae tua 35% (oddeutu 63) o'r ceisiadau yn ail-atgyfeiriadau (yn aml flynyddoedd yn ddiweddarach) pan fydd teuluoedd yn cyrraedd cyfnod bywyd gwahanol ac yn cael eu hystyried yn effeithiol yn yr achosion blaenorol ac yn gofyn am gymorth unwaith eto.

Nodwyd bod gan 31 o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd bryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau gyda chyfran o'r rhain hefyd yn dangos ffactorau eraill a fyddai'n cyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Bu gwelliannau sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu o fewn pum diwrnod gwaith sy'n adlewyrchu'r cynllunio a'r newidiadau a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynhelir cyfarfodydd dyrannu yn wythnosol bellach lle caiff atgyfeiriadau eu trafod a'u dyrannu i'r gweithiwr priodol yn y cyfarfod.

Mae Tîm o Amgylch y Teulu Ceredigion bellach yn rhan o'r tîm rhianta a chymorth i deuluoedd ehangach ar ôl integreiddio ar ddiwedd 2021. Cynhaliwyd cyfarfodydd gwybodaeth i randdeiliaid i roi gwybod am y newidiadau hyn. Mae gweithgor gorchwyl a gorffen hefyd wedi'i sefydlu i edrych ar ddogfennaeth ac adnoddau cyfredol ac mae'n gweithio'i ffordd trwy symleiddio gwybodaeth gyda'r strwythur newydd.

**Cymorth i Deuluoedd**
Darperir Cymorth i Deuluoedd gan garfan fach o weithwyr cymorth i deuluoedd sy'n cynorthwyo teuluoedd i wneud y newidiadau a nodwyd gan ganolbwyntio ar rianta a newid ymddygiad.

Eleni derbyniodd ein gweithwyr cymorth i deuluoedd (nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg) 218 o atgyfeiriadau. O'r rheini, dim ond 10 gafodd eu cyfeirio at wahanol lwybrau cymorth. Gwrthododd 43 gymorth neu'r gwahoddiad i fynychu rhaglen rianta.

Dywedodd 45% o'r teuluoedd a dderbyniodd ymyrraeth gynnydd yn eu llesiant a dywedodd 36% fod cynnydd mewn gwydnwch cymunedol.

Mae'r tîm yn parhau i addasu adnoddau ac ymyriadau ar gyfer cyflwyno rhithiol, fodd bynnag ers i gyfyngiadau Covid ddod i ben mae cyrsiau hefyd yn cael eu hwyluso yn bersonol. Y cyrsiau a'r

gweithdai sy'n cael eu cyflwyno yw Yr Ymennydd sydd ar Fai; Cysylltiadau Teuluol; Cymorth Rhianta un-i-un sesiynau Stori a Sbri i rieni ifanc/rhieni plant bach, a'r Rhaglen Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig.

Yng ngwanwyn 2022 mynychodd staff SPACE Training, sef rhaglen sy'n ceisio helpu rhieni a phlant sydd wedi profi trawma. Mae gweithwyr teulu yn gobeithio hwyluso'r rhaglen yn ystod gaeaf 2022.

Yn ystod 2021/2022 mae gweithwyr teulu wedi datblygu a hwyluso rhaglen cyflwr ar y sbectrwm awtistig yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at rieni plant a phobl ifanc sydd yn y cyfnod cyn diagnosis ac ar restr aros y tîm datblygu niwrolegol am asesiad cyflwr ar y sbectrwm awtistig.

Mae'r rhaglen yn profi'n llwyddiannus, gyda llawer o asiantaethau allanol yn mynychu fel siaradwyr gwadd. Mae'r rhain yn cynnwys therapyddion lleferydd, arbenigwyr coluddyn a bledren a therapyddion galwedigaethol.

Mae gweithwyr teulu yn parhau i gefnogi teuluoedd ar sail un-i-un a chreu rhaglen gymorth wedi'i theilwra. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal sesiynau galw heibio yn y Ganolfan Teulu ar gyfer teuluoedd i helpu gydag ymddygiad heriol, caledi, a chreu man diogel iddynt gwrdd â rhieni eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.

**Canolfan Teulu Penparcau**
Nid yw Canolfan Teulu Penparcau wedi cael ei defnyddio i'w llawn botensial oherwydd y cyfnod clo a gwasanaethau'n cael eu darparu'n rhithiol. Fodd bynnag, mae sesiynau Stori a Sbri wedi bod yn cael eu cynnal yno ers haf 2022. Mae'r Ganolfan Teulu wedi cael ei defnyddio ar gyfer sesiynau cyswllt ar gyfer y tîm plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â sesiynau tiwtora un-i-un.

Fel y soniwyd eisoes, mae cynlluniau i hwyluso sesiynau galw heibio yn y ganolfan yn ogystal â hwyluso'r rhaglen SPACE yn ystod gaeaf 2022.

## Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion

Mae'r Gwasanaeth Cymorth ac Atal wedi'i ffurfio o dimau amlddisgyblaethol gyda'r nod cyffredinol o ddarparu dulliau dan arweiniad plant, pobl ifanc a'r teulu i alluogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ehangach gael eu grymuso, i gyflawni, i ddatblygu'n bersonol, yn emosiynol, yn gymdeithasol a bod y gorau y gallant fod. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Arwyddion Diogelwch yn sail i bopeth a wnawn. Mae ein timau yn darparu cymorth cyffredinol ac â ffocws i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys:

- **Gwaith ieuenctid ac ymgysylltu;** Gwaith ieuenctid yn yr ysgol, dilyniant addysg, dysgu achrededig a chyfranogiad

Mae Gweithwyr Ieuenctid mewn ysgolion yn ymgysylltu â phobl ifanc 11-18 oed mewn cyd-destunau cyffredinol ac â ffocws. Mae Gweithwyr Ieuenctid yn ceisio adeiladu a chynnal perthnasoedd ystyrlon â phob disgybl ysgol; mae hynny'n cynnwys disgyblion a gyfeiriwyd yr ystyrir eu bod mewn perygl o ymddieithrio o addysg brif ffrwd oherwydd un neu lu o resymau.

Mae Gweithwyr Ieuenctid yn ffurfio perthnasoedd yn seiliedig ar ymgysylltu gwirfoddol. Trwy weithio gydag unigolion gall Gweithwyr Ieuenctid ddylunio cynllun wedi'i deilwra sy'n cynnig cymorth ar ffurf

anghenion personol, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yr unigolyn. Gellir cyflawni hyn o fewn a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol a bod yn gymorth wedi'i dargedu ac yn gymorth cyffredinol.

- **Cymorth a Chyflawniad;** Mentora cynradd/uwchradd, pontio, llesiant emosiynol, anogaeth ac allgymorth

Mae'r Mentoriaid Sgiliau Plant a Phobl Ifanc yn cefnogi plant a phobl ifanc a allai ddangos ymddygiad heriol oherwydd eu profiadau cymdeithasol ac emosiynol. Mae mentoriaid yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a lleoliadau addysg eraill.

Mae mentoriaid yn hyrwyddo dull cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn deall yn well y rhesymau dyfnach pam mae plant yn gweld eu hamgylchedd presennol yn heriol mewn lleoliadau un-i-un a grwpiau bach â ffocws. Mae hyn er mwyn helpu i reoli eu hemosiynau, gan sianelu eu hegni'n gadarnhaol trwy ganolbwyntio ar gyrhaeddiad, yn addysgol ac yn bersonol.

- **Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal**; cymorth 16-24, allgymorth cymunedol, canolfannau ieuenctid, darpariaethau cyffredinol â ffocws

Mae ein tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn darparu ymyriadau wedi'u targedu a chyffredinol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau risg posibl neu faterion sylfaenol megis materion teuluol, cymdeithasol, unigol, addysgol, neu iechyd meddwl ac emosiynol a allai eu rhoi mewn risg uwch o droseddu ac aildroseddu, ond hefyd yn eu hatal rhag bod angen ymyrraeth statudol bellach, megis gwasanaethau iechyd meddwl proffesiynol, ymyrraeth feddygol bellach a hyd yn oed cymorth tai er enghraifft.
Mae'r darpariaethau'n amrywio o weithgareddau allgymorth, symudol a datgysylltiedig, canolfannau ieuenctid a chlybiau, a rhaglenni a phrosiectau cydweithredol wedi'u targedu.

- **Llwybrau Cymorth**; ymyriadau gydol oed, dyraniadau, sgrinio, sicrhau ansawdd, dadansoddi data a pherfformiad, cymorth adnoddau

Y tîm Llwybrau Cymorth yw'r porth ar gyfer yr holl atgyfeiriadau i Borth Cymorth Cynnar a'i wasanaethau p'un a ydynt yn dod trwy Clic neu'n cael eu brysbennu gan Borth Gofal. Mae'r tîm yn rhoi cymorth uniongyrchol i bob gwasanaeth ym Mhorth Cymorth Cynnar i nodi, dyrannu, monitro a gwerthuso ymyriadau neu gymorth.

Mae'r tîm yn cefnogi'r protocolau 'camu i fyny a chamu i lawr' trwy weithio gyda Phorth Cynnal a Phorth Gofal i sicrhau cymorth amserol ac effeithiol i blant/pobl ifanc, oedolion ac i deuluoedd/gofalwyr.

Mae'r tîm hefyd yn helpu i oruchwylio data a phrosesau sicrhau ansawdd gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar, gan sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion dinasyddion mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

**Ciplun o'r gwasanaeth 2021/22:**

- ❖ Roedd 520 o blant a phobl ifanc yn **agored i gael cymorth**
- ❖ 74% o achosion yn rhai 'agored i niwed', 15% yn 'gymhleth', a 10% yn 'gyffredinol'
- ❖ 160 o ddisgyblion ar gyfartaledd yn cael cymorth wythnosol gan Weithiwr Ieuenctid yn yr ysgol
- ❖ **Mentoriaid Sgiliau** wedi cefnogi 150 o ddisgyblion bob wythnos ar gyfartaledd

- 15 o ddisgyblion oedran cynradd yn cael **cymorth 1:1 wythnosol gyda 34 arall yn defnyddio rhaglenni anogaeth** wythnosol yn y gymuned
- 100 o achosion i gefnogaeth mentor wedi'u cau yn dilyn canlyniad cadarnhaol h.y. ailintegreiddio, cyfeirio
- 170 o ddisgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio/cael eu gwahardd wedi cymryd rhan mewn prosiectau wedi'u targedu wythnosol fel Llwybrau, Cwrs Phoenix, Tonic Surf ac ati.
- 68 o ddisgyblion wedi'u **huwchgyfeirio** i Banel Strategol PCC ar gyfer camu i fyny/uwchgyfeirio i wasanaeth statudol oherwydd cymhlethdod
- 30 o ddisgyblion agored i niwed oedd mewn perygl o ymyrraeth statudol yn cael eu **monitro** bob wythnos
- 75 o blant a phobl ifanc ar gyfartaledd yn cael mynediad i weithgareddau cyffredinol ac allgwricwlaidd wythnosol (clybiau ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid a rhaglenni cymunedol)
- 228 o blant a phobl ifanc wedi cael mynediad **i raglenni gweithgareddau gwyliau**
- 105 o bobl ifanc 16-18 oed a 76 arall rhwng 18-25 oed wedi'u cyfeirio at y **tîm gwaith ieuenctid cymunedol** oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar eu llwybr i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant megis camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, a digartrefedd ieuenctid. 90 o weithdai wedi'u darparu gyda 66 o bobl ifanc yn dechrau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn llwyddiannus a 48 o bobl ifanc yn adrodd cynnydd o ran hunan-effeithiolrwydd a hyder
- 7 aelod ychwanegol o staff wedi ymuno â'r gwasanaeth, **cyfradd cadw 90%**
- **Ymarfer Arwyddion Diogelwch** wedi'i weithredu mewn prosesau atgyfeirio, dyrannu a monitro
- 90% wedi'u hyfforddi yn y **Model Adfer Wedi Trawma**, **Team Teach** lefel 2 a **Dulliau Adferol**

## Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru

Cwblhaodd arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad sicrwydd iechyd yng Ngheredigion rhwng 10 – 14 Mai 2021 gan ganolbwyntio ar ddwy llinell ymholi allweddol ac adrodd ar eu canfyddiadau yn unol â phedair thema Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Diogelwch a Llesiant.

**Llinellau Ymholi:**

- Sut mae Ceredigion wedi cefnogi'r rhai sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yn ystod y pandemig

- Sut mae Ceredigion wedi atal yr angen i blant gael gofal gan yr awdurdod lleol ac wedi dychwelyd plant i'w cartrefi pan fo'n ddiogel i wneud hynny.

Adolygodd yr Arolygwyr ffeiliau achos oedolion a phlant ac olrhain detholiad o achosion yn fanwl. Yn ogystal, buont yn siarad â darparwyr, pobl ifanc â phrofiad o ofal, y rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr di-dâl, gofalwyr maeth, grwpiau ffocws o ymarferwyr, rheolwyr tîm, arweinwyr corfforaethol, swyddogion adolygu annibynnol a rheolwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a Gwasanaethau Maethu.

Yn dilyn yr arolygiad adroddwyd fel a ganlyn;

Gwelsom fod **lleisiau pobl yn cael eu clywed,** bod eu dewisiadau'n cael eu parchu, a bod pobl yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt fel mater o drefn. Roedd tystiolaeth yn y rhan fwyaf o

gofnodion achos bod y "cynnig gweithredol" o'r Gymraeg wedi cael ei wneud. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr a bod eu llwyth gwaith yn hylaw. Yn ystod y gwiriad sicrwydd gwelwyd bod morâl staff yn dda ac roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gadarnhaol am eu profiad o weithio i'r Awdurdod Lleol.

Mae uwch arweinwyr yn dangos dealltwriaeth dda o fanteision mabwysiadu **dull ataliol** a gallant gyfleu'r rhesymeg dros eu cyfeiriad strategol a'u huchelgais ar lafar a thrwy ddogfennaeth strategol. Maent wedi gweithio'n galed i ad-drefnu'r gwasanaeth ac wedi datblygu model gweithredu gydol oed a llesiant gyda'r ffocws ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir. Mae atal neu ohirio datblygiad gofal a chymorth wedi'i alinio'n agos yng Ngheredigion â chyfrifoldebau awdurdodau lleol eraill gan gynnwys tai, hamdden ac addysg.

O ran **partneriaeth ac integreiddio,** yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn datblygu perthnasoedd gwaith proffesiynol gyda phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Mae pobl yn cael eu cefnogi i nodi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a sut y gallent gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

O ran **hyrwyddo diogelwch a llesiant,** dywedodd y bobl y siaradom â nhw fod yr Awdurdod Lleol wedi cadw mewn cysylltiad diogel â nhw trwy gydol y pandemig. Lle bo angen, mae cyswllt uniongyrchol diogel wyneb yn wyneb wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg Covid, a chanllawiau iechyd y cyhoedd. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr a darparwyr yn gweithio'n greadigol fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol. Roedd ansawdd yr asesiadau, y cynlluniau gofal a chymorth a'r cofnodion a welwyd yn amrywio. Nid oedd rhai o'r dogfennau a adolygwyd bob amser yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud. Gwelsom rai enghreifftiau lle byddai ffocws mwy penodol ar gryfderau wedi bod yn fuddiol o ran edrych ar y person a'i amgylchiadau unigol mewn ffordd gyfannol.

Yn gyffredinol, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru nifer o gryfderau a rhai meysydd i'w gwella ac mae cynnydd y meysydd hyn wedi'u trafod yng nghyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru gyda'r Cyfarwyddwr a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

## Cwynion a Chanmoliaeth

**Cyflwyniad**
Bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at holl gwynion a chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniwyd yn ystod 2021-2022. Fodd bynnag, cynhwyswyd y data hwn yn Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer 2021-2022, a oedd yn cyd-fynd â Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr un cyfnod adrodd. Cyflwynwyd y dogfennau uchod i'r pwyllgorau canlynol yn ystod 2022 (wedi'u darparu fel hyperddolenni i'r tudalennau perthnasol ar wefan y Cyngor, os oes angen rhagor o wybodaeth):

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 27-09-22
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol 03-10-22
- Cabinet 01-11-22
- Cyngor – 24-11-2022 – papurau heb eu cyhoeddi ar adeg ysgrifennu

Cafodd Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 eu gweithredu'n llawn gan y Cyngor, a'r ddogfen hon yw'r canllawiau sy'n sail i Bolisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ei hun.

Cymeradwywyd y Polisi gan Bwyllgor Cabinet y Cyngor ar 17 Mawrth 2020, ac mae'n nodi'r gofynion a osodwyd ar staff o fewn Gwasanaethau Porth Cynnal a Phorth Gofal a Thîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor. Mae hyn yn hybu atebolrwydd ac yn sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i ddelio â chwynion yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor, yn ogystal â sicrhau bod y broses yn hygyrch, yn deg ac yn dryloyw.

**Gweithgarwch Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn llwyddiannus, a chofnodir y mater fel 'ymholiad/pryder'. Os na ellir datrys y mater yn gynnar, neu os yw'r materion sy'n cael eu codi o natur ddifrifol neu gymhleth, caiff pryderon sylw yn unol â'r gweithdrefnau cwynion ffurfiol y cyfeirir atynt uchod.

Mae'r Cyngor yn gweithredu proses gwynion dau gam ac mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cysylltu â'r Rheolwyr Corfforaethol perthnasol i sicrhau bod y lefel briodol o atebolrwydd yn cael ei chynnal a bod y broses gywir yn cael ei dilyn ar bob cam.

Yn ystod 2021-2022 derbyniwyd 62 o ymholiadau/pryderon a chafodd y mwyafrif o'r rhain eu datrys yn foddhaol heb fod angen bwrw ymlaen â nhw o dan y gweithdrefnau cwynion.

Mae'r data a ddarperir yn ymwneud â'r holl gwynion a gafodd sylw o dan Gam 1 a Cham 2 yn ystod y flwyddyn adrodd. Cam 2 yw'r cam olaf o dan weithdrefn gwynion y Cyngor ei hun; fodd bynnag, mae gan achwynwyr yr hawl i gyfeirio eu pryderon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn parhau'n anfodlon ar ôl Cam 2.

Rhaid nodi bod y wybodaeth a ddarperir yn ymwneud â chwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn unol â naill ai Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 neu Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 yn unig, a rhai cwynion ynghylch Porth Cynnal a Gwasanaethau Porth Gofal.

<u>Cyfanswm y cwynion a ddaeth i law yn ystod 2021–2022</u>


| Maes Gwasanaeth | Cam 1 | Cam 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Porth Cynnal | 9 | 12 | **21** |
| Porth Gofal | 1 | 0 | **1** |
| | **10** | **12** | **22** |


Derbyniwyd cyfanswm o 22 o gwynion mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn 2021-2022. Mewn cymhariaeth, derbyniwyd 24 o gwynion ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-2021 sy'n dangos gostyngiad bach yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gydweithio'n agos â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth trwy fynd ati i ddatrys unrhyw bryderon ac ymholiadau sy'n dod i law yn gynnar. Gellir dangos hyn trwy gymharu nifer yr ymholiadau/pryderon yn erbyn nifer yr achosion yr oedd angen eu hystyried o dan y drefn gwynion ffurfiol (h.y. caewyd 64% o'r holl gysylltiadau a dderbyniwyd gan y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r Porth Cynnal neu'r Porth Gofal heb fod angen eu huwchgyfeirio).

**Data cymharol**
Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad, dim ond ar ddechrau 2020 y cafodd systemau cofnodi cwynion a rhyddid gwybodaeth eu halinio â'r strwythurau gwasanaeth a weithredwyd fel rhan o Strategaeth Gydol Oed a Llesiant y Cyngor. Felly dim ond cymhariaeth uniongyrchol y gellir ei gwneud rhwng perfformiad Gwasanaethau Porth Cynnal a Phorth Gofal, mewn perthynas â gweithgarwch cwynion, ar gyfer y blynyddoedd 2020-2021 a 2021-2022.

O ganlyniad, mae'r data a gafodd eu cynnwys yn adroddiadau blaenorol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u darparu isod. Darperir hefyd gynrychiolaeth weledol o weithgarwch y gŵyn ar gyfer y strwythurau gwasanaeth presennol (h.y. ar gyfer 2020-2021 a 2021-2022).




**Canlyniadau Cwynion fesul Gwasanaeth**
Ceir dadansoddiad o nifer y cwynion a'u canlyniadau isod fesul maes perthnasol:

| Porth Cynnal | Heb eu cadarnhau | Wedi eu cadarnhau'n (Yn llwyr neu'n rhannol) | Yn parhau/ Wedi'u hatal dros dro |
|---|---|---|---|
| Gofal Wedi'i Gynllunio (Oedolion) (3) | 2 | | 1 |
| Gofal Wedi'i Gynllunio (Plant) (3) | 2 | | 1 |
| Diogelu (4) | 5 | | 2 |
| Cymorth Estynedig (9) | 5 | 4 | |
| **Cyfanswm** | **14** | **4** | **3** |

| Porth Gofal | Heb eu cadarnhau | Wedi eu cadarnhau'n (Yn llwyr neu'n rhannol) | Yn parhau/ Wedi'u hatal dros dro |
|---|---|---|---|
| Brysbennu Porth Gofal (1) | | | 1 |
| **Cyfanswm** | | | **1** |

**Terfynau Amser Cam 1**

O'r **10** cwyn a ystyriwyd o dan Gam 1; ymatebwyd i **3** ohonynt o fewn y terfynau amser penodedig (h.y. 15 diwrnod gwaith) ac ymatebwyd i **7** achos arall y tu allan i'r terfynau amser.




**Terfynau Amser Cam 2**

Roedd **11** o'r **12** cwyn yr ymchwiliwyd iddynt o dan Gam 2 o weithdrefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd hwy na'r terfynau amser penodedig (h.y. o fewn 25 diwrnod gwaith i'r gŵyn gael ei chytuno gan bob parti).
Fodd bynnag, ymchwiliwyd i bob achos yn annibynnol, fel y nodir yn y canllawiau statudol a chyhoeddwyd pob ymateb ffurfiol cyn gynted â phosibl.

**Dadansoddiad**

Nid oedd nifer y cwynion a gafodd eu hystyried o dan weithdrefn gwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn (2021-2022) yn annhebyg i'r lefelau gweithgarwch a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y cwynion a ystyriwyd o dan Gam 2 yn 2021-2022.

Roedd amseroedd ymateb ar ddau gam y broses gwynion hefyd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, er y cydnabyddir yr ymatebwyd i bob un ond un o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt o dan Gam 2 yn ystod y cyfnod hwn y tu allan i'r terfynau amser a bennwyd. Nid yw hyn, ynddo'i hun, yn peri pryder mawr oherwydd rhaid rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, ac y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau o'r fath.

Derbyniodd Porth Cynnal fwy o gwynion fesul gwasanaeth, ond mae hyn yn bennaf oherwydd natur y gwasanaethau hyn a chymhlethdod yr achosion y maent yn delio â nhw.

O'r 22 o gwynion a dderbyniwyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, cadarnhawyd 4 yn dilyn ymchwiliad, sy'n cyfateb i 17% o'r holl gwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol o'i gymharu â'r data sydd ar gael ar gyfer 2020-2021 a ddaeth i'r casgliad bod 58% o'r holl gwynion wedi'u cadarnhau (h.y. wedi'u cyfiawnhau).

### Themâu a thueddiadau

Mae cyfathrebu gwael yn parhau i fod yn ffactor cyson yn y rhan fwyaf o gwynion, ac yn y rhan fwyaf o achosion gellir mynd i'r afael â'r rhain yn brydlon ar lefel gwasanaeth i atal y materion rhag gwaethygu'n ddiangen. Roedd hyn yn wir yn achos 62 o ymholiadau/pryderon a adroddwyd uchod sy'n llawer uwch na nifer yr achosion a symudodd ymlaen wedi hynny o dan y broses gwynion ffurfiol.

### Terfynau Amser

Fel y nodwyd yn 2020-2021, mae angen gwella'r amseroedd ymateb yng Ngham 1 y broses gwynion. Mae gofyniad yng Ngham 1 i gynnig 'trafodaeth' rhwng yr achwynydd a'r Rheolwr Corfforaethol perthnasol. Felly, roedd sicrhau bod rheolwyr ar gael yn ystod y pandemig yn heriol, yn ogystal â cheisio cydlynu pryd oedden nhw a'r achwynydd ar gael. Felly mae methu â bodloni terfynau amser penodedig o dan yr amgylchiadau hyn yn ddealladwy. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

### Gwersi a Ddysgwyd

Ym mhob achos lle tybir bod cwyn yn cael ei chadarnhau (naill ai yn ei chyfanrwydd neu elfennau penodol ohoni) mae'n hollbwysig bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith i ddysgu gwersi ac atal unrhyw ailadrodd yn y dyfodol. Rhoddir enghreifftiau isod o rai o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2021-2022.

- *Cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth yn rhoi gwelliannau ar waith yn y broses i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth yn amserol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn ogystal, gosodwyd rhannu gwybodaeth fel eitem ar agenda'r cyfarfod perthnasol pan ddaw gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i reoli pryderon, a ddylai felly atal unrhyw oedi diangen mewn perthynas â'r materion hyn rhag digwydd yn y dyfodol.*

- *Cytunodd y Cyngor i nodi unrhyw anghenion hyfforddi neu friffio o fewn y Gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas â gwahanol fodelau darparu gofal a chymorth a materion cysylltiedig o ran galluedd meddyliol, colli rhyddid, gofal wedi'i lywio gan drawma.*

- *Bydd yr holl Weithwyr Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn cael eu hysbysu, yn ysgrifenedig a thrwy gyfarfod tîm ac o dan oruchwyliaeth y Rheolwr Tîm, o'u cyfrifoldeb i rannu canlyniadau ymholiad Adran 47 gyda rhieni, yn unol â'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd staff yn cael eu hysbysu bod yn rhaid rhannu'r wybodaeth hon ar ôl i broses Adran 47 ddod i ben a chyn i rieni dderbyn adroddiadau sydd i'w cyflwyno mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.*

**Cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Yn ystod 2021-2022 derbyniodd y Cyngor naw cyswllt newydd gan swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd y rhain eu categoreiddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (6)
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant (3)

Nid yw hyn yn cynrychioli unrhyw newid yn nifer y cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a dderbyniwyd o'i gymharu â 2020-2021, a chynnydd (o un achos) ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Ni chafodd yr un o'r cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad ffurfiol er bod pedwar achos wedi cael eu datrys trwy ddatrysiad cynnar/setliad gwirfoddol:

| Gwasanaeth a Chyfeirnod | Crynodeb o'r Gŵyn | Camau Gweithredu a Gytunwyd |
|---|---|---|
| Porth Cynnal<br><br>(202106308) | Cwyn ynghylch y profiad a gafwyd gyda'r Cyngor, a bod y Cyngor wedi methu ag uwchgyfeirio'r gŵyn i gŵyn cam 2 pan ofynnwyd am hynny. | Cytunodd y Cyngor y byddai'r gŵyn yn cael ei huwchgyfeirio i ymchwiliad cam 2. Cytunwyd hefyd i anfon llythyr ymddiheuro at yr achwynydd am yr oedi wrth uwchgyfeirio'r gŵyn pan ofynnwyd am hynny. |
| Delio â Chwynion/Porth Cynnal (202100516) | Roedd y Cyngor wedi methu ag ymdrin â chwyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn modd amserol. | Cytunodd y Cyngor i gynnig taliad "amser a thrafferth" o £150 i'r achwynydd; rhoi ymddiheuriad ffurfiol i fynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd mewn perthynas â thrin y gŵyn, yn ogystal â chysylltu â'r achwynydd i gadarnhau y byddai ei gŵyn yn cael ei hymchwilio yn unol â'r cam mwyaf priodol o weithdrefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Delio â Chwynion/Porth Cynnal (202102036) | Cwyn nad oedd y Cyngor wedi darparu ymateb i'r achwynydd i'w gŵyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2020. | Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro i'r achwynydd am yr oedi cyn ymateb i'w gŵyn yn ogystal ag egluro'r oedi. Cytunodd y Cyngor hefyd i ddarparu ymateb i gŵyn a chynnig £200 i gydnabod yr amser a'r drafferth o wneud ei gŵyn. |

| | | |
|---|---|---|
| Delio â Chwynion/Porth Cynnal (202106906) | Roedd y Cyngor wedi methu ag ymateb i gŵyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd wedi methu ag ymateb i'w lythyrau. | Cytunodd y Cyngor i gysylltu â'r achwynydd i sefydlu a hoffai i'w gŵyn gael ei thrin ar gam 1 neu 2 o drefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparodd y Cyngor ymddiheuriad hefyd am fethu ag ymateb i'w lythyrau. |

Daeth y 5 achos arall i ben fel a ganlyn:

- Caewyd pedwar achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol gan yr Ombwdsmon (e.e. roedd yn fodlon nad oedd unrhyw gamweinyddu ar ran y Cyngor neu ni fyddai llawer i'w ennill pe bai'r Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn).

- Roedd 1 achos yn parhau i gael ei ystyried gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2022.

**Canmoliaeth**

Derbyniwyd cyfanswm o 104 o ganmoliaethau sydd wedi'u dadansoddi fesul gwasanaeth:

| Maes Gwasanaeth | Canmoliaeth a dderbyniwyd |
|---|---|
| Porth Cynnal | 27 |
| Porth Gofal | 77 |
| **Cyfanswm** | **104** |

**Rhoddir enghreifftiau o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd isod:**

"Roeddem ni'n ddiolchgar iawn am yr amser a gymerodd X i ymweld â ni ac asesu ein hanghenion am wasanaethau gofal a chymorth. Roedd hi'n drylwyr iawn wrth egluro i'r ddau ohonom ni sut y bydd y pecyn gofal a chymorth yn gweithio, ac mae fy ngŵr a minnau'n hapus i dderbyn ei argymhellion." — **Porth Cynnal**

"Diolch am wneud i mi deimlo'n ddiogel, mae'n rhoi tawelwch meddwl i mi" – *Porth Gofal*

"Hoffwn i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'r holl ofalwyr am y cymorth a'r gofal a gafodd mam. Rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr." – *Porth Gofal*

"Diolch yn fawr iawn am drefnu'r cyfarfod adolygu ac am y ffordd wych roeddech chi wedi delio â sefyllfa anodd iawn. Rwy'n ddiolchgar iawn am bopeth rydych yn ei wneud i helpu mam" – *Porth Gofal*

"Mae ein teulu yn gwerthfawrogi cefnogaeth a charedigrwydd Gweithiwr Cymdeithasol Dad, a dod o hyd i gartref addas iddo fe. Rydym ni'n ddiolchgar bod e'n agos i ni ac yn hapus gyda'r cartref." – *Porth Cynnal*

**Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd gan Wasanaethau Porth Cymorth Cynnar**

"Neges sydyn i ddiolch am yr anrheg hyfryd o de prynhawn i ddau a gawson ni trwy'r post. Rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn."

"Mae gennym ni Daliadau Uniongyrchol ar gyfer aelod o'r teulu ac roedd yn anodd am rai blynyddoedd i gael y Cynorthwyydd Personol a'r person iawn. Nawr bod gennym ni'r person iawn mae e'n mwynhau mynd allan am ychydig oriau sy'n wych – mae'n dda iddo fe fynd allan heb i ni orfod bod yno gyda fe trwy'r amser. Mae angen iddo fel gael amser i'w hunan hefyd."

# 4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu

**Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol yn erbyn y canlyniadau llesiant yw:**

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl
3. Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
4. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
5. Rhoi cymorth i bobl ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
6. Gweithio gyda phobl a rhoi cymorth i bobl gael mwy o lesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n ateb eu hanghenion

## Beth wnaethom ni gynllunio i'w wneud y flwyddyn ddiwethaf?

Mae ein hamcanion yn canolbwyntio ar ddull gweithredu gydol oed a theulu tra hefyd yn bodloni anghenion oedolion a phlant yn unol â gofynion statudol ac arfer gorau.

**Amcan Covid-19**

- Parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner i leihau'r risg o ledaenu'r haint
- Gweithredu cynlluniau addasu yn effeithiol
- Adfer

**Amcan Gwella 1**

Sicrhau bod trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyflawni yn ystod 2021/22 mewn partneriaeth â gwasanaethau corfforaethol ac asiantaethau partner eraill.

- Gweithio mewn partneriaeth ar y cynllun ad-drefnu corfforaethol, gan alluogi dull gweithredu effeithlon ar draws y Cyngor cyfan
- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer gofal cymdeithasol wedi'u diffinio'n eglur o fewn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle er mwyn i ddinasyddion allu cyflawni eu canlyniadau personol

**Amcan Gwella 2**

Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol lais cryf yn y rhanbarth o hyd

- Sicrhau cyfranogiad ymrwymedig rheolaidd ym mhob digwyddiad partneriaeth rhanbarthol gan staff perthnasol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau trwy'r rhanbarth ac yn genedlaethol

**Amcan Gwella 3**
Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn effeithiol, ynghyd â'i bartneriaid, wrth sicrhau a defnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu canlyniadau gwell i bobl yng Ngheredigion

- Parhau i ddatblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i hybu'r agenda gweithio integredig, gan gynnwys y Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

**Meysydd i'w Datblygu:**

**Porth Cymorth Cynnar**

- Canolfannau Llesiant – datblygu cyfleusterau sy'n gwella'r cynnig gweithgarwch corfforol a hamdden craidd gyda mannau cyfarfod, ymgynghori a thriniaeth. Bydd y Ganolfan Llesiant yn ymgorffori gwasanaethau sy'n ystyried ac yn gwella agweddau corfforol, cymdeithasol, emosiynol a meddyliol llesiant unigolyn ac yn cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni eu potensial llawn.
- Datblygu a darparu ymhellach weithgareddau ac ymyriadau cymunedol cyfunol, â ffocws gydol oedran i alluogi grymuso, gwydnwch ac annibyniaeth.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddatblygu ystod o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion sy'n esblygu o fewn ein cymunedau i gefnogi a galluogi unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu.

**Porth Gofal:**

- Datblygu gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol yn fewnol
- Gofal Cartref – dilyniant gyda model darparu gwasanaeth hybrid gyda Galluogi
- Gweithredu'r Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid 3
- Maethu – cynllun datblygu gwasanaeth gan gynnwys recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth newydd
- Adolygu Gwasanaethau Dydd – canolbwyntio ar wydnwch cymunedol ac unigol, strategaethau atal a grymuso a chyfleoedd seibiant

**Porth Cynnal:**

- Datblygu dulliau atal ac adfer ar draws Gwasanaethau Porth Cynnal a'r Model Gydol Oed a Llesiant a chydag asiantaethau partner sy'n canolbwyntio ar lesiant meddwl, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau
- Mentrau Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal Diogel
- Prosiectau rhanbarthol a lleol: datblygu llety diogel wedi'i lywio gan drawma i blant a llety lleol i rieni a babanod
- Ymgorfforі arferion Arwyddion Diogelwch

# I ba raddau oeddem ni wedi llwyddo i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn?

**Amcan Covid-19**
Drwy gydol 2021 -2022, ein hymateb i Covid-19 fu'r brif flaenoriaeth gorfforaethol o ran rheoli a lleihau'r risgiau a'r effeithiau mewn perthynas â'r pandemig byd-eang.

O'r cychwyn cyntaf, blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion fu amddiffyn ei ddinasyddion a lleihau nifer y boblogaeth a fydd yn dal Covid-19 a nifer y marwolaethau. Ar y dechrau, roedd rhagamcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos y sefyllfa waethaf bosibl o 600 o farwolaethau yn y sir ac nid oedd hyn yn dderbyniol i ni.

Amlinellodd Cyngor Sir Ceredigion weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau marwolaethau a ragfynegwyd trwy'r brig cyntaf ond yn bwysicach fyth ar gyfer unrhyw adegau brig a ragwelir yn y dyfodol.

- Cam 1 – Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cam 2 – Gweithredu – Darparu gwasanaethau o dan amodau'r cyfnod clo a rheoledig
- Cam 3 – Addasu a gwydnwch hirdymor
- Cam 4 – Adfer

Cydnabyddwn fod ein lleoliad daearyddol a'n poblogaeth wasgaredig wedi rhoi manteision unigryw i ni o ran rheoli'r feirws. Yn y cyd-destun hwn o'r cychwyn cyntaf rydym wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i atgyfnerthu ein manteision a cheisio atal y firws. Diolchwn i drigolion y sir am ddilyn yr arweiniad i'r llythyren, gan sicrhau fod y nifer yn y sir sydd wedi eu heintio gan Covid-19 wedi eu cadw yn gymharol isel trwy gydol y flwyddyn er gwaethaf rhai cyfnodau brig. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod pob marwolaeth o Covid-19 wedi bod yn golled drist iawn ac yn ein cymunedau mae staff a'r cyhoedd fel ei gilydd wedi cael eu heffeithio'n fawr gan effaith y pandemig ar lesiant corfforol a meddyliol yn ogystal ag yn ariannol ac yn economaidd.

# Strategaeth a gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig

**Blaenoriaethau Strategol Cyngor Sir Ceredigion**

- Diogelu iechyd a llesiant y rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys gwasanaethau gofal i'r henoed a'r rhai y mae eu cyflyrau meddygol yn eu gwneud yn arbennig o agored i risg o Covid-19.

- Diogelu'r ddarpariaeth addysg o fewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.

- Galluogi'r economi leol i oroesi.

**Strwythur a phenderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur**
Mae strwythur a phroses y Grŵp Rheoli Aur a roddwyd ar waith o ddechrau'r pandemig wedi gwneud penderfyniadau allweddol a'u gweithredu yn y meysydd canlynol:

- Cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed

- Olrhain cysylltiadau
- Digonolrwydd a dosbarthu cyfarpar diogelu personol
- Cyflwyno'r defnydd o brofion llif unffordd a threfn profi staff
- Adleoli staff i gefnogi gwasanaethau rheng flaen
- Cartrefi gofal
- Asesu risg a rheoli heintiau
- Canllawiau a phrotocolau lleol helaeth
- Cefnogaeth ariannol a chaledi
- Cefnogi a hwyluso'r rhaglen brechu torfol
- Grwpiau Rheoli Arian wedi'u sefydlu'n benodol, gofal preswyl, olrhain cysylltiadau/tracio olrhain diogelu, addasiad economaidd, brechu/profi
- Cynrychiolaeth uwch swyddogion ar dimau rheoli digwyddiadau lleol a rhanbarthol
- Cynrychiolaeth uwch swyddogion ar fforymau lleol a rhanbarthol penodol Covid gan gynnwys Grŵp Ymateb i Covid Ceredigion, Grŵp Rhanbarthol Diogelu Covid, Is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Cynllunio Addasu ac Adfer**
Mae gan y Cyngor fap ar gyfer y cyhoedd sy'n amlinellu'r cerrig milltir allweddol mewn perthynas â newidiadau i wasanaethau ac adfer gwasanaethau fesul cam.

Mae cynlluniau adfer wedi'u drafftio ar draws pob maes gwasanaeth ac maent yn cynnwys;

- Cartrefi gofal preswyl (cynaliadwyedd staff ac adolygu trefniadau ymweld) i alluogi ymweliadau awyr agored a pharhau â chymorth aml-broffesiynol a chlinigol trwy dechnoleg i gefnogi cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol neu ymweliadau diogel gan feddygon teulu, iechyd meddwl, dementia, therapi galwedigaethol/proffesiynau perthynol i iechyd
- Addasiadau gwasanaethau dydd anabledd dysgu a phobl hŷn
- Addasiadau gofal seibiant
- Ystod eang o wasanaethau ymyrraeth gynnar/atal gan gynnwys rhai galwedigaethol awyr agored wedi'u trefnu, dysgu a gwaith, Tîm Cymorth Cyflogaeth i ailddechrau gwaith â thâl a chyfleoedd gwirfoddoli, gweithgareddau grŵp plant/pobl ifanc awyr agored wedi'u trefnu a'u cymeradwyo, dosbarthiadau ymyrraeth iechyd awyr agored/dosbarthiadau ymarfer corff i oedolion
- Gwasanaeth Llesiant Meddwl
- Addasiad Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion

**Heriau o ran y Gweithlu**
Rhoddwyd rhaglen adleoli staff ar waith yn ystod camau cynnar y pandemig i gynorthwyo gwasanaethau allweddol gan gynnwys cartrefi gofal a hybiau ysgol sy'n gofalu am blant agored i niwed. Bu ffocws parhaus ar recriwtio gyda nifer o ymgyrchoedd yn fewnol ond hefyd yn cefnogi darparwyr allanol gydag ymgyrchoedd.

Mae'r heriau o recriwtio a chadw staff allweddol, yn benodol gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wedi bod yn sylweddol trwy gydol 2021-2022, fodd bynnag cydnabyddir bod hon yn duedd genedlaethol ac mae cyfleoedd o ran gweithio rhanbarthol wedi'u harchwilio. Mae gan y Cyngor strategaeth ar gyfer ateb yr her hon gan gynnwys y dulliau canlynol:

- Cynyddu nifer yr hyfforddeiaethau gwaith cymdeithasol
- Cynnig cyfleoedd cymwysterau a llwybrau dysgu i'r staff presennol

- Lleoliadau myfyrwyr
- Adolygu rolau a gwerthuso swyddi
- Gloywi hysbysebu – ymgyrchoedd dwys a newydd i ymuno â Cheredigion
- Defnyddio staff asiantaeth lle bo angen ochr yn ochr â staff Ceredigion

**Cefnogi Llesiant Staff**
Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ymatebol, hygyrch a chynhwysol i staff trwy gydol y pandemig, gan gynnwys:

- Swyddog Iechyd a Llesiant Gweithwyr
- Pecyn Cymorth i Weithwyr
- Iechyd Galwedigaethol
- Dull ymatebol gan gynnwys arolygon/holiaduron llesiant, trafodaethau gyda rheolwyr a thimau, proses arfarnu symlach, sesiynau galw heibio
- Gweithgarwch a chefnogaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys, gwybodaeth ar y fewnrwyd, Dydd Mercher Llesiant, gweithgareddau, gweminarau llesiant, staff gwarchod
- Gweminarau iechyd a llesiant pwrpasol, cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwr Corfforaethol/Rheolwyr Cofrestredig
- Cymorth i staff unigol mewn cartrefi gofal

**Ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol**
Mae'r 24 mis diwethaf wedi golygu newid sylweddol yn y ffordd y mae'r Cyngor a'i staff wedi gorfod gweithio a chwrdd â galw dyddiol y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd CSC ei Strategaeth Gweithio Hybrid 2022-2025. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth a'r dulliau gweithredu cysylltiedig a ddefnyddir i sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer dyfodol ein sefydliad, mewn mannau gwaith sy'n diwallu ei anghenion ac mewn modd cynaliadwy.

Ar ôl ymateb yn dda i heriau cychwynnol y pandemig, mae'r ffocws yn ystod y flwyddyn hon wedi symud i sut y gallwn ddysgu ac adeiladu o'r profiad. Sefydlwyd y prosiect 'Y Ffordd Rydym yn Gweithio' i adolygu'r arferion gweithio o bell a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect oedd archwilio'r awydd am newid hirdymor o fewn y gweithlu ac i ba raddau y mae newid yn y weledigaeth strategol ehangach o ble, pryd, a sut rydym ni fel sefydliad yn mynd ati i weithio. Fel rhan o'r prosiect cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu staff sylweddol ym mis Ebrill 2021. Pwrpas yr ymarfer oedd casglu adborth, profiadau, syniadau, a gofynion y gweithle yn y dyfodol i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol.

Mae'r ymatebion a'r themâu sylfaenol sy'n dod i'r amlwg o'r ymarfer ymgysylltu â staff, yn ogystal ag ymchwil cenedlaethol, tueddiadau, a mewnwelediadau, wedi llywio datblygiad ein gweledigaeth a'n strategaeth tuag at symud i ffyrdd newydd o weithio yn y tymor hir.

Ein nod yw sefydlu model gweithio hybrid sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'n pobl wrth gydbwyso eu bywydau gwaith a chartref. Rydym am adeiladu diwylliant lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn ymddiried ynddynt ac yn cael eu grymuso, a bydd ganddynt fwy o ryddid o ran sut, ble a phryd y cyflawnir eu gwaith. Rhoddir ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na phresenoldeb yn ein swyddfeydd. Ni fydd y lefel hon o hyblygrwydd, oherwydd natur rhai rolau, yn gyraeddadwy i bawb. Fodd bynnag, bydd ymrwymiad o hyd i archwilio sut y gellir cynnwys lefel o hyblygrwydd mewn rolau ar draws y sefydliad.

Er mwyn cefnogi gweithrediad llwyddiannus ein model gweithio hybrid mae 3 ffrwd waith allweddol wedi'u nodi:

- Dylunio Gweithle
- Atebion Digidol
- Polisïau, Gweithdrefnau a Hyfforddiant

Bydd arweiniad a chyfeiriad strategol ar gyfer gweithredu yn cael eu darparu gan Fwrdd Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. Bydd y 3 ffrwd waith yn adrodd i fwrdd y prosiect. Bydd gan bob ffrwd waith swyddog arweiniol dynodedig a fydd yn cydlynu'r maes gwaith ac yn adrodd i fwrdd y prosiect ar gynnydd yn ystod 2022/23.

**Adferiad ariannol a busnes**
Mae'r Cyngor wedi galluogi a grymuso amrywiaeth o wasanaethau a mentrau trwy wahanol ffrydiau ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Mae'r rhain wedi cynnwys y Gronfa Galedi sydd wedi darparu cymorth penodol ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl a rheng flaen. Mae'r Gronfa hon wedi galluogi gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynir i ganolbwyntio ar eu cynlluniau adfer. Cafwyd cyllid grant i fusnesau a chymorth ar gyfer ailagor yr economi ymwelwyr sy'n bwysig iawn i'r adferiad economaidd cyffredinol yng Ngheredigion.

Mae gwaith hefyd wedi symud ymlaen yn unol â nodau ac amcanion Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-2022 y Cyngor sy'n canolbwyntio'n gryf ar liniaru effaith ariannol a chymdeithasol Covid-19 ar lesiant unigolion a chymunedau. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i aelodau'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021.

**Amcan Gwella 1 – Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027 a Chynllun Gweithredu**
Ar 21 Hydref 2021, cymeradwywyd Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu gan Gynghorwyr Ceredigion.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth a'r dulliau cysylltiedig o drawsnewid sut y gellir cefnogi iechyd, llesiant a diogelwch pobl yng Ngheredigion.

Ei nod yw nodi'n gynnar yr hyn sy'n peri pryder i bobl ac atal hyn rhag gwaethygu, lle bynnag y bo modd, trwy ymateb amserol a chymesur.

Mae'r Strategaeth hefyd yn darparu model i ymdrin ag achosion sylfaenol pryderon ac mae'n cynnwys amcanion allweddol a meysydd angen â ffocws. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn symud ymlaen â'r gwaith cychwynnol i ad-drefnu gwasanaethau yn 2019 a gafodd ei ohirio yn 2020 oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau bellach wedi symud ymlaen yn dda, mae gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes wedi integreiddio i greu tri gwasanaeth – Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal. Mae'r gwasanaethau hyn, ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid, yn ffurfio'r pedwar prif faes sy'n dod o fewn y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant.

Mae'r Strategaeth hon yn rhan allweddol o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion sy'n dangos y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cyngor. Nod y blaenoriaethau yw galluogi darparu

gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion. Mae darparu cefnogaeth i bobl o bob oed ac angen yn her sylweddol i'r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig. Mae proffil cymdeithas a demograffeg wedi newid yn sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf yn y sir gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr achosion ac effaith camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig a grwpiau oedran hŷn yn byw'n hwy. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny. Yn ogystal, mae'r lefelau diweithdra ynghyd â'r lefelau incwm isel wedi gosod anawsterau cynyddol ar allu pobl i gael mynediad i dai diogel, fforddiadwy.

Un o flaenoriaethau allweddol y Strategaeth Gorfforaethol yw galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd. O fewn y flaenoriaeth hon mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni'r canlyniadau allweddol:

- Bydd gwell ansawdd bywyd gan ddinasyddion o bob oedran.
- Rhwydweithiau cymorth gwell i deuluoedd a'r rhai sydd mewn angen ar draws y sir
- Llesiant ac iechyd gwell trwy fabwysiadu ymyraethau effeithiol
- Bydd rhwydweithiau sefydledig o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws y sir sy'n darparu cymorth ataliol strategol, gan felly cynyddu gwydnwch y gymuned a gofal cymdeithasol cynaliadwy
- Gwell dewis ac ansawdd tai lleol.

Mae'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant yn disgrifio'r daith y bydd y Cyngor yn ei chymryd, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i drawsnewid ei ffordd o weithio ac i gyflawni ei weledigaeth. Mae'n darparu'r cyd-destun strategol i ysgogi comisiynu yn y dyfodol, darparu gwasanaeth gweithredol, rheoli gofal a'n rôl o ran integreiddio gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'n glir yr hyn sydd ei angen dros y tair blynedd nesaf (ac i ddangos beth sy'n debygol yn y blynyddoedd y tu hwnt i hynny) i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol i gyflawni 5 amcan allweddol y Strategaeth ac, ochr yn ochr â'n partneriaid, ail-gydbwyso'r gofal a'r cymorth a ddarperir yng Ngheredigion.

### 5 Amcan Allweddol y Strategaeth;

- Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol a helpu pobl i gefnogi eu hunain
- Cryfhau teuluoedd fel y gall plant aros yn eu gofal
- Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain
- Darparu ymagweddau cymesur at ofal a chymorth a reolir
- Amddiffyn unigolion a'u gwarchod rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod

### Ffrydiau Gwaith Gweithredu

Mae ystod o ffrydiau gwaith i symud ymlaen gyda'r newidiadau a'u gweithredu wedi'u sefydlu sy'n adrodd i Fwrdd y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant:

- Datblygu Strategaeth
- Systemau a Phrosesau
- Adolygu Cynlluniau Lefel Gwasanaeth a chontractau
- Arwyddion Diogelwch
- Prosesau Adnoddau Dynol
- Cyllid a Chaffael

**Sesiynau Gwybodaeth ac Ymgysylltu i Staff**
Yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi 2021, cynhaliwyd nifer o sesiynau gwybodaeth a holi ac ateb gyda staff i drafod a derbyn adborth ar y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gydol Oed a Llesiant. Roedd hwn yn ymarfer gwerthfawr iawn o ran datblygu'r Strategaeth a chryfhau mewnbwn staff ynghylch y camau gweithredu arfaethedig.
Defnyddiwyd fersiwn o'r fideo ynghyd â deunydd arall hefyd mewn sesiynau asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn dilyn ymlaen o'r sesiynau gwybodaeth staff a gynhaliwyd dros yr haf, lansiwyd yr ymgynghoriad gydol oed a llesiant ffurfiol ar ad-drefnu gwasanaethau a rolau gyda staff ar 1 Rhagfyr 2021 a daeth i ben ar 31 Ionawr 2022.

Cafodd y rhan fwyaf o dimau ar draws Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn ac eithrio Gwasanaethau Gofal Preswyl a Gwasanaethau Dydd. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer y timau hynny wedi'i gynllunio i'w gynnal ym mis Ionawr 2022 ond fe'i gohiriwyd wedyn tan ddyddiad diweddarach ar gyfer gwaith paratoi pellach. Bydd y gwaith o ad-drefnu rolau a swyddogaethau ar draws y model yn cael ei gwblhau ar ôl sefydlu Gwasanaethau Gofal Preswyl ac Uniongyrchol.

Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau mewn ymateb i ad-drefnu'r sefydliad ac i drafod yr egwyddorion i'w mabwysiadu ar draws y gwasanaethau.

**Arwyddion Diogelwch**
Agwedd allweddol ar y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant yw gwreiddio yr arferion Arwyddion Diogelwch ac mae'r gwaith wedi parhau i ddatblygu'r defnydd o'r fframwaith fel sail ganolog i hynny. Wrth y drws ffrynt ac yn yr asesiad gwnawn hyn drwy sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir gennym gan ddinasyddion yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau eraill yn cael ei defnyddio'n briodol i roi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith ar sail cwestiynau sylfaenol fel, 'Beth sy'n peri gofid i chi?' a 'Beth sy'n gweithio'n dda?' O ganlyniad i'r rhain, rydym yn ceisio mynd ati i ddatblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau, yn ymateb yn brydlon ac yn greadigol, ac yn canolbwyntio bob amser ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae sesiynau hyfforddi Arwyddion Diogelwch sylfaenol ac uwch wedi'u darparu i staff yn ystod 2021-2022.

**Goruchwyliaeth Staff a Chymorth Proffesiynol**
Lansiwyd y Polisi Goruchwylio Gydol Oed a Llesiant ym mis Medi 2021. Mae'r polisi'n nodi'r ffordd y dylai'r holl weithwyr, staff asiantaeth, gwirfoddolwyr a myfyrwyr sy'n gweithio ym maes gydol oed a llesiant gael eu goruchwylio a'u cefnogi mewn perthynas â'u harferion gwaith. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau staff. Sail y polisi yw bod goruchwyliaeth o ansawdd da ac effeithiol yn darparu ffordd o gefnogi staff i gyflawni ein gweledigaeth gyfunol yn ogystal ag amcanion sefydliadol, tîm ac unigol. Mae hefyd yn cefnogi cyflawni a chynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau i bobl Ceredigion.

Mae'r polisi yn mabwysiadu'r egwyddorion Arwyddion Diogelwch, ac mae'n arwain rheolwyr llinell i ddilyn dull 'ymholiad gwerthfawrogol' sgyrsiol, gan gynnwys cwestiynu adfyfyriol i alluogi ymarfer myfyrio gan felly hyrwyddo arweinyddiaeth arfer cydgynhyrchiol yn hytrach na dull gorchymyn-a-rheolaeth cyfeiriadol. Bydd hefyd yn helpu i nodi atebion ar gyfer yr unigolyn sy'n cael ei gefnogi a/neu'r aelod o staff sy'n goruchwylio tasg/gweithgaredd a chynnwys a gosod pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau wrth wraidd eu hymarfer.

## Amcan Gwella 2 – Partneriaeth

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a fforymau partneriaeth allweddol eraill gan gynnwys Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r rhain yn gyfrwng i hybu gwelliannau rhanbarthol ar draws y maes gofal cymdeithasol, gan barhau i ganolbwyntio ar feysydd angen a blaenoriaethau penodol Ceredigion.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi nifer o fforymau rhanbarthol ac maent yn ymgysylltu'n effeithiol â'r rhaglenni gwaith. Gwneir y mwyaf o gyfleoedd am gyllid rhanbarthol trwy bartneriaethau a mentrau rhanbarthol, gan gynnwys Rhaglen Drawsnewid Cymru Iachach a'r Gronfa Integredig Ranbarthol fel olynydd i'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae cyfranogiad llawn ym mhob fforwm cynllunio Covid-19 rhanbarthol hefyd wedi bod yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn hon.
Yn 2021 cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion ymarfer helaeth ar draws yr holl wasanaethau yn y Pyrth i ddrafftio cynigion ar gyfer defnyddio'r Gronfa Integredig Rhanbarthol a chyflwynwyd llawer o syniadau newydd ac arloesol mewn perthynas â datblygu gwasanaethau i blant ac oedolion a theuluoedd.

## Amcan Gwella 3 – Rhaglen Drawsnewid Cymru Iachach


Fel rhan o Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, roedd ein cyflwyniad gwreiddiol i raglen waith Gorllewin Cymru Iachach yn cynnwys:

**Gwella bywydau trwy dechnoleg**
- Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg
- Fframwaith digidol a rennir

**Cryfhau lleoliadau integredig**
- Integreiddio cyson ar lwybr carlam
- Hunanreolaeth ragweithiol a gynorthwyir

**Cefnogi newid gyda'n gilydd**
- Ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion
- Newid ymddygiad am byth

**Cysylltu pobl….cymunedau caredig**
- Creu cysylltiadau i bawb
- Adeiladu'r seilwaith i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol




Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £11.89 miliwn i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i gefnogi'r camau i roi'r tair rhaglen y cytunwyd arnynt ac a restrir isod ar waith:

**Rhaglen 1: Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg**
- Dull rhagweithiol o gadw pobl yn iach yn eu cymunedau
- Mae'n seiliedig ar ddull y profwyd ei fod yn gweithio yn Bilbao, Sbaen
- Mae tystiolaeth o Sbaen yn dangos ei fod yn cael effaith sylweddol ar alw ac ar lesiant
- Gofal pwrpasol wedi'i deilwra i'r unigolyn sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg

- Asesiad llesiant manwl a chynlluniau llesiant a gefnogir
- Galwadau rhagweithiol gan ddefnyddio llwyfan Delta Wellbeing sy'n bodoli eisoes ac yn darparu manteision cynhenid
- Ymateb cyflym amlasiantaethol, gyda chymorth cymunedol lleol gwell
- Prosiect cynhwysiant digidol i gefnogi rhwydweithiau anffurfiol

**Rhaglen 3: Integreiddio cyson ar lwybr carlam**

- Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym sy'n darparu ymateb proffesiynol 24/7 mewn argyfwng
- Rhoddir y model ar waith ym mhob ardal, ac fe gaiff ei deilwra i sicrhau bod y trefniadau'n ateb gofynion lleol ac yn adeiladu ar y trefniadau presennol
- Capasiti ychwanegol yn y rhaglen i gefnogi mwy o integreiddio ar lefel ardal

**Rhaglen 7: Creu cysylltiadau i bawb**

- Rhoi model cysylltwyr cymunedol cyson ar waith ledled Gorllewin Cymru i greu cysylltiadau cymunedol ac adeiladu cydnerthedd
- Dinasyddion gweithredol – hybu a chefnogi gwirfoddoli
- Rhaglen bydis sy'n pontio'r cenedlaethau i feithrin sgiliau TG a sgiliau eraill
- Rhaglen 'Mae'r Gorllewin yn Garedig'
- Gwreiddio Dewis ac Info-engine
- Rhaglen sgiliau garlam ar gyfer staff sy'n darparu cymorth cymunedol

Cychwynnwyd ar y tair rhaglen yn 2019/2020. Mae rhaglen 1 yn cael ei harwain yn rhanbarthol, rhaglen 3 yn cael ei harwain yn lleol, a rhaglen 7 yn cael ei harwain gan y trydydd sector ac wedi parhau yn ystod 2020/21.

Mae cynnydd cadarnhaol yr Amcan hwn, ein hymgysylltiad â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r addasiadau a wnaed yn sgil blaenoriaethau Covid-19 wedi parhau trwy gydol 2021/22 fel y dengys adroddiadau chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Rhaglen 1:**
Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen fesul cam, mae CONNECT bellach yn cael ei gyflwyno ar draws y tair sir yn rhanbarth Hywel Dda. Ar ddiwedd chwarter un roedd 3584 o gleientiaid gweithredol CONNECT ar draws y tair sir, a'r mwyafrif ohonynt (1578) wedi'u cynnwys yn y garfan darged allweddol sef "atal".

**Rhaglen 3:**
Cyflwynodd cydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ceredigion eu hymagwedd at Weithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig i Fwrdd y Gweithlu Rhanbarthol, a chynhyrchwyd llawer o ddiddordeb. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei ystyried fel ffordd o helpu i liniaru'r pwysau a deimlir ar draws y gweithlu sector cyhoeddus a phreifat nad ydynt yn gofrestredig yng Ngheredigion.

**Rhaglen 7:**
Ymunodd 584 o bobl â grŵp cyfryngau cymdeithasol Cysylltu â Charedigrwydd Ceredigion

Lansiodd Platfform CONNECT y Gwobrau Uwchlaw a Thu Hwnt sy'n cynnig raffl ar gyfer platfform cofrestredig gyda phedair gwobr fesul sir. Cynhaliwyd digwyddiad arddangos yn ystod hydref 2021 yng Ngheredigion gyda Span Arts Ray Ceredigion Play fel cyfle i ddysgu am y gwaith gwerthfawr yn ein cymunedau lleol i gefnogi gweithio rhwng cenedlaethau. Cynhyrchwyd fideo 3 munud yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth bellach gyda'r gynulleidfa.

# Cynnydd ar Feysydd i'w Datblygu fel y nodwyd yn y flwyddyn flaenorol

**Porth Cymorth Cynnar**

- Canolfannau Llesiant – mae'r cynllunio'n parhau gyda Llanbedr Pont Steffan fel lleoliad y Ganolfan Llesiant gyntaf
- Mae Cynlluniau Addasu ac Adfer wedi datblygu'n dda i sicrhau gweithgareddau ac ymyriadau cymunedol gydol oed cyffredinol ac â ffocws, cyfunol sy'n galluogi grymuso, gwydnwch ac annibyniaeth
- Mae cydweithio agos â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol wedi parhau i ddatblygu ystod o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion esblygol o fewn ein cymunedau i gefnogi a galluogi unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu

**Porth Gofal:**

- Mae'r gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol bellach yn hollol weithredol fel gwasanaeth mewnol
- Gofal Cartref – mae dilyniant wedi parhau gyda'r model hybrid o ddarparu gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Galluogi, ac mae comisiynu yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu
- Mae gweithredu'r Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o raglen Drawsnewid 3 wedi parhau
- Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi llwyddo i recriwtio staff ac wedi cryfhau cymorth i ofalwyr
- Adolygiad Gwasanaethau Dydd – paratoi ar gyfer ymgynghoriad ar ad-drefnu ar gyfer 2022/23

**Porth Cynnal:**

- Mae dulliau atal ac adfer yn cael eu datblygu ar draws Porth Cynnal ar y cyd ag asiantaethau partner sy'n canolbwyntio ar lesiant meddyliol, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau
- Mae Strategaeth Ddiogelu ar gyfer Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei drafftio gyda chyfranogiad llawn rhanddeiliaid
- Mae prosiectau rhanbarthol a lleol i ddatblygu llety diogel wedi'i lywio gan drawma ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a llety lleol i rieni a babanod yn mynd rhagddynt yn dda
- Mae arfer Arwyddion Diogelwch yn cael ei ddatblygu gyda chyfranogiad llawn yn natblygiad ffurflenni cofnodi a dulliau ymarfer

# Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion

O dan yr ymyriadau digartrefedd, yn 2021-22 cychwynnwyd 737 o achosion lle bu cysylltiadau oherwydd credir bod aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ar y diwrnod. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 258 o achosion oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth (cynnydd o 54%).

O'r 737 o achosion a agorwyd, darparwyd cyngor a chymorth i 40% (294) a'u helpu i atal digartrefedd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn yr achosion sy'n cael eu cyflwyno i'r tîm

ac sy'n cael cymorth trwy ddefnyddio Cymorth Tai, neu sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill, neu'n cael cyngor ac arweiniad i gynnal eu sefyllfa dai.

Cynorthwywyd hyn trwy gyflwyno'r porth cymorth tai, sydd wedi symleiddio'r broses atgyfeirio ac wedi galluogi gwell adrodd ar ganlyniadau cymorth tai. Ers cyflwyno'r porth, mae blwyddyn gyfan wedi gweld 2095 o bobl yn cael cymorth, gyda 1575 o ganlyniadau llwyddiannus yn ymwneud â thai yn cynnwys;

| | |
|---|---|
| Anghenion cymorth cysylltiedig â thai wedi'u bodloni | 216 |
| Wedi symud i lety cynaliadwy | 69 |
| Cynnal llety sefydlog (6 mis+) | 330 |

Cynhaliwyd 443 o asesiadau digartrefedd o dan Adran 62 o'r Ddeddf Tai. Mae'r ffigur hwn yn debyg i'r llynedd.

O ganlyniad i'r asesiadau hyn, llwyddwyd i atal a/neu leddfu 153 o achosion. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng gan 63 o achosion. Mae hyn yn dangos, er bod nifer y dyfarniadau dyletswydd digartrefedd yn debyg, mae'r gwasanaeth yn llai abl i atal neu leddfu digartrefedd. Mae angen llety dros dro ar fwy o bobl (cynnydd o 38% yn yr unedau llety dros dro yn y flwyddyn), gydag 86 o achosion heb eu datrys yn y cyfnod atal o 8 wythnos ac yn symud ymlaen i ddyletswydd lawn.

Mae nifer y cleientiaid a gynorthwyir trwy ddulliau ariannol gan gynnwys cyfeirio yn parhau'n gyson. Erys llawer o achosion lle nad yw talu ôl-ddyledion neu gynorthwyo person i gael budd-daliadau ychwanegol yn gallu atal digartrefedd. Mae hyn oherwydd bod llawer o resymau anariannol dros ddigartrefedd, fel y gwelir yn y tabl isod (Adran 66, achosion atal)

| | |
|---|---|
| Rhiant, ffrind neu berthynas arall nad yw bellach yn fodlon neu'n gallu darparu llety | 20 |
| Perthynas gyda phartner wedi chwalu | Treisgar 5<br>Di-drais 7 |
| Trais neu aflonyddu (heb fod yn bartner) | 1 |
| Adfeddiannu morgeisi | 2 |
| Ôl-ddyledion rhent | 14 |
| Colli llety, e.e. landlord wedi cyflwyno rhybudd | 59 |
| Eiddo presennol yn anfforddiadwy | 4 |
| Eiddo presennol yn anaddas (e.e. gorlenwi/ rhesymau meddygol) | 15 |
| Eraill, gan gynnwys digartrefedd mewn argyfwng, dychwelyd o dramor, cysgu allan | 15 |

Mae'r gwasanaethau Opsiynau Tai yn parhau i fabwysiadu dull 'Cynnwys Pawb' yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael eu deddfu yn y gyfraith cyn bo hir, gan ddileu 'angen â blaenoriaeth' i bob pwrpas. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw bobl sengl heb fod yn agored i niwed yn cael eu troi i ffwrdd ar y cam dyletswydd lawn. Mae hyn wedi cael effaith ar ein llety dros dro i bobl sengl gynyddu o 25 o leoedd cyn y pandemig i 44 o leoedd ar hyn o bryd.

Ar gyfer y flwyddyn 2021-22 o dan y gwasanaeth addasiadau mae 60 o grantiau cyfleusterau i'r anabl, 124 o addasiadau mân waith, a 46 o grantiau diogel, cynnes a sicr wedi'u darparu. Cafodd y cyflenwad hwn ei rwystro eto i raddau oherwydd effaith y pandemig, h.y. cyfyngiad ar ymweliadau cartref, ac ati.

O dan waith y gofrestr tai ar gyfer y flwyddyn 2021-22, derbyniwyd 1400 o Geisiadau Cofrestr Tai ar draws y bedair cofrestr (fforddiadwy, cyffredinol, pobl hŷn a hygyrch).

*Pa wahaniaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud?*
Mae ffocws yr amcan ar fynediad gwell at gyngor a chymorth i'r rhai sy'n chwilio am dai wedi galluogi dull ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae gweithio cydgysylltiedig gwell rhwng gwasanaethau cymorth tai ac opsiynau tai ynghyd â chyflwyno system atgyfeirio a chofnodi porth yn ein galluogi i olrhain a monitro lefel y cymorth a gafwyd.
Bydd y cynllun newydd gwarant landlordiaid, a fydd yn weithredol cyn bo hir, hefyd yn cynorthwyo dulliau gweithredu cynnar a ffocws ar atal.

Nid yw nifer yr asesiadau o ddigartrefedd wedi gostwng, ond fel y gwelir yn nifer y cysylltiadau â'r gwasanaeth, mae ffigurau cyngor a chymorth wedi codi'n sylweddol sy'n dangos bod cyngor a chymorth cynnar wedi galluogi'r gwasanaeth i osgoi cynyddu digartrefedd, er gwaethaf cynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno'u hunain.

Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl a diogel, cynnes a sicr wedi cynorthwyo cleientiaid i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Cafodd cyfanswm o 338 o ymgeiswyr dai drwy'r Gofrestr Tai. Cafodd 76 (22%) o'r dyraniadau eu gwneud i unigolion yr oedd arnom ddyletswydd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. Mae'r ganran hon yn parhau'n sefydlog.

Oherwydd y ddibyniaeth gynyddol ar lety dros dro ynghyd â'r cynnydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd posibl oherwydd costau byw a ffoaduriaid o'r Wcráin, am gyfnod byr mae'r Gwasanaeth Tai yn gweithio gyda'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig partner i flaenoriaethu dyraniadau tai cymdeithasol i bobl ddigaredd a'r rhai sydd mewn llety dros dro.

*Pa mor dda ydym ni wedi'i wneud?*
**Tai – Digartrefedd**
Cyfanswm y canlyniadau atal digartrefedd: 142 (mae hyn yn cynnwys achosion y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nas llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nad oeddent yn cydweithredu, achosion a wrthododd gymorth, achosion a dynnwyd yn ôl, ac achosion a dynnwyd yn ôl yn sgil colli cysylltiad)
Canlyniadau lle y llwyddwyd i atal digartrefedd: 95. Felly, llwyddwyd i atal 68% o'r aelwydydd a oedd yn wynebu digartrefedd rhag bod yn ddigartref. (Cwrdd â tharged o 65% ond ychydig yn is na'r 75% y llynedd).

Fodd bynnag, cafodd 46 o'r 142 eu datrys yn aflwyddiannus. Tynnodd 26 (18% o'r cyfanswm) o gleientiaid yn ôl o'r gwasanaeth ac felly ni allai Opsiynau Tai gynorthwyo na sefydlu canlyniad. Aeth 20 cleient arall (14%) ymlaen at y ddyletswydd ddigartrefedd nesaf fel rhai digartref na ellir ei atal.

**Addasiadau Tai**
Darparwyd cartref diogel i 297 o ymgeiswyr anabl ac agored i niwed er mwyn iddynt allu parhau i fyw'n annibynnol gan arwain at ansawdd bywyd gwell.

**Effeithlonrwydd Ynni**
Yn ystod y flwyddyn derbyniodd cyfanswm o 209 o gleientiaid naill ai welliannau i'w cartrefi trwy fentrau effeithlonrwydd ynni/neu gyngor effeithlonrwydd ynni i wella eu sefyllfa ariannol a'u gwariant.

Darparwyd 15 o grantiau boeleri Cartrefi Cynnes

**Cofrestr Tai**
Ychwanegwyd 1116 o geisiadau am dai at y Gofrestr Tai i'w hystyried pan fydd tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu. Yn ychwanegol at hyn, gwnaethpwyd newidiadau i'r ffurflenni cais a'r ffurflenni adnewyddu i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar gael i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid inni.

**Cyflenwi tai fforddiadwy sydd ar gael ar draws pob math o ddeiliadaeth**
Mae'r rhaglen grant tai cymdeithasol yn rhan o raglen ddatblygu dreigl 3 blynedd sy'n cynnwys sawl ffrwd ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd o'r Cofrestri Tai gyda'r nod o gyflenwi cymysgedd o dai cymdeithasol a chanolradd ar draws Ceredigion.

***Pa wahaniaeth y mae'r amcan hwn wedi'i wneud?***
Mae nifer yr unedau rhentu cymdeithasol sy'n cael eu cyflenwi yn debygol o gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y 3 blynedd nesaf ac felly'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o 20,000. Mae datblygiadau'n cael eu targedu i helpu i ateb yr angen lleol a nodwyd yn y sir. Mae'r amrywiaeth o opsiynau deiliadaeth fforddiadwy hefyd yn cael ei gynyddu er mwyn helpu i roi sylw i'r anghenion tai gwahanol yn y sir.

Yn ystod y flwyddyn hon, darparwyd cyfanswm o 77 o unedau tai cymdeithasol gan ein cymdeithasau tai partner sy'n gweithredu yng Ngheredigion.

Mae'r Awdurdod yn gwella'r gwaith o dargedu pob adeilad tai cymdeithasol newydd oherwydd system cronfa ddata'r Gofrestr Tai (Abritas). Mae tai arbenigol ac wedi'u haddasu megis unedau hygyrch i gadeiriau olwyn/nam symudedd hefyd cael eu cyflenwi i geisio rhoi sylw i anghenion ymgeiswyr/cleientiaid penodol.

***Cyfrannu at ddatblygu ac integreiddio'r model Porth Gofal – Ymyrraeth Gynnar a Llesiant***
Yn ystod 2021-22 gwelwyd dechrau gweithredu'r Gwasanaeth Porth Grant Cymorth Tai newydd fel pwynt canolog ar gyfer cyflwyno pob cais am gymorth tai, gan sicrhau y byddai'r ymyriadau priodol yn cael eu dyrannu i bob achos mewn modd amserol. Roedd hyn yn golygu dyfeisio rolau newydd a chyflogi pobl yn y swyddi hyn. Ymgymerwyd â datblygiadau pellach hefyd yn 2021-22 gan gynnwys paratoi a datblygu Cynllun Rhaglen Grant Cymorth Tai.

At hynny, trwy leoli'r Gwasanaethau Tai ym model gwasanaeth integredig gydol oes Porth Gofal, nodwyd llawer o gyfleoedd i adeiladu ar gyfleoedd a chysylltiadau ar draws y model gwasanaeth, o atal ac ymyrraeth gynnar i ymyrryd mewn argyfwng.

***Sicrhau bod anghenion llety trigolion yn cael eu bodloni***
Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i weithio i sicrhau bod anghenion llety'n cael eu bodloni. Drwy gydol y flwyddyn ymgymerwyd â 74 o arolygiadau o dai amlfeddiannaeth trwyddedig (llety rhent preifat) i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu bodloni, ymchwiliwyd i 19 achos o aflonyddu a throi allan anghyfreithlon, a dilynwyd i fyny 204 o geisiadau gwasanaeth yn ymwneud â safonau tai gwael.

Sylwer – cafodd llawer o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Tai eu rhwystro gan ofynion newidiol y pandemig, h.y. cyfnodau clo, newidiadau yn y cyfyngiadau, ac ati. Er hynny, parhaodd y gwasanaeth i weithredu mewn cyfnod heriol ac ymateb yn unol â hynny.

# Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd nifer o brosiectau trawsnewid system gyfan yn parhau ynghyd â mynd i'r afael â heriau pandemig Covid-19 a'i ganlyniadau.

Gyda chyhoeddi a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Gydol Oed a Llesiant, bydd y ffocws ar alinio Cynlluniau Busnes Gwasanaeth i'r Strategaeth a 5 amcan allweddol a 12 maes angen y Cynllun Gweithredu.

**Amcan Covid-19:**

- Parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner i reoli risgiau ac effeithiau Covid-19
- Cymorth parhaus ar gyfer derbyn brechiad Covid-19 yn effeithiol
- Adferiad parhaus o Covid-19

**Amcan Gwella 1 – Trawsnewid Gwasanaethau**

- Gweithredu'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant
- Rhoi'r Cynllun Gweithredu Gydol Oed a Llesiant ar waith
- Gweithredu'r Strategaeth Gweithio Hybrid
- Cryfhau Recriwtio a Chadw Staff

**Amcan Gwella 2 – Partneriaeth**

- Sicrhau bod llais cryf gan yr Awdurdod Lleol yn y rhanbarth
- Sicrhau cyfranogiad ymrwymedig rheolaidd ym mhob digwyddiad partneriaeth rhanbarthol gan staff perthnasol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ffynonellau eraill
- Dylanwadu ar ddatblygiadau trwy'r rhanbarth ac yn genedlaethol

**Amcan Gwella 3 – Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn effeithiol, ynghyd â'i bartneriaid, wrth sicrhau a defnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu canlyniadau gwell i bobl yng Ngheredigion**

- Parhau i ddatblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i hybu'r agenda gweithio integredig, gan gynnwys y Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

# 5. Sut ydym yn gwneud yr hyn a wnawn

## Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol


Mae’r flwyddyn hon wedi bod yn un heriol eto i'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan wynebu heriau recriwtio a chadw staff ochr yn ochr ag effaith Covid. Fodd bynnag, mae'n dyst i ymrwymiad a phroffesiynoldeb y gweithlu bod y niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant wedi cynyddu tra eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau gweithredol.

Mae cyllid grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn greiddiol i ddarparu'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i'r sector. Mae ystod eang o hyfforddiant sy'n cefnogi ymsefydlu, datblygiad proffesiynol parhaus, a gofynion cymwysterau rheoleiddiol y rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth wedi cael ei gynnig. Yn ogystal â'r amserlen flynyddol o ddigwyddiadau sydd wedi'i chynllunio, mae'r grant wedi ein galluogi i ymateb i anghenion hyfforddi sy'n dod i'r amlwg ac â blaenoriaeth sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn, er enghraifft sesiynau i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl y gweithlu a delio â cholled a phrofedigaeth.


Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol wedi'u cynnal gyda darparwyr gofal cymdeithasol allanol wedi'i ategu gan ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol sy'n annog deialog ynghylch blaenoriaethau ac anghenion hyfforddi yn y dyfodol. Mae hyn yn caniatáu i anghenion y sector cyfan gael eu hystyried wrth gynllunio'r amserlen hyfforddi flynyddol.

Addaswyd y ddarpariaeth hyfforddiant a'i symud i ddulliau cyflwyno ar-lein ar ddechrau'r pandemig. Mae darparu hyfforddiant ar-lein bellach wedi dod yn rhan annatod o ymarfer. I gydnabod y pwyslais ar ffyrdd newydd a gwahanol o weithio a rôl e-ddysgu o fewn hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn System Rheoli Dysgu newydd. Bydd 'Pwll Dysgu Ceredigion' yn galluogi mynediad dwyieithog a hawdd ei ddefnyddio at fodiwlau e-ddysgu ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, a chaiff ei lansio ym mis Mai 2022.

Mae cyfanswm o 556 o ddigwyddiadau wedi'u hwyluso gan hyfforddwyr wedi'u cyflwyno ar-lein sy'n cwmpasu meysydd craidd gofal cymdeithasol/ymarfer gwaith cymdeithasol ac iechyd a diogelwch. Gyda chyfanswm o 4025 o staff yn bresennol, mae hyn yn gynnydd o 537 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r graff isod yn dangos presenoldeb hyfforddiant fesul blwyddyn ac mae'n adlewyrchu adborth staff a dderbyniwyd sy'n dweud bod darparu hyfforddiant ar-lein yn fwy hygyrch.



Mae nifer y pynciau a gwmpesir gan fodiwlau e-ddysgu wedi cynyddu ac mae cyfradd cwblhau'r gweithlu gofal cymdeithasol allanol yn parhau i dyfu. Mae'r graff isod yn dangos yr ystod o feysydd pwnc sydd ar gael a'r e-ddysgu a gwblhawyd.




Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth y gweithlu wedi'i gefnogi trwy amrywiaeth o fentrau gan gynnwys peilot o sesiynau gwybodaeth ar-lein i'r rhai sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol/gwaith cymdeithasol, cymorth ar gyfer ymgyrch recriwtio genedlaethol Gofalwn Cymru, a darparu 16 o leoliadau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr. Cymhwysodd dau Weithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant ym mis Hydref 2021 ac mae 6 Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant pellach wedi'u recriwtio a disgwylir iddynt ddechrau yn eu swyddi ym mis Gorffennaf 2022. Mae hyn yn mynd â nifer y Gweithwyr Cymdeithasol dan hyfforddiant o fewn yr awdurdod i 10. Er mwyn sefydlu llwybr gyrfa i waith cymdeithasol a galluogi cronfa o staff sy'n barod i symud ymlaen i hyfforddiant cymhwyso, mae'r Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol sy'n cynnwys dau fodiwl cyntaf y radd mewn gwaith cymdeithasol hefyd yn cael ei chynnig yn flynyddol.

I gefnogi'r 'Cynnig Gweithredol' mae 26 aelod o staff gofal cymdeithasol wedi cael cymorth i ddilyn cyrsiau Cymraeg. Yn ogystal, datblygwyd sesiynau pwrpasol gan y Tiwtor Cymraeg Gwaith ar gyfer dechreuwyr, lefel canolradd a siaradwyr Cymraeg, a chael eu cyflwyno'n lleol ac yn rhanbarthol gyda'r nod o wella sgiliau iaith Gymraeg a hyder staff sy'n cael asesiadau budd pennaf. Mae'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg hefyd yn parhau i gael ei hyrwyddo gyda 60 o staff gofal cymdeithasol mewnol a 50 o staff gofal cymdeithasol allanol wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn.

Proffil iaith ein Gweithlu Gydol Oed:

Porth Cymorth Cynnar:

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| ALTE 0, 1 a 2 | 46 | 18.78% |
| ALTE 3, 4 a 5 | 199 | 81.22% |
| CYFANSWM | **245** | **100%** |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 95 | 38.78% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 150 | 61.22% |
| CYFANSWM | **245** | **100%** |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 4 | 16 | 26 | 33 | 59 | 107 | **245** |
| % y bobl | 1.63% | 6.53% | 10.61% | 13.47% | 24.08% | 43.67% | **100.00%** |
| **PERSON – YSGRIFENNU** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer y bobl | 10 | 22 | 31 | 35 | 67 | 80 | **245** |
| % y bobl | 4.08% | 8.98% | 12.65% | 14.29% | 27.35% | 32.65% | **100.00%** |
| **PERSON – DARLLEN** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer y bobl | 9 | 20 | 28 | 36 | 59 | 93 | **255** |
| % y bobl | 3.67% | 8.16% | 11.43% | 14.69% | 24.08% | 37.96% | **100.00%** |

## Porth Cynnal:

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| ALTE 0, 1 a 2 | 62 | 50.00% |
| ALTE 3, 4 a 5 | 62 | 50.00% |
| CYFANSWM | **124** | **100.00%** |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 61 | 49.19% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 63 | 50.81% |
| CYFANSWM | **124** | **100.00%** |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 3 | 34 | 25 | 16 | 12 | 34 | **124** |
| % y bobl | 2.42% | 27.42% | 20.16% | 12.90% | 9.68% | 27.42% | **100.00%** |
| **PERSON – YSGRIFENNU** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer y bobl | 13 | 35 | 21 | 12 | 14 | 29 | **124** |
| % y bobl | 10.48% | 28.23% | 16.94% | 9.68% | 11.29% | 23.39% | **100.00%** |
| **PERSON – DARLLEN** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer y bobl | 11 | 34 | 23 | 8 | 19 | 29 | **124** |
| % y bobl | 8.87% | 27.42% | 18.55% | 6.45% | 15.32% | 23.39% | **100.00%** |

## Porth Gofal:

| TROSOLWG | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| ALTE 0, 1 a 2 | 167 | 47.99% |
| ALTE 3, 4 a 5 | 181 | 52.01% |
| CYFANSWM | 348 | 100.00% |

| BWLCH | Nifer y bobl | % y bobl |
|---|---|---|
| BWLCH YNG NGOFYNION ALTE | 184 | 52.87% |
| Bodloni Gofynion ALTE | 164 | 47.13% |
| CYFANSWM | 348 | 100.00% |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl | 31 | 74 | 62 | 70 | 33 | 78 | 348 |
| % y bobl | 8.91% | 21.26% | 17.82% | 20.11% | 9.48% | 22.41% | 100.00% |
| PERSON – YSGRIFENNU | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 67 | 74 | 73 | 53 | 24 | 57 | 348 |
| % y bobl | 19.25% | 21.26% | 20.98% | 15.23% | 6.90% | 16.38% | 100.00% |
| PERSON – DARLLEN | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer y bobl | 59 | 66 | 73 | 44 | 40 | 66 | 348 |
| % y bobl | 16.95% | 18.97% | 20.98% | 12.64% | 11.49% | 18.97% | 100.00% |

# Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Roedd setliad ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn un gwael, gyda chyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru o £109.7m yn gynnydd o 2.0% yn unig ar y flwyddyn flaenorol, sef y cynnydd isaf o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, o'i gymharu â chyfartaledd o 3.8%. Arweiniodd hyn at arbedion o £3.4m yr oedd angen cael hyd iddynt ar draws y Cyngor, a gosodwyd £2.1m ohono fel targed corfforaethol ac £1.3m fel targedau Gwasanaeth.

Mae'r Cyngor hefyd wedi mynd trwy broses i sicrhau bod ei gyllidebau wedi'u halinio'n llawn â'r model gweithredu Gydol Oed a Llesiant newydd, a welodd wasanaethau sy'n ymwneud ag ymyrraeth gynnar a llesiant yn dod yn llawer mwy integredig ochr yn ochr â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol mwy traddodiadol. O ganlyniad, mae model gweithredu 'Pyrth' newydd y Cyngor sy'n cynnwys Porth Gofal, Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar bellach wedi'i adlewyrchu'n llawn yn strwythur y gyllideb a'r adroddiadau ariannol gyda chyllideb wreiddiol gyfunol 2021/22 o £38.6m – sef 25% o gyllideb wreiddiol y Cyngor ar gyfer 2021/22 (£154.7m).

Roedd perfformiad terfynol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn danwariant cyffredinol o £668k ac mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn wydn. Cafwyd gorwariant bach iawn o £13k yn y gwasanaethau Pyrth. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa wedi'i chuddio gan gyllid grant untro rhanbarthol a chan Lywodraeth Cymru, ac roedd heriau ariannol parhaus yn dal i fod yn gyffredin yn enwedig ym meysydd plant sy'n derbyn gofal a chostau lleoliadau'r sector annibynnol, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan arbedion dros dro ym meysydd gofal cartref, gwasanaethau dydd a thai. Yn ogystal roedd her recriwtio gynyddol yn dechrau effeithio ar fwy o dimau ac yn arwain at lefel uwch na'r cyfartaledd o swyddi gwag a oedd yn fuddiol yn ariannol ond yn heriol yn weithredol.

O ganlyniad i sefyllfa alldro gadarnhaol gyffredinol y Cyngor, neilltuwyd cyllid ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn fel rhan o'r ymrwymiad ariannol clir a'r buddsoddiad sy'n cael ei roi ar waith i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Yn achos 'Galluogi Gwydnwch Unigolion a Theuluoedd', neilltuwyd £1.0m, gyda £1.0m pellach yn cael ei neilltuo i reoli ansefydlogrwydd costau lleoliadau y tu allan i'r sir.

Ni ellir cwblhau sôn am 2021/22 heb gyfeirio at Covid-19. Mae'r sector gofal cymdeithasol wedi bod ar flaen y gad yn y pandemig gyda'r effaith yn cael ei theimlo gan yr Awdurdod Lleol a'r ystod eang o ddarparwyr preifat y comisiynir gwasanaethau ganddynt. Drwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, sicrhawyd bod cyllid ychwanegol sylweddol ar gael i'r sector gofal cymdeithasol. Roedd cyllid ychwanegol hefyd ar gael ar ffurf Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (£1.388m) a chyllid Pwysau Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (£1.145m). Roedd yr holl ffrydiau ariannu hyn yn hollbwysig yn ystod cyfnod heriol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir yn fewnol ac yn allanol.

Gan edrych ymlaen at 2022/23 a thu hwnt, mae'r her ariannol sy'n wynebu'r gwasanaethau Pyrth yn parhau'n sylweddol o ran pwysau costau a dynameg y boblogaeth sy'n heneiddio. Yn y tymor byr mae penderfyniadau polisi cenedlaethol ynghylch cynnydd o 1.25% yng nghyfradd Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a darparu'r cyflog byw gwirioneddol o £9.90 ar gyfer Gweithwyr Gofal Cofrestredig. Mae'r ystod lawn o bwysau cost dangosol a wynebir gan y Pyrthau dros £7m sy'n cyfateb i gyfradd chwyddiant o tua 18% yn erbyn cyllideb 2021/22 o £38.6m. Mae'r ffactorau o fewn y pwysau cost hyn yn cynnwys y penderfyniad polisi cenedlaethol ar y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cofrestredig yn ogystal â heriau cyffredinol o ran y dyfarniadau cyflog,

strwythur staffio newydd y Gwasanaethau Pyrth, ymgyrch i leihau rhestr aros gofal cartref, Taliadau Uniongyrchol, a gosod ffioedd heriol o fewn cartrefi gofal y sir a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal.

O ran buddsoddiad cyfalaf, mae amrywiaeth o fuddsoddiadau yn mynd i mewn i'r gwasanaethau Pyrth boed hynny'n ail-bwrpasu cyfleusterau hamdden fel Canolfannau Llesiant, buddsoddiad y mae mawr ei angen yn seilwaith cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol i fentrau newydd sy'n cael eu datblygu mewn amrywiaeth o feysydd o ddarpariaeth cartref grŵp newydd yn y sir i blant, cyfleuster Camu Mlaen a lleoliad anabledd dysgu newydd yn y sir.

# Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Ar 25 Mawrth 2020 rhoddodd Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i Covid-19. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn cael ei gefnogi gan 5 Grŵp Rheoli Arian, sy'n adrodd yn wythnosol i'r Grŵp Rheoli Aur.

Mae'r Grŵp Rheoli Aur, sy'n cynnwys Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd eleni i reoli ymateb y Cyngor i Covid-19. Mae amlder cyfarfodydd wedi cynyddu neu leihau yn unol â lefelau risg a rhybudd.

Mae cofnod o benderfyniadau a gweithredoedd y Grŵp Rheoli Aur i'w weld ar wefan y Cyngor.

**Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach**

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno'r Adroddiadau Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Adolygu Annibynnol chwarterol sy'n cynnwys safonau cenedlaethol a lleol, a thargedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc wedi'u tramgwyddo mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn cyfarfodydd sicrhau ansawdd plant sy'n derbyn gofal amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol wedi'i gadeirio gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a gynhelir bob chwarter.

Ar 17 Medi 2021, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gyflwyniad PowerPoint a fideo i'r Pwyllgor ar y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu. Gwahoddwyd aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i fynychu'r cyfarfod hefyd. Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor cytunwyd i argymell Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

Yn yr un cyfarfod, roedd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod llythyr wedi dod i law oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru ar 2 Gorffennaf 2021 yn dilyn y Gwiriad Sicrwydd Iechyd a gynhaliwyd yn ystod mis Mai 2021. Amlinellwyd y crynodeb o'r canfyddiadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella i'r Pwyllgor.
Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys y llythyr a chanmol holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'w rolau cyn ac yn ystod y pandemig. Roedd yr aelodau'n dymuno nodi bod staff a'r gwasanaeth dan bwysau cynyddol ac yn gwneud eu gorau glas i weithio o fewn y pwysau presennol ar y gwasanaeth.

Ar 22 Medi 2021, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y datblygiadau diweddar yn y gwasanaeth.

Hysbyswyd y Pwyllgor mai Canolfan Hamdden Llambed fydd lleoliad Canolfan Llesiant gyntaf y Cyngor a fydd yn darparu ystod ehangach o Wasanaethau Gydol Oed i drigolion Llanbedr Pont Steffan a chanol y sir. Yn dilyn trafodaeth am y defnydd o'r cyfleusterau chwaraeon yn y dyfodol gan glybiau lleol ac agweddau eraill yn ymwneud â chyllid a strwythur a phwrpas, cytunodd yr Aelodau fod y Pwyllgor yn parchu bod y penderfyniad ynghylch datblygu'r Canolfannau Llesiant wedi'i wneud gan y Cabinet.

Ar 6 Hydref 2021, ystyriwyd adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal gyda'r diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch recriwtio gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg. Adroddwyd bod gan Gyngor Sir Ceredigion 31 o deuluoedd maeth cofrestredig ar hyn o bryd. Roedd gan y sir 16 o ofalwyr sy'n berthnasau hefyd ac roeddent wedi symud ymlaen trwy'r un prosesau â'r gofalwyr maeth prif ffrwd gan gofrestru i roi gofal a chefnogaeth i blentyn/plant sy'n derbyn gofal penodol, fel yr amlinellir yn eu cofrestriad unigol. Lleolir gofalwyr sy'n berthnasau Ceredigion ar draws y Deyrnas Unedig. O ran meysydd gwasanaeth yr oedd angen eu datblygu ymhellach, nodwyd y canlynol: gweithio gydag ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol a rhanbarthol a fydd yn darparu ystod o gyfleoedd wedi'u targedu'n benodol sy'n defnyddio adnoddau cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau. Byddai hyn yn cael ei ddiwallu gan gynllun ymgysylltu a chyfathrebu sirol lleol. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i ofalwyr maeth Ceredigion wella eu sgiliau iaith Gymraeg trwy gael hyfforddiant, datblygu cynllun integreiddio a chymdeithasu blynyddol gan fanteisio i'r eithaf ar dreftadaeth a diwylliant Ceredigion a rhoi'r wybodaeth a'r mynediad i'r gofalwyr maeth i gyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ac amgylcheddau naturiol yn lleol. Bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â Phorth Cymorth Cynnar, yr adran Addysg a sefydliadau trydydd sector i ehangu a dathlu'r cyfoeth o ddarpariaeth leol sydd ar gael i ofalwyr maeth Ceredigion. Cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth ac y caiff adroddiad cynnydd ar y Gwasanaeth Maethu ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac estynnwyd diolch i'r gwasanaeth am ei holl waith o fewn y Gwasanaeth Maethu.

Yn yr un cyfarfod, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal ar y ddarpariaeth gofal cartref yng Ngheredigion. Dywedwyd bod y ddarpariaeth wedi parhau i gael ei ddiwallu am sawl blwyddyn trwy'r Fframwaith Comisiynu ar gyfer Caffael, er mwyn darparu gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Ar ôl bodloni cyfres o ofynion caffael, roedd holl ddarparwyr Ceredigion yn cael eu cofrestru ar gyfer y Fframwaith ac yna roeddent yn gallu derbyn contractau am wasanaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Eglurwyd unwaith y byddai Gweithiwr Cymdeithasol wedi nodi anghenion gofal cymwys yn dilyn Asesiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod cais am wasanaeth yn cael ei wneud. Cyn gynted ag y bo hwn wedi ei gadarnhau, byddai'r hysbysiad yn cael ei roi ar borthol caffael e-dendro ar GwerthwchiGymru. Yna, byddai'r darparwyr a oedd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal yng Ngheredigion yn gallu edrych ar y pecynnau gofal oedd eu hangen yn y gymuned a chyflwyno cynigion er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Byddai'r cynigion hyn yn cael eu gwneud i'r teulu ac unwaith y byddent wedi'u derbyn, byddai trefniadau yn cael eu gwneud er mwyn dechrau ar y gofal. Os byddai'r teulu yn gwrthod y cynnig (er enghraifft os na fyddai'r amserau gofal yn bodloni eu dewis personol ac os na fyddai modd dod i gyfaddawd), yna byddai'r cais am ofal yn parhau ar y porthol caffael hyd nes y byddai cynnig arall yn dod i law. O ran anghenion gofal cymhleth iawn, gallai'r pecyn gofal a chymorth gynnwys anghenion gofal a fyddai'n gofyn am dau aelod o staff gofal hyd at 4 gwaith y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn. Byddai'r anghenion gofal eraill yn cynnwys yr holl anghenion hyd at yr ymyraethau lefel is, sef gofal unwaith neu ddwywaith yr wythnos i gynorthwyo gyda rhoi bath a chawod, er enghraifft. Roedd gofal a chymorth yn y cartref yn canolbwyntio ar gyflenwi sgiliau er mwyn darparu gofal personol ac anghenion llesiant. Drwy gydol

pandemig Covid-19, roedd y darparwyr gofal cartref wedi gweithio'n ddiflino i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein cymunedau. Roedd y staff yn parhau i ddarparu cymorth i unigolion agored i niwed er eu bod yn cynyddu'r risg iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd wrth iddynt roi gofal a chymorth a oedd yn golygu cael cysylltiad agos â nhw. Roedd ymdrechion y staff hyn wedi eu cydnabod, ac yn parhau i gael eu cydnabod, yn ymdrechion eithriadol ar adeg nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

Yn dilyn trafodaeth faith, cyflwynodd Aelod Pwyllgor argymhelliad i'r Cabinet y cytunwyd arno gan bleidlais drwy fwyafrif i argymell i'r Cabinet ei fod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud defnydd o arian wrth gefn y Cyngor i ddarparu pecyn ariannu arloesol i gefnogi recriwtio y mae mawr ei angen yn y sector darparu gofal cartref, ac i gefnogi cyflwyno Cynllun Cyfeirio Bonws a ddefnyddir mewn cartrefi gofal preswyl i annog recriwtio, ac i ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth gofal cartref.

Yn yr un cyfarfod, cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan y Rheolwr Corfforaethol Camddefnyddio Sylweddau ar weithrediad Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 Llywodraeth Cymru (diwygiwyd mewn ymateb i Covid-19) yng Ngheredigion a data ar Achosion Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn y sir ynghyd â marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a gorddosau angheuol. Amlinellwyd yr ymatebion aml-asiantaeth gan yr Heddlu wrth fynd i'r afael â chyflenwad, Barod a gwasanaethau darparwyr gwasanaeth trydydd sector eraill, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda a thîm Awdurdod Lleol Ceredigion.

Ar 20 Hydref 2021, rhoddodd yr Aelod Cabinet a'r Rheolwr Tîm – Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol adroddiad am lwyddiannau Uned Gofalwyr Ceredigion a'r cynnydd a wnaed o ran y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn 2020-2021. Nodwyd bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i wella bywydau gofalwyr, ac i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydnabyddiaeth gofalwyr yng Ngheredigion yn barhaus. Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad a chanmol gwaith yr Uned.

Roedd yr Aelod Cabinet a 'Rheolwr Tîm – Gofalwyr Gydol Oed a Chymorth Cymunedol hefyd wedi cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i amlinellu'r cynnydd a wnaed i fodloni blaenoriaethau gofalwyr Llywodraeth Cymru gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Ar 16 Rhagfyr 2021, cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019-2021 i'r aelodau gan yr aelod Cabinet a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal. Nodwyd, oherwydd yr achosion o Covid-19 ym mis Mawrth 2020, fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiad oherwydd yr angen i swyddogion ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Roedd llai o ofyniad hefyd i Gynghorau ddarparu gwybodaeth am berfformiad a adlewyrchir hyn yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion wedi perfformio yn ystod y flwyddyn (2019–2020) yng nghyd-destun newidiadau mawr yn yr amgylchedd gweithredu. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2020 -2021 gan ystyried bod y pandemig yn dal i fod yn ddylanwad mawr ar y gwasanaethau a ddarperir. Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad.

Yn yr un cyfarfod, rhoddwyd diweddariad ar Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru i'r Pwyllgor. Ffocws busnes y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref oedd trafod y gwaith parhaus a

wnaed ar y blaenoriaethau a'r cynllun cyflawni ar gyfer 2021/22 a chynlluniau blynyddol/adfer wedi Covid-19 sefydliadol.

**Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl flaenraglenni gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau corfforaethol a'r ffocws ar feysydd allweddol.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar ddiogelu Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnal a'r Rheolwr Corfforaethol Diogelu, ac fe'u hystyrir gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiadau'n darparu gwybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill o ran diogelu llesiant plant yng Ngheredigion. Trafodir yr wybodaeth reoli gan aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR (Ceredigion) i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r cyfarfodydd amlasiantaeth yn gyfle i bennu problemau o ran perfformiad a materion eraill yn y maes hwn, a gweithredu arnynt. Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y rhanbarth. Mae adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Diogelu Oedolion yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at weithgarwch a pherfformiad y gwasanaeth Diogelu Oedolion mewn gwahanol chwarteri a blynyddoedd blaenorol yn ogystal â nodi cyflawniadau allweddol a'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r prif feysydd gwaith a'r prif welliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried yn ei gyfarfodydd bob un o'r Adroddiadau rheolaidd ar y cofnod o benderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19.

## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Mae Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu Cynlluniau Ardal sy'n amlinellu'r amrywiaeth a lefel y gwasanaethau a gaiff eu darparu yn eu hardal mewn ymateb i Asesiadau o'r Boblogaeth rhanbarthol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd a rhaid i'r cynlluniau cychwynnol gael eu cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2019.




Mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2019-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' wedi cael ei gytuno gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau strategol y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu arnynt dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi trawsnewid ac integreiddio gofal a chymorth yn y rhanbarth.

Mae'r cynllun ar gael yma. Mae hefyd ar gael trwy'r porthol newydd, Porthol Data Gorllewin Cymru, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Uned Data Cymru. Mae hyn yn darparu mynediad i ystod eang o ddata am y boblogaeth a gwasanaethau ar gyfer y rhanbarth ac yn cynnig modd i'r cynllun gael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu datblygiadau lleol a chenedlaethol ac adrodd ar gynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein cynllun ni.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad rhanbarthol cyntaf ar gyfer Gorllewin Cymru. Pwrpas yr adroddiad yw asesu'r farchnad ar gyfer gwasanaethau i unigolion sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr, llywio camau gweithredu ac yn y pen draw gwella canlyniadau i bobl. Comisiynwyd yr adroddiad gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru sy'n dwyn ynghyd partneriaid o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a'r sector annibynnol gyda defnyddwyr a gofalwyr, a'r nod yw trawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth yn y rhanbarth. Cyflwynwyd y ddyletswydd gyfreithiol i baratoi adroddiad gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gydnabod bod y ffordd y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi newid yn aruthrol dros y degawdau diwethaf. Mae'r asesiad yn cynnwys dau asesiad rhyng-gysylltiedig: digonolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth; a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae'n cynnwys pob grŵp poblogaeth a phob gwasanaeth a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd y canfyddiadau a'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn helpu i lywio datblygiad gwasanaethau yng Ngheredigion ac ar draws y rhanbarth.

**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru:**

CYSUR yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Uno'r Rhanbarth yw CYSUR a dyma'r gair Cymraeg am dawelu meddwl hefyd.
Mae CYSUR yn gyfuniad o'r hen Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

CWMPAS yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion yw CWMPAS a dyma hefyd y gair Cymraeg am sgôp neu gylch gwaith.
Mae cylch gwaith CWMPAS hefyd yn ymestyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Sefydlwyd y trefniadau rhanbarthol i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod 2021-2022, roedd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithredu yn unol â'i rwymedigaethau statudol. Roedd swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Bwrdd yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae datblygu atebion creadigol i rai o'r heriau sylweddol y mae'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu ar lefel genedlaethol wedi bod yn faes allweddol arall o waith y Bwrdd eleni, yn ogystal â gweithredu polisïau a phrotocolau aml-asiantaeth allweddol sy'n cynnwys y Polisi a Gweithdrefn Ymddygiad Risg Uchel (gan gynnwys hunan-esgeuluso a chelcio). Mae llwyddiant digwyddiadau a gweithgareddau a ddarparwyd fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2021, o safbwynt ymgysylltu ac adborth, yn un enghraifft yn unig o sut y gellir manteisio ar ein defnydd creadigol o lwyfannau digidol a rhithiol yn llwyddiannus i gyrraedd cynulleidfaoedd amlasiantaethol mawr fel rhan o'n taith adfer wedi Covid.

Mae ymateb cydweithredol y Bwrdd i'r heriau parhaus, ynghyd â'n llwyddiannau a'n cyflawniadau, wedi parhau i ddangos pwysigrwydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'u gwaith yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Roedd Grŵp Gweithredol Covid-19 yn grŵp pwrpasol dros dro a sefydlwyd ym mis Mawrth 2020 i sicrhau ymateb effeithlon a chyson i bandemig Covid-19 ar draws gwasanaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y grŵp yn cynnwys uwch bartneriaid strategol a gweithredol aml-asiantaeth ar draws y rhanbarth. Cafodd ei ddiddymu yn ystod haf 2021 oherwydd ystyriwyd bod yr holl systemau a strwythurau angenrheidiol yn eu lle i reoli effeithiau'r pandemig ar wasanaethau ac arferion. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys parhau i ddefnyddio a gweithredu polisïau a fframweithiau rhanbarthol, gan

gynnwys proses uwchgyfeirio ranbarthol Covid-19 a'r polisi rheoli risg ar gyfer cartrefi gofal a nyrsio, a dogfennau trothwy Covid-19 a ddatblygwyd i gefnogi gwneud penderfyniadau diogel.

# 6. Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol

| Teitl | Lleoliad |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | _media_hq2fzckn_maww-safeguarding-board-annual-report-2021-22 (8).pdf |
| Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion Adroddiad Blynyddol 2021-2022 |  ADDED - Carer's Annual Report 2021-2 |
| Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru | Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025 – Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru(wwcp.org.uk) |
| Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru Chwefror 2022 | WWCP-MSR-Final-Feb-2022.pdf |
| Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2019-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' | http://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/West-Wales-Area-Plan-English-Final-Version-29-03-18.pdf |
| Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur | Strwythur Llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau – Cyngor Sir Ceredigion |
| Strategaeth Gydol Oed a Llesiant a Chynllun Gweithredu 2021-2027 | Cyflwyniad PowerPoint (ceredigion.gov.uk) 20211001-taw-strategy-action-plan-final-approved.pdf (ceredigion.gov.uk) |

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cabinet |
| **DYDDIAD:** | 2 Mai 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Hybrid |
| **TEITL:** | Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ynghylch Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023. |

**CEFNDIR:**

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022.

Diffinnir y ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y 'Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Bu oedi wrth gwblhau'r adroddiadau yn ystod yr argyfwng COVID-19.

Ni fyddai unrhyw reswm dros oedi wrth gynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn bresennol.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
Mae'r adroddiadau wedi'u llunio yn awr ac yn barod i'w cymeradwyo.

Ar ôl ystyried y mater, cytunodd yr Aelodau argymell y dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- Derbyn yr adroddiadau er gwybodaeth yn unig.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eu gwaith caled ac ymroddiad yn ystod cyfnod anodd.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Mai 2023 |
| **Teitl:** | Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion) Adroddiad Rheoli Perfformiad Y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2022/23 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod trydydd chwarter 2022/2023 |
| **Er:** | Gwybodaeth |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant |

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r plant sy'n derbyn gofal a adolygwyd yn ystod trydydd chwarter 2022/23.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail y wybodaeth yw'r ffurflenni monitro y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu cwblhau yn dilyn pob adolygiad statudol o blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiad statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc sy'n cael ei adolygu er mwyn nodi pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 1 person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc, ac os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad.

**CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:**

- Ar ddiwedd chwarter 3, roedd 122 o blant yn derbyn gofal o'i gymharu â 112 ar ddiwedd chwarter 2.
- Cafodd 116 o blant eu hadolygu yn y chwarter hwn o'i gymharu â 63 yn y chwarter blaenorol. Roedd y nifer fawr o adolygiadau a gwblhawyd yn y chwarter hwn o ganlyniad i ddechrau gwaith y tîm Innovate yn y sir. Cafodd adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal eu gohirio tan chwarter 3 pan oedd mwy o gapasiti, gydag Innovate yn dechrau, a chafodd achosion y plant eu hailneilltuo i weithwyr cymdeithasol newydd a allai gymryd rhan yn y broses adolygu. Cafodd 85.3% o blant eu hadolygu o fewn y terfynau amser statudol o'i gymharu ag 88.9% yn chwarter 2.
- Gadawodd 8 o blant ofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 6 yn chwarter 2. Dirymwyd Gorchmynion Gofal 6 o blant, dychwelodd 6 o blant adref at eu teulu, aeth 1 plentyn ymlaen i leoliad Pan Dwi'n Barod, ac aeth 1 plentyn i lety â chymorth neu fyw'n annibynnol neu leoliad cysylltu bywydau.
- Y ddarpariaeth lleoliadau ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd 13 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol, 24 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau (19 yn y sir, 5 y tu allan i'r sir), 22 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol (7 yn y sir, 15 y tu allan o'r sir), 15 o blant wedi'u lleoli gyda'u rhieni (12 yn y sir, 3 y tu allan i'r sir) a 12 mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir.
- Roedd 74 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 18 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 4 o dan Orchymyn Lleoli, ac 20 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 83.6% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu â 93.7% yn chwarter 2
- Cofnodwyd bod 42.9% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf. Roedd y ganran isel y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Dim ond 16.7% o'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn oedd â Chynllun Parhad yn ei le oedd wedi'i gytuno erbyn yr ail adolygiad. Mae hyn yn cymharu â 57.2% yn y chwarter blaenorol.
- Mae'r ffigurau faint o amser mewn gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion a adolygwyd yn chwarter 3 oedd 27 o dan 6 mis, 9 rhwng 6-12 mis, 19 rhwng 1-2 flynedd, a 61 dros 2 flynedd.
- Ar gyfer plant a adolygwyd a'u hail adolygiad neu adolygiadau dilynol, y cynlluniau parhad oedd yn eu lle oedd gofal maeth tymor hir ar gyfer 37 o blant, gofal gan berthnasau ar gyfer 17 o blant, tracio dwbl ar gyfer 15 o blant, lleoliad gyda rhiant ar gyfer 15 o blant, gofal preswyl ar gyfer 8 o blant, mabwysiadu ar gyfer 5 o blant, byw'n annibynnol ar gyfer 4 o blant ac adsefydlu yn ôl i rieni ar gyfer 1 plentyn.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) sy'n deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 95.3%.
- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 92.5%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 95.5%.

- Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 100%.
- Cynhaliwyd 17 o Gynlluniau Llwybr y chwarter hwn o'i gymharu â 33 yn chwarter 2.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 82.4%.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Na |
| | ***Crynodeb:*** Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion. | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| | **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| | **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Er mwyn sicrhau bod Awdurdod Lleol Ceredigion, ei swyddogion a'i bartneriaid diogelu yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Fframwaith Polisi:** | Strategaeth Gorfforaethol |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | O fewn y gyllideb graidd |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu. |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol |
| **Atodiadau:** | Atodiad A- Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2022/23 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal |
| **Swyddog Adrodd:** | Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu |
| **Dyddiad:** | 9 Mawrth 2023 |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 3: 1 Hydref 2022 – 31 Rhagfyr 2022

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

## CYNNWYS

TUDALEN:


| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **21** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **24** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **24** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **25** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **27** |

**ADRAN UN: CYFLWYNIAD**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

**MEINCNODI**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gweithredu ar gyfer 1 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch ag:*


Elizabeth Upcott
Gwasanaeth Diogelu
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

### 1. Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 3:

| Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf. | |
|---|---|
| 31 Rhagfyr 2022 | 122 |
| 30 Medi 2022 | 112 |
| 30 Mehefin 2022 | 105 |
| 31 Mawrth 2022 | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 97 |
| 30 Medi 2021 | 91 |
| 30 Mehefin 2021 | 89 |
| 31 Mawrth 2021 | 85 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 79 |
| 30 Medi 2020 | 75 |
| 30 Mehefin 2020 | 78 |




### 2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol


<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 85.3%</u>

Adolygwyd 116 o blant yn ystod y chwarter hwn.


- Cynhaliwyd 99 (85.3%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.
- Cynhaliwyd 17 (14.7%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn:-
    - Gohiriwyd pob adolygiad oherwydd materion staffio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Dechreuodd tîm Innovate ar ei waith yng Ngheredigion ym mis Medi 2022 ac o ganlyniad i sefydlu'r tîm roedd modd cynnal yr adolygiadau a ohiriwyd yn ystod y chwarter hwn. Mae hyn yn esbonio'r nifer uchel o adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn.

| | Hyd-Rhag 2022 | Gorff-Medi 2022 | Ebr-Meh 2022 | Ion-Maw 2022 | Hyd-Rhag 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 116 | 63 | 83 | 61 | 72 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 99 | 56 | 75 | 55 | 69 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 17 | 7 | 8 | 6 | 3 |





## 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:




**4. Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**

| Math o Leoliad | Yn y Sir | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 31 | | 31 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 19 | 5 | 24 |
| Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol | 7 | 15 | 22 |
| Lleoli â Rhieni | 12 | 3 | 15 |
| Arall | | | |
| Lleoli â Theulu | 1 | 1 | 2 |
| Preswyl | - | 12 | 12 |
| Mabwysiadu | - | 3 | 3 |
| Preswyl Mamau a Babanod | | | |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod | | | |
| Ysbyty | | | |
| Llety â Chymorth | | 7 | 7 |
| Byw'n Annibynnol | | | |
| | **70** | **46** | **116** |




## 5. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 74 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 18 |
| Gorchymyn Lleoli | 4 |
| Adran 76 | 20 |
| **Cyfanswm** | **116** |




## 6. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Y rheswm dros adael gofal | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mabwysiadu | Dychwelyd adref at y teulu | Pan dwi'n barod | Dirymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol/ Cysylltu Bywydau |
| **Hyd-Rhag 2022** | **8** | 0 | 6 | 1 | 0 | 1 |
| **Gorff-Medi 2022** | **6** | 1 | 1 | 1 | 3 | 0 |
| **Ebr-Meh 2022** | **2** | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Ion-Maw 2022** | **3** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **19** | **1** | **7** | **3** | **6** | **2** |



**7. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Cofnododd 116 (100.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 83.6%

- Derbyniodd 97 (83.6%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.
- Ni dderbyniodd 19 (16.4%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.





**Sylwadau**: Mae'r capasiti staffio o fewn y timau yn cael effaith ar ymweliadau statudol yn cael eu cynnal a/neu eu diweddaru ar y gronfa ddata.

**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 42.9%

- Dechreuodd 14 o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 6 (42.9%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn/person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 8 plentyn/person ifanc arall.




- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 29 o blant. Nodwyd bod angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth o hyd ar gyfer 19 plentyn/person ifanc.

**10. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 16.7%


- Cynhaliwyd 12 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnododd 2 (16.7%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu â 57.2% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 20 (17.2%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/Cynllun Parhad.


  Roedd natur y pryderon fel a ganlyn: -

  - Ar gyfer 1 person ifanc nodwyd bod Proses Llys yn parhau.
  - Adolygwyd 1 person ifanc ddwywaith yn ystod y cyfnod, cofnodwyd bod cynlluniau mabwysiadu gan ofalwr maeth tymor hir blaenorol wedi methu oherwydd problemau yn y lleoliad a symud lleoliad wedi hynny (roedd y broses fabwysiadu honno wedi llithro), ac erbyn hyn roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol am leihau llithro pellach trwy gadarnhau cynllun newydd a mynd â'r mater yn ôl i'r llys.
  - Proses llys yn parhau ac Asesiad Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael ei gydnabod fel oedi ar gyfer 1 person ifanc.
  - Adolygwyd 1 person ifanc ddwywaith yn ystod y cyfnod a nodwyd llithro yn y ddau adolygiad, sef bod y person ifanc mewn lleoliad heb ei reoleiddio.
  - Ar gyfer person ifanc arall oedd yn treulio amser rhwng ei rieni yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, bu oedi wrth drafod ac asesu ynghylch y posibilrwydd o ddirymu'r Gorchymyn Gofal.


- Nodwyd nad oedd unrhyw Gynllun Parhad wedi ei drafod ar gyfer teulu o 3 o blant.
- Bu oedi wrth baru/gwneud penderfyniad mabwysiadu yn bryder yn y llithro ar gyfer 1 person ifanc, ac oedi o ran gwybodaeth ynghylch cefnogi cais am newid mewn statws cyfreithiol wedi'i gofnodi ar gyfer person ifanc arall.
- Roedd y Cynllun yn lleoliad maethu tymor hir ar gyfer 1 person ifanc ond roedd hyn yn aneglur gan fod y person ifanc mewn lleoliad preswyl ac efallai y byddai angen ailasesu'r rhiant i ofalu am berson ifanc.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y person ifanc yn mynychu coleg a phryderon eraill ar gyfer 1 person ifanc, ac ar gyfer person ifanc arall roedd llithro o ran cael lleoliad "tymor hir". Roedd y person ifanc yn ymwybodol nad oedd y lleoliad presennol yn un tymor hir ac roedd yn ei chael yn anodd ymgartrefi. Cafodd hyn ei godi gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol oherwydd mae'r sefyllfa hon wedi bodoli ers dros flwyddyn.
- Roedd asesiad dirymu Gorchymyn Gofal heb ei gwblhau o hyd/cais dirymu heb gael ei wneud i'r llys ar gyfer 1 person ifanc.
- Ar gyfer teulu o 2 o blant bu oedi gyda'r asesiad gydag 1 o'r plant yn nodi hyn fel pryder, ac yn achos teulu arall o 2 o blant roedd pryderon parhaus am berthynas wenwynig rhwng y rhieni ac effaith emosiynol hyn ar y plant, ac nid oedd unrhyw gysylltiad gydag 1 o'r rhieni.




## 11. Faint o Amser Mewn Gofal



## 12. Natur y Cynlluniau Parhad




## 13. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr

- Nododd 9 (7.8%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod y plentyn/person ifanc yn derbyn gofal seibiant tymor byr gan rywun heblaw ei brif ofalwr. Nododd 1 adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nad oedd y lleoliad seibiant yn ateb anghenion y person ifanc oherwydd bod angen lleoliad parhaol newydd ar gyfer y person ifanc.


## 14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion

<u>Targed a bennwyd: 100% Targed a bennwyd 17.6%</u>

- Mewn 3 (17.6%) adolygiad o berson ifanc cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.

- Mewn 14 (82.4%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu.

- Nododd 13 o'r adolygiadau uchod fod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar gyfer y bobl ifanc gyda 3 adolygiad arall yn cofnodi bod Ymgynghorydd Personol eisoes wedi'i benodi.




**15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn derbyn gofal**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.3%</u>

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 86 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 30 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.
- Roedd 82 (95.3%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth ynghylch pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw eu teuluoedd o'i gymharu â 97.3% yn y chwarter blaenorol.
- Nododd 4 (4.7%) adolygiad nad oedd yn glir a oedd y plentyn/person ifanc yn deall y rhesymau pam eu bod yn derbyn gofal.

**16. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 85 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 31 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 73 (85.9%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).
- Nododd 12 (14.1%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

## 17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal

- Mewn 16 (13.8%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu ag 19.0% yn y chwarter blaenorol.

  Y rhesymau dros newid lleoliad oedd:

- ➢ Symudwyd 1 person ifanc o leoliad maethu/mabwysiadu tymor hir i leoliad maethu Asiantaeth Faethu Annibynnol, a symudodd 1 person ifanc arall oherwydd bod y lleoliad wedi methu.
- ➢ Symudodd 1 person ifanc arall o leoliad gofal maeth i fyw gyda'i riant.
- ➢ Ar gyfer teulu o 2 o blant cawsant eu symud fel y cynlluniwyd i leoliad mabwysiadu, ac ar gyfer teulu arall o 3 o blant cofnodwyd eu bod wedi symud fel y cynlluniwyd o aelodau'r teulu i leoliad maethu tymor hir.
- ➢ Symudodd 1 person ifanc o ofalwyr maeth i aelodau'r teulu.
- ➢ Ar gyfer teulu o 2 o blant roedd cynlluniau i symud o ofalwyr maeth i leoliad tymor hir gyda'r teulu.
- ➢ Ar gyfer 1 person ifanc cafodd ei symud fel y cynlluniwyd o aelodau'r teulu i fyw gyda'i fam-gu oherwydd pryder diogelu.
- ➢ Ar gyfer 1 person cafodd ei symud fel y cynlluniwyd tra ei fod aros am leoliad diogel addas arall.
- ➢ Symudodd 1 person ifanc o leoliad tymor byr heb ei reoleiddio i leoliad preswyl tymor hir oedd wedi methu, ac yna symudodd i leoliad tymor byr gyda gofalwyr maeth
- ➢ Roedd 1 person ifanc a leolwyd gyda theulu wedi cael lleoliad seibiant a gafodd ei ymestyn i leoliad tymor byr er mwyn gallu cael hyd i leoliad parhaol newydd.
- ➢ Ar ôl cael ei ofalu amdano ar gyfer seibiant byr wedi'i gynllunio, symudodd 1 person ifanc o'i leoliad gan fod angen cyfnod hwy o lety arno oherwydd pryderon diogelu.

## 18. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 94.8%</u>

- Cofnodwyd bod 110 (94.8%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc o'i gymharu â 92.1% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 6 (5.2%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -

  - ➢ Roedd pryderon mawr am y niwed emosiynol a achosir gan y gofalwyr mabwysiadu ar gyfer 1 person ifanc a diffyg cydweithio ac osgoi gweithwyr proffesiynol.
  - ➢ Nid oedd cyfarfod addysg wedi'i gynnal i gefnogi mynediad i'r ysgol ar gyfer 1 person ifanc, ac roedd hwn i'w drefnu yn dilyn yr adolygiad.

- Mae'r person ifanc yn ymwybodol bod y lleoliad presennol yn un tymor byr/dros dro, a thra chydnabyddir nad yw'n bodloni holl anghenion y person ifanc, nid yw'r person ifanc yn gallu ymgartrefu'n llawn oherwydd ei fod yn gwybod mai'r bwriad yw symud i leoliad arall
- Bu oedi wrth gwblhau Asesiad Iechyd oherwydd lleoliad y tu allan i'r sir ac mae'r person ifanc ar restr aros i fynd i'r coleg ond dim lleoedd ar gael a dim amserlen i ddangos pryd y bydd lle ar gael.
- Pryderon ynglŷn â lleoliad sy'n 'dal' person ifanc yn hytrach na darparu strwythur a datblygu/cefnogi anghenion cymhleth y person ifanc.
- Person ifanc yn mynd ar goll o'r lleoliad ac yn cael ei ddwyn yn ôl gan yr heddlu. Ni all gofalwyr maeth gefnogi'r person ifanc yn y lleoliad hwn mwyach ac rydym yn chwilio ar frys am leoliad newydd.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn**

- Mewn 6 (5.2%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

**20. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant**

- Nodwyd mewn 4 (3.4%) adolygiad bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.


**21. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.6%

- Roedd 109 (95.6%) o'r plant/pobl Ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd cyfredol adeg eu hadolygiad o'i gymharu ag 88.9% yn y chwarter blaenorol.

- Ni chafodd 5 (4.4%) o blant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal asesiad iechyd diweddar yn eu hadolygiad; yn achos 2 o'r bobl ifanc hyn roedd yr oedi oherwydd prinder ymwelwyr iechyd ac yn achos 3 pherson ifanc arall roedd yr oedi oherwydd bod y bobl ifanc wedi cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Cofnodwyd ar gyfer 1 o'r bobl ifanc hyn bod oedi hefyd o ran hysbysu asiantaethau o statws y person ifanc fel plentyn sy'n derbyn gofal. Mae gan yr holl bobl ifanc hyn asesiad iechyd yn ei le erbyn hyn.

- Cofnodwyd mewn 2 adolygiad bod y rhiant wedi gwrthod asesiad iechyd, felly tynnwyd y rhain allan o'r hafaliad.




**22. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal**

Targed a bennwyd: 100% Targed a bennwyd 83.3%

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud â 12 plentyn/person ifanc.

- Mewn 10 (83.3%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.
- Mewn 2 (16.7%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

**********

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 102 o blant/pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 14 plentyn/person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 96 (94.1%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu ag 86.0% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd angen i 6 (5.9%) plentyn/person ifanc gofrestru gyda deintydd.

| |
|---|
| **Sylwadau**: Lleolir yr holl blant hyn y tu allan i'r sir ac eithrio 1 plentyn sy'n 6 mis oed. |

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 11 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 9 adolygiad (81.8%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Cofnodwyd mewn 2 adolygiad (18.2%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

**Sylwadau:** Cafodd y ddau berson ifanc hyn eu lleoli y tu allan i'r sir.


**********

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

<u>Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 74.5%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 98 o blant/pobl ifanc gan fod 18 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 73 (74.5%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 71.4% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnodwyd nad oedd 25 (25.5%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad**

- Mewn 29 (96.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Mewn 1 (3.3%) adolygiad nodwyd bod y cam gweithredu hwn yn parhau heb ei gyflawni adeg yr adolygiad; fodd bynnag, mae'r cam hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae'r plentyn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu sy'n lleol i'w leoliad.

**25. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Roedd 116 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 95 (86.4%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.

- Roedd 15 (13.6%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 7 o'r bobl ifanc hyn yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes brechu blaenorol anghyflawn.
  Mae angen mwy o eglurder ar gyfer ambell i berson ifanc oedd heb gael brechiadau.

Cafodd 6 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant/person ifanc yn gwrthod cael brechiadau.

**26. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth**

<u>Targed: 50%</u>

<u>Perfformiad Gwirioneddol</u>

- Mewn 5 (4.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal, cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd mewn 4 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.


- Mewn 97 (83.6%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal, cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod yr asesiad iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 19 (16.4%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried. Roedd 3 o'r adolygiadau hyn ar gyfer babanod.

## 27. Natur y ddarpariaeth addysg

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

| Darpariaeth Addysg | |
|---|---|
| Plant cyn-ysgol | 17 |
| Disgyblion ysgol gynradd | 46 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 34 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol | 4 |
| Coleg | 4 |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 9 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | 2 |
| Colli addysg | |
| Preswyl | |
| Wedi gadael yr ysgol | |
| Tiwtora | |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **116** |



**28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd**

<u>Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.9%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 74 o blant/pobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 72 (97.3%) o blant a phobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.

    - Mewn 20 (90.9%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu 20 diwrnod ysgol ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.

    - Mewn 52 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

    - Mewn 2 (2.7%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn y terfynau amser, ond cawsant eu cwblhau wedi hynny.

***

- Roedd gan 18 (96.1%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol uchel cydnabyddedig.

***

- Mewn 31 (38.3%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 31 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

***

- Mewn 12 (92.3%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 2 (7.7%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

***

- Mewn 1 (1.4%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod tra ei fod aros am le mewn ysgol

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 9.5%

- Mewn 7 (9.5%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o'i gymharu â 5.3% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%
Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd:
6 sesiwn, cyfanswm o 3 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

**1. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 88 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 28 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 2 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 88 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Roedd 38 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu ar Teams.
  Roedd 50 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori, wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cafodd y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol â 9 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

**2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 92.5%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 94 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 22 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 87 (92.5%) plentyn/person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

Yn ystod cyfyngiadau Covid-19, byddai'r gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei wahodd i'r holl adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a oedd yn cael eu cynnal yn rhithiol a byddai'r eiriolwyr yn mynychu'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, yn ystod y chwarter hwn, oherwydd bod cyfyngiadau'n cael eu codi, mae'r gwasanaeth eirioli bellach yn gallu cynnal mwy o ymweliadau wyneb yn wyneb â phlant/pobl ifanc, ac felly nid ydynt bob amser yn gallu mynychu pob adolygiad o blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, lle bernir ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, byddant yn mynychu.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.3%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 73 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 43 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 71 (97.3%) plentyn/person ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o'i gymharu â 100% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 2 (2.7%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn aneglur/ddim yn ymwybodol a oedd y plentyn/person ifanc yn gwybod am y broses gwyno.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 101 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 15 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 101 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 101 adolygiad.
Mewn 54 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 101 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 15 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 101 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 81.9%</u>

- Mewn 95 (81.9%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.
- Mewn 21 (18.1%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

| |
|---|
| **Sylwadau:** Pan fydd y person ifanc yn cael ei leoli y tu allan i'r ardal mae angen anfon y gwahoddiad iechyd at y tîm iechyd lletyol, ac rydym yn parhau i geisio gwella'r wybodaeth a dderbynnir. |

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 93.7%</u>

- Mewn 74 (93.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 90.5% yn y chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 69.8%</u>

- Mewn 81 (69.8%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 68.3% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 35 (30.2%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

| |
|---|
| **Sylwadau**: Mae'r capasiti staffio wedi cael effaith ar ddogfennau'n cael eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol cyn adolygiadau yn y chwarter hwn. |

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 5 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiadau yn gynharach pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 17 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

- Cynhaliwyd 12 (70.6%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybrau o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 72.7% yn y chwarter blaenorol.

- Cynhaliwyd 5 (29.4%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -

  - Aildrefnwyd 2 adolygiad oherwydd argaeledd y person ifanc.
  - Cafodd 3 adolygiad pellach eu hoedi er mwyn i weithwyr proffesiynol fod yn bresennol.

2 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**

- Ym mhob un o'r 17 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 13 (76.5%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o'i gymharu â 69.7% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 4 (23.5%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**

- Cadarnhawyd mewn 14 (82.4%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a/neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

- Mewn 5 (29.4%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

- Mewn 12 (70.6%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

6 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc**

- Mewn 15 (88.2%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 2 (11.8%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc; roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn:-

  - Roedd 1 person ifanc yn anhapus oherwydd gwrthdaro a thensiwn rhwng y person ifanc a'r gofalwyr.

  - Yn achos person ifanc arall roedd pryder nad oedd y person ifanc yn y lleoliad ac nid oedd yn ymgysylltu â'r gwasanaethau a gynigiwyd.

7 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/pen-blwydd yn 18 oed**

- Nid oedd unrhyw un o'r bobl ifanc a adolygwyd wedi gadael gofal yn ystod eu cyfnod adolygu.

**8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

# Cyngor Sir Ceredigion

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad:** 2 Mai 2023

**Amser:** 10:00am

**Teitl:** Argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023 i ystyried Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3, 2022-2023

**CEFNDIR:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023, ystyriwyd Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2022/2023 er mwyn monitro cynnydd y Plant sy'n Derbyn Gofal ar sail gwaith craffu'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ar eu cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod trydydd chwarter 2022/2023. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i'r Swyddogion am eu gwaith caled parhaus a gofynnwyd i'r neges gael ei throsglwyddo i holl staff y gwasanaeth.

**ARGYMHELLIAD:**

Yn dilyn trafodaeth, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cabinet:

- nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***